Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (CYMRU)**

Memorandwm Esboniadol
yn ymgorfforí'r
Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol

**Mai 2025**

**Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

**Memorandwm Esboniadol i'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Tai ac Adfywio yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

**Datganiad yr Aelod**

Yn fy marn i, byddai darpariaethau'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynwyd gennyf ar 19 Mai 2025, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

**Jayne Bryant AS**

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Yr Aelod o'r Senedd sy'n gyfrifol am y Bil

19 Mai 2025

**Tudalen cynnwys**

**RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL**


1. Disgrifiad 3
2. Cymhwysedd Deddfwriaethol 4
3. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth 5
4. Ymgynghori 38
5. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth 64


**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**


6. Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol 81
7. Strwythur yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol 85
8. Opsiynau, Costau a manteision 89
9. Asesiad Fforddiadwyedd 189
10. Y Prawf Hidlo’r Gystadleuaeth 192
11. Asesiadau Effaith 196
12. Adolygu ar ôl gweithredu 205

**ATODIAD 1 – Nodiadau Esboniadol 208**
**ATODIAD 2 – Mynegai o’r Rheolau Sefydlog 238**
**ATODIAD 3 – Tabl Tarddiadau 244**
**ATODIAD 4 – Atodlen o Ddiwygiadau 252**

## RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

**Pennod 1:** Disgrifiad

1. Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol ynglŷn â digartrefedd a thai yng Nghymru drwy ddiwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (Digartrefedd) a Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 (Dyrannu tai preswyl) er mwyn gwella prosesau atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Bydd y Bil yn gwneud y canlynol:

    - Ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai sydd ei angen fwyaf.
    - Ehangu cyfrifoldeb i rai awdurdodau cyhoeddus penodedig am adnabod unigolion sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac ymateb yn effeithiol.
    - Blaenoriaethu'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.

## Pennod 2: Cymhwysedd Deddfwriaethol

1. Mae gan Senedd Cymru ("y Senedd") y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil") yn unol ag Adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017[1].

[1] DS. mae adrannau 21 a 32 yn gwneud darpariaeth i osod swyddogaethau ar "reserved authorities" o fewn ystyr Atodlen 7B i Ddeddf 2006 (gan gynnwys rhai o Weinidogion y Goron). Mae adrannau 21 a 32 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy is-ddeddfwriaeth i osod y swyddogaethau hynny ar awdurdodau a gedwir yn ôl (gan gynnwys Gweinidogion y Goron) neu dynnu'r swyddogaethau hynny oddi ar awdurdodau a gedwir yn ôl (gan gynnwys Gweinidogion y Goron) yn y dyfodol. Mae adran 14(7) yn addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl. Mae adran 22 yn addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl, gan gynnwys rhai o Weinidogion y Goron. Felly, yn unol ag Atodlen 7B i Ddeddf 2006, mae'r darpariaethau hynny o fewn cymhwysedd os bydd Gweinidogion perthnasol y Goron yn roi cydsyniad (neu os ymgynghorir â nhw, fel y bo'n briodol) mewn perthynas â nhw. Mae cydsyniad Gweinidogion y Goron (ac ymgynghoriad â nhw) wedi cael ei geisio ond nid yw cydsyniad wedi cael ei roi eto ar adeg drafftio'r Memorandwm Esboniadol hwn.

**Pennod 3: Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth**

**<u>Digartrefedd yng Nghymru</u>**

1. Sefydlwyd y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), Deddf Tai 1996 ("Deddf 1996") a'r rheoliadau perthnasol a wneir o dan y deddfau hyn. Yn y degawd ers i Lywodraeth Cymru gyflwyno Deddf 2014, mae'r profiad o ddigartrefedd yng Nghymru a'r ymateb iddo wedi newid yn ddiwrthdro. Mae pandemig y Coronafeirws, yr ymateb dyngarol i'r rhyfel yn Wcráin, a'r argyfwng costau byw wedi arwain at heriau cronnol i aelwydydd yng Nghymru, ac wedi rhoi cryn bwysau ar wasanaethau digartrefedd ledled Cymru o ganlyniad i hynny.

2. Gellir dadlau mai'r ffactor allanol mwyaf arwyddocaol oedd pandemig COVID-19. Ar ddechrau 2020, wrth i ddifrifoldeb posibl y pandemig ddod yn hysbys, rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a chyllid ychwanegol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pawb a gysylltodd â gwasanaethau digartrefedd heb lety yn cael y llety a'r cymorth roedd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel. Cafodd hyn ei alw'n bolisi 'neb heb help'. Os oedd angen, gofynnwyd i awdurdodau gaffael lle mewn llety gwely a brecwast (ynghyd â mathau eraill o lety dros dro, gan gynnwys gwestai). Yn ddealladwy ddigon, arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer y bobl a oedd yn aros mewn safleoedd o'r fath. Roedd hyn yn angenrheidiol am nad oedd llety arall ar gael ac er mwyn lliniaru risgiau i iechyd y cyhoedd a helpu pobl a fyddai wedi bod yn ddigartref ac ar y stryd neu'n mynd o soffa i soffa yn flaenorol.

3. Rhwng dechrau pandemig COVID-19 a diwedd mis Mehefin 2023, cynorthwywyd mwy na 38,600 o bobl ddigartref drwy ddarparu llety dros dro brys.

4. Wrth i'r pandemig lacio, y disgwyliad oedd y byddai lleihad cyfatebol yn nifer y bobl ddigartref. Nid felly y bu, a hynny'n bennaf oherwydd pwysau eraill ar aelwydydd yn sgil yr argyfwng costau byw a'r pwysau ehangach ar y cyflenwad tai.

5. Ar adeg ysgrifennu, roedd 11,203 o unigolion yn byw mewn llety dros dro yng Nghymru, yr oedd 2,679 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed. Mae 30% o'r unigolion hyn, y mae 12% ohonynt yn blant dibynnol o dan 16 oed, yn aros mewn llety gwely a brecwast a gwestai. Gwyddys bod tua 119 o unigolion, yn ôl amcangyfrif, yn cysgu allan yng Nghymru. Mae digartrefedd mynych yn broblem sylweddol sy'n achos cryn ofid, gyda 14% o'r unigolion hynny mewn llety dros dro, ar ôl cael eu rhoi mewn llety dros dro yn flaenorol o fewn y 12 mis diwethaf.

6. Felly, nid yw'r ffordd y darperir gwasanaethau digartrefedd ar hyn o bryd yn gynaliadwy ac nid yw'n rhoi digon o ffocws at atal digartrefedd. Ers cychwyn Deddf 2014, mae cyfraddau atal wedi arafu ac wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. At hynny, mae lefelau

digartrefedd mynych yn uchel ac mae'r system yn gostus iawn i'w darparu. Gall cyfnodau hir mewn llety dros dro arwain at effeithiau negyddol i unigolion. Er mwyn ymdrin â hyn, ochr yn ochr ag arferion ehangach, newidiadau polisi a buddsoddiad yn y cyflenwad tai, mae angen diwygio deddfwriaethol er mwyn sicrhau trawsnewidiad systemig sy'n ei gwneud yn bosibl i atal digartrefedd yn fwy effeithiol, sy'n rhoi gwasanaeth mwy personol, effeithiol i'r rhai sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yng Nghymru ac sy'n gwneud gwell defnydd o'r cyflenwad llety i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

**Cyd-destun**

7. Fel y'i nodwyd yn adran 4 (ymgynghori), mae'r Bil yn cael ei gyflwyno ar ôl blynyddoedd o ymgysylltu a chydgynhyrchu â rhanddeiliaid. Dechreuwyd ar hyn drwy waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a thrwy gyhoeddi ein strategaeth yn 2019, a gafodd ei llywio gan ein hymateb i bandemig byd-eang a'r argyfwng costau byw presennol a'i mireinio gan Banel Adolygu Arbenigol. Mae'r Bil yn seiliedig ar sylfeini tystiolaethol cadarn ac mae wedi cael ei lywio gan safbwyntiau rhanddeiliaid ar bob cam o'r broses.

8. Mae nodau'r Bil yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn Rhan 2 o Ddeddf 2014, a fu'n allweddol o ran sefydlu system ddigartrefedd yn seiliedig ar atal, ynghyd â llai o bwyslais ar y cysyniad o "brofi" i gael gafael ar wasanaethau, gan ehangu opsiynau llety a meithrin cydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

9. Er ei bod yn drawsnewidiol ar y pryd, nododd y gwerthusiad o ddeddfwriaeth 2014 heriau o hyd i gyflawni nodau allweddol mewn perthynas ag atal digartrefedd a digartrefedd mynych.[2] Mae Monitor Digartrefedd Cymru (2021) hefyd yn nodi bod mwy o bobl wedi ceisio cymorth ers 2014, ond bod y cyfraddau llwyddiant o ran atal a lleddfu digartrefedd yn aros yn ddigyfnewid.[3]

10. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol wedi dyddio bellach ac nid yw'n rhoi ymateb digonol i'r cynnydd digynsail yn y galw ar hyn o bryd na'r pwysau sy'n gysylltiedig â digartrefedd yng Nghymru sy'n dod i'r amlwg. Nod y Bil yw gwella'r system ddigartrefedd fel y gall ymateb yn well i'r pwysau a wynebir heddiw, a darparu system gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn adddas ar gyfer anghenion y dyfodol.

[2] Gwerthusiad o Ddeddfwriaeth Digartrefedd (Rhan 2 O Ddeddf Tai (Cymru) 2014): adroddiad terfynol | LLYW.CYMRU

[3] Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis

**Trosolwg cyffredinol o'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

11. Bil diwygio yw hwn. Mae'n nodi nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 2014, Deddf Tai 1996 (Deddf 1996) ac, i raddau llai, Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hefyd yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau newydd i ddiwygio'r systemau digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae i'r Bil dair rhan; mae rhan 1 yn canolbwyntio ar ddigartrefedd; mae rhan 2 yn canolbwyntio ar ddyrannu tai cymdeithasol ac mae rhan 3 yn gwneud darpariaeth gyffredinol, gan gynnwys diffiniadau o dermau a ddefnyddir yn y Bil, darpariaeth sy'n cyflwyno atodlen o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, darpariaeth i roi pŵer i wneud darpariaethau atodol, canlyniadol, trosiannol neu arbed mewn rheoliadau a darpariaeth i ddwyn darpariaethau'r Bil i rym.

12. Mae'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yn nodi'r egwyddorion gweithredol y cynigiwyd y diwygiadau deddfwriaethol ym maes digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol yn unol â nhw. Erys y rhain yn greiddiol i'r Bil sydd wedi cael ei ddrafftio i ddarparu system sy'n seiliedig ar y canlynol:

- Dylai digartrefedd fod yn beth prin a byrhoedlog nad yw'n ailddigwydd.
- Dylai gwasanaethau digartrefedd fod yn ystyriol o drawma a chanolbwyntio ar yr unigolyn.
- Dylai fod modd i'r rhai sy'n ddigartref gael eu cartrefu yn yr hirdymor yn gyflym, gan eu gwneud yn fwy hunangynhaliol a'u helpu i gadw eu cartrref (Ailgartrefu Cyflym).
- Gwasanaeth cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am atal digartrefedd.

13. Y ddwy brif her sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth digartrefedd yw rheoli'r galw cynyddol ar flaen y system a gwella'r llif o bobl drwy'r system i mewn i lety addas a chynaliadwy. Bydd y rhan gyntaf o'r Bil yn sicrhau bod gwasanaethau digartrefedd yn rhoi ffocws o'r newydd ar atal, gyda phwyslais cryfach ar nodi ac ymyrryd yn gynnar. Bydd yn ehangu mynediad at y system ddigartrefedd ac yn targedu cymorth ychwanegol at y rhai sydd ei angen mwyaf. Drwyddo bydd modd mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn ystyried achosion sylfaenol digartrefedd ac yn ymdrin ag anghenion cymorth unigolion yn well, ac a fydd yn ehangu'r cyfrifoldeb am hyn i'r gwasanaeth cyhoeddus cyfan yng Nghymru. Bydd yr ail ran o'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i gynyddu'r llif drwy'r system ddigartrefedd drwy dargedu a defnyddio tai cymdeithasol cyfyngedig ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf.

14. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn nifer o feysydd. Mae angen pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd penodol er mwyn cynnig ffordd fwy hyblyg a chynnil o weithredu sy'n gynaliadwy.

Bydd y pwerau hyn i wneud is-deddfwriaeth, yn y rhan fwyaf o achosion yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Diben ac effaith fwriadedig y darpariaethau

### Rhan 1: Digartrefedd

### Atal

*Ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd"*

15. Mae Deddf 2014 yn darparu y bydd person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn mynd yn ddigartref o fewn 56 diwrnod. Mae adran 66 o Ddeddf 2014 yn nodi bod yn rhaid i awdurdod tai lleol helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i geisydd ei feddiannu os yw'r awdurdod wedi'i fodloni bod y ceisydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, ac yn gymwys i gael cymorth. Mae adran 64 yn nodi enghreifftiau o'r camau rhesymol y gall yr awdurdod tai lleol eu cymryd i helpu i sicrhau bod llety ar gael ac mae'r Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd ("y Cod Canllawiau") yn rhoi rhagor o fanylion a rhestr o'r ymyriadau gofynnol y dylai fod ar waith gan bob awdurdod lleol, (nad yw'n rhestr o'r ymyriadau gofynnol ar gyfer pob ceisydd).

16. Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2014 fel y bydd person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â meddiannu ei lety, os yw cais wedi cael ei wneud i'r Uchel Lys neu'r llys sirol i'w feddiannu neu os yw'n debygol y bydd y person yn mynd yn ddigartref o fewn chwe mis.

17. Nod y diwygiad hwn yw estyn y cyfnod o amser pan fydd awdurdod lleol yn gallu gweithio gyda cheisydd i'w atal rhag mynd yn ddigartref a rhoi eglurder i awdurdodau lleol a cheiswyr bod hysbysiadau yn ceisio meddiannaeth yn fygythiad o ddigartrefedd. Mae angen gwneud hyn am sawl rheswm.

### Galw cynyddol

18. Mae'r galw am wasanaethau digartrefedd sy'n parhau i gynyddu (a ddisgrifir uchod) wedi arwain at lwythi achosion mawr ar gyfer gwasanaethau digartrefedd, na welwyd eu tebyg o'r blaen, sy'n gorfodi awdurdodau i ymateb yn adweithiol mewn argyfwng ac yn lleihau eu gallu i ymgymryd â gweithgarwch effeithiol â ffocws ar atal digartrefedd. Drwy gydol y cyfnod ymgysylltu ac ymgynghori, mae awdurdodau lleol wedi gofyn am fwy o amser (ochr yn ochr ag adnoddau ychwanegol) i ymgymryd â gwaith ataliol.

**Ymyrryd yn gynharach**

19. Yn ddiwylliannol, mae awdurdodau lleol yn awgrymu, o ran yr hyn y mae'r cyhoedd yn ei ddeall am y gwasanaethau digartrefedd a ddarperir gan y cyngor, mai mewn argyfwng y mae'r gwasanaethau hyn ar gael ac, felly, fod pobl yn cysylltu â gwasanaethau ar gam hwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar y gwaith atal y gall awdurdodau lleol ei wneud. Y bwriad (sydd wedi'i ategu gan ymdrechion ehangach i gyfathrebu a'r ddyletswydd "gofyn a gweithredu" a nodir isod), yw y bydd y cyfnod atal estynedig yn annog ceiswyr i gysylltu'n gynharach, cyn bod eu sefyllfa wedi dwysáu ac wedi mynd yn fwy cymhleth. Felly, bydd awdurdodau lleol yn cael gwell cyfle i atal digartrefedd.

**Cysoni â deddfwriaeth ehangach**

20. Er bod nifer o ffactorau yn arwain at ddigartrefedd, y rheswm dros geisiadau digartrefedd yng Nghymru a gofnodir fwyaf yw bod tenantiaeth neu gontract meddiannaeth wedi dod i ben.[4] O dan Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') gall deiliad contract safonol cyfnodol gael Hysbysiad Ceisio Meddiant "ar sail heb fai" gan landlord, sy'n rhoi rhybudd o 6 mis o leiaf cyn y daw ei gontract meddiannaeth i ben.

21. Mae'r cyfnod atal estynedig yn golygu bod deddfwriaeth digartrefedd yn gyson â Deddf 2016 fel y bydd aelwydydd y cyflwynir hysbysiad ceisio meddiant iddynt yn gallu cysylltu â'r awdurdod lleol cyn gynted ag y byddant yn cael yr hysbysiad. Bydd hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael cymaint o amser â phosibl i atal digartrefedd neu, os nad yw hyn yn bosibl, nodi opsiynau tai amgen i geiswyr, na fyddant yn arwain at ddigartrefedd.

*Helpu i atal ceisydd rhag mynd yn ddigartref*

22. Fel yr amlinellir uchod, mae'r pwysau presennol yn y system ddigartrefedd wedi cael effaith negyddol ar weithgarwch atal digartrefedd, gan ddwysáu'r problemau o ran cyflenwad a chyfyngu'n sylweddol ar yr opsiynau i geiswyr. Mae'n bwysig bod camau atal mwy effeithiol yn cael eu cymryd i'w gwneud yn bosibl i fwy o bobl aros yn eu cartrefi.

23. Fel rhan o nod ehangach i wella gweithgarwch atal, bydd y Bil yn dileu adran 65 o Ddeddf 2014 ac yn cryfhau'r geiriad yn adran 66 fel bod yn rhaid i'r awdurdod lleol helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw. Ynghyd â'r cyfnod atal estynedig, rydym yn anelu at sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau atal mwy effeithiol, ac yn gynt.

[4] Aelwydydd a ganfuwyd sy'n gymwys, yn ddigartref yn amodol ar ddyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl math o aelwyd (adran 73)

24. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw ei phwerau presennol i wneud gorchymyn o dan Ddeddf 2014 i bennu amgylchiadau eraill lle y gellir ystyried ei bod yn rhesymol aros mewn llety ai peidio. Mae gallu Gweinidogion Cymru i nodi amgylchiadau ychwanegol yn rhoi hyblygrwydd i addasu i amodau ac anghenion tai sy'n newid.

*Dyletswydd i asesu a hysbysiad o ganlyniad asesiad*

25. Mae adran 62 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol gynnal asesiad o berson sydd wedi gwneud cais am gymorth, yr ymddengys i'r awdurdod tai lleol ei fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, ac y mae ei amgylchiadau wedi newid mewn ffordd berthnasol ers unrhyw asesiad blaenorol. Mae adran 62(5) a (6) yn nodi'r hyn sydd i'w gynnwys yn yr asesiad a'r hyn y mae'n rhaid i'r awdurdod ei wneud wrth gynnal yr asesiad, gan gynnwys ceisio nodi'r canlyniad y mae'r ceisydd yn dymuno ei sicrhau o ganlyniad i gymorth yr awdurdod.

26. Mae'r Bil yn diwygio adran 62 o Ddeddf 2014 er mwyn sicrhau bod y broses asesu yn dod yn un sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd yn ofynnol i'r asesiad gynnwys y cymorth a all fod ei angen ar geisydd i oresgyn unrhyw rwystr y gallai ei wynebu sy'n ei atal rhag byw'n annibynnol. Bydd yn ofynnol hefyd i awdurdodau tai lleol geisio barn y ceisydd, a gwneud ymholiadau sy'n berthnasol i'r asesiad ynglŷn â nodweddion personol ac amgylchiadau'r ceisydd ac unrhyw berson sy'n byw gyda'r ceisydd neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gyda'r ceisydd.

27. Mae'r rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wedi dweud eu bod yn aml yn teimlo nad oedd neb yn gwrando arnynt pan oeddent yn esbonio eu hamgylchiadau neu eu hanghenion, ac y gall y broses o wneud cais oherwydd digartrefedd fod yn ddryslyd. Gwaethygir y dryswch hwn ymhellach o ganlyniad i ddiffyg cyfathrebu parhaus â'r awdurdod lleol. Mae cymunedau nas gwasanaethir yn ddigon da yn disgrifio rhwystrau ychwanegol wrth geisio datrys digartrefedd.[5] Mae unigolion sydd wedi cael profiad o ddigartrefedd yn codi pryderon nad yw materion sy'n bwysig iawn iddynt yn cael eu hystyried yn aml wrth ymgysylltu â thimau digartrefedd.[6]

28. Mewn ymateb i'r adborth hwn, mae'r Bil hefyd yn diwygio adran 62 i'w gwneud yn ofynnol bod yn rhaid iddo gynnwys asesiad o'r cymorth sydd ei angen ar y ceisydd er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu â'r ceisydd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd yr awdurdod, yn hygyrch i'r ceisydd. Mae'r diwygiad hwn yn ymateb i adborth y rhai sydd â phrofiad o ddigartrefedd sydd wedi nodi bod y llythyrau hysbysu ffurfiol a ddarperir gan awdurdodau lleol yn anodd tu hwnt i'w deall. Mae ymchwil yn awgrymu bod her benodol yn codi mewn perthynas â niwroamrywiaeth. [7]

[5] Experiences-of-homelessness-Final-Version-CYM.pdf
[6] Arbenigwyr drwy Brofiad
[7] EYHC+-+Impossible+to+Navigate+(Final+2024+Version).pdf

29. Nodwn fod awdurdodau lleol yn anfon llythyrau hysbysu ffurfiol er mwyn sicrhau eu bod yn dangos cydymffurfiaeth â'r gyfraith, ac y byddai'n fwy anodd iddynt amddiffyn her heb gyfiawnhad yn effeithiol heb lythyrau o'r fath. Fodd bynnag, nod y diwygiad yw sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd, ochr yn ochr â'r hysbysiadau ffurfiol hyn, i esbonio cynnwys y llythyrau hyn a bod y broses ategol yn hygyrch ac yn ddealladwy i'r ceisydd.

*Cynlluniau atal, cefnogaeth a llety*

30. Mae'r Cod Canllawiau cyfredol yn argymell y dylid defnyddio "Cynlluniau Tai Personol" wrth helpu ceisydd i gwblhau'r camau rhesymol sydd i'w cymryd gan y ceisydd neu'r awdurdod tai lleol i sicrhau'r canlyniad a ddymunir gan y ceisydd. Mae sawl awdurdod tai lleol wedi mabwysiadu'r defnydd o gynlluniau o'r fath ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall y dogfennau hyn wella profiad defnyddiwr gwasanaeth, pan fydd gweithwyr proffesiynol tai yn gallu eu cwblhau'n briodol a'u bod yn cyd-fynd ag asesiad wedi'i bersonoli o anghenion unigolyn.

31. Bydd y Bil yn cyflwyno gofyniad ar awdurdod lleol i baratoi a chynnal Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety i unrhyw geisydd y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo ym marn yr awdurdod lleol. Penderfynwyd ar yr enw hwn mewn ymateb uniongyrchol i adborth awdurdodau lleol a rannodd eu barn yn ystod yr ymgynghoriad y dylai enw'r cynllun adlewyrchu'r ffaith y bydd yn mynd y tu hwnt i faes tai ac yn cofnodi nifer o anghenion y bydd yn ofynnol i amrywiaeth o asiantaethau eu diwallu.

32. Bydd y cynllun yn seiliedig ar yr asesiad o dan adran 62 ac yn cofnodi'r canlyniadau y mae ceisydd yn dymuno eu sicrhau gyda chymorth yr awdurdod a'r camau y cytunwyd arnynt y bydd y ceisydd a'r awdurdod tai lleol yn eu cymryd mewn cysylltiad â'r diben o sicrhau neu gadw llety addas. Os na ellir dod i gytundeb ynglŷn â'r camau mewn perthynas â'r cynllun, mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol gofnodi pam na allent gytuno, y camau y mae'n rhesymol i'r ceisydd eu cymryd ym marn yr awdurdod tai lleol a'r camau y bydd yn eu cymryd. Mae'n rhaid i'r cynllun gofnodi unrhyw gamau y mae'n ymwybodol bod awdurdod cyhoeddus arall wedi cytuno i'w cymryd. Mae'n rhaid i'r cynllun hefyd gofnodi'r camau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd i gyfathrebu â'r ceisydd mewn ffordd sy'n hygyrch iddo.

33. Disgwylir i'r cynllun gael ei adolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn bwysig, o ystyried y gall anghenion neu amgylchiadau ceiswyr a'u haelwydydd newid dros amser, ac er mwyn nodi a yw'r camau gweithredu cofnodedig a gymerwyd wedi bod yn llwyddiannus neu'n aflwyddiannus. Mae pobl sy'n ddigartref yn aml yn teimlo bod diffyg tryloywder yn y system ddigartrefedd, a all beri gorbryder ac ansicrwydd i rai. Yn ystod ein gwaith yn ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, clywsom gan lawer o bobl a soniodd eu bod wedi mynd am gyfnodau hir heb ddiweddariad ar eu hachos. Mae'r Bil yn nodi'r amgylchiadau lle dylai'r cynllun gael ei adolygu, gan gynnwys pan fydd cyfnod o 8 wythnos wedi

mynd heibio ers i’r cynllun cyntaf neu’r adolygiad diwethaf o’r cynllun gael ei gwblhau, pan fydd amgylchiadau’r ceisydd neu ei aelwyd wedi newid sy’n effeithio ar eu llety neu eu hanghenion cymorth, neu eu hawl i gymorth digartrefedd, neu os bydd ceisydd a oedd yn wynebu’r risg o ddigartrefedd, yn mynd yn ddigartref.

34. Un o egwyddorion sylfaenol y Bil yw ei fod yn creu dull o ymdrin â digartrefedd yng Nghymru sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy’n ystyriol o drawma. Bydd y cynllun yn adnodd pwysig i roi’r egwyddor hon ar waith. Y bwriad polisi yw mai’r cynllun fydd y sail dros gymorth unigol sy’n holistaidd ei natur, ac sy’n cydnabod bod achosion a chanlyniadau digartrefedd yn amrywio ac y gallant fod yn gymhleth. Mae’n rhaid i’r cymorth angenrheidiol fod wedi’i bersonoli yn yr un modd, gan ddenu cymorth gan wasanaethau digartrefedd a sefydliadau ehangach sy’n fwy addas i helpu gydag amrywiaeth ehangach o anghenion.

*Hawl unigolion i wneud cais am adolygiad o benderfyniadau*

35. Mae gan geiswyr yr hawl i ofyn am adolygiad o rai penderfyniadau yn eu hachos o fewn 21 diwrnod i gael eu hysbysu ynghylch y penderfyniad hwnnw (neu’n hwyrach os bydd yr awdurdod tai lleol yn caniatáu hynny). Nid yw’r hawl i ofyn am adolygiad yn cwmpasu pob penderfyniad ond mae’n cynnwys penderfyniadau a wneir ynghylch a yw dyletswyddau digartrefedd yn ddyledus, cymhwystra i gael cymorth, os yw dyletswyddau wedi dod i ben, penderfyniadau i atgyfeirio’r ceisydd at awdurdod lleol arall o dan y darpariaethau ynglŷn â chysylltiad lleol a phenderfyniadau ynghylch a yw’r llety a ddarparwyd (llety interim neu sefydlog) yn addas i’r ceisydd. Mae’r hawl i wneud cais am adolygiad yn cynnig proses effeithlon a syml lle y gall ceisydd herio penderfyniad a wnaed yn ei achos. Mae’r hawl yn rhoi mynediad at gyfiawnder.

36. Mae’r Bil yn cyflwyno hawliau newydd i gael adolygiad mewn perthynas â phenderfyniad i beidio â chynnal asesiad o achos unigolyn, yr asesiad o angen, yr asesiad o’r cymorth sydd ei angen i gadw llety neu oresgyn unrhyw rwystr i fyw’n annibynnol, a chynllun atal, cefnogaeth a llety. Gellir arfer yr hawl i ofyn am adolygiad o gynllun atal, cefnogaeth a llety ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y mae’n ofynnol i’r awdurdod gynnal y cynllun. Ni fwriedir i’r adolygiad hwn gael ei ddefnyddio i herio awdurdodau lleol nad ydynt wedi llwyddo i fodloni dymuniadau llety unigolyn yn llawn. Ni fydd y cynllun yn ymdrin â materion sy’n ymwneud â’r cyflenwad tai ac mae’n bosibl na fydd ceiswyr yn cael dewis llawn a rhydd o’r llety a gynigir, ond mae’n rhaid i unrhyw lety fod yn addas. Dylai’r adolygiad olygu y gall ceisydd ofyn am adolygiad o’i gynllun os teimla nad yw’n grynodeb cywir o’i anghenion neu nad yw’r camau gweithredu a gofnodwyd i ddiwallu anghenion yn ddigonol.

37. Mae’r Bil yn diwygio’r hawl bresennol i ofyn am adolygiad mewn perthynas ag addasrwydd llety. Gwna hynny drwy estyn y terfynau amser presennol fel y gall ceisydd ofyn am adolygiad o addasrwydd ei lety ar unrhyw adeg cyn ei dderbyn neu, os derbyniwyd y cynnig, ar unrhyw adeg pan fo

dyletswyddau yn adran 66, 68 neu 75 o Ddeddf 2014 yn gymwys, neu o fewn 6 mis i'r llety fod ar gael i'r ceisydd.

38. Mae'r Bil yn sicrhau mwy o hawliau i geiswyr ofyn am adolygiadau o benderfyniadau allweddol ac asesiadau sy'n effeithio ar eu cais digartrefedd, y gwasanaeth a roddir iddynt ac, yn y pen draw, y llety sydd i'w feddiannu ganddynt. Bydd hyn yn rhoi mwy o dryloywder ac atebolrwydd. Mewn perthynas ag addasrwydd llety, gall y cyfnod estynedig i gael adolygiad hefyd gael effaith gadarnhaol ar ddigartrefedd mynych, gan helpu mwy o geiswyr i gael y llety cywir ar yr adeg gywir.

*Cymhwyso dyletswydd i sicrhau llety yn hytrach na dyletswydd i helpu i sicrhau llety*

39. Mae'r Bil yn dileu adran 73 (y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety i geiswyr digartref) o Ddeddf 2014. Mae'r cynnig i ddiddymu'r profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb yn y Bil yn golygu y byddai'r ddyletswydd yn ddiangen bellach. Mae'r Bil yn disodli adran 75 newydd o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i geisydd ei feddiannu.

40. Mae'r adborth a roddwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac wrth werthuso deddfwriaeth flaenorol yn awgrymu bod pobl yn teimlo bod y system ddigartrefedd bresennol yn ddiangen o fiwrocrataidd ac yn un sy'n rhoi pwyslais ar natur dechnegol y broses ddigartrefedd, yn hytrach nag anghenion unigol y ceisydd. Mae'r newid hwn yn symleiddio'r ddeddfwriaeth ynglŷn â digartrefedd a hefyd yn sicrhau bod llety interim ar gael i'r rhai y mae ei angen arnynt.

*Amgylchiadau pan ddaw'r ddyletswydd i sicrhau llety i geiswyr i ben*

41. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, dim ond os bydd y ceisydd wedi cael cynnig y canlynol, a'i fod yn ei dderbyn, y gall y brif ddyletswydd digartrefedd ddod i ben:

- llety addas o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (tai cymdeithasol) neu;
- lety addas yn y sector rhentu preifat

Gall y brif ddyletswydd digartrefedd hefyd ddod i ben ar hyn o bryd pan fydd y ceisydd wedi cael cynnig y canlynol a'i fod yn ei wrthod (ar ôl cael ei hysbysu am y canlyniadau posibl os bydd yn ei wrthod):

- llety addas o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (tai cymdeithasol);
- llety addas yn y sector rhentu preifat; neu
- lety interim addas o dan adran 75.

42. Gellir hefyd ddod â dyletswyddau i ben o dan amgylchiadau eraill, gan gynnnwys os bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl, os bydd ceisydd yn mynd yn ddigartref yn fwriadol o lety dros dro neu os bydd y ceisydd yn methu â chydweithredu â'r awdurdod tai lleol.

43. Er mwyn lleihau'r pwysau yn y system ddigartrefedd, bydd angen lleihau'r amser y mae unigolion yn ei wynebu mewn llety dros dro a chynyddu'r llif allan o'r system. Bydd y Bil yn helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r llif allan o'r system ddigartrefedd drwy gynnig amrywiaeth ehangach o opsiynau llety iddynt er mwyn iddynt allu cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd. Mae'r ddarpariaeth yn fwriadol o eang er mwyn rhoi cyfle i barhau i ddod i gytundeb â rhanddeiliaid ynglŷn â'r mathau priodol o lety. Mae'n fwriad polisi y dylai dychwelyd i gartrefi blaenorol neu deuluol (os ydynt yn ddiogel) neu lety â chymorth gael eu hystyried o dan yr opsiwn hwn.

44. Nod y Bil yw sicrhau bod cynifer o opsiynau â phosibl ar gael i awdurdodau tai lleol er mwyn lleddfu digartrefedd yn eu hardal leol. Mae'r Bil yn sicrhau bod y llety yn debygol o fod ar gael i'w feddiannu am gyfnod o 12 mis, cyn y gall yr awdurdod ddod â'i ddyletswydd i sicrhau llety i ben, er mwyn rhoi'r un sicrwydd deiliadaeth ag opsiynau tai eraill. Mae'n rhaid i'r llety fod yn addas i'r ceiswyr a'u haelwyd. Mae'r ddyletswydd arfaethedig i gadw mewn cysylltiad â rhai ceiswyr yn sicrhau bod cyswllt ychwanegol ag unigolion y mae'r ddyletswydd i'w cartrefu yn cael ei chyflawni yn y modd hwn, fel mesur diogelwch ychwanegol.

45. Mae'r Bil hefyd yn nodi, o ran ceiswyr sy'n bwrw dedfryd yn y carchar, sy'n mynd i'r carchar pan fydd dyletswydd adran 75 ar agor, ac nad yw'n rhesymol disgwyl y byddai'n cael ei ryddhau cyn pen chwe mis, y caiff yr awdurdod tai lleol ddod â'r ddyletswydd adran 75 i ben. Os bydd gan geisydd lety sydd o dan fygythiad, bydd dyletswydd atal yn parhau'n gymwys, ni waeth beth fo hyd y ddedfryd. Fodd bynnag, os daw'r ddyletswydd atal i ben am nad oes modd cadw'r llety tra bydd y person yn y carchar, ni fydd y ddyletswydd adran 75 yn ddyledus os yw'r person yn debygol o aros yn y carchar am fwy na chwe mis. Nod y newid hwn i'r ddyletswydd derfynol yw rhoi eglurder i geiswyr ac awdurdodau lleol ynghylch pryd y dylai ac na ddylai dyletswyddau fod yn gymwys a bydd yn golygu na fydd dyletswyddau yn ddyledus i unigolion yn y carchar gan awdurdodau lleol pan nad yw'n rhesymol disgwyl y bydd yn ymgymryd ag unrhyw waith ystyrlon.

*Dyletswydd interim i sicrhau llety i geiswyr digartref*

46. Mae'r Bil yn diwygio'r ddyletswydd adran 68 bresennol i ddarparu llety interim er mwyn ystyried y cynnig i ddileu dyletswydd adran 73 a diddymu angen blaenoriaethol.

47. Mae'r Bil yn diwygio adran 68 i nodi'r amgylchiadau newydd pan fydd yn rhaid sicrhau llety interim. Un o'r rhain yw pan fydd yr awdurdod tai lleol yn credu bod ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth, ond nad yw'r awdurdod wedi cadarnhau'r materion hyn eto. Mae'r Bil hefyd yn darparu bod y ddyletswydd o dan adran 68 yn ddyledus i'r rhai nad oes ganddynt gysylltiad lleol ag unrhyw ardal awdurdod lleol yng Nghymru a bod yr awdurdod lleol yn credu neu ei fod wedi'i fodloni bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

48. Er gwaethaf y newidiadau hyn, ni fydd dim newid i'r gwasanaeth a roddir i geiswyr, a fydd yn cael gwasanaeth drwy'r ddyletswydd o dan adran 68, os oes angen.

*Angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol*

49. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, penderfynir ar fynediad at ddarpariaeth digartrefedd statudol mewn ffyrdd amrywiol drwy gymhwyso tri chysyniad: angen blaenoriaethol, bwriadoldeb a chysylltiad lleol. Mae pob un o'r cysyniadau hyn yn amrywio o ran y defnydd a wneir ohonynt a'u lle yn y broses o asesu digartrefedd.

*Diddymu gwahaniaethau yn yr hawl sy'n gysylltiedig ag angen blaenoriaethol*

50. O dan Ddeddf 2014, ystyrir bod gan rai grwpiau angen blaenoriaethol am lety ac mai dim ond i'r rhai sy'n dod o dan un o'r categorïau hyn y mae'r brif ddyletswydd digartrefedd ar gael.

51. Mae cryn dipyn o ymchwil ar gael sy'n awgrymu bod effeithiau problemus yn gysylltiedig â'r prawf angen blaenoriaethol a nodwyd y rhain yn eithaf manwl yn y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'r llenyddiaeth sydd ar gael yn awgrymu bod y ffordd y cymhwysir yr angen blaenoriaethol yn anghyfiawn ac yn anfoesol ym marn llawer.[8] Ymhlith y pryderon ynglŷn â'r defnydd a wneir ohono mae'r pryder ei fod yn cael ei ddefnyddio'n anffurfiol, yn ôl y sôn, i atal aelwydydd heb angen blaenoriaethol rhag cael gafael ar gymorth; ei fod yn cynnwys trothwy cymharol uchel ar gyfer bod yn agored i niwed; a'i fod yn cael ei roi ar waith yn anghyson (fel y dengys y data, sy'n nodi nad yw'r prawf yn cael ei ddefnyddio mewn rhai ardaloedd a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n sefydlog mewn eraill); yr effeithiau trawmatig ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'i ffocws ar broses a phenderfynu ar hawliau, yn hytrach nag anghenion yr unigolyn. At hynny, yn hanesyddol, mae'r ffordd y cymhwysir y prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru wedi tueddu i gael effaith wahaniaethol i bobl sengl, yn enwedig dynion dros 25 oed.

52. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio lleihau'r pwyslais ar y prawf angen blaenoriaethol ers dros ddegawd. Dechreuodd Deddf 2014 leihau ei bwysigrwydd; gan gyflwyno dyletswyddau atal a lleddfu er mwyn lleihau nifer yr unigolion y mae'r prawf yn gymwys iddynt. Ers hynny, mae newidiadau sylweddol i ymarfer sy'n ymwneud â'r prawf wedi cael eu gwneud.

53. Yn 2020, dylanwadodd ffactorau allanol ar newid pellach i ffwrdd o angen blaenoriaethol. Mewn ymateb i bandemig COVID-19, darparodd Llywodraeth Cymru ganllawiau a chyllid i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod pawb a gysylltodd â gwasanaethau digartrefedd heb lety, yn cael y llety a'r cymorth yr oedd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel. Yn 2022, fel rhan o'r trefniadau trosiannol cyn y Bil hwn, gwnaeth Rheoliadau

[8] Adolygiad o angen blaenoriaethol yng Nghymru: crynodeb [HTML] | LLYW.CYMRU

Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 ddiwygio Deddf 2014 i ychwanegu unfed categori ar ddeg o bersonau ag angen blaenoriaethol am lety ar gyfer y rhai sydd 'yn ddigartref ac ar y stryd'. Effaith y newid hwn oedd cyfyngu'n sylweddol ar nifer y ceiswyr y gellid canfod nad oeddent mewn angen blaenoriaethol.

54. Mae llawer o awdurdodau lleol yn nodi nad ydynt yn cymhwyso'r prawf angen blaenoriaethol yn ymarferol mwyach. Gwelir tystiolaeth o hyn yn nata StatsCymru, sy'n dangos gostyngiad sydyn o ran y defnydd o'r prawf ers dechrau pandemig COVID-19.[9] Mae data ar gyfer y flwyddyn lawn ddiwethaf yn dangos nad oedd 276 o aelwydydd wedi cael cymorth gan awdurdod lleol am nad oeddent yn dod o dan un o'r categorïau o angen blaenoriaethol, yr oedd 255 o'r aelwydydd hyn yn bobl sengl.[10]

55. Felly, bydd y Bil yn adeiladu ar gyfeiriad a bennwyd eisoes ac yn diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru.

56. O ganlyniad i'r newid hwn, bydd pob un fydd yn cysylltu ac sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu'n cael profiad uniongyrchol o ddigartrefedd, yn cael cymorth a llety (ar yr amod eu bod yn gymwys) lle bo angen. Mae'n fwriad polisi y bydd hyn yn gwreiddio'r system ddigartrefedd yng Nghymru mewn diwylliant cynhwysol, yn hytrach nag ymarfer sy'n anelu at allgâu pobl.

57. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod na all awdurdodau lleol helpu unigolion sy'n ddigartref os nad oes cyflenwad cadarn o dai sy'n diwallu amrywiaeth o anghenion. Mae hyn yn cynnwys llety anghenion cyffredinol ond mae'n rhaid iddo hefyd gynnwys mathau o lety â chymorth a llety arbenigol i'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Fel y cyfryw, ac yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol, bydd y Bil yn darparu y bydd diddymu'r prawf angen blaenoriaethol yn cychwyn ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn penderfynu ar y dyddiad priodol, gan gynnwys unrhyw amodau i'w bodloni cyn y gellir cychwyn y ddarpariaeth i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi amcangyfrif y bydd costau mewn perthynas â'r newid hwn yn codi yn 2030-2031.

*Diddymu gwahaniaethau yn yr hawl sy'n gysylltiedig â digartrefedd bwriadol*

58. Yn debyg i'r hyn a roddwyd ar waith ar gyfer y prawf angen blaenoriaethol, ceisiodd Deddf 2014 newid pwyslais o ran y prawf bwriadoldeb. Roedd Deddf 2014 yn rhoi disgresiwn i awdurdodau lleol ddewis a ddylid cymhwyso'r prawf bwriadoldeb at unigolyn ac a ddylid peidio â chynnwys rhai categorïau o angen blaenoriaethol yn y prawf bwriadoldeb.

---

[9] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd (llyw.cymru)
[10] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd

59. Mae’r newid diwylliannol a sicrhawyd gan Ddeddf 2014 tuag at atal a lleddfu digartrefedd wedi golygu bod y prawf bwriadoldeb wedi mynd yn llawer llai arwyddocaol yn y degawd diwethaf. Mae’r dystiolaeth yn cefnogi hyn, ac anaml iawn y defnyddir y prawf bwriadoldeb yn ymarferol yng Nghymru, gyda 90 o ganfyddiadau o fwriadoldeb yn 2023-24.[11] Er mai ychydig o ddefnydd a wneir o’r prawf bwriadoldeb yn ymarferol, mae awdurdodau lleol yn cyfeirio ato er mwyn annog ceiswyr i ymgysylltu a gwrthannog ymddygiadau negyddol. Nid oes modd inni asesu pa mor aml y defnyddir y prawf yn y ffordd hon.

60. Fel yr amlinellir yn fanwl yn adran 4 (ymgynghori), y canfyddiad oedd mai’r bwriad i ddiddymu’r prawf bwriadoldeb oedd y maes mwyaf dadleuol yn y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd. Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cefnogi’r cynnig, nododd 19 o’r 20 o awdurdodau lleol a ymatebodd wrthwynebiad i’r cynnig i ddiddymu’r prawf.

61. Un o nodau sylfaenol y Bil yw creu system ddigartrefedd yng Nghymru sy’n ystyriol o drawma ac sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn. Ystyrir bod y prawf bwriadoldeb yn rhwystr i gyflawni’r nod hwn, am nad yw’n ystyried yn llawn effaith trawma ar ymddygiad ac y gall feithrin diwylliant sy’n categoreiddio ceiswyr yn rhai sy’n haeddu cael cymorth neu’n rhai nad ydynt yn ei haeddu. Mae adborth gan rai rhanddeiliaid yn awgrymu bod y prawf yn agored i gael ei gamddefnyddio, bod y defnydd a wneir ohono yn amrywio ledled Cymru, a’i fod yn cael effaith negyddol mewn perthynas â phlant, pobl ag anghenion cymorth cymhleth a goroeswyr camdriniaeth. Gall pobl sydd wedi cael eu hatal rhag cael gwasanaethau ar ôl i’r prawf bwriadoldeb gel ei gymhwyso wynebu risg o gysgu allan.

62. Bydd y Bil yn diddymu’r prawf bwriadoldeb yng Nghymru. Wrth wneud hynny, rydym yn cymryd cam mawr tuag at system ddigartrefedd fwy cynhwysol a fydd yn cefnogi ymarfer sy’n ystyriol o drawma.

63. Mae’n bosibl y bydd heriau yn codi yn sgil diddymu’r prawf bwriadoldeb ac rydym yn cydnabod pryderon awdurdodau lleol. Mae’r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau ychwanegol (gan gynnwys y prawf manipiwleiddio bwriadol, y prawf ymddygiad treisgar a bygythiol a darpariaeth ar gyfer peidio ag ymateb i sawl ymgais i gysylltu), sydd â’r nod o fynd i’r afael â’r adborth a godwyd.

*Atgyfeirio achosion at awdurdod tai lleol arall*

64. Bydd y Bil yn gwneud nifer o newidiadau mewn perthynas ag atgyfeirio achos ceisydd at awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr. Bydd atgyfeiriadau o’r fath yn dal i fod yn amodol ar gysylltiad lleol (ac ar fodloni’r amodau ar gyfer atgyfeiriad). Fodd bynnag, mae’r gofynion bod yn rhaid i’r ceisydd fod ag angen blaenoriaethol a’i fod yn ddigartref yn fwriadol wedi cael eu dileu. Mae’r diffiniad o gam-drin hefyd wedi cael ei

[11] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a’r math o aelwyd

ehangu gan y Bil drwy ei gysoni â Deddf Cam-drin Domestig 2021 a thrwy gynnwys yn benodol reolaeth drwy orfodaeth, cam-drin economaidd a cham-drin seicolegol.

65. Mae hyn ymateb i'r cynnig i ddileu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb ac yn creu cysondeb â'r dull atgyfeirio yn adran 198 o Ddeddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017) sy'n caniatáu ar gyfer atgyfeiriadau Lloegr i Loegr heb ofyniad o ran angen blaenoriaethol na bwriadoldeb.

66. Mae'r Bil hefyd yn gwneud mân ddiwygiad, ond un arwyddocaol o bosibl, i'r gyfraith bresennol er mwyn caniatáu i'r rhai sy'n cael eu dedfrydu i'r carchar fod yn destun atgyfeiriad cysylltiad lleol cyn neu yn ystod y cyfnod atal (adran 66). Mae hyn yn ceisio rhoi terfyn ar yr arfer o wneud atgyfeiriad cysylltiad lleol yn y diwrnodau cyn rhyddhau, yn hytrach nag ymhell ymlaen llaw. Mae atgyfeiriadau hwyr yn aml yn peri cynnwrf a straen i'r ceisydd ac maent hefyd yn tarfu ar bob gwasanaeth, sefyllfa y gellir ei hosgoi. Mae diwygiad pellach yn caniatáu i unrhyw geisydd digartref gael ei atgyfeirio cyn i'r ddyletswydd adran 75 gael ei derbyn. Gall unigolyn yn y carchar hefyd gael ei atgyfeirio o fewn 2 wythnos i gael ei hysbysu bod y ddyletswydd adran 75 yn ddyledus. Mae atgyfeiriadau cynharach yn cefnogi gwell ymarfer ataliol ac yn rhoi eglurder o ran y cyfrifoldeb am ymdrin ag anghenion unigolyn yn y carchar.

*Ystyr cysylltiad lleol*

67. Bydd y meini prawf ar gyfer penderfynu a oes gan geisydd gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yn aros yr un fath â'r hyn a nodir o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014. Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi pŵer newydd i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau pan fydd person yn cael ei drin fel un sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014. Diben rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu'r amgylchiadau pan fydd person yn cael ei drin fel un sydd wedi bodloni'r meini prawf ar gyfer cysylltiad lleol o dan adran 81(2) yw rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder ynghylch pryd mae rhywun wedi datblygu cysylltiad lleol. Ar hyn o bryd, defnyddir y Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd (2016) i ymdrin â hyn.

68. Bydd y Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod gan geisydd gysylltiad lleol ag awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn bod â hawl i'r ddyletswydd o dan adran 75 o Ddeddf 2014. Fel y nodir ym Mhennod 4, mae'r dull gweithredu hwn yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Rydym wedi mabwysiadu'r dull gweithredu hwn er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod costau yn cael eu dosbarthu'n deg ledled Cymru ac sy'n rheoli adnoddau cyfyngedig yng Nghymru.

*Esemptiad rhag atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall*

69. Bydd y Bil yn cadw esemptiad rhag atgyfeiriad i'r ceiswyr hynny sy'n wynebu mwy o risg o gael eu cam-drin pe baent yn dychwelyd i'r ardal lle mae ganddynt gysylltiad lleol. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o gamdriniaeth wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cam-drin domestig (fel y'i diffiniwyd o dan adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021) ac unrhyw fath arall o gam-drin, er enghraifft, camfanteisio (o fewn yr ystyr a roddwyd gan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015), aflonyddu a stelcian (o fewn ystyr Deddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997). Er bod y geiriad sy'n disgrifio'r esemptiad hefyd wedi newid, yn ein barn ni, ni fydd hyn yn cael effaith ar gwmpas yr esemptiad.

70. Mae'r Bil hefyd yn atal atgyfeiriad i geisydd yn y carchar sydd wedi cael ei hysbysu bod dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 ac mae cyfnod o bythefnos wedi dod i ben ar ôl hysbysiad bod y ddyletswydd yn ddyledus. Ar gyfer pob ceisydd, mae'r Bil yn nodi'n glir mai dim ond unwaith y gall unrhyw geisydd fod yn destun atgyfeiriad o dan adran 80 o Ddeddf 2014 yn ystod yr un cais. Bydd y Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi categorïau pellach o bobl a all gael eu hesemptio rhag atgyfeiriad.

*Dyletswyddau i geiswyr mewn achosion a atgyfeirir*

71. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r cyfrifoldebau a osodir ar awdurdodau lleol sy'n atgyfeirio ceiswyr. Fodd bynnag, bydd y ddyletswydd bresennol o dan adran 68 yn sicrhau y bydd pawb sy'n destun atgyfeiriad statudol hefyd yn destun cyfnod o lety dros dro tra penderfynir a yw'r amodau atgyfeirio wedi cael eu bodloni ai peidio.

72. I'r rhai sydd â chysylltiad lleol o bosibl â rhannau eraill o'r DU lle nad oes dull atgyfeirio statudol ar waith, mae'r ddyletswydd o dan adran 68 yn ddall i'r posibilrwydd o atgyfeirio achos y ceisydd. Mae adran 68(4) yn darparu bod "[y] ddyletswydd o dan yr adran hon yn codi pa un a oes unrhyw bosibilrwydd o atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall ai peidio".

*Achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yn Lloegr*

73. Gan y bydd y Bil yn dileu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb yn y system yng Nghymru, ni fydd atgyfeiriad o Loegr i Gymru o dan Ddeddf 1996 yn cyfeirio at y profion hyn mwyach. O ganlyniad, ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth amlwg rhwng achosion a atgyfeirir at awdurdod lleol yng Nghymru neu awdurdod lleol yn Lloegr a phan fydd cytundeb bod yr amodau i atgyfeirio wedi cael eu bodloni, yna disgwylir i'r awdurdod lleol y cyrchir iddo ddarparu, lle y bo'n briodol, un neu fwy o'r dyletswyddau digartrefedd yn Neddf 2014, fel y'i diwygiwyd gan y Bil.

*Hysbysiad i geiswyr mewn achosion a atgyfeirir*

74. Mae'r Bil yn gwneud newidiadau i'r gyfraith bresennol sy'n sicrhau bod y ceisydd yn cael ei hysbysu am y rhesymau dros gychwyn atgyfeiriad ac esboniad o'r hawliau fydd ganddo o hyd.

*Hawl i ofyn am adolygiad o achosion a atgyfeirir*

75. Mae'r Bil yn gwneud rhai diwygiadau i adran 85 o Ddeddf 2014 fel y bydd yr adolygiad ynghylch a yw'r amodau ar gyfer cysylltiad lleol wedi cael eu bodloni ai peidio, yn cael ei restru ar wahân, yn hytrach na'u nodi fel rhan o grŵp o ddarpariaethau eraill a allai fod yn destun adolygiad. Nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i weithredu'r adran o ganlyniad i'r diwygiad hwn.

*Cymorth i gadw llety addas sydd wedi'i sicrhau wrth arfer swyddogaethau digartrefedd*

76. Mae'r Bil yn cyflwyno dyletswydd newydd i roi cymorth i gadw llety addas sydd wedi cael ei sicrhau o dan swyddogaethau digartrefedd. Bydd y ddarpariaeth newydd hon yn cefnogi ein nod o sicrhau, os bydd unigolyn yn cael profiad o ddigartrefedd, na fydd byth yn digwydd eto. Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei drafftio mewn ymateb i adborth gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai sy'n disgrifio lefelau cynyddol o angen ymhlith unigolion sy'n ddigartref a'r heriau sy'n gysylltiedig â diwallu'r angen hwn, a all effeithio ar arferion dyrannu a hyder cymdeithasau tai i dderbyn unigolion yn denantiaid a'r tebygolrwydd y byddent yn gwneud hynny. Bydd y ddyletswydd hon yn gweithio ar y cyd ag adran 95 o Ddeddf 2014 (cydweithredu), gan y bydd yn dibynnu ar ymateb amlasiantaethol.

77. Nid dyletswydd gyffredinol yw hon. Dim ond i'r rhai y mae eu dyletswyddau digartrefedd wedi dod i ben, ond yr ystyrir eu bod yn wynebu risg o hyd oni roddir cymorth iddynt gadw llety y bydd yn gymwys. Gall y ceisydd hefyd ddewis peidio â chael cymorth gan yr awdurdod i gadw ei lety.

*Dyletswydd i gysylltu â cheiswyr penodol ar ôl i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben/Dyletswydd i gadw mewn cysylltiad â cheiswyr penodol*

78. Fel y nodir uchod, bydd y Bil yn caniatáu cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd drwy fathau mwy amrywiol o lety addas. I unigolion sydd wedi derbyn y cynigion hyn o lety amgen, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â nhw o fewn saith mis ar ôl i'r brif ddyletswydd digartrefedd ddod i ben gyda'r bwriad o nodi a ydynt yn wynebu risg o ddigartrefedd ac a oes angen cymorth arnynt.

79. Mae'r ddyletswydd wedi cael ei drafftio i roi diogelwch ychwanegol i'r rhai y daethpwyd â'u dyletswydd i ben drwy opsiwn llety nad yw'n ymwneud â thai cymdeithasol na rhentu yn y sector preifat. Mae'n cydnabod bod yr

opsiynau hyn yn debygol o gynnwys trefniadau llety a rennir sy'n haeddu trefnu i gael sgwrs arall â'r ceisydd. Bwriedir i'r sgyrsiau hyn nodi unrhyw broblemau ar gam cynnar, gan ei gwneud yn bosibl i gamau gael eu cymryd ar fyrder i'w datrys a lleihau digartrefedd mynych.

*Amgylchiadau pellach pan fo'r dyletswyddau i helpu ceiswyr yn dod i ben*

80. Gellir dod â dyletswyddau tai a digartrefedd i ben o dan y ddeddfwriaeth bresennol, drwy'r prawf methiant afresymol i gydweithredu o dan adran 79(5) o Ddeddf 2014. Gellir dehongli'r prawf hwn yn eang, a cheir risgiau y caiff ceiswyr eu hallgáu o'r system oherwydd diffyg cyfathrebu am fod y dulliau cyfathrebu yn anhygyrch iddynt neu, yn syml, oherwydd y trawma y maent wedi'i brofi neu'r sefyllfa gaotig a achoswyd gan eu digartrefedd. Mae'r Bil yn disodli adran 79(5) drwy gulhau'r prawf hwn er mwyn darparu ar gyfer ymddygiadau penodol iawn fel y'i hamlinellir isod.

*Ceiswyr sy'n ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol*

81. Yn anffodus, cyfyd achosion lle mae ceiswyr yn ymddwyn yn fygythiol neu'n dreisgar tuag at staff awdurdodau tai lleol a darparwyr gwasanaethau eraill. Nid yw'n dderbyniol bod unrhyw weithiwr proffesiynol yn gorfod wynebu ymddygiad sy'n peryglu eu diogelwch personol a chorfforol, wrth geisio ymgymryd â'i swyddogaethau.

82. Bydd y Bil yn caniatáu y dylid dod â dyletswyddau sy'n ddyledus i geisydd i ben, os bydd y ceisydd hwnnw wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau o dan Ddeddf 2014 neu wrth ddarparu llety neu wasanaethau eraill a sicrheir drwy gyflawni swyddogaethau digartrefedd o dan Ddeddf 2014. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond os nad oes unrhyw amgylchiadau a fyddai'n ei gwneud yn briodol i unrhyw ddyletswydd barhau i fod yn gymwys y gellir dod â dyletswyddau i ben yn y fath amgylchiadau.

*Ceiswyr sy'n dinistrio eiddo neu sy'n gwneud difrod difrifol i eiddo yn fwriadol*

83. Mewn achosion pan fo ceisydd neu berson sy'n byw gyda'r ceisydd yn dinistrio neu'n gwneud difrod difrifol i'r eiddo neu rannau o'r eiddo a ddarparwyd mewn cysylltiad â dyletswyddau digartrefedd sy'n ddyledus i'r ceisydd o dan Ddeddf 2014, neu pan fo'r ceisydd neu rywun sy'n byw gyda'r ceisydd yn cymell neu'n annog rhywun arall i ddifrodi'r eiddo a'i fod yn bwriadu dinistrio neu wneud difrod difrifol i'r eiddo, neu ei fod yn ddi-hid ynghylch a fyddai'n cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol, mae'r Bil yn darparu y gellir dod â dyletswyddau i ben. Gellir gwneud hyn ar yr amod nad oes unrhyw esgus rhesymol dros weithredoedd y ceisydd na'r aelod o'i aelwyd, ac nad oes unrhyw amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r dyletswyddau barhau.

*Ceiswyr sy'n gwrthod cydweithredu'n fwriadol ac yn afresymol*

84. Mae adran 79 o Ddeddf 2014 yn nodi amgylchiadau eraill pan ddaw dyletswyddau'r awdurdod tai lleol o dan adrannau 66, 68, 73 a 75 i ben. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau yn adran 79 yn nodi rhesymau sy'n seiliedig ar ffeithiau i ddod â dyletswydd i ben sy'n ymwneud â materion sy'n cynnwys cymhwystra, camgymeriad a thynnu cais yn ôl. Fodd bynnag, mae adran 79(5) yn darparu y gall unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus i geisydd ddod i ben os bydd yr awdurdod tai lleol wedi'i fodloni bod y ceisydd yn "methu â chydweithredu, a hynny mewn modd afresymol" â'r awdurdod tai lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Wrth gymhwyso'r prawf hwn bydd angen gwneud penderfyniad mwy goddrychol. Y risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw brawf o'r fath yw y gall gael ei gymhwyso'n anghyson ac y gall arwain at ganlyniadau anfwriadol sy'n golygu y caiff pobl eu hallgáu o wasanaethau.

85. Fel y nodir uchod, bydd y Bil yn nodi'n glir bod difrod difrifol i eiddo, trais neu ymddygiad bygythiol tuag at unigolion sy'n rhoi cymorth digartrefedd statudol a llety yn un o'r amgylchiadau pan fydd modd dod â dyletswydd o dan adran 66, 68, 75 neu 76A i ben. Ar ôl pennu'r ffin hon yn glir, mae'r Bil yn darparu ar gyfer dod â'r dyletswyddau hyn i ben mewn amgylchiadau pan fydd yr awdurdodau tai lleol wedi'i fodloni bod y ceisydd wedi methu ag ymateb i sawl ymgais gan yr awdurdodau tai lleol i gysylltu â'r ceisydd mewn cysylltiad â'i gais digartrefedd. O dan yr amgylchiadau hyn, gellir dod â dyletswyddau i ben pan nad yw'r awdurdod tai lleol yn ymwybodol o unrhyw reswm nac amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd barhau'n gymwys. Darperir y mesur diogelu hwn i helpu i sicrhau bod y prawf yn cael ei gymhwyso'n briodol ac na all gael ei gymhwyso os na fydd camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd i ddiwallu anghenion cymorth ceisydd.

86. Bydd yn ofynnol hefyd i'r awdurdod tai lleol roi hysbysiad rhybuddio perthnasol i'r ceisydd os dymuna gymhwyso'r prawf hwn a rhoddir cyfnod rhesymol o amser i'r ceisydd ymateb neu gysylltu ar ôl i'r hysbysiad rhybuddio gael ei roi.

.

*Dyletswydd awdurdod perthnasol i ofyn a gweithredu*

87. Mae'r Bil yn seiliedig ar yr egwyddor y dylai digartrefedd fod yn beth prin a byrhoedlog na fydd yn ailddigwydd. Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, mae'n rhaid i'r Bil wella'r system ddigartrefedd i sicrhau ei bod yn fwy effeithiol o ran atal digartrefedd. Bydd prosesau atal effeithiol yn dibynnu ar nodi digartrefedd ar y cam cynharaf posibl.

88. Nododd Strategaeth Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd 2019 Llywodraeth Cymru yr egwyddor mai cyfrifoldeb y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yw atal digartrefedd. Bydd y penderfyniad i gyflwyno dyletswydd i ofyn a gweithredu yn cryfhau'r newid mewn ymarfer sydd ei angen i gyflawni'r egwyddor hon.

89. Bydd pobl sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd fel arfer yn dod i gysylltiad â nifer o wasanaethau cyhoeddus wrth iddynt geisio deall a rheoli eu sefyllfa o ran llety. [12] Mae'n hanfodol bod pob un o'r gwasanaethau hyn yn gweithredu i atal digartrefedd, naill ai ar eu pen eu hunain neu gyda phartneriaid er mwyn helpu darpar geisydd digartref i gael cymorth tai a digartrefedd ar gam cynnar. Ar y sail hon ac er mwyn cydnabod y croestoriad a welir rhwng digartrefedd a materion cyfiawnder cymdeithasol eraill, rydym yn cynnig diwygiadau sy'n ehangu'r cyfrifoldeb am nodi ac atal digartrefedd yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

90. Bydd y Bil yn cyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru "i ofyn a gweithredu". Bydd y ddyletswydd yn ddyledus pan fydd "awdurdod cyhoeddus penodedig" o'r farn bod person y mae'n arfer swyddogaethau ar ei gyfer yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus penodedig geisio cydsyniad y person i wneud atgyfeiriad at yr awdurdod tai lleol ar ei ran, a phan fydd yr atgyfeiriad at awdurdod tai lleol yng Nghymru dylai gael ei drin fel petai'n gais am gymorth digartrefedd gan yr aelwyd.

91. Hefyd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus penodedig roi gwybodaeth i'r person am y cymorth a all fod ar gael gan wasanaethau eraill, ac ystyried a oes unrhyw gamau eraill y gallai yn rhesymol eu cymryd i helpu'r ceisydd i sicrhau neu gadw ei lety. Mae'n ofynnol hefyd i'r awdurdod cyhoeddus penodedig ystyried a yw'r ffaith ei fod yn ystyried bod y person yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd yn effeithio ar y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaeth mewn perthynas â'r person hwnnw.

92. Nod y ddyletswydd "gofyn a gweithredu" yw adnabod unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd mor gynnar â phosibl a sicrhau y gall awdurdodau lleol eu cynorthwyo'n gynt, gan ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn atal digartrefedd rhag digwydd. Mae'r pwyslais ar y cyd ar weithredu yn ogystal â holi am ddigartrefedd ar waith er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau tai lleol y bydd eu hasiantaethau partner hefyd yn gwneud popeth o fewn eu gallu wrth atgyfeirio unigolyn sy'n wynebu risg, gan gryfhau'r gwasanaeth a gynigir i'r unigolyn hwnnw ymhellach a'i gwneud yn fwy tebygol y bydd digartrefedd yn cael ei atal.

93. Cynigir y bydd y ddyletswydd "gofyn a gweithredu" yn cael ei hategu drwy arlwy dysgu a datblygu i'r holl gyrff cyhoeddus penodedig, a fydd yn canolbwyntio ar ddangosyddion risg digartrefedd ac yn rhoi cyfarwyddiadau syml ynglŷn â llwybrau atgyfeirio. Bydd y gweithgarwch hwn ynglŷn â rhoi cymorth ar waith yn digwydd cyn cychwyn y ddyletswydd. Bwriadwn ddatblygu canllawiau ymarfer a hyfforddiant ar y cyd â'r holl randdeiliaid perthnasol ac mae'r gwaith gydag awdurdodau lleol i lywio egwyddorion sylfaenol proses atgyfeirio wedi dechrau.

[12] Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Mawrth 2020

94. Rhestrir yr awdurdodau cyhoeddus penodedig y bydd y dyletswyddau yn gymwys iddynt yn y Bil. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid y rhestr hon neu ychwanegu at y rhestr hon dros amser a'n disgwyliad yw y bydd y rhestr yn tyfu wrth inni ddatblygu polisïau ategol ymhellach a gallu rhoi cymorth i gyrff cyhoeddus ychwanegol "i ofyn a gweithredu" mewn perthynas â digartrefedd

*Dyletswydd i atgyfeirio personau yn Lloegr at awdurdod tai lleol yng Nghymru*

95. Yn Lloegr, mae awdurdodau cyhoeddus penodedig (megis carchardai, y gwasanaeth prawf, sefydliadau troseddwyr ifanc, gwasanaethau damweiniau ac achosion brys) yn ddarostyngedig i ddyletswydd i ofyn a gweithredu o dan Ddeddf Tai 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017). Mae'r ddyletswydd hon yn debyg i'r ddyletswydd newydd "i ofyn a gweithredu" a amlinellir uchod. Mae'r ddyletswydd i atgyfeirio yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus penodol hysbysu awdurdodau lleol yn Lloegr y gallai person sydd wedi cysylltu â nhw fod yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Bydd y Bil yn diwygio Deddf 1996 fel y bydd yn ofynnol i'r awdurdodau penodedig hynny hefyd atgyfeirio person i Gymru, os gofynnir iddynt wneud hynny.

96. Y nod yw y bydd personau yn Lloegr sydd â chysylltiad â Chymru hefyd yn cael budd o'r polisi i nodi digartrefedd yn gynt.

*Mesurau atal wedi'u targedu*

97. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod digartrefedd yn cael effaith anghymesur ar grwpiau penodol ac mae'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yn nodi nifer o gynigion pwrpasol a oedd â'r nod o liniaru'r effeithiau hyn.

98. Un grŵp penodol sydd wedi'i orgynrychioli yn y ffigurau ar gyfer digartrefedd yw'r rhai sydd wedi gadael gofal. Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, amcangyfrifir bod dros un o bob pedwar person digartref ifanc wedi bod yn blentyn sy'n derbyn gofal, a nodir bod 26% o unigolion â phrofiad o fod mewn gofal wedi cysgu ar soffa ffrindiau neu berthnasau, a bod 14% wedi cysgu allan ar y stryd.[13]

99. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o gynigion sydd â'r nod o sicrhau nad oes unrhyw berson ifanc yn gadael gofal i ddigartrefedd.

*Dyletswydd i sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael llety addas*

100. Mae ystod eang o ddeddfwriaeth a chanllawiau eisoes ar waith sy'n ceisio sicrhau bod llety addas yn cael ei gynllunio a'i drefnu i bobl ifanc sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, fel y nododd y Papur Gwyn (ac fel y mae'r gweithgarwch ymgysylltu sy'n mynd rhagddo wedi'i gadarnhau), ceir bwlch gweithredu rhwng deddfwriaeth ac ymarfer, lle mae'n dal yn beth cyffredin i berson ifanc gael ei ryddhau o'r system ofal yn uniongyrchol i'r system

[13] PHW_Polisi_Report_2022_Briefing_WELSH-1.pdf

ddigartrefedd. Ceir tystiolaeth hefyd fod trefniadau i bontio o ofal heb gymorth yn achosi digartrefedd yn uniongyrchol i lawer o bobl ifanc. Mae rhai pobl ifanc yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth gan eu hawdurdod lleol ac mae rhai yn disgrifio lefelau o ansicrwydd a gwrthdaro rhwng adrannau tai lleol a gwasanaethau cymdeithasol o ran pa ran o'r sefydliad fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am eu hachos.

101. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i osod dyletswyddau newydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol mewn perthynas â chategorïau penodol o bobl ifanc. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu gan berson ifanc sy'n gadael gofal.

102. Bwriedir i'r dyletswyddau weithredu ochr yn ochr â'r dyletswyddau presennol a nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac nid yn eu lle ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu os oes angen gwneud hynny er llesiant y person ifanc. Bydd dyletswydd gychwynnol yn dod yn weithredol pan fydd unigolyn yn cael ei ben-blwydd yn 18 oed ac mae'n ddyledus nes ei fod yn 21 oed neu, mewn perthynas â pherson ifanc categori 3, yn ystod cyfnod dilynol pan fydd dyletswydd tuag at y person ifanc o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bydd dyletswydd bellach yn ymateb i unrhyw risg ychwanegol o ddigartrefedd sy'n dod i'r golwg ar ddiwedd cyfnod o addysg a phan ddaw dyletswyddau gwasanaethau cymdeithasol i ben.

103. Ein bwriad polisi ar gyfer y ddyletswydd hon yw sicrhau bod gwaith paratoi cynnar yn cael ei wneud i gynllunio ar gyfer pontio o ofal i fyw'n annibynnol a sicrhau nad oes rhaid i unrhyw berson ifanc sy'n gadael gofal gysylltu i ddweud ei fod yn ddigartref er mwyn cael llety addas. Mae'r cynnig yn cael ei gefnogi gan ddarpariaeth yn rhan 2 o'r Bil, sy'n creu categori newydd o ffafriaeth resymol i bobl ifanc y mae'r ddyletswydd newydd (a ddisgrifir uchod) yn ddyledus iddynt; gan eu blaenoriaethu wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

104. Bydd darparu llety addas o ansawdd da yn rhoi'r siawns orau y bydd person ifanc sy'n gadael gofal yn gallu cynnal tenantiaeth. Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau deddfu eisoes o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ragnodi'r amodau sy'n gwneud eiddo yn addas mewn rheoliadau. Er mwyn cydnabod yr anghenion a'r heriau unigryw a wynebir yn aml gan bobl ifanc sy'n gadael gofal, bydd y Bil yn dileu'r pwerau presennol i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf honno. Yn lle hynny, mae'n rhoi pwerau penodol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ystyr llety addas mewn perthynas â'r llety sydd i'w sicrhau i bobl ifanc o dan y ddyletswydd

newydd hon. Bydd y pwerau hyn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru nodi gofynion mewn perthynas ag addasrwydd darparwyr llety ac amodau meddiannaeth, ochr yn ochr â safon a lleoliad y llety sydd i'w sicrhau. Cânt hefyd ei gwneud yn ofynnol i amgylchiadau personol person ifanc ac unrhyw un y gellir disgwyl iddo fyw gyda'r person ifanc, gael eu hystyried.

*Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc sy'n gadael gofal*

105. Bydd y Bil yn cyflwyno dyletswydd statudol newydd ar awdurdod lleol i wneud trefniadau sy'n cynnwys protocol ar y cyd rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol. Bydd protocolau ar y cyd yn ofynnol i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, anghenion llety a chymorth pobl sy'n gadael gofal, a phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gadael sefydliad cadw ieuenctid, y carchar, neu safleoedd cymeradwy.

106. Yr effaith fwriadedig yw y bydd y protocolau ar y cyd yn amlinellu trefniadau ymarferol, clir i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a'u teuluoedd, gan atal pobl ifanc rhag cael eu trosglwyddo o un rhan o awdurdod i'r llall. Bydd protocol ar y cyd effeithiol yn nodi gweledigaeth, amcanion, systemau a phrosesau y cytunwyd arnynt ar y cyd er mwyn sicrhau gweithredu effeithiol i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Byddant yn rhoi eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau i bobl ifanc a'n nod yw y byddant yn ei gwneud yn bosibl i'r ddwy ran o'r awdurdod lleol weithio'n integredig mewn partneriaeth, er mwyn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynt ac atal digartrefedd.

107. Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwylir mai'r brif asiantaeth fydd gwasanaethau cymdeithasol i blant. Fodd bynnag, yr effaith fwriadedig yw y bydd protocolau ar y cyd yn galluogi partneriaid i ddeall eu rolau a chydweithio'n fwy effeithiol, a fydd yn arwain at fwy o dryloywder a gwell canlyniadau i bobl ifanc. Mae hyn yn gymwys ni waeth pa wasanaeth y bydd person ifanc yn mynd ato yn gyntaf.

*Protocol i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau eraill y mae angen cymorth arnynt yn benodol*

108. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil rydym wedi clywed adborth cadarn bod angen ymgysylltu â nifer o sefydliadu er mwyn ymdrin ag achosion a chanlyniadau digartrefedd. Mae hyn yn arbennig o wir am y rhai sy'n profi digartrefedd ochr yn ochr ag anghenion cymorth ehangach, megis iechyd meddwl gwael neu gamddefnyddio sylweddau.

109. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod tai lleol ei hun ac awdurdodau cyhoeddus penodol eraill, sefydliadau gwirfoddol neu gyrff

perthnasol eraill i gynorthwyo â nifer o swyddogaethau sy'n ymwneud ag atal digartrefedd a chymorth ehangach. Mae'n rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau sy'n ddigartref neu a all fynd yn ddigartref ac y mae angen penodol am gymorth neu wasanaethau eraill arnynt hefyd, gan gynnwys yn benodol gymorth neu wasanaethau sydd eu hangen ar y canlynol: pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid; pobl sy'n gadael y lluoedd arfog rheolaidd; pobl sy'n camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau eraill; pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n rhaid i'r trefniadau gael eu gwneud gyda'r nod o sicrhau (ymhlith amcanion penodedig eraill) bod achosion yn cael eu cydlynu'n effeithiol â'u hasiantaethau partner i unigolion penodol.

110. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu protocol enghreifftiol o gydlynu achosion o ddigartrefedd, gan nodi bod sawl awdurdod lleol eisoes yn defnyddio modelau sy'n gweithio iddynt hwy, gan gynnwys paneli achosion anghenion cymhleth neu dimau amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, effaith fwriadedig y ddarpariaeth newydd hon yw y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio protocol lleol sy'n ei gwneud yn bosibl i achosion gael eu cydlynu gan nifer o asiantaethau i'r rhai sy'n profi digartrefedd ochr yn ochr ag anghenion cymorth eraill. Ni ragwelwn y bydd y protocol hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob ceisydd digartrefedd; ei brif ddiben yw ymdrin ag anghenion y rhai sydd ag anghenion lluosog a chymhleth. Caiff canllawiau ymarfer sy'n nodi'r egwyddorion i ddatblygu'r protocolau hyn, ochr yn ochr â gwybodaeth am bennu trothwyon a rheoli achosion, eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid. Caiff y ddyletswydd i lunio protocol i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau eraill y mae angen cymorth penodol arnynt ei chefnogi drwy adran 95 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd o dan y Bil) a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i ofyn i amrywiaeth ehangach o gyrff cyhoeddus penodedig eu helpu i gyflawni nifer o amcanion sy'n gysylltiedig â digartrefedd.

*Gwella cymorth i geiswyr yn yr ystad ddiogel*

111. Mae data Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn awgrymu bod 14% o'r rhai sy'n gadael y carchar yn ddigartref ar adeg eu rhyddhau, ac mae'r data digartrefedd statudol yn nodi bod 11% o'r rhai sy'n cysylltu mewn perthynas â digartrefedd yn bobl sy'n gadael y carchar.[14] [15] Mae'r ffigurau hyn bron yn sicr yn tangynrychioli'r ffigurau gwirioneddol.

112. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu perthynas gilyddol rhwng carcharu a digartrefedd; mae pob profiad o'r naill yn gwneud y llall yn fwy tebygol a phan fydd anghenion cymhleth ehangach yn bresennol, gall arwain at gylch o ryngweithio mynych â'r system gyfiawnder a digartrefedd hirsefydlog. Fel y noda'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, mae hyn yn cael effaith anghymesur ar bobl Ddu, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, sy'n

[14] Accommodation Following Release from Custody - GOV.UK (www.gov.uk)
[15] Aelwydydd a gafwyd yn gymwys, yn ddigartref yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros golli'r cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd (adran 73) (llyw.cymru)

wynebu cyfraddau uwch o ddigartrefedd ac sy’n cael eu gorgynrychioli yn y system garchardai.

113. Mae’r rhai sy’n mynd i mewn i’r ystad garchardai neu sy’n ei gadael yn agored iawn i fod yn ddigartref. Bydd y Bil yn cyflwyno nifer o fesurau sydd â’r nod o wella’r broses o atal a lleddfu digartrefedd i’r grŵp hwn.

*Diogelu eiddo: carcharorion*

114. Wrth ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, clywsom enghreifftiau niferus o golli eiddo personol o ganlyniad i garcharu a cholli llety. Mewn rhai achosion, roedd unigolion wedi colli eiddo hynod bersonol, a oedd wedi peri cryn drallod.

115. Mae mynediad at wybodaeth bersonol hollbwysig megis pasbortau, trwyddedau gyrru, ac ati, yn hollbwysig er mwyn i unigolion adsefydlu’n llwyddiannus ar ôl cael eu rhyddhau o’r carchar. Fel yr amlinellir uchod, ceir hefyd eiddo personol sydd o werth personol mawr i geisydd ac os collir eiddo o’r fath gall hynny gael effaith fawr ar lesiant a’r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn llwyddo i ddod yn rhan o’r gymuned unwaith eto ar ôl bwrw dedfryd yn y carchar.

116. Mae adran 93 o Ddeddf 2014 yn gosod cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i atal eiddo personol unrhyw geisydd y mae’r pedair prif ddyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo rhag cael ei golli neu i liniaru unrhyw ddifrod. Gall y ddyletswydd barhau unwaith y daw dyletswyddau i ben.

117. Gan y bydd y Bil yn newid mynediad at y dyletswyddau digartrefedd i’r rhai sydd yn y carchar er mwyn rhoi eglurder a gwasanaeth â mwy o ffocws, mae’n bosibl na fyddai rhai pobl yn gymwys i gael mynediad at y ddyletswydd yn adran 75 ond y byddai angen cymorth o hyd arnynt o bosibl i ddiogelu eu heiddo personol, a hynny am na fydd y brif ddyletswydd tai o dan adran 75 yn ddyledus gan awdurdod tai lleol os yw’r awdurdod wedi’i fodloni nad yw’r ceisydd yn debygol o gael ei ryddhau o’r carchar cyn diwedd cyfnod o chwe mis yn dechrau ar y diwrnod y gwnaed y cais am gymorth, neu os yw dyletswydd yn ddyledus i’r ceisydd o dan adran 66 ar unrhyw adeg ar ôl i’r cais hwnnw gael ei wneud, y diwrnod y daw’r ddyletswydd o dan adran 66 i ben.

118. Bydd y Bil yn diwygio adran 93 o Ddeddf 2014 i gynnwys categori ychwanegol o berson na fyddai’n destun dyletswydd digartrefedd (o ganlyniad i’r diwygiadau a nodir uchod), ond mae dyletswydd i ddiogelu eiddo yn ddyledus iddo o hyd. Er bod hyn yn ymddangos o bosibl fel petai’n darparu gwasanaeth i bobl ychwanegol yn y carchar, y gwir yw y bydd yn cadw’r un lefel o ddarpariaeth ag a geir ar hyn o bryd.

*Dyletswydd i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth: personau a gedwir yn gaeth*

119. Mae adran 60 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i sicrhau ei fod yn darparu gwasanaeth i roi gwybodaeth a chyngor ynglŷn ag atal digartrefedd neu gymorth i gael gafael ar wasanaethau digartrefedd i unrhyw un 'yn ei ardal'. Bydd y Bil yn cryfhau'r geiriad presennol i'w gwneud yn gliriach fod y ddyletswydd hon yn cynnwys personau a gedwir yn gaeth yn ardal yr awdurdod neu sydd â chysylltiad lleol â'i ardal. Wrth wneud hynny rydym yn anelu at egluro y dylai fod modd hefyd i unigolion sydd wedi'u carcharu gafael ar wasanaeth gwybodaeth a chyngor. Bydd y Bil hefyd yn egluro mai un o nodau'r gwasanaeth yw diwallu anghenion pobl yn y carchar, yn ychwanegol at y bobl hynny sy'n gadael y carchar.

*Diffiniad o "cam-drin" a "cam-drin domestig"*

120. Gwyddys bod cydberthynas arwyddocaol rhwng y profiad o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a digartrefedd. Mae cam-drin domestig yn enwedig yn achos sylweddol o ddigartrefedd ledled y DU.[16] Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod awdurdodau lleol wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth digartrefedd oherwydd cam-drin domestig dros nifer o flynyddoedd, ac yn enwedig yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.[17]

121. Ar hyn o bryd, mae ymarfer yng Nghymru yn dibynnu ar nifer o ddiffiniadau o gam-drin domestig a nodwyd yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, Deddf 2014 a Deddf Cam-drin Domestig 2021 Llywodraeth y DU. Bydd y Bil yn ehangu'r diffiniad o gam-drin domestig, a fydd yn golygu ei fod yn gyson â Deddf Cam-drin Domestig 2021. Wrth wneud hyn, rydym yn ceisio sicrhau bod y diffiniad a ddefnyddir mewn ymarfer digartrefedd yn cynnwys yn benodol ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol a cham-drin economaidd a seicolegol. Wrth gyfeirio at y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern (2015) a'r Ddeddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu (1997), rydym yn ceisio egluro y dylai camfanteisio, stelcian ac aflonyddu gael eu hystyried yn enghreifftiau o gam-drin.

*Dyletswydd i geisio barn pobl ddigartref wrth arfer swyddogaethau digartrefedd*

122. Mae'r broses o ddatblygu'r Bil wedi'i gwreiddio ym mhrofiad bywyd digartrefedd. Mae hanes dros 350 o arbenigwyr drwy brofiad wedi llywio'r Bil ac mae'r dystiolaeth hon wedi bod yn hollbwysig i lunio'r pecyn o gynigion sy'n cael eu cyflwyno i'r Senedd. Mae effaith y gweithgarwch ymgysylltu hwn a'i gyfraniad cyfatebol at ansawdd y rhesymeg dros y polisi, yn ddiau yn un o gryfderau unigryw'r ddeddfwriaeth hon. Felly, mae'n bwysig bod y Bil yn parhau â'r arfer hwn, gan sicrhau bod y gwaith

[16] Fitzpatrick, S. et al (2022) The homelessness monitor: Great Britain 2022. Crisis: Llundain.
[17] The Shadow Pandemic: Violence against women during COVID-19 | UN Women – Headquarters

o ddatblygu polisïau a strategaethau yn y dyfodol yn parhau i gael ei lywio gan brofiad bywyd o ddigartrefedd.

123. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth ddatblygu eu strategaethau digartrefedd a'u gwasanaethau cynghori lleol, ymgynghori â phersonau, gan gynnwys pobl sy'n ddigartref neu sydd wedi bod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl sydd wedi bod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd wrth ddatblygu canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau digartrefedd.

*Addasrwydd llety*

124. Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ystyried safonau cyfreithiol amrywiol wrth benderfynu a yw llety yn addas i unigolyn. Mae'r safonau hyn wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ynghylch amodau tai, gorlenwi, a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth, gan gynnwys ystyried a yw'r llety yn fforddiadwy i'r unigolyn sydd mewn angen. Bydd y Bil yn ehangu ar hyn i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol hefyd roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau) wrth benderfynu ar addasrwydd.

125. Mae Gweinidogion Cymru yn pennu rheolau ynglŷn ag addasrwydd yng Ngorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 ("y Gorchymyn Addasrwydd"), sy'n amlinellu'r meini prawf sydd i'w defnyddio gan awdurdodau lleol wrth asesu a yw llety yn addas ai peidio. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys iechyd, anghenion cymorth, lleoliad a safonau.

126. Nododd y rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd nifer o bryderon ynglŷn ag addasrwydd y llety a gynigir yng Nghymru, gan gynnwys presenoldeb peryglon ffisegol, materion hygyrchedd, gorlenwi, a materion fforddiadwyedd, ochr yn ochr â chryn dipyn o brinder yn y cyflenwad yn gyffredinol. Erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig o hyd i ymdrin â'r pryderon hyn. Mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pwerau presennol i ddiwygio Gorchymyn Addasrwydd 2015, a fydd yn ddigonol i ymdrin â'r materion a amlinellir uchod. Bwriadwn ddiwygio Gorchymyn Addasrwydd 2015 er mwyn gwella safonau llety a ddarperir o dan swyddogaethau digartrefedd maes o law.

*Adroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim*

127. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau safonau uwch o ran cartrefi dros dro a chartrefi sefydlog. Ar sail yr heriau sy'n gysylltiedig â'r pwysau yn y system a'r diffyg dewis, bydd angen i'r broses o roi'r safonau a ddymunir ar gyfer llety dros dro ar waith fod un raddol a phan fydd cyflenwad ychwanegol ar gael.

128. Mae prinder data ynglŷn â llety dros dro ledled Cymru sy'n tanseilio gallu Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i asesu stoc llety dros dro

a’r defnydd a wneir ohono, effeithiau unigol y defnydd a wneir ohono ac unrhyw dueddiadau sy’n gysylltiedig â strwythur poblogaethau sy’n defnyddio’r llety hwn. Gall Llywodraeth Cymru gofnodi nifer yr aelwydydd sydd mewn llety dros dro, ond nid oes ganddi ddata ar ansawdd, cyfleusterau, hyd y cyfnod yn y llety na demograffeg.

129. Mae gwaith ehangach yn mynd rhagddo i wella ansawdd y data ar ddigartrefedd yng Nghymru, gan gynnwys newid tuag at ddata ar lefel achosion unigol. Hefyd, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar y defnydd o lety dros dro a’i gyflwr a’i osod gerbron y Senedd bob pum mlynedd. Diben yr adolygiad parhaus yw deall ac asesu’r defnydd o lety dros dro a’i gyflwr ledled Cymru er mwyn cefnogi gwelliannau i lety dros dro sy’n seiliedig ar dystiolaeth, ac sy’n gyson â chynyddu stoc. Bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2030.

130. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi’r wybodaeth angenrheidiol i Weinidogion Cymru ar gyfer yr adolygiad a’r adroddiad. Mae gan awdurdodau lleol ddata ar lety dros dro yn eu hardal ac ar safonau eu stoc dai eu hunain. Os na fydd gan awdurdod lleol y data hyn, bydd yn gallu gofyn i’w bartneriaid perthnasol am y data o dan adran 95 o Ddeddf 2014.

*Cydweithredu*

131. Mae adran 95 o Ddeddf 2014 yn nodi dyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng awdurdodau tai lleol a gwasanaethau cymdeithasol. Mae’n rhaid i hyn gael ei wneud gyda’r nod o gyflawni nifer o amcanion mewn perthynas â’i ardal: atal digartrefedd, darparu llety addas i bobl a all fynd yn ddigartref; rhoi cymorth boddhaol i bobl sy’n ddigartref neu a all fynd yn ddigartref; a chyflawni ei swyddogaethau o dan y Rhan hon yn effeithiol. Caiff awdurdod hefyd ofyn am gydweithrediad y personau a restrir yn is-adran (5).

132. Bydd y Bil yn ehangu ar y ddyletswydd iddi fod yn gymwys i amrywiaeth ehangach o gyrff cyhoeddus penodedig a restrwyd yn adran 95(5). Bydd y ddyletswydd ehangach yn caniatáu i awdurdodau lleol ofyn am gydweithrediad cyrff cyhoeddus penodedig eraill i gyflawni ei swyddogaethau. Bydd yn ofynnol i’r cyrff cyhoeddus penodedig ychwanegol, fel y rhai presennol a restrir yn is-adran (5), gydymffurfio â chais oni fydd yn anghyson â’u dyletswyddau eu hunain neu ei fod fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer eu swyddogaethau eu hunain. Bydd y ddyletswydd ehangach hon yn hollbwysig i gefnogi trefniadau cydlynu achosion ac wrth geisio cymorth perthnasol i helpu unigolyn i gadw ei lety. Bydd yn sicrhau bod ystod o gyrff yn cydweithredu â’i gilydd yn fwy cyson er mwyn atal neu liniaru digartrefedd.

133. Bydd y Bil yn rhoi’r pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o gyrff cyhoeddus penodedig, tynnu cyrff oddi ar y rhestr a diwygio’r rhestr.

*Cydweithrediad rhwng landlordiaid cymdeithasol penodol ac awdurdodau tai lleol: darparu llety*

134. Sefydliadau nid er elw yw cymdeithasau tai. Mae eu dibenion craidd yn cynnwys darparu tai fforddiadwy i'r rhai sydd eu hangen. Mae'r gweithdrefnau y bydd awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn eu dilyn i benderfynu pwy sy'n cael y tai hyn ac ym mha drefn yn cael eu disgrifio fel "dyraniadau". Gall unigolyn neu aelwyd wneud cais am dai cymdeithasol drwy'r cynllun dyrannu lleol neu'r 'rhestr aros'.[18]

135. O ystyried y cyflenwad prin o dai fforddiadwy o ansawdd da, mae'n hollbwysig ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r stoc bresennol, a defnyddio'r broses o ddyrannu tai cymdeithasol fel ysgogydd i ymdrin â'r angen mwyaf dybryd am dai a rhoi diwedd ar ddigartrefedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth i Gymru bontio tuag at Ailgartrefu Cyflym[19].

136. Er mwyn helpu i ddatblygu'r Bil hwn, comisiynwyd dau ddarn o ymchwil i ystyried arferion dyrannu yng Nghymru. Y cyntaf oedd darn o waith ar raddfa fach, a gydgomisiynwyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i gefnogi gwaith y Panel Adolygu Arbenigol. Yr ail oedd darn cynhwysfawr o ymchwil ansoddol ynghylch awdurdodau lleol, cymdeithasau tai a sefydliadau rhanddeiliad allweddol, a wnaed gan Alma Economics.

137. Mae'r ymchwil hon yn awgrymu bod lefelau dyrannu i aelwydydd y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. [20] [21] Nododd y dystiolaeth a gomisiynwyd wrth ddatblygu'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd fod y dyraniadau i'r rhai y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt yn y pum maes ymchwil yn amrywio rhwng 23-60%. Mae ymchwil bellach yn dangos, ar gyfartaledd, fod 23.4% o stoc dai yn ardaloedd awdurdodau lleol lle nad oedd yr awdurdod tai lleol yn dal unrhyw stoc yn cael ei ddyrannu i'r rhai y mae dyletswydd tai derfynol (dyletswydd o dan adran 75) yn ddyledus iddynt o gymharu â chyfradd ddyrannu gyfartalog o 31.9% i'r rhai y mae dyletswydd derfynol yn ddyledus iddynt mewn ardaloedd lle roedd yr awdurdod tai lleol yn dal stoc, sy'n awgrymu bod awdurdodau tai lleol yng Nghymru yn dyrannu mwy o lety i'r rhai y mae dyletswydd tai yn ddyledus iddynt. Mae'r gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy wrth geisio atal digartrefedd. Mewn ardaloedd lle mae awdurdodau tai lleol yn dal stoc, maent yn dyrannu dwbl maint y llety i'r rhai y mae dyletswydd o dan adran 66 yn ddyledus iddynt (12.6% o ddyraniadau a wneir mewn awdurdodau sy'n dal

---

[18] Adroddiad Llawn TERFYNOL - Dyraniadau'r Panel Adolygu Arbenigol - Mehefin 2023

[19] Nod Ailgartrefu Cyflym, sef dull gweithredu a gydnabyddir yn rhyngwladol, yw helpu i leihau'r defnydd o lety dros dro i'r eithaf a gwella mynediad at dai sefydlog cyn gynted â phosibl. Bydd hyn yn helpu i osgoi effeithiau ansefydlogi ac ymyleiddio sy'n gysylltiedig â bod yn ddigartref am gyfnodau hir neu aros mewn lleoliadau brys neu dros dro am gyfnodau hir. Ceir rhagor o wybodaeth yma: Ailgartrefu Cyflym: canllawiau [HTML] | LLYW.CYMRU

[20] Adroddiad Llawn TERFYNOL - Dyraniadau'r Panel Adolygu Arbenigol - Mehefin 2023;

[21] Archwilio'r dyraniad tai cymdeithasol yng Nghymru

stoc o gymharu â 6.1% yn ardaloedd awdurdodau nad ydynt yn dal stoc).[22]

138. Yn ychwanegol at y setiau data hyn, mae Monitor Digartrefedd 2021 yn awgrymu bod y llif blynyddol o osod llety yn cael mwy o effaith ar roi diwedd ar ddigartrefedd na'r ddarpariaeth newydd o gartrefi. Fel y cyfryw, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod angen cynyyddu cyfraddau dyrannu tai cymdeithasol i'r rhai y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt er mwyn cyflawni ein bwriad polisi i atal digartrefedd a lleihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro.

139. Bydd y Bil yn galluogi awdurdodau lleol i ofyn i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr cofrestredig preifat tai cymdeithasol ("landlordiaid cymdeithasol") gynnig llety addas yn eu hardal i geisydd penodol y mae'r ddyletswydd digartrefedd derfynol yn ddyledus iddo. Mae'n rhaid i'r landlord cymdeithasol, o fewn cyfnod rhesymol, gydymffurfio â'r cais hwn oni bai bod ganddo reswm da dros beidio â gwneud hynny. Hefyd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol gydymffurfio â cheisiadau rhesymol am wybodaeth mewn perthynas â llety a ddelir gan y landlord cymdeithasol a wneir mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y ddyletswydd hon. Effaith fwriadedig y ddarpariaeth hon yw gwneud y defnydd gorau posibl o dai cymdeithasol i leddfu digartrefedd a chryfhau'r cydweithrediad rhwng awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn diwallu'r angen o ran tai. Mewn ardaloedd lle mae cyfraddau dyrannu i aelwydydd sy'n ddigartref yn is, mae'n cynnig ffordd ychwanegol i awdurdodau lleol gael llety i geiswyr digartrefedd. . Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar yr hyn sy'n gyfystyr â chyfnod rhesymol at ddibenion cydymffurfiaeth; rheswm da dros benderfyniad landlord cymdeithasol i beidio â chydymffurfio; a beth yw cais rhesymol am wybodaeth. Mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath a gyhoeddir. Ategir y pŵer hwn gan y gofynion newydd ar gyfer Cofrestrau Tai Cyffredin a'r ddyletswydd newydd ychwanegol i helpu person i gadw llety addas. Bwriedir i'r ddyletswydd hon ennyn mwy o hyder a gallu ymhlith landlordiaid cymdeithasol i gartrefu aelwydydd digartref ag anghenion cymorth a nodwyd.

140. Mewn perthynas â'r ddyletswydd hon, mae'r Bil yn caniatáu i awdurdodau lleol atgyfeirio at Weinidogion Cymru faterion lle ceir anghydfod rhwng landlord cymdeithasol ac awdurdodau lleol pan na fydd landlord cymdeithasol yn cydymffurfio â chais o fewn cyfnod rhesymol, p'un a oes gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio â chais ac os nad yw'r landlord cymdeithasol yn ymateb i gais o fewn cyfnod rhesymol. Os caiff anghydfod ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru, byddant yn ystyried sylwadau amrywiol ac mae'n bosibl y byddant yn rhoi cyfarwyddyd, os oes angen. Mae'n rhaid i landlord cymdeithasol gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwn sy'n orfodadwy drwy orchymyn gorfodol.

---

[22] Archwilio'r dyraniad tai cymdeithasol yng Nghymru

*Gweld llety*

141. Mae Deddf 2014 yn caniatáu i awdurdod ddod â'i ddyletswydd i geisydd i ben os yw wedi gwrthod cynnig o lety addas ar ôl cael hysbysiad ysgrifenedig o'r canlyniadau posibl os gwrthodir cynnig.

142. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gymryd 'camau rhesymol' i roi cyfle i'r ceisydd weld y llety a gynigir, boed hynny gan y ceisydd ei hun neu drwy drydydd parti, cyn y gellir dod â dyletswydd i ben, ar ôl i gynnig o lety addas gael ei wrthod.

143. Nod y ddarpariaeth newydd hon yw ceisio sicrhau bod unrhyw unigolyn sydd wedi'i analluogi ac nad yw'n gallu gweld y llety ei hun yn gallu gweld yr eiddo a gynigir. Bydd hyn yn arbennig o werthfawr i'r rhai yn yr ysbyty neu yn y carchar.

**Rhan 2: Dyrannu Tai Cymdeithasol**

144. Mae Deddf Tai 1996 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol, a rôl awdurdodau tai lleol a darparwyr tai cymdeithasol eraill, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Datblygwyd y ddeddfwriaeth hon ar adeg pan oedd cyflenwad mwy hwylus o dai, pan oedd llai o alw am wasanaethau tai a digartrefedd, a phan oedd awdurdodau tai lleol yn dal y rhan fwyaf o stoc tai cymdeithasol yng Nghymru. Ers ei chyflwyno, gwelwyd newid radical yn y sector tai, gyda rhan sylweddol o'r stoc dai wedi'i throsglwyddo i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a hanner yr awdurdodau lleol heb stoc o gwbl erbyn hyn.

145. Mae Rhan 2 o'r Bil, yn canolbwyntio ar gryfhau ac egluro rôl dyraniadau o ran lleddfu digartrefedd, gan roi ffocws penodol ar y rhai sydd â'r angen mwyaf dybryd am dai, a'r rhai sydd fwyaf agored i ansicrwydd llety. Diben hyn yw sicrhau bod y cyflenwad cyfyngedig o lety sydd ar gael yn cael ei gyfeirio at y rhai sydd â'r angen mwyaf, er mwyn creu tryloywder yn y system, cysoni blaenoriaethau a chryfhau gweithio mewn partneriaeth rhwng darparwyr tai.

**Diben ac effaith fwriadedig y darpariaethau**

*Dyrannu tai preswyl o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996*

146. Gall unrhyw un wneud cais am dai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth ar gael i'r rhai y mae ganddynt angen o ran tai a'r rhai nad oes ganddynt angen, ar yr amod eu bod yn gymwys.

147. Oherwydd y pwysau byrdymor a thymor canolig sy'n ymwneud â digartrefedd a'r cyflenwad tai, bydd pobl nad oes ganddynt angen o ran tai sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol yn aros sawl blwyddyn am lety ac, mewn rhai achosion, ni fydd llety byth yn cael ei ddyrannu iddynt. Mae

awdurdodau lleol yn nodi bod niferoedd sylweddol ar eu rhestrau aros yn bobl nad oes ganddynt angen o ran tai.

148. I rai awdurdodau, gall y ffigurau chwyddedig hyn ar y rhestr aros achosi problemau. Nid ydynt yn cynrychioli'r gwir angen am dai mewn ardal na'r adnoddau sydd eu hangen i reoli'r rhestr a gall y nifer mawr o bobl ar y rhestr aros wneud y gwaith o flaenoriaethu a rheoli yn heriol iawn.

149. Mae'r Bil yn rhoi disgresiwn i awdurdodau tai lleol benderfynu pa ddosbarthiadau o bobl sy'n bersonau cymhwyol neu nad ydynt yn bersonau cymhwysol i gael tai cymdeithasol yn eu hardal, ar yr amod nad ydynt mewn grŵp sy'n anghymhwys o gael dyraniad. Bwriad y cynnig hwn yw ei gwneud yn haws i'r bobl â'r angen mwyaf gael tai, sicrhau bod data mewn perthynas â digartrefedd ac anghenion o ran tai ledled Cymru yn glir a sicrhau bod pobl nad ydynt mewn angen ond sydd ar y rhestr aros yn cael cyngor cadarn ar y tebygolrwydd y byddant yn llwyddo i gael tai cymdeithasol.

150. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol roi ffafriaeth resymol i gategorïau penodol o bersonau wrth ddyrannu tai. Mae'n rhaid i bersonau y mae ffafriaeth resymol yn ddyledus iddynt gael eu trin fel personau cymhwysol, oni bai eu bod yn anghymwys neu wedi'u hanghymhwyso. Bydd Gweinidogion Cymru hefyd yn cael pŵer newydd i wneud rheoliadau i ragnodi dosbarthiadau o bersonau sydd i'w trin neu nad ydynt i'w trin fel personau cymhwysol, ac i bennu meini prawf na all awdurdodau tai lleol eu defnyddio wrth benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn rhai cymhwysol. Diben y pŵer newydd i wneud rheoliadau yw rhoi hyblygrwydd, er enghraifft mewn ymateb i newidiadau yn y galw am dai.

*Dim ffafriaeth i bersonau sy'n ceisio manipiwleiddio'r system dai*

151. Wrth inni ymgysylltu i ddatblygu'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru ac yn ystod yr ymgynghoriad dilynol, clywsom bryderon, os tybir mai'r system ddigartrefedd yw'r unig lwybr tuag at gael tai cymdeithasol, mai un o ganlyniadau anfwriadol posibl y diwygiadau yw ein bod yn creu'n ddamweiniol gymhelliant sy'n groes i bob rheswm sy'n gorfodi pobl i fod yn ddigartref er mwyn cael tai cymdeithasol. Mae hyn yn peri'r risg y bydd gwasanaethau ac adnoddau yn cael eu tynnu oddi wrth y rhai sydd â'r angen mwyaf ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar system sydd eisoes yn methu ag ateb y galw.

152. Er mwyn ymdrin â'r pryder hwn, bydd y Bil yn cyflwyno prawf 'manipiwleiddio bwriadol'. Bydd y prawf hwn wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd wedi ceisio manipiwleiddio'r system ddigartrefedd yn fwriadol i sicrhau mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol.

153. Ni fydd y prawf hwn yn effeithio ar fynediad at gymorth (digartrefedd) tai; bydd yn golygu na roddir ffafriaeth i'r ceisydd wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

154. Byddai unrhyw benderfyniad a chamau dilynol i leihau blaenoriaeth unigolyn yn y system ddyrannu yn destun adolygiad, yn yr un modd â phenderfyniadau eraill a wneir ynglŷn â dyrannu tai preswyl fel y'i nodwyd yn adran 167(4A) (d) o Ddeddf Tai 1996.

*Pobl sy'n gadael gofal: ffafriaeth resymol*

155. Mae gadael y system ofal yn gysylltiedig â risg uwch o fynd yn ddigartref.

156. Yn ystod yr ymgynghoriad a'r gweithgarwch ymgysylltu ehangach, clywsom, er gwaethaf ymdrechion llawer o awdurdodau lleol ledled Cymru, mai prin yw'r gwaith cynllunio llwybr a wneir a bod llawer o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn ddigartref ar eu pen-blwydd yn 18 oed. Mae rhai pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu rhoi mewn llety dros dro am gyfnodau hir, a all gael effaith andwyol ar eu llesiant. Mewn rhai achosion, mae'r llety dros dro hwn yn anaddas a gall gynnwys llety gwely a brecwast a gwestai.

157. Ni ddylai'r system ddigartrefedd gael ei defnyddio fel y llwybr arferol o ofal i fyw'n annibynnol. Bydd y Bil yn creu chweched categori o 'ffafriaeth resymol' i'r rhai y mae ar awdurdodau lleol ddyletswyddau iddynt o dan adran 108A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety ar gael i'w feddiannu ganddynt, gan sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau tai lleol roi blaenoriaeth i'r grŵp hwn o ran tai cymdeithasol. Bydd hyn yn hwyluso gwaith awdurdodau lleol wrth arfer y dyletswyddau newydd o dan adran 108A, yn yr ystyr ei bod yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai y mae'r dyletswyddau hynny yn ddyledus iddynt wrth ddyrannu tai cymdeithasol.

158. Mae creu'r grŵp 'ffafriaeth resymol' newydd yn ymateb i'r risg uwch o ddiffyg sicrwydd tai a digartrefedd y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal, y mae dyletswydd o dan adran 108A yn ddyledus iddynt, yn ei hwynebu. Mae'n cyd-fynd â'r ddyletswydd ychwanegol a osodir ar awdurdodau lleol o dan adran 23 o'r Bil. Bwriedir i'r darpariaethau hyn, gyda'i gilydd, atal y bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal rhag mynd yn ddigartref.

*Cofrestrau Tai*

159. Mae'r mwyafrif o awdurdodau tai lleol yn gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin mewn partneriaeth â'u landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn dyrannu tai cymdeithasol yn eu hardaloedd lleol. Mae'n cynnig pwynt cofrestru sengl, gan ei gwneud yn fwy tryloyw ac yn haws i geisydd ddeall ble mae ar y rhestr aros am dai. Mae un gofrestr tai rhwng yr holl landlordiaid cymdeithasol mewn ardal yn helpu i sicrhau bod pob darparwr yn gweithredu'n unol â blaenoriaethau cyson.

160. Mae'r Cod Canllawiau yn argymell y dylid rhoi Cofrestrau Tai Cyffredin ar waith ond nid yw'n ofyniad ar hyn o bryd fod yn rhaid i awdurdod tai lleol weithredu un. Er bod 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yn gweithredu un, mae'r broses gofrestru yn anghyson o hyd i bobl sy'n ceisio tai cymdeithasol

ledled Cymru. Mae'r Bil yn nodi gofyniad ar awdurdodau tai lleol yng Nghymru i sefydlu a chynnal Cofrestr Tai Cyffredin i bobl sy'n gwneud cais i'w hawdurdod am dai preswyl ac sy'n gymwys ac yn berson cymhwysol (neu sy'n gwneud cais ar y cyd â pherson sy'n berson cymhwysol).

161. Mae'r Bil hefyd yn nodi pwêr ychwanegol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaethau gweithredol pellach mewn cysylltiad â'r Gofrestr Tai Cyffredin, gan gynnwys yr wybodaeth y mae'n rhaid ei dal a'r broses o ddiwygio'r gofrestr a thynnu enwau ceiswyr oddi arni.

162. Er mwyn sicrhau bod y Gofrestr Tai Cyffredin yn gweithredu fel cofrestr sengl i bob ceisydd cymhwysol, mae'r Bil yn nodi mai dim ond i bersonau ar y gofrestr y gall landlordiaid cymdeithasol, gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr cofrestredig tai cymdeithasol, gynnig eu llety, sy'n golygu bod yn rhaid i geisydd gofrestru ar y gofrestr er mwyn cael mynediad at dai cymdeithasol. Bwriad polisi'r cynnig hwn yw sefydlu dull cyson a dealladwy a gwneud y weithdrefn ddyrannu'n fwy effeithlon.

*Cofrestrau Tai Hygyrch*

163. Mae Cofrestrau Tai Hygyrch yn chwarae rôl bwysig o ran nodi'r eiddo hygyrch neu addasedig sydd ar gael mewn ardal. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod eiddo o'r fath yn cael ei ddyrannu i unigolion anabl sy'n paru orau â'r llety. Er bod llawer o awdurdodau lleol yn gweithredu proses sy'n hwyluso paru eiddo hygyrch ag unigolion i ryw raddau, mae pobl anabl wedi codi pryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y prosesau hyn.

164. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol yng Nghymru sefydlu a chynnal cofrestr o dai preswyl yn eu hardal sy'n cynnwys nodweddion a all fod o gymorth i berson anabl. Bydd y ddarpariaeth hon yn helpu awdurdodau tai lleol i sicrhau mai â'r rhai sydd ag angen o ran hygyrchedd y caiff llety ei baru orau, gan helpu i gynnal tenantiaethau yn y llety mwyaf addas. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau er mwyn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau pellach ynglŷn â sut y caiff eiddo ei ychwanegu at y rhestr a'i dynnu oddi arni, a'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r Gofrestr Tai Hygyrch ei dal.

**Pennod 4: Ymgynghori**

1. Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn seiliedig ar ddegawd o werthuso ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae'n adeiladu ar y gwaith a wnaed yn 2018 gan Brifysgol Salford a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam, adolygiad 2019 yr Athro Pete Mackie ac adroddiadau'r Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a gyhoeddwyd yn 2019/2020.

2. Mae'r broses o ddatblygu'r Bil, ac ymgysylltu ac ymgynghori yn ei gylch wedi digwydd dros nifer o flynyddoedd; gan greu sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy. Cafwyd cryn ymgysylltu cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol ar y Papur Gwyn ac, fel y cyfryw, mae'r adran hon yn amlinellu ein gweithgarwch cyn ymgynghori, gweithgarwch ymgynghori a'r gweithgarwch ymgysylltu sydd wedi digwydd ers i'r cyfnod ymgynghori ffurfiol ddod i ben.

**Ymgysylltu cyn ymgynghori – y Panel Adolygu Arbenigol a gweithgarwch cysylltiedig**

3. Cafodd y Bil ei ragflaenu gan Bapur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Cafodd y Papur Gwyn hwn ei ddatblygu dros gyfnod o flwyddyn ochr yn ochr â gwaith gan Banel Adolygu Arbenigol.

4. Ym mis Awst 2022, fel rhan o gynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd , gwnaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd (ar y pryd) gynnull Panel Adolygu Arbenigol i ystyried sut y gallai newid deddfwriaethol helpu i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Gofynnwyd i'r Athro Suzanne Fitzpatrick (Athro Tai a Pholisi Cymdeithasol a Chyfarwyddwr y Sefydliad Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Tai, Cydraddoldebau (i-Sphere) ym Mhrifysgol Heriot-Watt) gadeirio'r panel gyda'r aelodau yn cynnwys gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol, y trydydd sector, cymdeithasau tai, arbenigwyr ar gydraddoldebau, academyddion a CB (Cwnsler y Brenin).

5. Cynhaliodd y panel gyfres o adolygiadau â thema rhwng mis Awst 2022 a mis Awst 2023, gan gyfuno asesiad o'r llenyddiaeth berthnasol ag adborth yn seiliedig ar ymarfer ac arbenigedd cyfreithiol. Yn bwysig ddigon, roedd holl waith y Panel Adolygu Arbenigol yn seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, a rannwyd gan fwy na 350 o bobl â phrofiad o ddigartrefedd yng Nghymru, gan gynnwys y rhai a oedd yn byw mewn llety dros dro, pobl ifanc, pobl sy'n gadael gofal, goroeswyr camdriniaeth a phobl yn y carchar.

6. Er mwyn sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl ag un nodwedd warchodedig neu fwy yn llywio'r gwaith, comisiynodd Llywodraeth Cymru Tai Pawb i gofnodi profiadau pobl â nodweddion gwarchodedig o ddigartrefedd, gan gynnwys ceiswyr lloches, ffoaduriaid, pobl anabl, pobl

Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, Sipsiwn a Theithwyr, pobl hŷn a phobl LHDTC+. Rydym yn ddiolchgar i Cymorth Cymru, Tai Pawb a phartneriaid arbenigol eraill am y gwaith hwn.

7. Gwnaeth y Panel Adolygu Arbenigol ei argymhellion yn annibynnol ar y Llywodraeth ond gweithiodd yn agos gyda swyddogion yn Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn bosibl i'r Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru gael ei ddatblygu ochr yn ochr ag adroddiad y Panel ei hun. Roedd angen gwneud hyn er mwyn sicrhau y gellid cyflwyno Bil yn ystod tymor y Senedd hon. Roedd y gwaith cyfochrog hwn yn cynnwys ystyried argymhellion yn iteraidd wrth iddynt gael eu datblygu, cynnal profion ychwanegol ar gynigion ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, gyda phartneriaid a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru, ynghyd ag asesiadau effaith cynhwysfawr.

8. Drwy'r gwaith cyfochrog bu modd mabwysiadu dull rhagweithiol ac ystwyth o ymdrin â'r rhesymeg dros bolisi ar gyfer y Bil hwn, gan roi'r un gwerth ar y panel a phroses datblygu polisi Llywodraeth Cymru. Dangosir y gwerth hwn drwy'r enghreifftiau canlynol.

9. O ystyried eu rôl hollbwysig i roi unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol ar waith, roedd yn bwysig ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ar gam cynnar yn ystod gwaith y panel. Er nad oedd modd cynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau yng nghyfarfodydd y panel, roedd Llywodraeth Cymru yn gallu cynnull "grŵp cyfeirio" cyfatebol i'r awdurdodau lleol, lle y gwnaethom brofi argymhellion datblygol y Panel Adolygu Arbenigol ar y cyd â chydweithwyr mewn awdurdodau lleol a rhoi'r adborth hwn i'r panel i'w ystyried ymhellach yn ei adroddiad terfynol.

10. Ar gam cynnar yn ei waith, nododd y Panel Adolygu Arbenigol fwlch tystiolaethol mewn perthynas â dyrannu tai cymdeithasol. Drwy'r trefniadau gwaith cyfochrog bu modd i Lywodraeth Cymru ymateb yn gyflym i'r bwlch hwn a chomisiynu (ar y cyd â Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)), ychydig o ymchwil ar raddfa fach i helpu i lenwi'r bwlch hwnnw a sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarnach i'r panel ei hystyried. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r sylfaen dystiolaeth honno ymhellach drwy gaffael a chyhoeddi astudiaeth bellach gan Alma Economics ar ddyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru.

11. Drwy'r dull cyfochrog o ddatblygu polisi a'r berthynas waith effeithiol a sefydlwyd â'r Panel Adolygu Arbenigol bu modd mabwysiadu dull cadarn o ddatblygu'r Papur Gwyn a'r Bil hwn. Mae'n unigryw o ran cryfder a dyfnder ei sylfaen dystiolaeth, wedi'i seilio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid yn yr hirdymor, cydgynhyrchu ac, yn bwysicaf oll, ar brofiad bywyd o ddigartrefedd.

**Ymgynghoriad ffurfiol: y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru**

12. Cyhoeddwyd y Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru ar 10 Hydref 2023 er mwyn cynnal ymgynghoriad 14 wythnos, a ddaeth i ben ar 16 Ionawr 2024. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad mor hygyrch â phosibl, fe'i cyhoeddwyd ochr yn ochr â fersiwn hawdd ei deall, fersiwn i blant a phobl ifanc a ffilm yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL). Rhoddwyd briffiadau technegol i arweinwyr awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

13. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, treuliwyd dros 100 awr yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mhob rhan o Gymru. Ymgysylltwyd ag awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, staff gwasanaethau cyhoeddus, sefydliadau yn y trydydd sector a phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd, gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig. Roedd y gweithgarwch ymgysylltu yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

    - Sesiynau wyneb yn wyneb manwl gyda thimau digartrefedd a chyngor tai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
    - Grwpiau ffocws gyda cheiswyr lloches yng Nghymru a gynhaliwyd gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru.
    - Digwyddiadau wyneb yn wyneb ar ffurf sioeau teithiol yn y de, y gogledd a'r canolbarth.
    - Digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein yn seiliedig ar y themâu canlynol: y diwygiadau craidd, gofal cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder troseddol a mynediad at dai (denodd pob digwyddiad rhwng 100 a 250 o bobl).
    - Tri digwyddiad pwrpasol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.
    - Arolwg o denantiaid tai cymdeithasol mewn partneriaeth â TPAS, a ymgysylltodd â 662 o denantiaid tai cymdeithasol o bob un o'r 22 o ardaloedd awdurdod lleol.
    - Gwaith ymgysylltu uniongyrchol â phlant a phobl ifanc a hwyluswyd gan End Youth Homelessness Cymru.
    - Cyfres o gyflwyniadau a chyfraniadau i gynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd â rhanddeiliaid.

14. Cyflwynwyd 140 o ymatebion ysgrifenedig i Lywodraeth Cymru, a roddodd gyfoeth o dystiolaeth ystyriol o ansawdd da gan amrywiaeth eang o randdeiliaid. Rhoddwyd yr ymatebion hyn ar ffurf ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad, llythyrau a ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad i bobl ifanc yn ogystal ag ymatebion i'r fersiynau hawdd eu deall a BSL o'r ddogfen ymgynghori. Mae'r holl ymatebion ar gael i'w gweld yma: Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU

15. Comisiynwyd Miller Research i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a chyhoeddwyd adroddiad ar 23 Ebrill 2024.

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad**

16. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn croesawu uchelgais y Papur Gwyn ac yn cytuno y byddai'r cynigion, o gael eu rhoi ar waith yn briodol, yn gwella prosesau atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru. Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu ymrwymiad cyffredin, eang i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r cynigion ymhellach. Ond y tu ôl i'r sentiment hwn roedd awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a ymatebodd yn galw am weithredu'n bwyllog.

17. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd yr ymatebion a fynegodd gefnogaeth i'r cynigion yn cynnwys llawer o rybuddion ynglŷn â faint o adnoddau y byddai eu hangen a hefyd y newid diwylliannol cyffredinol, y byddai ei angen yn nhyb y rhanddeiliaid er mwyn gwireddu'r weledigaeth a rennir yn y Papur Gwyn. Roedd y pryderon yn deillio'n bennaf o'r cynnydd cychwynnol canfyddedig yn y galw am gymorth ar draws gwasanaethau, wedi'i ysgogi gan y dyletswyddau arfaethedig ar wasanaethau cyhoeddus.

18. Roedd y mwyafrif yn cytuno ar y cynigion canlynol:

- cynyddu'r cyfnod atal o 56 diwrnod i 6 mis;
- cyflwyno Cynlluniau Tai Personol (ond nodwyd rhai amheuon ynglŷn ag enw'r dogfennau hyn);
- diddymu'r profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb (ond cododd rhai proffesiynau penodol bryderon a nodir isod);
- y diwygiadau arfaethedig i'r prawf cysylltiad lleol (ond, unwaith eto, nododd rhai proffesiynau penodol bryderon);
- cyflwyno dyletswyddau newydd i nodi, atgyfeirio a gweithredu, ac estyn y ddyletswydd bresennol i gydweithredu (a fyddai'n gymwys i set benodedig o gyrff) i atal digartrefedd;
- dull gweithredu amlasiantaethol o ymdrin ag achosion ac effeithiau cymhleth digartrefedd.

19. Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn nodi y byddai'r diwygiadau craidd arfaethedig i'r system ddigartrefedd yn arwain at ddull tecach, mwy cyson, a chynhwysol o leddfu ac atal digartrefedd. Fodd bynnag, nododd llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad faint o angen sydd ledled Cymru a faint o adnoddau y byddai eu hangen ar wasanaethau i ddiwallu'r anghenion hyn.

20. Pwysleisiodd rhai ymatebwyr y byddai i'r cynigion oblygiadau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol, oherwydd ffactorau ymarferol megis maint y boblogaeth a'i hanghenion, a'r cyflenwad tai lleol sydd ar gael.

21. Mewn tystiolaeth ychwanegol tynnwyd sylw at brofiadau'r rhai y mae digartrefedd yn cael effaith anghymesur arnynt. Cafwyd tystiolaeth gan ymatebwyr o'r trydydd sector, yn enwedig, a oedd yn cefnogi ystyriedd grwpiau ychwanegol (o blith cynigion y Papur Gwyn) y mae effaith

anghymesur arnynt ac mae angen gweithgarwch atal wedi'i dargedu ychwanegol ar eu cyfer.

22. Codwyd nifer o bryderon ynglŷn â sawl maes polisi penodol. Mae swyddogion wedi ystyried yr adborth hwn yn ofalus, gan ddefnyddio tystiolaeth yr ymgynghoriad i fyfyrio ar fwriad polisi a dulliau gweithredu amgen posibl. Nodir y rhain isod, ochr yn ochr â chrynodeb o'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r pryderon hyn.

**Atal**

23. Mae'r Cynlluniau Tai Personol y cyfeiriwyd atynt yn y Papur Gwyn bellach yn cael eu galw yn Gynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety. Gwnaed hyn mewn ymateb i adborth gan awdurdodau lleol a nododd bryderon nad oedd y teitl gwreiddiol yn dangos hyd a lled achosion a chanlyniadau digartrefedd ac na fyddai'n meithrin y gwaith ar y cyd a fyddai'n angenrheidiol er mwyn rhoi'r cynlluniau hyn ar waith yn llwyddiannus.

**Y profion**

24. Roedd y newidiadau arfaethedig i'r profion yn cael eu cefnogi gan y mwyafrif o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ond mynegwyd pryder gan awdurdodau lleol (yn benodol) ynghylch y cynigion i ddiddymu'r profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb a chodwyd rhai amheuon ynglŷn â'r diwygiadau arfaethedig i'r ffordd y cymhwysir cysylltiad lleol; a nodwyd bwlch canfyddedig rhwng uchelgais system gymorth gynhwysol, a realiti'r pwysau presennol o ran tai.

25. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi defnyddio'r prawf angen blaenoriaethol yn llai aml dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'r cynnig i ddileu'r prawf wedi achosi pryder i rai awdurdodau lleol sy'n ofni y caiff gwasanaethau (sydd eisoes yn defnyddio eu hadnoddau llawn neu fwy) eu gorlethu. Nid yw gwasanaethau digartrefedd wedi ymsefydlogi eto ers y pandemig ac erys gorddibyniaeth o hyd ar lety dros dro, y mae gormod ohono yn anaddas o ran ansawdd ac amser yn y cyfnod. Nid yw'r data misol wedi dangos eto unrhyw wastatáu, na lleihad cyson yn nifer y ceisiadau am gymorth digartrefedd.

26. Pwysleisiodd sawl ymatebydd y byddai angen cyfnod paratoi cyn diddymu'r prawf angen blaenoriaethol, er mwyn rhoi amser i baratoi adnoddau, hyfforddiant a chanllawiau priodol i gefnogi'r broses weithredu. Roedd y rhai a wrthwynebodd y newid hwn yn codi pryderon y byddai diddymu angen blaenoriaethol yn golygu na fyddai gan wasanaethau digartrefedd ffordd o flaenoriaethu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed; "os yw pawb yn flaenoriaeth, does neb yn flaenoriaeth". Roedd y cysyniad hwn yn

achos pryder penodol i ymatebwyr a oedd yn cynrychioli safbwyntiau pobl ifanc a phobl sy’n gadael gofal.

27. Er bod y mwyafrif o’r ymatebwyr yn cytuno â’r cynnig i ddiddymu’r prawf bwriadoldeb, roedd pob un o’r awdurdodau lleol a ymatebodd, namyn un, yn gwrthwynebu’r cynnig. Roedd llawer o’r rhai a anghytunodd yn codi pryderon ynglŷn â’r risg bosibl y byddai nifer yr achosion o ôl-ddyledion rhent yn cynyddu a’r risg o ymddygiad annerbyniol canfyddedig. Nododd staff awdurdodau lleol hefyd fod angen rhoi cymhelliant i geiswyr ysgwyddo cyfrifoldeb personol, gan dynnu sylw at eu defnydd anffurfiol o’r prawf bwriadoldeb fel adnodd darbwyllol i reoli ymddygiad defnyddwyr eu gwasanaethau.

28. Cymysg fu’r ymateb i’r cynnig i gadw’r cysyniad o gysylltiad lleol, ond creu grwpiau o bobl a fydd yn esempt rhag cael eu hatgyfeirio. Yn fras, roedd yr ymatebion yn croesawu gwell ystyriaeth o’r amrywiaeth o resymau sy’n effeithio ar y graddau y mae’n briodol i rywun ddychwelyd i’w awdurdod gwreiddiol, ond nodwyd hefyd fod rhai rhanddeiliaid yn rhoi cryn werth ar y cysylltiad lleol fel adnodd rheoli adnoddau pwysig. Ymhlith yr awdurdodau lleol a ymatebodd, roedd mwyafrif yn gwrthwynebu’r cynnig, ond roedd pob un o’r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a ymatebodd yn cytuno â’r cynnig. Roedd ymatebwyr o’r trydydd sector wedi’u rhannu’n eithaf cyfartal rhwng y rhai a oedd yn cytuno â’r cynnig a’r rhai nad oeddent yn cytuno â’r cynnig.

29. Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu y byddai unrhyw restr o esemptiadau yn heriol i’w rheoli. Fodd bynnag, roedd eraill yn teimlo nad oedd y rhestr arfaethedig o esemptiadau rhag atgyfeiriad ar sail cysylltiad lleol o dan adran 80 yn mynd yn ddigon pell, gan fynegi siom nad oedd ffoaduriaid na chyn-geiswyr lloches sydd wedi cael caniatâd i aros yn y wlad wedi’u cynnwys. Awgrymodd ymatebwyr hefyd y dylid cynnwys ychwanegu’r canlynol at y rhestr arfaethedig o esemptiadau:

- Pobl LHDTC+
- Ceiswyr lloches, ffoaduriaid a’r rhai heb hawl i gyllid cyhoeddus
- Pob person ifanc
- Y rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
- Y rhai y mae angen gwasanaethau iechyd arbenigol arnynt (er enghraifft, claf sydd ar ddialysis neu glaf sydd â chanser)
- Y rhai a fyddai’n cael budd o leoliad mewn cymuned sy’n rhannu’r un iaith neu ffydd, er enghraifft y rhai o gymunedau Cymraeg.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

**Angen blaenoriaethol**

30. Ers mabwysiadu'r dull gweithredu neb heb help yn 2020 ac yna'r penderfyniad i gyflwyno 11eg categori o angen blaenoriaethol i'r rhai a oedd 'yn ddigartref ac ar y stryd', mae'r defnydd a wneir o angen blaenoriaethol a'i effaith wedi lleihau'n sylweddol. Dengys y flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata nad yw 14 o blith yr 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn defnyddio'r prawf angen blaenoriaethol mwyach. [23] [24]Dengys y data mai dim ond mewn wyth awdurdod roedd y prawf wedi cael ei ddefnyddio; gyda thros hanner yr holl achosion o beidio â chynnwys angen blaenoriaethol mewn dau o'r awdurdodau hyn.

31. Mae'n fwriad gennym o hyd y dylid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol. Fodd bynnag, yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol a'r cynnig yn y Papur Gwyn, rydym yn cydnabod y bydd angen amser paratoi cyn ei ddiddymu. Fel y cyfryw, bydd y ddarpariaeth hon (ochr yn ochr ag eraill yn y Bil) yn cychwyn ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r gwaith cynllunio i weithredu'r newid ar y cyd ag awdurdodau lleol barhau a bydd yn rhoi hyblygrwydd i'r holl randdeiliaid o ran pennu'r adeg a'r amodau cywir i roi terfyn ar y prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru.

**Bwriadoldeb**

32. Y cynnig i ddiddymu'r prawf bwriadoldeb a gafodd y gwrthwynebiad mwyaf yn ystod yr ymgynghoriad. Mewn ymateb i hyn, ymgymerwyd â gweithgarwch ymgysylltu manwl pellach â'r awdurdodau lleol er mwyn deall pa ymddygiadau y maent yn defnyddio'r prawf bwriadoldeb ar hyn o bryd i ymateb iddynt – p'un a yw hynny'n cynnwys dod â dyletswyddau i ben, neu ddarbwyllo ceiswyr i beidio ag ymddwyn mewn ffordd benodol ac ymgysylltu â gwasanaethau.

33. Dangosodd y gweithgarwch ymgysylltu fod awdurdodau lleol yn defnyddio'r prawf bwriadoldeb (gan amlaf) i ymdrin â'r senarios canlynol:

- camddefnyddio'r system i gael tai cymdeithasol (e.e. cynllwynio â landlordiaid i ofyn am i hysbysiad gael ei gyflwyno neu i dalu am hysbysiad);
- achosion o drais a cham-drin yn erbyn staff a landlordiaid;
- difrod bwriadol i eiddo;

[23] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd
[24] Neu roedd y prawf wedi cael ei ddefnyddio mewn cyn lleied o achosion fel nad oedd wedi'i gofnodi yn y data (sy'n debygol o fod yn llai na thri achos fesul awdurdod a naw o unigolion i gyd.)

- ymddygiad sy'n codi o anghenion cymorth/anghenion cymhleth heb eu diwallu;
- gwrthodiad bwriadol a mynych i dalu rhent.

34. Mae'r Bil yn cynnwys nifer o agweddau sydd â'r nod o sicrhau bod awdurdodau lleol yn cadw'r adnoddau priodol i ymdrin â'r senarios hyn. Wrth ddatblygu'r darpariaethau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cydbwyso mesurau cosbi ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma a lleddfu, hyd y gellir, y risg o gysgu allan.

35. Mae'r Bil yn cyflwyno prawf "manipiwleiddio bwriadol" i gael gwared ar unrhyw gymhelliant i ddefnyddio'r system ddigartrefedd yn anghywir er mwyn cael tai cymdeithasol (yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol). Mae'n fwriad polisi gennym y bydd hyn yn cwmpasu amgylchiadau pan fydd person yn methu'n fwriadol â thalu rhent (mae'n gallu ei dalu ond mae'n dewis peidio â'i dalu) er mwyn iddo fod yn gymwys i gael cymorth o dan y swyddogaethau digartrefedd. Caiff yr unigolion hyn eu dadflaenoriaethu wrth ddyrannu tai cymdeithasol ond ni chânt eu hallgáu o'r system ddigartrefedd.

36. Mae'r Bil yn diwygio'r prawf methiant afresymol i gydweithredu er mwyn i'w gwmpas cyffredinol fod yn gulach. Fodd bynnag, mae'n pennu y gall awdurdodau lleol ddod â dyletswyddau i ben:

    a) Pan fydd y ceisydd wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at unigolyn sy'n cyflawni swyddogaethau digartrefedd neu sy'n darparu llety.
    b) Pan fydd rhywun wedi gwneud difrod difrifol i eiddo neu wedi dinistrio eiddo sy'n cynnwys swyddogaethau yn y Bil neu sy'n cael ei ddarparu i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â swyddogaethau yn y Bil.
    c) Pan fydd y ceisydd wedi methu ag ymateb i sawl ymgais gan yr awdurdod lleol i gysylltu ag ef mewn cysylltiad â'i gais digartrefedd.

37. Yn ein barn, ni ddylai ymddygiad sy'n deillio o anghenion cymorth heb eu diwallu neu anghenion cymhleth, fyth fod yn rheswm dros ddod â dyletswydd i ben neu ddadflaenoriaethu aelwyd wrth ddyrannu tai cymdeithasol. Bydd y Bil yn cyflwyno nifer o ddyletswyddau newydd i wella cymorth i'r unigolion hyn, gan gynnwys mesurau lleol i gydlynu achosion a dyletswydd i helpu i gadw llety addas a sicrhawyd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd.

38. O ystyried presenoldeb y darpariaethau newydd hyn a fydd yn ymdrin â'r senarios a nodwyd gan awdurdodau lleol yn ein barn ni, mae'r Bil yn darparu ar gyfer diddymu'r prawf bwriadoldeb. Fel yn achos angen blaenoriaethol, bydd y ddarpariaeth hon yn cychwyn ar ddyddiad a bennir

gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir gan offeryn statudol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i'r gwaith cynllunio i weithredu'r newid ar y cyd ag awdurdodau lleol barhau a bydd yn rhoi hyblygrwydd i'r holl randdeiliaid o ran pennu'r adeg a'r amodau cywir i roi terfyn ar y prawf bwriadoldeb yng Nghymru.

**Cysylltiad lleol**

39. Mae'r Bil yn cyflwyno prawf cysylltiad lleol er mwyn cadarnhau hawl i'r ddyletswydd (y brif ddyletswydd digartrefedd) o dan adran 75. Mae hyn yn gwyro oddi wrth y Papur Gwyn, a nododd fwriad polisi i leihau'r defnydd o'r prawf yng Nghymru. Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r Bil, sydd wedi cynnwys ymgysylltu'n barhaus â rhanddeiliaid, daeth yn amlwg fod angen prawf cysylltiad lleol er mwyn sicrhau bod ein bwriadau polisi yn cael eu cyflawni'n gyffredinol a sicrhau system ddigartrefedd flaengar i Gymru. Mae'n rhaid bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gallu gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol a chenedlaethol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf yng Nghymru.

40. Felly, ni fydd y Bil yn cyflwyno unrhyw esemptiadau newydd i'r prawf cysylltiad lleol, ond mae'n cadw'r esemptiad presennol ynglŷn â chamdriniaeth (noder: mae'r iaith yn y Bil wedi newid).

41. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ganiatáu ar gyfer newidiadau posibl i'r prawf cysylltiad lleol yn y dyfodol. Byddai'r rhain yn destun y weithdrefn gadarnhaol a bydd yn ofynnol cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arnynt.Diben y pŵer hwn yw nodi diffiniad clir o gysylltiad lleol o dan y gyfraith. Ar hyn o bryd, mae wedi'i nodi mewn canllawiau.

**Y dyletswyddau ar wasanaethau cyhoeddus**

42. Cafodd y dyletswyddau newydd arfaethedig i nodi, atgyfeirio a gweithredu a'r ddyletswydd estynedig arfaethedig i gydweithredu dderbyniad da ymhlith ymatebwyr, ond codwyd rhai pryderon ynglŷn â'r cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau cyhoeddus.

43. Roedd y set o gyrff a gynigiwyd (y dylai'r dyletswyddau hyn fod yn gymwys iddynt) yn cael ei hystyried yn un sylfaenol yn unig gan lawer. Roedd rhai'n galw'n daer am ehangu'r rhestr a thrwy hynny, ehangu'r disgwyliad i fwy o wasanaethau a rhanddeiliaid chwarae rhan bwysig i atal digartrefedd. Cytunwyd mai adrannau gwasanaethau cymdeithasol, byrddau iechyd a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi atgyfeiriadau cynnar. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ychwanegu'r sector rhentu preifat, addysg, y gwasanaeth prawf a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a chyrff yn y trydydd sector ehangach.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

44. Mae'r Bil yn cyfeirio at ddyletswyddau gwasanaethau cyhoeddus i "ofyn a gweithredu". Drwy'r teitl talfyredig hwn rydym yn ceisio disgrifio effaith fwriadedig y dyletswyddau'n gryno. Wrth wneud hynny, rydym yn benthyca teitl a ddefnyddiwyd i ddisgrifio ymarfer tebyg iawn sy'n gysylltiedig â nodi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru mewn ffordd wedi'i thargedu. Byddwn yn myfyrio ar y teitl drwy gydol y broses graffu. Credwn y byddai'n fuddiol rhannu'r teitl gan fod llawer o'r cyrff cyhoeddus penodedig a enwyd yn y Bil yn gyfarwydd ag ymarfer o'r fath a gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth gyflwyno "gofyn a gweithredu" ym maes VAWDASV.

45. Mae cryn dipyn o waith trawslywodraethol a rhynglywodraethol wedi cael ei wneud i greu rhestr gynhwysfawr o gyrff cyhoeddus penodedig sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau i ofyn a gweithredu. Rydym yn ddiolchgar i'r ystod o gyrff am eu hymrwymiad i nodau'r Bil ac am eu hymwneud yn ystod y broses ddatblygu. Ni fu modd ychwanegu pob un o'r cyrff a awgrymwyd at y rhestr, am resymau amrywiol.

46. O ran y cais ynglŷn â landlordiaid preifat; yn ein barn ni, nid yw'n briodol cymhwyso'r dyletswyddau at y garfan hon. Mae'r dyletswyddau wedi'u hanelu at wasanaethau cyhoeddus, nid unigolion na sefydliadau y tu allan i'r sector cyhoeddus. Mae'r hysbysiad terfynu (Ffurflen RHW1698) a ragnodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer landlordiaid eisoes yn cyfeirio deiliad y contract i geisio cymorth gan asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector ac i gysylltu â'r awdurdod tai lleol pe baent yn nodi bod deiliad contract yn wynebu risg o ddigartrefedd. Mae hyfforddiant trwyddedu Rhentu Doeth Cymru, yn ogystal â'r Cod Ymarfer statudol i landlordiaid ac asiantiaid gosod eiddo, yn darparu y dylai'r landlord (ar ôl cyflwyno hysbysiad i derfynu'r contract meddiannaeth), fel arfer gorau, ddarparu manylion asiantaethau perthnasol yn y trydydd sector i ddeiliaid contract nad oes ganddynt lety i symud iddo, neu sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety arall. Mae'r Gwasanaeth Cynghori ar Atal Colli Cartrefi hefyd yn rhoi cyngor cyfreithiol a ariennir gan y llywodraeth i rywun o'r adeg y caiff hysbysiad cymryd meddiant neu rywbeth tebyg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i ddeiliaid contract ar y broses o gymryd meddiant.

47. Fel rhan o'r broses o ddrafftio'r Bil, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion ar raddfa fach ac wedi gweithio gydag undebau addysg i asesu pa rôl y dylai ysgolion ei chwarae, os o gwbl, o ran "gofyn a gweithredu".

48. Mae adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau addysg yn cael eu harfer gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant (h.y.

personau o dan 18 oed). Yn yr un modd, mae'n rhaid i gyrff llywodraethu wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau ynglŷn ag ymddygiad yr ysgol, neu'r sefydliad, yn cael eu harfer gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, neu sy'n cael addysg neu hyfforddiant yn y sefydliad. Mae'n rhaid i bob corff dan sylw roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu pa drefniadau y mae'n rhaid iddo eu gwneud er mwyn cydymffurfio â'i ddyletswydd. Effaith y ddyletswydd i "roi sylw" i'r canllawiau yw bod y cyrff dan sylw, os byddant yn gwyro oddi wrth y canllawiau statudol heb gyfiawnhad, yn gweithredu'n anghyfreithlon o bosibl, a bod risg y cânt eu herio drwy adolygiad barnwrol.

49. Rydym o'r farn y byddai'r ddyletswydd i hyrwyddo lles plant yn cwmpasu gwneud trefniadau mewn perthynas â phlant sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac y gallai deunydd ychwanegol gael ei ychwanegu at y canllawiau a roddir i awdurdodau lleol o dan adran 175 er mwyn helpu ysgolion i adnabod ac atgyfeirio disgyblion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Felly, nid ydym wedi cynnwys ysgolion ar y rhestr o gyrff cyhoeddus penodedig a byddwn yn gweithio gydag ysgolion, undebau a chydweithwyr ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r pwerau presennol i gyflawni ein nodau polisi, gan gynnwys gwaith fel rhan o'r adolygiad arfaethedig o'r canllawiau "Cadw dysgwyr yn ddiogel".

50. Ni fydd y ddyletswydd i "ofyn a gweithredu" yn gymwys i sefydliadau addysg uwch ychwaith ar adeg ei chychwyn. Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda'i gilydd i ymdrin â nifer o faterion sy'n weddill mewn perthynas â'r rôl y gallai'r sector hwn ei chwarae yn y dyletswyddau yn y dyfodol.

51. Mae adran 94B(2) a (3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 21(2) o'r Bil) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r rhestr, a'n disgwyliad ar hyn o bryd yw y bydd y rhestr yn ehangu dros amser.

**Diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed ddal contractau meddiannaeth**

52. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylid ystyried ymhellach, drwy'r ymgynghoriad, a ddylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed fod yn ddeiliaid contract meddiannaeth, ac, wrth wneud hynny, ehangu'r opsiynau llety sydd ar gael i'r grŵp hwn. Er nad oedd y Papur Gwyn wedi nodi hyn fel cynnig deddfwriaethol, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid diwygio Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i ganiatáu i bobl ifanc 16 a 17 oed ddal contractau meddiannaeth. Fodd bynnag, mewn amrywiaeth eang o sylwadau manwl, dywedwyd y dylid bod yn bwyllog ynglŷn â'r cynnig hwn. Nododd sefydliadau plant bryderon penodol ynglŷn â diogelu a'r mesurau a fyddai'n cael eu rhoi ar waith i

helpu i gyflwyno'r newid hwn, gan gyfeirio at dystiolaeth bod plant a phobl ifanc hefyd yn rhannu pryderon ynglŷn â'r goblygiadau posibl iddynt hwy a'u cyfoedion.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

53. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar y cynigion mewn perthynas â chontractau meddiannaeth i bobl ifanc 16 a 17 oed drwy'r Bil hwn.

**Addasrwydd**

54. Roedd awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a sefydliadau yn y trydydd sector yn cytuno ar y cyfan â'r cynigion ynghylch gwella addasrwydd llety. Fodd bynnag, mynegodd llawer bryderon am ymarferoldeb a dichonoldeb cyflawni'r safonau hyn yn y byrdymor o ganlyniad i'r stoc dai gyfyngedig, y galw mawr a chyfyngiadau cyllidebol. Yn ogystal, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am ganllawiau clir ynghylch gweithredu a phwysigrwydd ystyried anghenion ac amgylchiadau grwpiau agored i niwed yn y canllawiau.

55. Roedd yr adborth ar yr ystod o gynigion ynglŷn ag addasrwydd yn amrywio, yn dibynnu ar y canfyddiad p'un a ellid eu cyflawni ai peidio a'u huchelgais.

56. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo y gallai'r newidiadau arfaethedig i safonau llety gael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu cyflawni yn y mwyafrif llethol o achosion. Cafwyd cytundeb eang na ddylai llety (dros dro neu sefydlog) â pheryglon categori 1 fyth gael ei ystyried yn addas, ac na ddylid defnyddio mannau cysgu a rennir i geiswyr mewn llety dros dro.

57. Gwnaeth y Papur Gwyn hefyd nodi cynigion i wella safonau addasrwydd llety yn y tymor hwy. Roedd llawer o'r rhain yn cael eu cefnogi mewn egwyddor ond ystyrid na fyddai modd eu cyflawni, oherwydd prinder llety.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

58. Mae adran 59 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi pŵer sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru benderfynu 'lle bo llety i'w ystyried yn addas ar gyfer person, a lle na fo i'w ystyried felly'. Felly, mae'r pŵer hwn eisoes yn caniatáu i Orchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015 ("Gorchymyn Addasrwydd 2015") gael ei ddiwygio i wneud newidiadau i ofynion o ran addasrwydd. Caiff hyn ei lywio gan yr adolygiadau o lety dros dro a fydd yn ofynnol o dan y Bil hwn a'i wneud mewn trafodaethau â rhanddeiliaid er mwyn pennu'r adeg a'r amodau cywir i ddiwygio Gorchymyn Addasrwydd 2015.

59. Fodd bynnag, bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau) hefyd wrth benderfynu ar addasrwydd.

60. Bwriedir parhau i ymgysylltu â'r awdurdodau lleol er mwyn llywio amseriad cychwyn y newidiadau is-ddeddfwriaethol hyn.

61. Er mwyn cydnabod y bydd llawer o nodau'r Papur Gwyn ynglŷn ag addasrwydd yn cymryd amser i'w cyflawni ac y bydd angen eu hadolygu'n barhaus, bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad rheolaidd o gyflwr lety dros dro a'r defnydd a wneir ohono ledled Cymru.

62. Bydd yn ofynnol cyflwyno adroddiad bob pum mlynedd, a bydd yr adroddiad cyntaf yn cael ei osod gerbron y Senedd a'i gyhoeddi erbyn 31 Rhagfyr 2030. Mae hyn yn llai aml na'r cyfnod o dair blynedd a gynigwyd yn wreiddiol gan y Panel Adolygu Arbenigol. Fodd bynnag, mae'n gyson ag amlder prosesau eraill i gasglu ac adrodd ar ddata sy'n gysylltiedig â thai a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys datblygu asesiadau awdurdodau lleol o'r farchnad dai leol. Caiff yr adolygiad ei ddefnyddio i lywio'r gwaith polisi a deddfwriaethol parhaus a fydd â'r nod o wella safonau llety dros dro dros amser.

**Hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety unrhyw bryd tra bydd ceisydd yn meddiannu'r llety (a ddylai fod ar gael y tu hwnt i 21 diwrnod)**

63. Nododd y Papur Gwyn nifer o benderfyniadau yn y system ddigartrefedd, sy'n bodoli eisoes neu a fydd yn deillio o'r cynigion ehangach i'w diwygio, sy'n effeithio ar ganlyniad ceisydd a'i brofiad o wasanaethau tai. Yn ei adolygiad, nododd y Panel Adolygu Arbenigol feysydd lle nad oedd penderfyniadau allweddol a wneir gan awdurdod tai lleol yn cael eu hategu gan hawl i adolygu neu lle nad oedd gan y ceisydd hawl ddigonol i adolygu. Roedd addasrwydd llety yn un o'r meysydd hyn a chynigiodd y Papur Gwyn y dylai addasrwydd llety fod yn benderfyniad y dylai fod gan y ceisydd hawl i wneud cais am adolygiad unrhyw bryd tra bydd yn meddiannu'r llety (estyniad sylweddol i'r terfyn cyfredol o 21 diwrnod).

64. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cytuno'n gyffredinol y dylai fod modd i geiswyr ofyn am adolygiad o addasrwydd lleoliadau mewn llety dros dro tra byddant yn meddiannu'r llety. Fodd bynnag, codwyd cryn bryder ynglŷn â hawl benagored i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety sefydlog, a fyddai'n anhydrin ac yn rhy feichus ym marn ymatebwyr.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

65. Ni fydd cyfnod adolygu penagored yn cael ei gyflwyno. Fodd bynnag, tybir bod y cyfnod adolygu presennol o 21 diwrnod yn rhy gyfyngol hefyd. Felly,

mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai’r hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety fod ar gael ar unrhyw adeg cyn ei dderbyn neu, os derbyniwyd y cynnig, ar unrhyw adeg pan fo dyletswyddau yn adran 66, 68 neu 75 o Ddeddf 2014 yn gymwys, neu o fewn 6 mis i’r llety fod ar gael i’r ceisydd. Dylai’r cyfnod hwn roi digon o amser i geisydd nodi unrhyw nodweddion anaddas sy’n gysylltiedig â’r eiddo nad oeddent yn amlwg pan welodd y ceisydd yr eiddo am y tro cyntaf.

**Pobl sy’n gadael gofal a phobl ifanc**

66. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys nifer o gynigion â’r nod o geisio cryfhau’r broses o atal digartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc. Cynigiodd y dylid cryfhau’r cyfrifoldebau presennol fel rhiant corfforaethol er mwyn sicrhau nad yw unigolion 16-17 oed sy’n ddigartref neu’n wynebu risg o ddigartrefedd yn syrthio rhwng gwasanaethau, na ddylai unrhyw berson ifanc 16-17 oed gael ei roi mewn llety dros dro heb gymorth ac o ran y rhai sy’n gadael gofal cymdeithasol neu’r system cyfiawnder ieuenctid y dylid gwahardd y defnydd o’r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal neu’r system cyfiawnder ieuenctid. Cynigiodd hefyd y dylid rhoi ‘ffafriaeth ychwanegol’ i bobl â phrofiad o fod mewn gofal sy’n ddigartref a’r rhai sy’n ffoi rhag camdriniaeth.

**Gwahardd defnyddio’r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal neu gyfiawnder ieuenctid**

67. Mynegodd ymatebwyr i’r ymgynghoriad eu cefnogaeth o blaid gwneud y ddeddfwriaeth yn fwy eglur drwy wahardd yn benodol ddefnyddio’r system ddigartrefedd fel llwybr allan o ofal neu gyfiawnder ieuenctid. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynllunio a gwneud trefniadau llety ymlaen llaw i’r rhai a oedd yn gadael gofal, gan sicrhau proses bontio ddidrafferth ac atal digartrefedd. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen ymgysylltu’n well â gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn sicrhau bod y cynigion yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Gwnaeth ymatebwyr hefyd fynegi pryderon ynglŷn â sicrhau’r cyllid a’r adnoddau angenrheidiol i roi’r newidiadau arfaethedig ar waith yn effeithiol. Tynnwyd sylw at yr angen am adnoddau ychwanegol sylweddol i gynyddu faint o lety sydd ar gael a gwasanaethau cymorth i bobl ifanc.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r adborth hwn***

68. Pe bai defnydd o’r system ddigartrefedd i bobl ifanc sy’n gadael gofal yn cael ei wahardd, y canlyniad anfwriadol fyddai cael gwared ar rwyd ddiogelwch a ddylai fod ar gael bob amser mewn sefyllfaoedd brys, ni waeth pa mor brin fo sefyllfaoedd o’r fath. Yn lle hynny, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau nad yw’r defnydd o’r system ddigartrefedd byth yn beth arferol wrth gynllunio llwybr ar gyfer plant sy’n derbyn gofal.

69. Felly, mae'r Bil yn gosod gofynion newydd ar wasanaethau cymdeithasol i gryfhau a chefnogi dull rhagweithiol o ymdrin â'r cyfnod pontio o ofal i gartref hirdymor gan wasanaethau cymdeithasol, a ddylai olygu nad oes angen defnyddio'r system ddigartrefedd o gwbl.

70. O dan y Bil, bydd angen protocolau ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a thimau opsiynau tai mewn awdurdodau lleol er mwyn integreiddio'r cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl ifanc 16-17 oed a phlant neu bobl ifanc sy'n gadael sefydliad cadw i ieuenctid, y carchar neu safleoedd cymeradwy yn fwy effeithiol. Drwy weithio gyda'i gilydd, gall yr asiantaethau hyn osgoi dyblygu ymdrechion a sicrhau bod y cymorth yn gynhwysfawr ac yn cael ei gydlynu'n dda.

71. Mae'r Bil hefyd yn gosod dyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu gan berson ifanc sy'n gadael gofal a fyddai'n destun y dyletswyddau newydd hynny.

**Ni ddylai unrhyw berson ifanc 16-17 oed gael ei roi mewn llety dros dro heb gymorth/ ni ddylai'r defnydd o lety dros dro anaddas, gan gynnwys llety gwely a brecwast, gael ei ddefnyddio ar gyfer pobl 25 oed neu'n iau, am unrhyw gyfnod**

72. Roedd y rhan fwyaf o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac ymatebwyr o'r trydydd sector a wnaeth sylwadau ar y cynnig mewn perthynas â phobl ifanc 16 a 17 oed yn cytuno ag ef. Roedd ymatebwyr o awdurdodau lleol wedi'u rhannu'n eithaf cyfartal rhwng y rhai nad oeddent yn sicr, y rhai a oedd yn cytuno a'r rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig. Cyfeiriodd yr ymatebwyr a oedd yn cefnogi'r cynnig at yr angen i ganolbwyntio ar drawma, llesiant a diogelwch pobl ifanc. Nododd ymatebion i'r cynnig mewn perthynas â phobl ifanc o dan 25 oed yn gryf na fyddai modd ei roi ar waith, o ystyried y problemau o ran cyflenwad ar hyn o bryd a phrinder llety dros dro o safon dda. Codwyd pryderon hefyd nad yw oedran ar ei ben ei hun yn faen prawf priodol i bennu i ba raddau y mae unigolion yn agored i niwed, risg na'r gallu i fyw heb gymorth ac nad oedd y rhai o dan 25 oed yn grŵp tebyg ag ystod gydlynol o anghenion a phrofiadau.

73. Nododd llawer o'r ymatebwyr effaith negyddol llety dros dro heb gymorth ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc. Gwnaethant bwysleisio bod digartrefedd ei hun yn brofiad trawmatig a hefyd bwysigrwydd rhoi cymorth priodol i ddiwallu anghenion iechyd corfforol ac iechyd meddwl, problemau o ran camddefnyddio sylweddau, ac anghenion cyfiawnder troseddol. Cododd ymatebwyr bryderon hefyd ynglŷn â diogelwch pobl ifanc mewn llety dros dro.

74. Fodd bynnag, mynegodd sawl un o'r ymatebwyr bryderon ynglŷn ag argaeledd ac ansawdd gwasanaethau cymorth i bobl ifanc sy'n ddigartref. Roeddent yn dadlau bod diffyg cymorth o ansawdd da sy'n ystyriol o drawma ac sydd ar gael 24/7. Gwnaethant hefyd nodi anghenion cymorth cynyddol pobl ifanc a'r pwysau a roddir ar y cyflenwad presennol o lety â chymorth o ganlyniad i hyn. Roedd yr ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig yn gwneud hynny oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau, cyfyngiadau ar ddewis, yr angen i fod yn hyblyg oherwydd achosion eithriadol a'r ffaith bod y rhesymeg dros y cynnig yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch pwy sy'n agored i niwed.

75. Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau y gall llety a rennir fod yn fuddiol o ran lleihau ynysigrwydd cymdeithasol, rhannu treuliau, a rhoi cyd-gymorth. Gwnaethant hefyd nodi nad yw llety hunangynhwysol bob amser yn fforddiadwy i bobl ifanc oherwydd cyfyngiadau yn y system fudd-daliadau. Codwyd pryderon ynglŷn â chanlyniadau negyddol gorfodi pobl ifanc sy'n gyfarwydd â llety hunangynhwysol i rannu amgylchedd. Hefyd, galwyd am asesiadau unigol o angen yn hytrach na mabwysiadu un ateb i bawb a hynny'n seiliedig ar oedran yn unig. Roedd ymatebwyr yn dadlau y dylai fod lle i achosion eithriadol lle y gall fod angen llety amgen mewn sefyllfaoedd brys, hyd yn oed am gyfnod byr.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

76. O ystyried y pryderon mawr ynglŷn â gweithredu'r cynnig na ddylid defnyddio llety dros dro anaddas, gan gynnwys llety gwely a brecwast, i bobl 25 oed neu'n iau, nid yw'r Bil yn cynnwys y cynnig hwn.

77. Fodd bynnag, nid yw llety gwely a brecwast, gwestai na mathau eraill o lety i oedolion yn bennaf yn lleoliad priodol i blant fyw ynddo. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru bennu mewn is-ddeddfwriaeth yr amgylchiadau pan ddylai neu na ddylai llety gael ei ystyried yn addas a'r materion y mae'n rhaid eu hystyried neu eu diystyru wrth ystyried a yw llety yn addas. Bwriadwn ddiwygio Gorchymyn Addasrwydd 2015 er mwyn sicrhau nad yw llety heb gymorth yn addas i bobl ifanc 16-17 oed, ond byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol mewn perthynas ag amseriad y newid hwn, er mwyn cydnabod y problemau o ran cyflenwad a fydd yn llesteirio'r broses o'i roi ar waith.

**Rhoi 'ffafriaeth ychwanegol' i bobl â phrofiad o fod mewn gofal sy'n ddigartref a'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth.**

78. Mae unigolion â phrofiad o fod mewn gofal yn ffurfio grŵp sy'n wynebu digartrefedd yn anghymesur o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol. Bwriad y cynnig yn y Papur Gwyn oedd blaenoriaethu'r grŵp hwn o ran tai cymdeithasol er mwyn lleddfu digartrefedd a chynyddu'r opsiynau o dai fforddiadwy sydd ar gael iddynt. Roedd y cynnig yn cael ei gefnogi yn yr

ymgynghoriad ar y cyfan, gyda llawer o awdurdodau lleol eisoes yn cynnig rhywfaint o ffafriaeth ychwanegol wrth fynd ati i roi llety i geiswyr digartref â phrofiad o fod mewn gofal.

79. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan lawer a oedd yn teimlo nad oedd diffiniad clir o ba unigolion a fyddai'n cael eu hystyried yn rhai 'â phrofiad o fod mewn gofal'. Roedd sawl un o'r ymatebwyr hefyd yn ffafrio cynnig "ffafriaeth resymol" i bobl â phrofiad o fod mewn gofal, p'un a ydynt yn ddigartref ai peidio. Ar ôl parhau i ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ar y cynnig hwn mae wedi ennyn cefnogaeth gref.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

80. Nid oes diffiniad cyfreithiol o 'â phrofiad o fod mewn gofal' ac mae cymhwyso diffiniad yn y Bil hwn y tu hwnt i'w gwmpas. Mae'r Bil wedi cael ei ddrafftio i roi blaenoriaeth i bobl y mae ar awdurdodau lleol cyfrifol ddyletswyddau iddynt o dan adran 108A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (fel y'i mewnosodwyd gan adran 23 o'r Bil) i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannu.

81. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, wrth lunio eu cynlluniau dyrannu, roi ffafriaeth resymol i'r grŵp hwn, p'un a ydynt yn ddigartref ai peidio. Bydd rhoi ffafriaeth resymol yn sicrhau bod opsiynau ac atebion tai ehangach yn cael eu darparu ar gyfer y grŵp hwn, ac mae'n ategu meysydd eraill yn y Bil y bwriedir iddynt sicrhau nad oes rhaid i bobl sy'n gadael gofal ddod yn rhan o'r system ddigartrefedd wrth bontio o ofal.

82. Nid yw categori ar wahân o ffafriaeth wedi cael ei roi ar waith i'r rhai sy'n ffoi rhag camdriniaeth, gan fod y grŵp hwn eisoes yn cael ei flaenoriaethu at ddibenion tai cymdeithasol am eu bod yn dod o dan ddau o'r categorïau presennol o ffafriaeth resymol: ar sail lles a phan fyddai methiant i symud yn achosi caledi iddynt hwy eu hunain neu eraill.

**Rhoi 'blaenoriaeth ychwanegol' i bobl sy'n ddigartref.**

83. Mae pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt o dan Ddeddf 2014, yn cael eu nodi fel grŵp o bobl mewn angen o ran tai, ac y mae'n ofynnol o dan Ddeddf 1996 iddynt gael 'ffafriaeth resymol' at ddiben dyrannu tai cymdeithasol. O dan Ddeddf 1996 mae'n rhaid i dai cymdeithasol gael eu dyrannu ar sail y categorïau hynny o bersonau sydd â ffafriaeth resymol. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai'r ceiswyr hynny y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt hefyd gael 'ffafriaeth ychwanegol' er mwyn cydnabod eu hangen dybryd o ran tai ac y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth iddynt o ran tai cymdeithasol.

84. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan awdurdodau tai lleol y gall hyn arwain at flaenoriaethu ceiswyr digartref dros geiswyr nad ydynt yn ddigartref, ond sydd mewn angen dybryd o ran tai. At hynny, cododd mwyafrif o’r ymatebwyr i’r ymgyngoriad bryderon, pe bai mwy o flaenoriaeth a ffafriaeth yn cael eu rhoi i aelwydydd y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt, y byddai hynny’n pwysleisio ymhellach ac yn gwaethygu’r risg y byddai pobl yn ystyried mai digartrefedd oedd yr unig lwybr i gael tai cymdeithasol, ac y byddent o bosibl yn ymgymryd â gweithgarwch a fyddai’n peryglu eu tenantiaethau er mwyn cael y flaenoriaeth hon.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r adborth hwn***

85. Cydnabyddir yn gyffredinol a cheir ymchwil sy’n dangos bod y ffordd y caiff tai cymdeithasol eu dyrannu i aelwydydd sy’n ddigartref neu sy’n wynebu risg o ddigartrefedd yn amrywio rhwng awdurdodau tai lleol yng Nghymru a bod angen i’r broses o ddyrannu tai cymdeithasol chwarae mwy o rôl i leddfu digartrefedd. Fodd bynnag, yn ein barn ni, ni fydd newid deddfwriaethol ynglŷn â’r ffafriaeth a roddir i aelwydydd digartref yn cefnogi’r bwriad polisi hwn.

86. Yn lle hynny, bydd camau anneddfwriaethol yn cael eu cymryd i weithio gydag awdurdodau tai lleol i wneud mwy o ymdrech i symud ceiswyr sy’n ddigartref allan o lety dros dro i gartrefi sefydlog addas yn gynt, a chefnogi’r ymdrechion hynny. Gan adeiladu ar y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Pontio Ailgartrefu Cyflym awdurdodau lleol, bydd Llywodraeth Cymru yn herio unrhyw orddibyniaeth ar lety dros dro ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i’r afael â chanfyddiadau ymchwil i ddyraniadau tai cymdeithasol a chynyddu dyraniadau i aelwydydd digartref. Os parheir i ddiystyru ceiswyr digartref neu os nad ydynt yn cael eu hystyried wrth ddyrannu tai cymdeithasol, mae’r Bil yn rhoi pŵer i awdurdodau tai lleol ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ddarparu llety i geisydd y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo o dan Ddeddf 2014.

**Ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddefnyddio Cofrestrau Tai Cyffredin a Chofrestrau Tai Hygyrch a mabwysiadu polisïau dyrannu cyffredin**

87. Gan fod y mwyafrif o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eisoes yn gweithredu cofrestrau tai cyffredin, roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn gefnogol i’r cynigion hyn. Cafwyd cytundeb cyffredinol y byddai Cofrestrau Tai Cyffredin yn debygol o arwain at rannu data’n well a blaenoriaethau cyson i bartneriaid cyflawni, a hefyd ddarparu gwasanaeth mwy tryloyw ac un haws cael gafael arno i geiswyr am dai cymdeithasol. Fodd bynnag, rhoddodd rhai rhanddeiliaid bwyslais mawr ar yr y lefel uchel o adnoddau y byddai eu hangen i greu Cofrestr Tai Cyffredin, gan gynnwys datblygu seilwaith TG.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

88. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gynnal Cofrestrau Tai Cyffredin a Chofrestrau Tai Hygyrch yn eu hardaloedd. Ni fydd polisïau dyrannu cyffredin yn ofynnol, ar ôl sgyrsiau ychwanegol gyda'r Panel Adolygu Arbenigol ac o ystyried y ffordd unigol ac amrywiol y mae'r polisïau hyn yn gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a darparwyr tai i bennu gofynion dylunio a swyddogaethau allweddol Cofrestrau Tai Cyffredin, Cofrestrau Tai Hygyrch a pholisïau dyrannu cyffredin, gan ddefnyddio arferion gorau, er mwyn helpu awdurdodau i'w rhoi ar waith. Caiff canllawiau cryfach mewn perthynas â rhoi polisïau dyrannu cyffredin ar waith eu datblygu, yn unol ag argymhelliad y Panel Adolygu Arbenigol.

**Rhyddhau o'r ysbyty**

89. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai fod yn ofynnol i asesiadau rhyddhau gynnwys ystyriaeth o anghenion tai cleifion ac y dylai fod dyletswydd ar y cyd ar iechyd a'r awdurdod tai lleol i weithio gyda'i gilydd i atal digartrefedd ar adeg rhyddhau o'r ysbyty.

90. Mae'r gweithgarwch ymgynghori (yn enwedig ymgysylltu'n uniongyrchol ag awdurdodau lleol ac yn y digwyddiad iechyd ar-lein) yn awgrymu'n gryf fod digartrefedd ar ôl rhyddhau o'r ysbyty yn broblem sylweddol. Gwnaeth sawl unigolyn a rannodd eu profiad bywyd o ddigartrefedd fel rhan o'r gweithgarwch ymgysylltu cyn ymgynghori hefyd rannu profiadau erchyll o gysgu allan ar ôl bod yn yr ysbyty.

91. Fodd bynnag, mae'n amlwg hefyd ar ôl parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r GIG mai un o ganlyniadau anfwriadol cynnig y Papur Gwyn ynglŷn â dyletswydd ar y cyd ar iechyd a'r awdurdod tai lleol i weithio gyda'i gilydd i atal digartrefedd ar adeg rhyddhau o'r ysbyty fyddai peri oedi cyn rhyddhau unigolion sy'n ffit yn glinigol. Codwyd pryderon hefyd yn yr ymgynghoriad y gall y cynnig i helpu unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ar adeg rhyddhau o'r ysbyty osod baich gweinyddol ar gyfleusterau gofal iechyd na ellir ymdopi ag ef.

**Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn**

92. Mewn ymateb i'r adborth hwn, nid yw'r Bil yn cynnwys dyletswyddau o ran rhyddhau o'r ysbyty. Fodd bynnag, mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu ar ein hymrwymiad strategol presennol i sicrhau na chaiff neb ei ryddhau o'r ysbyty i ddigartrefedd ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r GIG yng Nghymru i ddatblygu canllawiau ar y cyd i ysbytai ac awdurdodau tai lleol ar ryddhau o'r ysbyty a digartrefedd.

**Unigolion sy’n mynd i’r carchar ac sy’n gadael y carchar, sy’n wynebu risg o ddigartrefedd**

93. Amlinellodd y Papur Gwyn nifer o gynigion i dargedu gweithgarwch atal at grwpiau penodol sy’n wynebu’r risg fwyaf o ddigartrefedd, gan gynnwys cyfres o gynigion mewn cysylltiad â gwella canlyniadau tai i unigolion yn y carchar.

94. Mae’r adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad a gweithgarwch ymgysylltu arall yn cefnogi’n gryf y cysyniad o ddull atal sydd wedi’i dargedu at y grŵp hwn. Fodd bynnag, rhannodd llawer o randdeiliaid bryderon mawr ynglŷn ag argaeledd cyflenwad tai priodol a’r heriau strwythurol a systemig a wynebir yn y system garchardai, yn enwedig mynediad at unigolion a’r stigma sy’n gysylltiedig â bwrw dedfryd yn y carchar. Cafwyd cytundeb cyffredinol bod dulliau partneriaeth amlasiantaethol cadarn yn allweddol i atal digartrefedd ymhlith y rhai sy’n gadael y carchar a bod partneriaethau o’r fath yn cynnig cyfleoedd pwysig i roi diwedd ar yr arfer hirsefydlog a mynych o gysgu allan a lleihau aildroseddu.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r adborth hwn***

95. Mae’r tri chynnig cyntaf yn y Papur Gwyn ynglŷn ag unigolion sy’n gadael y carchar wedi’u hanelu at roi eglurder i bartneriaid cyflawni ac unigolion yn y carchar o ran hawliau a dyletswyddau. Nodwyd pryd roedd y rhain yn ddyledus a phwysleisiwyd pwysigrwydd asesu angen ar y cyfle cynharaf posibl.

96. Cynigiodd y Papur Gwyn, pan fydd unigolyn yn cael ei ddedfrydu i dymor yn y carchar yn gyntaf, y dylid gwneud asesiad ar y cam derbyn (yr adeg y mae’r person yn mynd i’r carchar) ynghylch a yw’n debygol o golli unrhyw lety tra bydd yn bwrw ei ddedfryd yn y carchar ac, os felly, a yw hefyd yn debygol o golli ei eiddo ac a yw’n debygol o gael ei ryddhau, a bod yn ddigartref, o fewn chwe mis.

97. Aeth yn ei flaen i gynnig na ddylai rhywun sydd yn y carchar fod yn ddigartref er nad oes ganddo fynediad at lety yn y gymuned ac na fydd y rhai yn y carchar (p’un a ydynt ar remand, wedi cael eu hadalw neu’n bwrw eu dedfryd) yn bodloni’r meini prawf ar gyfer digartrefedd oni bai bod un o’r tri amod canlynol yn cael ei fodloni:

- eu bod eisoes o dan ddyletswydd bresennol o dan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
- pan fo llety presennol mewn perygl yn unol â’r diffiniad presennol (neu ddiwygiedig); a/neu
- chwe mis (neu lai) cyn rhyddhau.

98. Cafodd pob un o’r cynigion dderbyniad cadarnhaol yn ystod yr ymgynghoriad ac yn ystod y gweithgarwch ymgysylltu ehangach a bwriedir gweithredu arnynt. Fodd bynnag, nid yw’r Bil yn cynnwys dyletswydd benodol ynglŷn ag asesu ar adeg derbyn gan ein bod yn bwriadu i hyn ddod o dan ein darpariaethau “gofyn a gweithredu”.

**Rhyddhau’n gynnar**

99. Gwnaeth y Papur Gwyn hefyd gynnig, er mwyn sicrhau bod carcharor yn cael ei ryddhau’n gynnar, y dylid tybio ei fod yn ddigartref ar y dyddiad rhyddhau’n gynnar pan fydd gwasanaethau cyfiawnder troseddol yn trafod y posibilrwydd o’i ryddhau, naill ai ar barôl neu fechnïaeth.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r adborth hwn***

100. Ar ôl ymgynghori, mae Llywodraeth Cymru o’r farn nad yw’n briodol deddfu er mwyn cyflawni ein bwriad polisi. Dylai ein cynigion ehangach i gryfhau prosesau ymyrryd yn gynnar ac atal sicrhau mynediad cynnar at wasanaethau ac unrhyw waith paratoi y gellir ei wneud i ryddhau carcharor yn gynnar (gan nodi newidiadau diweddar yn y maes polisi hwn a’r cyfyngiadau a wynebir gan yr holl randdeiliaid wrth ymgymryd â gwaith cynllunio). Fodd bynnag, mae’r Bil yn cynnwys darpariaethau i egluro’r dyletswyddau sy’n ddyledus i’r rhai yn y carchar.

***Newid perthnasol mewn amgylchiadau***

101. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylid mewnosod darpariaeth benodol er mwyn sicrhau y byddai unrhyw gyfnod yn y carchar yn cael ei ystyried yn newid perthnasol mewn amgylchiadau a thrwy hynny sicrhau y byddai gan y ceisydd hawl i gael asesiad adran 62.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r adborth hwn***

102. Dylai unrhyw gyfnod yn y carchar gael ei ystyried eisoes yn newid perthnasol mewn amgylchiadau, a bwriadwn gryfhau’r canllawiau i sicrhau bod hyn yn glir. Bydd hyn yn ychwanegol at y diwygiadau (a nodir uchod) i’r broses o adolygu penderfyniad i beidio â chynnig asesiad o’r angen o ran tai i geisydd. Yn ein barn ni, dyma’r ffordd fwyaf priodol ymlaen nad yw’n creu canlyniadau anfwriadol i’r broses asesu o dan adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**Gwasanaethau cynghori**

103. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai gwasanaethau gwybodaeth a chyngor fod ar gael i bobl yn y carchar ac y dylent gael eu darparu gan yr awdurdod lleol ‘lletyol’. Roedd ymatebwyr o’r trydydd sector yn gefnogol iawn i’r cynnig ond cymysg fu ymateb awdurdodau lleol (er bod y cynnig

yn agos iawn i'r sefyllfa bresennol o dan y gyfraith fel rhan o Ddeddf 2014). Roedd yr awdurdodau hynny a fyddai'n cael y dasg o ddarparu'r gwasanaeth yn pryderu ynglŷn â materion ymarferol megis recriwtio a mynediad, ond cododd awdurdodau eraill bryderon ynglŷn â'u hymwneud parhaus.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

104. Mae'r Bil yn cynnwys mân ddiwygiad i adran 60 o Ddeddf 2014 (sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol drefnu i ddarparu cyngor a chymorth) er mwyn pwysleisio bod gofyniad i ddarparu gwasanaethau cynghori i bobl yn y carchar. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu'r cyngor hwn.

**Terfynu a pharhau â dyletswyddau i unigolion yn y carchar**

105. Cynigiodd y Papur Gwyn y dylid ei gwneud yn glir, yn achos y rhai sy'n cael eu hadalw neu eu dedfrydu i dymor yn y carchar tra byddant o dan ddyletswydd gyfredol, na ddylai'r ddyletswydd honno ddod i ben yn awtomatig. Bwriad y cynnig hwn oedd sicrhau na ddylid dod â dyletswyddau i ben ac y dylai cymorth barhau wrth i bobl symud i mewn ac allan o'r system garchardai (weithiau am gyfnodau byr iawn).

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

106. Ymdrinnir â'r cynnig hwn drwy'r meini prawf cymhwystra newydd sy'n gysylltiedig â'r brif ddyletswydd tai o dan adran 75 o Ddeddf 2014 i unigolion yn y carchar. O ran carcharorion sy'n bwrw dedfryd yn y carchar, nid yw'r ddyletswydd o dan adran 75 yn gymwys os nad oes disgwyliad rhesymol y caiff unigolyn ei ryddhau o fewn chwe mis. Os mai carcharor neu rywun sy'n byw mewn safle cymeradwy yw'r ceisydd, mae'r ddyletswydd i sicrhau llety yn gymwys unwaith y caiff ei ryddhau neu unwaith na fydd angen iddo aros yn y safle cymerawy mwyach. Gall awdurdodau lleol ddod â dyletswydd o adran 75 i ben pan fydd y cyfnod yn y carchar yn debygol o fod yn hwy na chwe mis. Bydd y ddyletswydd atal o dan adran 66 yn parhau, ni waeth faint o amser a dreulir yn y carchar.

**Llety ar gael ar adeg rhyddhau o'r carchar**

107. Cynigiodd y Papur Gwyn, lle y bo modd, y dylid ystyried a ellid cynnig llety i berson yn y carchar o dan y ddyletswydd atal, gyda'r nod o sicrhau ei fod ar gael ar adeg rhyddhau'r carcharor, naill ai o dan gontract meddiannaeth neu ar sail fwy anffurfiol (llety â theulu neu ffrindiau).

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

108. Ymdrinnir â'r cynnig hwn drwy'r meini prawf cymhwystra newydd sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd atal i unigolion yn y carchar. Os oes dyletswydd yn ddyledus, mae'n rhaid iddi barhau. Gall awdurdodau lleol dod â dyletswydd i ben os disgwylir i'r cyfnod yn y carchar fod yn fwy na chwe mis, ond dim ond os nad oes unrhyw lety yn y gymuned i'w gadw.

**Carcharor yn gwrthod cynigion llety o dan y ddyletswydd atal tra bydd yn y carchar**

109. Cynigiodd y Papur Gwyn hefyd y dylai'r brif ddyletswydd tai fod yn gymwys os daw'r ddyletswydd atal i ben ac y bydd y ceisydd yn ddigartref ar adeg ei ryddhau, hyd yn oed os yw'r ceisydd wedi gwrthod y llety a gynigiwyd o dan y ddyletswydd atal.

***Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn***

110. Ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu eto â rhanddeiliad, mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol pellach y tu hwnt i'r rhai sydd eisoes yn cael eu cynnig er mwyn cyflawni'r bwriad polisi. Mae'r prif heriau sy'n gysylltiedig â hwyluso proses o ryddhau'n gynnar yn rhai ymarferol, gan gynnwys argaeledd llety a rhannu data'n effeithlon. Yn ein barn ni, y ffordd orau o ymdrin â'r materion hyn yw drwy ganllawiau ymarfer yn hytrach na deddfwriaeth.

**Safonau Rheoleiddio sy'n gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig**

111. Roedd y Papur Gwyn yn ystyried a ddylid gwneud newidiadau i'r safonau rheoleiddio sy'n gymwys i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

112. Roedd yr adborth ynglŷn â mwy o reoleiddio mewn perthynas â digartrefedd yn amrywio. Mynegodd rhai ymatebwyr y pryder y byddai mwy o reoleiddio yn creu perthynas wrthwynebus rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol, er mai nod cyffredin y cynigion ehangach yw ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio mewn partneriaeth yn well ac ar raddfa ehangach. Hefyd, codwyd pryderon nad oedd sicrhau modd i orfodi yn achos diffyg cyflawni yn ymdrin â'r rheswm dros y diffyg cyflawni, a fydd, mewn llawer o achosion, yn codi oherwydd prinder llety.

### *Newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r adborth hwn*

113. O ystyried yr adborth a gafwyd, a hyd a lled y ddeddfwriaeth a'r trefniadau rheoleiddio sydd eisoes ar waith, nid yw'r Bil yn cyflwyno unrhyw bwerau ychwanegol i wneud rheoliadau ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, sydd y tu hwnt i gwmpas y ddeddfwriaeth hon.

## Gwaith ymgysylltu ar ôl yr ymgynghoriad

114. Ar ôl cau'r broses ymgynghori ffurfiol a chyhoeddi dadansoddiad o'r ymatebion, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar lunio polisi a'i resymeg, ochr yn ochr â chynllunio'r broses o'i roi ar waith. Mae ymgysylltu o'r fath wedi parhau drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil.

### Panel Adolygu Arbenigol

115. Cafodd y Panel Adolygu Arbenigol ei ailgynnull ar 26 Chwefror 2024 i roi rhagor o fewnbwn ar ei argymhellion, ystyried dulliau amgen lle bo angen a nodi camau gweithredu ychwanegol sydd eu hangen i ymateb i'r adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad.

### Dadansoddiad Cost a Budd

116. Gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag Alma Economics i baratoi dadansoddiad cost a budd i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fel rhan o'r gwaith hwn, rhannwyd arolwg dadansoddi costau â rhanddeiliaid.

117. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â gweithwyr proffesiynol o'r sector cyhoeddus ehangach i ddatblygu'r ddeddfwriaeth ac ystyried y gofynion ymarferol a gweithredu ehangach. Mae'r gwaith hwn wedi ystyried y dyletswyddau newydd arfaethedig i ofyn a gweithredu a'r cynigion sy'n ymwneud â gweithgarwch atal digartrefedd wedi'i dargedu.

### Awdurdodau Tai Lleol

118. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â thimau awdurdodau tai lleol yn rheolaidd. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cael eu defnyddio i roi diweddariadau, datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, profi'r broses o ddatblygu polisi a llywio'r gwaith cynllunio ar gychwyn deddfwriaeth.

### Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

119. Rydym wedi gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ddatblygu'r newidiadau arfaethedig i bolisïau dyrannu, cofrestrau tai

cyffredin a chymorth ehangach i unigolion sydd ag anghenion cymorth lluosog a chymhleth.

**Ymgysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol**

120. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan sydd wedi penodi arweinydd proffesiynol ar gyfer y Bil. Rydym yn parhau i weithio gyda'r arweinydd a'r grŵp cyffredinol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y gwaith o ddatblygu'r Bil a phrofi a datblygu'r cynigion sy'n berthnasol i'r proffesiwn gwaith cymdeithasol. Rydym wedi gweithio gydag ymarferwyr sy'n gweithredu fel "cyfaill beirniadol" o sawl awdurdod er mwyn deall effaith ymarferol y cynigion hyn.

**Ymgysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid**

121. Rydym yn ymgysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, gan ymgymryd â gwaith datblygu polisi manwl ar y cyd ag ef er mwyn sicrhau bod y Bil yn gyson â'r dull gweithredu "plentyn yn gyntaf" a glasbrintiau cyfiawnder ieuenctid.

**GIG Cymru**

122. Rydym wedi ymgysylltu ag uwch-arweinwyr y 'Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng' yng Ngweithrediaeth y GIG ac rydym yn parhau i weithio gyda nhw i ddatblygu ein canllawiau statudol ar ryddhau o'r ysbyty a digartrefedd, sy'n cynnwys cymhwyso'r cynigion ynglŷn â "gofyn a gweithredu". Mae'r gwaith hwn yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion y model 'Gartref yn Gyntaf: Rhyddhau i Adfer yna Asesu'. Mae'r Grŵp Cynhwysiant Iechyd Strategol Cenedlaethol (sy'n cynnwys arweinwyr o Iechyd Cyhoeddus Cymru, gofal sylfaenol a phob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru) yn cynghori ar y broses o ddatblygu'r polisi sy'n gysylltiedig â "gofyn a gweithredu" ym maes iechyd ac rydym wedi gweithio gydag ymarferwyr "cyfaill beirniadol" o sawl bwrdd iechyd lleol ac elusennau cenedlaethol i ddeall effaith ymarferol y cynigion hyn a dysgu o arferion gorau. Mae hyn yn cynnwys dyletswydd i atgyfeirio sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

**Addysg**

123. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n fanwl â'r undebau addysg yng Nghymru drwy Weithgor Datblygu a Gweithredu Polisi Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi ymgysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion ledled Cymru ar raddfa fach er mwyn ystyried sut y gallai "gofyn a gweithredu" weithio mewn ysgolion.

**Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi**

124. Parhawyd i ymgysylltu â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ac awdurdodau lleol lle ceir carchardai er mwyn mireinio'r cynigion sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol a phobl sy'n gadael y carchar sy'n wynebu risg o ddigartrefedd.

125. Cafodd Gweithgor Llety Ar ôl y Ddalfa ei sefydlu i ystyried y newidiadau arfaethedig yn y maes hwn ymhellach. O fewn rhaglen waith fanwl, mae gweithgor yn cynnal adolygiad manwl o'r 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel'.

126. Er nad yw'r maes hwn wedi'i ddatganoli, rydym hefyd wedi dechrau ymgysylltu â rhanddeiliaid i ystyried sut mae'r system Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yn gweithio'n ymarferol yng Nghymru a sut mae'r ymarfer hwn yn gyson â'r Bil. Y nod yw sicrhau dull amlddisgyblaethol effeithlon o ymdrin â'r rhai sydd ar fin gadael y carchar ac sy'n destun trefniadau MAPPA.

**Y trydydd sector**

127. Rydym wedi rhoi diweddariadau rheolaidd ar y Bil mewn nifer o gynadleddau sy'n targedu cymdeithas sifil maes tai, gan gynnwys y rhai a gynhaliwyd gan Cymorth Cymru, y Sefydliad Siartredig Tai a Shelter Cymru. Rydym wedi ymgysylltu â nifer o sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cynrychioli grwpiau y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt, gan gynnwys plant, pobl sy'n gadael gofal a phobl sy'n gadael y lluoedd arfog.

**Awdurdodau a gedwir yn ôl**

128. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â'r adrannau perthnasol yn Llywodraeth y DU sy'n rheoli'r cyrff a gedwir yn ôl sy'n berthnasol i broses Cydsyniadau Gweinidogion y Goron.

**<u>Rhesymau dros beidio ag ymgynghori ar Fil drafft</u>**

129. Mae'r darpariaethau a geir yn y Bil yn cyd-fynd ar y cyfan â'r cynigion a nodwyd yn y Papur Gwyn, y cynhaliwyd ymgynghoriad arno, fel y'i hamlinellir uchod. O ystyried hyd a lled y gwaith ymgysylltu a wnaed mewn perthynas â'r cynigion dros gyfnod estynedig, nid ystyriwyd bod angen ymgynghori ar Fil drafft. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a chanlyniadau sesiynau ymgysylltu gwnaed rhai newidiadau i'r cynigion gwreiddiol. Amlinellir y rhain isod.

# Pennod 5.Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn narpariaethau'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

| **Adran** | **Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| 6(3) a 6(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 6(3) yn mewnosod adran 75 ddiwygiedig yn Neddf 2014. Mae'r adran ddiwygiedig hon yn cynnwys ychwanegu prawf cysylltiad lleol i'r hawl i ddyletswydd adran 75, fel mai dim ond y rhai sydd â chysylltiad lleol â Chymru fydd yn gymwys o ran y brif ddyletswydd tai yn adran 75 oni bai bod unrhyw rai o'r amgylchiadau yn 75(5) yn gymwys.<br><br>Ar hyn o bryd mae adran 75(5)(a) yn darparu nad yw'r prawf cysylltiad lleol yn gymwys os yw'r person yn wynebu risg o gael ei gam-drin. Mae adran 75(5)(b) yn gosod pŵer ar Weinidogion Cymru i ragnodi categorïau eraill | Cadarnhaol | Mae'r pwerau yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu hawliau o dan adran 75. Felly, mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol er mwyn sicrhau craffu priodol ar benderfyniadau. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | o bersonau nad yw'r prawf hwn yn gymwys iddynt.<br><br>Mae adran 6(4) yn diwygio adran 142 (gorchmynion a rheoliadau) o Ddeddf 2014 i ddarparu pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 75(5)(b), sy'n destun y weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn briodol er mwyn nodi diffiniad cliriach o gysylltiad lleol, a nodir mewn canllawiau ar hyn o bryd. | | |
| 11(3) a (7) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 11(3) yn mewnosod adran 80(2) ddiwygiedig ac adran 80(2A) newydd yn Neddf 2014, sy'n cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer atgyfeiriadau cysylltiad lleol cyn y derbynnir naill ai dyletswydd adran 66 neu ddyletswydd adran 75 (dim ond yng nghyd-destun rhywun yn y carchar y mae adran 66 yn gymwys).<br><br>Yn y naill achos a'r llall, dim ond os yw'r amodau a nodwyd yn is-adran 80(3) wedi'u | Cadarnhaol | Yn gysylltiedig â'r pŵer blaenorol, mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r amgylchiadau rhagnodedig pan fydd modd gwneud atgyfeiriad cysylltiad lleol. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bodloni y gellir atgyfeirio achos. Mae adran 80(2)(b) ac 80(2A)(b) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ragnodi amgylchiadau eraill pan fydd amodau ar gyfer atgyfeiriad yn cael eu bodloni.<br><br>Mae adran 11(7) yn diwygio adran 142 (gorchmynion a rheoliadau) o Ddeddf 2014 i ddarparu bod y pwerau hyn i wneud rheoliadau o dan adran 80(2)(b) ac 80(2A)(b) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. | | |
| 12(2) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 81(4) o Ddeddf 2014 eisoes yn cynnwys pŵer i benodi trwy orchymyn mewn perthynas â dau o'r pedwar amod ynglŷn â chysylltiad lleol a geir yn adran 81(2) - amgylchiadau penodol (a) pan nad yw person i gael ei drin fel person a gyflogir mewn ardal, neu (b) pan nad yw preswyliad mewn ardal i gael ei drin fel preswyliad o ddewis person ei hun. Mae | Cadarnhaol | Mae'r pwerau yn ei gwneud yn bosibl i bob un o'r amodau ynglŷn â chysylltiad lleol gael eu diwygio ac maent yn integreiddio'r pwerau presennol i wneud rheoliadau a geir eisoes yn adran 81(4). |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | adran 12(2) o'r Bil yn diwygio adran 81(4) i sicrhau bod pob un o'r amodau ynglŷn â chysylltiad lleol bellach yn ddarostyngedig i bŵer i wneud rheoliadau. | | |
| 13(2) a 13(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliad | Mae adran 13(2) o'r Bil yn mewnosod adran 81A newydd yn Neddf 2014. Mae'r adran newydd yn gwneud darpariaethau ynglŷn â cheiswyr sy'n esempt rhag cael eu hatgyfeirio o dan adran 80 (y prawf cysylltiad lleol). Mae adran 81A(2)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi categorïau eraill o bersonau sy'n esempt rhag cael eu hatgyfeirio.<br><br>Mae adran 13(3) yn diwygio adran 142 (gorchmynion a rheoliadau) o Ddeddf 2014 i ddarparu bod y pŵer hwn i wneud rheoliadau o dan adran 81(2)(b) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.<br><br>Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn briodol gan fod angen hyblygrwydd i ychwanegu categorïau | Cadarnhaol | Mae'r pŵer yn ei gwneud yn bosibl i ddiwygio categorïau sy'n esempt rhag atgyfeiriadau cysylltiad lleol. Mae angen hyblygrwydd er mwyn caniatáu'r categorïau hyn yn y dyfodol, yn seiliedig ar newid o ran safbwynt polisi neu angen. |

| **Adran** | **Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i** | **Ffurf** | **Priodoldeb y pŵer dirprwyedig** | **Gweithdrefn** | **Rheswm dros y weithdrefn** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | eraill o bersonau sy’n esempt rhag cael eu hatgyfeirio. | | |
| 21(2) a 21(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 21 o’r Bil yn mewnosod adrannau 94A a 94B newydd yn Neddf 2014. Mae adran 94A yn nodi dyletswydd newydd i ofyn a gweithredu ac mae adran 94B(2)–(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru hepgor neu ychwanegu cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson a newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o berson yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd newydd i ofyn a gweithredu.<br><br>Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth a fyddai’n gofyn am gydsyniad y Gweinidog priodol o dan baragraff 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) pe bai’r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru; Caiff (b) gynnwys darpariaeth a fyddai’n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â’r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai’r | Cadarnhaol | Y pŵer yw ychwanegu at ddarpariaeth neu ddileu darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn cynnig lefel briodol o graffu. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ddarpariaeth wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. "gofyn a gweithredu".<br><br>Mae'r cyrff y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt wedi'u rhestru yn y Bil, a cheisir pŵer i ddiweddaru'r rhestr hon yn y dyfodol yn ôl y gofyn drwy is-ddeddfwriaeth. Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod angen hyblygrwydd. Mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r rhestr o'r personau hynny (i ychwanegu neu hepgor person penodedig, neu newid disgrifiad o berson) yn y dyfodol er mwyn darparu ar gyfer personau newydd neu wahanol. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y rhestr yn dal i fod yn gyfredol ac yn berthnasol i'r sefydliadau sydd mewn sefyllfa i atal digartrefedd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus.<br><br>Mae adran 21(4) yn diwygio adran 142 (gorchmynion a rheoliadau) o Ddeddf 2014 i ddarparu bod y pŵer hwn i wneud rheoliadau o | | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dan adran 94 (B)(2)-(3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. | | |
| 23(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 23(4) o'r Bil yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i ddisodli'r pŵer presennol yn adran 109(3) â phŵer newydd yn adran 109A i wneud rheoliadau ynglŷn ag ystyr "llety addas" i bobl ifanc.<br><br>Mae'r pŵer presennol yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynglŷn ag ystyr "llety addas" ac yn benodol am addasrwydd landlordiaid neu ddarparwyr llety eraill. Fel y'u diwygiwyd, caiff rheoliadau wneud darpariaeth drwy gyfeirio at<br>(a) unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r llety, gan gynnwys ymhlith<br>pethau eraill)<br>(i) addasrwydd darparwyr llety;<br>(ii) amodau meddiannaeth; | Negyddol | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (iii) natur neu safon llety;<br>(iv) lleoliad llety;<br>(b) nodweddion personol ac amgylchiadau person ifanc<br>y mae adran 108A neu 109 yn gymwys iddo neu unrhyw berson y mae'n byw gydag ef/hi.<br><br>Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod llety yn addas at anghenion y grŵp hwn ac mae'n rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i faterion sy'n ymwneud â'r cyflenwad o lety neu ddarparwyr yn gyflym, gan sicrhau nad yw pobl yn cael eu rhoi mewn llety anaddas. | | |
| 32(2) a 32(3) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 32(2) o'r Bil yn disodli adran 95(5)–(8) o Ddeddf 2014. Mae adran 95 yn ymwneud â'r ddyletswydd i gydweithredu. Mae is-adrannau 95(6)–(7) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i hepgor neu ychwanegu cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson; newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o berson. Caiff y rheoliadau gynnwys darpariaeth a fyddai'n gofyn am gydsyniad y Gweinidog priodol o dan baragraff 8(1)(a) neu | Cadarnhaol | Y pŵer yw ychwanegu at ddarpariaeth neu ddileu darpariaeth mewn deddfwriaeth sylfaenol. Felly, ystyrir bod y weithdrefn gadarnhaol yn cynnig lefel briodol o graffu. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru; (neu cânt gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi'i chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.<br><br>Mae'r Bil yn mewnosod adran 95(1C) - (1E) sy'n cyflwyno dyletswydd bellach ar awdurdodau tai lleol i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod tai lleol ei hun a'r cyfryw bersonau a grybwyllir yn is-adran (1D) sy'n arfer swyddogaethau yn ardal yr awdurdod gyda'r nod o gyflawni'r amcanion yn (1C), gan gynnwys sicrhau bod achosion yn cael eu cydlynu'n effeithiol gan y personau hynny (yn (1D)) ynghylch y rhai sy'n ddigartref neu a all fynd yn ddigartref ac y mae angen cymorth arall arnynt yn benodol. O dan y ddarpariaeth hon, mae'n rhaid i'r personau y mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol hyrwyddo cydweithrediad â | | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | nhw gynnwys y rhai a restrir yn is-adran 95(5) - y rhestr y gellir ei diwygio drwy'r pŵer i wneud rheoliadau yn is-adran (6)-(8).<br><br>Mae'r cyrff y mae'r ddyletswydd yn gymwys iddynt wedi'u rhestru yn y Bil, a cheisir pŵer i ddiweddaru'r rhestr hon yn y dyfodol. Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod angen hyblygrwydd i sicrhau y gellir diwygio'r rhestr i adlewyrchu bwriad polisi cynyddol ac ymgysylltu â sefydliadau perthnasol wrth atal digartrefedd.<br><br>Mae adran 32(3) yn diwygio adran 142 (gorchmynion a rheoliadau) o Ddeddf 2014 i ddarparu bod y pŵer hwn i wneud rheoliadau o dan adran 95(6)-(7) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. | | |
| 35(4) | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 35(4) o'r Bil yn mewnosod is-adrannau (6A)–(6C) newydd yn adran 160A o Ddeddf Tai 1996. Mae adran 160A yn ymwneud â chymhwystra o ran dyraniad tai cymdeithasol. | Negyddol | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae is-adrannau 160A (6A)–(6B) newydd yn rhoi disgresiwn i'r awdurdodau tai lleol bennu eu rheolau eu hunain ynghylch pwy sy'n gymwys i gael dyraniad tai cymdeithasol. Cyfyngir ar y disgresiwn a roddir i'r awdurdod tai lleol ynghylch pennu'r dosbarthiadau o bersonau sy'n gymwys ac nad ydynt yn gymwys gan ddarpariaethau'r Ddeddf. Gellid hefyd gyfyngu ar y disgresiwn drwy ddarpariaeth a wneir mewn rheoliadau.<br>Mae is-adran (6C) yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau er mwyn:<br>(a) rhagnodi dosbarthiadau o bersonau sydd i'w trin, neu nad ydynt i'w trin, fel personau cymhwysol gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru, a<br>(b) rhagnodi meini prawf na chaiff awdurdodau tai lleol eu defnyddio yng Nghymru wrth benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau nad ydynt yn bersonau cymhwysol.<br>Ystyrir bod hyn yn addas ar gyfer rheoliadau gan fod angen hyblygrwydd oherwydd mae'n bosibl y bydd angen diwygio'r categorïau o | | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bersonau sydd i'w hystyried, neu nad ydynt i'w hystyried yn bersonau cymhwysol gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru, neu'r meini prawf y caiff yr awdurdodau hyn eu defnyddio, er mwyn ymateb i newidiadau yn y dyfodol ac anghenion tai sy'n newid. | | |
| 38 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 38 yn diwygio adran 160A o Ddeddf 1996, i fewnosod Adran 160D sy'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer cofrestrau tai cyffredin ac mewn cysylltiad â nhw. Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth:—<br>(a) ynghylch diwygio a dileu cofnodion yn y gofrestr mewn perthynas â pherson;<br>(b) ynghylch rhoi hysbysiad (er enghraifft, rhoi hysbysiad os yw person wedi'i gynnwys yn y gofrestr neu os yw cofnod yn y gofrestr mewn perthynas â pherson yn cael ei ddiwygio neu ei ddileu);<br>(c) ynghylch yr wybodaeth a gaiff ei chynnwys ar y gofrestr neu y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr; | Negyddol | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (d) ei gwneud yn ofynnol neu awdurdodi datgelu gwybodaeth a geir ar y gofrestr i berson neu ddisgrifiad o berson a bennir yn y rheoliadau;<br>(e) rhoi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru.<br><br>Mae adran 38 yn diwygio adran 160A o Ddeddf 1996, i fewnosod adran 160E sy'n rhoi pŵer i wneud darpariaeth ar gyfer cofrestr neu mewn cysylltiad â chofrestr y mae'n ofynnol ei sefydlu a'i chynnal o dan yr adran Cofrestrau Tai Hygyrch. Caiff y rheoliadau, yn benodol, wneud darpariaeth:—<br>(a) ynghylch diwygio a dileu cofnod yn y gofrestr mewn perthynas â thai preswyl;<br>(b) ynghylch rhoi hysbysiad (er enghraifft, hysbysu personau a bennir yn y rheoliadau os yw llety yn cael ei gynnwys ar y gofrestr neu os yw cofnod mewn perthynas â'r llety yn cael ei ddiwygio neu ei ddileu);<br>(c) ynghylch yr wybodaeth a gaiff ei chynnwys ar y gofrestr neu y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr; | | |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | (d) ei gwneud yn ofynnol neu awdurdodi datgelu gwybodaeth a geir ar y gofrestr i berson neu ddisgrifiad o berson a bennir yn y rheoliadau;<br>(e) rhoi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru | | |
| 41 | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae adran 41(1) yn rhoi pŵer i wneud rheoliadau i wneud:<br>(a) darpariaeth sy'n gysylltiedig ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn neu sy'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn neu sy'n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn y Bil hwn<br>(b) darpariaeth drosiannol neu arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Bil.<br>Mae adran 41 yn rhoi pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfiad heblaw darpariaeth yn y Ddeddf hon, ac addasu, diddymu a dirymu'r cyfryw ddeddfiad. | Negyddol oni wneir newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol. Os felly, cadarnhaol | Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y rheoliadau hynny sy'n gwneud darpariaethau technegol.<br><br>Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn briodol pan fo rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol. |
| 42 | Gweinidogion Cymru | Gorchymyn | Yn addas ar gyfer pwerau dirprwyedig am fod y ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu ar gyfer cychwyn y Bil. | Dim gweithdrefn | Mae'r gorchmynion hyn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau'r Bil ac maent o natur dechnegol. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Tabl 5.2: Crynodeb o'r pwerau i gyhoeddi canllawiau yn narpariaethau'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 21(3) | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae adran 21(3) yn diwygio adran 98 o Ddeddf 2014 (Canllawiau) i ddarparu bod yn rhaid i awdurdod cyhoeddus penodedig a restrir yn yr adran 94(B) newydd ystyried y canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 94A (Dyletswydd awdurdod cyhoeddus i ofyn a gweithredu). | Dim gweithdrefn | Ystyrir bod canllawiau yn briodol oherwydd bwriedir i'r rhain hwyluso'r broses o gymhwyso a gweithredu deddfwriaeth sylfaenol.<br><br>Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac ni fyddant yn ddarostyngedig i weithdrefn gan y Senedd. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| 33 | Gweinidogion Cymru | Canllawiau | Mae adran 33 yn mewnosod adran 96A newydd yn Neddf 2014 sy'n darparu bod yn rhaid i landlord cymdeithasol gydymffurfio â chais gan awdurdod lleol i ddarparu llety ar gyfer ceisydd digartref y mae'r brif ddyletswydd o dan adran 75 yn ddyledus iddo, o fewn cyfnod rhesymol, oni bai bod rheswm da dros beidio â chydymffurfio.At hynny, mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â chais rhesymol am wybodaeth sy'n ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan yr adran.<br><br>Mae is-adran 96A(6) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i landlord cymdeithasol ynghylch yr hyn sy'n gyfystyr â rheswm da dros beidio â chydymffurfio, cyfnod rhesymol o amser i gydymffurfio a chais rhesymol gan awdurdod lleol i ddarparu gwybodaeth. | Dim gweithdrefn | Ystyrir bod canllawiau yn briodol oherwydd bwriedir i'r rhain hwyluso'r broses o gymhwyso a gweithredu deddfwriaeth sylfaenol. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi gan Weinidogion Cymru ac ni fyddant yn ddarostyngedig i weithdrefn gan y Senedd. |

| Adran | Pŵer / swyddogaeth a roddwyd i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Gweithdrefn | Rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| 33 | Gweinidogion Cymru | Cyfarwyddiadau | Mae adran 33 yn mewnosod adrannau 96A a 96B newydd yn Neddf 2014. Mae adran 96B(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo landlord cymdeithasol i gydymffurfio â chais gan yr awdurdod tai lleol a wneir o dan adran 96A (gweler uchod) o fewn y cyfryw gyfnod ag a bennir yn y cyfarwyddyd. | Dim gweithdrefn | Nodir sylwedd y pŵer i roi cyfarwyddyd ar wyneb y Bil ac mae'n gyfyngedig o ran cwmpas ac fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso gweithdrefn gan y Senedd. |
| 31 | Gweinidogion Cymru | Cyhoeddi | Mae adran 31 yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar y defnydd o lety interim a'i gyflwr a'i osod gerbron Senedd Cymru. Mae'n rhaid i'r adroddiad cyntaf o dan yr adran hon gael ei osod, a'i gyhoeddi, cyn 31 Rhagfyr 2030 a phob pum mlynedd wedi hynny. | Dim gweithdrefn | Bydd meini prawf cyhoeddedig yn rhai technegol eu natur ac yn ymdrin â phroses yn bennaf, ac fel y cyfryw, nid ystyrir ei bod yn briodol cymhwyso gweithdrefn gan y Senedd. |

# RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Pennod 6: Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1. Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau ar gyfer y Bil ac mae'n dilyn isod.

2. Nid oes unrhyw ddarpariaethau penodol yn y Bil sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru.

3. Mae'r tabl canlynol yn cyflwyno crynodeb o gostau a manteision y Bil yn ei gyfanrwydd. Mae'r tabl wedi'i lunio i gyflwyno'r wybodaeth sy'n angenrheidiol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

<table>
<tr><td colspan="3">Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)</td></tr>
<tr><td colspan="3">Yr opsiwn a ffefrir:<br><br>Cyflwyno'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).<br><br>Bydd y Bil yn diwygio Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996. Mae'n canolbwyntio ar ehangu mynediad at wasanaethau digartrefedd a rhoi cymorth ychwanegol i'r rhai mewn angen. Mae'r Bil yn ehangu cyfrifoldeb awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru i adnabod a chynorthwyo unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Hefyd, mae'r Bil yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai sydd â mwy o angen wrth ddyrannu tai cymdeithasol, gan ychwanegu at yr ymdrechion i atal a lleddfu digartrefedd yng Nghymru.</td></tr>
<tr><td>Cam: Introduction</td><td>Cyfnod arfarnu: 2026-7 - 2035-6</td><td>Blwyddyn sail brisiau: 2023-4</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm y Gost<br>Cyfanswm: £325.8m<br>Gwerth presennol: £246.5m</td><td>Cyfanswm y Manteision<br>Cyfanswm: £1,195.3m<br>Gwerth presennol: £949.2m</td><td>Gwerth Presennol Net (GPN):<br>£702.7m</td></tr>
</table>

## Cost weinyddol

| **Costau:**<br><br>Amcangyfrifir y bydd costau gweinyddol o £325.8m i roi'r Bil ar waith. O'r cyfanswm hwn, costau trosiannol yw £15.3m, swm a fydd wedi'i rannu'n £0.4m i Lywodraeth Cymru, £2.4m i awdurdodau lleol a £12.5m i'r sector cyhoeddus ehangach a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Cost cyfle yw'r gost drosiannol i gyrff cyhoeddus ehangach a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, ac mae'n adlewyrchu'r gofyniad ynglŷn â hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau i 'ofyn a gweithredu'. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cyrff cyhoeddus ehangach' yn cynnwys Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, byrddau iechyd, y Weinyddiaeth Amddiffyn a'r Adran Gwaith a Phensiynau, ymhlith eraill.<br><br>Disgwylir i'r rhan fwyaf o'r costau rheolaidd gael eu hysgwyddo gan awdurdodau lleol (£302.4m), gyda'r gweddill wedi'i rannu rhwng Llywodraeth Cymru (£1.5m) a chyrff cyhoeddus ehangach/landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (£6.6m). |
|---|

| **Trosiannol:** £15.3m | **Rheolaidd: £310.6** | **Cyfanswm: £325.8** | **Gwerth Presennol: £246.5** |
|---|---|---|---|
| **Arbed costau:** Mae'r adran isod ar fanteision yn nodi'r manteision ariannol posibl (costau a osgowyd) os bydd y darpariaethau yn y Bil yn arwain at welliant deg pwynt canrannol yn y cyfraddau atal a lleddfu digartrefedd diweddar. | | | |
| **Trosiannol: £-** | **Rheolaidd: £-** | **Cyfanswm: £-** | **Gwerth Presennol: £-** |
| **Cost weinyddol net**: £325.8 | | | |

## Costau cydymffurfiaeth

| Mae'r holl gostau a nodwyd wedi cael eu cynnwys yn yr adran ar gostau gweinyddol uchod. | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £-** | **Rheolaidd: £-** | **Cyfanswm: £-** | **Gwerth Presennol: £-** |

## Costau eraill

| Ni nodwyd unrhyw gostau eraill. | | | |
|---|---|---|---|
| **Trosiannol: £-** | **Rheolaidd: £-** | **Cyfanswm: £-** | **Gwerth Presennol: £-** |

## Costau ac anfanteision heb eu mesur

| Ni fu modd inni ystyried yn ddigonol sefyllfa wrthffeithiol digartrefedd – h.y. beth fyddai'r canlyniadau i berson digartref pe na bai'n ddigartref. Er enghraifft, byddai effeithiau ar ganlyniadau cyflogaeth, credyd cynhwysol a threthiant yn gofyn am gryn dipyn o ddata ar |
|---|

ganlyniadau digartrefedd a diffyg digartrefedd er mwyn i gost digartrefedd wedi'i modelu fod yn gynyddrannol i ddigartrefedd ei hun.

## Manteision

Ar ôl cyfnod pontio cychwynnol, disgwylir i'r darpariaethau yn y Bil arwain at fanteision ariannol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru oherwydd gwelliant yn y cyfraddau atal a lleddfu digartrefedd. Er bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r graddau y bydd y darpariaethau yn y Bil yn cynyddu'r cyfraddau hyn, yr amcangyfrif canolog yn y gwaith modelu yw gwelliant o ddeg pwynt canrannol ar bob cyfradd. Byddai gwelliant o'r fath yn golygu dychwelyd at y gyfradd atal sy'n agos i'r lefelau cyn pandemig COVID-19. Felly, ystyrir ei fod yn realistig ac yn gyflawnadwy. Ar y sail hon, amcangyfrifir y bydd y manteision ariannol amcangyfrifedig i awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn werth cyfanswm o £475m, £167m a £3.7m yn y drefn honno.

Yn ogystal â'r manteision ariannol, amcangyfrifodd y gwaith modelu y byddai manteision cymdeithasol gwerth £549.6m o ganlyniad i'r gwelliant diwygiedig yn y cyfraddau atal a lleddfu. Disgwylir i'r manteision hyn gronni i'r unigolyn/aelwyd ar ffurf manteision iechyd (£432.9m) a manteision o ran enillion (£116.7m).

## Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig, yn rhannol, ar waith Alma Economics, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024 i wneud y canlynol:

- deall maint y costau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru;
- cael amcangyfrifon cyfredol o gostau, manteision a pharamedrau;
- llunio amcangyfrifon ar yr holl randdeiliaid yr effeithiwyd arnynt, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

Mae dadansoddiad Alma Economics yn seiliedig ar ymchwil awdurdodol a data sylfaenol, gan gynnwys ymgysylltu ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio gwneud defnydd o'r dadansoddiad annibynnol hwn a, lle bynnag y bo modd, mae'r dystiolaeth hon yn sail i'r amcangyfrifon o gostau a manteision y Bil arfaethedig. Pan na fo tystiolaeth o'r fath ar gael, mae'r data sydd ar gael wedi cael eu cyfuno ag adborth seiliedig ar ymarfer a barn broffesiynol i lunio tybiaethau ynglŷn â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith a'i heffeithiau.

Rhaid nodi, oherwydd cyfyngiadau amser, fod dadansoddiad Alma Economics wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu'r Bil ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid. Mae gwaith Alma Economics yn rhoi amcangyfrifon ynglŷn â grwpiau o gynigion y Papur Gwyn rhagflaenol. Nid yw'n costio pob cynnig unigol ac mewn rhai achosion defnyddiwyd ffyrdd amgen o ymdrin â'r cynigion a nodwyd yn nadansoddiad Alma Economics. Am y rheswm hwn, ni fydd y costau a nodwyd yn nadansoddiad Alma Economics bob amser yr un fath â'r costau a'r manteision a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Cafeatau**

Rydym wedi mynd ati i goladu'r dystiolaeth orau sydd ar gael mewn perthynas â digartrefedd yng Nghymru ond, am sawl rheswm, bu'n angenrheidiol symleiddio a llunio tybiaethau allweddol ar gyfer rhai cynigion yn y Bil.

*Y data sydd ar gael*

Ceir bylchau data o ran hynt pobl drwy'r system ddigartrefedd. Mae ein dadansoddiad wedi dibynnu'n fawr ar ddata ar ganlyniadau statudol digartrefedd; fodd bynnag, mae'r data hyn yn seiliedig ar ganlyniadau ac nid ydynt yn rhoi manylion ar lefel unigolion. O ystyried mai newidyn llif yn hytrach na newidyn stoc yw'r data ar ganlyniadau, nid oes modd cadarnhau'n llawn a oes pobl sy'n ddigartref ond na chofnodwyd iddynt sicrhau canlyniad. O ganlyniad, nid yw'r dadansoddiad yn ystyried unrhyw ôl-groniadau o achosion.

At hynny, nid yw'r data ar lety dros dro yn mapio yn ôl y data canlyniadau statudol, sy'n cyfyngu ar ein gallu i fodelu'r berthynas rhwng llety dros dro a phob un o'r dyletswyddau digartrefedd statudol.

*Cysgu ar y stryd*

Mae diffyg data o ansawdd hefyd wedi achosi heriau o ran cofnodi costau cysgu ar y stryd yn ddigonol. Felly, rydym wedi tybio bod costau cysgu ar y stryd yn sefydlog yn y byrdymor i dymor canolig ac nid ydym wedi ystyried unrhyw newid i'r ffigurau hyn o ganlyniad i'r diwygiadau.

*Y galw yn y dyfodol*

Mae dadansoddiad Alma Economics yn cofnodi'r sefyllfa o ran digartrefedd ar adeg benodol gan ddefnyddio data o flynyddoedd diweddar lle y bo modd. Felly, mae'r holl amcanestyniadau yn dangos canlyniadau pe bai'r sefyllfa hon yn parhau, heb newid. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn ceisio rhagweld ffactorau ysgogi na chanlyniadau digartrefedd, a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfansoddiad costau.

## Pennod 7: Strwythur yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

1. Mae’r adran hon yn nodi’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o’r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

2. Yn gyntaf, bydd yr asesiad yn nodi costau a manteision cyffredinol y Bil yn ei gyfanrwydd, ochr yn ochr ag asesiad gwerth am arian o’r diwygiadau. Mae’n asesu costau a manteision y diwygiadau arfaethedig. Er mwyn asesu gwerth am arian, rydym wedi gosod y costau hyn o fewn cyfanswm yr holl gostau a ragwelir ar gyfer system ddigartrefedd ddiwygiedig.

3. Yn ail, bydd yr asesiad yn ystyried pob un o rannau’r Bil yn eu tro; bydd rhan 1 yn canolbwyntio ar ddigartrefedd a bydd rhan 2 yn canolbwyntio ar ddyrannu tai cymdeithasol. Nid yw'r Asesiad Rheoleiddiol yn cynnwys asesiad mewn perthynas â rhan 3 o'r Bil, o ystyried ei fod yn cynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â dehongli termau a ddefnyddir yn y Bil, mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol, pwerau i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol, darpariaeth sy'n dod i rym a theitl byr y Bil.

4. Bydd pob rhan yn cynnwys arfarniad o opsiynau (busnes fel arfer o’i gymharu â’r Bil) ar gyfer pob cynnig a’i gostau a’i fanteision cysylltiedig. Mae ymgysylltu sylweddol wedi digwydd dros y degawd diwethaf i asesu pa newidiadau sydd eu hangen i'r system ddigartrefedd yng Nghymru i gyflawni ein nodau polisi a sut y dylid gwneud y newidiadau hyn. Mae'r ymgysylltiad hwn wedi digwydd gydag ystod eang o randdeiliaid ac wedi arwain at ystod o wahanol feysydd gwaith, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu Digartrefedd, gwaith y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Roi Diwedd i Ddigartrefedd, cynnydd i'r Grant Cymorth Digartrefedd a chynigion cyllid eraill. Yn ystod datblygiad cynnar y Bil fe wnaethom ystyried yn ofalus lle roedd angen diwygiadau deddfwriaethol, gan dynnu sylw yn y Papur Gwyn ein barn ar ble roedd liferi eraill yn fwy priodol. O ystyried yr hanes hir hwn o ymgysylltu a datblygiad ehangach, mae'r Asesiad Rheoleiddiol felly yn canolbwyntio ar busnes fel arfer a diwygio deddfwriaethol yn unig.

5. Mae’r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sydd wedi’u calibro’n gelfydd i gyflawni nodau polisi cyffredin. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn grwpio rhai darpariaethau ynghyd am mai drwy eu cyflawni ar y cyd y caiff y bwriad polisi ei gyflawni. Mae hyn yn adlewyrchu’r rhyngddibyniaeth rhwng darpariaethau ac yn osgoi cyfrif dwbl.

6. Mae’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn tybio cyfnod o ddeng mlynedd i roi’r diwygiadau arfaethedig ar waith ac mae’n ystyried costau a manteision drwy gydol y cyfnod hwn. Rhaid nodi bod y gwaith cynllunio ar roi’r Bil arfaethedig ar waith yn awgrymu y dylid ei gychwyn yn raddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i flaenoriaethu darpariaethau sydd â’r nod o atal mwy o ddigartrefedd a sicrhau mwy o lif allan o’r system (er mwyn lleddfu’r pwysau sydd ar y system ar hyn o bryd) cyn gweithredu diwygiadau eraill a all osod gofynion newydd ar y system, megis y newidiadau a gynigiwyd i’r prawf angen blaenoriaethol a’r prawf bwriadoldeb. Disgwylir y bydd y broses gychwynnnol o roi rhai o’r diwygiadau ar waith yn dechrau yn 2027-28, gyda ffocws cryf ar atal mwy o

ddigartrefedd. Drwy gydol yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, rydym yn nodi'r flwyddyn amcangyfrifedig pryd y gellid deddfu pob cynnig.

7. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn seiliedig, yn rhannol, ar waith Alma Economics, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2024 i wneud y canlynol:

   - deall maint y costau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â'r newidiadau deddfwriaethol arfaethedig a amlinellwyd yn y Papur Gwyn ar Roi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru;
   - cael amcangyfrifon cyfredol o gostau, manteision a pharamedrau;
   - llunio amcangyfrifon ar yr holl randdeiliaid yr effeithiwyd arnynt, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach.

8. Mae dadansoddiad Alma Economics yn seiliedig ar ymchwil awdurdodol a data sylfaenol, gan gynnwys ymgysylltu ag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

9. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ceisio gwneud defnydd o'r dadansoddiad annibynnol hwn a, lle bynnag y bo modd, mae'r dystiolaeth hon yn sail i'r amcangyfrifon o gostau a manteision y Bil arfaethedig. Pan na fo tystiolaeth o'r fath ar gael, mae'r data sydd ar gael wedi cael eu cyfuno ag adborth seiliedig ar ymarfer a barn broffesiynol i lunio tybiaethau ynglŷn â rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith a'i heffeithiau.

10. Rhaid nodi, oherwydd cyfyngiadau amser, fod dadansoddiad Alma Economics wedi cael ei gynnal ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu'r Bil ac ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid. Mae gwaith Alma Economics yn rhoi amcangyfrifon ynglŷn â grwpiau o gynigion y Papur Gwyn rhagflaenol. Nid yw'n costio pob cynnig unigol ac mewn rhai achosion defnyddiwyd ffyrdd amgen o ymdrin â'r cynigion a nodwyd yn nadansoddiad Alma Economics. Am y rheswm hwn, ni fydd y costau a nodwyd yn nadansoddiad Alma Economics bob amser yr un fath â'r costau a'r manteision a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

11. Mae dadansoddiad Alma Economics hefyd yn uwchraddio'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil, yn seiliedig ar dybiaethau yn ei fodel stoc a llif sy'n ymwneud â chynnydd mewn llwyth achosion.

### Methodoleg

12. Bydd yr adrannau canlynol o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi ein dadansoddiad cyffredinol o'r costau a'r manteision a dadansoddiad ar gyfer pob darpariaeth neu grwpiau o ddarpariaethau, yn yr un drefn ag y'u nodwyd yn y Bil. Ar gyfer pob darpariaeth, byddwn yn nodi'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lunio ein hamcangyfrifon, ac unrhyw dybiaethau a wnaed i bennu'r amcangyfrifon hyn. Er mwyn gwneud hyn, rydym wedi defnyddio'r gwaith a wnaed gan Alma Economics, gan nodi'r cyfyngiadau a amlinellir uchod.

13. Er mwyn osgoi ailadrodd, nodwn isod y ffordd rydym wedi mynd ati i ddewis y fethodoleg i bennu costau llinell sylfaen ar gyfer darparu'r system ddigartrefedd ar hyn o bryd a phennu costau a manteision y diwygiadau deddfwriaethol arfaethedig.

14. Mae'r holl gostau a gyfrifwyd wedi cael eu talgrynnu i'r £100 agosaf (oni nodir fel arall), felly mae'n bosibl na fydd rhai o'r cyfansymiau yn y tablau yn symio o ganlyniad i dalgrynnu o'r fath. Mae cyfradd ddisgowntio o 1.5% wedi cael ei chymhwyso at fanteision i iechyd. Mae'r disgownt safonol o 3.5% wedi cael ei gymhwyso at yr holl gostau a manteision eraill. Mae hyn yn unol â'r fethodoleg a nodwyd yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF.

15. Er mwyn asesu cost bresennol digartrefedd a'i defnyddio i lywio effeithiau'r Bil, lluniodd Alma Economics fodel stoc a llif i amlinellu'r senario busnes fel arfer. Yn y cyd-destun hwn, mae'r senario busnes fel arfer yn dangos y sefyllfa o ran digartrefedd yng Nghymru, a sut yr amcanestynnir y bydd yn newid dros amser, gan dybio dim newid i bolisi na deddfwriaeth. Mae allbynnau allweddol o'r model stoc a llif yn cynnwys amcanestyniadau o ddigartrefedd, sydd wedi cael eu defnyddio i lywio elfennau eraill o'r model.

16. Er mwyn datblygu'r senario busnes fel arfer, ymgymerodd Alma Economics ag ymarfer costio a oedd yn cynnwys:

- Adolygiad o'r data presennol ar ddigartrefedd.
- Cyfweliadau â rhanddeiliaid.
- Cyfweliadau cwmpasu â phedair poblogaeth drefol, wledig a'r cymoedd.
- Arolwg costio i bob awdurdod lleol.
- Templed costio i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru.

17. Gwnaeth yr arolwg a'r templed costio gasglu data ar gostau blynyddol mewn perthynas â grwpiau sy'n agored i niwed, llety dros dro, llety byrdymor â chymorth, cysgu allan, tai cymdeithasol, gweinyddu a chyflawni, y galw am dai cymdeithasol a chostau cysylltiedig.

18. Defnyddiodd Alma Economics ddata'r arolwg i ddatblygu costau uned cyfartalog blynyddol ynglŷn â chostau uned gros llety dros dro, llety â chymorth, tai cymdeithasol a chostau llafur.

19. Er mwyn asesu effaith a chost y newidiadau deddfwriaethol, rydym wedi nodi effeithiau mesuradwy cyffredinol a fyddai'n effeithio ar y tybiaethau ynglŷn â gwelliant. Nid oes modd rhagweld yr union welliannau o ran atal a lleddfu digartrefedd y bydd y Bil yn eu hysgogi na faint o amser y bydd yn ei gymryd i'r gwelliannau fod yn weithredol. Felly, fel y nodir isod, rydym wedi defnyddio senarios i asesu'r gwelliannau yn y cyfraddau atal a lleddfu digartrefedd y bydd eu hangen i sicrhau arbedion cost ariannol i wrthbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r diwygiadau ar waith. Ar ddechrau pennod 8 rydym wedi nodi senario sylfaenol ar gyfer rhoi'r diwygiadau ar waith.

**Cafeatau**

20. Rydym wedi mynd ati i goladu'r dystiolaeth orau sydd ar gael mewn perthynas â digartrefedd yng Nghymru ond, am sawl rheswm, bu'n angenrheidiol symleiddio a llunio tybiaethau allweddol ar gyfer rhai cynigion yn y Bil.

*Y data sydd ar gael*

21. Ceir bylchau data o ran hynt pobl drwy'r system ddigartrefedd. Mae ein dadansoddiad wedi dibynnu'n fawr ar ddata ar ganlyniadau statudol digartrefedd; fodd bynnag, mae'r data hyn yn seiliedig ar ganlyniadau ac nid ydynt yn rhoi manylion ar lefel unigolion. O ystyried mai newidyn llif yn hytrach na newidyn stoc yw'r data ar ganlyniadau, nid oes modd cadarnhau'n llawn a oes pobl sy'n ddigartref ond na chofnodwyd iddynt sicrhau canlyniad. O ganlyniad, nid yw'r dadansoddiad yn ystyried unrhyw ôl-groniadau o achosion.

22. At hynny, nid yw'r data ar lety dros dro yn mapio yn ôl y data canlyniadau statudol, sy'n cyfyngu ar ein gallu i fodelu'r berthynas rhwng llety dros dro a phob un o'r dyletswyddau digartrefedd statudol.

*Cysgu ar y stryd*

23. Mae diffyg data o ansawdd hefyd wedi achosi heriau o ran cofnodi costau cysgu ar y stryd yn ddigonol. Felly, rydym wedi tybio bod costau cysgu ar y stryd yn sefydlog yn y byrdymor i dymor canolig ac nid ydym wedi ystyried unrhyw newid i'r ffigurau hyn o ganlyniad i'r diwygiadau.

*Y galw yn y dyfodol*

24. Mae dadansoddiad Alma Economics yn cofnodi'r sefyllfa o ran digartrefedd ar adeg benodol gan ddefnydddio data o flynyddoedd diweddar lle y bo modd. Felly, mae'r holl amcanestyniadau yn dangos canlyniadau pe bai'r sefyllfa hon yn parhau, heb newid. Nid yw'r dadansoddiad hwn yn ceisio rhagweld ffactorau ysgogi na chanlyniadau digartrefedd, a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfansoddiad costau.

25. Mae'r dadansoddiad hwn yn cydnabod cyfyngiadau o ran y gallu i ystyried sefyllfa wrthffeithiol digartrefedd yn ddigonol oherwydd diffyg tystiolaeth – h.y. beth fyddai'r canlyniadau i berson digartref pe na bai'n ddigartref. Er enghraifft, byddai effeithiau ar ganlyniadau cyflogaeth, credyd cynhwysol a threthiant yn gofyn am gryn dipyn o ddata ar ganlyniadau digartrefedd a diffyg digartrefedd er mwyn i gost digartrefedd wedi'i modelu fod yn gynyddrannol i ddigartrefedd ei hun.

26. Gan gydnabod prinder y data a phroblemau o ran ansawdd, rydym wedi ceisio defnyddio'r dystiolaeth orau bosibl i asesu'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r Bil ac amlinellir y rhain isod.

# Pennod 8: Opsiynau, Costau a Manteision

## Gosod y cyd-destun

1. Cyn nodi'r costau a'r manteision unigol sy'n gysylltiedig â darpariaethau'r Bil, yn gyntaf mae angen nodi faint o ddigartrefedd a geir yng Nghymru a'r cyd-destun ar gyfer darparu gwasanaethau digartrefedd ar hyn o bryd. Amlinellir hyn yn fanwl ym mhennod 3 ac fe'i crynhoir isod.

2. Mae'r profiad o ddigartrefedd yng Nghymru a'r ymateb iddo wedi newid yn ddiwrthdro dros y degawd diwethaf, i raddau helaeth o ganlyniad i'r ymateb i bandemig COVID-19. Pan gyflwynwyd y dull 'neb heb help' o ymdrin â digartrefedd ar ddechrau'r pandemig gwnaeth hynny sicrhau bod unrhyw un heb le i fyw yn cael ei gartrefu, er mwyn lliniaru risgiau i iechyd y cyhoedd a chadw pobl yn ddiogel. Gwnaeth yr ymateb hwn amlygu faint o ddigartrefedd a geir yng Nghymru mewn gwirionedd a nifer y bobl a oedd yn profi mathau cudd o ddigartrefedd. Rhwng dechrau pandemig COVID-19 (Mawrth 2020) a diwedd mis Mehefin 2023, cynorthwywyd mwy na 38,600 o bobl gan awdurdodau lleol drwy roi llety dros dro brys iddynt yng Nghymru.

3. Er bod i effaith yr ymateb i COVID-19 oblygiadau hirdymor, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir, ar ôl amlygu'r angen o ran digartrefedd yng Nghymru a chymryd camau mor arwyddocaol ar y cyd â'r awdurdodau lleol i ymdrin â'r angen hwn, ni allwn ddychwelyd i amser lle mae digartrefedd yn cael ei oddef. Gan gydnabod y galw cynyddol am wasanaethau tai a digartrefedd ers 2020, rydym hefyd wedi gwneud buddsoddiadau sylweddol yn y gwasanaethau hyn. Rydym wedi darparu cyllid ychwanegol bob blwyddyn i gefnogi awdurdodau lleol gyda'r ymateb statudol i ddigartrefedd, gan ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer llety dros dro, mwy o weithgarwch atal a chydgysylltu strategol. Yn 2025/26, symudwyd y cyllid hwn, gwerth £21.32m i gyd, i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn cydnabod ei fod yn cefnogi'r ymateb statudol i ddigartrefedd. Rydym hefyd wedi buddsoddi yn y Grant Cymorth Tai, ein prif grant i atal digartrefedd, gan ddarparu £13m ychwanegol yn 2024/25 a £21m ychwanegol yn 2025/26. Mae'r buddsoddiad hwn yn rhoi sylfeini cadarn i gefnogi ffocws ataliol y diwygiadau deddfwriaethol.

4. Fel y'i hamlinellwyd yn ein Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, mae diwygiadau deddfwriaethol yn un o'r elfennau lawer sydd eu hangen i wireddu ein huchelgais hirdymor o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i wneud cynnydd o ran dibyniaethau allweddol y mae angen iddynt fod ar waith hefyd ochr yn ochr â diwygiadau deddfwriaethol, gan gynnwys ailddatblygu systemau ac, yn bwysicaf oll, cynyddu'r cyflenwad tai yn sylweddol. Dyma pam rydym yn parhau i wneud y buddsoddiadau mwyaf erioed mewn tai cymdeithasol, ochr yn ochr â diwygiadau deddfwriaethol a buddsoddi mewn gweithgarwch atal digartrefedd, ac mae £1.4bn eisoes wedi cael ei fuddsoddi yn ystod tymor y Senedd hon, ac mae £411m wedi cael ei ddyrannu yn 2025/26. Er nad yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn casglu costau y tu allan i'r diwygiadau deddfwriaethol, rydym yn cydnabod y bydd angen buddsoddiad sylweddol o hyd yn y cyflenwad tai er mwyn sicrhau'r canlyniadau rydym yn ceisio eu sicrhau drwy'r diwygiadau.

5. Felly, dim ond un rhan o'r ffordd rydym yn mynd ati i ymdrin â digartrefedd yng Nghymru yw diwygio deddfwriaethol. Bydd angen trawsnewidiad systemig sy'n ein galluogi i atal digartrefedd yn fwy effeithiol, sy'n rhoi gwasanaeth wedi'i bersonoli mwy effeithiol i'r rhai sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yng Nghymru ac sy'n gwneud gwell defnydd o'r cyflenwad llety i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

**Cost digartrefedd yng Nghymru**

6. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae lefelau digartrefedd yn y Deyrnas Unedig wedi cynyddu'n sylweddol, a gellir priodoli'r cynnydd hwn i'r ymateb i bandemig COVID-19, y rhyfel yn Ewrop a'r argyfwng costau byw sy'n mynd yn waeth. Ar adeg ysgrifennu, roedd 11,203 o unigolion yn byw mewn llety dros dro yng Nghymru, yr oedd 2,679 o'r rhain yn blant dibynnol o dan 16 oed. Mae 30% o'r unigolion hyn, y mae 12% ohonynt yn blant dibynnol o dan 16 oed, yn aros mewn llety gwely a brecwast a gwestai. Mae 16,572 o leoliadau mewn llety dros dro yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae lleoliadau sy'n ailddigwydd yn beth cyffredin; roedd 14% o leoliadau mewn llety dros dro ym mis Ionawr 2025 yn cynnwys unigolion a oedd wedi cael eu lleoli mewn llety dros dro o'r blaen yn ystod y 12 mis diwethaf. Gwyddys bod tua 119 o unigolion, yn ôl amcangyfrif, yn cysgu allan yng Nghymru[25]

7. Mae ffynonellau ychwanegol o ddata yn awgrymu, yn ystod y flwyddyn lawn dddiwethaf pan fydd data ar gael (2023-24), aseswyd bod **8,772** o aelwydydd yng Nghymru "o dan fygythiad o ddigartrefedd" ac roedd mwy na **13,500** o aelwydydd yn ddigartref.[26] Dros yr un cyfnod, roedd tua **18,000 o achosion pan gafodd unigolion eu rhoi mewn llety dros dro** (mae'n bosibl i unigolyn gael ei gartrefu dros dro ar fwy nag un achlysur yn ystod cyfnod).[27]

8. Yn 2023-24[28], gwnaeth digartrefedd gostio tua £275m i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, sef cost o **£20,000 fesul aelwyd** ddigartref ar gyfartaledd. Roedd bron hanner y gost hon yn ymwneud â llety dros dro. Mae costau hefyd i'r sector cyhoeddus ehangach, gan fod pobl sy'n ddigartref yn fwy tebygol o ryngweithio ag iechyd, gofal cymdeithasol a'r system cyfiawnder troseddol na'r rhai nad ydynt yn ddigartref. Mae dadansoddiad Alma Economics yn amcangyfrif bod **cost gynyddrannol digartrefedd i'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach yn £64m**, **neu £4,700 fesul aelwyd** sy'n ddigartref. [29]

9. Mae digartrefedd hefyd yn cael effaith andwyol ar unigolion. Mae'n cael effeithiau negyddol hirdymor ar iechyd a llesiant, yn ogystal â'r potensial i ennill oherwydd diffyg sefydlogrwydd tai. Mae dadansoddiad Alma Economics yn amcangyfrif bod mynd yn ddigartref yn cael effaith ar ganlyniadau iechyd sy'n cyfateb i werth ariannol o £12,200 y person, ac y gallai enillion a gollir fod yn

[25] ar 31 Ionawr 2025.
[26] https://statscymru.llyw.cymru/v/RWWV
[27] Achosion lle mae pobl wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod y cyfnod oherwydd digartrefedd a'r cyfnod
[28] Y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae data ar gael ar ei chyfer
[29]Alma Economics

werth tua £3,300. Mae hyn yn awgrymu cost bersonol fawr i unigolion o ganlyniad i fod yn ddigartref, sy'n cyfateb i fwy na £200m y flwyddyn ar gyfer y boblogaeth ddigartref. Amcangyfrifwyd bod digartrefedd yn 2023-24 wedi costio tua £485m i gymdeithas.

10. Yn seiliedig ar y tueddiadau presennol, heb weithredu pellach, amcangyfrifir y bydd digartrefedd yn cynyddu yn ôl cyfradd gyfartalog o fwy na 3% y flwyddyn, gyda chostau cysylltiedig cynyddol. Dros gyfnod o ddeng mlynedd, gallai cost digartrefedd i'r sector cyhoeddus gynyddu 17% o £275m yn 2023-24 i £383m mewn termau real erbyn 2033-34.

11. Nid yw'r sefyllfa o ran digartrefedd yng Nghymru yn gynaliadwy; mae'r ffocws ar argyfyngau ac mae'n dibynnu'n fawr ar ddefnydd hirdymor o lety dros dro. Bydd yr ymateb hwn yn cael effeithiau negyddol ar unigolion a bydd y rhain yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r lefelau uchel o ddigartrefedd mynych a ddangosir yn y data. Mae i'r effeithiau hyn oblygiadau pellgyrhaeddol o ran y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac maent yn gosod costau sylweddol ar gyrff cyhoeddus. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gan unigolion sy'n ddigartref angen anghymesur o uchel am wasanaethau gofal iechyd. Mae'r data hefyd yn dangos bod pobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu gorgynrychioli o dipyn mewn gwasanaethau digartrefedd a cheir tystiolaeth o gysylltiad rhwng peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) a digartrefedd ymhlith pobl ifanc. Fel y cyfryw, yn ogystal â'r effeithiau negyddol ar yr unigolyn, mae digartrefedd yng Nghymru yn gosod baich ariannol a chymdeithasol sylweddol ar y Llywodraeth, awdurdodau lleol, a'r sector cyhoeddus.

12. Ni all y system ddigartrefedd barhau i weithredu fel y mae. Er mwyn ymateb i'r galw newidiol a chreu system ddigartrefedd sy'n gynaliadwy, mae'n rhaid inni wneud diwygiadau mawr. Mae'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn amlinellu ein diwygiadau arfaethedig. Fel y noda pennod 3, mae'r Bil yn ceisio ymateb i ddwy brif her darparu gwasanaethau digartrefedd: rheoli'r galw cynyddol ar flaen y system drwy nodi ac atal digartrefedd yn gynt a gwella'r llif o bobl allan o'r system i mewn i lety addas a chynaliadwy.

13. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dangos y bydd angen buddsoddiad cychwynnol wrth gyflwyno'r Bil er mwyn newid y ffocws fel sy'n angenrheidiol, cefnogi'r broses o'i roi ar waith ac ymateb i'r angen cynyddol uniongyrchol. Fodd bynnag, dros amser, drwy'r ffocws ar atal a llif drwy'r system bydd modd ailddosbarthu adnoddau, a fydd yn arwain at atal mwy o ddigartrefedd, lleddfu digartrefedd yn fwy effeithiol, ynghyd â llai o ddibyniaeth ar lety dros dro.

**Costau cyffredinol y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)**

14. Rydym wedi tybio cyfnod o ddeng mlynedd i roi'r Bil ar waith, gan nodi'r dibyniaethau sylweddol i'w ddeddfu'n llwyddiannus o ran y cyflenwad tai ac wrth baratoi awdurdodau lleol ar gyfer y newidiadau. Bydd y Bil yn cychwyn drwy Orchymyn a bwriadwn ei gychwyn fesul cam. Bydd angen cyfnod paratoi cychwynnol o 12 mis o leiaf cyn y gall unrhyw ran o'r Bil ddod i rym. Wedi hynny, bwriadwn ddeddfu elfennau o'r Bil a fydd yn lliniaru'r pwysau systemig sy'n

gysylltiedig â digartrefedd a chynyddu'r llif allan o'r system yn gyntaf. Rhagwelwn y bydd "gofyn a gweithredu" yn cael ei roi ar waith yn ddiweddarach, ar ôl cyfnod o hyfforddiant a datblygiad yn y gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Yn olaf, byddwn yn deddfu'r cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn 2030-2031 ar y cynharaf.

15. Disgwylir y bydd yn costio £247m mewn termau gwerth presennol dros gyfnod o ddeng mlynedd (hyd at 2035-36) i roi'r diwygiadau arfaethedig ar waith. Os bydd y diwygiadau yn sicrhau gwell canlyniadau atal a lleddfu, yn ôl y bwriad, bydd y costau hyn yn cael eu gwrthbwyso gan fantais ariannol o £481m (gwerth presennol). Ar y sail hon, bydd y diwygiadau yn cynhyrchu manteision ariannol net o £235m dros ddeng mlynedd, sy'n golygu y bydd pob £1 a fuddsoddir yn y diwygiadau ym maes digartrefedd yn cynhyrchu manteision gwerth £2. Os caiff y manteision anariannol sy'n ymwneud ag iechyd a'r gallu i ennill a brofir gan unigolion eu cynnwys hefyd, yna, bydd £703m o fanteision cymdeithasol net yn cael eu sicrhau, sy'n golygu am bob £1 a werir, y bydd y diwygiadau yn cynhyrchu manteision gwerth bron £4.

*Tabl 1:Cymhareb Mantais a Chost y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)*

| | **Gwerth presennol (£m)** |
|---|---|
| Manteision ariannol | £481 |
| Costau rhoi'r diwygiadau ar waith | £247 |
| **GPN – Ariannol** | **£235** |
| **Cymhareb rhwng Mantais a Chost – Ariannol** | **2.0** |
| Manteision anariannol | £468 |
| **GPN – Cymdeithasol** | **£703** |
| **Cymhareb rhwng Mantais a Chost – Cymdeithasol** | **3.9** |

16. Disgwyliwn y bydd costau untro a throsiannol o tua £15.3m rhwng 2026-2027 a 2028-2029 i roi'r diwygiadau ar waith. Mae'r rhain yn ymwneud â datblygu a chyflwyno hyfforddiant i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach, datblygu canllawiau a buddsoddi mewn cymorth pontio i awdurdodau lleol.

17. Hefyd, bydd costau gweithredu rheolaidd, a fydd yn digwydd bob blwyddyn o 2027-28 ac wedi hynny, a fydd yn adlewyrchu'r gofynion cynyddol ar wasanaethau digartrefedd o ganlyniad i'r diwygiadau. Bydd y costau rheolaidd yn cynyddu drwy gydol y cyfnod arfarnu oherwydd y bwriad i roi'r diwygiadau ar waith fesul cam a bydd twf blynyddol tybiedig mewn llwythi achosion (fel y mae model 'stoc a llif' Alma yn ei adlewyrchu). Yn 2027-28, amcangyfrifir y bydd cost barhaus o £22.9m, a fydd yn cynyddu i £41.7m yn 2035-36.

18. Bydd y costau i roi'r diwygiadau ar waith yn newid prif ffocws y system ddigartrefedd oddi wrth gymorth mewn argyfwng i ddiwallu anghenion acíwt i fwy o ffocws ar atal, gan roi mwy o fynediad at gymorth digartrefedd a helpu pobl i aros yn eu cartrefi.

19. Bydd llwyddiant y diwygiadau yn dibynnu ar wella'r gyfradd atal digartrefedd i leihau nifer y bobl sy'n dod yn rhan o'r system ddigartrefedd ac felly'r holl gostau digartrefedd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys osgoi costau sy'n ymwneud â darparu llety dros dro, rheoli achosion gan awdurdodau lleol, yn ogystal ag osgoi effeithiau ar lesiant a chyflogaeth i'r unigolyn sy'n ddigartref.

*Tabl 2: Costau rhoi'r Bil ar waith dros gyfnod o ddeng mlynedd.*

| | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** | **2033-34** | **2034-35** | **2035-36** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau rhoi'r Bil ar waith - untro (£m) | £2.5 | £12.7 | £0.1 | £0.0 | £0.0 | £0.0 | £0.0 | £0.0 | £0.0 | £0.0 |
| Costau rhoi'r Bil ar waith - rheolaidd (£m) | £0.0 | £22.9 | £27.5 | £28.3 | £35.7 | £36.9 | £38.0 | £39.2 | £40.4 | £41.7 |
| | | | | | | | | | | |
| Manteision ariannol - ALI | £0 | £17 | £35 | £55 | £57 | £58 | £60 | £62 | £64 | £66 |
| Manteision ariannol - Gwasanaeth cyhoeddus ehangach | £0 | £6 | £12 | £19 | £20 | £21 | £21 | £22 | £23 | £23 |
| Manteision ariannol - Landlord cymdeithasol cofrestredig | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £1 | £1 |
| | | | | | | | | | | |
| Manteision iechyd – unigolion | £0 | £16 | £32 | £50 | £52 | £53 | £55 | £57 | £58 | £60 |
| Manteision o ran enillion – unigolion | £0 | £4 | £9 | £13 | £14 | £14 | £15 | £15 | £16 | £16 |
| | | | | | | | | | | |
| **Arbedion net o'r diwygiadau (£m)** | **-£2.5** | **-£12.5** | **£20.4** | **£46.2** | **£41.2** | **£42.5** | **£43.9** | **£45.4** | **£46.8** | **£48.4** |
| **Effeithiau cymdeithasol net** | **-£2.5** | **£7.4** | **£61.3** | **£109.6** | **£106.6** | **£110.0** | **£113.6** | **£117.3** | **£121.1** | **£125.0** |

20. Bydd rhai achosion lle nad oes modd atal digartrefedd. Pe bai unigolyn yn mynd yn ddigartref, disgwylir i'r diwygiadau gyflymu'r broses o'i ailgartrefu mewn llety sefydlog a'i ryddhau rhag digartrefedd.

21. Er mwyn asesu costau'r ddeddfwriaeth a'r tebygolrwydd o arbed costau yn y tymor hwy, rydym wedi mabwysiadu dull seiliedig ar senarios o nodi ar ba lefel y mae'n rhaid gwella cyfraddau atal a lleddfu i arbed costau ariannol a fydd yn arwain at adennill costau rhoi'r diwygiadau ar waith a mantais ariannol net.

**"Y senario graidd"**

22. Yn seiliedig ar y ddwy flwyddyn lawn ddiweithaf o ddata, y gyfradd atal digartrefedd bresennol yw 58% a'r gyfradd lleddfu digartrefedd bresennol yw 59%. Rydym wedi defnyddio'r ffigurau hyn fel ein llinell sylfaen y mae'n rhaid i'r diwygiadau ddangos gwelliannau o gymharu â hi.

23. Defnyddir y senario graidd ganlynol i ddangos sut y gall y diwygiadau sicrhau gwerth am arian (h.y. mantais net) drwy wneud gwelliannau y gellir eu cyflawni o ran canlyniadau atal a lleddfu. Os bydd y diwygiadau yn gallu sicrhau'r gwelliannau canlynol, bydd y diwygiadau yn datblygu manteision ariannol net yn yr hirdymor:

**Mae cyfran y bobl sy'n cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref yn cynyddu o 58% i 68% (+10%) o ganlyniad i'r diwygiadau.**

**Mae cyfran y bobl ddigartref y llwyddir i leddfu eu digartrefedd yn cynyddu o 59% i 69% (+10%) o ganlyniad i'r diwygiadau.**

24. Disgwylir i'r diwygiadau gostio £247 miliwn yn nhermau gwerth presennol hyd at 2035-36. Os byddant yn cyflawni canlyniadau atal a rhyddhad gwell y senario craidd, bydd costau gweithredu yn cael eu gorbwyso gan y manteision ariannol, y rhagwelir y bydd ganddynt werth presennol o £481 miliwn.

25. Ar y cyfan, mae hyn yn awgrymu y bydd y diwygiadau yn arwain at **fanteision ariannol net** gwerth tua £235m. Mae'r gymhareb rhwng mantais a budd sy'n deillio o hynny yn golygu, **am bob £1 a fuddsoddir** yn y diwygiadau ym maes digartrefedd, y byddwn yn cynhyrchu **manteision gwerth £2**.

26. Yn seiliedig ar y senario hon, disgwylir i nifer yr aelwydydd sy'n ddigartref yng Nghymru yn 2031-32, pan ddisgwylir i fanteision llawn y diwygiadau gael eu gwireddu, leihau o tua 18,000 i 14,000. Esbonnir y lleihad hwn yn bennaf gan y gwelliant yn y gyfradd atal digartrefedd, sydd yn ei hanfod yn lleihau nifer y rhai y mae'r ymgais i'w hatal rhag bod yn ddigartref yn un aflwyddiannus, o fwy na chwarter. Mae gwell cyfraddau lleddfu digartrefedd hefyd yn cyfrannu at y lleihad hwn mewn llwyth achosion drwy symud pobl i lety sefydlog yn gynt, ond mae'r effaith hon yn llai o ystyried na fyddai gweithgareddau lleddfu yn effeithio ar faint o bobl sy'n cysylltu am eu bod yn ddigartref ar y cychwyn.

27. Bydd y senario hon yn troi'n ostyngiad o 22% yng nghost digartrefedd erbyn 2031-32, heb gynnwys costau rhoi'r diwygiadau ar waith, fel y dengys y tabl isod. Mae'r mwyafrif o'r manteision ariannol yn ymwneud â lleihau cost llety dros dro, sy'n cyfrif am gyfran sylweddol o gost digartrefedd. Bydd y gweithgareddau atal gwell yn lleihau nifer y bobl sy'n mynd yn ddigartref a thrwy hynny'n dileu unrhyw angen posibl arnynt am lety dros dro. Er y bydd gweithgareddau lleddfu gwell yn lleihau faint o amser y bydd unigolyn yn treulio mewn llety dros dro o bosibl, ni fydd yn osgoi'r angen am y llety hwnnw yn gyfan gwbl.

28. Er y disgwylir i'r diwygiadau leihau'r gwariant ar lety sefydlog, bydd hyn yn cael llai o effaith ar gostau nag atal digartrefedd. Er y bydd y diwygiadau yn symud pobl allan o lety dros dro yn gynt drwy weithgareddau lleddfu gwell, bydd angen llety sefydlog o hyd ar aelwydydd sy'n ddigartref. Caiff y lleihad mewn gwariant ar lety dros dro ei ysgogi'n bennaf gan lefel well o atal digartrefedd, gan na fydd angen llety ar y rhai sy'n cael eu hatal rhag bod yn ddigartref o ganlyniad i'r diwygiadau o dan ddyletswyddau digartrefedd.

29. Mae'r tabl isod yn nodi manteision ariannol amcangyfrifedig y diwygiadau arfaethedig mewn perthynas â'r sector tai a rhannau allweddol o'r gwasanaethau cyhoeddus yr effeithir arnynt gan achosion a chanlyniadau digartrefedd.

*Tabl 3: Manteision ariannol gros yn 2031-32 yn seiliedig ar y senario graidd (£m)*

| | **Cost digartrefedd yn 2031-32, £m** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes y gost** | **Busnes fel arfer: heb ddiwygiadau** | **I fod: yn dilyn diwygiadau** | **Manteision gros £m** | **% y newid** |
| Gwasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol | £53 | £45 | £8 | 15% |
| Llety Dros Dro | £170 | £123 | £47 | 28% |
| Llety Sefydlog – Awdurdod lleol | £46 | £43 | £3 | 7% |
| Llety Sefydlog – Landlord Cymdeithasol Cofrestredig | £7 | £6 | £0 | 7% |
| Cyfiawnder Troseddol | £41 | £31 | £10 | 24% |
| Iechyd y GIG | £25 | £19 | £6 | 24% |
| Iechyd Meddwl | £12 | £9 | £3 | 24% |
| Camddefnyddio sylweddau | £8 | £6 | £2 | 24% |
| **Cyfanswm costau'r sector cyhoeddus** | **£361** | **£281** | **£79** | **22%** |

30. O ystyried bod unigolion sy'n ddigartref yn fwy tebygol o gael canlyniadau iechyd gwaeth na'r rhai nad ydynt yn ddigartref, ceir manteision cymdeithasol ehangach hefyd os bydd cyfraddau atal a lleddfu digartrefedd yn gwella. Yn seiliedig ar y senario graidd, mae dadansoddiad Alma Economics yn amcangyfrif y bydd y diwygiadau yn arwain at fwy na 700 o flynyddoedd o fywyd iach ychwanegol (0.16 blynedd y person) sy'n cyfateb i £53m mewn termau ariannol. Disgwylir hefyd y bydd enillion ychwanegol o £14m drwy ddarparu mwy o lety sefydlog.

**Beth os na chyflawnir y senario graidd?**

31. Mae’n realistig disgwyl heriau wrth roi diwygiadau ar waith a all arwain at newidiadau o ran pryd a sut y bydd y diwygiadau yn weithredol ac rydym wedi ystyried yr effaith y gall hyn ei chael ar ein harbedion cost amcangyfrifedig.

32. Un o ddibyniaethau allweddol y broses o roi’r diwygiadau ar waith yn llwyddiannus fydd effeithiau’r diwygiadau ar atal mwy o ddigartrefedd. Mae atal pobl rhag mynd yn ddigartref yn osgoi sawl cost yn gyfan gwbl, a fydd yn arwain at arbedion cost sylweddol. Mae mwy o effeithlonrwydd o ran lleddfu digartrefedd yn cyfyngu ar rai o gostau digartrefedd ond bydd cost, o ystyried yr angen am y llety a’r gwasanaeth y mae hyn yn ei awgrymu.

33. Mae ein dadansoddiad yn awgrymu y gall y diwygiadau adennill costau ariannol a gwerth am arian yn seiliedig ar welliant o 6.1% yn y gyfradd atal a gwelliant o 0% yn y gyfradd leddfu. Pan fyddwn yn cynnwys y manteision cymdeithasol, mae’r cynnydd angenrheidiol yn y gyfradd atal yn gostwng i 3.2%. Mae’n bwysig nodi, cyn dechrau pandemig COVID-19, fod y gyfradd atal yn 67% ar gyfartaledd (cyfartaledd rhwng 2017/2018 a 2019/2020). Mae hyn yn awgrymu bod y gwelliant sydd ei angen er mwyn adennill costau’r diwygiadau hyn, yn isel ac gyflawnadwy iawn. Nid oes angen hyd yn oed dychwelyd i lefelau atal cyn y pandemig er mwyn sicrhau gwerth am arian.

34. Dylid nodi mai un o gyfyngiadau allweddol y dadansoddiad hwn yw na ellid modelu effaith treulio llai o amser yn ddigartref a byw mewn llety dros dro mewn perthynas â chanlyniadau unigol na’r effeithiau ar y gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Mae’r dadansoddiad ar hyn o bryd yn tybio y byddai person sy’n ddigartref yn profi’r un afles o hyd o ran canlyniad iechyd ac enillion, a’r rhyngweithio â’r sector cyhoeddus ehangach, ni waeth faint o amser a dreulir yn ddigartref. Felly, mae’r canlyniadau yn debygol o danamcangyfrif effaith lleddfu digartrefedd yn gynt, yn enwedig mewn perthynas ag effeithiau negyddol bod mewn llety dros dro am gyfnodau hir, a ddeellir yn dda.

*Tabl 4: Gwerth am arian gwahanol ganlyniadau atal a lleddfu*

| **Senario – % y gwelliant mewn paramedrau o gymharu â busnes fel arfer o ganlyniad i'r diwygiadau** | **Cymhareb mantais a chost (ariannol)** | **Cymhareb mantais a chost (cymdeithasol)** |
|---|---|---|
| **Busnes fel arfer**<br>Cyfradd atal = +0%<br>Cyfradd leddfu = +0% | 0.0 | 0.0 |
| **Craidd**<br>Cyfradd atal = +10%<br>Cyfradd leddfu = +10% | 2.0 | 3.9 |
| Cyfradd atal = +1%<br>Cyfradd leddfu = +0% | -0.1 | 0.1 |
| Cyfradd atal = +5%<br>Cyfradd leddfu = +0% | 0.8 | 1.7 |
| Cyfradd atal = +6.1%<br>Cyfradd leddfu = +0% | 1.0 (adennill costau) | 2.2 |
| Cyfradd atal = +3.2%<br>Cyfradd leddfu = +0% | 0.4 | 1.0 (adennill costau) |
| Cyfradd atal = +0%<br>Cyfradd leddfu = +5% | -0.2 | -0.2 |
| Cyfradd atal = +0%<br>Cyfradd leddfu = +15% | -0.1 | -0.1 |

## Opsiynau

35. Mae'r adrannau canlynol yn nodi'n fanwl sut mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r darpariaethau unigol (neu grwpiau o ddarpariaethau) yn y Bil wedi cael eu cyfrifo. Mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Dylid nodi nad yw'r costau yn yr adrannau canlynol yn cynnwys tybiaethau ynglŷn â'r twf blynyddol mewn llwythi achosion a ddatblygwyd ym model 'stoc a llif' Alma Economics.

36. Ceir dwy set o dablau cryno yn Atodiad A. Mae'r rhain yn dangos costau rhoi'r diwygiadau ar waith drwy gydol y cyfnod arfarnu heb gynnwys y dybiaeth ynglŷn â thwf blynyddol mewn llwythi achosion ac yna'i chynnwys. Mae hyn yn dangos sut mae costau rhoi'r diwygiadau ar waith yn yr adran ganlynol yn cyd-fynd â'r 'prif' gostau a gyflwynir yn yr adran uchod.

## Rhan 1: Digartrefedd

37. Mae'r adran hon yn amlinellu'r opsiynau polisi ar gyfer y newidiadau arfaethedig a wnaed yn Rhan 1 o'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

38. Drwy'r ddogfen gyfan hon, rhoddir senario busnes fel arfer fel llinell sylfaen at ddibenion cymhar â manteision posibl cryfhau'r fframwaith deddfwriaethol presennol.

### <u>Adran 1: Ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd"</u>

*Mae person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'n debygol y bydd y person yn ddigartref o fewn chwe mis, neu os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn gofyn iddo beidio â meddiannu ei lety mwyach neu os yw cais wedi cael ei wneud i'r Uchel Lys neu'r Llys Sirol am orchymyn i feddiannu llety'r person gan berson arall.*

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad*

39. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol gymryd camau rhesymol i atal digartrefedd dros unrhyw geisydd cymwys sy'n wynebu risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Mae'r pwysau yn y system yn golygu, yn aml, nad oes modd i awdurdodau tai lleol wneud y gwaith atal yr hoffent ei wneud, oherwydd y llwythi achosion mawr a'r ffaith bod unigolion yn cysylltu ar gam hwyr.

40. Mae'r pum mlynedd diwethaf o ddata yn awgrymu gostyngiad cyffredinol yng nghanran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref (2019-20 i 2023-24), gyda'r % ar gyfer 2022-23 a 2023-24 yn debyg (59% a 58% yn y drefn honno). [30]

[30] Atal Digartrefedd yn ôl Ardal a Mesur (Adran 66)

*Tabl 5:* Cyfraddau atal digartrefedd yng Nghymru dros bum mlynedd

| Blwyddyn adrodd | Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref |
|---|---|
| 2019-2020 | 67% |
| 2020-2021 | 65% |
| 2021-2022 | 67% |
| 2022-2023 | 59% |
| 2023-2024 | 58% |

### *Costau*

41. Mae'r data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn awgrymu bod pob ceisydd sy'n gymwys i gael cymorth o dan y ddyletswydd bresennol i atal digartrefedd (adran 66 o Ddeddf 2014) yn costio £1,320.[31] Mae hyn yn cynyddu i £1,716 pan fydd argostau staff yn cael eu cynnwys. Yn 2023-24, cysylltodd 8,772 o aelwydydd i gael cymorth i atal digartrefedd, am gost amcangyfrifedig o £15,052,800.

42. Fel yr amlinellir uchod, bu gostyngiad cyffredinol yng nghanran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref ac mae'r broses o gasglu data statudol ar gyfer 2023-24 yn awgrymu bod o leiaf 25% o achosion, atal digartrefedd, am o leiaf chwe mis yn aflwyddiannus. Yn yr achosion hyn, aeth yr aelwydydd a wnaeth gais yn ddigartref yn statudol. Mae'n bosibl bod dyletswydd i leddfu digartrefedd yn ddyledus i aelwydydd o'r fath ac maent yn mynd i lefelau uwch o gostau sy'n gysylltiedig â lleddfu digartrefedd. [32]

43. Gan nodi'r costau parhaus, ni fyddai unrhyw gost ychwanegol i awdurdodau tai lleol o dan yr opsiwn hwn a fyddai'n golygu y bydd rhywun yn parhau i gael ei ystyried yn berson o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw'r digartrefedd hwnnw yn debygol o ddigwydd o fewn 56 diwrnod ac y byddai ganddo hawl i gael cymorth i atal y digartrefedd hwnnw rhag digwydd. Fodd bynnag, mae'n debygol iawn y byddai costau ehangach digartrefedd a'r pwysau ar wasanaethau yn cynyddu.

### *Manteision*

44. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Nid yw'n ymdrin ag unrhyw un o'r diffygion a nodwyd mewn perthynas â'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Bydd nifer yr unigolion sy'n cysylltu â gwasanaethau digartrefedd yn parhau i gynyddu a bydd gweithgarwch atal yn cael ei gyfyngu gan y cyfnod o amser cyfyngedig a heriau eraill.

---

[31] Dadansoddiad o ddata arolwg o awdurdodau lleol (2024).

[32] Digartrefedd: Ebrill 2023 i Fawrth 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU; Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd; Atal Digartrefedd yn ôl Ardal a Mesur (Adran 66)

*Crynodeb*

45. O dan opsiwn 1 bydd y sefyllfa yn parhau fel ag y mae. Fodd bynnag, mae hyn yn cadw'r sefyllfa anfoddhaol bresennol lle na all awdurdodau tai lleol wneud y gwaith atal yr hoffent ei wneud, am nad yw'r cyfnod o 56 diwrnod yn rhoi digon o amser i wneud gwaith effeithiol i atal digartrefedd.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

*Disgrifiad*

46. Bydd y Bil yn diwygio'r diffiniad o "o dan fygythiad o ddigartrefedd" os yw'n debygol y bydd person yn mynd yn ddigartref o fewn chwe mis. Bydd ystyr ddiwygiedig arfaethedig "o dan fygythiad o ddigartrefedd" yn rhoi mwy o amser i awdurdodau tai lleol atal digartrefedd. Ar y cyd â chynigion eraill yn y Bil ar atal (gweler adrannau 2, 3, 4 ac 21), nod y cynnig hwn yw creu'r amodau ar gyfer gweithgarwch gwell a mwy effeithiol i atal digartrefedd a chynyddu'r gyfradd atal gyffredinol.

*Costau*

47. Bydd y newid arfaethedig i ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd", ochr yn ochr â mesurau atal eraill (gweler adrannau 2, 3 4 ac 21) yn sicrhau bod y system ddigartrefedd yng Nghymru yn rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd yn gynt. Bydd y pwyslais hwn yn cynyddu'r gyfradd atal gyffredinol sydd ei hangen i sicrhau'r manteision ariannol net a gyngir drwy'r senario graidd.

48. Er mwyn sicrhau'r fantais hirdymor hon, bydd angen buddsoddiad cychwynnol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu ailbennu ffocws gwasanaethau ar atal, cymryd camau effeithiol i gadw pobl yn eu cartrefi ac ateb y galw ychwanegol a achosir pan fydd unigolion yn cysylltu'n gynharach am gymorth.

49. Er mwyn amcangyfrif costau'r cynnig hwn, yn gyntaf rydym wedi amcangyfrif costau darparu gwasanaeth i aelwyd sy'n cael cymorth o dan y ddyletswydd atal (adran 66 o Ddeddf 2014). Rydym wedi defnyddio'r data a gyflwynwyd gan 21 o'r 22 o awdurdodau lleol i lywio'r amcangyfrif hwn. Mae'r data hyn yn awgrymu cost amcangyfrifedig o £1,320 (£1,716 pan gaiff argostau staff eu cynnwys) fesul achos i atal digartrefedd. Yn 2023-24, cysylltodd 8,772 o aelwydydd i gael cymorth i atal digartrefedd, am gost amcangyfrifedig o £15,052,800.

50. Gan ddefnyddio'r ffigur hwn fel ein llinell sylfaen o ran cost, rydym wedi ystyried nifer o ffyrdd posibl y gall y lefel bresennol o unigolion sy'n cysylltu i gael cymorth i atal digartrefedd gynyddu, a fydd yn codi o ganlyniad i ystyr ddiwygiedig "o dan fygythiad o ddigartrefedd".

*Tabl 6: Ffyrdd posibl y gall nifer y bobl sy'n cysylltu am eu bod "o dan fygythiad o ddigartrefedd" gynyddu*

| **Rhoddir cymorth i aelwydydd ychwanegol** | | | |
|---|---|---|---|
| **Y niferoedd presennol sy'n cysylltu** | **8,772** | | |
| Cynnydd % posibl | Cynyddu 5% (isel) | **Cynyddu 15% (canolig)** | Cynyddu 30% (uchel) |
| Cynnydd posibl yn nifer yr achosion | 439 | **1,316** | 2,632 |
| Cyfanswm nifer yr achosion atal a ragwelir | 9,211 | **10,088** | 11,404 |
| Costau ar gyfer llwyth achosion ychwanegol a ragwelir | £753,300 | **£2,258,100** | £4,516,500 |
| Cyfanswm costau ar gyfer achosion atal a ragwelir | £15,806,100 | **£17,311,000** | £19,569,300 |

51. Gan ddefnyddio'r amcangyfrif canolig fel y sylfaen ar gyfer yr asesiad, amcangyfrifwn mai cyfanswm cost reolaidd ychwanegol y llwyth achosion, o ganlyniad i newid ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd" fydd £2,258,100 yn seiliedig ar gynnydd o 15%[33] yn y llwyth achosion (tua 1,316 o achosion ychwanegol o gysylltu (ledled Cymru. O ystyried mai ein bwriad polisi yw lleihau'r pwysau ar y system drwy atal digartrefedd yn fwy effeithiol, rhagwelwn y bydd y ddarpariaeth hon yn y Bil yn un o'r darpariaethau cyntaf i fod yn ddeddfiad. Bwriadwn i'r ddarpariaeth ddod i rym yn 2027-2028 felly disgwylir i'r gost ddechrau yn y flwyddyn hon a chodi'n rheolaidd bob blwyddyn.

***Manteision***

52. Mae ymyrryd yn gynt ac atal digartrefedd yn aml yn rhatach nag ymyriadau a wneir mewn argyfwng ac mae'r dadansoddiad cost a budd a wnaed i lywio'r Bil hwn yn nodi'n glir bod atal digartrefedd dipyn yn fwy costeffeithiol na lleddfu digartrefedd.[34]

53. Bydd yr opsiwn hwn yn rhoi mwy o amser i'w gwneud yn bosibl i gamau atal gael eu cymryd yn gynt ac, o'u cyfuno â mesurau atal eraill ac ymarfer canlyniadol y ddyletswydd "gofyn a gweithredu" arfaethedig, bydd yn golygu y caiff arwyddion posibl o ddigartrefedd eu nodi'n gynt, gan arwain at fwy o gyfleoedd i atal digartrefedd rhag digwydd. At hynny, bydd budd i'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach a fydd yn osgoi costau sy'n gysylltiedig ag effeithiau iechyd a chyfiawnder cymdeithasol digartrefedd.

---

[33] Llywodraeth Cymru (2023), Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft.
[34] HRA_new_burdens_assessment_pro_forma.pdf

54. Er bod yn rhaid i'r amser ychwanegol i atal digartrefedd gael ei ategu gan adnoddau ychwanegol a chamau cryfach sy'n debygol o atal digartrefedd, heb yr amser ychwanegol, bydd gweithgarwch atal awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfyngedig ac yn rhy gysylltiedig ag ymateb mewn argyfwng. Yn wyneb digartrefedd cynyddol yng Nghymru, mae hon yn sefyllfa anghynaliadwy.

***Crynodeb***

55. Bydd y newid arfaethedig i ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd" yn golygu y bydd awdurdodau tai lleol yn ymyrryd yn gynt i atal digartrefedd.

56. Er y bydd effaith y newidiadau arfaethedig hyn yn arwain at lwythi achosion a chostau cynyddol yn y byrdymor, maent yn cynnig arbedion yn y tymor hwy i awdurdodau tai lleol oherwydd costeffeithiolrwydd atal o gymharu â lleddfu (o dan y ddyletswydd interim a'r brif ddyletswydd gyfredol) digartrefedd.

**<u>Adran 2: Helpu i atal ceisydd rhag mynd yn ddigartref</u>**

*Mae'n rhaid i'r awdurdod helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw.*

**<u>Adran 3: Dyletswydd i asesu a hysbysiad o ganlyniad asesiad</u>**

*Mae'n rhaid i'r asesiad o angen gynnwys y cymorth sydd ei angen ar geisydd i oresgyn unrhyw anhawster i fyw'n annibynnol a'r cymorth sydd ei angen ar y ceisydd i sicrhau bod cyfathrebu â'r ceisydd yn hygyrch.Mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol geisio safbwyntiau'r ceisydd a rhoi sylw i'r safbwyntiau hynny a gwneud ymholiadau sy'n berthnasol i'r asesiad o ran nodweddion personol ac amgylchiadau'r ceisydd ac unrhyw berson sy'n byw gyda'r ceisydd neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo/iddi fyw'r ceisydd.*

**<u>Adran 4: Cynlluniau atal, cefnogaeth a llety</u>**

*Os yw awdurdod tai lleol o'r farn bod dyletswydd yn ddyledus i geisydd ganddo, mae'n rhaid i'r awdurdod baratoi a chynnal cynllun atal, cefnogaeth a llety ar gyfer y ceisydd. Mae'n rhaid iddo gynnwys unrhyw gamau y bydd yr awdurdod yn eu cymryd i gyfathrebu â'r ceisydd mewn ffordd sy'n hygyrch i'r ceisydd.*

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

57. O dan y ddeddfwriaeth bresennol mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i helpu i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael i geisydd ei feddiannu. Wrth wneud hynny, mae'n ofynnol iddynt roi sylw (ymhlith pethau eraill) i'r angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod.

58. Nid oes unrhyw ddyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau tai lleol i roi Cynlluniau Tai Personol (fel y'u gelwir ar hyn o bryd) ar waith i geiswyr sy'n ceisio cymorth digartrefedd, ac felly nid oes unrhyw ofynion pellach ynglŷn â chynnwys cynlluniau o'r fath. Fodd bynnag, mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd ohonynt ac mae sawl awdurdod tai lleol yn eu defnyddio. Mae templed o Gynllun Tai Personol drafft hefyd wedi'i gynnwys yn y Cod Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd.

59. Mae'r Cod Canllawiau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol bod yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi i geiswyr wedi'i hysgrifennu'n glir a'i bod yn hawdd ei deall. Fodd bynnag, wrth ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd awgrymodd llawer fod y broses o wneud cais am gymorth yn gymhleth ac yn aneglur nad yw'r ffordd y caiff penderfyniadau eu cyfleu yn hygyrch, yn enwedig mewn llythyrau sy'n defnyddio iaith a therminoleg gyfreithiol.

60. O ran awdurdodau tai lleol, gall fod yn heriol cyfathrebu'n rheolaidd ac mewn ffordd hygyrch â cheiswyr, yn enwedig o ystyried y galw am wasanaethau digartrefedd ac adnoddau'r gweithlu. Mae'r gweithgarwch ymgysylltu yn nodi y byddai awdurdodau tai lleol yn croesawu proses symlach, lai biwrocrataidd o gyfathrebu â cheiswyr.

***Costau***

61. Mae'r costau sy'n gysylltiedig ag ymarfer atal presennol wedi'u cynnwys yn y costau a nodir ar gyfer adran 1 uchod.

62. Prif ffynhonnell cyllid refeniw awdurdodau lleol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau digartrefedd statudol cyfredol yw'r cyllid craidd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol drwy'r Cyllid Allanol Cyfunol, sy'n cynnwys y Grant Cynnal Refeniw a chyllid Ardrethi Annomestig. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i neilltuo, sy'n golygu mai awdurdodau lleol sy'n penderfynu ar ddyrannu cyllid ar gyfer eu holl wasanaethau yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol. Y setliad cyllid craidd oedd £5.72bn yn 2024-25 a bydd setliad o £6.14bn yn 2025-26.

63. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ychwanegol i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Tai er mwyn helpu i atal digartrefedd. Nid yw'r grant hwn yn ariannu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd. Yn lle hynny, mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn ychwanegol at wasanaethau statudol ac yn eu hategu a'u cefnogi er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynigir gan awdurdodau yn helpu pobl i mewn i'r cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Felly mae gwasanaethau o dan y Grant Cymorth Tai yn helpu pobl ag amrywiaeth o anghenion i fyw'n annibynnol a chynnal tenantiaethau, a thrwy hynny osgoi digartrefedd a lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill. Mae gwasanaethau o dan y Grant Cymorth Tai hefyd yn rhoi cymorth cofleidiol i'r rhai sy'n ddigartref, er mwyn helpu pobl i beidio â bod yn ddigartref, gan gynnwys unigolion ag anghenion cymhleth sylweddol. Y gyllideb ar gyfer y Grant Cymorth Tai oedd £182m yn 2024-25 a bydd yn werth £204.3m yn 2025-26.

64. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi cyllid grant ychwanegol i awdurdodau lleol ers 2022-23 er mwyn eu helpu gyda'r cyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag atal digartrefedd. Rhoddwyd y cyllid hwn er mwyn cydnabod y galw ychwanegol yn y system ar ôl y pandemig. Yn 2024-25, rhoddwyd £5m o gyllid. O 2025-26, trosglwyddwyd y cyllid hwn (sy'n parhau'n £5m) i'r Grant Cynnal Refeniw er mwyn parhau i gefnogi dyletswyddau digartrefedd statudol awdurdodau lleol.

65. O dan adran 62 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, mae'n ofynnol eisoes i awdurdodau lleol gynnal asesiad o achos person os yw wedi gwneud cais am gymorth, os yw'n ymddangos ei fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o bosibl a bod newid perthnasol mewn amgylchiadau ers unrhyw asesiad blaenorol. Fel y nodir uchod, mae canllawiau presennol Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r defnydd o Gynlluniau Tai Personol ac mae nifer o awdurdodau tai lleol yng Nghymru yn eu cynnig i geiswyr ond nid ydynt yn cael eu cynnig gan bawb.

66. Bydd awdurdodau tai lleol, drwy ddefod ac arfer, wedi datblygu dulliau o gyfathrebu â cheiswyr. Rydym ar ddeall bod ansawdd y dulliau cyfathrebu hynny yn amrywio, a bod angen mireinio rhai yn fwy nag eraill. Nid oes gan Lywodraeth Cymru wybodaeth ddibynadwy am ba mor aml y bydd awdurdod tai lleol yn adolygu a, lle y bo angen, yn diwygio ei ddeunyddiau cyfathrebu a sut maent yn ymateb i anghenion ceiswyr unigol o ran llythrennedd, iaith a hygyrchedd.

67. Gan nodi costau parhaus, ni fyddai unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### *Manteision*

68. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â pheidio â chymryd camau pellach am y byddai'r diffygion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth gyfredol yn parhau i fodoli.

### *Crynodeb*

69. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i ymgymryd â phroses asesu sy'n ofynnol o dan adran 62 o Ddeddf 2014 a bydd rhai yn parhau i ddefnyddio Cynlluniau Tai Personol o'u dewis. Caiff arferion da o ran cyfathrebu â cheiswyr eu nodi mewn canllawiau.

## Y dull gweithredu a ffefrir

### *Disgrifiad*

70. Bydd y Bil arfaethedig yn cryfhau'r iaith sy'n gysylltiedig â chamau rhesymol fel bod yn rhaid i'r awdurdod helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i geisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw. Bydd hefyd yn cryfhau cynnwys yr asesiad o dan adran 62, gan sicrhau ei fod wedi'i bersonoli ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol roi Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety i unrhyw un y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo. Dylai'r cynllun fod yn seiliedig ar asesiad adran

62 o anghenion, cofnodi'r canlyniadau yr hoffai ceisydd eu cyflawni, a'r camau y bydd ceisydd a'r awdurdod tai lleol yn eu cymryd i gyflawni'r canlyniadau hynny.

71. Wrth wneud y cynnig hwn rydym yn gobeithio hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sydd wedi'i deilwra at anghenion unigolyn, ac sy'n arwain at weithgarwch sy'n rhoi'r siawns orau bosibl i atal rhywun rhag mynd yn ddigartref.

72. Bwriadwn ddatblygu templed ar gyfer cynllun atal, cefnogaeth a llety, ochr yn ochr ag adnoddau rheoli achosion eraill ar y cyd ag awdurdodau tai lleol a'r rhai â phrofiad bywyd o ddigartrefedd. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u cynnwys o dan yr adran ar y costau sy'n gysylltiedig â rhoi'r opsiwn ar waith.

***Costau***

73. Fel y nodir uchod, mae pob awdurdod lleol eisoes yn cynnal asesiadau ar y cyd ag unigolion sy'n gwneud cais am gymorth digartrefedd ond nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi fel rhan o'r data digartrefedd statudol sy'n cael eu casglu. Mae sawl awdurdod lleol yn defnyddio Cynlluniau Tai Personol gyda'r cleientiaid yn wirfoddol, ond nid oes gennym unrhyw ddata ar hyn.

74. Felly, gellir tybio rhai costau presennol yn seiliedig ar ymarfer presennol. Fodd bynnag, rydym wedi dwyn ynghyd amcangyfrifon o gostau ar gyfer yr adrannau hyn o'r Bil, gan dybio y byddant yn gosod mwy o ofynion ar awdurdodau tai lleol.

75. Rydym wedi defnyddio nifer yr aelwydydd a gafodd ganlyniad adran 66, adran 73 ac adran 75 ar gyfer 2023-24 fel amcangyfrif ar gyfer faint o geiswyr y bydd angen cynllun atal, cefnogaeth a llety arnynt o dan y cynnig. [35] Bydd yr amcangyfrif hwn yn cynnwys rhywfaint o gyfrif dwbl oherwydd natur y data a gesglir (gall aelwydydd gael mwy nag un canlyniad yn ystod blwyddyn). Cyfanswm nifer yr aelwydydd o dan bob dyletswydd yw 28,446.

76. Rydym wedi adolygu tystiolaeth o Loegr er mwyn amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â datblygu cynllun atal, cefnogaeth a llety. Mae Llywodraeth y DU yn nodi amcangyfrif o ddwy awr i gwblhau Cynllun Tai Personol (fel y cyfeirir atynt yn Lloegr) mewn asesiad o Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017.[36]

77. Er mwyn ategu'r bwriad polisi bod yn rhaid i wasanaethau i geiswyr ganolbwyntio ar yr unigolyn ac, felly, gael eu personoli, rydym wedi tybio y byddai angen mwy o amser i gwblhau Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety yng Nghymru. Rydym wedi amcangyfrif nifer yr oriau fydd eu hangen i gwblhau asesiad o angen, cwblhau cynllun atal, cefnogaeth a llety a chymryd camau perthnasol fel 4 awr fesul ceisydd. Mae'r ymrwymiad hwn o ran amser yn cydnabod y bydd angen i gynlluniau atal, cefnogaeth a llety gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd, o leiaf bob wyth wythnos. Mae'r costau uned yn seiliedig ar gyflogau cyfartalog (ynghyd ag argostau) ar gyfer staff digartrefedd awdurdod lleol ac yn lluosi'r lwfans amser

---

[35] Casglu data digartrefedd statudol 2023-24
[36] HRA_new_burdens_assessment_pro_forma.pdf

amcangyfrifedig â chost staff yr awr. Bydd cynlluniau atal, cefnogaeth a llety yn ofynnol i bob un y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo.

78. Amcangyfrifwn y bydd darparu cynllun atal, cefnogaeth a llety ar gyfer pob ceisydd yn costio cyfanswm o £3,061,600 y flwyddyn. Yr awdurdodau lleol fydd yn ysgwyddo'r gost hon a disgwylir iddi ddechrau yn 2027-2028 a chodi bob blwyddyn

*Tabl 7: Costau rheolaidd i awdurdodau tai lleol lunio cynlluniau atal, cefnogaeth a llety a'u hadolygu ar y cyd â cheiswyr*

| **Maes y gost** | **Amcangyfrif o'r gost** |
|---|---|
| Y nifer amcangyfrifedig o geiswyr y bydd angen cynllun atal, cefnogaeth a llety arnynt | 28,446 (cyfanswm y canlyniadau o dan adran 66, adran 73 ac adran 75) |
| Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul ceisydd i gynnal asesiad o angen, paratoi cynllun atal, cefnogaeth a llety a chymryd camau rhesymol. | 4 |
| Cyflog cyfartalog ar gyfer staff atal | £36,429 (£47,357 gan gynnwys argostau) |
| Cyfanswm yr oriau FTE ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer llwyth achosion atal ledled Cymru | 64.7 (swm yr amser staff sydd ei angen i gwblhau cynllun atal, cefnogaeth a llety (tua 4 awr) gyda phob ymgeisydd (ar unrhyw ddyletswydd)). |
| **Cyfanswm cost y flwyddyn ar gyfer awdurdodau tai lleol** | **£3,061,600** |

79. Fel y nodir uchod, mae sawl awdurdod yn defnyddio Cynlluniau Tai Personol fel rhan o'u gwaith presennol. Fodd bynnag, gan nodi bod y cynnig i gyflwyno'r cynllun atal, cefnogaeth a llety newydd yn sail i ddarparu gwasanaeth sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn, rydym hefyd wedi ystyried hyfforddiant a chymorth ychwanegol i awdurdodau tai lleol wrth ddatblygu'r cynlluniau hyn gyda cheiswyr mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

80. Er mwyn asesu'r gost drosiannol hon, rydym wedi tybio y byddwn yn defnyddio'r deunyddiau hyfforddiant sy'n bodoli eisoes ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac amgylcheddau sy'n ystyriol o gyflwr seicolegol ac ychwanegu cynnwys sy'n benodol i ddatblygu cynllun atal, cefnogaeth a llety. Yn seiliedig ar gost datblygu pecyn hyfforddiant tebyg yn y gorffennol, amcangyfrifwn y bydd yn costio tua £66,700 i ddatblygu'r hyfforddiant, sy'n gost a fydd yn cael ei hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru. Bydd cost cyfle ychwanegol a fydd yn cael ei hysgwyddo gan awdurdodau tai lleol er mwyn cwblhau'r hyfforddiant. Disgwylir i'r costau hyn godi yn 2026-2027.

*Tabl 8: Costau cyfle ar gyfer hyfforddiant ar gynlluniau atal, cefnogaeth a llety*

| **Maes y gost** | **Amcangyfrif o'r gost** |
|---|---|
| Y nifer amcangyfrifedig o staff y bydd eu hangen mewn timau digartrefedd ledled Cymru | 400 |
| Cyfradd yr awr | £21 |
| Amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant | 2 |
| **Cyfanswm cost cyfle ar gyfer hyfforddiant ar gynlluniau atal, cefnogaeth a llety** | **£16,800** |

81. Fel rhan o'r cynllun atal, cefnogaeth a llety, bydd angen i awdurdod tai lleol gofnodi unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu cymryd i gyfathrebu â'r ceisydd wrth arfer ei swyddogaethau, mewn ffordd sy'n hygyrch i'r ceisydd. Caiff hyn ei arwain gan anghenion y ceisydd, ond rydym hefyd wedi amcangyfrif costau datblygu deunyddiau cyfathrebu hygyrch i gefnogi hyn.

82. Er mwyn datblygu'r amcangyfrif hwn, rydym wedi tybio 25 diwrnod o amser staff mewn nifer o rolau o fewn awdurdodau lleol, ar gost o tua £5,760 fesul awdurdod lleol:

- 10 diwrnod o staff digartrefedd/tai
- 5 diwrnod o arbenigedd polisi ehangach
- 5 diwrnod o systemau/cymorth gweinyddol
- 5 diwrnod o gefnogaeth cyfieithu

83. At ei gilydd, amcangyfrifwn gyfanswm cost reolaidd o £126,800 i ddechrau yn 2027-2028. Bydd hyn yn cynnwys creu deunyddiau lleol i sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn hygyrch a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion penodol unigolyn.

84. Er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gallu cynnig cymorth i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw, rhagwelwn y bydd angen gwariant ataliol ychwanegol. At ddiben yr asesiad hwn, rydym wedi tybio gwariant ataliol ychwanegol o £5m y flwyddyn, o 2027-2028. Mae hyn yn cynrychioli dyblu'r gwariant cyfredol ar atal digartrefedd statudol neu gynnydd o 2.5% i werth presennol y Grant Cymorth Tai. Nid yw'r gost o reidrwydd yn briodol i'r Grant Cymorth Tai sy'n ychwanegu ac yn darparu cefnogaeth ehangach ar gyfer swyddogaethau atal anstatudol.

*Tabl 9: Cyfanswm costau a ragwelir, cynlluniau atal, cefnogaeth a llety, camau rhesymol a chyfathrebu*

| Maes y gost | Amcangyfrif o'r gost | Untro/rheolaidd | Cost i'w hysgwyddo gan: |
|---|---|---|---|
| Datblygu cynllun atal, cefnogaeth a llety ar y cyd â'r ceisydd | £3,061,600 | Rheolaidd | Awdurdodau lleol |
| Cyfathrebu | £126,800 | Rheolaidd | Awdurdodau lleol |
| Gwariant ataliol – camau rhesymol | £5,000,000 | Rheolaidd | Awdurdodau lleol |
| **Cyfanswm y costau rheolaidd** | **£8,188,400** | | |
| Costau datblygu hyfforddiant | £66,700 | Untro | Llywodraeth Cymru |
| Costau cyfle ar gyfer hyfforddiant ar gynlluniau atal, cefnogaeth a llety (awdurdod lleol) | £16,800 | Untro | Awdurdodau lleol |
| **Cyfanswm y costau untro** | **£83,500** | | |

***Manteision***

85. Mae manteision yn debygol o ddeillio o ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn drwy gynllun atal, cefnogaeth a llety a'r camau a gymerir i helpu i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'w feddiannu. Rhagwelwn y bydd hyn yn meithrin dealltwriaeth gryfach o anghenion unigolion a chamau wedi'u personoli'n well a chamau ataliol sy'n ymdrin â'r anghenion hyn, gan ddibynnu ar gymorth amlasiantaethol lle y bo angen (ymdrinnir â chostau cost mewn perthynas â chymorth amlasiantaethol o dan adran 25).

***Crynodeb***

86. Bydd y Bil yn rhoi pwyslais cryfach ar atal, y mae'n rhaid i hynny gynnwys ymdrin ag achosion a chanlyniadau digartrefedd. Bydd y cynnig i'w gwneud yn ofynnol i baratoi cynllun atal, cefnogaeth a llety i bob un y mae dyletswydd yn ddyledus iddo yn golygu y bydd anghenion cymorth yn cael eu nodi'n gynt ac y bydd camau yn cael eu cymryd i ddiwallu'r anghenion hyn, gan sicrhau bod unigolion yn symud drwy'r system ddigartrefedd gyda'r cymorth angenrheidiol, gan eu galluogi i gynnal eu lle mewn llety sefydlog.

87. Bydd prosesau cyfathrebu yn fwy hygyrch a thryloyw.

## Adran 5: Adolygiadau – Yr hawl i ofyn am adolygiad

## Adran 17: Yr hawl i ofyn am adolygiad o achosion a atgyfeirir

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad (adran 5)*

88. Mae adran 85 o Ddeddf 2014 yn darparu'r cyfleuster presennol i geisydd ofyn am adolygiad o nifer o asesiadau a phenderfyniadau allweddol ynghylch digartrefedd, sef:

- cymhwystra,
- hawl i ddyletswydd o dan adrannau 66, 68, 73 neu 75,
- penderfyniad ar ddod â dyletswydd i ben o dan adran 66, 68, 73 neu 75,
- a yw'r amodau ar gyfer atgyfeiriad cysylltiad lleol wedi cael eu bodloni ai peidio,
- a yw 'camau rhesymol' wedi cael eu cymryd ai peidio (adran 73 yn unig);
- addasrwydd y llety a gynigir (p'un a yw wedi cael ei dderbyn ai peidio).

89. Amlinellir y weithdrefn ar gyfer cynnal adolygiad yn adran 86 o Ddeddf 2014 ac yn fanylach yn Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015. Mae'r rhain yn amlinellu'r amserlenni ar gyfer penodi swyddogion adolygu, ceisio gwybodaeth ychwanegol gan geiswyr a'r terfynau amser ar gyfer gwneud penderfyniadau.

90. Caiff y rhan fwyaf o adolygiadau eu cynnal gan swyddogion gwahanol o fewn yr un tîm, ond mewn nifer bach o enghreifftiau caiff yr adolygiadau eu cynnal gan dîm annibynnol. Pan ofynnir am adolygiad mewn perthynas ag atgyfeiriad cysylltiad lleol, yna mae'n rhaid i'r ddau awdurdod lleol gytuno ar swyddog adolygu, neu bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn dod yn rhan o'r broses o wneud penodiad.

91. Mae gan awdurdod y pŵer i ddarparu llety yn ystod y cyfnod adolygu, ond mae hynny yn ôl disgresiwn yr awdurdod.

92. Ni waeth beth fo'r canlyniad, mae'n rhaid i'r ceisydd gael ei hysbysu am y rhesymau dros y penderfyniad ar ôl apêl ac os penderfynwyd bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir, yna mae'n rhaid i'r ddyletswydd briodol gychwyn. Mewn perthynas â'r ddyletswydd o dan adran 73, mae'r 56 diwrnod yn dechrau ar ddyddiad y llythyr hysbysu bod yr adolygiad yn llwyddiannus.

93. Mae'n rhaid i unrhyw adolygiad a gynhelir gan drydydd parti gael cymeradwyaeth benodol gan y ceisydd dan sylw ac mae'n rhaid i'r adolygiad gael ei gyflwyno o fewn 21 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad gwreiddiol am y

penderfyniad sy’n destun yr adolygiad. Gall awdurdod lleol estyn y terfyn amser hwn os cytuna.

94. Mae adrannau 88 ac 89 yn darparu darpariaethau ychwanegol i geiswyr sy’n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad i’r llys sirol ar sail pwynt cyfreithiol a all arwain at ddiddymu neu amrywio’r penderfyniad gwreiddiol ac a all arwain at fynnu bod llety yn cael ei ddarparu yn ystod y broses apelio.

***Disgrifiad (Adran 17)***

95. Mae’r broses adolygu ar gyfer achosion a atgyfeirir yn wahanol i adolygiad o unrhyw benderfyniad arall yn yr ystyr y gall gynnwys mwy nag un awdurdod lleol ac y gall gynnwys penodi swyddog y cytunir arno ar y cyd i gynnal yr adolygiad. Os nad yw’r ddau awdurdod yn gallu cytuno, yna mae’n rhaid i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru benodi swyddog yn seiliedig ar restr y ‘panel’ fel y’i nodwyd yn atodlen 3 i Orchymyn Digartrefedd (Penderfyniadau ar Atgyfeiriadau) 1998.

96. Mae Rheoliadau Digartrefedd (Gweithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn amlinellu’r amserlenni ar gyfer penodi swyddogion adolygu, ceisio gwybodaeth ychwanegol gan geiswyr a’r terfynau amser ar gyfer gwneud penderfyniadau.

97. Mae gan awdurdod y pŵer i ddarparu llety yn ystod y cyfnod adolygu, ond mae hynny yn ôl disgresiwn yr awdurdod.

98. Mae’n rhaid i unrhyw adolygiad a gynhelir gan drydydd parti gael cymeradwyaeth benodol gan y ceisydd dan sylw ac mae’n rhaid i’r adolygiad gael ei gyflwyno o fewn 21 diwrnod i ddyddiad yr hysbysiad gwreiddiol am y penderfyniad sy’n destun yr adolygiad. Gall awdurdod lleol estyn y terfyn amser hwn os cytuna.

***Costau***

99. Nid yw data cenedlaethol ar gael ar nifer yr adolygiadau y gofynnir amdanynt yng Nghymru, na chanlyniadau’r adolygiadau hyn.

***Manteision***

100. Bwriedir i’r ddarpariaeth roi hawl i apelio i geiswyr pan nad ydynt yn cytuno â chywirdeb, tegwch na phriodoldeb y penderfyniadau a wnaed yn eu hachos. Mae’r broses adolygu hefyd yn rhoi cyfle i awdurdodau lleol ddysgu ac addasu eu hymarfer fel sefydliad, gan gynnwys gofynion hyfforddiant ychwanegol o bosibl, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o adolygiadau llwyddiannus â phosibl.

***Crynodeb***

101. Bydd awdurdodau lleol yn parhau i adolygu penderfyniadau a wneir i gadarnhau cymhwystra yn ogystal â phenderfyniadau i gychwyn unrhyw un o'r dyletswyddau digartrefedd allweddol (66, 68, 73 a 75) a/neu ddod â nhw i ben ac addasrwydd llety a gynigir.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

102. Mae adrannau 5 a 17 o'r Bil yn diwygio adran 85 o Ddeddf 2014 i ddarparu hawliau ychwanegol i ofyn am adolygiad mewn perthynas â'r penderfyniadau canlynol:

- penderfyniad gan yr awdurdod tai lleol i beidio â chynnal asesiad o dan adran 62;
- asesiad gan awdurdod tai lleol o anghenion tai'r ceisydd ac unrhyw berson sy'n byw gyda'r ceisydd neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo/iddi fyw gyda'r ceisydd;
- asesiad gan awdurdod tai lleol o'r cymorth sydd ei angen ar y ceisydd ac unrhyw berson sy'n byw gyda'r ceisydd neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo/iddi fyw gyda'r ceisydd i gadw llety sydd neu a all fod ar gael; goresgyn unrhyw anhawster i fyw'n annibynnol;
- ynghylch cynllun atal, cefnogaeth a llety ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y mae'n ofynnol i'r awdurdod gynnal y cynllun;
- addasrwydd llety a gynigir i'r ceisydd wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd o dan y Bennod hon neu mewn cysylltiad â hynny (ar unrhyw adeg cyn y bydd y ceisydd yn derbyn y cynnig a thra bydd y cynnig ar agor);
- Ar ôl derbyn cynnig, ar unrhyw adeg pan fydd dyletswydd adran 66, 68 neu 75 yn gymwys i'r ceisydd, neu cyn diwedd cyfnod o 24 wythnos yn dechrau ar y diwrnod cyntaf y mae'r llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu;
- Penderfyniad gan awdurdod tai lleol o dan adran 80 i hysbysu awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeiriad wedi eu bodloni mewn perthynas â'r ceisydd;
- Penderfyniad o dan adran 80(5) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos wedi eu bodloni.

103. Mae'n rhaid i adolygiad gan ei gynnal gan uwch-aelod o'r staff ar lefel briodol nad oedd yn ymwneud â'r asesiad, y penderfyniad na'r cynllun ac mae ceiswyr yn cadw'r hawl i apelio i lys sirol ar sail pwynt cyfreithiol.

104. Rydym wedi tybio, wrth greu hawliau ychwanegol i ofyn am adolygiad, y byddwn yn cynyddu nifer y ceisiadau am adolygiadau a wneir i awdurdodau lleol. Er mwyn amcangyfrif effaith hyn rydym wedi tybio y bydd 25% o geiswyr sy'n dod o dan ddyletswydd digartrefedd yn gofyn am adolygiad o bosibl. Nid oes unrhyw ddata cadarn y gallwn raddio amcangyfrifon ar gyfer mwy o geisiadau am adolygiadau. Fodd bynnag, gan fod y Bil yn darparu mwy o gyfleoedd i ofyn am adolygiad a bydd yn bosibl i ymgeiswyr ofyn am fwy nag un adolygiad yn ystod eu profiad gwasanaeth, rydym wedi dewis defnyddio

amcangyfrif cymharol uchel o 25% fel sail ar gyfer cost bosibl.  Y rheswm dros y gor-amcangyfrif posibl hwn yw lleihau'r risg o dan-gostio'r diwygiadau.

105. Byddai adolygiadau o'r fath yn cael eu cynnal gan uwch-swyddog a gallant gymryd hanner diwrnod i'w cwblhau. Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn amcangyfrifwn mai cost reolaidd bosibl y cynnig hwn yw £997,000, a fydd yn dechrau yn 2027-2028.

*Tabl 10: Costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â hawliau cynyddol i ofyn am adolygiad*

| | |
|---|---|
| Aelwydydd y nodwyd eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd. | 8,772 |
| Aelwydydd sy'n ddigartref ac roedd dyletswydd adran 73 yn ddyledus iddynt er mwyn helpu i sicrhau llety | 13,539 |
| **Cyfanswm** | **22,311** |
| Cyfran y ceiswyr yr amcangyfrifir y byddant yn gofyn am 1 adolygiad | 25% |
| Y nifer amcangyfrifedig o adolygiadau | 5,578 |
| Yr amser amcangyfrifedig i gwblhau adolygiad | 3.5 awr |
| Cost fesul adolygiad | £178.75 |
| **Cyfanswm costau amcangyfrifedig ar gyfer adolygiadau** | **£997,000** |

***Manteision***

106. Mae'r hawl i ofyn am adolygiad yn cynnig proses effeithlon a syml lle y gall ceisydd herio penderfyniad a wnaed yn ei achos.

**Crynodeb**

107. Bydd gan geiswyr hawliau ychwanegol i ofyn am adolygiad mewn perthynas â nifer o asesiadau, penderfyniadau neu gynlluniau a wneir mewn perthynas â'u hachos. Bydd hyn yn cynnig proses effeithlon a syml lle y gall ceisydd herio penderfyniad a wnaed yn ei achos.

**Adran 6: Dyletswydd i sicrhau llety i bersonau digartref cymwys sydd â chysylltiad lleol â Chymru**

108. Mae hyn yn dileu adran 73 (y ddyletswydd i helpu i sicrhau llety i geiswyr digartref) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r cynnig i ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb yn y Bil yn golygu nad oes angen y ddyletswydd mwyach. Ni ragwelwn y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn

gysylltiedig â’r cynnig a bydd rhai arbedion bach yn gysylltiedig â llai o fiwrocratiaeth.

109. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno adran 75 newydd i Ddeddf Cyrchoedd (Cymru) 2014 sy'n cynnwys prawf cysylltiad lleol i benderfynu ar hawl i ddyletswydd adran 75. Rhoddir mwy o fanylion am y ddarpariaeth hon o dan baragraff 148-165.

**Adran 7: Amgylchiadau pan ddaw’r ddyletswydd i sicrhau llety i geiswyr i ben.**

*Mae’r adran hon yn rhoi ffyrdd ychwanegol i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau drwy lety sy’n debygol o fod ar gael am 12 mis ac sy’n addas i geiswyr a’u haelwyd. Cefnogir yr opsiynau ychwanegol gan:*

**Adran 19: Dyletswydd i gysylltu â cheiswyr penodol ar ôl i’r ddyletswydd o dan adran 75 ddod i ben**

*Mae’n rhaid i’r awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â cheisydd y mae dyletswydd o dan adran 75 yn ddyleddus iddo ac y daeth y ddyletswydd honno i ben o dan amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 7 gyda’r bwriad o nodi a yw’r ceisydd yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd neu a all fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd neu a yw’n wynebu risg o fynd yn ddigartref neu fod o dan fygythiad o ddigartrefedd. Y “cyfnod perthnasol” yw’r cyfnod o ddau fis ar ôl diwedd y cyfnod o bum mis sy’n dechrau ar y diwrnod y caiff y ceisydd ei hysbysu yn unol ag adran 84 fod y ddyletswydd o dan adran 75 wedi dod i ben.*

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

110. Ar hyn o bryd, dim ond os bydd y ceisydd wedi cael cynnig y canlynol, a’i fod yn ei dderbyn neu’n ei wrthod y gall y brif ddyletswydd digartrefedd ddod i ben mewn ffordd gadarnhaol:

- llety addas o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (tai cymdeithasol) neu;
- llety addas yn y sector rhentu preifat neu;
- yn gwrthod pob cynnig o lety addas.

111. Gellir hefyd ddod â dyletswyddau i ben o dan amgylchiadau eraill, gan gynnnwys os bydd y cais yn cael ei dynnu’n ôl, os bydd ceisydd yn mynd yn ddigartref yn fwriadol o lety dros dro neu os bydd y ceisydd yn methu â chydweithredu â’r awdurdod tai lleol.

112. Ni roddir unrhyw hyblygrwydd pellach i gyflawni dyletswyddau digartrefedd.

***Costau***

113. Mae’r ffyrdd cyfyngedig o gyflawni dyletswyddau digartrefedd (ynghyd â’r cyflenwad tai cyfyngedig) yn ychwanegu at bwysau yn y system ddigartrefedd,

sy'n ymwneud â symud pobl yn eu blaen drwy'r system. Mae hyn yn golygu bod angen i geiswyr aros am gyfnod hwy mewn llety dros dro wrth iddynt aros i'w digartrefedd gael ei leddfu. Caiff costau hyn eu hysgwyddo gan awdurdodau lleol, ochr yn ochr â chostau negyddol sylweddol i unigolion.

114. Yn 2023-2024, cafodd 18,000 o unigolion gymorth drwy gael llety dros dro gan awdurdodau lleol, ar gost o tua £10k fesul aelwyd a oedd yn ddigartref. Lleoliadau pan oedd digartrefedd wedi ailddigwydd oedd rhai o'r lleoliadau hyn.

*Manteision*

115. Cyfyngedig yw manteision y sefyllfa fel ag y mae, sy'n dibynnu ar y sector rhentu preifat a thai cymdeithasol i leddfu digartrefedd.

*Crynodeb*

116. Mae'r ffyrdd cyfyngedig o gyflawni dyletswyddau digartrefedd yn ychwanegu at bwysau yn y system ddigartrefedd, sy'n ymwneud â symud pobl yn eu blaen drwy'r system

**Y dull gweithredu a ffefrir**

*Disgrifiad*

117. Er mwyn lleihau'r pwysau yn y system ddigartrefedd bydd angen lleihau'r amser y mae unigolion yn ei dreulio mewn llety dros dro a chynyddu'r llif allan o'r system. Bydd y Bil yn helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r llif allan o ddigartrefedd drwy gynnig amrywiaeth ehangach o opsiynau llety iddynt er mwyn iddynt allu cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd.

*Costau*

118. Amcangyfrifwn y bydd y cynnig hwn yn arwain at osgoi costau o ganlyniad i gyfnodau mewn llety dros dro a fydd yn fyrrach am y bydd mwy o unigolion yn symud yn eu blaen i amrywiaeth ehangach o opsiynau llety. Mae'r opsiynau llety amgen eto i'w penderfynu ond gallant gynnwys ailuno teuluoedd (lle y bo'n briodol ac yn ddiogel), dychwelyd i lety blaenorol (er enghraifft os gall rhywun sydd wedi goroesi camdriniaeth ddychwelyd i'w lety blaenorol ar ôl mesurau i dynhau diogelwch y targed) neu'r defnydd o dŷ llety â chymorth.

119. Bydd awdurdodau lleol yn mynd i rai costau ychwanegol wrth weithredu'r ddyletswydd i gysylltu â cheiswyr penodol. Fodd bynnag, dim ond hyn a hyn o amser y bydd ei angen i gyflawni'r ddyletswydd, sef tua 30 munud fesul ceisydd yn ôl ein hamcangyfrif.

120. Er mwyn amcangyfrif y costau hyn, rydym wedi gwneud tybiaeth gyffredinol iawn mai pobl iau, sengl fydd fwyaf tebygol o ddefnyddio'r opsiynau cyflawni ychwanegol. Ni fydd hyn yn wir ym mhob achos, ond y grŵp hwn o geiswyr sydd yn aml yn wynebu her fforddiadwyedd llety ac a all gael y budd mwyaf o lety y gellir ei gynnig o dan yr opsiynau cyflawni ychwanegol, megis tŷ llety â chymorth.

*Tabl 11: Amcangyfrifon o gostau i'r rhai sy'n defnyddio opsiynau cyflawni llety amgen*

| **Maes y gost** | **Amcangyfrif o'r gost** |
|---|---|
| Y nifer posibl o geiswyr a all ddefnyddio opsiynau cyflawni ychwanegol (pobl ifanc 18-24 oed* sy'n ceisio cymorth) | 2,523 |
| Yr amser sydd ei angen i gadw mewn cysylltiad | 30 munud |
| Cost fesul achos | £14.3 |
| **Amcangyfrif o'r gost** | **£36,100** |

*Aelwydydd lle mae'r ceisydd arweiniol rhwng 18-24 oed ac y canfyddir eu bod yn ddigartref ac yn destun dyletswydd i helpu i sicrhau llety (adran 73)

121. Cost reolaidd yw hon, a fydd yn dechrau yn 2027-2028.

***Manteision***

122. Bydd y cynnig hwn yn rhoi ffyrdd ychwanegol o gynyddu'r llif allan o'r system ddigartrefedd i lety sefydlog, addas ar gyfer anghenion unigol. Rhagwelwn y bydd y ddyletswydd ategol i gadw mewn cysylltiad yn cynnig manteision ataliol ychwanegol o ran nodi ar gam cynnar risg sy'n datblygu a rhoi cyngor a gwybodaeth briodol i geiswyr blaenorol.

***Crynodeb***

123. Bydd y Bil yn helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r llif allan o ddigartrefedd drwy gynnig amrywiaeth ehangach o opsiynau llety iddynt er mwyn iddynt allu cyflawni'r brif ddyletswydd digartrefedd. Felly, bydd hyn yn helpu i gyflawni'r cyfraddau lleddfu digartrefedd gwell. Bydd gan y ddyletswydd i gadw mewn cysylltiad fanteision ataliol ychwanegol o ran nodi ar gam cynnar risg sy'n datblygu a rhoi cyngor a gwybodaeth briodol i geiswyr blaenorol er mwyn osgoi digartrefedd mynych.

## <u>Adran 8: Dyletswydd interim i sicrhau llety i geiswyr digartref</u>

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

124. Pan fydd gan awdurdod lleol 'reswm dros gredu' bod ceisydd yn gymwys, yn ddigartref ac yn dod o dan gategori o angen blaenoriaethol, mae adran 68 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i ddarparu llety addas (ar

sail interim) tra bydd ymchwiliadau yn mynd rhagddynt i hawl ceisydd i ddyletswyddau eraill.

125. Bwriedir i'r ddyletswydd weithredu ochr yn ochr â'r ddyletswydd o dan adran 73 sy'n para hyd at 56 diwrnod ar y mwyaf. Os yw'r ceisydd yn ddarostyngedig i adran 75, bydd y ddyletswydd honno yn dod yn weithredol, er y gall yr unigolyn aros yn yr un math o lety ar gyfer y ddwy ddyletswydd.

126. Os nad oes gan rywun hawl i'r dyletswyddau o dan adran 73 neu 75, rhoddir amser rhesymol i'r ceisydd ddod o hyd i lety amgen.

***Costau***

127. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar gostau sy'n ymwneud â'r defnydd o lety dros dro o dan adrannau 68, 73 na 75.

***Manteision***

128. Darperir llety dros dro, os oes ei angen, tra bydd asesiad ffurfiol yn cael ei gynnal.

***Crynodeb***

129. Mae awdurdodau lleol yn darparu llety addas ar sail interim.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

130. Ni fydd y dull gweithredu hwn yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r ffordd y mae adran 68 yn gweithio, ond mae'n dra chysylltiedig â'r cynnig i ddileu'r ddyletswydd o dan adran 73 a chyflwyno prawf cysylltiad lleol yn yr hawl yn adran 75.

131. O ganlyniad i ddileu adran 73, rhagwelir y bydd y ddyletswydd o dan adran yn 68 yn para am gyfnod tipyn yn fyrrach i gwmpasu'r amser a gymerir i gynnal asesiad o hawl ceisydd i'r ddyletswydd o dan adran 75 yn unig.

132. Oherwydd y cynnig i gyflwyno'r prawf cysylltiad lleol ar gyfer adran 75, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ychwanegol i sicrhau y bydd gan y rhai nad oes hawl ganddynt o dan adran 75 yr hawl i gael cyfnod rhesymol i ddod o hyd i lety amgen.

***Costau***

133. Disgwylir i'r costau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd o dan adran 68 yn benodol leihau o ganlyniad i'r disgwyliad y bydd y cyfnod y cymhwysir y ddyletswydd yn lleihau ac y bydd hynny'n arwain at ddarparu llai o lety dros dro. Mae cynnwys darpariaeth i roi cyfnod rhesymol i ddod o hyd i lety amgen i'r rhai na fyddant yn

ddarostyngedig i’r ddyletswydd o dan adran 75 yn seiliedig ar gysylltiad lleol yn dyblygu’r ddarpariaeth bresennol ac fel y cyfryw ni ddisgwylir i’r ddarpariaeth ehangu hawliau y tu hwnt i’r system bresennol.

134. Felly, ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â’r dull gweithredu hwn.

***Manteision***

135. Mae’n niwtral o ran manteision. Caiff ceiswyr eu hasesu ar gyfer dyletswydd o dan adran 75 yn gynt a bydd y ddyletswydd o dan adran 68 ond yn cwmpasu’r cyfnod asesu. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn cael fawr ddim effaith ar hyd y cyfnod mewn llety dros dro.

***Crynodeb***

136. Diwygiadau canlyniadol i adrannau 68 a 69 i ystyried newidiadau i’r hawl i’r ddyletswydd o dan adran 75 a dileu’r ddyletswydd o dan adran 73.

**Adran 9: Diddymu gwahaniaethau yn yr hawl sy’n gysylltiedig ag angen blaenoriaethol**

*Bydd yr adran hon yn diddymu’r prawf angen blaenoriaethol yng Nghymru.*

**Adran 10: Diddymu gwahaniaethau yn yr hawl sy’n gysylltiedig â digartrefedd bwriadol**

*Bydd yr adran hon yn diddymu’r prawf bwriadoldeb yng Nghymru.*

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

137. Defnyddir y prawf angen blaenoriaethol i benderfynu a yw grwpiau penodol o bobl yn cael eu hystyried yn rhai sy’n dod o dan grŵp ‘angen blaenoriaethol’, sy’n creu hawl i gymorth digartrefedd. Gall awdurdodau tai lleol ddefnyddio’r prawf bwriadoldeb i benderfynu a yw ceisydd yn fwriadol ddigartref ac mae’n cael ei gymhwyso wrth asesu’r ddyletswydd o dan adran 75 yn unig. Mae’r ddau brawf yn penderfynu a oes hawl i ddyletswyddau digartrefedd. Os canfyddir nad oes gan geisydd angen blaenoriaethol neu ei fod yn fwriadol ddigartref, gellir dod â’i ddyletswydd i ben, gan ei allgáu o’r system ddigartrefedd.

138. Gwnaeth Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022 ddiwygio adran 70 o Ddeddf 2014 a Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015, gan estyn y gallu i gymhwyso’r ddau brawf at bobl sy’n ddigartref ac ar y stryd a’r rhai y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt fyw gyda nhw. Effaith y newid hwn oedd sicrhau bod y

polisi neb heb help, a gyflwynwyd ar ddechrau'r pandemig, yn parhau, gan sicrhau bod cymorth yn cael ei roi i'r mwyafrif llethol o geiswyr.

139. Mae'r flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata yn dangos nad yw 14 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cymhwyso'r prawf angen blaenoriaethol mwyach.[37] [38] Mae'r data yn dangos bod y defnydd o'r prawf ond wedi'i gofrestru mewn wyth awdurdod yn unig, gyda thros hanner yr holl benderfyniadau i beidio â dynodi angen blaenoriaethol yn digwydd mewn dau o'r awdurdodau hyn. Mae data ar gyfer y flwyddyn lawn ddiwethaf yn dangos nad oedd 276 o aelwydydd wedi cael cymorth gan awdurdod lleol am nad oeddent yn dod o dan un o'r categorïau o angen blaenoriaethol, yr oedd 255 o'r aelwydydd hyn yn bobl sengl.

140. Ceir tystiolaeth bod y ffordd y caiff y prawf bwriadoldeb ei ddehongli a'i ddefnyddio yn amrywio'n fawr ledled Cymru.[39] Mae'r flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata yn dangos nad yw'r prawf bwriadoldeb wedi cael ei gymhwyso mewn 11 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a bod bron hanner yr holl achosion o ddefnyddio'r prawf wedi digwydd mewn tri awdurdod.

***Costau***

141. Mae costau i awdurdodau tai lleol yn ymwneud â darparu llety dros dro a llety sefydlog i'r rhai mewn angen blaenoriaethol ac nad ydynt yn fwriadol ddigartref. Yn 2023-24, gwnaeth digartrefedd gostio tua £275m i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, sef cost o **£20,000 fesul aelwyd** ddigartref ar gyfartaledd.[40]

***Mantais***

142. Rhagwelir y bydd digartrefedd yn cynyddu yng Nghymru a dylai awdurdodau tai lleol ddisgwyl i nifer y bobl sy'n cysylltu gynyddu o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, mae parhau â'r sefyllfa fel ag y mae o ran cadw'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb o dan y gyfraith, yn golygu na fydd gan y rhai nad ydynt yn dod o dan grŵp angen blaenoriaethol ar hyn o bryd neu sydd wedi mynd yn fwriadol ddigartref yr hawl i ddyletswyddau digartrefedd ac na fyddant yn gosod costau ychwanegol ar awdurdodau lleol. Fodd bynnag, bydd yr unigolion hyn yn parhau i fod yn ddigartref a mynd i'r costau personol sy'n gysylltiedig â digartrefedd ac mae'n debygol y byddant yn parhau i osod gofynion anghymesur ar wasanaethau cyhoeddus ehangach. Maent hefyd yn debygol o gysylltu eto yn ddiweddarach i gael cymorth ac efallai y bydd ganddynt anghenion cymorth ychwanegol bryd hynny.

***Crynodeb***

[37] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd

[38] Neu cymhwyswyd y prawf mewn cyn lleied o achosion fel nad yw wedi'i gofnodi yn y data (yn debygol o fod yn llai na thri achos fesul awdurdod a naw unigolyn i gyd.)

[39] Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Young, G., Watts, B. a Wood, J. (2021) Y Monitor Digartrefedd: Cymru 2021. Llundain: Crisis; StatsCymru: Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd Cyrchwyd 19/05/23.

[40] Y flwyddyn lawn ddiwethaf y mae data ar gael ar ei chyfer

143. Byddai'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb yn parhau i gael eu defnyddio, a fyddai'n allgáu rhai pobl o ran dyletswyddau digartrefedd. Bydd y profion yn parhau i gael eu cymhwyso'n anghyson, bydd unigolion yn wynebu effeithiau personol digartrefedd, a bydd y gwasanaeth cyhoeddus yn parhau i orfod ateb y galw y mae'r effeithiau hyn yn ei achosi.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

144. Mae'r Bil yn cynnig y dylid diddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb.

145. Drwy ddiddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb bydd modd sicrhau cysondeb â'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r diwygiadau arfaethedig a bod y system ddigartrefedd yng Nghymru yn hygyrch i bawb.

146. Mae'r newidiadau hyn yn golygu bydd ar awdurdod tai lleol ddyletswydd lawn i unrhyw geisydd sy'n gymwys ac sy'n 'ddigartref', cyhyd â bod ganddynt gysylltiad lleol hefyd. Bydd hyn yn cynnwys diwallu unrhyw anghenion mewn perthynas â llety interim a pheidio â goddef digartrefedd i rai pobl mwyach.

***Costau***

147. Wrth amcangyfrif cost y diwygiad hwn, tybir y byddai gan y ceiswyr hynny a fyddai wedi cael eu hallgáu'n flaenorol rhag cael gwasanaethau drwy gymhwyso'r profion yr hawl i gael cymorth bellach. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd hyn yn cyfrannu at gynnydd yng nghost darparu gwasanaethau digartrefedd (o ran rheoli llwythi achosion a darparu llety).

148. Mae awdurdodau lleol wedi codi pryderon ynglŷn ag effaith dileu'r profion hyn. Er nad yw'r data yn awgrymu galw ychwanegol sylweddol ar y system ddigartrefedd, rydym yn cydnabod bod y system o dan straen a bod unrhyw alw ychwanegol yn codi pryderon o ran ansawdd gwasanaethau, costau, ac argaeledd llety. Felly, mae'n fwriad polisi gennym ddechrau diddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb tua diwedd y cyfnod o roi'r diwygiadau ar waith. Y nod yw lleihau'r pwysau ar flaen y system (drwy atal mwy o ddigartrefedd), lleihau'r ddibyniaeth ar lety dros dro a chynyddu'r llif allan o'r system (i mewn i lety sefydlog) cyn bod y galw ychwanegol sy'n gysylltiedig â dileu'r profion yn cael ei ateb.

149. Er mwyn amcangyfrif cost diddymu'r ddau brawf rydym wedi gwneud tybiaeth sy'n debygol o fod yn ordybiaeth y byddai pob aelwyd sy'n cael ei hallgáu ar hyn o bryd rhag cymorth digartrefedd yn mynd i mewn i lety dros dro neu lety â chymorth. Rydym wedi gwneud y dybiaeth y bydd angen llety dros dro ar dri chwarter yr aelwydydd hyn, gyda'r chwarter arall yn defnyddio llety â chymorth. Amcangyfrifwn yn seiliedig ar hyn y bydd cost o £5,390,800 yn dechrau yn 2030-2031. Rydym hefyd wedi tybio bod hon yn gost reolaidd, ond, o ystyried ein ffocws ar atal digartrefedd, ni ddisgwyliwn i'r ffigur hwn aros yn ddigyfnewid.

*Tabl 12: Costau amcangyfrifedig diddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb*

| **Paramedrau allweddol** | |
|---|---|
| Y nifer ychwanegol o aelwydydd digartref a fyddai'n cael hawl i gael cymorth y flwyddyn o ganlyniad i ddiddymu'r profion | 366[41] (mae'r nifer hwn yn seiliedig ar nifer y bobl ddigartref, gymwys bob blwyddyn nad ydynt mewn angen blaenoriaethol yn ystod 2023-2024 a'r rhai sy'n gymwys, yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol ond yn fwriadol yn ystod 2023-2024.) |
| Tybiaeth ynglŷn â'r defnydd o lety dros dro anghenion cyffredinol | 75% @ £15,075[42] |
| Tybiaeth o ran llety â chymorth | 25% @ £12,540[43] |
| **Cyfanswm y gost reolaidd i awdurdodau tai lleol** | **£5,390, 800** |

150. Mae'n bosibl y bydd y ceiswyr hynny sy'n methu'r profion o dan y gyfundrefn bresennol yn cysylltu eto yn ddiweddarach fel rhai digartref, pan fo mwy o argyfwng. Felly, mae'n debygol, drwy eu helpu'n gynharach, y gall hynny atal y sefyllfa rhag gwaethygu yn y fath fodd a lleihau effeithiau a chostau digartrefedd yn y tymor hwy. Fodd bynnag, oherwydd diffyg tystiolaeth ynglŷn â'r graddau y mae'r rhai sy'n methu'r profion yn dod yn rhan o'r system eto, ni ellid modelu'r effeithiau hyn.

151. Dylem hefyd nodi y disgwylir y bydd arbedion sylweddol yn deillio o lai o ddefnydd o gymorth digartrefedd acíwt a llai o ddefnydd o wasanaethau ehangach (iechyd corfforol ac iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, a chyfiawnder troseddol) gan bobl sy'n cysgu allan ac aelwydydd digartref eraill.

### *Manteision*

152. Mae'r opsiwn hwn yn adeiladu ar ymarfer a fabwysiadwyd ar ddechrau'r pandemig ym mis Ebrill 2020 i sicrhau bod pawb a gysylltodd â gwasanaethau digartrefedd heb lety yn cael y llety a'r cymorth roedd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel. Ymhellach i'r newidiadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud i'r Rheoliadau yn 2022, a estynnodd y categorïau o angen blaenoriaethol i'r mwyafrif o'r rhai a gysylltodd, mae hyn yn sicrhau y gall pawb â chysylltiad lleol sy'n cysylltu gael gafael ar wasanaethau digartrefedd. Mae hyn yn parhau â'r

[41] Data StatsCymru ar ganlyniadau digartrefedd yn ôl dyletswydd statudol – yn gymwys, yn ddigartref ond ddim mewn angen blaenoriaethol (2023-24); ac yn gymwys, yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol ond yn fwriadol (2023-24)

[42] Dadansoddiad gan ddefnyddio'r ymarferion casglu costau gan Alma Economics gydag awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd, a gynhaliwyd yn 2024.

[43] Dadansoddiad gan ddefnyddio'r ymarferion casglu costau gan Alma Economics gydag awdurdodau lleol ar wasanaethau digartrefedd, a gynhaliwyd yn 2024.

dull gweithredu neb heb help ac yn ei ffurfioli, gan sicrhau'r ymarfer sefydledig sy'n bodoli eisoes yn y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru.

***Crynodeb***

153. Bydd diddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb yn golygu y bydd dyletswydd digartrefedd lawn yn ddyledus i unrhyw geisydd sy'n gymwys ac yn ddigartref.

**Adran 11: Atgyfeirio achosion at awdurdod tai lleol arall**

**Adran 12: Ystyr cysylltiad lleol**

**Adran 13: Esemptiad rhag atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall**

**Adran 14: Dyletswyddau i geiswyr mewn achosion a atgyfeirir**

**Adran 15: Achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol**

**Adran 16: Hysbysiad i geiswyr mewn achosion a atgyfeirir**

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

154. Nid yw Deddf 2014 yn cynnwys cysylltiad lleol fel prawf cyfreithiol ar gyfer unrhyw un o'r tair dyletswydd digartrefedd allweddol. Fodd bynnag, mae'r gallu disgresiynol i awdurdod atgyfeirio ceisydd at ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr (o dan set o amodau (a restrir isod) a oedd yn rhan o Ddeddf 1996) wedi cael ei gadw.

155. Nodir amodau'r atgyfeiriad yn adran 80 o Ddeddf 2014:

- Dim cysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod y gwneir cais iddo.
- Cysylltiad lleol ag ardal arall yng Nghymru neu yn Lloegr.
- Dim risg o gamdriniaeth os bydd yn dychwelyd i'r ardal y mae cysylltiad lleol â hi.
- Angen blaenoriaethol
- Yn ddigartref yn anfwriadol

156. Ceir cyfyngiadau hefyd ynghylch pryd y gellir gwneud atgyfeiriad at awdurdod arall. Ni ellir ei wneud cyn neu yn ystod y cam atal o dan adran 66. Ac ni ellir ei wneud ychwaith ar ôl agor dyletswydd lleddfu o dan adran 73. Mae i hyn ddwy effaith. Yn gyntaf, dim ond rhwng dod â'r ddyletswydd o dan adran 66 i ben a chychwyn y ddyletswydd o dan adran 73 y gellir gwneud atgyfeiriad, ac, os na wneir atgyfeiriad yn ystod y cyfnod hwn, yna ni fydd gan yr awdurdod lleol unrhyw ddewis ond derbyn dyletswydd o dan adran 75 os yw'r ceisydd hefyd yn un o'r categorïau o angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol.

157. Dylid nodi hefyd, os bydd gan geisydd gysylltiad lleol â man arall, ond nad yw mewn angen blaenoriaethol nac yn ddigartref yn anfwriadol, na ellir gwneud atgyfeiriad ac y byddai gan y ceisydd hawl i ddyletswydd o dan adran 73. Byddai hyn yn arwain at anallu i gael ei atgyfeirio a byddai cymorth yn dod i ben ar ddiwedd y ddyletswydd o dan adran 73 ac ni fydd ganddo hawl i ddyletswydd o dan adran 75 yn seiliedig ar ei angen blaenoriaethol na'i statws yn ddigartref yn anfwriadol.

158. Mae hyn wedi arwain at gyd-destun cyfreithiol a gweithredol croes lle nad yw cysylltiad lleol yn brawf cyfreithiol, ond mae hefyd yn elfen sylweddol o'r broses asesu.

***Cost***

159. Prif nod y prawf cysylltiad lleol disgresiynol yw sicrhau nad oes unrhyw awdurdod tai lleol yn dwyn costau anghymesur mewn perthynas â chynorthwyo a lletya pobl yn eu hardal a bod adnoddau lleol yn cael eu targedu at ddiwallu anghenion pobl leol.

160. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar ddefnydd disgresiynol o atgyfeiriadau cysylltiad lleol. Mae awdurdodau tai lleol ystyried bod cysylltiad lleol, ar ei ffurf bresennol, yn hollbwysig er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau digartrefedd i anghenion pobl sydd eisoes yn byw mewn ardal.

***Manteision***

161. Mae awdurdodau tai lleol yn ystyried bod y prawf cysylltiad lleol yn adnodd rheoli achosion hollbwysig sy'n eu helpu i reoli'r galw yn eu hardaloedd ar adeg o bwysau sylweddol ar adnoddau. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau tai lleol yn deillio o'r opsiwn hwn.

**Crynodeb**

162. Pŵer disgresiwn i atgyfeirio achos at awdurdod lleol arall yw cysylltiad lleol, mewn perthynas â nifer cyfyngedig o geiswyr.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

163. Mae'r Bil yn diwygio'r dull o atgyfeirio ar sail cysylltiad lleol er mwyn dileu'r gofyniad bod yn rhaid i geisydd fod mewn angen blaenoriaethol ac yn ddigartref yn anfwriadol i fod yn gymwys i gael ei atgyfeirio.

164. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull gweithredu yn Lloegr ar gyfer atgyfeiriad rhwng awdurdodau lleol yn Lloegr a bydd o bosibl yn cynyddu nifer y ceiswyr y gellir eu hatgyfeirio at ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'r amodau eraill, gan gynnwys risg o gamdriniaeth, yn cael eu cadw.

165. Yn ail, mae’r Bil yn cynnwys prawf cysylltiad lleol i benderfynu ar hawl i ddyletswydd adran 75. Ni fydd yn rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru dderbyn dyletswydd i sicrhau llety i’r rhai heb gysylltiad lleol yng Nghymru mwyach.

166. Bydd y Bil yn caniatáu atgyfeiriad cysylltiad lleol ar gyfer unigolyn yn y carchar cyn y cam adran 66. Gwneir hyn er mwyn sicrhau na fydd rhywun sydd ar fin gadael y carchar yn destun proses atgyfeirio yn y diwrnodau yn union cyn ei ryddhau, pan fydd yn bwysig i bob parti fod cynllun clir ar waith ymhell cyn rhyddhau.

167. Bydd y diffiniad o gysylltiad lleol yn aros fel y mae i raddau helaeth, ond mae’r cyfeiriad presennol at ‘amgylchiadau arbennig’ yn cael ei ddiwygio a bydd pŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiffinio pob un o’r amodau ar gyfer cysylltiad lleol.

168. Yn ogystal, bydd ymgeiswyr sydd mewn perygl o gam-drin yn cael eu heithrio o'r prawf cysylltiad lleol i bennu hawl ar gyfer dyletswydd adran 75 a byddant yn parhau i gael eu heithrio o'r prawf cysylltiad lleol sy'n penderfynu a ellir cyfeirio eu hachos at awdurdod lleol arall. Bydd y diffiniad o gamdriniaeth, gan gynnwys cam-drin domestig, yn cael ei ddiweddaru i ystyried deddfwriaeth ddiweddar.

***Costau***

169. Disgwyliwn i’r cynigion hyn fod yn niwtral o ran cost. Efallai y bydd nifer yr atgyfeiriadau, rhai ffurfiol ac anffurfiol, yn cynyddu. Fodd bynnag, gan na fydd yn rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru dderbyn dyletswydd i sicrhau llety i’r rhai heb gysylltiad lleol yng Nghymru mwyach, rhagwelwn y bydd costau unrhyw atgyfeiriadau ychwanegol yn cael eu gwrthbwyso gan gostau llety is. Ar y sail hon, ein hamcangyfrif gorau o’r gost yw £0.

***Manteision***

170. Mae’r diwygiadau yn cynnig prawf cysylltiad lleol cryfach er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol ganolbwyntio adnoddau ar atal a lleddfu digartrefedd yn eu hardal leol.

***Crynodeb***

171. Bydd prawf cysylltiad lleol yn penderfynu a oes hawl i ddyletswydd o dan adran 75. Ni fydd yn rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru dderbyn dyletswydd i sicrhau llety i’r rhai heb gysylltiad lleol yng Nghymru mwyach.

## Adran 18: Cymorth i gadw llety addas a sicrhawyd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd

*Mae'r adran hon yn cyflwyno dyletswydd newydd i roi cymorth i gadw llety addas sydd wedi cael ei sicrhau o dan swyddogaethau digartrefedd.*

### Busnes fel arfer
***Disgrifiad***

172. Mae llawer o bobl sy'n mynd yn ddigartref wedi meddu ar gartref o'r blaen ac mae digartrefedd mynych yn gyffredin.[44] Mae rhanddeiliaid yn glir y gall y risg o ddigartrefedd fod yn uchel ar ddechrau contract meddiannaeth newydd, yn enwedig i geiswyr sydd ag anghenion cymhleth neu anghenion cymorth lluosog neu ffactorau eraill sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Un o'r rhesymau pam mae'r risg hon yn uwch yw bod gwasanaethau cymorth yn tueddu i gamu'n ôl o gynorthwyo unigolion digartref pan fydd eu hangen o ran llety wedi cael ei ddiwallu, hyd yn oed os nad yw anghenion cymorth ehangach wedi cael eu diwallu. Mae adborth seiliedig ar ymarfer yn awgrymu y gall risg ddod yn amlwg yn gyflym a heb gymorth estynedig, mae unigolyn yn wynebu mwy o risg o ddigartrefedd mynych. Mae'r data digartrefedd rheoli misol diweddaraf yn awgrymu bod 17% o leoliadau i lety dros dro yn rhai i unigolion sydd wedi cael eu rhoi mewn llety dros dro yn ystod y 12 mis diwethaf.[45]

173. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid grant i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Tai. Nid yw'r grant yn ariannu'r ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd (a ariennir drwy Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol). Yn lle hynny, mae gwasanaethau a ariennir gan y Grant Cymorth Tai yn ychwanegol at wasanaethau statudol ac yn eu hategu a'u cefnogi er mwyn sicrhau bod yr hyn a gynigir gan awdurdodau yn helpu pobl i mewn i'r cartrefi cywir gyda'r cymorth cywir i lwyddo.

174. Mae gwasanaethau a ariennir o dan y grant yn cynnwys helpu pobl ag amrywiaeth o anghenion cymorth i fyw'n annibynnol, cynnal eu tenantiaethau presennol ac atal digartrefedd. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru a llenyddiaeth arall yn nodi enghreifftiau y dylai awdurdodau tai lleol eu hystyried wrth gyflawni eu dyletswydd atal, yn gysylltiedig â chynnal contractau meddiannaeth.[46] [47]

### *Costau*

175. Rhoddir cyllid i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Tai i helpu unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd ac sydd ag anghenion cymorth tai. Mae'r cymorth hwn yn cynnwys cyngor ar ddyled, cyflogaeth a rheoli tenantiaeth. Amcangyfrifir bod gweithgareddau mewn cysylltiad â chynnal tenantiaeth – drwy

---

[44] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Rhagfyr 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU
[45] Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan: Rhagfyr 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU
[46] Guidance for Local Authorities on the Allocation of Accommodation and Homelessness
[47] Gweithio gyda'n gilydd i roi diwedd ar ddigartrefedd o dai cymdeithasol

gostau staffio ‘cymorth fel y bo’r angen’ – yn cyfrif am tua 35% o’r defnydd o gyllid y Grant Cymorth Tai gan awdurdodau. Cyfanswm cyllideb y Grant Cymorth Tai yn 2024-25 oedd £182.4m; o’r swm hwn, mae’r gwariant arfaethedig amcangyfrifedig ar wasanaethau ‘cymorth fel y bo’r angen’ i atal digartrefedd yn cyfrif am £63m. Bydd cyllideb y Grant Cymorth Tai yn werth £204.3m yn 2025-26.

176. Ers 2022-23, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi cyllid grant ychwanegol i awdurdodau lleol drwy gyllid Atal Digartrefedd Disgresiynol. Mae hyn yn ychwanegu at gyllid yr awdurdod lleol ei hun er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol i atal a lleddfu digartrefedd i’r rhai sy’n cael budd-daliadau a’r rhai sy’n wynebu risg ar incwm isel ond nad ydynt yn cael budd-daliadau. Yn 2024-25, rhoddwyd £5m o gyllid grant. O 2025-26, mae’r cyllid hwn wedi cael ei drosglwyddo i’r Grant Cynnal Refeniw er mwyn parhau i gefnogi dyletswyddau digartrefedd statudol awdurdodau lleol.

***Manteision***

177. Byddai awdurdodau tai lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid y Grant Cymorth Tai i roi cymorth cyffredinol i unigolion sy’n ceisio cymorth i atal digartrefedd, y bydd elfen ohono yn cynnwys gwaith ar gynnal tenantiaethau. Ni fyddai unrhyw gostau ffurfiol ychwanegol i awdurdodau lleol, ond nid ymdrinnid â’r risg a nodwyd o ran digartrefedd mynych gyda goblygiadau cysylltiedig tebygol o ran costau, ond nid oes gennym dystiolaeth fanwl i’w defnyddio i fodelu’r risg hon.

***Crynodeb***

178. Pe bai’r sefyllfa fel ag y mae yn parhau, byddai awdurdodau tai lleol yn parhau i ddefnyddio’r Grant Cymorth Tai i ddiwallu anghenion lleol, gan ddewis ariannu gwasanaethau cynnal tenantiaeth, pe bai angen hyn yn eu hardal.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

179. Mae sicrhau bod cymorth effeithiol ar waith i gefnogi tenantiaid newydd wrth iddynt ymrwymo i gontractau meddiannaeth yn elfen allweddol i gryfhau gwaith atal a lleihau digartrefedd mynych.

180. Mae’r Bil yn cynnwys dyletswydd newydd i roi cymorth i gadw llety addas a sicrhawyd o dan swyddogaethau digartrefedd drwy helpu i sicrhau nad yw llety’r ceisydd yn peidio â bod ar gael i’r ceisydd ei feddiannu, drwy gymryd camau rhesymol sy’n debygol o gyflawni’r diben hwnnw. Ni fyddai’r ddyletswydd arfaethedig yn gymwys i bawb ond byddai’n cael ei chyfyngu i’r rhai y mae awdurdod tai lleol yn nodi bod angen cymorth arnynt i gadw eu llety, ar ôl cyflawni’r brif ddyletswydd digartrefedd. Lle y bo angen, byddai awdurdod tai lleol yn gallu defnyddio’r ddyletswydd ehangach i gydweithredu (adran 31) i ofyn i awdurdodau cyhoeddus eraill a swyddogaethau eraill yr awdurdod lleol am gymorth er mwyn rhoi’r cymorth angenrheidiol.

181. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau integredig er mwyn helpu i gadw contractau meddiannaeth, gan gynnwys rhoi pob math o gymorth. Byddai pwynt terfynol y ddyletswydd yn cael ei bennu'n 12 mis, neu pan fydd y ceisydd yn mynd yn ddigartref, neu os bydd yr awdurdod lleol wedi'i fodloni nad yw'r ceisydd yn wynebu risg o ddigartrefedd mwyach.

***Costau***

182. Mae'r flwyddyn lawn ddiwethaf o ddata yn awgrymu bod 3,357 o aelwydydd o dan fygythiad o ddigartrefedd yn wynebu'r bygythiad hwnnw oherwydd colli llety rhent neu lety clwm. Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys achosion o droi allan heb fai, felly ni ddylid tybio bod hyn yn ymwneud â phobl sydd wedi methu â chynnal tenantiaeth oherwydd diffyg cymorth yn unig.

183. Er mwyn deall yn well pa gyfran o aelwydydd sy'n ceisio cymorth o ganlyniad i golli llety ac y byddai angen cymorth tenantiaeth ychwanegol arnynt, rydym wedi dadansoddi'r data manwl a ddarparwyd gan dri awdurdod lleol er mwyn nodi cymhareb rhwng nifer yr aelwydydd sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd a'r galw am gymorth tenantiaeth. Dangosodd hyn gymhareb gyfartalog o 0.18. Drwy gymhwyso'r gymhareb hon at nifer yr aelwydydd y canfuwyd eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i golli llety rhent neu lety clwm, awgrymir galw procsi am gymorth tenantiaeth yng Nghymru o 19,075 o aelwydydd. Rydym wedi tybio y byddai angen cymorth ychwanegol ar 10% o'r procsi hwn o dan y ddyletswydd arfaethedig ac, o ystyried y gost flynyddol gyfartalog fesul tenant am roi cymorth tenantiaeth (£4,092) a ddarparwyd gan awdurdodau lleol, mae hyn yn awgrymu cyfanswm cost reolaidd amcangyfrifedig o £7,805,100 ar gyfer y cynnig hwn a fydd yn dechrau yn 2027-2028.

*Tabl 13: Cost amcangyfrifedig am y ddyletswydd i gadw llety addas a sicrhawyd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd*

| **Maes y gost** | **Amcangyfrif o'r gost** |
|---|---|
| Galw procsi am gymorth tenantiaeth yng Nghymru | 19,075 |
| Canran y grŵp hwn y bydd angen cymorth arnynt o dan y cynnig yn y Bil | 10% |
| Cost flynyddol gyfartalog am roi cymorth tenantiaeth fesul tenant | £4,092 |
| Cyfanswm cost reolaidd amcangyfrifedig ar gyfer y cynnig hwn. | £7,805,100 |

184. Mae buddsoddi mewn gwell cymorth i gynnal tenantiaeth yn cefnogi ein senario graidd a bydd yn ysgogi arbedion cost mewn perthynas ag atal mwy o ddigartrefedd, yn enwedig mewn perthynas â digartrefedd mynych.

***Manteision***

185. Mae sicrwydd tai yn hollbwysig i lesiant aelwydydd. Mae effeithiau diffyg sicrwydd tai yn eang eu cwmpas, gan gynnwys effeithiau negyddol unigol, cymunedol ac economaidd.

***Crynodeb***

186. Yn ogystal â chyfrannu at lesiant unigolion ac aelwydydd, gall y broses o gryfhau gwaith atal a darparu gwasanaethau integredig i atal digartrefedd, yn enwedig digartrefedd mynych, o bosibl gynnig lleihad sylweddol mewn costau wrth ddarparu gwasanaethau digartrefedd yng Nghymru.

## Adran 20: Amgylchiadau pellach pan fo'r dyletswyddau i helpu ceiswyr yn dod i ben

*Amgylchiadau newydd pan fydd modd dod â dyletswyddau i geiswyr i ben, o dan amgylchiadau penodol pan fydd y ceiswyr wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol, wedi achosi difrod difrifol neu wedi methu ag ymateb i sawl ymgais gan yr awdurdod tai lleol i gysylltu â nhw.*

### Busnes fel arfer

***Disgrifiad***

187. Mae adran 79 o Ddeddf 2014 yn nodi'r amgylchiadau pan ddaw dyletswyddau'r awdurdod tai lleol o dan adrannau 66, 68, 73 a 75 i ben. Mae is-adran 79(5) yn nodi y gellir dod ag unrhyw ddyletswydd sy'n ddyledus i geisydd i ben os bydd y ceisydd yn "methu'n afresymol â chydweithredu" â'r awdurdod tai lleol wrth iddo arfer ei swyddogaethau.

***Costau***

188. Mae data statudol yn dangos yr achosion mewn perthynas â chymorth a roddwyd o dan adrannau 66, 73 a 75 pan nad yw aelwyd wedi cydweithredu ag awdurdod tai lleol neu pan fydd wedi'i rhyddhau o'r system drwy golli cysylltiad.[48]

189. Mae'n anodd mesur y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth i geiswyr os nad yw'r gwasanaeth hwnnw yn dod i ben yn gadarnhaol. I ryw raddau, gallem amcangyfrif costau wedi'u hosgoi pan fydd cyfnodau mewn llety dros dro yn dod i ben yn gynt, ond mae hefyd yn debygol y bydd unigolion a ryddheir oherwydd diffyg cydweithrediad neu golli cysylltiad yn parhau i fod yn ddigartref ac y byddant yn dod yn rhan o'r system eto yn ddiweddarach, ar ôl profi'r effeithiau negyddol parhaus sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Gall hyn fod yn arbennig o wir am geiswyr sy'n ddigartref ochr yn ochr ag anghenion cymorth eraill, a all ddefnyddio gwasanaethau mewn ffyrdd caotig ac ysbeidiol.

[48] Aelwydydd y rhoddwyd cymorth iddynt yn ôl canlyniad a'r math o aelwyd

*Manteision*

190. Mae'r system bresennol yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol ddod â dyletswyddau i ben o dan yr amgylchiadau a nodwyd. Gall hyn gynnwys costau wedi'u hosgoi yn y byrdymor ond sydd â goblygiadau yn y tymor hwy o ran achosion ychwanegol o gysylltu oherwydd digartrefedd.

*Crynodeb*

191. Mae'r prawf yn cynnig eglurder cyfreithiol o ran pryd y bydd dyletswydd wedi'i chyflawni ond efallai na fydd yn gweithio'n dda i geiswyr ag anghenion cymhleth ac anghenion cymorth mawr na fyddant yn ymgysylltu â gwasanaethau mewn ffordd drefnus.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

*Disgrifiad*

192. Gall person sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd ymddwyn ac ymgysylltu â gwasanaethau mewn ffordd gaotig ac anrhagweladwy, gan gynnwys peidio ag ymgysylltu am gyfnodau. Nid yw hyn yn golygu o reidrwydd nad oes angen cymorth arnynt, ac mae'n bwysig gwneud pob ymdrech i ailymgysylltu â cheiswyr sy'n agored i niwed a pheidio â dod â dyletswyddau i ben yn gynamserol.

193. Mae'n bwysig hefyd fod staff sy'n gweithio mewn awdurdodau tai lleol yn cael eu diogelu rhag ymddygiad sy'n dreisgar neu'n fygythiol a bod ffynonellau cyfyngedig o lety yn cael eu cynnal a'u cadw ac yn ddiogel i bob un sy'n eu meddiannu. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn llety dros dro cynulliadol.

194. Felly, rydym yn cynnig diwygiad i adran 79 o Ddeddf 2014 i gyflwyno amgylchiadau newydd pan fydd modd dod â dyletswyddau i geiswyr i ben. Bydd yr amgylchiadau hyn yn cynnwys trais, ymddygiad bygythiol ac achosi difrod difrifol i lety.

195. Rydym hefyd yn cynnig y dylid culhau'r prawf methiant afresymol i gydweithredu presennol i gwmpasu enghreifftiau lle na cheir ymateb gan geiswyr ar ôl sawl ymgais gan yr awdurdod tai lleol i gysylltu â'r ceisydd, os nad oes unrhyw amgylchiadau arbennig pellach yn hysbys.

196. Mewn achosion o ddiffyg cyswllt, bydd yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol roi hysbysiad i'r ceisydd i'w rybuddio am ei fwriad i ddod â'r ddyletswydd i ben.

**Costau**

197. Gan fod y Bil yn culhau'r 'prawf methiant afresymol i gydweithredu', mae'n rhesymol tybio y bydd nifer y bobl y mae eu dyletswydd yn dod i ben oherwydd diffyg cydweithredu yn lleihau. Bydd hyn yn arwain at fwy o gostau yn y byrdymor, o ystyried y bydd mwy o bobl yn gymwys i gael cymorth bellach. Fodd bynnag, disgwylir y bydd yn arwain at fanteision yn y tymor hwy, gan y bydd

cynnig camau adferol yn gynharach yn osgoi risg bellach y bydd y sefyllfa yn dwysáu, a all fod yn fwy costus i'w datrys yn ddiweddarach. Mae costau sy'n gysylltiedig â lleihad yn nifer y ceiswyr sy'n cael eu rhyddhau o'r system am "resymau eraill" wedi cael eu hasesu fel rhan o'r senario graidd.

198. Ceir costau ychwanegol hefyd yn gysylltiedig â'r gofyniad i roi hysbysiad rhybuddio i geiswyr nad ydynt wedi ymateb i sawl ymgais i gysylltu â cheiswyr. Er mwyn amcangyfrif y costau hyn, rydym wedi nodi nifer y ceiswyr sy'n cael eu rhyddhau oherwydd diffyg cysylltiad ar hyn o bryd (2,436) ac wedi tybio y bydd angen tri deg munud o amser swyddog tai i baratoi ac anfon yr hysbysiad rhybuddio. Ar y sail hon, amcangyfrifwn gost ychwanegol o £34,800 mewn cysylltiad â llythyrau rhybuddio. Cost reolaidd yw hon, a fydd yn dechrau yn 2027-2028.

*Tabl 14: Costau amcangyfrifedig hysbysiadau rhybuddio*

| Maes y gost | Amcangyfrif o'r gost |
|---|---|
| Nifer y ceiswyr sy'n cael eu rhyddhau oherwydd diffyg cysylltiad ar hyn o bryd | 2,436 |
| Amser sydd ei angen i roi hysbysiad rhybuddio | 30 munud fesul ceisydd |
| **Cyfanswm y gost** | **£34,800** |

***Manteision***

199. Rydym o'r farn y bydd culhau'r prawf methiant afresymol i gydweithredu yn helpu i roi cymorth sy'n ystyriol o drawma, a hefyd bennu ffinniau clir o ran disgwyliadau ynglŷn ag ymddygiad derbyniol a diogelwch staff.

***Crynodeb***

200. Bydd y ddarpariaeth yn cyfrannu at system ddigartrefedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn well ac sy'n ystyriol o drawma.

## Adran 21: Dyletswydd awdurdod perthnasol i "ofyn a gweithredu"

*Creu cyfrifoldeb ar y cyd am nodi ac atal digartrefedd yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.*

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

201. Bydd pobl sy'n ddigartref, neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, yn dod ar draws nifer o wasanaethau cyhoeddus yn rheolaidd wrth iddynt geisio deall a rheoli eu sefyllfa o ran tai.[49] Mae'n hollbwysig bod pob un o'r gwasanaethau hyn

[49] Y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: adroddiad Mawrth 2020

yn gweithredu i atal digartrefedd, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phartneriaid er mwyn helpu ceisydd digartrefedd posibl i gael cymorth tai a digartrefedd ar gam cynnar.

202. Ar hyn o bryd, mae trefniadau anffurfiol ar waith i hwyluso atgyfeiriadau gan wasanaethau ehangach at awdurdodau tai lleol, ond nid oes gofyniad i'r gwasanaethau hyn atgyfeirio unigolion i gael cymorth ac nid yw ffynhonnell, graddfa na chyfradd atgyfeiriadau at awdurdodau tai lleol yn cael eu cofnodi ar hyn o bryd

### *Costau*

203. Nid oes modd llunio amcangyfrif o gostau'r ymarfer presennol, o ystyried nad oes gennym ddata cenedlaethol ar ffynhonnell atgyfeiriadau at awdurdodau tai lleol. Fodd bynnag, mae gwaith modelu a wnaed i lywio'r asesiad hwn yn dangos bod y gwasanaeth cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn mynd i gryn dipyn o gostau drwy gyfraddau rhyngweithio uwch pobl sy'n ddigartref â'r systemau iechyd, gofal cymdeithasol a chyfiawnder troseddol na phobl nad ydynt yn ddigartref. Amcangyfrifir mai cost gynyddrannol digartrefedd yw £64m y flwyddyn i wasanaethau cyhoeddus ehangach neu £4,700 fesul achos o ddigartrefedd.

### *Manteision*

204. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â pharhau â'r sefyllfa fel ag y mae. O dan y fframwaith deddfwriaethol presennol nid yw'n ofynnol adnabod nac atgyfeirio unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, a all wedyn gysylltu ag awdurdodau tai lleol yn ddiweddarach. Os byddant yn cysylltu'n ddiweddarach, bydd hynny'n ei gwneud yn fwy heriol i wasanaethau atal eu digartrefedd.

### *Crynodeb*

205. Mae angen i'r trefniadau gwaith presennol yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gael eu cryfhau. Gall adnabod unigolion neu aelwydydd sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn llwyddiannus ac yna'u hatgyfeirio olygu bod argyfwng yn cael ei atal, a bod niweidiau personol, cymdeithasol ac economaidd a achosir gan ddigartrefedd yn cael eu hosgoi.

## Y dull gweithredu a ffefrir

### Disgrifiad

206. Bydd y Bil yn gosod dyletswydd newydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru i "ofyn a gweithredu". Bydd y ddyletswydd yn ddyledus pan fydd "awdurdod cyhoeddus penodedig" o'r farn bod person y mae'n arfer swyddogaethau yn ei gylch yn ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod cyhoeddus penodedig ofyn am ei gydsyniad i'w atgfeirio at yr awdurdod tai lleol ar ei ran. Yng Nghymru, caiff yr atgyfeiriad hwn ei drin fel petai'n gais am gymorth digartrefedd gan yr aelwyd. Hefyd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus penodedig roi gwybodaeth i'r person am y cymorth a all fod ar gael gan wasanaethau eraill, ac ystyried a oes

unrhyw gamau eraill y gallai yn rhesymol eu cymryd wrth arfer ei swyddogaethau i helpu'r ceisydd i sicrhau neu gadw ei lety. Mae'n rhaid iddo hefyd ystyried a yw risg neu brofiad yr unigolyn o ddigartrefedd yn effeithio ar y ffordd y mae'n arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r person.

207. Nod y ddyletswydd i "ofyn a gweithredu" yw adnabod unigolion sy'n wynebu risg o ddigartrefedd mor gynnar â phosibl a sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu rhoi cymorth iddynt yn gynt, gan ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn atal digartrefedd rhag digwydd. Mae'r pwyslais ar y cyd ar weithredu yn ogystal â gofyn ynglŷn â digartrefedd ar waith er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau tai lleol y bydd eu hasiantaethau partner hefyd yn gwneud yr hyn y gallant ei wneud wrth atgyfeirio unigolyn sy'n wynebu risg. Bydd hyn yn cryfhau ymhellach y gwasanaeth a gynigir i'r unigolyn hwnnw ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y caiff digartrefedd ei atal yn llwyddiannus.

208. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi canllawiau i'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru (ar wahân i'r Cod Canllawiau cyffredinol ar y Bil arfaethedig) ynglŷn â sut i roi'r dyletswyddau newydd ar waith a bydd yn cyflwyno arlwy dysgu a datblygu cenedlaethol i baratoi'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni'r dyletswyddau newydd.

209. Cynigir y bydd y ddyletswydd i "ofyn a gweithredu" yn gymwys i'r awdurdodau cyhoeddus penodedig canlynol:

- awdurdod gwasanaethau cymdeithasol;
- Bwrdd Iechyd Lleol ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal iechyd nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol iddynt;
- Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Prifysgol Gwasanaeth Ambiwlans Cymru; (d) landlord cymdeithasol cofrestredig;
- corfforaeth tref newydd ar gyfer ardal yng Nghymru;
- darparwr cofrestredig preifat tai cymdeithasol sy'n darparu tai yng Nghymru;
- ymddiriedolaeth weithredu tai ar gyfer ardal yng Nghymru;
- llywodraethwr carchar yng Nghymru;
- cyfarwyddwr carchar ar gontract yng Nghymru;
- llywodraethwr sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru;
- llywodraethwr canolfan hyfforddiant ddiogel yng Nghymru;
- cyfarwyddwr canolfan hyfforddiant ddiogel ar gontract yng Nghymru;
- pennaeth coleg diogel yng Nghymru;
- tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru a sefydlwyd o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37);
- rheolwr cartref plant diogel yng Nghymru;
- darparwr gwasanaethau prawf yng Nghymru;
- swyddog a gyflogir gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn swyddfa yng Nghymru a elwir yn swyddfa Canolfan Byd Gwaith;
- yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ond dim ond mewn perthynas â'r lluoedd arfog rheolaidd.

210. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, hepgor neu ychwanegu cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson.

### *Costau*

211. Mae “gofyn a gweithredu” mewn perthynas â digartrefedd yn faes cwbl newydd o bolisi digartrefedd. Bydd y broses o’i gyflwyno yn arwain at gostau uniongyrchol a chostau cyfle ychwanegol i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a’r gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Amcangyfrifir y costau hyn yn eu tro isod:

*Llywodraeth Cymru*

212. Bydd cost uniongyrchol i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu deunyddiau hyfforddiant a chanllawiau i helpu i gyflwyno “gofyn a gweithredu”. Nodir costau canllawiau ar gyfer y cynnig hwn yn yr adran ar y costau sy’n gysylltiedig â rhoi’r Bil ar waith ac rydym wedi amcangyfrif cost o £66,860 i baratoi arlwy hyfforddiant. Cost untro yw hon, a fydd yn codi yn 2027-2028.

*Costau i’r cyrff cyhoeddus penodedig*

213. Bydd cost cyfle sylweddol yn gysylltiedig â hyfforddiant a chanllawiau i gefnogi ymarfer “gofyn a gweithredu”. Er mwyn amcangyfrif y gost hon, rydym wedi defnyddio nifer o ffynonellau data i amcangyfrif cost gyfartalog yr awr i weithwyr ym mhob awdurdod cyhoeddus penodedig.[50] Rydym wedi tybio y bydd angen dwy awr i gwblhau hyfforddiant ar “ofyn a gweithredu” ac wedi defnyddio’r dybiaeth hon i amcangyfrif cost cyfle fesul corff cyhoeddus penodedig. Nodir hyn isod. Amcangyfrifwn y bydd cyfanswm o £12,398,500 o gostau cyfle yn gysylltiedig â hyfforddiant ar “gofyn a gweithredu” a fydd yn weithredol yn 2028-2029.

[50] Enillion ac oriau a weithir, fesul rhanbarth yn ôl galwedigaeth gan ddefnyddio Cod Galwedigaethol Safonol pedwar digidol: ASHE Tabl 15 - y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Adroddiad y gweithlu gofal cymdeithasol 2023; Adroddiad technegol Alma Economics

*Tabl 15: Costau cyfle amcangyfrifedig i awdurdodau cyhoeddus penodedig gael hyfforddiant ar "gofyn a gweithredu"*

| Corff cyhoeddus penodedig | Y nifer amcangyfrifedig o staff y bydd angen hyfforddiant arnynt | Costau cyfartalog amcangyfrifedig yr awr | Yr amser sydd ei angen am hyfforddiant (oriau) | Cost cyfle amser hyfforddiant fesul gweithiwr proffesiynol | Cost cyfle hyfforddiant fesul corff cyhoeddus penodedig |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 9,456 | £28.93 | 2 | £57.85 | £547,000 |
| Iechyd | 70,924 | £32.89 | 2 | £65.78 | £4,665,400 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 3050 | £32.89 | 2 | £65.78 | £200,600 |
| Landlord cymdeithasol cofrestredig | 99,000 | £27.94 | 2 | £55.87 | £5,531,500 |
| Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid) | 22,000 | £29.38 | 2 | £58.76 | £1,292,700 |
| Canolfan gwaith | 753 | £23.40 | 2 | £46.8 | £35,200 |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn | 3,230 | £19.5 | 2 | £39.00 | £126,000 |
| **Cyfanswm** | **208,413** | | | | **£12,398,500** |

214. Bydd costau cyfle hefyd yn gysylltiedig â'r amser a gymerir i adnabod person sy'n wynebu risg o ddigartrefedd a'i atgyfeirio at awdurdod lleol. Rydym wedi tybio na fydd unrhyw gostau cyfle ychwanegol yn gysylltiedig â "gweithredu" gan y byddai unrhyw gamau a gymerir o fewn swyddogaethau disgwyliedig y corff cyhoeddus penodedig. Er mwyn amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig ag atgyfeiriadau, rydym wedi edrych ar ddata sy'n ymwneud â'r ddyletswydd i atgyfeirio sydd wedi bod yn weithredol yn Lloegr ers sawl blwyddyn. Rydym wedi cymryd cyfartaledd yr atgyfeiriadau a wneir gan gyrff sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i atgyfeirio dros y pum mlynedd diwethaf ac wedi addasu'r ffigurau hyn i lunio amcangyfrifon o faint o atgyfeiriadau y bydd y cyrff cyhoeddus penodedig yng Nghymru yn debygol o'u gwneud. Os nad yw cyrff y bwriedir eu gwneud yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i "ofyn a gweithredu" yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd i atgyfeirio, rydym wedi defnyddio cyfartaledd cyfanswm yr atgyfeiriadau i lunio ein tybiaethau. Dylid nodi ei bod wedi cymryd peth amser i'r ymarfer ymsefydlu yn Lloegr a bod cyfraddau atgyfeirio yn amrywio. Amcangyfrifwn gyfanswm cost cyfle o **£32,100** y flwyddyn am atgyfeiriadau a wneir o dan "ofyn a gweithredu". Costau rheolaidd yw'r rhain a fydd yn weithredol o 2028-2029.

*Tabl 16: Ffynonellau o atgyfeiriadau at awdurdodau lleol o dan y ddyletswydd i atgyfeirio yn Lloegr*

| **Atgyfeiriadau o dan y Ddyletswydd i Atgyfeiro**[2] | *Aelwydydd a aseswyd o ganlyniad i atgyfeiriad gan gorff cyhoeddus o dan y Ddyletswydd i Atgyfeirio* | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yr Ystad Ddiogel i Oedolion (carchar) | Yr Ystad Ddiogel i Ieuenctid | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | Cwmni Adsefydlu Cenedlaethol | Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys Ysbytai, Canolfannau Triniaeth neu ofal i gleifion mewnol | Gofal Iechyd Meddwl i gleifion mewnol | Canolfan Byd Gwaith | Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion | Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant |
| Cyfartaledd dros 5 mlynedd | 1,742 | 38 | 7,744 | 380 | 2,778 | 1,090 | 2,200 | 2,312 | 3,012 |

*Tabl 17:Costau cyfle amcangyfrifedig “gofyn a gweithredu” yng Nghymru*

| Awdurdod cyhoeddus penodedig | Lefel debygol o atgyfeiriadau yng Nghymru o dan “gofyn a gweithredu” | Amcangyfrif o’r amser fydd ei angen i wneud atgyfeiriad; | Cyfradd yr awr | Cost fesul atgyfeiriad | Cyfanswm y gost am nifer amcangyfrifedig o atgyfeiriadau y flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| Yr Ystad Ddiogel i Oedolion (carchar) | 124 | 30 munud | £29.38 | £14.69 | £1,800 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 3 | 30 munud | £29.38 | £14.69 | £44 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 580 | 30 munud | £29.38 | £14.69 | £8,500 |
| BILl | 276 | 30 munud | £32.89 | £16.45 | £4,500 |
| Canolfan Byd Gwaith | 157 | 30 munud | £23.40 | £11.70 | £1,800 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 380 | 30 munud | £28.93 | £14.46 | £5,500 |
| Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn perthynas ag aelodau o’r lluoedd arfog | 2 | 30 munud | 19.5 | £9.75 | £20 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 217 | 30 munud | £32.89 | £16.45 | £3,600 |
| Landlord cymdeithasol cofrestredig | 217 | 30 munud | £27.94 | £13.97 | £3,000 |
| **Cyfanswm cost cyfle “gofyn a gweithredu”** | **1,956** | | | | **£32,100** |

*Costau i awdurdodau lleol*

215. Nod “gofyn a gweithredu” yw sicrhau y caiff unigolion sy’n wynebu risg o ddigartrefedd eu hatgyfeirio ar y cyfle cyntaf posibl. Os bydd “gofyn a gweithredu” yn cael ei roi ar waith dylai hynny arwain at atgyfeiriadau ychwanegol at awdurdodau lleol ond nid oes modd modelu faint ohonynt a fyddai’n gwbl “newydd” i awdurdodau lleol a faint a fyddai wedi cael eu tynnu at sylw’r awdurdod lleol, ond ar gam ddiweddarach. Er mwyn llunio amcangyfrif o gost “gofyn a gweithredu” i awdurdodau lleol, rydym wedi cymryd cyfanswm yr atgyfeiriadau amcangyfrifedig y flwyddyn gan awdurdod cyhoeddus perthnasol (1,956) ac wedi cymhwyso costau gwaith atal digartrefedd.

*Tabl 18: Amcangyfrifon o gostau atgyfeiriadau ychwanegol o ganlyniad i “ofyn a gweithredu”*

| **Cyfanswm yr atgyfeiriadau amcangyfrifedig y flwyddyn gan awdurdodau cyhoeddus perthnasol** | **Cost fesul achos o atal** | **Cyfanswm cost pob atgyfeiriad** |
|---|---|---|
| 1,956 | £1,716 | £3,356,500 |

216. Costau rheolaidd yw’r rhain, a fyddai’n weithredol o 2028-2029.

***Manteision***

217. Bydd y ddyletswydd “gofyn a gweithredu” yn elfen ataliol hollbwysig o’r diwygiadau arfaethedig. Drwy adnabod pobl sy’n wynebu risg o ddigartrefedd ar gam cynnar bydd modd gwneud ymyriadau priodol i’w hatal rhag mynd yn ddigartref neu pe bai hynny’n digwydd, i sicrhau bod yr effeithiau hynny yn fyrhoedlog ac na fyddant yn ailddigwydd. Felly, bydd atgyfeiriadau cynnar yn helpu i sicrhau cyfraddau atal gwell.

***Crynodeb***

218. Bydd y cyfuniad o ddull ataliol cryfach, sy’n dibynnu ar nodi digartrefedd yn gynt, yn arwain at arbed costau sylweddol i wasanaethau cyhoeddus.

## Adran 23: Dyletswydd i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal lety addas

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad*

219. Mae ehangder o ddeddfwriaeth (a nodir yn bennaf yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014)) a chanllawiau ar waith sy'n ceisio sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael ystod o gymorth wrth iddynt drosglwyddo i fyw'n annibynnol. Fodd bynnag, mae pobl sy'n gadael gofal yn cael eu cynrychioli'n anghymesur o fewn data digartrefedd ac mae tystiolaeth bod pontio heb gefnogaeth o ofal yn achosi digartrefedd yn uniongyrchol i lawer o bobl ifanc.

#### *Costau*

220. Mae awdurdodau lleol yn cael eu hariannu i gyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol trwy'r RSG. Nid yw'r cyllid hwn wedi'i neilltuo, sy'n golygu mai awdurdodau lleol yw penderfynu ar ddyraniad cyllid ar gyfer ei holl wasanaethau yn seiliedig ar anghenion a blaenoriaethau lleol. Y setliad cyllid craidd oedd £5.72bn yn 2024-25 a bydd yn £6.14bn yn 2025-26.

#### *Buddion*

221. Ni fyddai unrhyw fuddion gan y bydd y diffygion sy'n gysylltiedig â gweithredu'r gyfraith bresennol yn parhau i fodoli.

#### *Crynodeb*

222. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi ystod o ddyletswyddau sy'n ymwneud â 6 chategori o bobl sy'n gadael gofal. Er gwaethaf hyn, mae digartrefedd ymhlith pobl ifanc sy'n gadael gofal yn parhau i fod yn bryder difrifol.

### Dull a ffefrir

#### *Disgrifiad*

223. Bydd y Bil yn diwygio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i osod dyletswyddau newydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannaeth mewn perthynas â chategorïau penodol o bobl ifanc sy'n gadael gofal.

#### *Costau*

224. Ein hamcangyfrif gorau o gostau ar gyfer y ddarpariaeth hon yw £0. Bydd y dyletswyddau hyn yn cryfhau'r gofynion ar awdurdodau lleol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'w feddiannaeth os yw lles y person ifanc yn gofyn am hynny. Mae llawer o'r gwaith a fydd yn gamau rhesymol yn

gamau gweithredu y byddem yn disgwyl eu cymryd o dan ddeddfwriaeth a chanllawiau presennol, ond nad ydynt bob amser yn ymddangos eu bod yn cael eu cymryd yn ymarferol.  Maent hefyd yn gamau gweithredu a fydd yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus pan fydd adran 37 o'r Bil yn cael ei deddfu sy'n diwygio Rhan 6 o Ddeddf Tai 1996 (dyrannu tai cymdeithasol) i sicrhau bod y bobl ifanc hynny sy'n gadael gofal sy'n ddyledus i'r dyletswyddau newydd yn cael ffafriaeth resymol mewn cynlluniau dyrannu tai i hwyluso cyflawni'r dyletswyddau newydd hynny.

***Buddion***

225. Bydd paratoadau'n gynnar ar waith i gynllunio ar gyfer y trawsnewid o ofal i fyw'n annibynnol ac i sicrhau nad oes rhaid i unrhyw adael gofal gyflwyno fel digartref i gael mynediad at lety addas. Mae'r cynnig yn cael ei gefnogi gan ddarpariaeth yn rhan 2 o'r Bil, sy'n creu categori newydd o ffafriaeth resymol i bobl ifanc sy'n gadael gofal; eu blaenoriaethu ar gyfer dyrannu tai cymdeithasol.

***Crynodeb***

226. Bydd darparu llety addas o ansawdd da yn gwneud y mwyaf o'r siawns o gynhaliaeth tenantiaeth i berson ifanc sy'n gadael gofal.

## Adran 24: Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy’n ymwneud â phobl ifanc sy’n gadael gofal ac ati

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

227. Yn 2023-2024, gwnaeth 6,015 o aelwydydd gysylltu â’u hawdurdod tai lleol am gymorth digartrefedd lle mai pobl ifanc (18-24 oed) oedd y ceiswyr arweiniol.[51]

228. Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy’n Derbyn Gofal a Phlant sy’n Cael eu Lletya) a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) yn nodi y dylai fod gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol a thai awdurdod lleol brotocolau ar y cyd i asesu a diwallu anghenion llety pobl ifanc sy’n gadael gofal, a ddylai hefyd ymdrin â chynllunio opsiynau tai priodol yn strategol. Mae’r canllawiau yn nodi’n glir bod yn rhaid i’r protocolau hyn hefyd ymdrin ag anghenion pobl ifanc 16 a 17 oed sydd y tu allan i gwmpas y system ofal ond yr aseswyd eu hanghenion o dan Ran 3 o’r Ddeddf ac y mae eu llesiant yn debygol o gael ei niweidio’n fawr os nad yw’r rhoi llety i’r plentyn.

---

[51] Mae’r ffigur hwn yn ymwneud â chyfanswm canlyniadau aelwyd; mae’n bosibl cofnodi hyd at dri chanlyniad gwahanol i bob aelwyd unigol.

### *Costau*

229. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau tai lleol na gwasanaethau cymdeithasol o dan yr opsiwn hwn. Byddai canllawiau yn dal i fod ar waith i hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol.

### *Manteision*

230. Ni fyddai unrhyw fanteision gan y byddai'r diffygion a nodwyd yn y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i fodoli.

### *Crynodeb*

231. Mae canllawiau o dan Ddeddf 2014 a'r Cod ar gyfer Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn amlinellu bod angen i awdurdod lleol sicrhau ei fod yn rhoi ymateb cydgysylltiedig i bobl ifanc sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. Er gwaethaf hyn, erys digartrefedd ymhlith plant a phobl ifanc yn bryder mawr o hyd.

## Y dull gweithredu a ffefrir

### *Disgrifiad*

232. Bydd y Bil yn cyflwyno dyletswydd statudol newydd ar awdurdod lleol i lunio protocolau ar y cyd rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol. Bydd protocolau ar y cyd yn ofynnol i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, anghenion llety a chymorth pobl sy'n gadael gofal, a phobl ifanc 16 a 17 oed sy'n gadael sefydliad cadw ieuenctid.

### Costau

233. O ystyried y gofyniad yn y canllawiau presennol, ein disgwyliad yw y bydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol brotocolau ar waith eisoes. Fodd bynnag, at ddibenion yr asesiad hwn, rydym wedi amcangyfrif cost ychwanegol o ddatblygu neu adolygu protocol ar y cyd. Er mwyn amcangyfrif y gost hon, rydym wedi gwneud tybiaeth ynglŷn â nifer y diwrnodau y byddai eu hangen i ddatblygu protocol ar y cyd rhwng sefydliadau ac wedi lluosi'r ffigur hwn â'r gyfradd cyflog yr awr. Dangosir yr wybodaeth yn y tabl isod.

*Tabl 19:Datblygu protocol ar y cyd*

| | **Awdurdod tai lleol** | **Gwasanaethau Cymdeithasol** |
|---|---|---|
| Nifer y diwrnodau y bydd eu hangen i ddatblygu protocol ar y cyd, fesul sefydliad | 10 | 10 |
| Cyfradd ddyddiol gyfartalog yng Nghymru (gan gynnwys argostau) | £215.25 | £231.44 |
| Cyfanswm cost datblygu protocol ar y cyd fesul awdurdod lleol | £2,153 | £2,314 |
| Cyfanswm cost datblygu protocol ar y cyd | £47,400 | £50,900 |
| | | **£98,300** |

234. Cost untro yw hon, a fydd yn dechrau yn 2027-2028. Ni fydd y gofyniad am brotocol yn arwain at lwyth achosion cyffredinol ychwanegol. Disgwylir y byddai'r ddau wasanaeth eisoes yn darparu gwasanaeth i'r cleientiaid hyn.

***Manteision***

235. Bydd y protocol ar y cyd rhwng timau gwasanaethau cymdeithasol a thai yn arwain at gymorth integredig mwy effeithiol i bobl ifanc sy'n gadael gofal, pobl ifanc 16 a 17 oed a phlant sy'n gadael sefydliadau cadw ieuenctid. Drwy weithio gyda'i gilydd o dan brotocolau clir, gall yr asiantaethau hyn osgoi dyblygu ymdrechion a sicrhau bod y cymorth yn gynhwysfawr ac yn cael ei gydlynu'n dda.

***Crynodeb***

236. Pan fydd cyfrifoldebau ar y cyd i bobl ifanc yn cael eu deall a bod cytundeb ar lefel strategol, rydym yn osgoi dadlau ac anghytuno mewn achosion unigol sy'n niweidiol i bobl ifanc ac yn achosi oedi cyn bod eu hangenion o ran gofal, cymorth a llety yn cael eu diwallu.

## Adran 25: Protocol i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau y mae angen cymorth arnynt yn benodol

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad*

237. Mae'n bosibl y bydd anghenion cymorth pobl sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn amrywio. I rai, bydd yr anghenion hyn yn rhai lefel uchel ac yn gymhleth. Yn achos yr unigolion hyn bydd angen gwasanaethau amlddisgyblaethol cynhwysfawr er mwyn diwallu eu hanghenion, atal digartrefedd a chynnal sicrwydd tai. Mae llawer o ardaloedd wedi cymryd camau i ddod â gwasanaethau statudol a gwirfoddol ynghyd i gydgysylltu eu hymateb i unigolion o'r fath, ond mae ymarfer yn anghyson ledled Cymru.

#### *Costau*

238. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data ar yr anghenion cymorth a nodwyd ymhlith pobl sy'n ddigartref, na graddfa nac ystod yr anghenion hyn mewn perthynas ag unigolion penodol. Mae adborth seiliedig ar ymarfer yn glir eu bod nhw, fel cyfran o bobl sy'n ddigartref, yn lleiafrif, ond mae angen rhoi lefelau anghymesur o adnoddau wrth ddarparu gwasanaethau iddynt.

#### *Manteision*

239. Er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiaeth eang o achosion a goblygiadau digartrefedd, mae angen dulliau amlasiantaethol. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â pharhau â'r sefyllfa fel ag y mae.

#### *Crynodeb*

240. Pan fydd unigolion yn dddigartref a bod ganddynt anghenion cymorth eraill ochr yn ochr â hynny, mae angen gwasanaeth cydgysylltiedig gan nifer o sefydliadau. Mae llawer o ardaloedd wedi cymryd camau i ddod â gwasanaethau statudol a gwirfoddol ynghyd i gydgysylltu eu hymateb i unigolion o'r fath, ond mae ymarfer yn anghyson ledled Cymru.

### Y dull gweithredu a ffefrir

#### *Disgrifiad*

241. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod ei hun ac awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol a phersonau eraill er mwyn sicrhau:

- ei fod yn atal digartrefedd,
- bod llety addas ar gael i bersonau sy'n ddigartref neu a all fynd yn ddigartref,
- bod cymorth boddhaol ar gael i bersonau sy'n ddigartref neu a all fynd yn ddigartref.

242. Mae hefyd yn gofyn am gydgysylltu achosion yn effeithiol â'r sefydliadau a ddisgrifir. Ein bwriad yw y bydd hyn yn arwain at gyflwyno dull statudol o gydgysylltu achosion. Byddai hyn wedi'i anelu at bobl ag angen penodol am gymorth, pobl ag anghenion cymorth cymhleth lluosog a phobl sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddigartrefedd mewn awdurdod lleol. Byddai hyn yn cael ei ategu gan brotocolau ysgrifenedig sy'n ystyried gofynion grwpiau ag anghenion cymorth penodol.

***Costau***

243. Mae llawer o awdurdodau lleol yn mynd ati i gydgysylltu achosion mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae hyn yn amrywio o gydgysylltu rhwng ymarferwyr unigol, paneli, fforymau a chyfarfodydd i dimau amlddisgyblaethol sydd wedi'u cyd-leoli. Mae'r ystod o ymgysylltu ag eraill yn amrywio'n eang. Rhagwelwn y bydd costau ychwanegol i rai awdurdodau lleol wrth iddynt sefydlu, ffurfioli neu ehangu'r trefniadau hyn.

244. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhagnodi model penodol o gydgysylltu achosion. Bydd gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd i ddatblygu eu modelau eu hunain a'u rhoi ar waith. Er mwyn amcangyfrif costau, rydym wedi defnyddio data oddi wrth Gyngor Dinas Caerdydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n defnyddio dulliau soffistigedig yn seiliedig ar dimau amlddisgyblaethol. Nid yw'n wir o reidrwydd y bydd y Bil yn arwain at sefydlu timau amlddisgyblaethol ledled Cymru. Cydnabyddir y rhain fel arfer gorau, ond mae awdurdodau lleol yn cadw'r hyblygrwydd i ddatblygu modelau sy'n addas ar gyfer y ddaearyddiaeth a'r ddemograffeg leol.

245. Er mwyn cefnogi'r gwaith o sefydlu swyddogaethau cydgysylltu achosion ym mhob awdurdod lleol rydym wedi tybio tri diwrnod o waith yr wythnos i gydgysylltydd, ym mhob awdurdod lleol ar gost reolaidd o tua i £675,800, yn dechrau yn 2027-2028.

*Tabl 20: Cydgysylltu achosion*

| | | |
|---|---|---|
| .6 FTE cost staff cydgysylltydd atal | | £30,718 |
| Costau cenedlaethol | | £675,800 |

246. Ni ragwelir y bydd costau uniongyrchol ychwanegol i'r sector cyhoeddus ehangach (e.e. nyrsys ychwanegol), o ystyried y bydd achosion cymhleth yn cael eu nodi o dan senario busnes fel arfer, ond mae'n bosibl y byddant yn cael eu trin yn fwy effeithiol ar ôl y diwygiadau. Er y bydd cymorth i bobl ag anghenion tai cymhleth yn fwy sylweddol ac yn gofyn am ystod ehangach o bartneriaid, drwy gysoni gwasanaethau'n well, dylai hyn arwain at ganlyniadau gwell a lleihau pwysau ar wasanaethau ehangach yn y tymor hwy.

247. Bydd costau cyfle yn gysylltiedig â chymryd rhan mewn modelau cydgysylltu achosion, a fydd yn cael eu hysgwyddo gan y gwasanaeth cyhoeddus

ehangach. Costau rheolaidd fydd y rhain, yn dechrau yn 2027-2028. Fodd bynnag, dylid nodi, mewn llawer o achosion y bydd sefydliadau y gofynnir iddynt gymryd rhan mewn prosesau cydgysylltu achosion eisoes yn gweithio gyda'r cleient ac y bydd y sefydliad hefyd yn cael budd o effaith cymorth effeithiol ar yr unigolyn. Amcangyfrifir cost o £31,800 fesul awdurdod lleol, gyda chyfanswm o tua £699,500 y flwyddyn i Gymru.

*Tabl 21:Costau cyfle cydgysylltu achosion fesul ardal awdurdod lleol*

| Awdurdod cyhoeddus penodedig | Amcangyfrif o'r amser y bydd angen ei dreulio yr wythnos i gydgysylltu achosion/cymryd camau | Dros flwyddyn | Cyfradd yr awr | Costau cyfle blynyddol cydgysylltu achosion |
|---|---|---|---|---|
| Yr Ystad Ddiogel i Oedolion (carchar) | 3 | 144 | £29.38 | £4,200 |
| Cyfiawnder Ieuenctid | 3 | 144 | £29.38 | £4,200 |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | 3 | 144 | £29.38 | £4,200 |
| BILl | 3 | 144 | £32.89 | £4,700 |
| Canolfan Byd Gwaith | 3 | 144 | £23.4 | £3,400 |
| Gwasanaethau cymdeithasol | 3 | 144 | £28.93 | £4,200 |
| Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn mewn perthynas ag aelodau o'r lluoedd arfog | 3 | 144 | £19.50 | £2,800 |
| Landlord cymdeithasol cofrestredig | 3 | 144 | £27.94 | £4,000 |
| **Cyfanswm fesul ALl** | | | | **£31,800** |
| **Cyfanswm costau cyfle cydgysylltu achosion (Cymru)** | | | | **£699,500** |

*Manteision*

248. Drwy reoli achosion mewn ffordd amlasiantaethol, gydgysylltiedig bydd hyn yn rhoi cymorth integredig i'r rhai sy'n ddigartref ac sydd ag anghenion cymorth eraill ochr yn ochr â hynny , yn lleihau dyblygu rhwng gwasanaethau ac yn gwella prosesau gweithio mewn partneriaeth.

*Crynodeb*

249. Gall achosion a chanlyniadau digartrefedd fod yn gymhleth a bydd gan gyfran o geiswyr anghenion cymorth lefel uchel sy'n gofyn am ymateb cydgysylltiedig gan nifer o asiantaethau. Bydd cydgysylltu gwasanaethau'n well yn arwain at fanteision lluosog, megis gwell canlyniadau i unigolion; a lleihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ehangach yn y pen draw; a lleihau costau i wasanaethau cyhoeddus yn y pen draw yn y tymor hwy.

**Adran 26: Diogelu eiddo: carcharorion**

**Busnes fel arfer**

*Disgrifiad*

250. Mae'n rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i atal achosion o golli eiddo personol unrhyw geisydd y mae'r pedair dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddo neu i liniaru difrod i eiddo o'r fath; y ddyletswydd atal (adran 66), y ddyletswydd interim i sicrhau llety (adran 68), y ddyletswydd i sicrhau llety (adran 75) a'r ddyletswydd i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried at ddibenion atgyfeirio neu sydd wedi cael ei atgyfeirio (adran 82).

251. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn golygu bod awdurdod lleol yn rhoi eiddo'r rhai a gefnogir o dan ddyletswydd mewn storfa. Mewn achosion eraill, gall olygu bod awdurdod yn cydgysylltu â pherthnasau i gymryd meddiant o'r eiddo tra bydd unigolyn yn bwrw ei ddedfryd yn y carchar.

*Costau*

252. Gall costau storio eiddo pobl sy'n destun dyletswydd fod yn sylweddol a byddant yn cynyddu wrth i gyfnodau mewn llety dros dro fynd yn hwy. Nid ydym yn casglu data ar y costau hyn, ond byddant yn amrywio, yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn neu'r aelwyd.

*Manteision*

253. Nod y ddarpariaeth hon yw y bydd eiddo allweddol ceisydd yn cael ei ddiogelu a'i storio i'w gwneud yn haws ac yn llai trafferthus iddo ailsefydlu ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar. Fodd bynnag, nid oes disgwyliad i awdurdod storio holl eiddo rhywun. Y bwriad yw diogelu eiddo hynod bersonol megis ffotograffau teuluol a dogfennau allweddol.

*Crynodeb*

254. Byddai awdurdodau lleol yn parhau i gymryd camau rhesymol i atal achosion o golli eiddo personol unrhyw geisydd y mae'r ddyletswydd berthnasol yn ddyledus iddo ac i liniaru difrod i eiddo o'r fath.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

*Disgrifiad*

255. Bydd y Bil yn diwygio adran 93 o Ddeddf 2014 i gynnwys y rhai sydd heb lety tra byddant yn y carchar.

*Costau*

256. Efallai y bydd cost ychwanegol yn gysylltiedig ag ehangu'r ddyletswydd, ond, oherwydd y garfan fach o bobl dan sylw a bwriad y polisi i ddiogelu eiddo hynod bersonol, disgwyliwn i hyn fod yn fach iawn. Felly, ein hamcangyfrif gorau o'r gost hon yw £0.

**Manteision**

257. Bydd hyn yn diogelu eiddo hynod bersonol y rhai y mae dyletswydd yn ddyledus iddynt tra byddant yn y carchar, a thrwy hynny sicrhau triniaeth gyfartal i geiswyr digartref eraill y mae dyletswyddau yn ddyledus iddynt.

*Crynodeb*

258. Bydd y Bil yn diwygio adran 93 o Ddeddf 2014 i gynnwys y rhai sydd heb lety tra byddant yn y carchar.

**<u>Adran 27: Dyletswydd i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth: personau a gedwir yn gaeth</u>**

**Busnes fel arfer**

*Disgrifiad*

259. Mae adran 60.1 o Ddeddf 2014 yn darparu bod yn 'rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau y darperir gwasanaeth, heb godi tâl amdano, sy'n cynnig i bobl yn ei ardal, neu bobl sydd â chysylltiad lleol â'i ardal' gyngor i atal neu leddfu digartrefedd neu eu cynorthwyo i gael cymorth digartrefedd.

260. Mae adran 60.4 yn rhoi manylion pellach drwy osod gofyniad ar bob awdurdod lleol i 'sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddylunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu perygl arbennig o ddigartrefedd', gan gynnwys (c) pobl sy'n gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid.

261. Er bod y gwasanaethau hyn yn gweithredu'n dda i'r rhai sy'n cysylltu o'r gymuned, nid yw gwasanaethau yn gweithio cystal i bobl sydd yn y carchar mewn ardal leol.

### *Costau*

262. Mae awdurdodau lleol yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig â helpu unigolion sydd ar fin gadael y carchar fel rhan o'u dyletswyddau ehangach. Nid oes unrhyw wasanaethau cynghori uniongyrchol ar waith ar hyn o bryd.

263. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu prosiect Gogledd Prison Link Cymru sy'n gweithio gyda nifer o garchardai yn y gogledd ac yng ngogledd Lloegr er mwyn rhoi cyngor a chymorth i unigolion sydd ar fin gadael y carchar, sy'n debygol o fod yn ddigartref. Nid oes unrhyw brosiect yn cael ei redeg yn y de ar hyn o bryd.

264. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu chwe Chydgysylltydd Llwybr Llety ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Maent yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a'u rôl yw rhoi cyngor pwrpasol i swyddogion prawf ar y rheng flaen er mwyn goresgyn unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Fodd bynag, nid yw deiliaid y rolau hyn yn gweithio mewn carchardai fel arfer.

### *Manteision*

265. Bwriedir i'r cynnig i ddarparu gwasanaeth cynghori o dan adran 60 sicrhau bod gwasanaeth cynghori cyffredinol sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i unrhyw un ar gais, ni waeth beth fo'i statws o ran digartrefedd, statws mewnfudo neu gysylltiad lleol.

### *Crynodeb*

266. Darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i unrhyw un sy'n ceisio cyngor a gwybodaeth, ni waeth beth fo'i statws.

## Y dull gweithredu a ffefrir

### *Disgrifiad*

267. Mae'r Bil yn nodi'n glir bod adran 60 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol sicrhau bod ei wasanaethau cyngor ar ddigartrefedd yn gymwys i bersonau a gedwir o dan awdurdod deddfiad sydd yn ei ardal neu sydd â chysylltiad lleol â'i ardal. Y nod yw sicrhau bod cyngor a chymorth ynglŷn â digartrefedd ar gael i unigolion yn y carchar er mwyn helpu ymdrechion i atal digartrefedd a lliniaru'r effeithiau negyddol y gall eu cael ar iechyd meddwl a llesiant pobl yn y carchar. Mae'r adran hon yn gymwys i garchardai ac nid yw'n cynnwys lleoliadau cadw diogel i ieuenctid.

### *Costau*

268. Bydd costau'r cynnig hwn yn cael eu hysgwyddo gan yr awdurdodau lleol hynny y mae carchar yn eu hardal, sef Wrecsam, Abertawe, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, a Sir Fynwy.

269. Mae gan bob awdurdod lleol dan sylw bresenoldeb eisoes ym mhob carchar o ganlyniad i ddyletswyddau asesu a gofal sy'n gysylltiedig â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Efallai y bydd cyfleoedd i gysoni ac ehangu'r gwasanaethau hyn er mwyn sicrhau bod digon o gyngor ar ddigartrefedd ar waith. Bydd hyn yn amrywio, yn dibynnu ar faint y sefydliad a hanes digartrefedd o'r sefydliad.

270. Gan fod hyn yn gwneud y gyfraith bresennol yn fwy eglur, ni ddisgwylir unrhyw gostau ychwanegol.

### *Manteision*

271. Bydd gwasanaethau cyngor ar ddigartrefedd ar gael i bobl yn y carchar, yn yr un ffordd ag y mae gofal iechyd a chymorth cyflogaeth ar gael iddynt. Bydd hyn yn helpu ymdrechion i atal digartrefedd ac yn fuddiol i unigolion ar ffurf llai o effeithiau ar iechyd meddwl a gwell llesiant.

### *Crynodeb*

272. Eglurder bod darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor i unrhyw un sy'n ceisio cyngor a gwybodaeth, ni waeth beth fo'i statws, yn cynnwys y rhai sy'n cael eu cadw yn yr ystad ddiogel i oedolion.

## <u>Adran 28: Diffiniad o "camdriniaeth"</u>

### *Disgrifiad*

273. Mae'r Bil yn diwygio'r diffiniad o gamdriniaeth fel y'i nodwyd yn adran 58 o Ddeddf 2014. Mae hyn yn golygu bod y Bil yn gyfredol â diffiniadau ehangach o gam-drin domestig, yn enwedig Deddf Cam-drin Domestig 2021 sydd wedi cynnwys rheolaeth drwy orfodaeth. Mae'n cynnwys mathau eraill o gam-drin sy'n achosi niwed, gan gynnwys caethwasiaeth fodern a stelcian ac aflonyddu.

### *Costau*

274. Ni ragwelwn y bydd unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r cynnig hwn sy'n ceisio cysoni diffiniadau yn y Bil â deddfwriaeth ehangach.

### *Manteision*

275. Bydd y diwygiadau yn arwain at ddealltwriaeth gliriach o sut mae "camdriniaeth", gan gynnwys "cam-drin domestig", wedi'u diffinio.

*Crynodeb*

276. Bydd y Bil yn gyson â diffiniadau eraill o gamdriniaeth.

**Adran 29: Dyletswydd i geisio barn personau digartref wrth arfer swyddogaethau digartrefedd**

**Busnes fel arfer**

*Disgrifiad*

277. Mae'r Cod Canllawiau presennol yn gwneud sawl cyfeiriad at werth ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys sefydliadau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol a grwpiau wedi'u hymyleiddio er mwyn cyflawni sawl agwedd ar y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ehangach. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad ar waith i ymgysylltu ag unigolion sydd wedi bod yn ddigartref at y dibenion hyn.

*Costau*

278. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r ymarfer presennol.

*Manteision*

279. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â pharhau â'r sefyllfa fel ag y mae ac mae'n bosibl na fydd lleisiau'r rhai sydd â phrofiad bywyd yn llywio'r broses o ddatblygu polisïau ac ymarfer.

*Crynodeb*

280. Nid oes unrhyw ofyniad ar waith ar hyn o bryd i awdurdodau lleol ymgysylltu ag unigolion â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

*Disgrifiad*

281. Bydd y Bil yn diwygio adran 52 o Ddeddf 2014 fel y bydd yn rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â phersonau yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd cyn eu bod yn mabwysiadu neu adddasu eu strategaeth ddigartrefedd. Bydd y Bil hefyd yn diwygio adran 60(4) fel y bydd yn rhaid i awdurdod weithio gyda phersonau yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau wedi'u dylunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu risg benodol o ddigartrefedd.

282. Bydd y Bil hefyd yn diwygio adran 98(4) o'r Ddeddf fel y bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru, cyn rhoi canllawiau, diwygio canllawiau neu dynnu

canllawiau yn ôl, ymgynghori â'r cyfryw awdurdodau cyhoeddus neu leol, sefydliadau gwirfoddol, personau sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Nghymru neu bersonau eraill ag sy'n briodol yn nhyb Gweinidogion Cymru.

283. Nod y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y rhai y mae digartrefedd wedi effeithio arnynt fwyaf ac sy'n meddu ar arbenigedd drwy brofiad bywyd yn rhan o'r broses er mwyn llywio strategaethau a gwasanaethau a ddarperir sydd wedi'u hanelu at ddigartrefedd. Mae hyn yn adeiladu ar yr ymarfer enghreifftiol a fabwysiadwyd i ddatblygu'r Bil, sy'n seiliedig ar safbwyntiau mwy na 350 o bobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd ac sy'n adlewyrchu'r gwerth mawr roedd ymgysylltu o'r fath yn ei olygu i'r broses o ddatblygu polisi.

***Costau***

284. Rydym wedi amcangyfrif costau'r cynnig hwn drwy ddefnyddio enghreifftiau o adnoddau cyfatebol ar gyfer prosiectau ymchwil â ffocws er mwyn deall profiadau bywyd pobl ddigartref. Tybir y byddai angen i bob awdurdod lleol fabwysiadu fersiwn o ymgysylltu tebyg ar raddfa lai wrth ddatblygu eu strategaeth leol (sy'n ofynnol bob pedair blynedd).

285. Rydym yn amcangyfrif costau rheolaidd blynyddol o tua £133,900 am y gwaith hwn, a fydd yn cael eu hysgwyddo gan awdurdodau lleol (ond ni fydd angen ymgymryd â'r gwaith bob blwyddyn), yn dechrau yn 2027-2028.

286. Rydym yn amcangyfrif cost gychwynnol o tua £36,500 i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod arbenigwyr drwy brofiad yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu canllawiau a gyhoeddir i ategu'r Bil. Rhagwelwn y byddwn yn mynd i'r gost hon yn 2026-2027.

*Tabl 22: Ymgysylltu â'r rhai â phrofiad bywyd*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer y cyfweliadau ag unigolion sydd â phrofiad bywyd. | 50 | | |
| Nifer y gweithwyr proffesiynol sector a fydd yn rhan o'r broses | 50 | | |
| | | | |
| | Diwrnodau | Cost ddyddiol (£) | Cyfanswm y gost |
| **Costau untro i Lywodraeth Cymru** | 1 | 473 | 473 |
| Paratoi deunyddiau ymchwil | 3 | 473 | 1,420 |
| Recriwtio'r rhai â phrofiad bywyd | 10 | 473 | 4,733 |
| Cyfweliadau ag unigolion â phrofiad bywyd (gan dybio 0.5 diwrnod fesul cyfweliad) | 25 | 473 | 11,832 |
| Grwpiau ffocws â gweithwyr proffesiynol sector (gan dybio 5 o bobl fesul grŵp ffocws a 1.5 diwrnod fesul grŵp ffocws) | 15 | 473 | 7,099 |
| Dadansoddiad o ddata o gyfweliadau a grwpiau ffocws | 15 | 473 | 7,099 |
| Llunio argymhellion i ymgorffori safwyntiau | 5 | 473 | 2,366 |
| Cymhellion i'r rhai â phrofiad bywyd (£30 y sesiwn) | | | 1,500 |
| **Cyfanswm y gost untro (Llywodraeth Cymru)** | | | **36,500** |
| | | | |
| **Cyfanswm y gost reolaidd i Allau** | | | |
| Maint uchelgais dull gweithredu ALlau o'u cymharu â Llywodraeth Cymru | 50% | | |
| Nifer y blynyddoedd y bydd y dull gweithredu ar waith (h.y hyd prosiect) | 3 | | |
| Nifer yr ALlau | 22 | | |
| **Cyfanswm y gost reolaidd i ALlau** | **133,900** | | |

### *Manteision*

287. Bydd lleisiau pobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd yn ganolog i ddatblygu canllawiau cenedlaethol a strategaeth leol.

### *Crynodeb*

288. Bydd y Bil yn diwygio Deddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wrth ddatblygu canllawiau cenedlaethol a strategaeth leol.

## Adran 31: Adroddiadau ar ddefnydd a wneir o lety interim a'i gyflwr

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad*

289. Mae data ar y mathau o lety dros dro a ddefnyddir ledled Cymru yn gyfyngedig ac nid oes unrhyw ddata i ddisgrifio demograffeg unigolion sy'n aros yn y llety dros dro hwnnw. Felly, nid oes modd nodi tueddiadau na phroblemau sy'n gysylltiedig â'r defnydd a wneir ohono.

#### *Costau*

290. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r data cyfyngedig ar hyn o bryd.

#### *Manteision*

291. Nid oes unrhyw fanteision yn gysylltiedig â'r data cyfyngedig ar hyn o bryd. Mae'r diffyg data yn golygu nad oes modd nodi tueddiadau na phroblemau mewn perthynas â'r defnydd o lety dros dro yng Nghymru.

#### *Crynodeb*

292. Mae'r diffyg data yn golygu nad oes modd nodi tueddiadau na phroblemau mewn perthynas â'r defnydd o lety dros dro yng Nghymru

### Y dull gweithredu a ffefrir

#### *Disgrifiad*

293. Mae'r Bil yn gosod gofyniad ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar y defnydd o lety interim a'i gyflwr, gan weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu'r adroddiad. Mae'n fwriad polisi y caiff yr adroddiad ei ddefnyddio i lywio gwelliannau parhaus i ansawdd llety dros dro a'r ystod sydd ar gael.

#### *Costau*

294. Rydym wedi amcangyfrif costau rheolaidd paratoi'r adroddiad hwn drwy ddefnyddio prosiectau ymchwil tebyg a wnaed yn y gorffennol. Bydd y costau hyn yn codi yn 2028-2029 ac yn 2034-2035. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gost dros y cyfnod arfarnu o ddeng mlynedd tua £87,500 i Lywodraeth Cymru a thua £27,000 i awdurdodau lleol.

*Tabl 23: Adroddiad ar y defnydd o lety interim yng Nghymru a'i gyflwr*

| Prif gostau | Corff | Amcangyfrif o'r gost |
|---|---|---|
| Cwmpasu, casglu data a gwaith maes | Llywodraeth Cymru | **£50,000** (adroddiad cyntaf)<br><br>**£30,000** (ail adroddiad - gan dybio'r un cwmpas a modelu ymchwil) |
| Datblygu'r adroddiad, ei oruchwylio a'i gymeradwyo | Llywodraeth Cymru | **£7,500** |
| Amser awdurdodau lleol i gasglu a darparu data | Awdurdodau lleol | 3 diwrnod fesul ALl:<br><br>3x22= 66<br><br>Cyfradd ddyddiol dybiedig £157.50<br><br>66 diwrnod @ £204.75 = £13,514 X2<br>**£27,000** |
| **Cyfanswm y gost reolaidd o fewn y cyfnod o ddeng mlynedd i'w roi ar waith** | **Llywodraeth Cymru** | **87,500** |
| | **Awdurdodau lleol** | **27,000** |

***Manteision***

295. Bydd y dystiolaeth ynglŷn â stoc a meddiannu llety dros dro yn cael ei deall yn well a bydd ymdrechion gwella hirdymor yn seiliedig ar dystiolaeth.

***Crynodeb***

296. Caiff adroddiad ar y defnydd o lety interim a'i gyflwr ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru bob pum mlynedd.

## Adran 32: Cydweithredu

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad*

297. Nodir dyletswydd i gydweithredu yn adran 95 o Ddeddf 2014. Mae adran 95 yn nodi'r agweddau ar gydweithredu sydd i'w hyrwyddo rhwng swyddogion awdurdod lleol sy'n cyflawni swyddogaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol sy'n ei alluogi i:

- Atal digartrefedd;
- Darparu llety addas i berson sy'n ddigartref neu a all fod yn ddigartref;
- Rhoi cymorth boddhaol i berson sy'n ddigartref neu a all fod yn ddigartref;
- Galluogi awdurdod tai lleol i gyflawni ei swyddogaethau digartrefedd yn effeithiol.

298. Gellir hefyd ofyn am gydweithio â chyrff eraill a restrir er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny, oni fydd y cais hwnnw'n anghyson neu oni fydd yn cael effaith andwyol ar swyddogaethau'r cyrff a restrir eu hunain.

299. Mae adborth sy'n seiliedig ar ymarfer yn awgrymu mai anaml iawn y defnyddir y ddyletswydd hon. Mae awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig wedi nodi y bydd eu partneriaid, wrth wynebu blaenoriaethau croes, yn tynnu cymorth yn ôl oddi wrth bobl sy'n ddigartref neu sy'n adfer ar ôl digartrefedd, neu y byddant ond yn cynnig cymorth cyfyngedig.

#### *Cost*

300. Nid ydym yn casglu data ar y defnydd o adran 95 o Ddeddf 2014 ac ni allwn fodelu amcangyfrifon o gostau o ran y defnydd presennol.

#### *Mantais*

301. Byddai'r cyfyngiadau presennol a nodwyd yn parhau pe bai'r sefyllfa fel ag y mae yn parhau.

#### *Crynodeb*

302. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn hyrwyddo cydweithrediad rhwng swyddogaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chyrff eraill a restrir.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

303. Mae'r Bil yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014 felly mae'n gymwys i grŵp ehangach o awdurdodau cyhoeddus penodedig. Bydd awdurdod tai lleol yn gallu gwneud cais i'r cyrff hyn am gydweithrediad er mwyn cyflawni ei swyddogaethau oni bai bod y cais hwnnw yn anghyson â swyddogaethau'r cyrff a restrir eu hunain neu oni fydd yn cael effaith andwyol arnynt.

***Cost***

304. Ni ddylai'r diwygiad gynyddu llwythi achosion, yn yr ystyr na fydd yn arwain at gynyddu nifer y bobl sydd â hawl i gael gwasanaethau. Fodd bynnag, bydd yn arwain at gostau cyfle ychwanegol i'r gwasanaethau cyhoeddus y gofynnir iddynt gydweithredu er mwyn rhoi cymorth i unigolyn. Mae'r costau hyn wedi cael eu tybio yn y costau cyfle a nodwyd o dan adran 25 mewn perthynas â chydgysylltu achosion. Mewn llawer o achosion, rydym yn disgwyl bod yr asiantaethau hyn eisoes yn cynnig gwasanaeth, neu fod y ceisydd yn gymwys i gael y gwasanaethau hyn.

***Manteision***

305. Mae angen i awdurdodau tai lleol gael cymorth gan y gwasanaeth cyhoeddus ehangach er mwyn atal a lleddfu digartrefedd. Bydd y ddyletswydd ehangach i gydweithredu yn galluogi awdurdodau tai lleol i wneud cais am yr help hwnnw a bydd yn ofynnol i'r awdurdodau cyhoeddus penodedig gynnig yr help hwnnw oni bai bod y cais yn anghyson â swyddogaethau'r cyrff a restrir eu hunain neu oni fydd yn cael effaith andwyol arnynt.

***Crynodeb***

306. Bydd yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ac awdurdodau cyhoeddus penodedig a enwyd yn y Bil gydweithredu er mwyn atal a lleddfu digartrefedd ceiswyr.

**Adran 33: Cydweithrediad rhwng landlordiaid cymdeithasol penodol ac awdurdodau tai lleol sy'n darparu llety**

*Caiff awdurdod tai lleol ofyn i landlord cymdeithasol gynnig llety addas i geisydd yn ei ardal. Mae'n rhaid i'r landlord cymdeithasol gydymffurfio â'r cais hwn oni bai bod ganddo resymau da dros beidio â gwneud hynny.*

## Busnes fel arfer

### *Disgrifiad*

307. Ar 31 Mawrth 2022, dim ond 11 o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'u stoc dai eu hunain, a oedd yn gwneud cyfanswm o 87,927 o unedau, o gymharu â 149,468 o unedau a ddelir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Mae hyn yn dangos newid clir ym mherchnogaeth y stoc o dai cymdeithasol dros y pedwar degawd diwethaf, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yw'r deiliad asedau mwyaf blaenllaw o bell ffordd erbyn hyn.

308. Mae landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru yn ddarostyngedig i adran 170 o Ddeddf Tai 1996 ar hyn o bryd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig neu landlord cymdeithasol cofrestredig gydweithredu ar gais yr awdurdod tai lleol i'r cyfryw raddau ag sy'n rhesymol er mwyn cynnig dyraniad o dai cymdeithasol i bobl â blaenoriaeth o dan gynllun dyrannu'r awdurdodau.

309. Mae cytundebau partneriaeth contractiol ar waith rhwng llawer o landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol, a gall y rhain ymestyn i'r ffordd y maent yn dyrannu llety i unigolion penodol, drwy gytundebau enwebu. Fodd bynnag, mae gan landlordiaid cymdeithasol gryn dipyn o hyblygrwydd ynglŷn â'u cynlluniau dyrannu eu hunain ac nid oes gofyniad uniongyrchol i landlord cymdeithasol gydymffurfio ag unrhyw gais a wneir iddo mewn perthynas ag unigolyn neu aelwyd sydd ag angen o ran tai, a chaiff y landlord cymdeithasol wrthod, 'diystyru' neu 'neidio dros' geiswyr. Nid oes fawr ddim lle i awdurdodau tai lleol amau na herio'r penderfyniadau hyn, yn dibynnu ar y contractau partneriaeth sydd ar waith ganddynt.

310. Nododd y dystiolaeth a gomisiynwyd wrth ddatblygu'r Papur Gwyn fod y dyraniadau i'r rhai y mae dyletswydd digartrefedd yn ddyledus iddynt yn amrywio yn y pum maes ymchwil rhwng 23 a 60%. Dangosodd ymchwil bellach a wnaed yn 2024, ar gyfartaledd, fod 23.4% o stoc dai yn ardaloedd awdurdodau lleol lle nad oedd yr awdurdod tai lleol yn dal unrhyw stoc yn cael ei ddyrannu i'r rhai roedd dyletswydd tai derfynol yn ddyleddus iddynt (dyletswydd adran 75). Dangosodd yr ymchwil gyfradd ddyrannu o 31.9% ar gyfartaledd i'r rhai roedd dyletswydd derfynol yn ddyledus iddynt mewn ardaloedd lle roedd yr awdurdod tai lleol yn dal stoc. Felly, mae'r ymchwil yn dangos bod awdurdodau tai lleol yng Nghymru yn dyrannu mwy o lety i'r rhai y mae dyletswydd tai yn ddyledus iddynt. Mae'r gwahaniaeth hyd yn oed yn fwy wrth geisio atal digartrefedd. Mewn ardaloedd lle mae awdurdodau tai lleol yn dal stoc, maent yn dyrannu dwbl maint y llety i'r rhai y mae dyletswydd o dan adran 66 yn ddyledus iddynt (12.6% o'r dyraniadau a wneir mewn awdurdodau sy'n dal stoc o gymharu â 6.1% yn ardaloedd awdurdodau nad ydynt yn dal stoc).[52]

[52] Archwilio'r ffordd y caiff tai cymdeithasol eu dyrannu yng Nghymru

### *Costau*

311. Ni fydd costau ychwanegol i landlord cymdeithasol os bydd y sefyllfa fel ag y mae yn parhau. Mae’r data a ddarparwyd gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru yn awgrymu eu bod yn gwario £3,896 fesul uned ar gyfartaledd yn 2023 ar gostau rheoli a chynnal a chadw. [53] Cost gyfartalog fesul uned o lety yw’r gost hon ac mae’n rhaid ei thalu, p’un a yw’r darpar denant yn ddigartref ai peidio.

312. Eir i gostau unigol o dan y sefyllfa fel ag y mae, yn enwedig mewn perthynas â’r effeithiau negyddol a wynebir gan unigolion sy’n aros mewn llety dros dro am gyfnodau estynedig. Mae’r opsiwn hwn hefyd yn golygu costau sylweddol a chynyddol i awdurdodau tai lleol, y mae’n ofynnol iddynt ariannu lleoliadau llety dros dro costus os na allant symud pobl ymlaen i dai parhaol.

### *Manteision*

313. Mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn rhoi gwerth ar eu hymreolaeth mewn perthynas â dyraniadau, yn enwedig wrth adeiladu cymunedau cytbwys a diwallu anghenion tai ehangach. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â’r opsiwn hwn. Nid yw’n ymdrin ag unrhyw un o’r diffygion a nodwyd mewn perthynas â’r fframwaith deddfwriaethol presennol.

### *Crynodeb*

314. Mae landlordiaid cymdeithasol yn cadw cryn dipyn o hyblygrwydd ynglŷn â’u cynlluniau dyrannu eu hunain ac mae cyfraddau dyrannu i aelwydydd digartref yn isel mewn rhai ardaloedd.

## Y dull gweithredu a ffefrir

### *Disgrifiad*

315. Bydd y Bil yn galluogi awdurdodau tai lleol i’w gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig roi llety i geiswyr y mae dyletswydd digartrefedd yn dddyledus iddynt yng Nghymru, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny.

316. Y bwriad y tu ôl i’r cynnig hwn yw sicrhau’r defnydd gorau posibl o dai cymdeithasol fel ateb i ddigartrefedd a rhoi’r gallu i awdurdodau tai lleol ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig helpu i leddfu digartrefedd rhywun.

317. Os bydd anghydfod rhwng awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ynglŷn â cheisiadau o’r fath, bydd Gweinidogion Cymru yn darparu

[53] Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru – dadansoddiad o gyfrifon cyffredinol Cartrefi Cymunedol Cymru mis Mehefin 2023 – ar gael yn y dadansoddiad cost a budd

dull o ddatrys anghydfodau, gan ystyried y ffactorau a'r dystiolaeth a roddir, a gwneud y penderfyniad terfynol y bydd yn rhaid cydymffurfio ag ef.

***Costau***

318. Ni ragwelwn y bydd y cynnig hwn yn newid costau rheoli a chynnal a chadw cyfartalog fesul uned o lety, niferoedd stoc nac yn cynyddu'r costau y mae landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn eu hwynebu o ganlyniad i reoli stoc.

319. Dylai'r cynnig arwain at ddyrannu mwy o dai cymdeithasol i aelwydydd digartref yng Nghymru, fel cyfran o'r cyflenwad cyfyngedig o stoc.

320. Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â lletya ceisydd digartref yn lle ceisydd nad yw'n ddigartref, oni bai bod ganddo anghenion cymorth penodol neu unigryw. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt wedi'u cwmpasu mewn perthynas ag adran 18 ar y ddyletswydd i helpu rhywun i gadw ei lety.

321. Os bydd anghydfodau yn codi rhwng awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, gall yr awdurdod lleol atgyfeirio'r achos at Weinidogion Cymru er mwyn iddynt ddatrys yr anghydfod.

322. Amcangyfrifir mai dim ond mewn nifer bach iawn o achosion y bydd awdurdod lleol yn galw ar Weinidogion i wneud hynny. At ddibenion yr asesiad hwn, rydym wedi amcangyfrif y bydd anghydfodau yn codi mewn 1% o ddyraniadau digartrefedd.

323. Llywodraeth Cymru fydd yn ysgwyddo cost datrys anghydfodau, a fydd yn costio tua £2,800 fesul achos ar gyfartaledd yn ôl ein hamcangyfrif. Mae'r achos hwn yn seiliedig ar y tybiaethau canlynol:

*Tabl 24: Costau Llywodraeth Cymru i ddatrys anghydfodau*

| Llywodraeth Cymru – cost ac amser a dreulir (diwrnodau) | Ystyriaeth gychwynnol o'r achos | Cyfarfod â'r partïon | Casglu gwybodaeth ychwanegol | Cyngor | Briffio | Cyfleu'r penderfyniad a chamau dilynol | Cyfanswm y diwrnodau | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uwch-swyddog Gweithredol | 0.5 | 1 | 1 | 0.5 | 0.25 | 0.5 | **3.75** | £1,200 |
| G7 | - | 1 | 0.50 | 0.25 | 0.25 | 0.25 | **2.25** | £1,000 |
| Dirprwy Gyfarwyddwr | - | - | - | 0.25 | 0.25 | - | **0.50** | £300 |
| Staff cyfreithiol | - | - | - | 1 | - | - | **1.00** | £300 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | **£2,800** |

324. Mae hyn yn golygu, o ystyried nifer yr unigolion a gysylltodd oherwydd digartrefedd (6135 sy'n destun dyletswydd adran 75) yn 2022-23[54], y bydd angen datrys anghydfod mewn tua 61 o achosion o bosibl. Mae hyn yn golygu cost o £170,600 i Lywodraeth Cymru. Cost reolaidd fydd hon, yn dechrau yn 2027-2028. Byddem yn disgwyl i'r defnydd o brosesau datrys anghydfod leihau dros amser.

*Tabl 25:Amcangyfrif o gost datrys anghydfodau i Lywodraeth Cymru*

| **Maes y gost** | **Amcangyfrif o'r gost** |
|---|---|
| Nifer yr unigolion sy'n cysylltu oherwydd digartrefedd | 6,135 (sy'n destun dyletswydd adran 75) |
| Amcangyfrif o ganran yr achosion lle byddai angen datrys anghydfod | 1% |

[54] Digartrefedd: Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW.CYMRU

| | |
|---|---|
| Amcangyfrif o nifer yr achosion lle byddai angen datrys anghydfod | 61 |
| Cost datrys anghydfodau i Lywodraeth Cymru (fesul achos) | £2,800 |
| **Cyfanswm cost amcangyfrifedig datrys anghydfodau i Lywodraeth Cymru** | **£170,600** |

***Manteision***

325. Bydd yr opsiwn hwn yn cynyddu faint o dai cymdeithasol sy’n cael eu dyrannu i’r rhai sy’n ddigartref neu sy’n wynebu risg o ddigartrefedd yng Nghymru, sy’n dwyn manteision sylweddol. Bydd potensial i leihau faint o amser a dreulir mewn llety dros dro a’r risg o’r effeithiau negyddol y gall y lleoliadau hyn eu cael o bosibl ar y ceisydd. Byddai hyn yn fuddiol i’w hiechyd meddwl a’u hiechyd corfforol ac yn ei gwneud yn bosibl iddynt fanteisio ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth sy’n gysylltiedig â byw mewn cartref sefydlog. Byddai hefyd yn lleihau costau llety dros dro i awdurdodau lleol.

***Crynodeb***

326. Bydd er budd pob landlord cymdeithasol os byddant yn defnyddio eu llety drwy ei ddyrannu i ddarpar ddeiliaid contract meddiannaeth. Nid yw’n costio mwy i roi llety i geiswyr sy’n ddigartref na’r rhai nad oes dyletswydd tai yn ddyledus iddynt, gan fod anghenion tai yn benodol ac yn unigryw i’r unigolyn. Mae manteision sylweddol yn gysylltiedig â’r opsiwn arfaethedig i gyflwyno’r pŵer hwn o ran lleihau amser a dreulir mewn llety dros dro ac atal digartrefedd.

**<u>Adran 34: Gweld llety</u>**

*Os bydd awdurdod tai lleol yn sicrhau cynnig o lety i geisydd mae’n rhaid iddo gymryd camau rhesymol i roi cyfle i’r ceisydd weld y llety.*

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

327. Ar hyn o bryd, nid yw Deddf 2014 yn caniatáu i awdurdod lleol ddod â'i ddyletswydd i geisydd digartref i ben hyd yn oed os yw'r ceisydd hwnnw'n dal i fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, os bydd yn gwrthod y cynnig o lety addas ar ôl gael ei hysbysu'n ysgrifenedig yn gyntaf o'r posibilrwydd y bydd y ddyletswydd yn dod i ben pe bai'n gwrthod cynnig.

328. Nid oes gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i'r llety a gynigir gael ei weld gan y ceisydd ei hun cyn dod â dyletswydd i ben ar ôl penderfyniad i wrthod cynnig a gellir dod â phob un o'r tair dyletswydd digartrefedd allweddol (adran 66, 73 a 75) i ben yn y ffordd hon.

329. Mae'n beth cyffredin cynnig cyfle i geisydd weld y llety yn y rhan fwyaf o achosion ac mae'r gyfraith yn ei gwneud yn amhosibl i ddyletswydd rhywun ddod i ben yn ddirybudd. Fodd bynnag, mae rhai pobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd wedi rhannu eu profiad o gynigion o lety yn cael eu gwneud ar sail "cymerwch ef neu beidio" heb gyfle iddynt weld y llety.

330. Mae'r data statudol (isod) yn awgrymu mai mewn niferoedd cymharol fach o geiswyr (426 yn y flwyddyn ariannol 2023-24) y daw dyletswyddau i ben yn y fath fodd. Mae hyn yn cyfrif am ychydig dros 1% o'r holl ganlyniadau yn seiliedig ar gyfanswm o 34,203 o ganlyniadau ym mlwyddyn ariannol gyfan 2023-24. Nid yw'n hysbys faint o'r 426 wedi gweld eu dyletswydd yn dod i ben heb gyfle i weld y llety a gynigiwyd.

*Tabl 26: Dod â dyletswyddau i ben oherwydd penderfyniad i wrthod cynigion o lety/gwrthod cymorth – 2023-24 (StatsCymru)*

| | |
|---|---|
| **Adran 66** | |
| Gwrthod cymorth | 87 |
| **Adran 73** | |
| Gwrthod cymorth | 84 |
| **Adran 75** | |
| Gwrthod cynnig o lety drwy'r cynllun dyrannu (Rhan VI o Ddeddf 1996) | 180 |
| Penderfyniad i wrthod cynnig o lety addas yn y sector rhentu preifat | 15 |
| Penderfyniad i wrthod cynnig o lety interim addas o dan adran 75 | 60 |
| **Cyfanswm** | **426** |

***Costau***

331. Nid yw costau mewn perthynas â'r ddarpariaeth bresennol wedi'u cofnodi. Bydd llawer, wrth gael cynnig llety, yn ei weld eu hunain, a bydd

eraill yn fodlon ar weld ffotograffau yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r ardal leol.

***Manteision***

332. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r sefyllfa fel ag y mae.

***Crynodeb***

333. Ar hyn o bryd, nid yw Deddf 2014 yn caniatáu i awdurdod lleol ddod â'i ddyletswydd i geisydd digartref i ben hyd yn oed os yw'r ceisydd hwnnw'n dal i fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, os bydd yn gwrthod y cynnig o lety addas ar ôl gael ei hysbysu'n ysgrifenedig yn gyntaf o'r posibilrwydd y bydd y ddyletswydd yn dod i ben pe bai'n gwrthod cynnig.

334. Nid oes gofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i'r llety a gynigir gael ei weld gan y ceisydd ei hun cyn dod â dyletswydd i ben ar ôl penderfyniad i wrthod cynnig a gellir dod â phob un o'r tair dyletswydd digartrefedd allweddol (adran 66, 73 a 75) i ben yn y ffordd hon.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

***Disgrifiad***

335. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol, pan fydd awdurdod tai lleol yn sicrhau cynnig o lety i geisydd gyda'r nod o ddod â dyletswydd yr awdurdod o dan adran 66 neu 75 i ben, fod yn rhaid iddo gymryd camau rhesymol i roi cyfle i'r ceisydd weld y llety (yn bersonol neu fel arall).

***Costau***

336. Rhagwelir mai dim ond nifer bach iawn o geiswyr a gaiff eu heffeithio gan y cynnig hwn ac o ganlyniad i hynny, bydd goblygiadau cost yn gyfyngedig. Ni fu modd trosi'r gost hon yn swm ariannol ac felly mae'r gost yn anhysbys. Mae'n arfer cyffredin trefnu i geiswyr weld llety cyn dod â dyletswyddau i ben a bydd y diwygiad hwn yn sicrhau, yn yr achosion hynny lle mae unigolyn yn yr ysbyty neu yn y carchar, y bydd angen trefnu i ddirprwy weld y llety neu gynnig ffotograffau a fideos o eiddo.

***Manteision***

337. Bydd y diwygiad hwn yn sicrhau bod pob ceisydd yn cael y cyfle i weld llety posibl cyn i'w ddyletswydd ddod i ben, er mwyn ystyried a yw'r llety yn addas iddo. Bydd hyn o fudd penodol i'r rhai sydd yn yr ysbyty neu yn y carchar, na fu modd iddynt weld y llety, cyn bod awdurdod yn dod â'u dyletswydd i ben.

***Crynodeb***

338. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i roi cyfle i'r ceisydd weld y llety. Bydd costau isel iawn yn gysylltiedig â hyn a bydd y cynnig yn arbennig o fanteisiol i bobl yn yr ysbyty neu yn y carchar.

## Rhan 2: Dyrannu Tai Cymdeithasol

339. Mae'r adran hon yn amlinellu'r opsiynau polisi ar gyfer y newidiadau arfaethedig a wnaed yn Rhan 2 o'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru).

**Adran 35: Dyrannu tai preswyl o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 – personau cymhwysol**

*Caiff awdurdod tai lleol benderfynu pa ddosbarthiadau o bersonau sydd, neu nad ydynt, yn bersonau cymhwysol at ddibenion tai cymdeithasol, ac y gellir dyrannu tai cymdeithasol yn eu hardal iddynt.*

*Bydd person yr ystyriwyd bod ei ymddygiad annerbyniol wedi bod yn ddigon difrifol i'w wneud yn anaddas i fod yn denant ac y mae'n debygol y bydd yr ymddygiad hwnnw yn digwydd eto ar adeg gwneud y cais yn cael ei anghymhwyso rhag dyraniadau tai cymdeithasol.*

**Busnes fel arfer**

***Disgrifiad***

340. Gall unrhyw berson gymwys wneud cais am dai cymdeithasol. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfran sylweddol o bobl sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol yn gallu diwallu eu hanghenion eu hunain o ran tai a'u bod mewn llety addas diogel.

341. Ar hyn o bryd, dim ond os ydynt wedi'u cael yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i'w gwneud yn anaddas i fod yn denant y gellir trin ceiswyr fel rhai anghymwys i ddyrannu tai cymdeithasol iddynt. Mae'r ymddygiad hwn wedi'i gyfyngu i ymddygiad gwrthgymdeithasol difrifol a fyddai'n arwain at gyflwyno hysbysiad troi allan ac yr asesir bod risg y bydd yr ymddygiad yn digwydd ar adeg gwneud y cais.

***Costau***

342. Mae'r data sydd ar gael yn dangos bod nifer y bobl ar restrau aros am dai cymdeithasol ledled Cymru wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r galw yn fwy na'r cyflenwad ac mae ceiswyr yn treulio mwy o amser yn aros am dai cymdeithasol. Mewn cymhariaeth â hyn, gwyddom fod nifer y bobl sy'n cael eu cartrefu o'r rhestr aros yn lleihau. Gan fod yn rhaid i gynlluniau dyrannu tai cymdeithasol a ddelir gan awdurdodau tai lleol gael eu llunio ar sail anghenion o ran tai yn eu hardal, mae pobl nad oes ganddynt angen o ran tai yn debygol o fod ar y

rhestr dai am gryn dipyn o amser ac mae'n bosibl na fydd tai cymdeithasol fyth yn cael eu dyrannu iddynt.

343. Mae costau yn gysylltiedig â chynnal a rheoli rhestr, a pho hwyaf y gofrestr, y mwyaf yn y byd y bydd yn ei gostio i'w rheoli. Gall adolygiadau blynyddol a gwiriadau i geiswyr er mwyn sicrhau bod eu manylion a'u hamgylchiadau yn gywir ac yn gyfredol fynd â llawer o adnoddau awdurdodau lleol, a pho fwyaf o geiswyr, y mwyaf o adnoddau a ddefnyddir.

***Manteision***

344. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

***Crynodeb***

345. Byddai hyn yn golygu y bydd y sefyllfa fel ag mae yn parhau ac nid yw'n arwain at unrhyw gostau na manteision ychwanegol pe bai'n parhau i gael ei gymhwyso.

**Y dull gweithredu a ffefrir**

**Disgrifiad**

346. Bydd y Bil yn rhoi pŵer i awdurdodau tai lleol benderfynu ar y meini prawf cymhwystra ar gyfer tai cymdeithasol yn eu hardal leol yn ddarostyngedig i baramedrau ac amodau penodedig. Gall y rhain gynnwys cydnabod y rhai sy'n cael ffafriaeth resymol er mwyn tybio eu bod ag angen o ran tai, ac unrhyw feini prawf cymhwyso fel y'u pennwyd mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru. Bydd yn hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau tai lleol ddiwallu eu hangen lleol o ran tai, ac ymdrin â'r angen mwyaf dybryd o ran tai.

347. Bydd y Bil hefyd yn sicrhau, wrth asesu ymddygiad annerbyniol, y rhoddir mwy o ystyriaeth i'r risg y bydd yr ymddygiad hwnnw yn digwydd ar adeg gwneud cais. Bwriedir i hyn sicrhau bod ymddygiad presennol, yn ogystal ag ymddygiad hanesyddol, yn dylanwadu ar yr asesiad a, lle mae person wedi cymryd camau i newid ei ymddygiad, na fydd ei hanes blaenorol yn parhau i effeithio ar ei sefydlogrwydd o ran tai.

***Costau***

348. Os bydd awdurdod tai lleol yn defnyddio'r pŵer hwn, efallai y bydd rhai costau cychwynnol bach yn gysylltiedig â'r cynnig hwn. Byddai'r rhain yn ymwneud â phenderfynu ar y meini prawf cymhwystra a chymhwyso hynny at y ceiswyr sydd eisoes ar y rhestr dai ac wrth asesu'r rhai sy'n gwneud cais i fod ar y gofrestr dai yn y dyfodol. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol fod wrthi'n cynnal eu cofrestr dai yn rheolaidd eisoes.

349. Bydd cyfleoedd i gyfuno costau â gweithgarwch arall sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys adolygiadau blynyddol o'r gofrestr dai, ail-lunio'r cynllun dyrannu neu gyflwyno Cofrestrau Tai Cyffredin neu Gofrestrau Tai Hygyrch. Fel y cyfryw, ein hamcangyfrif gorau o'r gost ychwanegol yw £0.

***Manteision***

350. Bydd yr opsiwn hwn yn helpu awdurdodau lleol i ddeall anghenion o ran tai yn eu hardal yn well a rhoi mwy o hyblygrwydd i ymateb i'r angen hwnnw o ran tai. Gallai hyn o bosibl arwain at leihad sylweddol yn y rhestrau aros am dai y mae'n rhaid iddynt eu rheoli, gan leihau amser staff a'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli rhestrau aros. Bydd maint y manteision hyn yn amrywio rhwng awdurdodau tai lleol, yn dibynnu ar b'un a ydynt yn dewis cyflwyno'r pŵer disgresiwn a'r union feini prawf cymhwystra y maent yn dewis eu cyflwyno. Gallant benderfynu parhau â'r sefyllfa fel ag y mae.

351. Fel pŵer disgresiwn, gallai awdurdodau tai lleol dynhau neu lacio eu meini prawf cymhwystra wrth i'r farchnad dai a'r economi newid dros amser. Caiff awdurdod, er enghraifft, ddewis cymhwyso meini prawf cymhwystra mwy caeth i benderfynu ar bersonau cymhwysol ar gyfer tai cymdeithasol pan fydd y galw am dai cymdeithasol yn fwy na'r cyflenwad, ac yna lacio'r meini prawf pan fydd y galw wedi mynd yn llai.

352. Drwy'r opsiwn hwn bydd modd cyfathrebu'n gliriach hefyd a rheoli disgwyliadau pobl nad oes ganddynt angen o ran tai ond sy'n dal i fod ar y rhestr dai am gyfnodau estynedig, ac y mae'n annhebygol y caiff tai cymdeithasol fyth eu dyrannu iddynt.

353. Mewn perthynas ag ymddygiad annerbyniol, bydd yn ofynnol i awdurdodau tai lleol asesu ymddygiad yn y gorffennol a'r tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad yn digwydd eto ar adeg gwneud cais. Mae hyn yn golygu y bydd yr asesiad yn rhoi pwyslais cryfach ar y camau a gymerwyd gan y ceisydd i wneud newid cadarnhaol.

***Crynodeb***

354. Bydd awdurdodau lleol yn cael pwerau cynyddol i reoli tai cymdeithasol i ddiwallu anghenion lleol.

## Adran 36: Dim ffafriaeth i bersonau sy'n ceisio manipiwleiddio'r system dai

*Caiff awdurdod tai lleol ddewis tynnu unrhyw ffafriaeth am dai cymdeithasol a fyddai fel arall wedi cael ei rhoi i geisydd os canfyddir ei fod wedi ceisio manipiwleiddio'r system dai er mwyn cael mynediad blaenoriaethol at dai cymdeithasol.*

### Busnes fel arfer

***Disgrifiad***

355. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol flaenoriaethu tai cymdeithasol ar sail pum grŵp â ffafriaeth resymol, gan gynnwys y rhai sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Ceir pryder bod y system yn creu cymhelliant croes ac y gall gael ei manipiwleiddio er mwyn cael mynediad at dai cymdeithasol. O dan y system bresennol, caiff awdurdodau tai lleol ddefnyddio'r prawf bwriadoldeb i reoli senarios o'r fath (gweler adran 10 uchod), a fydd yn cael ei ddiddymu gan y Bil arfaethedig.

***Costau***

356. Yn yr achosion cyfyngedig lle mae aelwydydd yn manipiwleiddio'r system dai i gael blaenoriaeth am dai cymdeithasol, mae hyn yn golygu cost ariannol ac adnoddau staff ychwanegol i ddarparu gwasanaeth digartrefedd i'r ceisydd. Mae'n bosibl bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r prawf bwriadoldeb i ymdrin â'r broblem hon ond byddai hyn yn peri i'r aelwyd gael ei hallgáu o'r system ddigartrefedd, a hynny ar gost bersonol sylweddol.

***Manteision***

357. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

***Crynodeb***

358. O dan yr opsiwn hwn mae'r sefyllfa yn parhau fel ag y mae. Fodd bynnag, o ystyried y bydd y Bil yn diddymu'r prawf bwriadoldeb, ni fydd y sefyllfa hon fel ag y mae yn ddigon i ymdrin ag achosion o fanipiwleiddio'r system dai yng Nghymru nac i gael gwared ar unrhyw gymhelliant i wneud hynny.

### Y dull gweithredu a ffefrir

***Disgrifiad***

359. Bydd y Bil yn galluogi awdurdodau tai lleol i dynnu unrhyw ffafriaeth am dai cymdeithasol a fyddai fel arall wedi cael ei rhoi i geisydd os canfyddir ei fod wedi ceisio manipiwleiddio'r system dai er mwyn cael mynediad

blaenoriaethol at dai cymdeithasol. Bwriedir i'r opsiwn hwn gael gwared ar unrhyw gymhelliant i fanipiwleiddio'r system dai a diogelu'r broses o flaenoriaethu tai cymdeithas i'r rhai sy'n wirioneddol ddigartref ac y mae arnynt angen dybryd o ran tai.

360. Bydd y prawf manipiwleiddio bwriadol yn cael ei gymhwyso gan yr awdurdod tai lleol ar y cam dyrannu a bydd yn destun hawl i ofyn am adolygiad. Bydd y rhai sy'n cael eu dadflaenoriaethu o ran tai cymdeithasol yn dal i fod yn agored i unrhyw ddyletswydd digartrefedd, llety, cyngor a chymorth.

***Costau***

361. Os caiff ceisydd ei ddadflaenoriaethu o ran tai cymdeithasol ar ôl i'r prawf manipiwleiddio bwriadol gael ei gymhwyso, gall hyn arwain at gyfnod estynedig a hir mewn llety dros dro. Gallai hyn arwain at gostau sylweddol i'r awdurdod tai lleol. Ymdrinnir â'r costau y byddai'n rhaid mynd iddynt o dan yr opsiwn hwn yn yr amcangyfrifon o gostau sy'n gysylltiedig â diddymu'r prawf angen blaenoriaethol a'r prawf bwriadoldeb (gweler adrannau 9 a 10).

***Manteision***

362. Y bwriad y tu ôl i'r prawf manipiwleiddio bwriadol yw cael gwared ar unrhyw gymhelliant i fanipiwleiddio'n fwriadol er mwyn cael blaenoriaeth am dai cymdeithasol a rhoi ffordd o ymateb i ymddygiad o'r fath i awdurdodau tai lleol.

***Crynodeb***

363. Mae'r cynnig yn anelu at liniaru cymhellion croes yn y system mewn ffordd nad yw'n allgáu pobl mewn angen o'r system tai a digartrefedd yng Nghymru.

## <u>Adran 37: Pobl sy'n gadael gofal: ffafriaeth resymol</u>

*Mae'n rhaid rhoi ffafriaeth resymol i bobl ifanc sy'n gadael gofal ac sydd â hawl i gael cymorth yn unol ag adrannau 105 i 115 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wrth ddyrannu llety preswyl.*

### Busnes fel arfer

### Disgrifiad

364. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i awdurdodau tai lleol flaenoriaethu tai cymdeithasol ar sail pum grŵp â ffafriaeth resymol. Mae'r grwpiau hyn yn

cael eu nodi'n rhai sydd ag angen dybryd o ran tai a dylent gael eu blaenoriaethu am dai cymdeithasol.

365. Nid oes dim yn y ddeddfwriaeth bresennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ystyried profiad o ofal wrth ystyried y ffordd y mae'n dyrannu tai cymdeithasol. Felly, mae pobl ifanc sy'n gadael gofal, y mae angen opsiynau tai cymdeithasol fforddiadwy arnynt yn wynebu risg y byddant yn aros am gyfnodau estynedig cyn y dyrennir tai cymdeithas addas iddynt. Mae hyn yn arbennig o ddwys o ystyried y galw presennol am dai cymdeithasol.

***Costau***

366. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn hwn, bydd y tebygolrwydd a'r ymarfer bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn mynd yn ddigartref ar gyfraddau anghymesur a chostau personol sylweddol hyn yn parhau.

***Manteision***

367. Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Nid yw'n ymdrin ag unrhyw un o'r diffygion a nodwyd mewn perthynas â'r fframwaith deddfwriaethol presennol. Gallai hefyd weithio i atal neu gyfyngu ar lwyddiant darpariaethau eraill y darperir ar eu cyfer yn y Bil sydd â'r nod o leihau'r risg o ddigartrefedd i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru.

***Crynodeb***

368. Mae hyn yn golygu y bydd y sefyllfa fel ag y mae yn parhau ac er na fydd unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol o ganlyniad i hynny, mae'n sicrhau y bydd ymarfer gweithredol yn parhau, sy'n golygu y bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn wynebu risg.

## Y dull gweithredu a ffefrir

### Disgrifiad

369. Mae'r opsiwn hwn yn rhoi ffafriaeth resymol i bobl ifanc sy'n gadael gofal mewn cynlluniau dyrannu ac, o ganlyniad, flaenoriaeth am dai cymdeithasol. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i bobl ifanc sy'n gadael gofal fod yn ddigartref ond, yn lle hynny, mae'n sicrhau bod opsiynau tai fforddiadwy ar gael i bobl ifanc sy'n gadael gofal yn fwy cyffredinol.

370. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn wynebu risg anghymesur o fod yn ddigartref, gyda diffygion sylweddol yn eu rhwydweithiau cymorth. Mae'n annhebygol y bydd ganddynt rwydweithiau cymorth teuluol i ddibynnu arnynt ac maent yn aml yn gadael y system ofal yn uniongyrchol i ddigartrefedd. Mae darpariaethau ehangach y Bil wedi'u hanelu at ymdrin

â'r mater hwn ac atal pobl sy'n gadael gofal rhag mynd yn ddigartref yng Nghymru.

### *Costau*

371. Ni nodwyd unrhyw gost ychwanegol; mae'r cynnig hwn yn ymwneud â blaenoriaethu adnoddau sy'n bodoli eisoes. Ni fydd unrhyw newid i'r broses gofrestru na'r dull gweithredol o ddyrannu tai cymdeithasol ond, yn lle hynny, mae'n diwygio'r ffafriaeth a roddir i bobl ifanc sy'n gadael gofal ac yn rhoi mwy o flaenoriaeth iddynt o ran tai cymdeithasol.

372. Mae'n bosibl y bydd yr opsiwn hwn yn arwain at arbedion cost i awdurdodau tai lleol drwy leihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael gofal sy'n ddigartref yng Nghymru. Bydd pobl ifanc sy'n gadael gofal, sy'n wynebu mwy o risg o fod yn ddigartref, yn cael eu helpu i wneud cais am opsiynau tai fforddiadwy ar gam cynharach, a thrwy eu blaenoriaethu a thrwy roi ffafriaeth resymol iddynt yn y cynllun dyrannu bydd hyn yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd llety sefydlog fforddiadwy addas ar gael iddynt unwaith y byddant yn gadael gofal. Bydd hyn yn eu hatal rhag dod yn rhan o'r system ddigartrefedd. Ni fu modd mesur arbedion cost o ganlyniad i hyn.

### *Manteision*

373. Bydd y manteision i bobl ifanc sy'n gadael gofal a fydd yn cael eu hatal rhag mynd yn ddigartref yn sylweddol, gan y byddant yn cael blaenoriaeth o ran llety sefydlog hirdymor ac ni ddylent ddod yn rhan o'r system ddigartrefedd o gwbl. O ganlyniad, ni fyddant yn treulio cyfnodau estynedig mewn llety dros dro ac ni fyddant yn wynebu'r effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â lleoliadau o'r fath. Drwy symud yn uniongyrchol i lety sefydlog unwaith y bydd eu cyfnod mewn gofal wedi dod i ben, byddant yn cael budd o'r ymdeimlad o berthyn a bod yn rhan o'r gymuned y mae cartref sefydlog yn ei roi, a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol ar eu cyfleoedd addysgol a chyflogaeth, ac yn rhoi gwell mynediad at wasanaethau allweddol eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd, iddynt. Mae hyn yn rhoi gwell cyfle i bobl ifanc sy'n gadael gofal, sef grŵp sy'n wynebu risg anghymesur o ddigartrefedd ac y mae digartrefedd yn cael effaith anghymesur arnynt, i lwyddo i fyw'n annibynnol ac yn iach.

### *Crynodeb*

374. Mae'r ddarpariaeth yn anelu at liniaru'r risg anghymesur o ddigartrefedd y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ei hwynebu. Mae'r cynnig i roi ffafriaeth resymol i bobl ifanc sy'n gadael gofal wrth ddyrannu tai cymdeithasol yn gyson â chynigion eraill sydd wedi'u targedu at atal digartrefedd i'r grŵp hwn ac mae'n cael effaith uniongyrchol drwy eu blaenoriaethu am lety fforddiadwy sefydlog.

## Adran 38: Cofrestr Tai Cyffredin

*Mae Deddf Tai 1996 yn cael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol sefydlu a chynnal cofrestr tai cyffredin y mae'n rhaid i'r holl bersonau cymhwysol sy'n gymwys i gael tai cymdeithasol fod wedi'u cofrestru â hi er mwyn cael dyraniad tai cymdeithasol.*

*Mae'n rhaid i'r awdurdod tai lleol ddarparu a chynnal cofrestr o eiddo sydd â nodweddion hygyrch neu addasedig yn ei ardal leol, at ddibenion paru ac yna ddyrannu eiddo o'r fath i geiswyr sydd wedi'u cofrestru i gael tai cymdeithasol ac sydd â gofynion hygyrchedd.*

### Busnes fel arfer

#### *Disgrifiad*

375. Mae'r Cod Canllawiau yn cefnogi ac yn argymell y defnydd o Gofrestrau Tai Cyffredin, ond nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol ar awdurdodau tai lleol i'w gweithredu. Ar hyn o bryd, mae 19 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu Cofrestr Tai Cyffredin, sy'n cynnig un pwynt cofrestru i geiswyr ac un rhestr o geiswyr sydd wedi'u cofrestru i gael tai cymdeithasol yn yr ardal leol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg manyleb a reoleiddir, byddant yn wahanol o ran dull gweithredu a fformat. Mewn o leiaf tri awdurdod yng Nghymru, bydd yn ofynnol i geiswyr sydd am wneud cais i gael tai gofrestru ar sawl rhestr er mwyn cael mynediad at yr holl stoc neu wynebu risg o beidio â chael eu hystyried am yr holl stoc dai sydd ar gael mewn ardal leol. Mae hyn yn ddryslyd i geiswyr ac yn arwain at ddiffyg tryloywder ac ymddiriedaeth yn y system.

376. Ar hyn o bryd, gall pob darparwr tai mewn ardal ddyrannu ei stoc tai cymdeithasol i unrhyw un, ni waeth a yw ar restr aros am dai'r awdurdod tai lleol, ac ni waeth beth fo'u cymhwystra. Yn yr un modd, mae hyn yn golygu y gall darparwyr tai 'ddiystyru' neu 'neidio dros' geiswyr ar restrau awdurdodau tai lleol pe baent yn dewis gwneud hynny.

377. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau tai lleol wedi rhoi systemau ar waith i nodi a rhestru eiddo sy'n hygyrch neu sydd wedi cael ei addasu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ofynnol, sy'n arwain at ddulliau gweithredu gwahanol ledled Cymru, a diffyg tryloywder o ran stoc hygyrch awdurdod a sut y caiff ei pharu ag anghenion y ceiswyr yn ei ardal. Gall y dull gweithredu hwn arwain at sefyllfa lle mae addasiadau costus yn cael eu tynnu unwaith y daw llety yn wag, sydd wedi digwydd, er bod awdurdodau tai lleol yn wynebu cryn dipyn o alw am eiddo hygyrch. Gall hyn arwain at sefyllfa lle mae pobl y mae angen llety o'r fath arnynt yn gorfod aros yn hwy, neu lle mae awdurdodau tai lleol yn gorfod ailosod addasiadau mewn eiddo.

### *Costau*

378. Pe bai'r sefyllfa fel ag y mae yn parhau mewn perthynas â Chofrestrau Tai Cyffredin ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau tai lleol na landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gan na fyddai unrhyw newid i'r broses y maent yn ei gweithredu ar hyn o bryd.

379. Mae'r ymarfer presennol mewn perthynas â chofrestrau tai hygyrch yn arwain at sefyllfa lle nad yw llety yn cael ei baru'n gywir â cheiswyr sydd ag angen penodol am y math hwnnw o eiddo. Digwydd hyn er cost fawr i'r ceisydd, sy'n cael ei gadw mewn llety dros dro am hwy o bosibl, neu mewn llety sefydlog anhygyrch nad yw'n addas ar gyfer ei anghenion, sy'n arwain at ddigartrefedd i'r ceisydd.

380. Mae'r achosion hyn o baru ceiswyr yn aneffeithiol â llety addas ag addasiadau yn gostus i awdurdodau tai lleol am fod hyn yn cadw pobl y mae angen llety addas arnynt ar eu rhestru aros am dai cymdeithasol yn hwy, a gall arwain at ddyblygu mewn perthynas ag addasu eiddo.

### Manteision

381. Ni fyddai unrhyw fanteision ychwanegol i ddarparwyr tai na cheiswyr pe bai'r dull gweithredu presennol yn parhau.

### Crynodeb

382. Mae'r system bresennol yn achosi diffyg dealltwriaeth a thryloywder ynglŷn â cheisiadau am dai cymdeithasol ac mae cyfleoedd i ddarparwyr tai gydgysylltu a chysoni'r galw â'r llety yn ardal yr awdurdod yn cael eu colli.

### Y dull gweithredu a ffefrir

### *Disgrifiad*

383. Mae'r Bil yn cynnig gofyniad ar awdurdodau tai lleol bod yn rhaid iddynt sefydlu a chynnal Cofrestr Tai Cyffredin i bobl gymwys a chymhwysol. Mae'n rhaid i'r holl ddarparwyr tai, gan gynnwys yr awdurdod tai lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr cofrestredig tai cymdeithasol ddyranu eu stoc dai i'r ceiswyr ar y Gofrestr Tai Cyffredin yn unig. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynglŷn â gweithredu'r gofrestr o ran yr wybodaeth y dylai ei dal, a sut y caiff enwau pobl eu hychwanegu at y Gofrestr Tai Cyffredin neu eu tynnu oddi arni.

384. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gynnal cofrestr o lety preswyl hygyrch neu addasedig yn eu hardal, ni waeth pwy yw'r darparwr tai. Bwriedir i'r rhestr hon o eiddo ei gwneud yn haws i reoli llety â nodweddion hygyrchedd yn well a'i ddyrannu i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Cynigir y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau i wneud

rheoliadau mewn perthynas â’r elfennu gweithredol o gofrestru’r eiddo, gan gynnwys y manylion a’r wybodaeth y dylid eu cofnodi yn y gofrestr a’r broses o gofrestru eiddo neu dynnu eiddo oddi ar y gofrestr.

**Costau**

385. Gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, amcangyfrifwn y bydd yn costio £10,500 fesul cofrestr i sefydlu Cofrestr Tai Cyffredin. Dim ond tri awdurdod sydd eto i roi cofrestr ar waith, felly amcangyfrifwn gostau o £31,500 i’r tri awdurdod hyn. Cost untro yw hon ac mae’n debygol o godi yn 2027-2028 ar y cynharaf. Rydym o’r farn mai cost ychwanegol adolygu Cofrestrau Tai Cyffredin yn barhaus yw £0. Bydd awdurdodau lleol eisoes yn ymgymryd â rôl o adolygu rhestrau aros am dai, ar ba ffurf bynnag y maent ar hyn o bryd.

*Tabl 27: Costau am sefydlu Cofrestr Tai Cyffredin*

| **Cofrestr Tai – costau sefydlu (untro)** | |
|---|---|
| Eitem | Cost amcangyfrifedig fesul awdurdod lleol |
| TG a chyfarpar | £2,000.00 |
| Amser staffio | £6,500.00 |
| Hyfforddiant | £2,000.00 |
| **Cyfanswm y gost i ALl – untro** | **£10,500** |
| **Cost i’r 3 awdurdod lle nad ydynt wedi sefydlu Cofrestr tai Cyffredin eto** | **£31,500** |

***Manteision***

386. Dangoswyd bod sefydlu un gofrestr i bobl at ddibenion dyrannu tai cymdeithasol yn gysylltiedig â gwell cydweithrediad rhwng darparwyr tai partner. Mae hefyd yn gysylltiedig â meithrin gwell dealltwriaeth a dealltwriaeth a rennir o anghenion tai a’u hasesu ar lefel strategol. Maent yn arwain at gydweithio gwell ac yn helpu i ddatblygu cynlluniau gosod eiddo, cynlluniau datblygu eiddo a strategaethau digartrefedd integredig sydd wedi’u cynllunio’n fwy strategol mewn ardaloedd. Mae hyn yn golygu bod modd targedu darpariaeth lle mae angen o ran tai, gan gynnwys drwy gael gwell dealltwriaeth o lefel y galw mewn awdurdod o ganlyniad i geiswyr sy’n ddigartref neu sy’n wynebu risg o ddigartrefedd. Hefyd, gall cofrestr ganolog a rennir a ddefnyddir gan bob landlord cymdeithasol i ddyrannu llety, helpu i leihau nifer yr eiddo gwag neu am faint y mae eiddo yn wag i landlordiaid, gan ddarparu llety i’r rhai mewn angen yn gynt a hefyd sicrhau incwm rhent i landlordiaid.

387. Bydd y gofyniad arfaethedig ynghylch Cofrestrau Tai Cyffredin hefyd yn rhoi manteision i geiswyr, drwy sicrhau bod holl stoc tai cymdeithasol

ardal yn fwy hygyrch i geiswyr o ganlyniad i un pwynt i wneud cais. Bydd system fwy tryloyw hefyd yn helpu ceiswyr i ddeall yn well ble maent ar y rhestr aros, a'i gwneud yn bosibl i'w disgwyliadau ynglŷn â llety gael eu rheoli.Mae hon yn fantais i'w chroesawu i'r rhai sy'n gorfod wynebu cymhlethdodau systemau tai a digartrefedd.

388. Mae'r gofyniad ar awdurdodau tai lleol i gynnal cofrestru tai hygyrch yn cynnig manteision ar ffurf proses well a mwy effeithlon o ddyrannu llety â nodweddion hygyrchedd i'r rhai â'r angen mwyaf. Mae hyn yn arwyddocaol am ei fod yn osgoi'r gwaith costus o dynnu ac ôl-osod addasiadau drud, ac mae hefyd yn ei gwneud yn bosibl i fathau penodol o lety gael eu dyrannu'n gynt, gan leihau'r cyfnodau estynedig pan fydd eiddo yn wag tra bydd gwaith yn cael ei wneud, ynghyd â chostau cysylltiedig eraill y bydd yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol ddarparu ar eu cyfer tra bydd yn cadw pobl mewn llety nad yw'n addas at eu hanghenion. Mae'r gofyniad i gynnal Cofrestr Tai Hygyrch hefyd yn helpu awdurdodau tai lleol i ddeall y math o stoc a ddelir ganddynt yn well. Gellir defnyddio hyn i roi tystiolaeth a llywio eu cynlluniau adeiladu a'u cynlluniau datblygu eiddo, er mwyn nodi bylchau yn y ddarpariaeth a lle mae angen datblygu mathau penodol o dai.

389. O ran pobl anabl sy'n gwneud cais am dai cymdeithasol, bydd y Gofrestr Tai Hygyrch yn gwneud y broses o ddyrannu llety yn gyflymach ac yn fwy cywir, sy'n diwallu eu hanghenion orau ac sy'n rhoi cyfle iddynt fyw'n annibynnol yn gynt, gan roi canlyniadau buddiol o ran eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol, a gwell ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned leol.

***Crynodeb***

390. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gadw Cofrestr Tai Cyffredin a Chofrestr Tai Hygyrch ar gyfer eu hardaloedd.

## <u>Costau sy'n gysylltiedig â rhoi cofrestrau ar waith</u>

### Canllawiau Ymarfer a thempledi

***Disgrifiad***

391. Bydd Llywodraeth Cymru yn tynnu'r Cod Canllawiau presennol yn ôl a chyhoeddi canllawiau newydd i gefnogi'r Bil. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid ar y strwythur mwyaf defnyddiol ar gyfer y canllawiau hyn ac yn ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd.

***Costau***

392. Amlinellir y costau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â phobl â phrofiad bywyd o ddigartrefedd mewn perthynas ag adran 29.

393. Mae’r tabl isod yn dangos yr anghenion cyllid posibl i baratoi canllawiau i awdurdodau tai lleol a’r gwasanaeth cyhoeddus ehangach. Amcangyfrifir y bydd yn costio cyfanswm o £104,200 yn y sector cyhoeddus i ddatblygu’r canllawiau. Bydd y gost hon yn codi yn 2026-2027 a chost untro ydyw.

*Tabl 28: Datblygu’r Cod Canllawiau*

| **Costau staff** | **Cost ddyddiol (220 o ddiwrnodau gwaith) (£)** | **Diwrnodau sydd eu hangen** | **Cyfanswm (£)** | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-swyddog Gweithredol** | £324 | 120 | 38,900 | | |
| **Gradd 7** | £422 | 20 | 8,400 | | |
| **Cyfreithiwr (Gradd 7)** | £422 | 10 | 4,200 | | |
| **Cyfieithu (Swyddog Gweithredol Uwch)** | £259 | 30 | 7,800 | | |
| | | **Cyfanswm** | **59,300** | | |
| | | | | | |
| **Ymgysylltu ag awdurdodau lleol** | £193 | 66 | 12,800 | | |
| | | **Cyfanswm** | **12,800** | | |
| **Iechyd** | 180 | 21 | 3,800 | | |
| **Gwasanaethau cymdeithasol** | 165 | 66 | 10,900 | | |
| Landlord cymdeithasol cofrestredig | 162 | 108 | 17,500 | | |
| | | **Cyfanswm** | **32,200** | | |
| | | | | | |
| | | | **Cyfanswm costau’r canllawiau:** | | **104,200** |

*Manteision*

394. Caiff y Cod Canllawiau newydd eu cydgynhyrchu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau bod ei strwythur a'i gynnwys yn helpu i roi'r Bil ar waith yn effeithiol ac yn helpu i gyflawni'r bwriad polisi.

*Crynodeb*

395. Caiff Cod Canllawiau newydd ei gydgynhyrchu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn helpu i roi'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ar waith.

**Hyfforddiant ar y Bil i bartneriaid cyflawni**

*Disgrifiad*

396. Bydd angen rhoi hyfforddiant i awdurdodau tai lleol i'w helpu i roi'r Bil ar waith.

*Costau*

397. Bydd cost uniongyrchol i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu a chyflwyno'r hyfforddiant. Cost untro o tua £33,900 fydd hon a bydd yn codi yn 2026-2027.

*Tabl 29:Costau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i hyfforddi awdurdodau tai lleol ar y Bil*

| **Maes y gost** | **Amser sydd ei angen** | **Cyfradd y dydd** | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|
| Llunio'r hyfforddiant | 10 diwrnod - Uwch-swyddog Gweithredol | £324 | £3,200 |
| | 5 diwrnod Gradd 7 | £422 | £2,100 |
| Cyflwyno'r hyfforddiant | 88 diwrnod 2 x Uwch-swyddog Gweithredol | £324 | £28,500 |
| **Cyfanswm** | | | **£33,900** |

398. Amcangyfrifir y bydd cost cyfle o £132,000 yn gysylltiedig â'r amser a dreulir gan staff awdurdodau lleol yn dilyn yr hyfforddiant. Cost untro yw hon, a fydd yn codi yn 2026-27.

*Tabl 30:Costau cyfle amcangyfrifedig i hyfforddi awdurdodau tai lleol ar y Bil*

| **Staff awdurdodau tai lleol** | **Amser sydd ei angen ar gyfer hyfforddiant** | **Cyfradd y dydd** | **Cyfanswm y gost cyfle** |
|---|---|---|---|
| 400 | 2 ddiwrnod | £165 | **£132,000** |

**Costau trosiannol**

399. Cydnabyddir y bydd gweithgareddau cyn gweithredu er mwyn cynllunio ar gyfer y newidiadau a'r gofynion sy'n deillio o'r diwygiadau i awdurdodau lleol. Er y bydd faint yn union o waith cynllunio y bydd pob awdurdod lleol y ei wneud yn wahanol ac yn ansicr, defnyddiwyd tybiaeth gyffredinol ar gyfer gofyniad FTE staff ar gyfer pob awdurdod lleol er mwyn cofnodi'r gost hon. Cost untro yw hon, a fydd yn codi yn 2026-2027.

*Tabl 31:Cymorth trosiannol i awdurdodau lleol*

| | |
|---|---|
| Nifer y staff FTE sydd eu hangen i helpu gyda gweithgareddau cynllunio a gweithredu cyn bod y diwygiadau yn cael eu rhoi ar waith | 2 FTE fesul awdurdod lleol |
| **Cyfanswm y gost** | **£2,152,600** |

**Crynodeb o'r costau i roi'r Bil ar waith, £ (heb gynnwys addasiadau ar gyfer twf mewn llwythi achosion)**

| | Corff | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystyr digartrefedd neu o dan fygythiad o ddigartrefedd | ALl | - | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 | 2,258,100 |
| Sicrhau neu helpu i sicrhau llety; Cryfhau'r camau a gymerir i atal digartrefedd | ALl | - | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 | 3,061,600 |
| Cyfathrebu rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ceisydd | ALl | - | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 |
| Gwariant ychwanegol ar atal (camau rhesymol) | ALl | - | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 | 5,000,000 |
| Sicrhau neu helpu i sicrhau llety; | ALl | - | 16,800 | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cryfhau'r camau a gymerir i atal digartrefedd | | | | | | | | | | | |
| Sicrhau neu helpu i sicrhau llety; Cryfhau'r camau a gymerir i atal digartrefedd | Llywodraeth Cymru | | 66,700 | | | | | | | | |
| Hawl i ofyn am adolygiad | ALl | - | 997,000 | 997,000 | 997,000 | 997,000 | 997,000 | 997,000 | 997,000 | 997,000 | 997,000 |
| Dyletswydd i gadw mewn cysylltiad | ALl | - | 36,100 | 36,100 | 36,100 | 36,100 | 36,100 | 36,100 | 36,100 | 36,100 | 36,100 |
| Diddymu angen blaenoriaethol; Diddymu bwriadoldeb | ALl | - | - | - | - | 5,390,800 | 5,390,800 | 5,390,800 | 5,390,800 | 5,390,800 | 5,390,800 |
| Cymorth i gadw contract meddiannaeth presennol | ALl | - | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 | 7,805,100 |
| Methiant afresymol i | ALl | - | - | - | - | 34,800 | 34,800 | 34,800 | 34,800 | 34,800 | 34,800 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gydweithredu | | | | | | | | | | | |
| Dyletswydd i nodi ac atgyfeirio at gyrff perthnasol | Llywodraeth Cymru | - | 66,700 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | 12,398,500 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | - | 32,100 | 32,100 | 32,100 | 32,100 | 32,100 | 32,100 | 32,100 | 32,100 |
| | ALl | - | - | 3,356,500 | 3,356,500 | 3,356,500 | 3,356,500 | 3,356,500 | 3,356,500 | 3,356,500 | 3,356,500 |
| Plant a phobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal | ALl | - | 47,400 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | 50,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cydgysylltu achosion statudol | ALl | - | 675,800 | 675,800 | 675,800 | 675,800 | 675,800 | 675,800 | 675,800 | 675,800 | 675,800 |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlord | - | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | iaid Cymdeithasol Cofrestredig | | | | | | | | | | |
| Gan ystyried safbwyntiau'r rhai â phrofiad bywyd | Llywodraeth Cymru | 36,500 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | ALl | - | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 |
| Adolygiad o lety dros dro | Llywodraeth Cymru | - | - | 87,500 | - | - | - | - | - | - | - |
| | ALl | - | - | 27,000 | - | - | - | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer proses i benodi cymrodeddwr | Llywodraeth Cymru | - | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 |
| Dyrannu tai cymdeithasol | ALl | - | 31,500 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau cod canllawiau a hyfforddiant | Llywodraeth Cymru | 93,200 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 32,200 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ALl | 144,800 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau trosiannol | ALl | 2,152,600 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | | 2,459,300 | 33,643,000 | 24,467,600 | 24,353,100 | 29,778,700 | 29,778,700 | 29,778,700 | 29,778,700 | 29,778,700 | 29,778,700 |

**Crynodeb o'r costau i roi'r Bil ar waith, £ (gan gynnwys addasiadau ar gyfer twf mewn llwythi achosion)**

| | Corff | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystyr digartrefedd neu o dan fygythiad o ddigartrefedd | ALl | - | 2,482,200 | 2,561,800 | 2,643,900 | 2,728,600 | 2,816,100 | 2,906,300 | 2,999,500 | 3,095,600 | 3,194,800 |
| Sicrhau neu helpu i sicrhau llety; Cryfhau'r camau a gymerir i atal digartrefedd | ALl | - | 3,365,600 | 3,473,400 | 3,584,700 | 3,699,600 | 3,818,200 | 3,940,600 | 4,066,900 | 4,197,200 | 4,331,700 |
| Cyfathrebu rhwng yr awdurdod tai lleol a'r ceisydd | ALl | - | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 | 126,800 |
| Gwariant ychwanegol ar atal (camau rhesymol) | ALl | - | 5,496,300 | 5,672,500 | 5,854,300 | 6,041,900 | 6,235,500 | 6,435,400 | 6,641,600 | 6,854,500 | 7,074,200 |
| Sicrhau neu helpu i sicrhau llety; | ALl | - | 16,800 | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cryfhau'r camau a gymerir i atal digartrefedd | | | | | | | | | | | |
| Sicrhau neu helpu i sicrhau llety; Cryfhau'r camau a gymerir i atal digartrefedd | Llywodraeth Cymru | | 66,700 | | | | | | | | |
| Hawl i ofyn am adolygiad | ALl | - | 1,096,000 | 1,131,100 | 1,167,400 | 1,204,800 | 1,243,400 | 1,283,200 | 1,324,400 | 1,366,800 | 1,410,600 |
| Dyletswydd i gadw mewn cysylltiad | ALl | - | 39,700 | 40,900 | 42,200 | 43,600 | 45,000 | 46,400 | 47,900 | 49,500 | 51,000 |
| Diddymu angen blaenoriaethol; Diddymu bwriadoldeb | ALl | - | - | - | - | 6,514,200 | 6,723,000 | 6,938,400 | 7,160,800 | 7,390,300 | 7,627,200 |
| Cymorth i gadw contract meddiannaeth presennol | ALl | - | 8,579,900 | 8,854,900 | 9,138,700 | 9,431,600 | 9,733,900 | 10,045,800 | 10,367,800 | 10,700,100 | 11,043,000 |
| Methiant afresymol i | ALl | - | - | - | - | 42,100 | 43,400 | 44,800 | 46,300 | 47,800 | 49,300 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| gydweithredu | | | | | | | | | | | |
| Dyletswydd i nodi ac atgyfeirio at gyrff perthnasol | Llywodraeth Cymru | - | 66,700 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | 12,398,500 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | - | 36,400 | 37,500 | 38,700 | 40,000 | 41,300 | 42,600 | 44,000 | 45,400 |
| | ALl | - | - | 3,807,900 | 3,930,000 | 4,055,900 | 4,185,900 | 4,320,100 | 4,458,500 | 4,601,400 | 4,748,900 |
| Plant a phobl ifanc a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal | ALl | - | 47,400 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | 50,900 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cydgysylltu achosion statudol | ALl | - | 742,900 | 766,700 | 791,300 | 816,600 | 842,800 | 869,800 | 897,700 | 926,400 | 956,100 |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlord | - | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 | 699,500 |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | iaid Cymdeithasol Cofrestredig | | | | | | | | | | |
| Gan ystyried safbwyntiau'r rhai â phrofiad bywyd | Llywodraeth Cymru | 36,500 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | ALl | - | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 | 133,900 |
| Adolygiad o lety dros dro | Llywodraeth Cymru | - | - | 87,500 | - | - | - | - | - | - | - |
| | ALl | - | - | 27,000 | - | - | - | - | - | - | - |
| Darpariaethau ar gyfer proses i benodi cymrodeddwr | Llywodraeth Cymru | - | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 |
| Dyrannu tai cymdeithasol | ALl | - | 31,500 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Costau cod canllawiau a hyfforddiant | Llywodraeth Cymru | 93,200 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 32,200 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| | ALl | 144,800 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Costau trosiannol | ALl | 2,152,600 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | | 2,459,300 | 35,611,700 | 27,590,900 | 28,320,700 | 35,748,400 | 36,857,900 | 38,002,900 | 39,184,700 | 40,404,300 | 41,663,100 |
| **CYFANSWM** | | | | | | | | | | 325,844,100 | |

**Tabl cryno – crynodeb lefel uchel o gostau'r Bil (gan gynnwys addasiadau ar gyfer twf mewn llwythi achosion)**

| Math o gost | Sefydliad | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolaidd | Llywodraeth Cymru | - | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 | 170,600 |
| Rheolaidd | ALl | - | 22,063,200 | 26,569,900 | 27,413,100 | 34,839,600 | 35,947,800 | 37,091,600 | 38,272,000 | 39,490,300 | 40,747,600 |
| Rheolaidd | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | - | 699,500 | 735,800 | 737,000 | 738,200 | 739,500 | 740,700 | 742,100 | 743,400 | 744,800 |
| | **Cyfanswm** | - | **22,933,300** | **27,476,400** | **28,320,700** | **35,748,400** | **36,857,900** | **38,002,900** | **39,184,700** | **40,404,300** | **41,663,100** |
| **Cyfanswm y costau rheolaidd** | | | | | | | | | | | **£310,591,900** |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Untro | Llywodraeth Cymru | 129,700 | 133,400 | 87,500 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Untro | ALl | 2,297,400 | 95,700 | 27,000 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Untro | Gwasanaeth Cyhoeddus Ehangach/Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig | 32,200 | 12,449,400 | - | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **2,459,300** | **12,678,500** | **114,500** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** | **£0** |
| **Cyfanswm y costau untro** | | | | | | | | | **£15,252,200** | |

# 9. Asesiad Fforddiadwyedd

## Dull gweithredu

1 Er bod yr asesiad effaith rheoleiddiol yn asesu gwerth cymdeithasol ac yn cynnwys unrhyw effeithiau diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr â chostau a manteision economaidd, mae asesiad fforddiadwyedd yn asesiad ariannol yn unig.  Felly, dim ond costau o ran arian parod a manteision o ran rhyddhau arian parod sydd wedi'u cynnwys.  Mae unrhyw gostau a manteision amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol a chostau economaidd ehangach a nodir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil wedi'u dileu o'r asesiad hwn o fforddiadwyedd.

2 Mae’r asesiad fforddiadwyedd yn ystyried yr un cyfnod â’r asesiad effaith rheoleiddiol, sef 2026-27 i 2035-36.

3 Nododd yr asesiad effaith rheoleiddiol nifer o gostau cyfle sy'n gysylltiedig â'r amser o dreulir gan aelodau presennol o staff ar weithgareddau sy'n ymwneud â rhoi'r Bil ar waith.  Gan nad yw’r costau cyfle hyn yn golygu gwariant ariannol ychwanegol i’r sefydliadau o dan sylw, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad fforddiadwyedd hwn.

4 Mae'r costau arian parod a'r manteision sy'n rhyddhau arian parod yn yr asesiad hwn wedi'u haddasu er mwyn adlewyrchu chwyddiant disgwyliedig yn ystod y cyfnod arfarnu.  Mae’r addasiad hwn wedi cael ei wneud ar sail amcanestyniadau'r datchwyddydd cynnyrch domestig gros (GDP) sydd wedi’u cynnwys yn Rhagolygon Economaidd a Chyllidol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR)[55] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.  Dim ond i 2029-30 yr oedd amcanestyniadau'r OBR yn ymestyn ond roedd rhagolygon datchwyddydd GDP wedi setlo ar 1.9% tua diwedd cyfnod y rhagolwg ac felly mae'r ffigur hwn wedi'i ddefnyddio ar gyfer gweddill y cyfnod arfarnu.  Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro effaith chwyddiant ar gostau ariannol y Bil.

5 Oni nodir yn wahanol, mae’r holl gostau wedi cael eu talgrynnu i’r £1,000 agosaf.  Efallai na fydd rhai o'r ffigurau mewn tablau yn gwneud cyfanswm oherwydd y broses dalgrynnu hon.

6 Mae manteision ariannol y Bil i awdurdodau lleol hefyd wedi'u hasesu a'u cynnwys i roi arwydd o effaith ariannol net debygol y Bil.

## Llywodraeth Cymru

7 Mae'r mwyafrif o'r costau a nodwyd yn yr asesiad effaith rheoleiddiol fel rhai a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn gostau cyfle sy'n gysylltiedig ag amser aelodau presennol o staff.  Felly, mae'r costau hynny wedi'u heithrio o'r asesiad hwn.  Mae'r eithriadau yn ymwneud â'r gost ar gyfer datrys anghydfodau ynglŷn ag adran 33 *cydweithrediad rhwng*

[55] CP 1289 – Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol – Rhagolygon economaidd a chyllidol – Mawrth 2025

*landlordiaid cymdeithasol penodol ac awdurdodau tai lleol: darparu llety*, cost comisiynu adolygiad rheolaidd i lety dros dro a chostau ystyried barn y rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd. Mae Tabl 10.1 yn cyflwyno'r gost ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru o'r cynigion yn y Bil.

**Tabl 10.1 - Amcangyfrif o gostau Llywodraeth Cymru (£000)**

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Costau | 37 | 171 | 258 | 171 | 171 | 171 | 171 | 171 | 171 | 171 | 1,663 |
| **Cyfanswm a addaswyd ar gyfer Chwyddiant** | **40** | **189** | **291** | **196** | **199** | **203** | **207** | **211** | **215** | **219** | **1,970** |

8 Bydd y gost hon yn cael ei thalu o gyllidebau presennol Llywodraeth Cymru.

**Awdurdodau Lleol**

9 Disgwylir i effaith uniongyrchol nifer o'r darpariaethau yn y Bil fod yn gynnydd yn llwyth achosion timau digartrefedd awdurdodau lleol. Yn benodol, disgwylir i ddiwygio'r diffiniad o “dan fygythiad o ddigartrefedd”, ymestyn yr hawliau adolygu a chryfhau'r ddyletswydd atal a gwella'r gwaith o ran cadw tenantiaethau arwain at angen mwy o adnoddau staff ar draws awdurdodau lleol. Mae Tabl 10.2 yn dangos cost ariannol amcangyfrifedig y Bil i awdurdodau lleol dros y cyfnod arfarnu.

**Tabl 10.2 - Amcangyfrif o gostau Awdurdodau Lleol (£000)**

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm y Costau Gweithredu** | 2,153 | 22,202 | 26,597 | 27,413 | 34,840 | 35,948 | 37,092 | 38,272 | 39,490 | 40,748 | 304,755 |
| **Cyfanswm a addaswyd ar gyfer Chwyddiant** | **2,332** | 24,528 | 29,941 | 31,446 | 40,725 | 42,819 | 45,021 | 47,336 | 49,771 | 52,331 | 366,250 |

10 Fodd bynnag, ein disgwyliad yw y bydd natur ataliol y darpariaethau yn y Bil yn galluogi awdurdodau lleol i wireddu manteision ariannol (costau a gaiff eu hosgoi o gymharu â'r sefyllfa wrthffeithiol) yn y tymor canolig i'r tymor hir. Mae'r manteision ariannol hyn yn adlewyrchu gostyngiad mewn costau gweinyddol a llai o wariant ar lety dros dro.

11 Mae'r gwaith modelu a gyflwynir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol yn dangos y fantais ariannol i awdurdodau lleol o welliant deg pwynt canran mewn cyfraddau atal a lleddfu diweddar. Mae gwelliant o'r fath yn cael ei ystyried yn

realistig ac yn gyraeddadwy.  Cyflwynir y manteision ariannol hyn yn Nhabl 10.3.

12 Fel y gwelir o dablau 10.2 a 10.3, disgwylir i'r manteision ariannol o'r cynigion polisi orbwyso'r costau gweithredu o 2028-29 ymlaen.

**Tabl 10.3 - Amcangyfrif o fanteision ariannol i Awdurdodau Lleol (£000)**

| | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 | 2033-34 | 2034-35 | 2035-36 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Manteision Ariannol** | - | 17,058 | 35,303 | 54,815 | 56,572 | 58,385 | 60,256 | 62,187 | 64,180 | 66,237 | 474,995 |
| **Cyfanswm a addaswyd ar gyfer Chwyddiant** | **-** | **18,845** | **39,742** | **62,880** | **66,129** | **69,545** | **73,137** | **76,915** | **80,889** | **85,067** | **573,150** |

13 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cyllid i gefnogi awdurdodau lleol yn ystod blynyddoedd cyntaf y cyfnod gweithredu.  Y tu hwnt i'r pwynt hwn, disgwylir i'r manteision ariannol a gynhyrchir gan awdurdodau lleol fwy na gwrthbwyso'r costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth.

**Cyrff Cyhoeddus Eraill yng Nghymru**

14 Disgwylir i'r holl gostau sy'n gysylltiedig â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fod yn gostau cyfle ac nid ydynt yn cynrychioli gwariant ariannol ychwanegol.

**Pennod 10: Y Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth**

1. Cynhaliwyd Asesiad Hidlo’r Gystadleuaeth i asesu'r effaith bosibl sy'n gysylltiedig â'r cynigion yn y Bil. Ni ddisgwylir i'r polisi hwn gael effaith niweidiol ar lefelau cystadleuaeth yng Nghymru na chystadleurwydd cwmnïau o Gymru. Mae canlyniadau'r prawf hidlo (sy'n cynnwys naw cwestiwn i’w hateb yn gadarnhaol neu’n negyddol) sy'n cefnogi'r casgliad hwn isod:

| **Cwestiwn** | **Ateb:** |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnyn nhw, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% o'r farchnad? | Oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnyn nhw, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% o'r farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y bydd y rheoleiddio newydd yn effeithio arni/arnyn nhw, a oes gan y tri busnes mwyaf gyda'i gilydd gyfran o 50% o leiaf o’r farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau’r rheoleiddio'n effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fydden. Mewn perthynas â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat mae rhai yn ddarparwyr tai bach ac mae eraill yn ddarparwyr tai mawr. Er bod y Bil yn darparu mai'r awdurdod tai lleol a fydd yn gyfrifol am y ddyletswydd i sefydlu a chynnal cofrestr tai cyffredin a chofrestr tai hygyrch, ac felly nhw fydd yn ysgwyddo'r costau'n bennaf, mae'n anochel y bydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat hefyd yn ysgwyddo costau mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon, er y bydd y gost hon yn lle'r gost maen nhw'n ei hysgwyddo wrth gynnal eu cofrestrau |

| Cwestiwn | Ateb: |
|---|---|
| | eu hunain. Disgwylir i unrhyw gostau fod yn gymesur i faint y busnes. Er y bydd cyflwyno cofrestrau tai cyffredin a chofrestrau tai hygyrch yn arwain at rai costau, effaith cyflwyno cofrestrau tai cyffredin fyddai creu tegwch ymhlith landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat, yn enwedig o ystyried bod cofrestrau tai cyffredin ar waith ym mhob un ond tair ardal awdurdod lleol yng Nghymru.<br>Nid ydyn ni'n rhagweld bod y darpariaethau ynghylch addasrwydd llety yn y Bil yn effeithio ar rai yn fwy nag eraill, gan fod amrediad o ddeddfwriaeth eisoes yn bodoli sy'n ymwneud ag addasrwydd llety sy'n berthnasol i'r mater hwn yn fras, fel yr amlinellir isod. |
| **C5**: A yw'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer y cwmnïau neu faint y cwmnïau? | Nac ydy |
| **C6**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr ac a ydyn nhw'n gostau nad oes angen i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, ac a ydyn nhw'n gostau nad oes angen i gyflenwyr presennol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw newid technolegol cyflym yn un o nodweddion y sector? | Nac ydy |
| **C9**: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, | Na fyddai |

| Cwestiwn | Ateb: |
|---|---|
| amrediad neu leoliad eu cynhyrchion? | |

**Casgliad ar sail Canlyniadau Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth**
**Cofrestrau Tai Cyffredin**

2. Ar hyn o bryd mae 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu cofrestr tai cyffredin, sy'n cael ei defnyddio'n gofrestr sengl o ymgeiswyr am dai cymdeithasol ar gyfer ardal gyfan. Mae'r cofrestrau hyn yn amrywio ledled Cymru o ran fformat a'r ffordd maen nhw'n cael eu defnyddio. Mae'r Bil yn cynnwys dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i sefydlu a chynnal cofrestrau tai cyffredin. Dim ond i berson sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr tai cyffredin ar gyfer yr ardal honno y caiff landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat gynnig llety.

3. Mae'r arferion sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw cofrestrau tai cyffredin yn amrywio ledled Cymru. Bydd gan awdurdodau tai lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n bartneriaid gytundebau gwahanol ar waith mewn perthynas â chaniatadau hygyrchedd a mynediad. Yn ei dro, bydd hyn yn effeithio ar yr adnoddau sydd eu hangen ar y gwahanol bartneriaid wrth gynnal a chael mynediad i'r gofrestr. Mae costau cynnal a chadw a gallu TG sy'n gysylltiedig â'r gofrestr hefyd yn amrywio ar gyfer y tri awdurdod nad oes ganddyn nhw gofrestr ar waith hyd yn hyn – rydyn ni'n amcangyfrif y byddai costau sefydlu yn gyfanswm o £31,500.

**Gwella addasrwydd llety**

4. Mae Deddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ystyried safonau cyfreithiol amrywiol wrth benderfynu a yw llety yn addas i unigolyn. Mae'r safonau hyn wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag amodau tai, gorlenwi, a thrwyddedu tai amlfeddiannaeth, gan gynnwys ystyried a yw'r llety yn fforddiadwy i'r unigolyn sydd ei angen. Bydd y Bil yn ehangu hyn i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau) hefyd wrth benderfynu ar addasrwydd. Mae darpariaethau Rhan 4 eisoes yn berthnasol i gontractau diogel, contractau safonol cyfnodol a chontractau safonol cyfnod penodol a wneir am gyfnod o lai na saith mlynedd, felly bydden nhw eisoes yn berthnasol i landlordiaid awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat a'r rhan fwyaf o landlordiaid sector preifat.

5. Yn ogystal, mae amrediad o ddeddfwriaeth mewn perthynas ag addasrwydd llety yn bodoli eisoes. Mae Deddf Tai 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gymryd camau gorfodi priodol pan fydd presenoldeb peryglon categori 1 yn

cael ei gadarnhau (megis asbestos, lleithder a llwydni, a charbon monocsid). Mae Deddf Tai 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gymryd camau gorfodi i ymateb i orlenwi.  Felly, mae eisoes yn ofynnol i awdurdodau tai lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol cofrestredig preifat ddarparu llety o safon dda a mynd i'r afael â pheryglon categori 1 pan fyddan nhw'n codi ac i ystyried gofynion statudol o ran maint tai er mwyn osgoi gorlenwi.

6. Bwriedir y bydd rhagor o ddiwygiadau'n cael eu gwneud yn y dyfodol i wella addasrwydd safonau llety a ddarperir o dan swyddogaethau digartrefedd fel y bydd yr effaith ar gystadleuaeth yn parhau i gael ei hadolygu.

7. Nid oes unrhyw risg o effaith niweidiol ar gystadleuaeth o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil.

## Pennod 11: Asesiad Effaith Integredig

1. Mae Asesiad Effaith Integredig llawn wedi cael ei gynnal sy'n cynnwys yr holl darpariaethau yn y Bil. Mae crynodeb o'r effeithiau a gafodd eu hystyried isod, a bydd yr asesiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

2. Cynhaliwyd asesiadau penodol i ddeall effaith y Bil ar y meysydd canlynol:

   - Hawliau Plant
   - Cydraddoldeb
   - Prawfesur Gwledig
   - Y Gymraeg
   - Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
   - Cyfiawnder
   - Bioamrywiaeth
   - Diogelu Data

3. Ystyriwyd yr isod a phenderfynwyd na fyddai angen asesiadau effaith llawn ar gyfer y rhain:

   - Iechyd
   - Newid Hinsawdd
   - Blaenoriaethau Adnoddau Naturiol
   - Asesiad Amgylcheddol Strategol
   - Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
   - Asesiad Effaith Amgylcheddol

**Beth mae'r Bil yn ei wneud a sut mae hynny'n cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu?**

4. Mae Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn cynnwys ymrwymiad i ddiwygio cyfraith tai a gweithredu ar argymhelliad y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i wneud diwygiadau sylfaenol i wasanaethau digartrefedd er mwyn iddynt roi ffocws ar atal ac ailgartrefu cyflym.

5. Cyflwynwyd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ar ôl blynyddoedd o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Dechreuwyd ar hyn drwy waith y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a thrwy gyhoeddi ein strategaeth yn 2019, a gafodd ei llywio gan ein hymateb i bandemig byd-eang a'r argyfwng costau byw presennol a'i mireinio gan Banel Adolygu Arbenigol annibynnol. Mae'r Bil yn seiliedig ar sylfeini tystiolaethol cadarn ac mae wedi cael ei lywio gan safbwyntiau rhanddeiliaid ar bob cam o'r broses.

6. Mae nodau'r Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn adeiladu ar y sylfeini a nodwyd yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) (2014), a fu'n allweddol o ran sefydlu system ddigartrefedd a oedd yn seiliedig ar atal, lleihau'r pwyslais ar y cysyniad o "brofi" cyn y gellir cael gwasanaethau, ehangu opsiynau llety a meithrin cydweithrediad rhwng gwasanaethau cyhoeddus.
7. Er ei bod yn drawsnewidiol ar y pryd, nododd y gwerthusiad o ddeddfwriaeth 2014 heriau o hyd o ran cyflawni'r nodau allweddol a oedd yn gysylltiedig ag atal a digartrefedd mynych ac nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn cynnig ymateb digonol i'r cynnydd digynsail yn y galw na'r pwysau sy'n dod i'r golwg mewn cysylltiad â digartrefedd yng Nghymru. Nod y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yw gwella'r system ddigartrefedd fel y gall ymateb yn well i'r pwysau a wynebir heddiw, a darparu system gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, a fydd yn addas ar gyfer anghenion y dyfodol.

**Sut mae'n cyd-fynd â'r nodau llesiant?**

8. Mae digartrefedd yn achosi anghyfiawnder cymdeithasol sylweddol sy'n arwain at effeithiau negyddol sylweddol ar gymunedau ac unigolion. Mae'r effeithiau negyddol hyn yn bellgyrhaeddol ac yn cwmpasu costau a cholledion economaidd sylweddol, ochr yn ochr ag effeithiau ar unigolion mewn perthynas ag iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder troseddol (ymhlith eraill). Felly, mae yna ddadleuon economaidd a moesegol cryf dros gefnogi'r penderfyniad i gyflwyno'r Bil sy'n adnodd pwysig i gyflawni'r nodau llesiant rhyngysylltiedig, gan sicrhau bywyd o ansawdd gwell ar gyfer y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.

**Cymru lewyrchus:** Drwy atal digartrefedd a darparu llety sefydlog, bydd yn haws i unigolion wneud cyfraniadau cadarnhaol i'r economi drwy gyflogaeth a gwariant, gan feithrin twf economaidd a lleihau tlodi.

**Cymru Gydnerth:** Gall achosion a chanlyniadau digartrefedd fod yn gymhleth ac mae digartrefedd yn cael effaith negyddol ar iechyd a llesiant. Drwy atal digartrefedd a darparu llety sefydlog gall unigolion ymdopi'n well â heriau ac ymaddasu iddynt, a fydd yn cyfrannu at gymdeithas fwy gwydn. Mae'r Bil yn seiliedig ar ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n allweddol i ymateb i effeithiau niweidiol trawma.

**Cymru iachach:** Mae digartrefedd yn cael effeithiau negyddol llym ar iechyd a hirhoedledd. Mae disgwyliad oes pobl sy'n cael profiad o ddigartrefedd dipyn yn is ac maent yn fwy tebygol o ddatblygu cyflyrau iechyd lluosog. Mae atal digartrefedd yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ac yn gwella llesiant cyffredinol.

**Cymru fwy cyfartal:** Mae ymdrin â digartrefedd yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, gan sicrhau bod anghenion sylfaenol a chyfleoedd ar gael i bawb. O dan y Bil, bydd yn ofynnol rhoi cymorth digartrefedd ar sail unigol sy'n ymateb yn well i anghenion personol, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â'r profiad o un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

**Cymru o gymunedau cydlynus:** Mae'r Bil yn rhoi mwy o ffocws ar sicrhau bod y llety a ddarperir i unigolion yn addas er mwyn lleihau'r risg o ddigartrefedd mynych a meithrin cysylltiadau â'r gymuned a chydlyniant cymdeithasol. Mae dyrannu tai cymdeithasol drwy broses sydd wedi'i rheoli'n dda yn creu cymunedau cytbwys a mwy cefnogol.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**: Mae llety diogel yn ei gwneud yn bosibl i unigolion gymryd rhan lawnach mewn gweithgareddau diwylliannol a bywyd cymunedol, gan warchod a hyrwyddo diwylliant Cymru a'r Gymraeg. Mae'n bwysig bod pawb mewn cymuned, ni waeth beth fo'i iaith, yn gallu cael gafael ar wasanaethau ac adnoddau hanfodol, gan gynnwys tai, a hefyd hyrwyddo'r Gymraeg.

**Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang:** Drwy fynd i'r afael â digartrefedd, mae Cymru yn dangos ymrwymiad i hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol, gan gyfrannu at ymdrechion byd-eang i leihau tlodi ac anghydraddoldeb.

**Cydweithio a chynnwys – pwy sydd wedi cael ei gynnwys i helpu i nodi effeithiau?**

9. Mae Adran 4 yn amlinellu'r amrediad o weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd i helpu i nodi effeithiau.

**Mae asesiadau effaith penodol wedi cael eu cynnal ar y pynciau canlynol: Hawliau plant**

10. Rydym wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant, pobl ifanc a sefydliadau sy'n cynrychioli eu buddiannau er mwyn datblygu'r Bil. At hynny, rydym wedi comisiynu prosiect ymchwil penodol i lenwi bylchau sylweddol mewn tystiolaeth mewn perthynas â phlant sy'n ddigartref.

11. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd pobl ifanc sy'n ddigartref yn aml yn cael profiad o ddigartrefedd ochr yn ochr â nifer o faterion cymhleth eraill, gan gynnwys y profiad o gamdriniaeth ac esgeulustod, problemau o ran addysg a chamddefnyddio sylweddau.[56] Mae digartrefedd ymhlith plant yn aml yn deillio o drawma, gan gynnwys gwrthdaro yn y cartref, ansicrwydd llety, camddefnyddio sylweddau, marwolaethau yn y teulu, pwysau ariannol a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall y ffactorau hyn i gyd ddylanwadu ar amgylchedd cythryblus yn y cartref a chynyddu'r risg o ddigartrefedd i deuluoedd, gan arwain at effeithiau pellach ar y plant o ran ansicrwydd llety yn y dyfodol a thrawma yn ystod plentyndod cynnar.[57] Po gynharaf y profiad o ddigartrefedd, y mwyaf tebygol y bydd unigolyn yn cael profiad o ddigartrefedd mynych.[58]

12. Gan adeiladu ar ein gwaith polisi ehangach i atal digartrefedd ymhlith pobl ifanc, mae'r Bil yn rhoi cyfle i ymdrin â nifer o feysydd lle mae plant wedi nodi profiadau

[56] Llamau, Study of the Experiences of Young Homeless People, 2015.
[57] Embleton, L., Lee, H., Gunn, J., Ayuku, D. a Braitstein, P. 2016. Causes of child and youth homelessness in developed and developing countries: A systematic review and meta-analysis. JAMA paediatrics
[58] Adroddiad 2014 Crisis, '*Nations apart? Experiences of single homelessness people across Great Britain'*

anfoddhaol. Ni all y Bil ymateb i'r holl heriau a nodwyd ond bydd yn cryfhau ymarfer mewn sawl maes allweddol.

13. Mae'r ffocws ar fwy o weithgarwch atal a chreu system ddigartrefedd sy'n ystyriol o drawma ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wedi cael ei groesawu gan randdeiliaid arbenigol, sydd o'r farn y bydd yn fuddiol i blant a phobl ifanc, cymunedau wedi'u hymyleiddio ac unigolion sy'n agored i niwed. Mae'r bwriad yn y Bil i dargedu gweithgarwch atal at grwpiau penodol, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal hefyd wedi cael tipyn o gefnogaeth, ynghyd â'r bwriad i wella'r broses o baratoi pobl ifanc i bontio o ofal i fyw'n annibynnol.

14. Mae helpu'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach i adnabod ac atgyfeirio pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn cyd-fynd yn llwyr â'r egwyddor bolisi hirsefydlog ymhlith rhanddeiliaid ehangach nad problem llety yn unig yw digartrefedd, ond problem sydd angen ymateb gwasanaeth cyhoeddus.

**Cydraddoldeb**

15. Mae digartrefedd yn fater cymhleth sydd â nifer o achosion a chanlyniadau. Nid yw'r rhai sy'n profi digartrefedd yn grŵp homogenaidd a bydd eu cefndiroedd a'u profiadau yn amrywio. Fodd bynnag, gwyddom y gall ffactorau allanol ehangach waethygu'r risg o ddigartrefedd, yn enwedig tlodi a'r ffaith ei fod yn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau.

16. Bydd y cynigion a nodwyd yn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn hyrwyddo cydraddoldeb drwy wella mynediad at wasanaethau tai, targedu gwaith at y rhai y mae digartrefedd yn effeithio'n anghymesur arnynt, gwella hygyrchedd a mynd ati i liniaru achosion o wahaniaethu ar unrhyw sail.

17. Drwy gydol y broses o ddatblygu'r Bil, rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd drwy waith ymgysylltu parhaus ac ymgysylltu dwys â rhanddeiliad i ddatblygu, mireinio a myfyrio ar y ddeddfwriaeth arfaethedig, er mwyn sicrhau y bydd ein nodau polisi yn fuddiol i unrhyw un sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yng Nghymru ac asesu a lliniaru unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

18. Rydym wedi ystyried y dystiolaeth sy'n awgrymu bod croestoriadau penodol o ran digartrefedd â nodweddion gwarchodedig ac wedi ystyried y rhain wrth ddrafftio ein cynigion. Rydym hefyd wedi rhoi pwyslais arbennig ar unigolion sy'n agored i niwed oherwydd anghenion cymorth heb eu diwallu.

**Prawfesur Gwledig**

19. Ceir prinder data ar ddigartrefedd mewn ardaloedd gwledig, ac mae angen diweddaru llawer o'r llenyddiaeth sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod pobl mewn ardaloedd gwledig yn wynebu rhai heriau penodol sy'n dwysáu'r angen am ddarpariaeth gwasanaeth digartrefedd. Hefyd, nododd sawl un o'r ymatebion i'r ymgynghoriad faterion a oedd yn ymwneud â gwledigrwydd.

20. Tueddir i weld niferoedd absoliwt uwch o unigolion digartref mewn ardaloedd trefol am fod eu poblogaethau yn fwy o faint; fodd bynnag, gwelir cynnydd sylweddol yn y niferoedd sy'n ddigartref mewn ardaloedd gwledig. Mae rhai sylwadau yn awgrymu bod digartrefedd mewn ardaloedd gwledig yn llai gweladwy, a bod nodweddion daearyddol a seilwaith yr ardaloedd hyn yn achosi heriau wrth ymateb i'r cynnydd hwn. Mae ardaloedd gwledig yn tueddu i ddarparu llai o wasanaethau i gefnogi unigolion sy'n ddigartref a gall fod yn heriol cael gafael ar y gwasanaethau hyn oherwydd yr opsiynau cyfyngedig o ran trafnidiaeth gyhoeddus.[59]

21. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Ardaloedd Gwledig yn nodi tair prif thema sy'n ymwneud ag effaith y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) i gymunedau gwledig: cyflenwad a galw; diffyg dewis a chysylltiad lleol.

### Y Gymraeg

22. Gall digartrefedd gael nifer o effeithiau negyddol a thrawmatig ar unigolyn. Gall fod i'r effeithiau hyn oblygiadau cymunedol, diwylliannol ac ieithyddol ehangach, yn enwedig i gymunedau Cymraeg eu hiaith. Gall digartrefedd arwain at ddadleoli, a all darfu ar gymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf. Gall dadleoli o'r fath leihau'r defnydd o'r Gymraeg mewn rhyngweithio beunyddiol a gwanhau cysylltiadau cymunedol sy'n cefnogi'r iaith.

23. Bydd y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn cyfrannu at nod ehangach Llywodraeth Cymru o hwyluso a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae sawl darpariaeth allweddol yn rhoi cyfleoedd ehangach i awdurdodau cyhoeddus ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn yr un modd, mae'r darpariaethau hyn yn cynnig cyfleoedd ehangach i geiswyr yn y system ddigartrefedd i ymgysylltu ag awdurdodau drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd rhai darpariaethau yn helpu i ymgorffori a phrif ffrydio'r Gymraeg yn y broses o ddarparu gwasanaethau digartrefedd. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynglŷn ag effeithiau negyddol posibl ar gymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys cysylltiad lleol a dulliau cyfathrebu hygyrch, a ystyriwyd ymhellach yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

### Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

24. Mae ymchwil a gyhoeddwyd yn 2021 yn awgrymu yn y degawd ers i Lywodraeth Cymru ddeddfu mewn perthynas â digartrefedd ddiwethaf, fod y bwlch rhwng cyfraddau cyflogaeth yng Nghymru a gweddill y DU wedi mynd yn llai. Fodd bynnag, gwelwyd gwasgfa ar safonau byw oherwydd twf gwan mewn cyflogau, diwygiadau lles a thwf yn y mathau o waith sy'n talu cyflogau is a mathau ansafonol o waith. Yn ystod y degawd gwelwyd hefyd y duedd tuag i lawr mewn tlodi yn arafu a mwy o dlodi mewn gwaith.[60]

[59] Adroddiad Digartrefedd Gwledig - 09.06.doc
[60] y-monitor-digartrefedd-cymru-2021.pdf

25. Er gwaethaf ymchwil sy'n dangos bod amodau tai wedi gwella dros y degawd diwethaf, ceir sawl problem o hyd o ran tai sy'n effeithio'n anghymesur ar y rhai sy'n wynebu anfantais gymdeithasol neu economaidd.

26. Mae tlodi ac ansefydlogrwydd economaidd yn ei gwneud yn anodd i unigolion fforddio hanfodion fel tai ac yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd. Mae pobl sy'n byw mewn tlodi yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lety fforddiadwy; gall y farchnad eiddo fod yn anhygyrch i lawer oherwydd costau tai cynyddol ac mae rhenti uchel yn golygu bod llawer o bobl yng Nghymru yn gwario cyfran fawr o'u hincwm ar lety.

27. Gall anghydraddoldeb systemig, gan gynnwys gwahaniaethu ar sail hil, rhywedd, a nodweddion gwarchodedig eraill gyfyngu ar fynediad at addysg, cyflogaeth, a thai, gan beri i gylchoedd tlodi a digartrefedd barhau. Yn ei adolygiad o amodau cymdeithasol sy'n effeithio ar ddigartrefedd nododd *The International Journal for Equity in Health* fod y profiad o anfantais gymdeithasol yn ystod ieuenctid yn effeithio ymhellach ar gyfleoedd bywyd y bobl hynny ac mai'r amodau hyn oedd yn gyfrifol am leihau'r cyfleoedd mewn bywyd a oedd ar gael iddynt, gan achosi eu digartrefedd.[61] Yn ôl ymchwil Llywodraeth Cymru, mae hanner y boblogaeth Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru yn byw mewn eiddo rhent, o gymharu ag ychydig llai na thraean o'r boblogaeth Wyn. Hefyd, tueddir i weld mwy o orlenwi mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru, sy'n cyfrannu ymhellach at anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau gwaeth o ran llesiant.[62]

*28.* Fel y mae Monitor Digartrefedd 2021 yn crynhoi: *"mae'r gwendidau unigol, yr anghenion cymorth a'r ymddygiad 'cymryd risg' sy'n gysylltiedig â digartrefedd rhai pobl eu hunain yn aml, er nad bob amser, wedi'u gwreiddio yn y pwysau sy'n gysylltiedig â thlodi a mathau eraill o anfantais strwythurol. Ar yr un pryd, gall 'angor' cysylltiadau cymdeithasol sy'n gallu gweithredu fel 'byffer' sylfaenol i ddigartrefedd, gael ei roi dan straen sylweddol oherwydd amgylchiadau ariannol anodd. Felly, gellid disgwyl hefyd i amgylchiadau economaidd sy'n gwaethygu yng Nghymru arwain at fwy o wendidau 'unigol' a 'rhyngbersonol' mewn perthynas â digartrefedd dros amser".*[63]

29. Felly, mae tlodi yn biler sylfaenol sy'n llywio risg o ddigartrefedd ledled y DU; bydd proffil economaidd-gymdeithasol Cymru yn effeithio ar y tebygolrwydd o ddigartrefedd, a hefyd brofiad unigolion o dlodi. Bydd gwelliannau i systemau sy'n cefnogi'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru yn dod â manteision economaidd a gwelliannau cymdeithasol yn yr hirdymor.

---

[61] Social conditions of becoming homelessness: qualitative analysis of life stories of homeless peoples | International Journal for Equity in Health | Testun Llawn
[62] Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau (crynodeb) [HTML] | LLYW.CYMRU
[63] ibid

**Cyfiawnder**

30. Mae'r Bil yn diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Tai 1996 er mwyn gwella'r system ddigartrefedd yng Nghymru, gan bwysleisio gweithgarwch ymyrryd yn gynt ac atal. Mae'n cyflwyno dyletswyddau newydd i awdurdodau lleol, ynghyd â rhagor o hawliau ar gyfer ymgeiswyr i ofyn am adolygiad, a all gynyddu nifer y penderfyniadau sy'n destun adolygiadau gan y llys sirol.

31. Rydym wedi ystyried effeithiau'r Bil ar y system gyfiawnder. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau Ffurflen Nodi Effaith ar y System Gyfiawnder i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, a nododd effaith bosibl fach ar y system gyfiawnder. Bydd hyn yn llywio ac yn hwyluso trafodaethau Llywodraeth Cymru â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth ystyried effaith barhaus cynigion y Bil ar y system gyfiawnder.

32. Ni fydd y Bil yn cyflwyno unrhyw droseddau ychwanegol ac ni fydd ychwaith yn cyflwyno unrhyw gosbau, cyfundrefnau cosbi na mesurau gorfodi. Yr unig fecanwaith gorfodi wedi'i gyflwyno gan y Bil yw cyfarwyddyd yn gwneud pŵer i Lywodraeth Cymru (yn dilyn yr awdurdod tai lleol yn atgyfeirio'r mater atynt) i orfodi landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio â chais wedi'i wneud iddynt gan yr awdurdod lleol i ddarparu llety ar gyfer aelwyd y mae'r brif ddyletswydd tai yn ddyledus iddo. Gellir gorfodi'r cyfarwyddyd drwy orchymyn gorfodol gan ddefnyddio gweithdrefnau llys presennol.

33. Aseswyd y bydd yr effaith yn isel oherwydd y bydd hawliau apelio presennol yn cael eu diwygio i ymdrin â'r penderfyniadau hyn, ac na fydd angen unrhyw weithdrefnau llys newydd. Mae'n bosibl y bydd hawliau newydd ar gyfer ymgeiswyr i ofyn am adolygiad ar gyfer amryw faterion a chyfnodau estynedig ar gyfer adolygiadau o addasrwydd llety yn cynyddu nifer yr adolygiadau mewnol ac achosion llys sirol, ond disgwylir i'r effaith gyffredinol ar y llysoedd fod yn fach. Yn ogystal, bydd y cyfarwyddyd i wneud pŵer yn defnyddio gweithdrefnau llys presennol.

34. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried yr effaith bosibl ar y system gyfiawnder o ganlyniad i fwy o debygolrwydd o Adolygiadau Barnwrol sy'n asesu cyfreithlondeb penderfyniadau cyrff cyhoeddus. Nid yw data ar Adolygiadau Barnwrol ym maes digartrefedd yn cael eu casglu fel mater o drefn, ond mae data Shelter Cymru yn awgrymu bod nifer yr achosion o'r fath yng Nghymru wedi bod yn isel, a bod eraill wedi cael eu datrys cyn dod gerbron y llys. Mae'r newidiadau arfaethedig i wneud adolygiadau yn llai tebygol yn cynnwys dileu adran 73 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a dileu'r profion ynglŷn ag angen blaenoriaethol a bwriadoldeb, sy'n ei gwneud yn ofynnol i geiswyr ddangos cymhwystra mewn perthynas â statws mewnfudo a digartrefedd yn unig.

35. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd nifer yr adolygiadau mewnol ynglŷn ag addasrwydd llety wedi'u cynnal gan yr awdurdod lleol yn annhebygol o leihau yn y byrdymor oherwydd y pwysau presennol ar stoc dai yn sgil y pandemig a'r

argyfwng costau byw, ynghyd â'r cyfnodau estynedig ar gyfer cyflwyno cais am adolygiad o addasrwydd fel y mae'r Bil yn darparu ar ei gyfer. Mae'n bosibl y gallai hyn gynyddu nifer yr achosion yn y llys sirol – fodd bynnag, bydd y rhain yn cael eu cyfyngu i apeliadau ar sail mater cyfreithiol, ac felly disgwylir i'r nifer fod yn isel. Hefyd, gyda'r ymdrechion i sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn canolbwyntio'n well ar yr unigolyn, a chael gwared ar benderfyniadau anghenion â blaenoriaeth a bwriad (a oedd yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r adolygiadau), cred Llywodraeth Cymru y bydd y ddeddfwriaeth yn fwy tebygol o leihau nifer yr adolygiadau ac apeliadau posibl yn y llys sirol yn hytrach na'u cynyddu.

**Bioamrywiaeth**

36. Mae prinder gwybodaeth am y berthynas rhwng digartrefedd a bioamrywiaeth, gan nodi'r effeithiau ehangach sy'n gysylltiedig â datblygu tai a cholli cynefinoedd a'r rôl y gall gwarchod bioamrywiaeth ei chwarae wrth leihau tlodi yn fwy cyffredinol.

37. Bydd y Bil yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i ystyried Rhan 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau) wrth benderfynu a yw llety yn addas ar gyfer rhywun. Mae'n bosibl y bydd y ddarpariaeth hon yn gwneud ystyried bioamrywiaeth yn rhan annatod o swyddogaethau digartrefedd awdurodau tai lleol. Mewn perthynas â strwythur a thu allan adeiladau, mae'n bosibl y bydd amrediad o faterion a all gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth yn codi, fel presenoldeb asbestos, bioladdwyr neu blwm yn yr amgylchedd.

38. Drwy'r hawl gryfach i ofyn am adolygiad o lety dros dro neu lety parhaol, caiff ymgeisydd godi problemau mewn perthynas â strwythur neu du allan llety. Fel y nodir uchod, mae nifer o broblemau sy'n gysylltiedig â strwythur neu du allan adeiladau sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol ar fioamrywiaeth, megis mwynau ffeibrog niweidiol neu sylweddau cemegol niweidiol yn yr amgylchedd.

39. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y gall adroddiadau Gweinidogion Cymru ar ddefnyddio llety dros dro a chyflwr y llety hwnnw ystyried bioamrywiaeth, yn enwedig pan fydd mwynau ffeibrog gwenwynig yn bresennol oherwydd diffyg cynnal a chadw neu ddifrod i strwythur neu du allan adeiladau

**Diogelu data**

40. Bydd sawl un o ddarpariaethau'r Bil yn golygu rhannu data personol rhwng awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, a chyrff penodedig. Mae'r darpariaethau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol presennol eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i ddata gael eu rhannu er mwyn hyrwyddo cydweithrediad o fewn awdurdodau lleol a'r tu allan iddynt. Ni fydd y cynigion deddfwriaethol yn pennu manylion y data y bydd awdurdodau lleol yn eu casglu neu eu prosesu, ond bydd yn ofynnol darparu data ar gyfer asesiadau a chymorth digartrefedd.

41. Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar waith i fanylu ar effaith y Bil ar brosesu gwybodaeth bersonol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi

ymgysylltu'n agos â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y broses ddrafftio.

**Iechyd**

42. Gall tai gael effaith sylweddol ar iechyd a llesiant unigolyn. Mae ymchwil Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi canfod bod iechyd corfforol ac iechyd meddwl y rhai sydd â phrofiad bywyd o ddigartrefedd yn wael ar y cyfan, lle mae gan bron traean ohonynt gyflyrau iechyd hirdymor eisoes cyn iddynt gael eu nodi'n rhai digartref mewn data ar ofal iechyd.[64] Mae'r rhai sy'n ddigartref yn fwy tebygol o wynebu risg uwch o broblemau corfforol a phroblemau iechyd meddwl cronig ac yn fwy tebygol o ymddwyn mewn ffyrdd sy'n 'niweidiol i iechyd'.[65] Maent hefyd yn fwy tebygol o farw o ganlyniad i ganser a hunanladdiad, a bydd ganddynt gyfraddau uwch o gamddefnyddio alcohol a sylweddau, a chyfraddau uwch o glefydau anadlol.

43. Bydd y diwygiadau yn hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n seiliedig ar y ddealltwriaeth y gall amlygiad i drawma effeithio ar iechyd a llesiant meddyliol a chorfforol unigolyn.

44. Mae'n bosibl y bydd y diwygiadau arfaethedig hefyd yn cael effaith ariannol gadarnhaol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol; mae tai o ansawdd gwael yng Nghymru yn costio mwy na £95m y flwyddyn i'r GIG o ran costau triniaethau yn y flwyddyn gyntaf (sy'n ymwneud â salwch a damweiniau a achosir gan broblemau megis gwresogi gwael a grisiau peryglus) yn unig.[66] Mae Pricewaterhouse Coopers (PWC) yn amcangyfrif, am bob £1 a fuddsoddir mewn datrysiadau i symud pobl yn uniongyrchol allan o ddigartrefedd, y cynhyrchir £2.80 mewn buddiannau.

45. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi'r pwysau presennol ar y GIG o ran adnoddau a chadw staff. Mae posibilrwydd y bydd y diwygiadau yn creu effaith negyddol pwysau cynyddol ar wasanaethau ac adnoddau iechyd yn ystod y cyfnod pontio oherwydd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau gan y sector tai a sectorau eraill. Ystyrir y rhain ymhellach yn ein hasesiad Sgrinio'r Effaith ar Iechyd.

---

64 https://phw.nhs.wales/publications/publications1/iechyd-unigolion-sydd-a-phrofiad-personol-o-ddigartrefedld-yng-nghymru-yn-ystod-y-pandemig-covid-19-adroddiad/
65 https://phwwhocc.co.uk/wp-content/uploads/2020/07/Report-Welsh.pdf
66 Gwneud Gwahaniaeth – Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi (2019)

## Pennod 12

## Adolygu ar ôl gweithredu

1. Mae'r Bil yn rhan o ddull strategol o drawsnewid y system ddigartrefedd gyfan yng Nghymru ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth a gynhaliwyd dros Dymor y Bumed Senedd (ac yn flaenorol), gan dynnu ar fewnbwn arbenigol gan arbenigwyr digartrefedd ac ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys awdurdodau tai lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol i archwilio effeithiau'r gwahanol opsiynau polisi yn llawn.

2. Bydd y gwaith hwn yn sail i ymgysylltu parhaus wrth i'r diwygiadau gael eu gweithredu, gydag asesiad parhaus o sut mae'r ddeddfwriaeth wedi cael effaith ac wedi cyflawni'r bwriad polisi.

3. Cynigir y bydd nifer o ddulliau yn cael eu defnyddio i fesur effaith y Bil. Bydd y dulliau hyn yn cynnwys ymchwil a gwerthuso gyda rhanddeiliaid yn ogystal â chasglu data.

## Gwerthuso

4. Byddwn yn comisiynu gwerthusiad annibynnol o effaith y Bil, a fydd yn cyd-fynd â'r cychwyn a'n cynllun ar gyfer gweithredu fesul cam.  Bydd y gwerthusiad hwn yn asesu, ymhlith pethau eraill, sut mae'r ddeddfwriaeth wedi cael effaith ac wedi cyflawni bwriad polisi.

## Data ar ddigartrefedd

5. Mae Llywodraeth Cymru yn casglu data gan awdurdodau lleol i fonitro lefelau digartrefedd yng Nghymru, drwy gasglu data misol: *Darpariaeth llety digartrefedd a chysgu allan* a chasglu data *Digartrefedd Statudol* ddwy waith y flwyddyn. Strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer data digartrefedd yng Nghymru yw disodli'r casgliadau data cyfanredol hyn gyda chasgliad data ar lefel achosion unigol. Mae cydweithwyr yn yr is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi dechrau gweithio ochr yn ochr ag Ymchwil Data Gweinyddol (ADR) Cymru ar y prosiect data ar lefel achosion unigol.

6. Bydd cipio data trwy gasgliadau data presennol a newydd yn allweddol wrth fesur effeithiolrwydd y diwygiadau a weithredwyd.

7. Mae union amserlenni ar gyfer cyflwyno'r prosiect data ar lefel achosion unigol i'w cadarnhau, ond disgwylir iddynt gyd-fynd â'r newidiadau mewn deddfwriaeth. Pan fydd y system ar lefel achosion unigol wedi'i chwblhau, bydd hyn yn galluogi data mwy amserol ar daith unigolyn trwy'r system digartrefedd ac yn ei dro yn cynorthwyo i fonitro a gwerthuso effaith y diwygiadau, gan gynnwys ffocws arbennig ar gyfraddau atal a lleddfu digartrefedd.

8. Hyd nes y bydd y prosiect hwn wedi'i gwblhau, ac wrth i'r Bil gael ei fireinio, bydd diwygiadau i gasgliadau data presennol yn cael eu hystyried i gyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a'r dyletswyddau newydd.

**Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd a Fframwaith Canlyniadau**

9. Ochr yn ochr â'r gwerthusiad annibynnol arfaethedig o effaith y Bil, byddwn hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gweithredu'r Bil yn cynorthwyo i gyflawni'r camau perthnasol a nodir yn y Cynllun Gweithredu Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae'r Cynllun Gweithredu yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer gwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru ac mae'n cynnwys y Fframwaith Canlyniadau ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd (EHOF). Mae'r EHOF yn darparu trosolwg o'r gwaith i atal digartrefedd a rhoi diwedd arno, a hynny gan nodi canlyniadau hirdymor a dangos y cynnydd tuag at sicrhau'r canlyniadau hynny dros amser. Mae'r Bil yn ffordd allweddol o gyflawni canlyniadau strategol 1,2,3,5 a 6 o'r EHOF.[67]

**Adolygu'r defnydd o lety dros dro**

10. Mae'r Bil yn cynnwys gofyniad i adolygu cyflwr llety dros dro a'r defnydd ohono yn rheolaidd. Bydd yr adolygiadau hyn yn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad dai cymdeithasol a byddant yn llywio gwaith diwygio parhaus a newidiadau deddfwriaethol mewn perthynas ag addasrwydd, safonau a mathau o lety i'w defnyddio i ddarparu lleoliadau llety dros dro. Bydd data ar lefel achosion unigol yn gwella'r systemau cyfredol gan alluogi adolygiad mwy effeithiol o'r defnydd o lety dros dro a'i addasrwydd yn ogystal â darparu mwy o sgôp i ddadansoddi data demograffig.

**Ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd**

11. Bydd y dull graddol a ddefnyddir i gychwyn y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn rhoi cyfle parhaus i barhau i ymgysylltu â phartneriaid cyflenwi i ystyried ei weithredu yng nghyd-destun cyflenwad tai a chapasiti awdurdodau tai lleol. Bydd y ddyletswydd arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ofyn am farn pobl sydd wedi profi neu sydd wedi cael eu bygwth â digartrefedd wrth ddatblygu'r canllawiau ategol, yn llywio'r broses o weithredu'r gwaith hwn.

**Y cyflenwad o dai**

12. Mae rhoi terfyn ar ddigartrefedd yn dibynnu ar lwyddiant y gwaith sy'n eistedd y tu allan i gwmpas y Bil ond sy'n ategu ei ddarpariaethau.

[67] Y 6 canlyniad yw 1) Prin, 2) Byrhoedlog, 3) Ddim yn digwydd eto, 4) Gweithlu: 5) Ymateb Gwasanaeth Cyhoeddus a 6) Canolbwyntio ar yr unigolyn

13. Mae dwy ffrwd waith benodol sy'n bodoli eisoes yn hanfodol i roi diwedd ar ddigartrefedd, sef Ailgartrefu Cyflym a Tai yn Gyntaf, ac mae'r ddwy ohonynt yn dibynnu ar gyflenwad o lety addas. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn alinio'r broses o weithredu'r Bil â'r ymrwymiad parhaus i gynyddu'r cyflenwad tai.

**Atodiad 1**

## Nodiadau Esboniadol

## BIL DIGARTREFEDD A DYRANNU TAI CYMDEITHASOL (CYMRU)

---

NODIADAU ESBONIADOL

### CYFLWYNIAD

1. Mae’r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) a gyflwynwyd i Senedd Cymru ar 19 Mai 2025.

2. Fe’u lluniwyd gan Grŵp Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo’r sawl sy’n darllen y Bil ac i helpu’r drafodaeth arno. Nid ydynt yn rhan o’r Bil ac nid ydynt wedi eu cymeradwyo gan Senedd Cymru.

3. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â’r Bil, ond nid ydynt yn rhan ohono. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o’r Bil.

### CEFNDIR POLISI

4. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) a Deddf Tai 1996 (“Deddf 1996”) yn sefydlu’r fframwaith ar gyfer gwasanaethau digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol yng Nghymru. Dros y degawd diwethaf, mae’r ymateb i ddigartrefedd wedi datblygu’n sylweddol yn sgil y pandemig, y rhyfel yn Wcráin, a’r argyfwng costau byw, sydd wedi cynyddu’r pwysau ar y gwasanaethau hyn. Mae angen diwygio deddfwriaethol er mwyn gwella dulliau atal, darparu gwasanaethau unigol, a gwneud gwell defnydd o’r cyflenwad o dai.

5. Nod y Bil hwn, sydd wedi ei ddatblygu drwy ymgysylltu’n helaeth â rhanddeiliaid, yw diwygio cyfreithiau presennol a chyflwyno darpariaethau newydd er mwyn mynd i’r afael yn well â digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol. Mae’n rhoi pwyslais ar atal, ymyrryd yn gynnar, a defnyddio dull sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ehangu cyfrifoldeb ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru gyda’r nod o wneud digartrefedd yn beth prin a byrhoedlog, na fydd yn digwydd eto.

6. Lluniwyd y Bil hwn yn dilyn ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ar bolisïau digartrefedd a dyrannu tai cymdeithasol, a gynhaliwyd rhwng mis Hydref 2023 a mis Ionawr 2024. Mae’r dogfennau ymgynghori, yr ymatebion, a chrynodeb o’r ymatebion, wedi eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru | LLYW.CYMRU.

### STRWYTHUR Y BIL

7. Mae’r Bil yn cynnwys 43 o adrannau (mewn tair Rhan) ac un Atodlen. Mae’r Rhan gyntaf yn ymwneud â digartrefedd, mae’r ail Ran yn ymwneud â dyrannu

tai cymdeithasol ac mae'r drydedd Ran yn cynnwys darpariaethau cyffredinol. Mae'r Atodlen yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

**SYLWADAU AR YR ADRANNAU**

**RHAN 1**
**DIGARTREFEDD**

**Adran 1: Ystyr "o dan fygythiad o ddigartrefedd"**

8. Mae adran 55(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn darparu yr ystyrir bod person "o dan fygythiad o ddigartrefedd" os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau.

9. Mae'r adran hon yn diwygio adran 55(4) i bennu tri amgylchiad pryd yr ystyrir bod person "o dan fygythiad o ddigartrefedd". Yn gyntaf, pan fo hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddyroddi i'r person, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo roi'r gorau i'w lety, yn ail, pan fo cais wedi ei wneud i'r llysoedd am orchymyn adennill meddiant mewn perthynas â llety'r person, neu'n drydydd, os yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn chwe mis.

10. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod is-adran newydd 55(5) sy'n egluro bod is-adran (4)(a) yn benodol gymwys i hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rywun ildio meddiannaeth o lety a ddyroddir gan rywun yr ymddengys ei fod â'r hawl i roi hysbysiad o'r fath, ni waeth a yw'r hysbysiad yn ddilys na beth fo rhinweddau unrhyw hawliad posibl am feddiant o'r llety.

**Adran 2: Cymorth i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref**

11. Mae adran 65 o Ddeddf 2014 yn nodi'r hyn y mae rhaid i awdurdod tai lleol ei wneud pan fydd yn ofynnol iddo "cynorthwyo i sicrhau" bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i geisydd. Rhaid i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i gynorthwyo, a gall ystyried yr angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod. Nid yw'n ofynnol iddo ddarparu llety.

12. Ar hyn o bryd mae adran 66 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gynorthwyo i atal ceiswyr rhag dod yn ddigartref drwy gynorthwyo i sicrhau bod llety addas yn parhau i fod ar gael. Yn benodol, os yw ceisydd o dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn gymwys i gael cymorth, rhaid i'r awdurdod tai lleol gymryd camau i gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd. Nid yw'r ddyletswydd hon yn effeithio ar hawl yr awdurdod i sicrhau meddiant gwag o unrhyw lety.

13. Mae'r adran hon yn dileu adran 65 o Ddeddf 2014 ac yn mewnosod darpariaethau newydd yn adran 66. O dan adran 66 (fel y'i diwygiwyd), pan fo awdurdod tai lleol yn fodlon bod ceisydd mewn perygl o ddod yn ddigartref a'i fod yn gymwys i gael cymorth, rhaid i'r awdurdod gymryd camau rhesymol sy'n debygol o sicrhau bod llety addas yn parhau i fod ar gael i'r ceisydd. Mae adran newydd 66(1B) yn egluro nad yw hyn yn golygu bod rhaid i'r awdurdod gynnig llety o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 nac fel arall.

**Adran 3: Dyletswydd i asesu a hysbysiad am ganlyniad asesiad**

14. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 62 a 63 o Ddeddf 2014.

15. Mae adran 62 o Ddeddf 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i asesu achos ceisydd os yw'r ceisydd yn gwneud cais am lety neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, a'i bod yn ymddangos bod y ceisydd yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Diben yr asesiad yw penderfynu a yw'r ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan Ran 2 o Ddeddf 2014. Os yw person yn gymwys i gael cymorth, rhaid i'r awdurdod tai lleol gynnal asesiad o nifer o faterion eraill.

16. Mae is-adran 62(3) yn diffinio ceisydd fel rhywun y mae'r ddyletswydd i asesu yn ddyledus iddo. Nid yw'n ofynnol cynnal asesiad os yw awdurdod tai lleol wedi asesu'r person hwnnw yn flaenorol, a bod yr awdurdod tai lleol y gwnaed y cais iddo yn fodlon nad yw amgylchiadau'r person wedi newid ers i'r asesiad hwnnw gael ei gynnal ac nad oes dim gwybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar yr asesiad. Mae'r ddyletswydd yn ddyledus i berson sy'n gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, a'i bod yn ymddangos i'r awdurdod y gallai'r person fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'r adran hon yn diwygio'r diffiniad o geisydd at ddibenion adrannau 85, 86 ac 88 (sy'n ymwneud ag adolygiadau o benderfyniadau ac apelau dilynol i'r llys sirol) er mwyn cynnwys person sydd wedi gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond bod yr awdurdod wedi penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos y person. Mae'r diwygiad hwn yn ymwneud ag estyn yr hawl i adolygiad o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i beidio â chynnal asesiad o dan adran 62.

17. Os yw ceisydd yn gymwys i gael cymorth, rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys asesiad o'r materion a restrir yn adrannau 62(5) a (6). Mae'r adran hon yn diwygio adran 62(5) i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol asesu dau beth newydd. Yn gyntaf, y gefnogaeth y gall fod ei hangen ar geisydd (neu ar berson sy'n byw gydag ef) i oresgyn unrhyw rwystrau rhag byw'n annibynnol. Yn ail, y gefnogaeth y gall fod ei hangen ar geisydd i sicrhau bod cyfathrebu'r awdurdod â'r ceisydd mewn perthynas â swyddogaethau digartrefedd yr awdurdod yn hygyrch i'r ceisydd.

18. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 62(6). Fel y'i diwygiwyd, mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol geisio safbwyntiau'r ceisydd (ac ystyried ei farn) ar y materion sydd i'w hasesu o dan baragraffau (a) i (ca) o is-adran (5), ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol wneud ymholiadau perthnasol ynghylch nodweddion ac amgylchiadau personol y ceisydd, yn ogystal â nodweddion ac amgylchiadau personol unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd.

19. Mae adran 62(7) wedi ei diwygio fel na chaiff awdurdod lleol asesu'r materion yn is-adran (6) mwyach cyn ei fod wedi penderfynu bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan Bennod 2 o Ddeddf 2014.

20. Mae adran 62(9), a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol adolygu ei asesiad o dan ddau amgylchiad penodol, wedi ei dileu. Mae is-adran (10) hefyd wedi ei dileu gan ei bod yn ymwneud ag adolygiadau o dan is-adran (9). Mae is-adran (11) hefyd wedi ei dileu gan ei bod yn ymwneud ag is-adrannau (9) a (10).

21. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 63(1) o Ddeddf 2014, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd am ganlyniad ei asesiad a'i benderfyniadau (neu unrhyw adolygiad o'i asesiad). Mae'r adran hon yn mewnosod is-adran newydd (A1) sy'n gymwys pan fo awdurdod tai lleol yn penderfynu peidio ag asesu achos person sydd wedi gwneud cais o dan

adran 62. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r person ac egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad.

22. Pan fo asesiad wedi ei gynnal, fel y'i diwygiwyd rhaid i'r hysbysiad gynnwys canlyniad yr asesiad ynghylch a yw ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan Bennod 2 a'i asesiad o'r materion penodol sy'n ofynnol gan adran 62(5) (fel y'i diwygiwyd). Mae hefyd yn diwygio adran 63(4) i'w gwneud yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd am ei hawl i ofyn am adolygiad pan fo'r awdurdod tai lleol yn penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos y person o dan adran 62.

## Adran 4: Cynlluniau atal, cefnogaeth a llety

23. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau newydd 63A a 63B yn Neddf 2014. Os yw'n ymddangos i awdurdod lleol y gallai person fod yn ddigartref, neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, ac yn gymwys i gael cymorth, mae'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol gynnal asesiad o achos y person (gweler adran 62 o Ddeddf 2014). Rhaid i'r asesiad hwnnw edrych ar amryw o faterion, gan gynnwys yr amgylchiadau a achosodd i'r person fod yn ddigartref neu iddo fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, anghenion tai y person, a'r gefnogaeth y mae ei hangen arno er mwyn iddo allu cadw llety addas.

24. Pan fo awdurdod tai lleol yn ystyried bod arno ddyletswydd i geisydd o dan ddarpariaethau Pennod 2 o Ddeddf 2014, mae adran newydd 63A yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddogfennu ei asesiad o dan adran 62, a materion eraill, mewn cynllun ysgrifenedig (cynllun atal, cefnogaeth a llety). Gall y cynllun atal, cefnogaeth a llety hwnnw fod yn un ddogfen neu'n nifer o ddogfennau, a gellir ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

25. Pan fydd yn llunio'r cynllun, rhaid i'r awdurdod tai lleol roi sylw i'w asesiad o achos y person o dan adran 62, a phan fydd yn adolygu'r cynllun, rhaid i'r awdurdod adolygu ei asesiad o dan adran 62. Rhaid i'r cynllun gofnodi asesiad yr awdurdod o anghenion tai ac anghenion cefnogaeth y person, ac anghenion tai ac anghenion cefnogaeth unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd. Rhaid iddo hefyd gofnodi asesiad yr awdurdod tai lleol o'r gefnogaeth y mae ei hangen ar y ceisydd i wneud y cyfathrebu â'r ceisydd yn hygyrch. Rhaid i'r cynllun hefyd gynnwys safbwyntiau'r person ar y materion hynny a sut y bydd yr awdurdod yn cyfathrebu â'r person mewn ffordd hygyrch, os nodir yr anghenion hynny wrth asesu.

26. Rhaid i'r awdurdod geisio canfod yr hyn y mae'r person eisiau ei gyflawni gyda chymorth yr awdurdod, a chofnodi'r nodau hyn yn y cynllun. Pan fydd yn paratoi ac yn adolygu'r cynllun, rhaid i'r awdurdod roi sylw i a allai arfer unrhyw o'i swyddogaethau ym Mhennod 2 o Ddeddf 2014 gynorthwyo i gyflawni'r nodau hynny.

27. Yn dilyn yr asesiad, rhaid i'r awdurdod tai lleol weithio gyda'r person i gytuno ar y camau gweithredu sydd i'w cymryd gan y ddau barti i sicrhau bod gan y person lety addas a'i fod yn gallu cadw'r llety hwnnw.

28. Os cytunir ar gamau gweithredu gan y ddau barti, yna rhaid i'r awdurdod tai lleol gofnodi'r camau gweithredu yn ysgrifenedig. Os na all y partïon gytuno, rhaid i'r awdurdod tai lleol nodi yn ysgrifenedig pam na allent gytuno, pa gamau y mae'n meddwl y dylai'r person eu cymryd a pha gamau y bydd yr awdurdod lleol yn eu cymryd wrth arfer ei swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod). Rhaid i'r awdurdod tai lleol hefyd gofnodi unrhyw gamau y mae awdurdodau cyhoeddus eraill wedi cytuno i'w

cymryd ar gyfer y person. Rhaid i'r awdurdod tai lleol gadw o dan adolygiad briodoldeb unrhyw gytundeb y deuir iddo neu, yn absenoldeb cytundeb, y camau y mae'n ystyried y dylai ef a'r person eu cymryd, cyhyd ag y bo arno (neu y gall fod arno) ddyletswydd i'r ceisydd o dan ddarpariaethau Pennod 2.

29. Rhaid i'r awdurdod tai lleol roi copi o'r cynllun i'r person, gan gynnwys yr holl ddogfennau sy'n ffurfio rhan ohono, a rhaid iddo roi gwybod i'r person am ei hawl i ofyn am adolygiad o'r cynllun a'r amserlenni (gweler adran 85 o Ddeddf 2014).

30. Os yw'r awdurdod tai lleol yn ystyried nad yw'r cytundeb y daethpwyd iddo neu, yn absenoldeb cytundeb, y camau a nodwyd i'w cymryd, yn briodol mwyach, er enghraifft oherwydd bod amgylchiadau newydd wedi codi, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig a cheisio cytuno eto ar gamau i'w cymryd, cofnodi'r camau hynny ac unrhyw gamau eraill, a hysbysu'r person fel o'r blaen. Rhaid i unrhyw hysbysiad neu unrhyw gopïau o ddogfennau gael eu rhoi ar gael i'r person eu casglu os nad yw wedi eu cael yn uniongyrchol.

31. Pan fo'n ofynnol i awdurdod tai lleol gael cynllun atal, cefnogaeth a llety yn ei le mewn cysylltiad â pherson o dan adran newydd 63A, mae adran newydd 63B yn ei gwneud yn ofynnol iddo adolygu ei asesiad o'r person hwnnw o dan adran 62 a'r cynllun cysylltiedig o dan dri amgylchiad. Yn gyntaf, os nad oes adolygiad wedi ei gynnal o fewn 8 wythnos; yn ail, os yw sefyllfa'r ceisydd neu sefyllfa ei aelwyd wedi newid mewn ffordd sy'n effeithio ar ei anghenion llety, ar y gefnogaeth y mae ei hangen arno neu ar ei hawlogaeth i gymorth o dan Bennod 2; neu'n drydydd, os yw dyletswydd o dan adran 66 neu 76A wedi dod i ben neu'n debygol o ddod i ben gan fod y ceisydd yn ddigartref.

**Adran 5: Hawl i ofyn am adolygiad**

32. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 84, 85, 86 ac 88 o Ddeddf 2014.

33. Mae adran 84(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol hysbysu ceisydd am faterion penodedig os yw'n penderfynu bod dyletswyddau penodol i'r ceisydd wedi dod i ben.

34. Mae adran 5(2) yn mewnosod is-adran newydd (1A) yn adran 84 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol hysbysu ceisydd am ei hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd llety a gynigir iddo o dan Bennod 2, pa un a dderbyniodd y cynnig ai peidio.

35. Mae adran 5(3) yn diwygio adran 85 o Ddeddf 2014, sy'n rhoi'r hawl i geiswyr i ofyn am adolygiad o benderfyniadau a wneir o dan Bennod 2 o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'u hachos. Mae adran 5(3)(a) yn ehangu'r rhestr o faterion y caniateir eu hadolygu mewn perthynas â dyletswyddau newydd yn y Bil. Yn ogystal â'i hawliau presennol i ofyn am adolygiad, mae gan berson hawliau newydd i ofyn am adolygiad pan fydd awdurdod tai lleol yn gwneud y canlynol:

   a. penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos person o dan adran 62;
   b. asesu anghenion tai y person ac anghenion ei aelwyd;
   c. asesu'r gefnogaeth y mae ei hangen ar y person a'i aelwyd i gadw eu llety ac i oresgyn unrhyw rwystr rhag byw'n annibynnol;
   d. paratoi cynllun atal, cefnogaeth a llety;
   e. penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 76A (dyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas) neu bod y ddyletswydd hon yn dod i ben.

36. Mae adran 85(5) o Ddeddf 2014 yn datgan bod rhaid i berson, yn gyffredinol, ofyn am adolygiad o fewn 21 o ddiwrnodau i gael ei hysbysu am y penderfyniad. Fodd bynnag, mae adran newydd 85(4A) (a fewnosodir gan adran 5(3)(b)) yn caniatáu i berson ofyn am adolygiad o'r cynllun atal, cefnogaeth a llety ar unrhyw adeg tra bo'r cynllun yn cael ei gynnal.

37. Mae adran newydd 85(4B) (a fewnosodir gan adran 5(3)(b)) yn estyn y cyfnod pan all person ofyn am adolygiad o addasrwydd llety a gynigir o dan Bennod 2. Mae'n caniatáu i berson ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg naill ai cyn i'r cynnig gael ei dderbyn neu, pan fo cynnig wedi ei dderbyn, ar unrhyw adeg pan fydd dyletswydd yn adran 66, 68 neu 75 o Ddeddf 2014 yn gymwys, neu o fewn 6 mis i'r llety gael ei roi ar gael i'r ceisydd. O ran adolygiadau nad ydynt wedi eu cwmpasu gan yr adrannau newydd hyn, rhaid gwneud y cais o fewn 21 o ddiwrnodau i gael hysbysiad, oni bai y caniateir rhagor o amser.

38. Mae adran 5(4) yn diwygio adran 86 o Ddeddf 2014, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer adolygiad o dan adran 85 o Ddeddf 2014. Mae adran 5(4) yn ehangu adran 86(2) fel y caiff unrhyw reoliadau o'r fath ei gwneud yn ofynnol i adolygiad o dan adran 85 gael ei gynnal gan rywun ar y lefel briodol nad oedd yn ymwneud â'r asesiad, y penderfyniad neu'r cynllun sy'n destun adolygiad. Mae hyn yn adlewyrchu'r rhestr hwy o faterion y caniateir eu hadolygu o dan adran 85, fel y'i diwygiwyd.

39. Mae adran 5(5) yn diwygio adran 88 o Ddeddf 2014, sy'n galluogi ceiswyr sydd wedi gofyn am adolygiad o dan adran 85 o Ddeddf 2014 i apelio i lys sirol o dan amgylchiadau penodol. Mae'r diwygiadau a wneir gan adran 5(5) yn adlewyrchu'r rhestr hwy o faterion y caniateir eu hadolygu o dan adran 85.

**Adran 6: Dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer personau digartref cymwys sydd â chysylltiad lleol â Chymru**

40. Mae'r adran hon yn dileu adrannau 73 a 74 o Ddeddf 2014 ac yn disodli adran 75 o'r Ddeddf honno.

41. Roedd adran 73 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol gynorthwyo i sicrhau llety addas ar gyfer ceiswyr digartref sy'n gymwys i gael cymorth. Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd, neu nad yw'n peidio â bod ar gael i'r ceisydd (gweler adran 65 o Ddeddf 2014). Mae adran 74 o Ddeddf 2014 yn nodi pryd y mae'r ddyletswydd hon yn dod i ben. Mae adran 6(2) yn dileu adrannau 73 a 74 o Ddeddf 2014. Yn lle hynny, o dan y diwygiadau a wneir gan y Bil, pan fo ceisydd yn gymwys i gael cymorth a'i fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, bydd y ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael yn ddyledus iddo (gweler adran 66 o Ddeddf 2014, fel y'i diwygiwyd), a bydd y ddyletswydd i sicrhau llety sefydlog yn ddyledus i geisydd sy'n gymwys i gael cymorth, sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd ac sydd â chysylltiad lleol ag awdurdod tai lleol yng Nghymru (gweler adran 75 o Ddeddf 2014, fel y'i hamnewidiwyd).

42. Mae adran 6(3) yn disodli adran 75 o Ddeddf 2014 yn ei chyfanrwydd. Fel y'i diwygiwyd, mae adran 75 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i sicrhau bod llety addas ar gael i geiswyr sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, ar yr amod eu bod yn gymwys i gael cynhorthwy. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys os yw'r ceisydd naill ai'n ddigartref ar hyn o bryd neu os oes ganddo lety interim addas yn ystod cyfnod o ddigartrefedd neu fygythiad o ddigartrefedd.

43. Mae'r adran 75(3) newydd yn diffinio llety interim fel llety sydd wedi ei sicrhau o dan adran 68, neu y bwriedir iddo gael ei feddiannu, neu sydd ar gael i'w feddiannu, hyd nes y cwblheir proses y cais o dan Bennod 2 o Ddeddf 2014 neu am gyfnod o lai na 12 mis neu os yw'r person sy'n darparu'r llety yn bwriadu iddo fod ar gael i'r ceisydd naill ai: hyd nes y cwblheir y cais am gymorth, neu am gyfnod o lai na 12 mis.

44. Mae'r adran 75(4) newydd ac adran newydd 75(7) yn darparu eithriadau i'r ddyletswydd yn yr adran 75 newydd. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gymwys, ac eithrio o ran categorïau penodol (gweler adran 75(5) a (6)), os nad oes gan y ceisydd (nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd) ddim cysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru (adran 75(4) newydd o Ddeddf 2014).

45. Mae adran newydd 75(5) a (6) o Ddeddf 2014 yn sicrhau y bydd y ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys i'r rheini sydd mewn perygl o gael eu cam-drin ac unrhyw gategori arall o berson a allai gael ei ragnodi mewn rheoliadau (gweler adran 75(5)(b)).

46. O ran carcharorion sy'n bwrw dedfrydau o garchar, nid yw'r ddyletswydd yn gymwys os nad yw'n rhesymol debygol y byddant yn cael eu rhyddhau o fewn chwe mis (gweler adran newydd 75(7) o Ddeddf 2014). Os yw'r ceisydd yn garcharor neu'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, mae'r ddyletswydd i sicrhau llety yn gymwys pan gaiff ei ryddhau neu pan nad yw'n ofynnol iddo aros yn y fangre a gymeradwywyd mwyach (gweler adran newydd 75(8) a (9)).

**Adran 7: Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr yn dod i ben**

47. Mae'r adran hon yn diwygio adran 76 o Ddeddf 2014 sy'n nodi'r amgylchiadau pryd y mae'r ddyletswydd o dan adran 75 o'r Ddeddf honno yn dod i ben.

48. Mae adran 7(3) yn mewnosod amgylchiadau newydd pan fydd y ddyletswydd o dan adran 75 yn dod i ben. O dan is-adran newydd (7A), bydd y ddyletswydd yn adran 75 yn dod i ben pan fo awdurdod tai lleol yn fodlon nad yw'r ceisydd yn ddigartref mwyach; bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, a'i fod yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 12 mis o leiaf; a bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am ganlyniadau posibl cytuno i'r ddyletswydd o dan adran 75 ddod i ben ac wedi cytuno y dylai'r ddyletswydd ddod i ben.

49. Mae is-adran newydd (7B) yn egluro bod y cyfnod o 12 mis a grybwyllir yn is-adran (7A) yn dechrau ar y diwrnod y mae'r hysbysiad, yn unol ag adran 84, yn cael ei anfon neu'n cael ei roi ar gael i'w gasglu, yn dangos nad yw'r awdurdod yn ystyried mwyach ei fod wedi ei rwymo gan y ddyletswydd yn adran 75. Fodd bynnag, os yw'r ceisydd yn garcharor neu'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, o dan is-adran newydd (7C), mae'r cyfnod o 12 mis yn dechrau ar y diwrnod y mae'r ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth neu nad yw'n ofynnol mwyach iddo breswylio mewn mangre a gymeradwywyd.

50. O dan is-adran newydd (7D), bydd y ddyletswydd yn adran 75 yn dod i ben pan fo ceisydd yn garcharor sy'n bwrw dedfryd o garchar a bo'r awdurdod tai lleol yn fodlon nad yw'n rhesymol debygol y bydd y ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y gwnaed y cais am gymorth, neu, os oes dyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 66 ar unrhyw adeg ar ôl i'r cais hwnnw gael ei wneud, y diwrnod y daw'r ddyletswydd o dan adran 66 i ben.

51. O dan is-adran newydd (7E), mae'r ddyletswydd yn adran 75 yn dod i ben yn unol â'r adran hon neu adran 79, hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o dan adran 85 o'r penderfyniad a arweiniodd at ddod â'r ddyletswydd i ben.

52. Mae is-adran newydd (7F) yn rhoi i'r awdurdod tai lleol y pŵer i sicrhau llety addas ar gyfer y ceisydd hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch adolygiad.

**Adran 8: Dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref**

53. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 68 a 69 o Ddeddf 2014.

54. Ar hyn o bryd, mae adran 68 yn darparu, pan fo'n ymddangos i awdurdod tai lleol y gallai ceisydd fod yn ddigartref, ei fod yn gymwys i gael cymorth, a bod ganddo angen blaenoriaethol am lety, fod rhaid i'r awdurdod sicrhau bod llety interim addas ar gael i'r ceisydd tra bo'n ymchwilio i achos y ceisydd ac yn penderfynu arno. Yn yr un modd, mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod sicrhau llety addas mewn cysylltiad â cheisydd a) y mae'r awdurdod yn meddwl bod ganddo angen blaenoriaethol am lety (neu geisydd y mae ei achos wedi ei atgyfeirio at awdurdod tai lleol yng Nghymru gan awdurdod tai lleol yn Lloegr o dan adran 198(1) o Ddeddf Tai 1996); a b) y mae'r ddyletswydd yn adran 73 (y ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref sy'n gymwys i gael cymorth) yn gymwys iddo.

55. Gan fod angen blaenoriaethol yn cael ei ddiddymu, mae is-adran 68(2) yn cael ei disodli ac mae is-adran newydd 2A)yn cael ei mewnosod sy'n nodi'r amgylchiadau newydd pan fydd rhaid sicrhau llety interim. Fel y'i diwygiwyd, mae is-adran (2) yn gymwys os yw'r awdurdod yn credu bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth ond nad yw wedi cadarnhau'r materion hyn hyd yma. Mae is-adran (2A) yn gymwys os yw'r awdurdod yn fodlon nad oes gan y ceisydd ddim cysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru a naill ai bod is-adran (2) yn gymwys neu bod yr awdurdod yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth.

56. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 69 o Ddeddf 2014 sy'n nodi'r amgylchiadau newydd pryd y mae'r ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben ac sy'n seiliedig ar newidiadau i elfennau eraill o'r ddeddfwriaeth, diddymu'r ddyletswydd yn adran 73 a diddymu'r prawf digartrefedd bwriadol.

57. Mae adran 69(2) yn cadarnhau bod y ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben pan fo asesiad yn penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 73. Mae adran 69(3) hefyd yn cadarnhau bod y ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben a phan nad yw'r ddyletswydd yn adran 75 yn ddyledus. Mae'r ddwy adran i'w dileu gan fod y ddyletswydd yn adran 73 yn cael ei hepgor o Ddeddf 2014.

58. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod is-adrannau newydd (1A) - (1C) yn adran 69. Mae is-adran newydd (1A) yn caniatáu ar gyfer dod â'r ddyletswydd yn adran 68 i ben pan fo'r asesiad wedi ei gwblhau ynghylch a yw'r ddyletswydd yn adran 75 yn ddyledus neu heb fod yn ddyledus, os yw'r awdurdod wedi penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus o dan adran 75, am resymau ac eithrio'r rheini yn adran 75(4) (nad oes gan y ceisydd (nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd) ddim cysylltiad lleol ag unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru ac nad yw'r eithriadau i adran 75(4) yn gymwys). Er mwyn i'r ddyletswydd yn adran 68 ddod i ben, rhaid bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu am benderfyniad yr awdurdod.

59. Mae is-adran newydd (1B) yn caniatáu ar gyfer dod â’r ddyletswydd adran 68 i ben ar gyfer y rheini y mae’r awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd yn ddyledus iddynt o dan adran 75 ar y sail bod adran 75(4) yn gymwys, a rhaid bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu am benderfyniad yr awdurdod. Yn ogystal, rhaid i’r awdurdod fod yn fodlon bod y llety a sicrhawyd o dan adran 68 wedi bod ar gael yn ddigon hir i roi’r cyfle i’r ceisydd ddod o hyd i lety addas. Mae is-adran newydd (1C) yn darparu bod y cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1B) yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd nad yw adran 75 yn gymwys.

60. Mae’r adran hon hefyd yn dileu adrannau 69(5) a (6), sy’n darparu bod gan geisydd y mae ei ddyletswydd yn dod i ben hawlogaeth i gael ‘cyfle rhesymol i sicrhau llety iddo ei feddiannu’, gan fod darpariaeth debyg bellach yn is-adran newydd 69(1B).

61. Mae adrannau 69(4) a (8) ill dwy wedi eu dileu gan eu bod yn ymwneud â dod â’r ddyletswydd i ben ar y sail bod ceisydd wedi cael ei asesu fel ceisydd a ddaeth yn ddigartref yn fwriadol naill ai mewn perthynas â’r hawlogaeth i’r ddyletswydd yn adran 75 neu o lety interim addas ei hun. Nid yw’r adrannau hyn yn ofynnol mwyach gan fod y prawf digartrefedd bwriadol wedi ei ddiddymu.

**Adran 9: Diddymu gwahaniaethau o ran hawlogaeth sy’n ymwneud ag angen blaenoriaethol**

62. Mae’r adran hon yn dileu adrannau 70, 71 a 72 gan ddiddymu’r prawf angen blaenoriaethol.

63. Mae adran 70 o Ddeddf 2014 yn nodi nifer o gategorïau o unigolion yr ystyrir ar hyn o bryd fod ganddynt angen blaenoriaethol am ley at ddibenion Pennod 2 o Ddeddf 2014. Mae adran 71 yn diffinio ystyr “hyglwyf”pan ddefnyddir y term hwnnw yn adran 70 i ddisgrifio’r categorïau o bobl ym mharagraffau (c) a (j) o adran 70.

64. Mae adran 9 yn dileu adrannau 70 ac 71 o Ddeddf 2014 er mwyn dileu’r system sy’n rhoi blaenoriaeth i grwpiau penodedig. Mae adran 9 hefyd yn dileu adran 72 o Ddeddf 2014, sydd ar hyn o bryd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau ynghylch angen blaenoriaethol.

**Adran 10: Diddymu gwahaniaethau o ran hawlogaeth sy’n ymwneud â digartrefedd bwriadol**

65. Mae’r adran hon yn dileu adrannau 77 a 78 o Ddeddf 2014, gan ddiddymu’r prawf digartrefedd bwriadol.

66. Mae adran 77 o Ddeddf 2014 yn nodi’r amgylchiadau pryd yr ystyrir bod person yn “ddigartref yn fwriadol” at ddibenion Pennod 2 o Ddeddf 2014. Mae is-adrannau (2), (3) a (4) yn disgrifio pryd yr ystyrir bod ceisydd yn ddigartref yn fwriadol ac felly nad yw’r ddyletswydd i sicrhau llety o dan adran 75(2) yn ddyledus iddo. O dan rai amgylchiadau, er enghraifft, os yw’r aelwyd yn cynnwys plant neu bersonau ifanc, gallai’r ddyletswydd yn adran 75(3) fod yn ddyledus i’r ceisydd.

67. Mae adran 78 yn darparu y caiff awdurdod tai lleol roi sylw i a yw person wedi dod yn ddigartref yn fwriadol at ddibenion adrannau 68 a 75 dim ond os yw’r awdurdod wedi penderfynu gwneud hynny a’i fod yn dilyn y weithdrefn ar gyfer hysbysu am y penderfyniad sy’n ofynnol gan yr adran hon. Mae’n ofynnol i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu’r categorïau o geiswyr y gallai

awdurdodau lleol ystyried a ddaethant yn ddigartref yn fwriadol. O ran adrannau 68 a 75, rhaid i awdurdod tai lleol ystyried a yw ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol os yw'r ceisydd mewn categori a bennir yn yr hysbysiad a gyhoeddwyd gan yr awdurdod.

### Adran 11: Atgyfeirio achosion at awdurdod tai lleol arall

68. Ar hyn o bryd, mae adran 80 o Ddeddf 2014 yn darparu pŵer i awdurdod tai lleol i atgyfeirio ceisydd at awdurdod tai lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr os oes arno ddyletswydd i'r ceisydd o dan adran 73 o Ddeddf 2014, os oes gan y ceisydd hwnnw angen blaenoriaethol am lety, os nad yw'r ceisydd yn ddigartref yn fwriadol, os nad oes ganddo gysylltiad lleol â'r awdurdod y gwnaeth gais iddo ac os oes ganddo gysylltiad lleol ag awdurdod tai lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr.

69. Mae'r adran hon yn diwygio adran 80 o Ddeddf 2014 drwy ddileu'r gofynion bod gan y ceisydd angen blaenoriaethol a'i fod yn ddigartref yn anfwriadol er mwyn i atgyfeiriad ddigwydd. Mae hefyd yn dileu'r gofyniad bod ar yr awdurdod tai lleol ddyletswydd i'r ceisydd o dan adran 73 o Ddeddf 2014 er mwyn i atgyfeiriad ddigwydd. Mae'r diwygiadau hyn yn ganlyniad i ddileu dyletswydd adran 73 a dileu'r profion angen blaenoriaethol a digartrefedd bwriadol gan y Bil.

70. O ganlyniad, mae is-adran (1) o adran 80 wedi ei dileu ac mae is-adran (2) wedi ei disodli gan is-adran (2) newydd ac is-adrannau newydd (2A) a (2B) i sicrhau mai dim ond y ceiswyr hynny a fyddai fel arall yn ddarostyngedig i ddyletswydd adran 75 ac, yn achos pobl sydd yn y ddalfa, o bosibl yn ystod adran 66, fydd o bosibl yn ddarostyngedig i atgyfeiriad.

71. Mae is-adran (2) a amnewidiwyd, is-adrannau newydd (2A) a (2B) ac is-adran (3) a ddiwygiwyd o adran 80 o Ddeddf 2014 yn darparu gwybodaeth bellach am amodau allweddol atgyfeiriad yn sgil cysylltiad lleol, gan gynnwys pryd y dylai ddigwydd, pwy gaiff fod yn ddarostyngedig i atgyfeiriad, ac esemptiadau rhag atgyfeirio. Mae is-adrannau (2) a (2A) hefyd yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau er mwyn rhagnodi amgylchiadau eraill pryd y mae'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni.

72. Mae is-adran newydd (2B) yn ei gwneud yn glir na all yr atgyfeiriad ond ddigwydd cyn bod dyletswydd o dan adran 75 wedi ei derbyn, ac eithrio yn achos y rheini sydd yn y ddalfa. Mae hyn yn gysylltiedig ag adran newydd 81A(3) o Ddeddf 2014 (fel y'i mewnosodir gan adran 13) a gallu awdurdod i atgyfeirio person sydd yn y ddalfa hyd at ddwy wythnos ar ôl iddo gael ei hysbysu bod dyletswydd yn ddyledus o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014.

73. Mae is-adran (4) o adran 80 o Ddeddf 2014 wedi ei dileu, ac is-adran (3) wedi ei diwygio er mwyn egluro'r amodau ar gyfer atgyfeirio. Fel y'u diwygiwyd, bydd yr amodau ar gyfer atgyfeirio yn is-adran (3) yn ddarostyngedig i'r rheini sydd wedi eu hesemptio rhag eu hatgyfeirio (gweler adran newydd 81A o Ddeddf 2014 fel y'i mewnosodir gan adran 13).

74. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 142 i sicrhau na chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan adran 80 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

### Adran 12: Ystyr cysylltiad lleol

75. Mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau i adrannau 81 a 142 o Ddeddf 2014.

76. Mae adran 81(2) o Ddeddf 2014 yn darparu bod gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os yw'n preswylio yno fel arfer, a bod y preswyliad o ddewis y person ei hun, neu wedi bod o'i ddewis ei hun; bod y person yn cael ei gyflogi yno; oherwydd cysylltiadau teuluol, neu oherwydd amgylchiadau arbennig. Mae'r meini prawf cysylltiad lleol hyn i'w cymhwyso gan awdurdod tai lleol o dan adran 80 er mwyn penderfynu a ellir atgyfeirio ceisydd at awdurdod arall yng Nghymru neu yn Lloegr. Bydd y meini prawf cysylltiad lleol hyn hefyd yn gymwys bellach i'r prawf cysylltiad lleol sy'n rhan o asesiad hawlogaeth adran 75.

77. Ar hyn o bryd, mae adran 81(4) o Ddeddf 2014 yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn i bennu amgylchiadau pan nad yw person i'w drin fel person a gyflogir mewn ardal neu pan nad yw preswyliad i'w drin fel preswyliad o ddewis person ei hun. Mae adran 12 o'r Bil yn disodli adran 81(4) o Ddeddf 2014 â phŵer newydd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i bennu'r amgylchiadau pryd y mae person i'w drin fel person sydd wedi bodloni'r meini prawf cysylltiad lleol o dan adran 81(2) o Ddeddf 2014.

78. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud diwygiadau i adran 142(3)(b)(ii) (gorchmynion a rheoliadau) i ddarparu na chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan adran 81(4) o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Adran 13: Esemptio rhag atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall**

79. Mae'r adran hon yn ychwanegu adran newydd 81A at Ddeddf 2024 sy'n nodi'r ceiswyr sydd wedi eu hesemptio rhag eu hatgyfeirio o dan adran 80 o Ddeddf 2014.

80. Mae adran 81A(2)(a) yn darparu, os yw ceisydd neu unrhyw aelod o'i aelwyd mewn mwy o berygl o ddioddef camdriniaeth o'i atgyfeirio yn ôl i ardal awdurdod lle y mae ganddo gysylltiad lleol, yna ei fod wedi ei esemptio rhag ei atgyfeirio. Mae adran 81A(2)(b) yn darparu i Weinidogion Cymru bŵer i wneud rheoliadau er mwyn rhagnodi categorïau pellach o bobl y gellir eu hesemptio rhag eu hatgyfeirio.

81. Mae adran 81A(3) hefyd yn atal atgyfeirio ceisydd sydd yn y ddalfa sydd wedi cael ei hysbysu o dan adran 63 fod dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 a bod cyfnod o ddwy wythnos wedi dod i ben ar ôl rhoi'r hysbysiad hwnnw. Ochr yn ochr ag adran 80(2B), mae hyn yn cyfyngu ar allu awdurdod i atgyfeirio rhywun sydd yn y ddalfa i ddim mwy na dwy wythnos ar ôl gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch hawlogaeth i ddyletswydd.

82. Mae adran 81A(4) yn ei gwneud yn glir na all unrhyw geisydd ond bod yn ddarostyngedig i atgyfeiriad o dan adran 80 o Ddeddf 2014 unwaith yn ystod yr un cais.

83. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf 2014 i sicrhau na chaniateir gwneud rheoliadau a wneir o dan adran 81A(2)(b) o Ddeddf 2014 oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Adran 14: Dyletswyddau i geiswyr mewn achosion atgyfeirio**

84. Mae'r adran hon yn gwneud nifer o ddiwygiadau i adran 82 o Ddeddf 2014, sy'n nodi'r dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod tai lleol mewn achosion atgyfeirio.

85. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio adran 201A o Ddeddf Tai 1996 sy'n gymwys ar ôl atgyfeirio ceisydd at awdurdod tai lleol yn Lloegr.

86. Mae is-adran (1) newydd ac is-adrannau newydd (1A) i (1D) yn disodli is-adran (1) o adran 82. Mae'r is-adran (1) newydd yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'r dyletswyddau o dan is-adrannau newydd (1A) ac (1B) yn gymwys. Yr amgylchiadau yw pan fo awdurdod tai lleol ("awdurdod A") wedi hysbysu awdurdod tai lleol arall ("awdurdod B") am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd o dan adran 80 wedi eu bodloni, a bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu yn unol ag adran 84(1B) fod awdurdod B wedi cael ei hysbysu am farn awdurdod A.

87. Mae is-adran newydd (1A) yn gymwys pa un a yw awdurdod B yng Nghymru neu yn Lloegr, ac mae'n darparu, pan fo awdurdod A wedi hysbysu awdurdod B am ei farn o dan adran 80(2A) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd wedi eu bodloni, fod dyletswyddau digartrefedd awdurdod A o dan adrannau 68 a 75 o Ddeddf 2014 yn dod i ben. Fodd bynnag, rhaid i awdurdod A sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd letya ynddo hyd nes i'r ceisydd gael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni.

88. Mae is-adran newydd (1B) yn gymwys pan fo awdurdod B yng Nghymru. Mae'n darparu, pan fo awdurdod A a B ill dau wedi cytuno (ar ôl hysbysiad o dan naill ai adran 80(2) neu (2A)) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd wedi eu bodloni, fod y ceisydd i'w drin fel pe bai wedi gwneud cais i awdurdod B a bod dyletswyddau digartrefedd awdurdod A mewn perthynas â'r ceisydd i ddod i ben o'r dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r ceisydd o dan adran 84(1B). Mae is-adran (1B) hefyd yn sicrhau, pan fo awdurdod A wedi penderfynu bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth, ei fod yn ddigartref neu ei fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, fod y ceisydd i'w drin felly gan awdurdod B oni bai bod yr awdurdod hwnnw yn dod i gasgliad gwahanol yn unol ag is-adran (1C).

89. Mae is-adran (1B) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod A ddarparu i awdurdod B gopïau o unrhyw hysbysiadau neu unrhyw ddogfennau a roddwyd i'r ceisydd o dan adran 63 neu 63A.

90. Mae is-adran newydd (1C) yn galluogi awdurdod B i ddod i gasgliad gwahanol at ddibenion is-adran (1B) os yw'r awdurdod hwnnw yn fodlon bod amgylchiadau'r ceisydd wedi newid, neu fod gwybodaeth bellach wedi dod i'r amlwg ers i awdurdod A wneud ei benderfyniad, sy'n cyfiawnhau bod awdurdod B yn dod i gasgliad gwahanol.

91. Mae is-adran newydd (1D) yn darparu, pan fo awdurdod B yn Lloegr a bo awdurdod A a B ill dau wedi cytuno bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd wedi eu bodloni, fod adran 201A o Ddeddf Tai 1996 yn gymwys.

92. Mae adran 82(3) newydd o Ddeddf 2014 (fel y'i hamnewidiwyd gan adran 14(3)) yn nodi pa ddyletswyddau fydd yn ddyledus gan awdurdod A i geisydd os penderfynir nad yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni.

93. Mae adran 14(4) yn dileu adran bresennol 82(4). Mae adran 14(5) yn diwygio adran 82(5) i ddarparu y bydd y dyletswyddau sy'n ddyledus gan awdurdod tai lleol yn dod i ben fel y darperir ar ei gyfer yn is-adrannau newydd (1A) ac (1B) hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad perthnasol.

94. Mae adran 14(6) yn diwygio adran 82(6) o Ddeddf 2014 fel y caiff awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i geisydd tra bo'r penderfyniad ar adolygiad yn yr arfaeth os oedd yn ofynnol i'r awdurdod wneud hynny o dan Ddeddf 2014 cyn i'r atgyfeiriad gael ei wneud.

95. Mae adran 14(7) yn gwneud diwygiadau i adran 201A o Ddeddf Tai 1996, sy'n ymwneud ag atgyfeiriadau gan awdurdod tai lleol yng Nghymru at awdurdod tai lleol yn Lloegr o dan adran 80 o Ddeddf 2014.

96. Mae'r is-adran (2) newydd o adran 201A yn darparu, os yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni, fod y person a atgyfeirir i'w drin fel pe bai wedi gwneud cais o'r math y cyfeirir ato yn adran 183(1) o Ddeddf Tai 1996 i'r awdurdod tai lleol yn Lloegr sy'n cael ei hysbysu ar y dyddiad y rhoddir hysbysiad i'r ceisydd fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni. O'r dyddiad hwnnw, mae dyletswyddau sy'n ddyledus gan yr awdurdod tai lleol yng Nghymru sy'n hysbysu yn dod i ben.

97. Mae'r is-adrannau (2) a (3) newydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol yng Nghymru sy'n hysbysu ddarparu copïau o'r hysbysiadau a'r dogfennau a roddwyd i geisydd o dan adran 63 neu 63A o Ddeddf 2014, a sicrhau, pan fo'r awdurdod yng Nghymru sy'n hysbysu wedi penderfynu bod ceisydd yn gymwys, ei fod yn ddigartref neu ei fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, y dylai'r awdurdod tai lleol yn Lloegr yn gyffredinol drin y ceisydd felly. Yn yr un modd ag atgyfeiriadau o fewn Cymru (gweler adran 82 o Ddeddf 2014 fel y'i diwygiwyd), caiff yr awdurdod tai lleol yn Lloegr sy'n cael ei hysbysu ddod i gasgliad gwahanol ar y materion hynny os yw'r awdurdod hwnnw yn fodlon bod amgylchiadau'r ceisydd wedi newid, neu fod gwybodaeth bellach wedi dod i'r amlwg ers i'r awdurdod sy'n atgyfeirio wneud ei benderfyniad, sy'n cyfiawnhau penderfyniad gwahanol. Yn ogystal, mae is-adran newydd (3)(b) o adran 201A yn galluogi awdurdod tai lleol yn Lloegr i wneud penderfyniad gwahanol ynghylch y materion hynny pan fo gwahaniaeth o ran effaith y ddeddfwriaeth berthnasol sy'n gymwys o dan Ddeddf 2014 ac o dan Ddeddf Tai 1996 sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

### Adran 15: Achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yn Lloegr

98. Mae'r adran hon yn diwygio adran 83(2) o Ddeddf 2014, sy'n ymwneud â dyletswyddau y bydd rhwymedigaeth ar awdurdod lleol yng Nghymru i'w derbyn ar gyfer ceisydd sy'n ddarostyngedig i atgyfeiriad gan awdurdod yn Lloegr o dan adran 198(1) o Ddeddf Tai 1996.

99. Mae'r diwygiadau'n dileu cyfeiriadau at angen blaenoriaethol nad yw'n amod ar gyfer atgyfeirio mwyach, ac maent hefyd yn gosod gofyniad ar yr awdurdod sy'n cael ei hysbysu i dderbyn dyletswydd adran 75, gan ddisodli'r rhwymedigaeth flaenorol i dderbyn dyletswydd adran 73. Mae'r diwygiad olaf hwn yn ystyried bod adran 73 wedi ei dileu o Ddeddf 2014.

### Adran 16: Hysbysiad i geiswyr mewn achosion atgyfeirio

100. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 82 a 84 o Ddeddf 2014.

101. Mae adran 84(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu ceiswyr pan fydd eu dyletswydd i geisydd o dan adran 66, 68, 73 neu 75 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben. Mae hyn yn cynnwys pan fo'r awdurdod wedi atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni. Mae adran 84(1) hefyd yn nodi'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei rhoi yn yr hysbysiad i'r ceisydd.

102. Mae'r adran hon yn diwygio adran 84(1) fel ei bod yn ofynnol i awdurdod lleol hysbysu ceisydd fod ei ddyletswydd i geisydd o dan adran 66, 68, 75 neu 76A o Ddeddf 2014 wedi dod i ben. Mae hyn i adlewyrchu dileu'r ddyletswydd yn adran 73 a mewnosod dyletswydd yn adran newydd 76A gan y Bil.

103. Mae'r adran hon hefyd yn diwygio ymhellach adran 84(1) drwy ddileu'r gofyniad am i'r awdurdod lleol hysbysu bod y dyletswyddau hyn wedi dod i ben pan fo'r awdurdod wedi atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni.

104. Mae'r adran hon yn mewnosod is-adrannau newydd (1B) i (1D) yn adran 84 o Ddeddf 2014.

105. Mae is-adran (1B) yn darparu, pan fo awdurdod tai lleol ("awdurdod A") yn hysbysu awdurdod tai lleol arall ("awdurdod B") ei fod o'r farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni o dan adran 80, fod rhaid iddo hefyd hysbysu'r ceisydd ei fod wedi gwneud hynny.

106. Mae is-adran (1C) yn darparu bod rhaid i awdurdod A hefyd hysbysu'r ceisydd o dan adran 80(5) ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd wedi eu bodloni.

107. Mae is-adran (1D) yn nodi gwybodaeth y mae rhaid ei darparu bellach i'r ceisydd o fewn hysbysiadau a roddir o dan is-adran (1B).

108. O ganlyniad i'r diwygiadau i adran 84, mae'r adran hon yn gwneud diwygiadau pellach i adran 82, sy'n nodi'r dyletswyddau mewn perthynas â cheiswyr sy'n ddarostyngedig i atgyfeiriad, nad ydynt yn ofynnol mwyach. Mae hyn yn cynnwys dileu adran 82(2) sy'n amlinellu'r hyn sy'n ofynnol o ran hysbysu, ac adran 82(7) sy'n pennu'r gofynion pan nad yw ceisydd yn gallu cael yr hysbysiad yn bersonol.

### Adran 17: Hawl i ofyn am adolygiad mewn achosion atgyfeirio

109. Mae adran 85 o Ddeddf 2014 yn amlinellu'r penderfyniadau gan awdurdodau tai lleol y mae gan geisydd yr hawl i ofyn am adolygiad ohonynt.

110. Mae'r adran hon yn diwygio adran 85 o Ddeddf 2014 fel bod yr adolygiad ynghylch pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeiriad yn sgil cysylltiad lleol wedi eu bodloni ai peidio yn cael ei restru ar wahân yn hytrach na'i grwpio gyda darpariaethau eraill a allai fod yn destun adolygiad.

### Adran 18: Cymorth i gadw llety addas a sicrhawyd wrth arfer swyddogaethau digartrefedd

111. Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 2014 er mwyn mewnosod adrannau newydd 76A a 76B. Mae'r adran hon hefyd yn gwneud diwygiadau i adrannau 79, 84 a 85 o Ddeddf 2014.

112. Mae is-adran (2) yn mewnosod adrannau newydd 76A a 76B. Mae adran newydd 76A yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol i ddarparu cymorth i gadw llety addas. Mae is-adran 76A(1) yn darparu bod y ddyletswydd hon yn gymwys i unigolion nad ydynt ar hyn o bryd yn ddigartref nac o dan fygythiad o ddigartrefedd, ond sydd â llety addas a sicrhawyd neu a gadwyd gyda chymorth yr awdurdod tai lleol o dan swyddogaethau o dan Bennod 2 o Ddeddf 2014. Mae'r ddyletswydd yn ddyledus i'r unigolion hyn yr ystyrir eu bod mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd oni bai eu bod yn cael cynhorthwy pellach. O dan yr amgylchiadau hyn, mae is-adran 76A(2) yn darparu ei bod yn ofynnol i'r awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety'r ceisydd yn parhau i fod ar gael iddo ei feddiannu.

113. Mae adran newydd 76B yn nodi'r amgylchiadau pryd y mae'r ddyletswydd yn adran newydd 76A yn dod i ben. Mae'r ddyletswydd o dan adran 76A yn dod i ben o dan yr amgylchiadau a ganlyn, ar yr amod bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu'n briodol yn unol ag adran 84 o Ddeddf 2014:

a. pan fo'r awdurdod yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref;
b. pan fo'r awdurdod yn fodlon nad yw'r ceisydd mewn perygl mwyach o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd oni bai bod cymorth yn cael ei ddarparu;
c. pan fo'r ceisydd yn meddiannu llety sydd wedi ei ddarparu neu wedi ei drefnu gan yr awdurdod tai lleol a bo cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers i'r llety ddod ar gael, neu ers i'r ceisydd gael ei hysbysu bod y ddyletswydd o dan adran 76A yn ddyledus;
d. pan fo'r ceisydd yn meddiannu llety a sicrhawyd gan yr awdurdod tai lleol, ond nas darparwyd ganddo, a bo cyfnod o 12 mis wedi mynd heibio ers i'r ceisydd gael ei hysbysu bod y ddyletswydd o dan adran 66 wedi dod i ben neu ers i'r ceisydd gael ei hysbysu bod y ddyletswydd o dan adran 76A yn ddyledus;
e. pan fo'r ceisydd wedi gofyn nad yw cynhorthwy yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod tai lleol;
f. yn unol â'r amgylchiadau pellach yn adran 79.

114. Mae is-adran (3) yn diwygio adran 79(1) o Ddeddf 2014 fel y bydd yr amgylchiadau a nodir yn adran 79 yn gymwys i ddod â'r ddyletswydd yn adran newydd 76A i ben.

115. Mae is-adran (4) yn diwygio adran 84(1) fel y bydd y gofynion o ran hysbysiadau yn adran 84 yn gymwys pan fydd y ddyletswydd yn adran newydd 76A yn dod i ben.

116. Mae is-adran (5) yn diwygio adran 85(1) fel bod gan geiswyr hawl i ofyn am adolygiad o benderfyniadau awdurdod tai lleol nad yw'r ddyletswydd yn adran newydd 76A yn ddyledus neu bod y ddyletswydd yn adran newydd 76A wedi dod i ben.

**Adran 19: Dyletswydd i gysylltu â cheiswyr penodol ar ôl i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben**

117. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 76C yn Neddf 2014. Mae adran 76C yn gosod dyletswydd ar awdurdod tai lleol i gadw mewn cysylltiad â cheiswyr penodol yn ystod cyfnod penodedig ar ôl i'r ddyletswydd o dan adran 75 ddod i ben o dan amgylchiad penodol.

118. Mae is-adran newydd 76C(1) yn darparu y bydd y ddyletswydd yn gymwys i geisydd yr oedd dyletswydd o dan adran 75 yn ddyledus iddo a ddaeth i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 76(7A) ac nad yw'n dod o fewn is-

adran (2). O dan adran newydd 76(7A), gall yr awdurdod tai lleol ddod â'r ddyletswydd o dan adran 75 i ben os nad yw'r ceisydd yn ddigartref mwyach ac os oes llety addas (ac eithrio cynigion dyrannu tai cymdeithasol neu gynigion sector rhent preifat) yn debygol o fod ar gael am 12 mis o leiaf. Rhaid bod y ceisydd wedi cael hysbysiad ysgrifenedig am ganlyniadau posibl cytuno i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben, a rhaid ei fod wedi cytuno i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben.

119. O dan is-adran newydd 76C(2), nid yw'r ddyletswydd yn ddyledus os oes ar yr awdurdod tai lleol, ar ddechrau'r "cyfnod perthnasol", ddyletswydd i'r ceisydd o dan adran newydd 76A, neu os yw'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol gynnal asesiad o dan adran 62 ar gyfer y ceisydd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod perthnasol, neu os yw eisoes wedi gwneud hynny cyn i'r cyfnod perthnasol ddechrau.

120. Mae is-adran newydd 76C(3) yn darparu, pan fo'r ddyletswydd yn gymwys, fod rhaid i awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â cheisydd, ni waeth a yw wedi ei letya o fewn ei ardal ai peidio, o fewn cyfnod perthnasol er mwyn canfod a yw ceisydd mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd neu a yw, neu a all fod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

121. Mae is-adran newydd 76C(4) yn darparu, pan fo awdurdod tai lleol yn ystyried bod y ceisydd yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd (neu mewn perygl o'r naill sefyllfa neu'r llall), fod rhaid iddo roi unrhyw wybodaeth a chyngor y mae'n ystyried eu bod yn briodol i'r ceisydd.

122. Mae is-adran newydd 76C(5) yn rhagnodi mai'r "cyfnod perthnasol" at y dibenion hyn yw cyfnod o 2 fis ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mis sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd bod y ddyletswydd a oedd yn ddyledus iddo o dan adran 75 wedi dod i ben.

**Adran 20: Amgylchiadau pellach pan fo'r dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr yn dod i ben**

123. Mae'r adran hon yn diwygio adran 79 o Ddeddf 2014. Mae adran 79 yn nodi amgylchiadau pellach pryd y gall dyletswyddau awdurdod tai lleol o dan adrannau 66, 68, 75 ac 76A (a fewnosodir gan adran 18) o Ddeddf 2014 ddod i ben, yn ychwanegol at yr amgylchiadau a nodir yn is-adrannau presennol (2) i (4).

124. Mae'r adran hon yn dileu is-adran (5) ac yn creu is-adran (5) newydd ac is-adrannau newydd (6) a (7) pryd y gellir dod â dyletswyddau i ben.

125. Mae'r is-adran (5) newydd yn cyflwyno amgylchiad ychwanegol pryd y gall y dyletswyddau hyn ddod i ben os yw'r ceisydd yn ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at unrhyw un sy'n ymgymryd â swyddogaethau digartrefedd neu sy'n darparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â swyddogaethau digartrefedd neu ddarparu llety. Mae'r adran hon yn darparu y gellir dod â'r ddyletswydd i ben, ar yr amod nad oes dim amgylchiadau arbennig a allai ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd berthnasol barhau i fod yn gymwys.

126. Mae is-adran newydd (6) yn cyflwyno amgylchiad ychwanegol pan all y dyletswyddau hyn yn adran 66, 68 neu 75 ddod i ben mewn cysylltiad â difrod bwriadol neu ddi-hid i eiddo a sicrhawyd drwy arfer swyddogaethau o dan Ran 2 o Ddeddf 2014. Gall y dyletswyddau ddod i ben os yw'r ceisydd, neu berson

sy'n preswylio gyda'r ceisydd, yn dinistrio'r eiddo neu'n ei ddifrodi'n ddifrifol neu'n ysgogi neu'n annog ei ddifrodi neu ei ddinistrio, a'i fod naill ai wedi bwriadu dinistrio'r eiddo neu ei ddifrodi'n ddifrifol, neu wedi bod yn ddi-hid o ran a fyddai'r eiddo yn cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol. Ni fydd dyletswydd ond yn dod i ben o dan yr amgylchiadau hynny pan nad oes dim esgus rhesymol dros weithredoedd y person a achosodd y difrod neu'r dinistr a phan nad oes dim amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd barhau i fod yn gymwys.

127. Mae is-adran newydd (7) yn darparu y gall dyletswyddau'r awdurdod tai lleol ddod i ben os nad yw'r ceisydd wedi ymateb i geisiadau lluosog gan yr awdurdod tai lleol i gysylltu ag ef ynghylch ei gais, ac os nad yw'r awdurdod tai lleol yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd barhau i fod yn gymwys. Fodd bynnag, ni fydd y dyletswyddau ond yn dod i ben os yw'r awdurdod wedi rhoi hysbysiad rhybuddio ysgrifenedig i'r ceisydd yn nodi'r ffeithiau sy'n ymwneud â methiant y ceisydd i ymateb i'r ceisiadau i gysylltu ag ef, ei fod yn bwriadu dod â'r dyletswyddau i ben drwy anfon hysbysiad adran 84, a chanlyniadau rhoi hysbysiad (h.y. y gallai'r dyletswyddau ddod i ben). Cyn y gall y dyletswyddau ddod i ben, rhaid bod cyfnod rhesymol wedi mynd heibio ers i'r hysbysiad rhybuddio gael ei roi, a hynny heb unrhyw gyswllt gan y ceisydd ynghylch y cais.

128. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod is-adran newydd (8) yn adran 79. Mae is-adran newydd (8) yn darparu bod rhaid rhoi "hysbysiad rhybuddio" yn ysgrifenedig a'i fod i'w ystyried fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd.

**Adran 21: Dyletswydd awdurdod cyhoeddus i ofyn a gweithredu**

129. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 94A (dyletswydd awdurdod cyhoeddus i ofyn a gweithredu) ac adran newydd 94B (awdurdodau cyhoeddus penodedig) yn Neddf 2014.

130. Mae adran newydd 94A yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig (fel y'u diffinnir yn adran 94B) pan fo'r awdurdodau hynny yn ystyried bod person yng Nghymru y maent yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

131. Pan fo'r ddyletswydd yn gymwys, rhaid i'r awdurdod ofyn a yw'r person yn cytuno i'r awdurdod hysbysu awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr fod y person yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, a sut y gellir cysylltu â'r person. Rhaid i'r awdurdod hefyd ofyn pa awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yr hoffai'r person i'r hysbysiad gael ei wneud iddo.

132. Os yw'r person yn cytuno i'r awdurdod wneud yr hysbysiad, rhaid i'r awdurdod hysbysu'r awdurdod tai lleol a enwyd gan y person. Os yw'r person wedi cytuno ond nad yw wedi enwi awdurdod tai lleol penodol, rhaid i'r awdurdod hysbysu awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr y mae'r awdurdod yn ystyried ei fod yn briodol.

133. Pan fo hysbysiad yn cael ei wneud i awdurdod tai lleol yng Nghymru, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai'n gais gan y person i'r awdurdod tai lleol o dan adran 62(1)(a) o Ddeddf 2014. Mae hyn yn golygu y bydd hysbysiad o dan adran 94A yn sbarduno dyletswydd awdurdod tai lleol i asesu achos person o

dan adran 62 fel pe bai'r person wedi gwneud cais i'r awdurdod tai lleol am lety neu am gymorth i gadw neu i gael llety.

134. Mae adran newydd 94A(5) yn nodi camau gweithredu eraill y mae rhaid i'r awdurdod eu cymryd. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth am ffynonellau cymorth a chyngor, ystyried camau gweithredu eraill y gallai, yn rhesymol, eu cymryd (a chymryd y camau gweithredu hynny) i gynorthwyo person i gadw neu i sicrhau llety addas, ac ystyried a yw'r ffaith ei fod yn ystyried bod y person yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, neu y gall fod yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, yn effeithio ar sut y mae'n arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r person hwnnw.

135. Mae adran newydd 94A(6) yn gwneud darpariaeth er mwyn sicrhau nad yw'r gofyniad o dan y ddyletswydd hon i ystyried camau gweithredu (a chymryd y camau gweithredu hynny) i gynorthwyo person i gadw llety addas neu i ddod o hyd i lety addas yn effeithio ar hawl awdurdod cyhoeddus penodedig i sicrhau meddiant gwag o unrhyw lety.

136. Mae adran newydd 94A(7) yn darparu nad yw'r ddyletswydd i ofyn a gweithredu yn gymwys os yw'r person wedi gwneud cais i awdurdod tai lleol yng Nghymru o dan adran 62(1)(a) o Ddeddf 2014, neu i awdurdod tai lleol yn Lloegr o dan adran 183 o Ddeddf Tai 1996, am gynhorthwy a naill ai bod y cais yn cael ei ystyried neu bod dyletswydd yn gymwys o dan y naill neu'r llall o'r Deddfau hynny i sicrhau llety neu i ddarparu mathau eraill o gymorth fel arall.

137. Mae adran newydd 94B(1) yn nodi'r "awdurdodau cyhoeddus penodedig" y bydd y ddyletswydd newydd i ofyn a gweithredu yn gymwys iddynt.

138. Mae adran newydd 94B(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr honno drwy ddileu neu ychwanegu personau, neu ddisgrifiad o bersonau, neu newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o bersonau.

139. Caiff y rheoliadau hynny gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Cânt hefyd gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

140. Mae adran 21(3) yn diwygio adran 98 o Ddeddf 2014 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodedig, fel y'u rhestrir yn adran 94B, roi sylw i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau o dan y ddyletswydd newydd i ofyn a gweithredu yn adran 94A.

141. Mae'r diwygiad a wneir gan adran 21(4) i adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf 2014 yn sicrhau bod unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i addasu'r rhestr o awdurdodau cyhoeddus penodedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i ofyn a gweithredu yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.

**Adran 22: Dyletswydd i atgyfeirio personau yn Lloegr at awdurdod tai lleol yng Nghymru**

142. Mae'r adran hon yn diwygio adran 213B o Ddeddf Tai 1996, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus penodedig yn Lloegr i atgyfeirio person

sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu a all fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, at awdurdod tai lleol yn Lloegr a enwyd gan y person hwnnw (gyda'i gydsyniad). Fel y'i diwygiwyd gan adran 22, bydd y ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus penodedig yn Lloegr atgyfeirio person at awdurdod tai lleol yng Nghymru pan fo'r person yn pennu awdurdod yng Nghymru ac yn cydsynio i gael ei atgyfeirio.

**Adran 23: Dyletswydd i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n gadael gofal lety addas**

143. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 108A (d Dyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i bersonau sy'n gadael gofal) ac adran newydd 109A (y Ystyr llety addas) yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

144. Mae adran newydd 108A(2) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc sy'n peri, pan fo'n ofynnol i lesiant y person ifanc hwnnw, fod rhaid iddo gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas (fel y'i diffinnir mewn rheoliadau a wneir o dan adran newydd 109A) ar gael i'r person ifanc ei feddiannu yn ystod y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person ifanc yn cyrraedd 18 oed, ac mewn perthynas â phersonau ifanc categori 3, yn ystod cyfnod dilynol pan fydd dyletswydd i'r person ifanc o dan adran 110. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys er mwyn sicrhau llety ar gyfer person ifanc categori 1, 2, 5 neu 6, ac mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer person ifanc categori 1 neu 2 ar ôl i'r person ddod yn berson ifanc categori 3 (pan fo'n ofynnol i lesiant y person ifanc).

145. Mae adran newydd 108A(4) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol cyfrifol sy'n peri, pan fo'n ofynnol i lesiant person ifanc, fod rhaid iddo gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r person ifanc ei feddiannu yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r canlynol: y diwrnod y mae dyletswydd yr awdurdod i'r person ifanc categori 3 o dan adran 110 yn dod i ben; y diwrnod y mae dyletswydd yr awdurdod i'r person ifanc categori 4 o dan adran 112 yn dod i ben; y diwrnod y mae'r cymorth o dan adran 114(3) neu 114(5) mewn cysylltiad ag addysg bellach neu uwch ar gyfer person ifanc categori 5 neu berson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 5 yn dod i ben; a'r diwrnod y mae'r cymorth o dan adran 115(4) neu 115(6) mewn cysylltiad ag addysg bellach neu uwch ar gyfer person ifanc categori 6 neu berson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 6 yn dod i ben.

146. Mae'r ddyletswydd yn adran 108A(4) yn gymwys i berson ifanc categori 3, i berson ifanc categori 4, i berson ifanc categori 5 sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod roi cymorth iddo o dan adran 114(3), i berson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 5 sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 114(5), i berson ifanc categori 6 sydd yng nghategori 6 yn rhinwedd adran 104(3)(a) (yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru) sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 115(4), ac i berson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 6 sydd yng nghategori 6 yn rhinwedd adran 104(3)(a) sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 115(6). Mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r person ifanc beidio â dod o fewn unrhyw un o'r categorïau hyn, ond pan fo'r ddyletswydd yn parhau i fod yn ofynnol i lesiant y person ifanc.

147. Mae adran newydd 108A(5) yn ei gwneud yn ofynnol na chaniateir ystyried bod y llety ar gael i'r person ifanc ei feddiannu ond os yw ar gael i'r person ifanc

hwnnw ei feddiannu ynghyd ag unrhyw un y gellid disgwyl yn rhesymol i’r person ifanc hwnnw fyw gydag ef.

148. Mae adran newydd 108A(6) yn rhagnodi, mewn achosion pan amherir ar raglen addysg neu hyfforddiant y mae person ifanc yn ei dilyn, neu pan amharwyd ar raglen o’r fath, y dylid diystyru hyn at ddiben sicrhau llety o dan adran newydd 108A(4), ar yr amod bod yr awdurdod lleol cyfrifol yn fodlon y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen hyfforddiant neu addysg cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.

149. Mae adran 109 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi ei diwygio i ddileu is-adran (3) sy’n darparu pŵer i wneud rheoliadau mewn perthynas ag ystyr llety addas ar gyfer pobl ifanc categori 2. Yna fe’i disodlir gan adran newydd 109A sy’n darparu ar gyfer ystyr llety addas ar gyfer pob person ifanc y mae dyletswydd o dan adrannau 108A a 109 yn gymwys iddo.

150. Mae adran newydd 109A yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn gwneud darpariaeth ynghylch ystyr “llety addas” mewn perthynas â’r bobl ifanc hyn y darperir ar eu cyfer yn adrannau 108A a 109.

151. Mae adran newydd 109A(2) yn rhagnodi y caiff y rheoliadau wneud darpariaeth drwy gyfeirio at unrhyw faterion sy’n gysylltiedig â’r llety, gan gynnwys (ymysg pethau eraill) addasrwydd y landlord neu ddarparwr y llety; amodau meddiannu’r llety gan y person ifanc; natur neu safon y llety; a lleoliad y llety. Caiff y rheoliadau hefyd wneud darpariaethau drwy gyfeirio at nodweddion neu amgylchiadau personol y person ifanc neu unrhyw berson y gellid disgwyl yn rhesymol i’r person ifanc hwnnw breswylio gydag ef.

**Adran 24: Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy’n ymwneud â phersonau sy’n gadael gofal etc.**

152. Mae’r adran hon yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014, sy’n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol at ddiben cyflawni’r amcanion a nodir yn adran 95(1), gan gynnwys atal digartrefedd.

153. Un o’r amcanion yw arfer swyddogaethau’r awdurdod lleol yn effeithiol o dan Ran 2 o Ddeddf 2014 (gweler adran 95(1)(d)). Mae adran 23(2) yn mewnosod geiriad yn adran 95(1)(d) fel ei bod hefyd yn cynnwys arfer swyddogaethau’r awdurdod yn effeithiol, mewn perthynas â phobl sy’n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

154. Mae adran 23(3) yn mewnosod is-adrannau newydd (1A) ac (1B) ar ôl adran 95(1). Mae is-adran newydd (1A) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid i’r trefniadau y mae’r awdurdodau lleol yn eu gwneud gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy’n ymwneud â grwpiau penodol o bobl yn eu trefniadau cydweithredu. Rhaid i’r protocol hwnnw ymdrin ag achosion sy’n ymwneud â phobl 16 neu 17 oed sy’n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd; anghenion llety a chefnogaeth personau sy’n gadael gofal; ac anghenion llety a chefnogaeth personau sy’n gadael gofal a phobl 16 neu 17 oed sy’n gadael llety cadw ieuenctid, y carchar neu fangre a gymeradwywyd. Mae is-adran newydd (1B) yn diffinio “personau sy’n gadael gofal” at y dibenion hynny.

**Adran 25: Protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau y mae angen cefnogaeth arnynt yn benodol**

155. Mae'r adran hon yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014 i fewnosod is-adrannau newydd (1C) i (1E).

156. Mae is-adran newydd (1C) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhyngddo ef ei hun a'r cyrff a restrir yn is-adran (1D) sy'n arfer swyddogaethau yn ei ardal y mae'n ystyried eu bod yn briodol. Rhaid mai nodau'r trefniadau yw: atal digartrefedd; sicrhau bod llety addas ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref; sicrhau bod cefnogaeth ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref; sicrhau bod achosion yn cael eu cydgysylltu'n effeithiol gan bersonau a grybwyllir yn is-adran (1D) o ran rheoli achosion y rheini sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref ac y mae'n bosibl bod angen cefnogaeth ychwanegol arnynt hefyd; a chyflawni swyddogaethau'r awdurdod yn effeithiol o dan Ran 2 o Ddeddf 2014.

157. Mae is-adran newydd (1D) yn nodi'r cyrff ('personau') y mae'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol hybu cydweithredu â hwy. Mae hyn yn cynnwys y cyrff a restrir yn adran 95(5) (fel y'i diwygiwyd gan adran 32) ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus eraill a sefydliadau gwirfoddol y gallai eu swyddogaethau neu eu gweithgareddau gyfrannu at gyflawni nodau'r trefniadau.

158. Mae adran newydd 95(1E) yn ei gwneud yn ofynnol i'r trefniadau hynny gynnwys protocol sy'n ymwneud â phobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref ac y mae ganddynt hefyd anghenion cefnogaeth yn ogystal â'u hanghenion tai, gan gynnwys yn benodol gefnogaeth neu wasanaethau sy'n ofynnol mewn cysylltiad â'r canlynol: gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid; gadael y lluoedd arfog rheolaidd y Goron; camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau eraill; neu iechyd meddwl.

**Adran 26: Gwarchod eiddo: carcharorion**

159. Mae adran 93 o Ddeddf 2014 yn gosod gofyniad ar awdurdod lleol i gymryd camau rhesymol i atal colli eiddo personol unrhyw geisydd sy'n cael un neu ragor o ddyletswyddau adran 66, 68, 75 neu 82, neu i liniaru niwed i'r eiddo hwnnw, os nad oes unrhyw drefniadau addas wedi eu gwneud neu'n cael eu gwneud i warchod yr eiddo a'i fod yn credu bod perygl y bydd yr eiddo'n cael ei golli neu ei niweidio o ganlyniad i anallu'r ceisydd i'w warchod neu i ymdrin ag ef. Mae'r awdurdod yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon hyd yn oed os yw'r dyletswyddau'n dod i ben.

160. Gan fod y diwygiadau i ddyletswydd adran 75 yn effeithio ar unigolion sydd yn y ddalfa, bydd adran 93 yn cael ei diwygio i gynnwys darpariaeth ychwanegol i sicrhau bod y rheini y byddent fel arall wedi bod yn ddigartref, ond na fyddant bellach yn ddarostyngedig i ddyletswydd, yn parhau i fod â hawlogaeth i ddyletswydd adran 93 tra bônt yn y ddalfa.

**Adran 27: Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy: personau a gedwir yn gaeth**

161. Mae'r adran hon yn diwygio adran 60 o Ddeddf 2014.

162. Mae adran 27(a) yn diwygio adran 60(1) er mwyn egluro bod y ddyletswydd ar awdurdod tai lleol i sicrhau y darperir gwasanaeth sy'n darparu cyngor,

gwybodaeth a chynhorthwy i bobl yn gymwys i bobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn ardal yr awdurdod, neu sydd â chysylltiad lleol â'r ardal (ond sy'n cael eu cadw'n gaeth y tu allan i'r ardal).

163. Mae adran 27(b) yn diwygio adran 60(4)(a) er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth y cyfeirir ato yn adran 60(1) wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion pobl sydd yn y carchar, yn ogystal â'r bobl hynny sy'n gadael y carchar.

**Adran 28: Y diffiniad o "camdriniaeth"**

164. Mae'r adran hon yn disodli adran 58 o Ddeddf 2014, sy'n diffinio "camdriniaeth" a "camdriniaeth ddomestig". Mae adran 58 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 yn diffinio "camdriniaeth" fel trais corfforol, ymddygiad bygythiol neu fygylus ac unrhyw ffurf arall ar gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arwain at berygl o niwed. Os yw'r gamdriniaeth yn dod o du person sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr, yna mae 'camdriniaeth' yn dod yn 'camdriniaeth ddomestig'.

165. Fel y'i hamnewidiwyd, mae'r adran 58 newydd yn darparu diffiniad ehangach o "camdriniaeth" sy'n cynnwys "camdriniaeth ddomestig" (o fewn yr ystyr a roddir i "domestic abuse" gan adran 1 o Ddeddf Camdriniaeth Ddomestig 2021). Mae'r diffiniad o "camdriniaeth" fel y'i diwygiwyd yn cynnwys unrhyw fath arall o gamdriniaeth a all arwain at y perygl o niwed, gan gynnwys "camfanteisio", o fewn yr ystyr a roddir i "exploitation" yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ac aflonyddu neu stelcio o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadroddion "harassment" a "stalking", yn y drefn honno, yn Neddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997.

**Adran 29: Dyletswydd i geisio safbwyntiau personau digartref wrth arfer swyddogaethau digartrefedd**

166. Mae'r adran hon yn diwygio adrannau 52, 60 a 98 o Ddeddf 2014.

167. Mae adran 50 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol lunio a mabwysiadu strategaeth i fynd i'r afael â digartrefedd. Mae adran 52 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch amcanion a chynnwys y strategaethau digartrefedd hynny a'r gofynion ymgynghori. Mae adran 29(2) yn diwygio adran 52(8) er mwyn cynnwys pobl yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yn y rhestr o bobl a chyrff y mae rhaid i'r awdurdod tai lleol ymgynghori â hwy, y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol, cyn mabwysiadu neu newid ei strategaeth ddigartrefedd.

168. Mae adran 60 o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol drefnu i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy am ddim i bobl yn eu hardal, neu i'r rheini a chanddynt gysylltiad lleol â'r ardal, ynghylch materion sy'n gysylltiedig â digartrefedd. Wrth drefnu'r gwasanaeth, rhaid i'r awdurdodau tai lleol weithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill, sefydliadau gwirfoddol ac eraill i sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion y rhai sydd mewn perygl arbennig o ddigartrefedd. Mae adran 29(3) yn diwygio adran 60(4) fel bod rhaid i awdurdodau tai lleol hefyd weithio gyda phobl yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd at y diben hwnnw.

169. Mae adran 98 o Ddeddf 2014 yn ymwneud â chanllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan Ran 2 o Ddeddf 2014 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol ddilyn canllawiau gan Weinidogion Cymru ar sut y dylent gyflawni eu swyddogaethau sy'n ymwneud â digartrefedd. Mae adran 29(4) yn

mewnosod adran newydd 98(5) sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw awdurdodau cyhoeddus neu leol, unrhyw sefydliadau gwirfoddol, ac unrhyw bobl yng Nghymru sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, yn ogystal ag unrhyw bersonau perthnasol eraill, y maent yn ystyried eu bod yn briodol, cyn rhoi neu newid canllawiau o dan yr adran hon, neu dynnu canllawiau o'r fath yn ôl.

**Adran 30: Addasrwydd llety**

170. Mae'r adran hon yn diwygio adran 59 o Ddeddf 2014, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol roi sylw i'r ddeddfwriaeth a restrir yn is-adran (1) pan fydd yn penderfynu a yw llety yn addas ar gyfer person. Mae adran 30(b) yn diwygio'r rhestr yn is-adran (1) er mwyn cynnwys Rhan 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Cyflwr anheddau).

171. Mae adran 30(a) yn gwneud mân ddiwygiad ychwanegol i adran 59 er mwyn sicrhau nad oes unrhyw amheuaeth bod y cyfeiriadau at ddeddfwriaeth yn yr adran honno yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a wneir yn, o dan, neu yn rhinwedd y deddfiadau a restrir yn adran 59(1).

172. O ganlyniad, rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, ac unrhyw ddeddfwriaeth a wneir o dan neu yn rhinwedd y Rhan honno, pan fydd yn penderfynu a yw llety yn addas ar gyfer person o dan adran 59.

**Adran 31: Adroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim**

173. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 97A (Aroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim) yn Neddf 2014.

174. Mae adran newydd 97A(1) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio adroddiad ar ddefnydd a chyflwr llety interim a sicrheir gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru o dan adrannau 68 ac 75 o Ddeddf 2014. Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei osod gerbron Senedd Cymru, a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru.

175. O dan adran newydd 97A(2), rhaid i awdurdodau tai lleol ddarparu i Weinidogion Cymru unrhyw wybodaeth sy'n ofynnol ganddynt at ddibenion yr adroddiad hwnnw. Er enghraifft, gwybodaeth am lefelau stoc, lleoliadau mewn llety dros dro, cyflwr stoc.

176. O dan adran newydd 97A(3), rhaid i'r adroddiad cyntaf gael ei osod a'i gyhoeddi ar 31 Rhagfyr 2030 neu cyn hynny. Wedi hynny, mae adran 97A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod a chyhoeddi adroddiad dilynol bob pum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad diwethaf.

**Adran 32: Cydweithredu**

177. Mae'r adran hon yn diwygio adran 95 o Ddeddf 2014. Mae adran 95 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol at ddibenion penodol, gan gynnwys atal digartrefedd. Os yw awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad gan unrhyw un o'r cyrff a restrir yn adran 95(5) wrth arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan Ran 2 o Ddeddf 2014, mae dyletswydd ar y corff hwnnw i gydymffurfio â'r cais oni bai y byddai gwneud hynny yn anghydnaws ag arfer ei swyddogaethau neu y byddai'n cael effaith andwyol ar ei ddyletswyddau. Mae hefyd yn ofynnol i'r cyrff hynny gydymffurfio â

cheisiadau gan awdurdod tai lleol i ddarparu gwybodaeth iddo sy'n ofynnol ganddo er mwyn iddo arfer ei swyddogaethau yn Rhan 2 o Ddeddf 2014.

178. Mae adran 32(2) yn disodli is-adrannau (5) i (8) o adran 95 er mwyn ehangu'r rhestr o gyrff y gellir ei gwneud yn ofynnol iddynt gydweithredu ag awdurdod tai lleol a darparu gwybodaeth iddo. Mae'r rhestr hwy o gyrff wedi ei nodi yn yr is-adran (5) newydd.

179. Mae'r is-adran (6) newydd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau er mwyn diwygio'r rhestr honno o gyrff drwy ddileu neu ychwanegu personau, neu ddisgrifiad o bersonau, neu drwy newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o bersonau o'r fath.

180. Caiff y rheoliadau hynny gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. Cânt hefyd gynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ag un o Weinidogion y Goron y DU o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru.

181. Mae'r diwygiad a wneir gan adran 32(3) i adran 142(3)(b)(ii) o Ddeddf 2014 yn sicrhau bod unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i addasu'r rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r dyletswyddau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd.

**Adran 33: Cydweithredu rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol**

182. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau newydd 96A (Cydweithredu rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol) ac 96B (Cyfarwyddydau i'w gwneud yn ofynnol cydymffurfio â cheisiadau o dan adran 96A) yn Neddf 2014.

183. Mae adran newydd 96A yn galluogi awdurdodau tai lleol i wneud cais i "landlord cymdeithasol" sy'n dal llety yn ardal yr awdurdod lleol at ddibenion sy'n ymwneud â thai gynnig llety addas i geisydd y mae dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 75. Bydd hyn yn gymwys i landlordiaid cymdeithasol a ddiffinnir yn adran newydd 96A(2) fel landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig (fel y'u diffinnir yn adran 99 o Ddeddf 2014 (fel y'i diwygiwyd)).

184. Mae adran newydd 96A(3) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol, cyn gwneud cais o'r fath, ystyried argaeledd llety addas yn eu hardal a ddelir ganddynt (os o gwbl).

185. Mae adran newydd 96A(4) yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â chais gan awdurdod tai lleol o fewn cyfnod rhesymol, oni bai bod gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio.

186. Mae adran newydd 96A(5) yn gosod dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol sy'n darparu llety yn ardal awdurdod tai lleol i gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth mewn perthynas â'r llety hwnnw y gallai'r awdurdod tai lleol ei wneud mewn cysylltiad â'i swyddogaethau o dan adran newydd 96A.

187. Mae adran newydd 96A(6) yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi canllawiau ar yr hyn sy'n rheswm da dros wrthod cais, yn gyfnod rhesymol, neu'n gais

rhesymol at ddibenion adran newydd 96A. Rhaid i landlordiaid cymdeithasol roi sylw i unrhyw ganllawiau o'r fath a roddir (gweler is-adran (8)).

188. O dan adran newydd 96A(7), cyn rhoi unrhyw ganllawiau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw gymdeithasau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol yng Nghymru, unrhyw gymdeithasau sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol, ac unrhyw bersonau eraill y maent yn meddwl eu bod yn briodol.

189. Mae adran newydd 96B yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag anghydfodau rhwng landlord cymdeithasol ac awdurdod lleol, pan nad yw landlord cymdeithasol yn cydymffurfio â chais o fewn cyfnod rhesymol, ynghylch a oes gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio â chais gan awdurdod lleol ac os nad yw'r landlord cymdeithasol yn ymateb o fewn cyfnod rhesymol i gais a wnaed o dan adran newydd 96A.

190. Mae adran newydd 96B(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ddyroddi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol gydymffurfio â chais o dan adran 96A o dan amgylchiadau penodol yn dilyn atgyfeiriad gan awdurdod tai lleol.

191. O dan adran newydd 96B(1) i (3), gall awdurdod tai lleol atgyfeirio mater at Weinidogion Cymru pan na fo landlord cymdeithasol wedi cydymffurfio â chais yr awdurdod o fewn cyfnod rhesymol a phan na fo'r awdurdod tai lleol, ar ôl rhoi sylw i unrhyw esboniad a ddarparwyd, yn ystyried bod gan y landlord cymdeithasol reswm da dros fethu â chydymffurfio. Gall awdurdod tai lleol hefyd atgyfeirio mater at Weinidogion Cymru pan na fo landlord cymdeithasol wedi ymateb i gais o fewn cyfnod rhesymol.

192. Mae adran newydd 96B(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i gyfarwyddo'r landlord cymdeithasol i gydymffurfio â'r cais os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried yr atgyfeiriad ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y landlord cymdeithasol, yn ystyried nad oes gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r cais neu nad ymatebodd i gais o'r fath. Caiff cyfarwyddyd Gweinidogion Cymru hefyd bennu'r cyfnod pan fo rhaid i'r landlord cymdeithasol gydymffurfio â'r cais. Mae adran newydd 96B(6) yn ei gwneud yn ofynnol i landlord cymdeithasol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan is-adran (5).

193. Mae adran newydd 96B(7) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gyfarwyddyd o'r fath fod yn ysgrifenedig ac mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i amrywio neu ddirymu cyfarwyddyd drwy gyfarwyddyd diweddarach. Mae'n darparu ymhellach y gellir gorfodi cyfarwyddyd o dan is-adran (5) drwy orchymyn gorfodi ar gais gan, neu ar ran, Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod tai lleol a wnaeth yr atgyfeiriad.

**Adran 34: Gweld llety**

194. Mae adrannau 67(4) ac 76(3) o Ddeddf 2014 yn caniatáu i awdurdod lleol ddod â dyletswydd ceisydd i ben pan fydd ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniadau posibl ei wrthod, yn gwrthod cynnig o lety addas.

195. Bydd y ddwy ddarpariaeth hyn yn parhau i fod yn eu lle, ond mae adran 96C yn gosod gofyniad ychwanegol ar awdurdod lleol bod rhaid iddo gymryd camau rhesymol i ddarparu i'r ceisydd gyfle i weld y llety a gynigir, (naill ai'n bersonol neu gan drydydd parti ar ran y ceisydd), cyn i'r ceisydd benderfynu derbyn y

cynnig neu ei wrthod, a hynny cyn y gall yr awdurdod tai lleol ddod â'r dyletswyddau o dan adran 66 neu 75 i ben.

## RHAN 2
## DYRANNU TAI CYMDEITHASOL

### Adran 35: Dyrannu llety tai o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996

196. Mae'r adran hon yn diwygio adran 160A o Ddeddf 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol ddyrannu llety i bersonau cymwys yn unig, fel y nodir yn yr adran honno.

197. Mae adran 35(2) yn dileu adran 160A(1)(b) o Ddeddf 1996, sy'n gwahardd awdurdod tai lleol rhag dyrannu llety i berson y mae'r awdurdod tai lleol wedi penderfynu y dylid ei drin fel pe bai'n anghymwys o ganlyniad i'r ceisydd, neu aelod o aelwyd y ceisydd, gael ei ystyried yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i'w wneud yn anaddas i fod yn denant a'i fod, ar adeg gwneud y cais, yn dal i gael ei ystyried yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw.

198. Mae adran 35(3) yn dileu adran 160A(2), sy'n caniatáu i awdurdod tai lleol yng Nghymru ddyrannu llety tai i unrhyw un, heblaw'r rhai a waharddwyd o dan adran 160A(1).

199. Mae adran 35(4) yn mewnosod adran newydd 160A(6A) i 6C). Mae adran newydd 160A(6A) yn darparu y caiff awdurdod tai lleol yng Nghymru ddyrannu llety tai i berson, ac eithrio person sy'n anghymwys i gael llety o dan adran 160A(1) (fel y'i diwygiwyd), os yw'r person yn berson cymhwysol o fewn ystyr "qualifying person" yn adran newydd 160A(6B), neu, os yw'r person yn gwneud cais am lety ar y cyd ag un neu ragor o bersonau eraill, os yw unrhyw un neu ragor ohonynt yn berson cymhwysol, ac nad yw'r ceisydd wedi ei anghymhwyso yn rhinwedd penderfyniad o dan adran 160A(7) (yn euog o ymddygiad annerbyniol) (fel y'i diwygiwyd gan adran 32(5)).

200. Mae adran newydd 160A(6B) yn galluogi awdurdodau tai lleol i benderfynu pa ddosbarthau ar bersonau sydd yn bersonau cymhwysol, neu nad ydynt yn bersonau cymhwysol, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau ar gymhwystra a chymhwyster fel y darperir ar eu cyfer yn is-adrannau (3), (5) a (7) (fel y'i diwygiwyd) ac is-adran newydd (8A) yn ogystal ag o dan unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran newydd (6C).

201. Mae adran newydd 160A(6C) (fel y'i mewnosodir hefyd gan adran 34(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi dosbarthau ar bersonau sydd i'w trin fel personau cymhwysol, neu nad ydynt i'w trin fel personau cymhwysol. Caiff Gweinidogion Cymru hefyd ragnodi meini prawf na chaniateir eu defnyddio gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru wrth benderfynu pa ddosbarthau ar bersonau nad ydynt yn bersonau cymhwysol.

202. Mae adran 35(5) yn diwygio adran 160A(7). Mae adran 160A(7) yn galluogi awdurdod tai lleol yng Nghymru i anghymhwyso person rhag cael dyraniad os yw'r person hwnnw, neu aelod o'i aelwyd, wedi bod yn euog o ymddygiad annerbyniol sy'n ddigon difrifol i'w wneud yn anaddas i fod yn denant, ac, o dan yr amgylchiadau ar adeg ystyried y cais, fod y person hwnnw yn dal i gael ei ystyried yn anaddas i fod yn denant oherwydd yr ymddygiad hwnnw. Mae'r diwygiad yn darparu, wrth benderfynu a ddylid anghymhwyso person rhag cael dyraniad yn sgil ymddygiad annerbyniol, fod rhaid i'r awdurdod tai lleol ystyried,

yn benodol, y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiad hwnnw'n digwydd eto. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ystyried camau a gymerwyd ers i'r ymddygiad ddigwydd, sy'n golygu yr ystyrir bod yr ymddygiad yn annhebygol o ddigwydd eto neu sy'n lleihau'r risg y bydd yr ymddygiad yn digwydd eto.

203. Mae adran 35(6) yn mewnosod adran newydd 160A(8A), sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson y mae ffafriaeth resymol i'w rhoi iddo o dan gynllun dyrannu awdurdod tai lleol gael ei drin fel person cymhwysol at ddibenion dyrannu tai. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw berson y dylid rhoi ffafriaeth resymol iddo o dan gynllun dyrannu yn rhinwedd adran 167(2) o Ddeddf 1996 yn cael ei drin fel person cymhwysol ar gyfer dyraniad o lety tai o dan adran 160A (fel y'i diwygiwyd) oni bai bod y person yn anghymwys o dan is-adran (3) neu (5), neu ei fod yn cael ei drin fel pe bai wedi ei anghymhwyso o dan is-adran (7) (fel y'i diwygiwyd) neu nad yw'n cael ei drin fel person cymhwysol o dan unrhyw reoliadau a wneir o dan is-adran (6C).

204. Mae adran 160A(9) o Ddeddf 1996 yn darparu, pan fo awdurdod tai lleol yn penderfynu bod ceisydd yn anghymwys i gael dyraniad o lety tai, neu ei fod i'w drin fel pe bai'n anghymwys, fod rhaid hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad a'r seiliau dros wneud y penderfyniad hwnnw. Mae adran 35(7) yn diwygio is-adran (9) fel bod rhaid hysbysu ceisydd os yw awdurdod tai lleol yn penderfynu bod y ceisydd yn anghymwys i gael dyraniad, nad yw'n berson cymhwysol nac yn geisydd ar y cyd â pherson nad yw'n berson cymhwysol, neu ei fod wedi ei anghymhwyso o dan adran 160A(7) (fel y'i diwygiwyd). Wrth hysbysu'r ceisydd am benderfyniad o'r fath, rhaid i'r awdurdod tai lleol hefyd gadarnhau'r seiliau dros wneud y penderfyniad hwnnw.

205. Mae adran 160A(11) o Ddeddf 1996 wedi ei disodli gan adran 35(8) er mwyn galluogi person sydd wedi ei anghymhwyso gan awdurdod tai lleol yn sgil ymddygiad annerbyniol o dan is-adran (7) (fel y'i diwygiwyd) i wneud cais newydd i'r awdurdod am ddyraniad o lety tai os yw'n ystyried y dylai gael ei drin fel person cymhwysol neu berson nad yw wedi ei anghymhwyso.

**Adran 36: Dim ffafriaeth i bersonau sy'n ceisio manipiwleiddio'r system dai**

206. Mae'r adran hon yn diwygio adran 167 o Ddeddf 1996, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol yng Nghymru gael cynllun a gweithdrefn ar gyfer dyrannu llety tai, y mae rhaid iddynt gydymffurfio â hwy pan fyddant yn dyrannu tai. Mae'r adran hon hefyd yn mewnosod adran newydd 167A.

207. O dan adran 167, rhaid i gynllun dyrannu awdurdod tai lleol sicrhau y rhoddir ffafriaeth resymol i'r categorïau o bobl a restrir yn adran 167(2), yn ddarostyngedig i'r eithriadau cyfyngedig y cyfeirir atynt yn is-adrannau (2ZA) a (2B). Mae adran 36(2) yn diwygio adran 167(2B) o Ddeddf 1996, ac yn mewnosod is-adran newydd (2DA). Effaith y newidiadau hynny yw nad oes rhaid i awdurdodau tai lleol roi ffafriaeth i geisydd os yw'r ceisydd yn ddigartref neu os oes dyletswydd yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014, a bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y person yn ceisio manipiwleiddio'r system dai (gweler adran newydd 167A fel y'i mewnosodir gan adran 36(3) o'r Bil). Mae adran 36(2) hefyd yn diwygio adran 167(4A)(b) i'w gwneud yn ofynnol i gynllun dyrannu awdurdod tai lleol sicrhau, pan fo awdurdod lleol yn penderfynu na ddylid rhoi ffafriaeth i geisydd am y rheswm hwnnw, yr hysbysir y ceisydd yn ysgrifenedig am y penderfyniad a'r seiliau dros wneud y penderfyniad hwnnw.

208. Mae adran 36(3) yn mewnosod adran newydd 167A (Ytyr ceisio manipiwleiddio'r system dai) yn Neddf 1996. Mae'n nodi'r amgylchiadau pryd

yr ystyrir bod person yn ceisio manipiwleiddio’r system dai at ddibenion dyrannu llety o dan adran 167(2DA) (fel y’i mewnosodir gan adran 36(2)). Mae’r amgylchiadau hynny fel a ganlyn.

209. Os yw person yn ddigartref neu os oes dyletswyddau yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 oherwydd ei fod wedi gwneud rhywbeth yn fwriadol, neu wedi methu â gwneud rhywbeth yn fwriadol, a arweiniodd at y person hwnnw’n peidio â meddiannu llety a oedd ar gael iddo ac a fyddai wedi bod yn rhesymol iddo ei feddiannu, ystyrir ei fod yn manipiwleiddio’r system dai yn fwriadol os yw’r naill neu’r llall o’r sefyllfaoedd a ganlyn yn gymwys iddo. Yn gyntaf, os gwnaeth y person (neu os na wnaeth y person) y peth hwnnw i’w alluogi i fod â hawlogaeth i gael cymorth o dan Bennod 2 o Ddeddf 2014 neu er mwyn gwella’r tebygolrwydd y byddai llety yn cael ei ddyrannu iddo o dan Ran 6 o Ddeddf 1996. Neu yn ail, os cafodd y person wybodaeth, cyngor neu gefnogaeth arall, cyn gwneud (neu beidio â gwneud) y peth hwnnw, a oedd yn ddigonol i’w alluogi i barhau i feddiannu’r llety hwnnw.

210. Fodd bynnag, pan weithredodd person (neu pan fethodd person â gweithredu) yn ddidwyll o dan amgylchiadau pan nad oedd yn ymwybodol o ffaith berthnasol, ni fydd y weithred honno (neu’r anweithred honno) yn cael ei thrin fel un fwriadol.

211. Os yw person yn ddigartref neu os oes dyletswyddau yn ddyledus iddo o dan adran 66 neu 75 o Ddeddf 2014 oherwydd ei fod wedi ymrwymo i drefniant a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddo adael llety y byddai wedi gallu parhau i’w feddiannu’n rhesymol fel arall, ystyrir ei fod yn manipiwleiddio’r system dai yn fwriadol os yw’r ddwy sefyllfa a ganlyn yn gymwys iddo. Yn gyntaf, os mai diben y trefniant oedd ei alluogi i fod â hawlogaeth i gael cymorth o dan Bennod 2, Rhan 2 o Ddeddf 2014 neu i wella’r tebygolrwydd y byddai llety yn cael ei ddyrannu iddo o dan Ran 6 o Ddeddf 1996. Ac, yn ail, os nad oes rheswm da arall pam y daeth y person yn ddigartref.

212. Fodd bynnag, pan weithredodd person (neu pan fethodd person â gweithredu) yn ddidwyll o dan amgylchiadau pan nad oedd yn ymwybodol o ffaith berthnasol, ni fydd y weithred honno (neu’r anweithred honno) yn cael ei thrin fel un fwriadol.

### Adran 37: Ffafriaeth i bobl ifanc sy’n gadael gofal

213. Mae’r adran hon yn gwneud diwygiadau pellach i adran 167(2) o Ddeddf 1996, sy’n ymwneud â chynllun dyrannu tai awdurdod lleol.

214. Mae adran 37 yn diwygio adran 167(2) er mwyn mewnosod paragraff newydd (ba) er mwyn ychwanegu grŵp newydd o bobl y mae rhaid rhoi ffafriaeth resymol iddynt o dan gynllun dyrannu tai awdurdod tai lleol. Y grŵp hwnnw yw pobl y mae’n ofynnol i awdurdodau lleol cyfrifol gymryd camau rhesymol mewn perthynas â hwy i sicrhau bod llety addas ar gael o dan adran newydd 108A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (a fewnosodir gan adran 23 o’r Bil).

### Adran 38: Cofrestrau tai

215. Mae adran 38(2) yn mewnosod adrannau newydd 160B (Cynigion o lety tai a ddelir gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig: Cymru), 160C (cofrestrau tai cyffredin: Cymru), 160D

(rheoliadau ynghylch cofrestrau tai cyffredin) a 160E (cofrestrau tai hygyrch) yn Neddf Tai 1996.

216. Mae adran newydd 160B o Ddeddf Tai 1996 yn darparu na chaiff landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig ond cynnig llety o fewn ardal awdurdod tai lleol i berson sydd wedi ei gofrestru ar y gofrestr tai cyffredin ar gyfer yr ardal honno. Nid yw hyn yn effeithio fel arall ar bwy y caiff y landlord cymdeithasol cofrestredig neu'r darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig ddewis cynnig llety tai iddo, ar yr amod bod y person wedi ei gofrestru ar y gofrestr tai cyffredin.

217. Mae adran newydd 160C yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol ledled Cymru i sefydlu a chynnal cofrestr tai cyffredin, sy'n gofrestr o bersonau y caniateir dyrannu neu gynnig llety tai yn eu hardal iddynt. Rhaid i'r gofrestr sengl hon gynnwys pob person sy'n gwneud cais i'r awdurdod tai lleol am lety, ar yr amod nad yw'n anghymwys i gael llety wedi ei ddyrannu iddo yn rhinwedd adran 160A(3) a (5), ei fod yn berson cymhwysol o ran tai cymdeithasol (o fewn ystyr adran 160A(6B) neu o fewn adran 160A(6A)(a)(ii)), ac nad yw wedi ei anghymhwyso rhag dyrannu tai cymdeithasol iddo yn rhinwedd penderfyniad o dan adran 160A(7).

218. Mae adran newydd 160C(3) yn caniatáu i awdurdod tai lleol gynnwys person ar y gofrestr tai cyffredin nad yw o bosibl wedi cofrestru os yw'n gymwys ac yn berson cymhwysol.

219. Mae adran newydd 160D(1) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau fel y cânt wneud darpariaethau sy'n ymwneud â chofrestrau tai cyffredin yng Nghymru. Mae adran newydd 160D(2) yn darparu y caiff rheoliadau wneud darpariaeth mewn perthynas â sut y caniateir diwygio neu ddileu cofnodion yn y gofrestr mewn cysylltiad â pherson; sut y mae rhaid cyflwyno hysbysiad i'r person hwnnw; yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys ar y gofrestr; ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth ar y gofrestr i berson rhagnodedig, neu awdurdodi datgelu'r wybodaeth honno; a chaniatáu i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru.

220. Mae is-adran newydd 160D(3) yn darparu na all y rheoliadau o dan is-adran (2) ei gwneud yn ofynnol datgelu na defnyddio gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data, fel y diffinnir "the data protection legislation" gan Ddeddf Diogelu Data 2018, na chaniatáu datgelu na defnyddio gwybodaeth o'r fath. Fodd bynnag, rhaid ystyried y pŵer yn is-adran (1) ac unrhyw ddarpariaethau a wneir odani wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn torri'r ddeddfwriaeth honno.

221. Mae adran newydd 160E(1) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau tai lleol yng Nghymru i sefydlu a chynnal cofrestr tai hygyrch y mae rhaid iddi gynnwys yr holl lety tai yn eu hardal a ddelir ganddynt hwy eu hunain, gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chan ddarparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig a chanddynt nodweddion a allai gynorthwyo person anabl.

222. Mae adran newydd 160E(2) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn cysylltiad â chofrestrau tai hygyrch o'r fath. Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth mewn perthynas â sut y caniateir diwygio neu ddileu cofnodion yn y gofrestr mewn cysylltiad â pherson; sut y mae rhaid cyflwyno hysbysiad i'r person hwnnw; yr wybodaeth y caniateir ei chynnwys ar y gofrestr; ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth ar y gofrestr i berson rhagnodedig, neu awdurdodi datgelu'r wybodaeth honno; a chaniatáu i Weinidogion Cymru roi swyddogaethau i awdurdodau tai lleol yng Nghymru.

223. Mae is-adran newydd 160E(4) yn darparu na all y rheoliadau o dan is-adran (2) ei gwneud yn ofynnol datgelu na defnyddio gwybodaeth a fyddai'n mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data, fel y diffinnir "the data protection Legislation" gan Ddeddf Diogelu Data 2018, na chaniatáu datgelu na defnyddio gwybodaeth o'r fath. Fodd bynnag, rhaid ystyried y pŵer yn is-adran (2) ac unrhyw ddarpariaethau a wneir odani wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn torri'r ddeddfwriaeth honno.

224. Mae adran newydd 160E(5) yn gosod dyletswydd ar landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig sy'n dal llety tai at ddibenion sy'n ymwneud â thai yn ardal yr awdurdod i gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol a wneir iddynt gan yr awdurdod tai lleol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â chofrestrau tai hygyrch.

## RHAN 3
## CYFFREDINOL

### Adran 39: Dehongli

225. Mae'r adran hon yn diffinio cyfeiriadau at Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

### Adran 40: Mân ddarpariaethau a darpariaethau canlyniadol

226. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n gwneud mân newidiadau i ddeddfwriaeth a newidiadau sy'n ganlyniadol ar ddarpariaethau'r Bil hwn.

### Adran 41: Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a darpariaeth drosiannol etc.

227. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau deilliadol, darpariaethau atodol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn cysylltiad â darpariaethau yn y Bil.

### Adran 42: Dod i rym

228. Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd y darpariaethau yn y Bil yn dod i rym. Daw adrannau 39, 41, 42 a 43 i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Bil hwn y Cydsyniad Brenhinol. Daw'r darpariaethau eraill i rym ar ddiwrnod (neu ar ddiwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru. Caiff gorchymyn yn hyn o beth wneud [darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed].

### Adran 43: Enw byr

229. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) 2026 neu the Homelessness and Social Housing Allocation (Wales) Act 2026.

## ATODLEN 1
## MÂN DDARPARIAETHAU A DARPARIAETHAU CANLYNIADOL

230. Mae paragraff 1 yn diwygio Rhan 6 o Ddeddf 1996 (dyrannu llety tai) fel bod y cyfeiriadau at “Secretary of State” sydd, o ganlyniad i Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 ac Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn cael eu darllen fel pe baent yn golygu “Welsh Ministers”, yn cael eu disodli gan “Welsh Ministers”.

231. Mae paragraff 1 hefyd yn diwygio’r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 172 o Ddeddf 1996, er mwyn egluro bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu gwneud gan Senedd Cymru, a bod rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu gwneud gan Senedd y DU.

232. Mae paragraff 2 yn diwygio tabl 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy’n cynnwys rhestr o ddeddfiadau y mae swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol wedi eu nodi a’u disgrifio ynddynt. Gwneir y diwygiadau ym mharagraff 2 o ganlyniad i fewnosod adrannau 94A a 94B yn Neddf 2014 gan adran 21, i’r graddau y mae’r ddyletswydd i ofyn a gweithredu wedi ei gosod ar awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol ac i adlewyrchu’r diwygiadau i adran 95.

233. Mae paragraffau 3 i 18 yn gwneud cyfres o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol eraill i Ddeddf 2014 a wneir yn bennaf o ganlyniad i hepgor adrannau 70, 73, 77 a 78.

234. Mae paragraff 19 yn gwneud cyfres o ddiwygiadau canlyniadol i adran 99 o Ddeddf 2014, sy’n diffinio termau a ddefnyddir yn Rhan 2 o’r Ddeddf honno neu’n esbonio fel arall lle y gellir dod o hyd i ddiffiniadau o dermau.

## ATODIAD 2: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datgan y byddai darpariaethau’r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd | Datganiad yr Aelod | Tudalen 1 |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil | Rhan 1, Pennod 3 – Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael | Tudalennau 5-37 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu’r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu | Rhan 2, Pennod 6, 7 a 8 Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 81-188 |
| 26.6(iv) | Nodi’r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a’r ffyrdd o’u gwireddu;<br><br>(b) manylion y Bil, a<br><br>(c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu’n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau) | Rhan 1, Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 38-63<br><br>Paragraffau 3-11 ar gyfer crynodeb o waith y Panel Adolygu Arbenigol.<br><br>Paragraffau 12-15 ar gyfer crynodeb o ymgynghoriad y Papur Gwyn.<br><br>Paragraffau 16-29 ar gyfer crynodeb o ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyn.<br>Paragraffau 30-112 ar gyfer crynodeb o’r newidiadau a |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | wnaed fel canlyniad i Adborth o'r ymgynghoriad.<br><br>Paragraffau 113-127 ar gyfer crynodeb o ymgysylltiad ar ôl yr ymgynghoriad.<br><br>Paragraff 114 ar gyfer ymgysylltiad gyda'r Panel Adolygu Arbenigol ar ôl yr ymgynghoriad.<br><br>Paragraffau 115-116 ar gyfer y cydweithredu i gynhyrchu'r Dadansoddiad Cost a Budd.<br><br>Paragraff 117 ar gyfer ymgysylltiad gyda Awdurdodau Tai Lleol.<br><br>Paragraff 118 ar gyfer ymgysylltiad gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.<br><br>Paragraff 119 ar gyfer ymgysylltiad gyda Gwasanaethau Cymdeithasol. |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | | | Paragraff 120 ar gyfer ymgysylltiad gyda Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.<br><br>Paragraff 121 ar gyfer ymgysylltiad gyda GIG Cymru.<br><br>Paragraff 122 ar gyfer ymgysylltiad gyda Undebau Addysg Cymru.<br><br>Paragraff 123-125 ar gyfer ymgysylltiad gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi.<br><br>Paragraff 126 ar gyfer ymgysylltiad gyda'r Drydydd Sector. |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio | Rhan 1, Pennod 4 – Ymgynghori | Tudalennau 38-63 ar gyfer crynodeb o'r ymgynghoriadau blaenorol a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Bil. |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | Rhan1, Pennod 4 – Ymgynghori | Paragraff 128 ar gyfer y rhesymeg. |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen | Atodiad 1 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 208-237 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/<br>paragraffau |
|---|---|---|---|
| | esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil | | |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br><br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br><br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br><br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br><br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio | Rhan 2, Penodau 6 a 8 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol Costau a Manteision | Tudalennau 81-188<br><br>Tudalennau 81-84, Crynodeb o Asesiad Effaith Rheoleiddiol<br><br>Tudalennau 89-188, Pennod 8 - Opsiynau, gan gynnwys costau a manteision.<br><br>Tudalennau 189-191, Pennod 9 Asesiad Fforddiadwyedd<br><br>Tudalennau 192-195, Pennod 10 Y Prawf Hidlo'r Gystadleuaeth |
| 26.6(ix) | Unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol | Rhan 2, Pennod 11 – crynodeb o Asesiad Effaith Integredig | Tudalennau 196-204 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: | Rhan 1, Pennod 5 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 64-80 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | (a) y person neu’r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae’r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo’r pŵer; ac<br><br>(c) Gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae’r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i’w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall); | | |
| 26.6(xi) | Os yw’r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy’n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy’n nodi ei farn ef ar a yw’r tâl yn briodol neu beidio | Nid yw’r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn gymwys i’r Bil hwn | |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf. | Rhan 2, Pennod 11 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 196-204 |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Atodiad 3 – Tabl tarddiadau | Tudalennau 244-251 |
| 26.6C | Pan fo'r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r | Atodiad 4 – Atodlen o ddiwygiadau | Tudalennau 252-360 |

| Rheol sefydlog | | Adran | Tudalennau/ paragraffau |
|---|---|---|---|
| | Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | | |

**ATODIAD 3: Tabl tarddiadau**

Diben y tabl canlynol yw darparu gwybodaeth am darddiad y darpariaethau sydd ym Mil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) ("y Bil"). Nid yw'r tabl yn cynnig arweiniad diffiniol nac ychwaith arweiniad cynhwysfawr, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r Bil a'r Nodiadau Esboniadol. Er y cymerwyd gofal i sicrhau bod y ddogfen mor gywir ag sy'n rhesymol ymarferol, nid yw'n honni bod yn awdurdodol, ac ni ddylid tybio hynny.

**ALLWEDD I'R BYRFODDAU**

HWA 2014 Deddf Tai (Cymru) Act 2014
HA 1996 Deddf Tai 1996
SSWBA 2014. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

| ADRAN/PARAGRAFF | CYFEIRIAD CYFATEBOL MEWN DEDDFWRIAETH SY'N BODOLI EISOES | NEWID SYLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Rhan 1: Digartrefedd<br>Helpu i osgoi digartrefedd** | | |
| 1 | Adran 55 o HWA 2014. | Oes. Mae Adran 1 yn newid y diffiniad o "dan fygythiad o ddigartrefedd" fel y bydd person o dan fygythiad o ddigartrefedd os yw wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol iddo ildio meddiant ar ei lety, os yw cais wedi cael ei wneud i'r Uchel Lys neu'r llys sirol i feddiannu ei lety neu os yw'n debygol y bydd y person yn mynd yn ddigartref o fewn chwe mis. |
| 2 | Adran 65 a 66 o HWA 2014. | Oes. Mae'r adran yn hepgor adran 65 o HWA 2014 ac yn mewnosod darpariaethau newydd yn adran 66. O dan adran 66 (fel y'i diwygiwyd), pan fydd awdurdod tai lleol yn fodlon bod ymgeisydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac yn gymwys i gael help, rhaid i'r awdurdod gymryd camau rhesymol sy'n debygol o sicrhau bod llety addas yn parhau i fod ar gael i'r ymgeisydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 3 | Adran 62 a 63 o HWA 2014 Ddeddf Tai. | Oes. Mae adran 3 yn diwygio'r ddyletswydd i asesu ymgeisydd (sy'n cynnwys ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol asesu'r cymorth y gallai fod ei angen ar yr ymgeisydd i oresgyn unrhyw rwystr y gallai fod yn ei wynebu i fyw'n annibynnol, gwneud ymholiadau ynghylch nodweddion ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd ac unrhyw berson y mae'r ymgeisydd yn byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef ac o ran cyfathrebu i sicrhau ei fod yn hygyrch). Mae adran 3 hefyd yn diwygio'r ddyletswydd i hysbysu'r ymgeisydd am ganlyniad yr asesiad i gynnwys y materion ychwanegol y mae'n rhaid eu hasesu a phan fydd yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chynnal asesiad. |
| 4 | Newydd. Mae adran 4 yn mewnosod adran 63A newydd yn HWA 2014- Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety | Oes. Mae hyn yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau tai lleol i gwblhau Cynlluniau Atal, Cefnogaeth a Llety a'u hadolygu pan fo angen. |
| 5 | Adrannau 84,85, 86 ac 88 o HWA 2014. | Oes. Mae'r adran hon yn cyflwyno hawliau adolygu newydd, mewn perthynas â'r asesiad o dan adran 62, yr asesiad o angen, yr asesiad o'r cymorth sydd ei angen i gadw llety neu i oresgyn unrhyw anhawster o ran byw'n annibynnol a hawliau adolygu newydd mewn perthynas â'r Cynllun Atal, Cefnogaeth a Llety. Mae hefyd yn ymestyn cyfnod amser yr hawl am adolygiad o addasrwydd llety. Mae adran 5 yn diwygio adran 88 ymhellach i ymestyn yr hawl i apelio i adlewyrchu'r rhestr estynedig o faterion y gellir eu hadolygu o dan adran 85. |
| 6 | Mae'r adran hon yn dileu adrannau 73 a | Oes. Mae Adran 6 yn rhoi adran 75 newydd yn HWA 2014 |

| | | |
|---|---|---|
| | 74 ac yn rhoi adran arall yn lle adran 75 o HWA 2014. | sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i ymgeisydd ei feddiannu. Mae'n darparu eithriadau pan na fydd y ddyletswydd yn adran 75 yn berthnasol h.y. pan nad oes cysylltiad lleol â Chymru (oni bai bod yr ymgeisydd mewn perygl o gamdriniaeth), neu lle mae'r ymgeisydd yn garcharor ac nad oes posibilrwydd rhesymol iddo gael ei ryddhau o fewn chwe mis. |
| 7 | Adran 76 o HWA 2014. | Oes. Yn fras, mae'r adran hon yn ymestyn yr amgylchiadau pan gaiff awdurdodau tai lleol wneud eu prif ddyletswydd o ran digartrefedd. |
| 8 | Adran 68 a 69 o HWA 2014 . | Oes. Mae'r adran hon yn diwygio pan fydd dyletswydd adran 68 yn cynnwys y rhai nad oes ganddynt gysylltiad lleol â Chymru ac mae'n diwygio adran 69 sy'n darparu pan ddaw'r ddyletswydd adran 68 i ben. |
| 9 | Mae adrannau 70, 71 a 72 o HWA 2014 wedi'u hepgor. | Oes. Mae adran 9 yn diddymu'r prawf angen â blaenoriaeth. |
| 10 | Adran 77 a 78 o HWA 2014. | Oes. Mae adran 10 yn diddymu'r prawf bwriad. |
| 11-17 | Mae adrannau 80, 81 yn mewnosod adrannau 81A,82,83,84, 85 newydd o HWA 2014. Mae hefyd yn diwygio adran 201A o Ddeddf Tai 1996 ("HA 19962") | Oes. Bydd yr adrannau hyn yn diwygio'r prawf cysylltiad lleol, gan gynnwys y diffiniad o gysylltiad lleol, eithriadau rhag atgyfeirio ac yn diwygio'r dyletswyddau sydd angen eu gwneud wrth atgyfeirio. Mae hefyd yn diwygio hawliau am adolygiad mewn perthynas ag atgyfeirio pobl â chysylltiadau lleol. |
| 18 | Newydd. Mae adran 18 yn mewnosod adran 76A newydd yn HWA 2014- Help i gadw llety addas wrth arfer swyddogaethau digartrefedd. | Oes. Mae adran 18 yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau tai lleol i helpu ymgeiswyr (y mae'r awdurdod tai lleol yn ystyried eu bod mewn perygl o fod yn ddigartref neu fyddai o dan fygythiad o |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddigartrefedd oni bai bod cymorth yn cael ei ddarparu) i gadw llety addas sydd wedi'i sicrhau o dan y swyddogaethau digartrefedd. |
| 19 | Newydd. Mae adran 19 yn mewnosod adran 76C newydd yn HWA 2014 – Dyletswydd i gadw mewn cysylltiad ag ymgeiswyr penodol. | Oes. Mae adran 19 yn rhoi dyletswydd newydd ar awdurdodau tai lleol i gymryd camau rhesymol i gysylltu â chyn-ymgeiswyr y bydd eu dyletswydd o dan rai amgylchiadau, wedi dod i ben. |
| 20 | Adran 79 o HWA 2014 . | Oes. Mae adran 20 yn diwygio adran 79 i ddarparu amgylchiadau ychwanegol pan y gellir dod â dyletswyddau digartrefedd i ben; os yw ymgeisydd yn dreisgar neu fygythiol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau digartrefedd, yn difrodi eiddo'n ddifrifol neu os oes diffyg cyswllt dro ar ôl tro. Hefyd, mae adran 79 yn nodi amgylchiadau pellach pan y gall dyletswyddau awdurdod tai lleol o dan adran 76A (a fewnosodir gan adran 18 o'r Bil hwn) ddod i ben. |
| 21 | Adrannau 94A, 94B, 98 newydd | Oes. Mae'r adran hon yn rhoi dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus penodol i "ofyn a gweithredu" pan fyddant yn ystyried bod person yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. |
| 22 | Adran 213B o HA 1996 | Oes. Mae'r adran hon yn diwygio'r Ddyletswydd i Atgyfeirio yn Lloegr fel y gall cyrff yn Lloegr sy'n dod o dan y ddyletswydd atgyfeirio i awdurdod lleol yng Nghymru yn ogystal ag yn Lloegr. |
| 23 | Yn mewnosod Adran 108A a 109A newydd yn SSWBA 2014- Dyletswydd i sicrhau bod gan bobl ifanc sy'n | Oes. Mae adran 23 yn rhoi dyletswyddau newydd ar awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael am gyfnodau |

| | | |
|---|---|---|
| | gadael gofal lety addas | penodol i rai o'r rhai sy'n gadael gofal. |
| 24 | Adran 95 o HWA 2014. | Oes. Mae adran 24 yn rhoi dyletswydd statudol newydd ar awdurdod lleol i sefydlu protocolau ar y cyd mewn perthynas â phobl ifanc a phobl sy'n gadael gofal a phobl ifanc sy'n gadael llety cadw ieuenctid, carchar, neu safle cymeradwy rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai sy'n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol. |
| 25 | Adran 95 o HWA 2014. | Oes. Bydd Adran 25 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad rhwng yr awdurdod tai lleol ei hun a rhai awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau gwirfoddol neu gyrff perthnasol eraill i gynorthwyo â nifer o swyddogaethau sy'n ymwneud ag atal digartrefedd a chymorth ehangach. Rhaid i'r trefniadau gynnwys protocolau ar gyfer rhai pobl agored i niwed. |
| 26 | Adran 93 o HWA 2014. | NA. |
| 27 | Adran 60 o HWA 2014. | NA. |
| 28 | Yn cymryd lle Adran 58 o HWA 2014. | Oes. Mae'r adran hon yn darparu diffiniad ehangach o gam-drin a cham-drin domestig er mwyn ymgorffori cam-drin domestig (fel y'i diffinnir o dan adran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021) ac unrhyw fath arall o gamdriniaeth, er enghraifft, ecsbloetio (o fewn yr ystyr a roddir gan adran 3 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015), aflonyddu a stelcian (o fewn ystyr yr ymadroddion hynny yn Neddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997). . |

| | | |
|---|---|---|
| 29 | Adrannau 52, 64 a 98 o HWA 2014. | Oes. Mae Adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol, wrth ddatblygu eu strategaethau digartrefedd a'u gwasanaethau cynghori lleol, ymgynghori â phobl sy'n ddigartref neu sydd wedi bod yn ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae Adran 29 yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phobl sydd wedi bod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd wrth ddatblygu canllawiau i awdurdodau lleol mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau digartrefedd. |
| 30 | Adran 59 o HWA 2014. | Oes.  Rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i Ran 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wrth benderfynu ar addasrwydd llety o dan y swyddogaethau digartrefedd. |
| 31 | Newydd. Mae adran 31 yn mewnosod adran 97A newydd yn HWA 2014- Adroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim | Ydy, mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad ar ddefnydd a chyflwr llety interim a sicrhawyd gan awdurdodau tai lleol.<br><br>Rhaid i'r adroddiad hwn gael ei osod gerbron Senedd Cymru, a'i gyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Rhaid gosod yr adroddiad cyn 31 Rhagfyr 2030 a phob 5 mlynedd wedi hynny. |
| 32 | Adran 95 o HWA 2014. | Oes. Bydd adran 32 yn ehangu'r ddyletswydd i gydweithredu fel ei bod yn gymwys i ystod ehangach o gyrff cyhoeddus penodedig a restrir yn is-adran 95(5) o HWA 2014. |
| 33 | Newydd. Mae adran 33 yn mewnosod adrannau 96A a 96B newydd yn HWA 2014- Cydweithrediad rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol. | Oes. Mae adran 33 yn galluogi awdurdod tai lleol i ofyn i landlord cymdeithasol ddarparu llety i ymgeisydd digartref. Rhaid cydymffurfio â chais o'r fath o fewn cyfnod rhesymol. Gall y landlord cymdeithasol wrthod cais o'r fath dim ond os oes rheswm da i beidio â |

| | | |
|---|---|---|
| | | chydymffurfio. Mae'r adran hefyd yn rhoi pwerau gwneud cyfarwyddydau i Weinidogion Cymru i orfodi landlordiaid cymdeithasol i gydymffurfio a phwerau gwneud canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd hon. |
| 34 | Newydd. Mae adran 34 yn mewnosod adrannau 96C newydd yn HWA 2014- Gweld llety. | Oes. Mae'r adran hon yn darparu bod yn rhaid i'r awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i roi cyfle i'r ymgeisydd weld llety cyn i'r ymgeisydd benderfynu derbyn neu wrthod y cynnig. |
| **Rhan 2: Dyrannu Tai Cymdeithasol** | | |
| 35 | Adran 160A o Ddeddf Tai 1996 | Oes. Mae Adran 35 yn rhoi disgresiwn i awdurdodau tai lleol benderfynu pa ddosbarthiadau o bobl sy'n gymwys neu nad ydynt yn gymwys i gael tai cymdeithasol yn eu hardal, ar yr amod nad ydynt mewn grŵp sydd wedi'i anghymhwyso rhag cael dyraniad. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer hefyd i Weinidogion Cymru ragnodi dosbarthiadau o bobl sydd i'w trin fel pobl gymwys neu bobl nad ydynt yn gymwys. |
| 36 | Mae paragraff 8(167) yn diwygio adran 167A o Ddeddf Tai 1996 | Oes. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno prawf manipiwleiddio bwriadol. Bydd y prawf hwn wedi'i gyfyngu i'r rhai sydd wedi ceisio manipiwleiddio'r system ddigartrefedd yn fwriadol i sicrhau mantais wrth wneud cais am dai cymdeithasol. Yn yr amgylchiadau hyn, ni fydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol roi dewis rhesymol i'r ymgeisydd. |
| 37 | Adran 167 o Ddeddf Tai 1996 | Oes. Mae adran 37 yn berthnasol i bobl sy'n gadael gofal y mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau amdanynt o dan adran newydd 108A o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (sy'n ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau llety iddynt ei feddiannu), gan sicrhau bod awdurdodau tai lleol yn rhoi blaenoriaeth i'r grŵp hwn wrth ddyrannu tai cymdeithasol. |
| 38 | Diwygiwyd Deddf Tai 1996 drwy fewnosod, ar ôl adran 160A, adrannau 160B, 160C, 160D a 160E. | Oes. Mae adran 38 yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau tai lleol yng Nghymru yn sefydlu a chynnal Cofrestr Tai Gyffredin a Chofrestr Tai Hygyrch ar gyfer pobl sy'n gwneud cais i awdurdod eu hardal am lety cartref ac sy'n gymwys ac yn berson cymwys. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â darparu'r ddwy gofrestr. |
| **Rhan 3: Cyffredinol** | | |
| Atodlen 1, paragraff 1 | Adran 172 o Ddeddf Tai 1996 | Oes. Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn adran 172 wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r ffaith bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn cael eu pasio gan y Senedd tra bod rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu pasio gan Senedd y DU. |

## Atodiad 4: Atodlen o Ddiwygiadau

## Gwelliannau i’w gwneud gan y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru)

Bwriad y ddogfen hon yw dangos sut y byddai darpariaethau’r deddfau canlynol, fel yr oeddent yn gymwys mewn perthynas â Chymru ar 17 Ebrill 2025, yn edrych fel eu diwygiwyd gan y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) (os caiff ei ddeddfu), fel ei cyflwynwyd ar 19 Mai 2025.

**Deddfwriaeth Sylfaenol**

- **Deddf Tai 1996**
- **Deddf Tai (Cymru) 2014**
- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Mae'r deunydd sydd i'w ddileu gan y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) mewn llinell drwodd, e.e. ~~mae deunydd sydd wedi'i hepgor yn edrych fel hyn~~.

Mae'r deunydd sydd i'w ychwanegu gan y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) yn cael ei danlinellu, e.e. <u>mae deunydd ychwanegol yn edrych fel hyn</u>.

Mae cyfeiriadau at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil yn cael eu darparu yn y golofn ar y dde ar bob tudalen.

Mae nifer o ddarpariaethau cysylltiedig o'r Deddfau, er nad ydynt yn cael eu diwygio, wedi'u cynnwys i gynorthwyo dealltwriaeth o'r gwelliannau arfaethedig.

**Rhybudd**

Paratowyd y testun hwn gan swyddogion Grŵp Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru. Er bod ymdrechion wedi'u cymryd i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil. Fe'i cynhyrchwyd yn unig i helpu pobl i ddeall effaith Bil Digartrefedd Tai a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru). Nid yw wedi'i fwriadu i'w ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

## Housing Act 1996

| Section | Amended by |
|---|---|
| **160 Cases where provisions about allocation do not apply** | Schedule 1 paragraph 1(2) |

| | |
|---|---|
| (1) The provisions of this Part about the allocation of housing accommodation do not apply in the following cases.<br>(2) They do not apply where a secure tenancy—<br>(a) vests under section 89 of the Housing Act 1985 (succession to periodic secure tenancy on death of tenant),<br>(b) remains a secure tenancy by virtue of section 90 of that Act (devolution of term certain of secure tenancy on death of tenant),<br>(c) is assigned under section 92 of that Act (assignment of secure tenancy by way of exchange),<br>(d) is assigned to a person who would be qualified to succeed the secure tenant if the secure tenant died immediately before the assignment,<br>[(da) is granted in response to a request under section 158 of the Localism Act 2011 (transfer of tenancy), or]<br>(e) vests or is otherwise disposed of in pursuance of an order made under—<br>(i) section 24 of the Matrimonial Causes Act 1973 (property adjustment orders in connection with matrimonial proceedings),<br>(ii) section 17(1) of the Matrimonial and Family Proceedings Act 1984 (property adjustment orders after overseas divorce, &c), . . .<br>(iii) paragraph 1 of Schedule 1 to the Children Act 1989 (orders for financial relief against parents)[, or<br>(iv) Part 2 of Schedule 5, or paragraph 9(2) or (3) of Schedule 7, to the Civil Partnership Act 2004 (property adjustment orders in connection with civil partnership proceedings or after overseas dissolution of civil partnership, etc)].<br>(3) They do not apply where an introductory tenancy—<br>(a) becomes a secure tenancy on ceasing to be an introductory tenancy,<br>(b) vests under section 133(2) (succession to introductory tenancy on death of tenant),<br>(c) is assigned to a person who would be qualified to succeed the introductory tenant if the introductory tenant died immediately before the assignment, or | |

| | |
|---|---|
| (d) vests or is otherwise disposed of in pursuance of an order made under—<br><br>(i) section 24 of the Matrimonial Causes Act 1973 (property adjustment orders in connection with matrimonial proceedings),<br><br>(ii) section 17(1) of the Matrimonial and Family Proceedings Act 1984 (property adjustment orders after overseas divorce, &c), . . .<br><br>(iii) paragraph 1 of Schedule 1 to the Children Act 1989 (orders for financial relief against parents)[, or<br><br>(iv) Part 2 of Schedule 5, or paragraph 9(2) or (3) of Schedule 7, to the Civil Partnership Act 2004 (property adjustment orders in connection with civil partnership proceedings or after overseas dissolution of civil partnership, etc)].<br><br>[(3A) They do not apply where—<br><br>(a) a person succeeds to a secure occupation contract under section 73 (succession on death), section 78 (more than one qualified successor), or section 80 (substitute succession on early termination) of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1),<br><br>(b) a secure contract is transferred to a potential successor under section 114 of that Act (transfer to potential successor),<br><br>(c) a secure contract is transferred to another secure contract-holder under section 118 of that Act (transfer to another secure contract-holder),<br><br>(d) a secure contract or a standard introductory contract vests or is otherwise disposed of in pursuance of an order under—<br><br>(i) section 24 of the Matrimonial Causes Act 1973 (c 18) (property adjustment orders in connection with divorce proceedings, etc),<br><br>(ii) section 17(1) of the Matrimonial and Family Proceedings Act 1984 (c 42) (orders for financial provision and property adjustment),<br><br>(iii) paragraph 1 of Schedule 1 to the Children Act 1989 (c 41) (orders for financial relief against parents), or<br><br>(iv) Part 2 of Schedule 5, or paragraph 9(2) or (3) of Schedule 7 to the Civil Partnership Act | |

| | |
|---|---|
| 2004 (c 33) (property adjustment orders in connection with civil partnership proceedings or overseas dissolution of civil partnership, etc), or<br><br>(e) an introductory standard contract becomes—<br><br>(i) a secure contract under section 16 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (introductory standard contracts), or<br><br>(ii) a prohibited conduct standard contract becomes a secure contract under section 117 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (conversion to secure contract).]<br><br>(4) They do not apply:<br><br>(a) in relation to England, in such other cases as the Secretary of State may prescribe by regulations.<br><br>(b) in relation to Wales, in such other cases as the Welsh Ministers may prescribed by regulations.<br><br>(5) The regulations may be framed so as to make the exclusion of the provisions of this Part about the allocation of housing accommodation subject to such restrictions or conditions as may be specified.<br><br>In particular, those provisions may be excluded—<br><br>(a) in relation to specified descriptions of persons, or<br><br>(b) in relation to housing accommodation of a specified description or a specified proportion of housing accommodation of any specified description. | |
| **160A Allocation only to eligible and qualifying persons: Wales**<br><br>(1)A local housing authority in Wales shall not allocate housing accommodation—<br><br>(a)to a person from abroad who is ineligible for an allocation of housing accommodation by virtue of subsection (3) or (5); or<br><br>~~(b)to a person who the authority have decided is to be treated as ineligible for such an allocation by virtue of subsection (7); or~~<br><br>(c)to two or more persons jointly if any of them is a person mentioned in paragraph (a) ~~or (b)~~.<br><br>~~(2)Except as provided by subsection (1), any person may be allocated housing accommodation by a local housing authority **[**F4in Wales**]** (whether on his application or otherwise).~~ | Section 35 and Schedule 1, paragraph 1(3) |

| | |
|---|---|
| (3)A person subject to immigration control within the meaning of the Asylum and Immigration Act 1996 (c. 49) is (subject to subsection (6)) ineligible for an allocation of housing accommodation by a local housing authority in Wales unless he is of a class prescribed by regulations made by the ~~Secretary of State~~ Welsh Ministers.<br><br>(4)No person who is excluded from entitlement to universal credit or housing benefit by section 115 of the Immigration and Asylum Act 1999 (c. 33) (exclusion from benefits) shall be included in any class prescribed under subsection (3).<br><br>(5)The ~~Secretary of State~~ <u>Welsh Ministers</u> may by regulations prescribe other classes of persons from abroad who are (subject to subsection (6)) ineligible for an allocation of housing accommodation, either in relation to local housing authorities in Wales generally or any particular local housing authority in Wales.<br><br>(6)Nothing in subsection (3) or (5) affects the eligibility of a person who is already a contract-holder in relation to housing accommodation allocated to that person by a local housing authority in Wales.<br><br><u>(6A) Except as provided by subsection (1), a person may be allocated housing accommodation by a local housing authority in Wales (whether on application by the person or otherwise) if—</u><br><br><u>(a) the person—</u><br><br><u>(i) is a qualifying person within the meaning of subsection (6B), or</u><br><br><u>(ii) is one of two or more persons who apply for accommodation jointly, and one or more of the other persons is a qualifying person within the meaning of subsection (6B), and</u><br><br><u>(b) the person is not disqualified by virtue of a decision under subsection (7).</u><br><br><u>(6B) A local housing authority may decide what classes of persons are, or are not, qualifying persons, subject to—</u><br><br>(a) <u>subsections (3), (5), (7) and (8A), and</u><br>(b) <u>any regulations under subsection (6C).</u><br>(c)<br><br><u>(6C) The Welsh Ministers may, by regulations—</u><br><br><u>(a) prescribe classes of persons who are, or are not, to be treated as qualifying persons by local housing authorities in Wales, and</u> | |

(b) prescribe criteria that may not be used by local housing authorities in Wales in deciding what classes of persons are not qualifying persons.

(7)A local housing authority in Wales may decide that an applicant is to be ~~treated as ineligible~~ disqualified for an allocation of housing accommodation by them if they are satisfied that—

(a)he, or a member of his household, has been guilty of unacceptable behaviour serious enough to make him unsuitable to be a tenant of the authority; and

(b)in the circumstances at the time his application is considered, taking into account, in particular, the likelihood of that behaviour reoccurring, he is unsuitable to be a tenant of the authority by reason of that behaviour.

(8)The only behaviour which may be regarded by the authority as unacceptable for the purposes of subsection (7)(a) is behaviour of the person concerned which would (if that person were a contract-holder of the authority) breach section 55 of the Renting Homes (Wales) Act 2016 (anaw 1) (anti-social behaviour and other prohibited conduct).

(8A) A person who is to be given reasonable preference under a local housing authority allocation scheme by virtue of section 167(2) must be treated as a qualifying person within the meaning of subsection (6B), subject to—

(a) subsections (3), (5) and (7), and

(b) any regulations under subsection (6C).

9)If a local housing authority in Wales decide that an applicant for housing accommodation—

(a)is ineligible for an allocation by them by virtue of subsection (3) or (5); or

~~(b)is to be treated as ineligible for such an allocation by virtue of subsection (7),~~

(b) is neither

(i) not a qualifying person, nor

(ii) paragraph (ii) of subsection (6A)(a); or

(c) is disqualified by virtue of a decision under subsection (7), they shall notify the applicant of their decision and the grounds for it.

(10)That notice shall be given in writing and, if not received by the applicant, shall be treated as having been given if it is made available at the authority's office for a reasonable period for collection by him or on his behalf.

| | |
|---|---|
| (11)~~A person who is being treated by a local housing authority **[**F15in Wales**]** as ineligible by virtue of subsection (7) may (if he considers that he should no longer be treated as ineligible by the authority **[**F15in Wales**]**) make a fresh application to the authority **[**F15in Wales**]** for an allocation of housing accommodation by them.~~**]**<br><br>(11) A person whose application for housing accommodation is rejected by virtue of provision in or made under this section may may make a fresh application to the authority for an allocation of housing accommodation by them. | |
| **160B Offers of housing accommodation held by registered social landlords and private registered providers of social housing: Wales**<br><br>(1) Registered social landlords and private registered providers of social housing may only offer housing accommodation which they hold in a local housing authority's area in Wales to persons included on the common housing register for that area.<br><br>(2) Subsection (1) does not otherwise affect the right of registered social landlords or private registered providers of social housing to choose who is offered housing accommodation which they hold in Wales.<br><br>*Housing registers*<br><br>**160C Common housing registers: Wales**<br><br>(1) A local housing authority in Wales must establish and maintain a register of persons to whom housing accommodation may be allocated or offered in accordance with this Part (a "common housing register").<br><br>(2) A local housing authority must include a person on the common housing register if—<br><br>(a) the person applies to the authority for housing accommodation, and<br>(b) the authority decides that the person—<br>(a) is not ineligible for an allocation of housing accommodation by virtue of section 160A(3) and (5), | Section 38 |

| | |
|---|---|
| (b) is a qualifying person (within the meaning of section 160A(6B)) or falls within subsection (6A)(a)(ii) of that section, and<br>(c) is not disqualified by virtue of a decision under section 160A(7).<br><br>(3) A local housing authority may include a person on the common housing register without an application if the authority decides that sub-paragraphs (i), (ii) and (iii) of paragraph (b) of subsection (2) apply to the person.<br><br>**160D Regulations about common housing registers**<br><br>(1) The Welsh Ministers may, by regulations, may make provision for and in connection with common housing registers.<br><br>(2) The regulations may, in particular, make provision—<br>(a) about amending and removing entries in the register in respect of a person;<br>(b) about giving notice (for example, giving notice if a person is included in the register or if an entry in the register in respect of a person is amended or removed);<br>(c) about the information that may or must be included on the register;<br>(d) requiring or authorising the disclosure of information contained on the register to a person or description of person specified in the regulations;<br>(e) conferring functions on local housing authorities in Wales.<br><br>(3) Regulations under subsection (1) may not require or authorise the disclosure or use of information which would contravene data protection legislation (within the meaning of the Data Protection Act 2014 (c. 12)); but the power in subsection (1) and provision made in exercise of it is to be taken into account in determining whether the disclosure would contravene that legislation.<br><br>**160E Accessible housing register** | |

| | |
|---|---|
| (1) A local housing authority in Wales must establish and maintain a register of housing accommodation in their area that—<br><br>(a) is held by them, by registered social landlords and by private registered providers of social housing, and<br>(b) has features that may assist a disabled person.<br><br>(2) The Welsh Ministers may, by regulations, make provision for and in connection with a register required to be established and maintained under this section.<br><br>(3) The regulations may, in particular, make provision about—<br><br>(a) about amending and removing an entry in the register in respect of housing accommodation;<br>(b) about giving notice (for example, giving notice to persons specified in the regulations if accommodation is included on the register or if an entry in respect of the accommodation is amended or removed);<br>(c) about the information that may or must be included on the register;<br>(d) requiring or authorising the disclosure of information contained on the register to a person or description of person specified in the regulations;<br>(e) conferring functions on local housing authorities in Wales.<br><br>(4) Regulations under subsection (2) may not require or authorise the disclosure or use of information which would contravene the data protection legislation (within the meaning of the Data Protection Act 2014 (c. 12)); but the power in subsection (2) and provision made in exercise of it is to be taken into account in determining whether the disclosure would contravene that legislation.<br><br>(5) (5) A registered social landlord and a private registered provider of social housing which holds housing for housing purposes in the authority's area must comply with any reasonable request made to it by a local housing authority in connection with the | |

| | |
|---|---|
| exercise of the authority's functions under this section. | |
| **167Allocation in accordance with allocation scheme : Wales**<br>(1)Every local housing authority in Wales shall have a scheme (their "allocation scheme") for determining priorities, and as to the procedure to be followed, in allocating housing accommodation.<br>For this purpose "procedure" includes all aspects of the allocation process, including the persons or descriptions of persons by whom decisions are to be taken.<br>(1A)The scheme shall include a statement of the authority's policy on offering people who are to be allocated housing accommodation—<br>(a)a choice of housing accommodation; or<br>(b)the opportunity to express preferences about the housing accommodation to be allocated to them.<br>(2)As regards priorities, the scheme shall , subject to subsection (2ZA), be framed so as to secure that reasonable preference is given to—<br>(a)people who are homeless (within the meaning of Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014);<br>(b)people who are owed any duty by a local housing authority under section 66, ~~73~~ or 75 of the Housing (Wales) Act 2014;<br>(ba) people for whom responsible local authorities have duties under section 108A of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4) to take reasonable steps to secure that suitable accommodation is available for their occupation.<br>(c)people occupying insanitary or overcrowded housing or otherwise living in unsatisfactory housing conditions;<br>(d)people who need to move on medical or welfare grounds (including grounds relating to a disability)**]**; and<br>(e)people who need to move to a particular locality in the district of the authority, where failure to meet that need would cause hardship (to themselves or to others).<br>The scheme may also be framed so as to give additional preference to particular descriptions of people within this | Sections 36(2), 37 and Schedule 1, paragraph 1(4) |

| | |
|---|---|
| subsection (being descriptions of people with urgent housing needs).<br><br>(2ZA)People are to be disregarded for the purposes of subsection (2) if they would not have fallen within paragraph (a) or (b) of that subsection without the local housing authority having had regard to a restricted person (within the meaning of Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014).<br><br>(2A)The scheme may contain provision for determining priorities in allocating housing accommodation to people within subsection (2); and the factors which the scheme may allow to be taken into account include—<br><br>(a)the financial resources available to a person to meet his housing costs;<br><br>(b)any behaviour of a person (or of a member of his household) which affects his suitability to be a tenant;<br><br>(c)any local connection (within the meaning of section 81 of the Housing (Wales) Act 2014**]**) which exists between a person and the authority's district.<br><br>(2B)Nothing in subsection (2) requires the scheme to provide for any preference to be given to people the authority have decided are people to whom subsection (2C) <u>or (2DA)</u> applies.<br><br>(2C)This subsection applies to a person if the authority are satisfied that—<br><br>(a)he, or a member of his household, has been guilty of unacceptable behaviour serious enough to make him unsuitable to be a tenant of the authority; and<br><br>(b)in the circumstances at the time his case is considered, he deserves by reason of that behaviour not to be treated as a member of a group of people who are to be given preference by virtue of subsection (2).<br><br>(2D)Subsection (8) of section 160A applies for the purposes of subsection (2C)(a) above as it applies for the purposes of subsection (7)(a) of that section.<br><br><u>(2DA) This section applies to a person if —</u><br><br><u>(a) the person is within paragraph (a) or (b) of subsection (2), and</u><br><br><u>(b) the local housing authority is satisfied that the person is trying to manipulate the housing system (see section 167A).</u><br><br>(2E)Subject to subsection (2), the scheme may contain provision about the allocation of particular housing accommodation— | |

(a)to a person who makes a specific application for that accommodation;

(b)to persons of a particular description (whether or not they are within subsection (2)).**]**

(3)The ~~Secretary of State~~ Welsh Ministers may by regulations—

(a)specify further descriptions of people to whom preference is to be given as mentioned in subsection (2), or

(b)amend or repeal any part of subsection (2).

(4)The ~~Secretary of State~~ Welsh Ministers may by regulations specify factors which a local housing authority **[**n Wales**]** shall not take into account in allocating housing accommodation.

(4A)The scheme shall be framed so as to secure that an applicant for an allocation of housing accommodation—

(a)has the right to request such general information as will enable him to assess—

(i)how his application is likely to be treated under the scheme (including in particular whether he is likely to be regarded as a member of a group of people who are to be given preference by virtue of subsection (2)); and

(ii)whether housing accommodation appropriate to his needs is likely to be made available to him and, if so, how long it is likely to be before such accommodation becomes available for allocation to him;

(b)is notified in writing of any decision that he is a person to whom subsection (2C) or (2DA) applies and the grounds for it;

(c)has the right to request the authority to inform him of any decision about the facts of his case which is likely to be, or has been, taken into account in considering whether to allocate housing accommodation to him; and

(d)has the right to request a review of a decision mentioned in paragraph (b) or (c), or in section 160A(9), and to be informed of the decision on the review and the grounds for it.

(5)As regards the procedure to be followed, the scheme shall be framed in accordance with such principles as the

| | |
|---|---|
| ~~Secretary of State~~ Welsh Ministers may prescribe by regulations.<br><br>(6)Subject to the above provisions, and to any regulations made under them, the authority may decide on what principles the scheme is to be framed.<br><br>(7)Before adopting an allocation scheme, or making an alteration to their scheme reflecting a major change of policy, a local housing authority in Wales shall—<br><br>(a)send a copy of the draft scheme, or proposed alteration, to every private registered provider of social housing and**]** registered social landlord with which they have nomination arrangements (see section 159(4)), and<br><br>(b)afford those persons a reasonable opportunity to comment on the proposals.<br><br>(8)A local housing authority in Wales shall not allocate housing accommodation except in accordance with their allocation scheme. | |
| **167A Meaning of trying to manipulate the housing system**<br><br>(1) A person is trying to manipulate the housing system for the purposes of section 167(2DA) if subsection (2) or (4) applies.<br><br>(2) This subsection applies if—<br><br>(a) the person falls within paragraph (a) or (b) of section 167(2) because the person deliberately did or failed to do something in consequence of which the person ceases to occupy accommodation that was available for the person's occupation and which it would have been reasonable for the person to continue to occupy, and<br><br>(b) the person either—<br><br>(i) intended, by doing or failing to do that thing, to enable the person to become entitled to help under Chapter 2 of Part 2 of the Housing (Wales) Act 2014 ("the 2014 Act") or to improve the person's chance of being allocated accommodation under this Part, or<br><br>(ii) before doing or failing to do that thing, received information, advice or other support provided or otherwise secured by a public authority exercising functions in relation to the person that was adequate for the purpose of enabling the person to continue occupying the accommodation. | Section 36(3) |

| | |
|---|---|
| (3) For the purposes of subsection (2), an act or omission in good faith on the part of a person who was unaware of any relevant fact may not be treated as deliberate.<br><br>(4) This subsection applies if—<br><br>(a) the person falls within paragraph (a) or (b) of section 167(2) because the person entered into an arrangement under which the person was required to cease to occupy accommodation which it would have been reasonable for the person to continue to occupy,<br><br>(b) the purpose of the arrangement was to enable the person to become entitled to help under Chapter 2 of Part 2 of the 2014 Act or to improve the person's chance of being allocated accommodation under this Part, and<br><br>(c) there is no other good reason why the person became homeless for the purposes of the 2014 Act.<br><br>(5) For the purposes of this section—<br><br>(a) accommodation is available for occupation if it would be for the purposes of Chapter 2 of Part 2 of the 2014 Act (see section 56 of the 2014 Act);<br><br>(b) it is reasonable to continue to occupy accommodation if it would be for the purposes of Chapter 2 of Par 2 of the 2014 Act (see section 57 of the 2014 Act)." | |
| **169 Guidance to authorities by the Secretary of State and the Welsh Ministers**<br><br>(1) In the exercise of their functions under this Part, local housing authorities in England shall have regard to such guidance as may from time to time be given by the Secretary of State.<br><br>(1A) In the exercise of their functions under this Part, local housing authorities in Wales shall have regard to such guidance as may from time to time be given by the Welsh Ministers.<br><br>(2) The Secretary of State and the Welsh Ministers may give guidance generally or to specified descriptions of authorities.<br><br>**170 Co-operation between certain social landlords and local housing authorities**<br>Where a local housing authority so request, a private registered provider of social housing or registered social landlord shall co-operate to such extent as is reasonable in | Schedule 1, paragraph 1(5) |

| | |
|---|---|
| the circumstances in offering accommodation to people with priority under the authority's allocation scheme. | |
| **172 Regulations**<br>(1) Regulations made by the Secretary of State under this Part shall be made by statutory instrument.<br>(1A) Regulations made by the Welsh Ministers under this Part shall be made by Welsh statutory instrument.<br>(2) No regulations shall be made under section 166A(7) or ~~167(3)~~ (regulations amending provisions about priorities in allocating housing accommodation in England) unless a draft of the regulations has been laid before and approved by a resolution of each House of Parliament.<br>(2A) Regulations made under section 167(3) (regulations amending provisions about priorities in allocating housing accommodation in Wales) are subject to the Senedd approval procedure.<br>(3) Any other regulations made by the Secretary of State under this Part shall be subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament.<br>(3A) Any other regulations made by the Welsh Ministers under this Part are subject to the Senedd annulment procedure.<br>(4) Regulations under this Part may contain such incidental, supplementary and transitional provisions as appear to the Secretary of State or the Welsh Ministers (as the case may be) appropriate, and may make different provision for different cases including different provision for different areas | Schedule 1, paragraph 1(6) |
| **174. Index of defined expressions: Part VI**<br>The following Table shows provisions defining or otherwise explaining expressions used in this Part (other than provisions defining or explaining an expression used in the same section—<br>allocation (of housing) section 159(2)<br>allocation scheme section 166A and 167<br>assured tenancy section 230<br>common housing register section 160B | Schedule 1, paragraph 1(7) |

| | |
|---|---|
| contract-holder section 230]2<br><br>district (of local housing authority) section 166(5)<br><br>introductory standard contract section 230]2<br><br>introductory tenancy and introductory tenant sections 230 and 124<br><br>local housing authority section 230<br><br>prohibited conduct standard contract section 230<br><br>registered social landlord sections 230 and 2<br><br>secure contract section 230<br><br>secure tenancy and secure tenant section 230 | |
| **201A Cases referred from a local housing authority in Wales**<br><br>(1)This section applies where an application has been referred by a local housing authority in Wales to a local housing authority in England under section 80 of the Housing (Wales) Act 2014 (“the 2014 Act”) (referral of case to another local housing authority).<br><br>~~(2)If it is decided that the conditions in that section for referral of the case are met, the notified authority are subject to the duty under section 193 of this Act in respect of the person whose case is referred (the main housing duty); for provision about cases where it is decided that the conditions for referral are not met, see section 82 of the Housing (Wales) Act 2014 (duties to applicant whose case is considered for referral or referred).~~<br><br>(2) If the application has been referred under section 80 of the 2014 Act are met— | Section 14(7) |

| | |
|---|---|
| (a) for the purposes of this Part, the person whose case is referred is to be treated as having made an application of the kind mentioned in section 183(1) to the notified authority on the date on which notice is given under section 84(1B) of the 2014 Act that the conditions of referral are met,<br><br>(b) from that date, the notifying authority owes no duties to the applicant under Chapter 2 of Part 2 of the 2014 Act,<br><br>(c) where the notifying authority have made a decision as to whether the applicant is eligible for assistance under Chapter 2 of Part 2 of the 2014 Act, homeless or threatened with homelessness for the purposes of that Act, the applicant is to be treated as eligible for assistance, homeless or threatened with homelessness for the purposes of this Part, unless the notified authority come to a different conclusion in accordance with subsection (3), and<br><br>(d) the notifying authority must give to the notified authority copies of any notifications or documents that the notifying authority have given to the applicant under section 63 (notice of the outcome of assessment) or 63A (prevention, support and accommodation plans) of the 2014 Act.<br><br>(3) For the purposes of subsection (2)(c), the notified authority may only come to a different conclusion if they are satisfied that—<br><br>(a) the applicant's circumstances have changed, or further information has come to light, since the notifying authority made their decision and that change in circumstances, or further information, justifies the notified authority coming to a different decision to the notifying authority, or<br><br>(b) there is a difference in effect between Chapter 2 of Part 2 of the 2014 Act and this Act regarding eligibility for assistance, the meaning of homelessness or the meaning of being threatened with homelessness that would materially affect a decision as to whether the applicant is eligible for assistance, homeless or threatened with homelessness for the purposes of this Part.<br><br>~~(3)References in this Part to an applicant include a reference to a person to whom a duty is owed by virtue of subsection (2).]~~ | |

| | |
|---|---|
| **213B Duty of public authority to refer cases in England to local housing authority**<br><br>(1)This section applies if a specified public authority considers that a person in England in relation to whom the authority exercises functions is or may be homeless or threatened with homelessness.<br><br>(2)The specified public authority must ask the person to agree to the authority notifying a local housing authority in England or Wales of—<br><br>(a)the opinion mentioned in subsection (1), and<br><br>(b)how the person may be contacted by the local housing authority.<br><br>(3)If the person—<br><br>(a)agrees to the specified public authority making the notification, and<br><br>(b)identifies a local housing authority in England or Wales to which the person would like the notification to be made,<br><br>the specified public authority must notify that local housing authority of the matters mentioned in subsection (2)(a) and (b).<br><br>(4)In this section “specified public authority” means a public authority specified, or of a description specified, in regulations made by the Secretary of State.<br><br>(5)In subsection (4) “public authority” means a person (other than a local housing authority) who has functions of a public nature.**]** | Section 22 |

## Deddf Tai (Cymru) 2014

| Adran | Diwygiwyd gan |
|---|---|
| **52 Strategaethau digartrefedd**<br><br>(1)Strategaeth ddigartrefedd o dan adran 50 yw strategaeth ar gyfer cyflawni'r amcanion canlynol yn ardal yr awdurdod tai lleol—<br><br>(a)atal digartrefedd;<br><br>(b)bod llety addas ar gael, ac y bydd ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref;<br><br>(c)bod cefnogaeth foddhaol ar gael ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref.<br><br>(2) Caiff strategaeth ddigartrefedd bennu amcanion manylach i anelu atynt, a chamau y bwriedir eu cymryd, wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r awdurdod (gan gynnwys swyddogaethau sy'n arferadwy heblaw fel awdurdod tai lleol).<br><br>(3) Caiff strategaeth ddigartrefedd hefyd gynnwys darpariaeth yn ymwneud â chamau penodol y mae'r awdurdod yn disgwyl iddynt gael eu cymryd—<br><br>(a) gan unrhyw awdurdod cyhoeddus sydd â swyddogaethau sy'n gallu cyfrannu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (1), neu<br><br>(b) gan unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y mae ei weithgareddau'n gallu cyfrannu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r amcanion hynny.<br><br>(4) Rhaid cael cymeradwyaeth y corff neu'r person dan sylw er mwyn cynnwys mewn strategaeth ddigartrefedd unrhyw ddarpariaeth sy'n ymwneud â'r camau a grybwyllir yn is-adran (3).<br><br>(5) Wrth lunio strategaeth ddigartrefedd rhaid i'r awdurdod ystyried (ymysg pethau eraill) i ba raddau y gellir cyflawni unrhyw un neu ragor o'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (1) drwy gamau sy'n ymwneud â dau neu fwy o'r cyrff neu'r personau eraill a grybwyllir yn is-adrannau (2) a (3).<br><br>(6) Rhaid i strategaeth ddigartrefedd gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â chamau y mae'r awdurdod yn cynllunio eu cymryd wrth arfer ei swyddogaethau, a chamau penodol y mae'r awdurdod yn disgwyl i awdurdodau cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a phersonau eraill o fewn is-adran (3) eu cymryd, | Adran 28(2) |

| | |
|---|---|
| mewn perthynas â’r rheini y mae’n bosibl bod angen cymorth arnynt yn benodol os ydynt yn ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref, gan gynnwys yn benodol—<br>(a)pobl sy’n gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid,<br>(b)pobl ifanc sy’n gadael gofal,<br>(c)pobl sy’n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron,<br>(d)pobl sy’n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf preswyl, ac<br>(e)pobl sy’n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned.<br>(7) Rhaid i awdurdod tai lleol adolygu ei strategaeth ddigartrefedd a chaiff ei haddasu.<br>(8) Cyn mabwysiadu neu addasu strategaeth ddigartrefedd rhaid i awdurdod tai lleol ymgynghori â’r cyfryw awdurdodau cyhoeddus neu leol, cyrff gwirfoddol, <u>personau yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd</u> neu personau eraill sy’n briodol ym marn yr awdurdod.<br>(9) Ar ôl mabwysiadu neu addasu strategaeth ddigartrefedd, rhaid i awdurdod tai lleol gyhoeddi’r strategaeth drwy——<br>a) sicrhau bod copi o ganlyniadau’r adolygiad ar gael ar ei wefan (os oes ganddo un);<br>(b)sicrhau bod copi o ganlyniadau’r adolygiad ar gael yn ei brif swyddfa i’r cyhoedd gael eu gweld ar bob adeg resymol, a hynny’n ddi-dâl;<br>(c)darparu copi o’r strategaeth i unrhyw aelod o’r cyhoedd sy’n gofyn am un (ar ôl talu ffi resymol os yw hynny’n ofynnol gan yr awdurdod).<br>(10) Os yw’r awdurdod yn addasu ei strategaeth ddigartrefedd, caiff gyhoeddi’r addasiadau neu’r strategaeth fel y’i haddaswyd (fel sydd fwyaf priodol ym marn yr awdurdod).<br>(11) Pan fo’r awdurdod yn penderfynu cyhoeddi’r addasiadau yn unig, mae’r cyfeiriadau at y strategaeth ddigartrefedd ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (9) i’w dehongli fel cyfeiriadau at yr addasiadau. | |
| **53 Trosolwg o’r Bennod hon**<br>(1) Mae’r Bennod hon yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo pobl sy’n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn gwneud darpariaeth cysylltiedig.<br>(2) Mae adrannau 55 i 59 yn diffinio ac yn egluro fel arall ystyr rhai termau allweddol (ceir darpariaeth bellach | Atodlen 1 paragraff 3(2) |

ynghylch dehongli a mynegai o’r termau a ddiffinnir yn y Bennod hon yn adran 99).

(3) Mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol sicrhau y darperir gwasanaeth sy’n darparu gwybodaeth a chyngor sy’n gysylltiedig â digartrefedd i bobl ynghyd â chynhorthwy i gael gafael ar gymorth o dan y Bennod hon.

(4) Mae adran 61 yn cyflwyno Atodlen 2 sy’n gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyster i gael cymorth o dan y Bennod hon.

(5) Mae adran 62 yn gosod dyletswydd ar awdurdod tai lleol i asesu achosion pobl (“ceiswyr”) sy’n gwneud cais i’r awdurdod am lety, neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, pan fo’n ymddangos i’r awdurdod eu bod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

(6) Mae adran 63 yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiad i geiswyr ynghylch canlyniad yr asesiad.

(6A) Mae adran 63A yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol baratoi a chynnal cynllun atal, cefnogaeth a llety ar gyfer ceiswyr y mae dyletswyddau iddynt o dan y Bennod hon, ac mae adran 63B yn gwneud darpariaeth ynghylch adolygu cynlluniau o’r fath.

(7) Mae adran 64 yn rhoi enghreifftiau o’r mathau o ffyrdd y caniateir arfer y dyletswyddau dilynol i sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety ar gael a beth y caniateir ei wneud er mwyn eu harfer;

(8) Mae adrannau 66 i 79 yn nodi’r prif ddyletswyddau sydd ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo ceiswyr, yr amgylchiadau pan fo’r dyletswyddau hynny’n dod i ben a darpariaeth gysylltiedig; y prif ddyletswyddau yw—

(a) dyletswydd i gynorthwyo i atal ceiswyr sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd rhag dod yn ddigartref (adran 66);

(b) dyletswydd i sicrhau llety interim ~~ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol (adran 68) (mae adran 70 yn darparu ar gyfer pwy sydd i gael angen blaenoriaethol am lety at ddibenion y Bennod)~~ (adran 68);

(d) dyletswydd i sicrhau llety ~~ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fydd y~~

| | |
|---|---|
| ~~ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben~~ (adran 75).<br>~~(9) Mae adran 78 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau hynny pan gaiff awdurdodau tai lleol roi sylw i ba un a ddaeth ceisydd yn ddigartref yn fwriadol ai peidio wrth benderfynu a yw dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol yn gymwys; mae adran 77 yn darparu ar gyfer ystyr bod yn ddigartref yn fwriadol.~~<br>(10) Mae adrannau 80 i 82 yn darparu y caiff awdurdodau tai lleol ddod â’u dyletswydd i geisydd i ben drwy gyfeirio eu hachosion at awdurdodau eraill yng Nghymru neu Loegr, pan fo gan y ceiswyr gysylltiad lleol ag ardaloedd yr awdurdodau eraill hynny; mae adran 81 yn diffinio ystyr “cysylltiad lleol” at ddibenion y Bennod hon.<br>(11) Mae adrannau 85 i 89 yn darparu ar gyfer adolygiadau ac apelau.<br>(12) Mae adrannau 90 i 99 yn gwneud darpariaeth atodol a chyffredinol. | |
| **54. Cymhwyso termau allweddol**<br>Mae adrannau 55 i 59 yn gymwys at ddibenion y Rhan hon.<br><br>**55 Ystyr digartrefedd a’r bygythiad o ddigartrefedd**<br>(1) Mae person yn ddigartref os nad oes unrhyw lety ar gael i’r person ei feddiannu, yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae’r person—<br>(a) â hawl i’w feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys,<br>(b) â thrwydded datganedig neu oblygedig i’w feddiannu, neu<br>(c) yn ei feddiannu fel preswylfa yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol cyfreithiol sy’n rhoi i’r person yr hawl i barhau i feddiannu neu’n cyfyngu ar hawl person arall i adennill meddiant.<br>(2) Mae person yn ddigartref hefyd os oes gan y person lety ond—<br>(a)nad yw’n gallu cael mynediad iddo, neu<br>(b)mae’n strwythur, yn gerbyd neu’n gwch symudol, sydd wedi ei ddylunio neu ei addasu i bobl fyw ynddo ac nad oes unrhyw fan lle mae’r person â’r hawl neu’r caniatâd i’w leoli ac hefyd i fyw ynddo. | Adran 1 |

| | |
|---|---|
| (3) Ni chaniateir i berson gael ei drin fel person sydd â llety oni bai ei fod yn lety y byddai'n rhesymol i'r person barhau i'w feddiannu.<br>(4) Mae person o dan fygythiad o ddigartrefedd os ~~yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn 56 o ddiwrnodau~~.<br>(a) yw'r person wedi cael hysbysiad ysgrifenedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r person ildio meddiannaeth o llety'r person,<br>(b) yw cais wedi ei wneud i'r Uchel Lys neu i'r Llys Sirol am orchymyn i berson arall adennill meddiant o lety'r person, neu<br>(c) yw'n debygol y bydd y person yn dod yn ddigartref o fewn 6 mis (pa un a yw paragraff (a) neu (b) yn gymwys ai peidio).<br>(5) Nid yw is-adran (4)(a) yn gymwys ond i hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson roi'r gorau i feddiannu llety a roddir gan berson yr ymddengys ei fod â hawl i roi hysbysiad o'r fath mewn cysylltiad â'r llety, ni waeth—<br>(a) a yw'r hysbysiad yn ddilys fel arall, a<br>(b) beth fo rhinweddau unrhyw hawliad posibl am feddiant o'r eiddo gan y person a roddodd yr hysbysiad. | |
| **56 Ystyr llety sydd ar gael i'w feddiannu ac aelod o aelwyd**<br>(1)Caniateir i lety gael ei ystyried yn llety sydd ar gael i berson ei feddiannu ond os yw ar gael i'r person hwnnw ei feddiannu ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o aelwyd y person—<br>~~(a)unrhyw berson arall sy'n preswylio gyda'r person hwnnw fel arfer fel aelod o'i deulu, neu~~<br>~~(b) unrhyw berson arall y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r person hwnnw.~~<br>(1A) Mae cyfeiriad yn y Bennod hon at aelod o aelwyd person yn gyfeiriad at—<br>(a) person sy'n preswylio fel arfer gyda'r person hwnnw fel aelod o deulu'r person hwnnw, neu | Atodlen 1, paragraff 3(3) |

| | |
|---|---|
| (b) unrhyw berson arall y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r person hwnnw,<br><br>(2)Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad yn y Rhan hon at sicrhau bod llety ar gael i berson ei feddiannau yn unol â hynny. | |
| **57 A yw'n rhesymol parhau i feddiannu llety**<br><br>(1) Nid yw'n rhesymol i berson barhau i feddiannu llety os yw'n debygol y bydd yn arwain at fod y person hwnnw, neu aelod o aelwyd y person hwnnw, yn wynebu camdriniaeth.<br><br>(2) ~~Yn yr adran hon ystyr "aelod o aelwyd y person" yw—~~<br><br>~~(a) person sy'n preswylio gydag ef fel arfer fel aelod o'i deulu, neu~~<br><br>~~(b) unrhyw berson arall y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r person hwnnw.~~<br><br>(3) Wrth benderfynu a fyddai'n rhesymol, neu y byddai wedi bod yn rhesymol, i berson barhau i feddiannu llety—<br><br>(a) caiff awdurdod tai lleol roi sylw i'r amgylchiadau cyffredinol presennol mewn perthynas â thai yn ardal yr awdurdod tai lleol y mae'r person wedi gwneud cais iddo am gymorth i sicrhau llety;<br><br>(b) rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i pa un a yw'r llety yn fforddiadwy i'r person hwnnw ai peidio.<br><br>(4) Caiff Gweinidogion Cymru bennu'r canlynol drwy orchymyn—<br><br>(a) amgylchiadau eraill lle bydd yn cael ei ystyried yn rhesymol neu'n afresymol i berson barhau i feddiannu llety, a<br><br>(b) materion eraill i'w hystyried neu eu diystyru wrth benderfynu a fyddai'n rhesymol, neu y byddai wedi bod yn rhesymol, i berson barhau i feddiannu llety. | Atodlen 1, paragraff 3(4) |
| **58 ~~8 Ystyr camdriniaeth a camdriniaeth ddomestig~~**<br><br>~~(1)Ystyr "camdriniaeth" yw trais corfforol, ymddygiad bygythiol neu fygylus ac unrhyw ffurf arall ar gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, arwain at y perygl o niwed; ac ystyr "camdriniaeth ddomestig" yw camdriniaeth sy'n dod o du person sy'n gysylltiedig â'r dioddefwr.~~ | Adran 28 |

| | |
|---|---|
| ~~(2)Mae person yn gysylltiedig â pherson arall os ydynt—~~<br><br>~~(a)yn briod â'i gilydd neu wedi bod yn briod â'i gilydd;~~<br><br>~~(b)yn bartneriaid sifil i'w gilydd neu wedi bod yn bartneriaid sifil i'w gilydd;~~<br><br>~~(c)yn byw â'i gilydd neu wedi bod yn byw â'i gilydd mewn perthynas deuluol barhaus (pa un ai os ydynt o rywiau gwahanol neu o'r un rhyw);~~<br><br>~~(d)yn byw neu wedi byw ar yr un aelwyd;~~<br><br>~~(e)yn berthnasau;~~<br><br>~~(f)wedi cytuno i briodi ei gilydd (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);~~<br><br>~~(g) wedi ymrwymo i gytundeb partneriaeth sifil rhyngddynt (pa un a yw'r cytundeb hwnnw wedi ei derfynu ai peidio);~~<br><br>~~(h) mewn perthynas bersonol agos â'i gilydd, neu wedi bod mewn perthynas o'r fath, sydd, neu a oedd, wedi parhau am gyfnod sylweddol;~~<br><br>~~(i) mewn perthynas â phlentyn, y naill a'r llall yn rhiant i'r plentyn neu â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn, neu wedi bod â chyfrifoldeb o'r fath.~~<br><br>~~(3) Os yw plentyn wedi ei fabwysiadu neu yn dod o fewn is-adran (4), mae dau berson hefyd yn gysylltiedig â'i gilydd at ddibenion y Bennod hon—~~<br><br>~~(a) os yw un yn rhiant naturiol i'r plentyn neu'n rhiant i riant naturiol o'r fath, a~~<br><br>~~(b) y person arall yw—~~<br><br>~~(i) y plentyn, neu~~<br><br>~~(ii) person sydd wedi dod yn rhiant i'r plentyn yn rhinwedd gorchymyn mabwysiadu, sydd wedi gwneud cais am orchymyn mabwysiadu neu y mae'r plentyn wedi ei leoli gydag ef ar gyfer ei fabwysiadu ar unrhyw adeg.~~<br><br>~~4) Mae plentyn yn dod o fewn yr adran hon—~~ | |

~~(a) os yw asiantaeth fabwysiadu, o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, wedi ei hawdurdodi i leoli'r plentyn ar gyfer ei fabwysiadu o dan adran 19 o'r Ddeddf honno (gosod plentyn â chydsyniad rhiant) neu mae'r plentyn wedi dod yn destun gorchymyn o dan adran 21 o'r Ddeddf honno (gorchmynion lleoli), neu~~

~~(b) os yw'r plentyn yn cael ei ryddhau ar gyfer ei fabwysiadu yn rhinwedd gorchymyn a wneir—~~

~~(i) yng Nghymru a Lloegr, o dan adran 18 o Ddeddf Mabwysiadu 1976,~~

~~(ii) yng Ngogledd Iwerddon, o dan Erthygl 17(1) neu 18(1) o Orchymyn Mabwysiadu (Gogledd Iwerddon) 1987, neu~~

~~(c) os yw'r plentyn yn destun gorchymyn parhauster yn yr Alban sy'n cynnwys rhoi'r awdurdod i fabwysiadu.~~

~~5) Yn yr adran hon—~~

- ~~ystyr "gorchymyn mabwysiadu" yw gorchymyn mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i "adoption order" gan adran 72(1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976 neu adran 46(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002;~~
- ~~"mae i "cytundeb partneriaeth sifil" yr ystyr a roddir i "civil partnership agreement" gan adran 73 o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;~~
- ~~"mae i "cyfrifoldeb rhiant" yr ystyr a roddir i "parental responsibility" gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989;~~
- ~~ystyr "perthynas" ("*relative*"), mewn perthynas â pherson, yw rhiant, taid (tad-cu), nain (mam-gu), plentyn, ŵyr neu wyres, brawd, hanner brawd, chwaer, hanner chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith y person (gan gynnwys unrhyw berson sydd yn y berthynas honno neu sydd wedi bod yn y berthynas honno yn rhinwedd priodas neu bartneriaeth sifil neu berthynas deuluol barhaus).~~

**58 Y diffiniad o "camdriniaeth"**

Yn y Bennod hon, ystyr "camdriniaeth" yw—

| | |
|---|---|
| (a) camdriniaeth ddomestig o fewn yr ystyr a roddir i “domestic abuse” gan adran 1 o Ddeddf Camdriniaeth Ddomestig 2021 (p. 17), neu<br><br>(b) unrhyw fath arall o gamdriniaeth a all, yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, arwain at y perygl o niwed, gan gynnwys (er enghraifft)—<br><br>(i) camfanteisio o fewn yr ystyr a roddir i “exploitation” yn Neddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (p. 30);<br><br>(ii) aflonyddu neu stelcio o fewn yr ystyr a roddir i’r ymadroddion “harassment” a “stalking”, yn y drefn honno, yn Neddf Gwarchodaeth rhag Aflonyddu 1997 (p. 40). | |
| **59 Addasrwydd llety**<br><br>(1)Wrth benderfynu a yw llety’n addas ar gyfer person, rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn, o dan, neu yn rhinwedd y deddfiadau canlynol—<br><br>(a) Rhan 9 o Ddeddf Tai 1985 (clirio slymiau);<br><br>(b) Rhan 10 o Ddeddf Tai 1985 (gorlenwi);<br>(c) Rhan 1 o Ddeddf Tai 2004 (cyflwr tai);<br>(d) Rhan 2 o Ddeddf Tai 2004 (trwyddedu tai amlfeddiannaeth);<br><br>(e)Rhan 3 o Ddeddf Tai 2004 (trwyddedu dethol ar gyfer llety preswyl arall);<br>(f)Rhan 4 o Ddeddf Tai 2004 (darpariaethau rheoli atodol mewn perthynas â llety preswyl);<br>(g)Rhan 1 o’r Ddeddf hon (rheoleiddio tai rhentu preifat).<br>(h) Rhan 4 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (cyflwr anheddau).<br><br>(2)Wrth benderfynu a yw llety’n addas ar gyfer person, rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i pa un a yw’r llety yn fforddiadwy i’r person hwnnw ai peidio.<br><br>(3)Caiff Gweinidogion Cymru bennu’r canlynol drwy orchymyn—<br><br>(a) amgylchiadau lle bo llety i’w ystyried yn addas ar gyfer person, a lle na fo i’w ystyried felly, a | Adran 30 |

| | |
|---|---|
| (b) materion i'w hystyried neu i'w diystyru wrth benderfynu a yw llety yn addas ar gyfer person. | |
| **60 Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy i gael gafael ar gymorth**<br><br>(1) Rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau y darperir gwasanaeth, heb godi tâl amdano, sy'n cynnig y canlynol i bobl yn ei ardal, neu bobl sydd â chysylltiad lleol â'i ardal (gan gynnwys, yn benodol, bersonau sy'n cael eu cadw o dan awdurdod deddfiad ac sydd yn ei ardal neu sydd â chysylltiad lleol â'i ardal), —<br><br>(a)gwybodaeth a chyngor yn ymwneud ag atal digartrefedd, sicrhau llety pan fo pobl yn ddigartref, cael gafael ar unrhyw gymorth arall sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref, a<br>(b)cynhorthwy i gael gafael ar gymorth o dan y Bennod hon neu unrhyw gymorth arall ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref.<br><br>(2) Mewn perthynas ag is-adran (1)(a), rhaid i'r gwasanaeth gynnwys, yn benodol, gyhoeddi gwybodaeth a chyngor am y materion canlynol—<br><br>(a)y system y darperir ar ei chyfer gan y Bennod hon a sut y mae'r system yn gweithredu yn ardal yr awdurdod;<br><br>(b)a oes unrhyw gymorth arall ar gael yn ardal yr awdurdod ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref (pa un a yw'r person o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn ystyr y Bennod hon ai peidio);<br><br>(c)sut i gael gafael ar y cymorth sydd ar gael.<br><br>(3)Mewn perthynas ag is-adran (1)(b), rhaid i'r gwasanaeth gynnwys, yn benodol, gynhorthwy i gael gafael ar gymorth i atal person rhag dod yn ddigartref sydd ar gael pa un a yw'r person o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn ystyr y Bennod hon ai peidio.<br><br>(4) ) Rhaid i'r awdurdod tai lleol, yn benodol drwy weithio gydag awdurdodau cyhoeddus eraill, cyrff gwirfoddol, personau yn ardal yr awdurdod sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd a phersonau eraill, sicrhau bod y gwasanaeth wedi ei ddylunio i ddiwallu anghenion grwpiau sy'n wynebu perygl arbennig o ddigartrefedd, gan gynnwys yn benodol— | Adrannau 27 a 29(3) |

| | |
|---|---|
| (a) pobl sydd yn y carchar neu mewn llety cadw ieuenctid neu bobl,<br><br>(b)pobl ifanc sy'n gadael gofal,<br><br>(c)pobl sy'n gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron,<br><br>(d)pobl sy'n gadael yr ysbyty ar ôl triniaeth feddygol am anhwylder meddyliol fel claf preswyl, ac<br><br>(e) pobl sy'n cael gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned.<br><br>(5) Caiff dau neu ragor o awdurdodau tai lleol sicrhau ar y cyd y darperir gwasanaeth o dan yr adran hon ar gyfer eu hardaloedd; a phan fônt yn gwneud hynny—<br>(a)mae cyfeiriadau yn yr adran hon at awdurdod tai lleol i'w darllen fel cyfeiriadau at yr awdurdodau yn gweithredu ar y cyd, a<br><br>(b)mae cyfeiriadau yn yr adran hon at ardal awdurdod tai lleol i'w darllen fel cyfeiriadau at yr ardal gyfunol.<br><br>6) Caniateir i'r gwasanaeth sy'n ofynnol o dan yr adran hon gael ei integreiddio â'r gwasanaeth sy'n ofynnol o dan adran 17 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | |
| **61 Cymhwystra am gymorth o dan y Bennod hon**<br><br>Mae Atodlen 2 yn cael effaith at ddibenion penderfynu a yw ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan ddarpariaethau canlynol y Bennod hon.<br><br>**62 Dyletswydd i asesu**<br><br>(1) Rhaid i awdurdod tai lleol gynnal asesiad o achos person—<br>(a) os yw'r person wedi gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety,<br>(b) os yw'n ymddangos i'r awdurdod y gallai'r person fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, ac<br>(c) os nad yw is-adran (2) yn gymwys i'r person. | Adran 3(2) |

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r person wedi ei asesu gan awdurdod tai lleol o dan yr adran hon ar achlysur blaenorol a bod yr awdurdod yn fodlon—

(a) nad yw amgylchiadau'r person wedi newid yn sylweddol ers i'r asesiad gael ei gynnal, a

(b) nad oes unrhyw wybodaeth newydd sy'n cael effaith sylweddol ar yr asesiad hwnnw.

(3) Yn y Bennod hon, ystyr "ceisydd" yw person y mae'r ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys iddo, ac, yn adrannau 85, 86 ac 88 yn unig, mae'n cynnwys person sydd wedi gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety ond bod yr awdurdod wedi penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos y person.

(4) Rhaid i'r awdurdod asesu pa un a yw'r ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan y Bennod hon ai peidio.

(5) Os yw'r ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan y Bennod hon, rhaid i'r asesiad gynnwys asesiad o'r canlynol—

(a) yr amgylchiadau sydd wedi achosi i'r ceisydd fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd;

(b) anghenion tai y ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd ~~berson y mae'r ceisydd yn byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef~~;

(c) y gefnogaeth y mae ei hangen ar y ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd ~~berson y mae'r ceisydd yn byw gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fyw gydag ef i gadw llety sydd ar gael neu a allai ddod ar gael;~~

(i) i gadw llety sydd ar gael neu a allai ddod ar gael, neu

(ii) i oresgyn unrhyw anhawster o ran byw'n annibynnol

(ca) y gefnogaeth y mae ei hangen ar y ceisydd i wneud cyfathrebu â'r ceisydd wrth arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon yn hygyrch i'r ceisydd;

(d) pa un a oes unrhyw ddyletswydd ar yr awdurdod i'r ceisydd ai peidio o dan ddarpariaethau canlynol y Bennod hon.

(6) Wrth gynnal asesiad, rhaid i'r awdurdod tai lleol—

~~(a) ceisio canfod pa ganlyniad y mae'r ceisydd yn dymuno ei gyflawni drwy gymorth yr awdurdod, a~~

(a) ceisio safbwyntiau'r ceisydd ar y materion y mae'n rhaid i'r awdurdod eu hasesu o dan baragraffau (a) i (ca) o is-adran (5) a rhoi sylw i'r safbwyntiau hynny;

~~(b) asesu pa un a allai arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Bennod hon gyfrannu at gyflawni'r amcan hwnnw.~~

(b) gwneud ymholiadau sy'n berthnasol i'r asesiad ynghylch nodweddion ac amgylchiadau personol y ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd.

(7) Caiff awdurdod tai lleol gynnal ei asesiad o'r materion a grybwyllir yn ~~is-adrannau (5) a (6)~~ is-adran 5 cyn iddo benderfynu bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth o dan y Bennod hon.

(8) Rhaid i awdurdod tai lleol adolygu ei asesiad yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod yn ystyried bod dyletswydd arno i'r ceisydd o dan ddarpariaethau canlynol y Bennod hon neu y gallai dyletswydd fod arno.

~~(9) Rhaid i awdurdod tai lleol adolygu ei asesiad yn y ddau achos a ganlyn—~~

- ~~Achos 1 - pan fo ceisydd wedi ei hysbysu o dan adran 63 bod dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66 (dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref) a'i bod yn ymddangos i'r awdurdod wedi hynny bod y ddyletswydd o dan adran 66 wedi dod i ben neu'n debygol o ddod i ben gan fod y ceisydd yn ddigartref;~~
- ~~Achos 2 - pan fo ceisydd wedi ei hysbysu o dan adran 63 bod dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref) a'i bod yn ymddangos i'r awdurdod wedi hynny bod y ddyletswydd yn adran 73 wedi dod i ben neu'n debygol o ddod i ben o dan amgylchiadau pan y gallai dyletswydd fod yn ddyledus i'r ceisydd o dan adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben).~~

| | |
|---|---|
| ~~(10) Nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (5)(d) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol asesu a fyddai dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 75 ai peidio oni bai a hyd nes y bo'n adolygu ei asesiad yn unol ag is-adran (9) o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn achos 2 o'r is-adran honno; ond caniateir iddo wneud felly cyn hynny.~~<br><br>~~Nid yw is-adrannau (9) a (10) yn effeithio ar gyffredinolrwydd is-adran (8).~~ | |
| **63 Hysbysu am ganlyniad asesiad a <u>phenderfyniadau</u>**<br><br><u>(A1)</u> <u>Os yw awdurdod tai lleol yn penderfynu peidio â chynnal asesiad o achos person sydd wedi gwneud cais i'r awdurdod o dan adran 62, rhaid i'r awdurdod hysbysu'r person a rhoi gwybod i'r person am y rhesymau dros ei benderfyniad.</u><br><br>(1) Rhaid i'r awdurdod tai lleol hysbysu'r ceisydd am ganlyniad ei asesiad (neu unrhyw adolygiad o'i asesiad) <u>mewn cysylltiad â'r materion a ddisgrifir yn adran 62(4) ac ym mharagraffau (a) i (d) o adran 62(5)</u> ac, i'r graddau y bo unrhyw fater yn cael ei benderfynu yn groes i fuddiannau'r ceisydd, roi gwybod i'r ceisydd am y rhesymau dros ei benderfyniad.<br><br>(2) Os yw'r awdurdod yn penderfynu bod dyletswydd arno mewn perthynas â'r ceisydd o dan adran 75, ond na fyddai wedi gwneud hynny heblaw ei fod wedi rhoi sylw i berson cyfyngedig, rhaid i'r hysbysiad o dan is-adran (1) hefyd—<br><br>(a) rhoi gwybod i'r ceisydd ei fod wedi gwneud y penderfyniad ar y sail honno,<br><br>(b) cynnwys enw'r person cyfyngedig,<br><br>(c) egluro pam fod y person yn berson cyfyngedig, a<br><br>(d) egluro effaith adran 76(5).<br><br>(3) ~~Os yw'r awdurdod wedi hysbysu awdurdod tai lleol arall, neu'n bwriadu gwneud hynny, o dan adran 80 (atgyfeirio achosion), rhaid iddo hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad hwnnw ar yr un pryd a rhoi gwybod iddo am y rhesymau dros hynny.~~<br><br>(4) Rhaid i hysbysiad o dan is-adran <u>(A1) neu (1)</u> hefyd— | Adran 3(3) ac Atodlen 1, paragraff 3(6) |

| | |
|---|---|
| (a) rhoi gwybod i'r ceisydd am ei hawl i ofyn am adolygiad o'r asesiad neu'r penderfyniad a'r cyfnod amser y mae'n rhaid cyflwyno cais o'r fath ynddo (gweler adran 85), a<br>(b) cael ei roi ar ffurf ysgrifenedig ac, os nad yw'n dod i law, gael ei drin fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd.<br>(5) Yn y Bennod hon, ystyr "person cyfyngedig" yw person—<br>(a) nad yw'n gymwys i gael cymorth o dan y Bennod hon,<br>(b) sy'n destun rheolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996, ac<br>(c) sydd naill ai—<br>(i) â dim hawl i ddod i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno, neu<br>(ii) â'r hawl i ddod i'r Deyrnas Unedig neu i aros yno yn amodol ar y ffaith ei fod yn ei gynnal ac yn ei letya ei hun, ynghyd ag unrhyw ddibynyddion, heb ddefnyddio cronfeydd cyhoeddus. | |
| **63A Cynlluniau atal, cefnogaeth a llety**<br>(1) Os yw awdurdod tai lleol yn ystyried bod dyletswydd arno i geisydd o dan ddarpariaethau canlynol y Bennod hon, rhaid i'r awdurdod baratoi a chynnal cynllun atal, cefnogaeth a llety ("cynllun") ar gyfer y ceisydd.<br>(2) Mae'r cynllun wedi ei ffurfio gan—<br>(a) y cofnodion ysgrifenedig sy'n ofynnol gan yr adran hon, a<br>(b) unrhyw wybodaeth neu gyngor ysgrifenedig ar gyfer ceisydd y mae'r awdurdod tai lleol yn ystyried ei bod neu ei fod yn briodol.<br>(3) Caniateir i gynllun fod yn un ddogfen neu'n gasgliad o ddogfennau, y caniateir i unrhyw un neu ragor ohonynt gael ei diwygio neu eu diwygio yn unol â'r adran hon.<br>(4) Rhaid i'r awdurdod tai lleol roi sylw i'w asesiad o dan adran 62 mewn perthynas â'r ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd baratoi ac adolygu'r cynllun. | Adran 4(2) |

| | |
|---|---|
| (5) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gofnodi yn ysgrifenedig—<br>(a) asesiad yr awdurdod o'r materion a ddisgrifir ym mharagraffau (b), (c) ac (ca) o adran 62(5),<br>(b) unrhyw safbwyntiau gan y ceisydd mewn perthynas â'r materion hynny, ac<br>(c) unrhyw gamau y mae'r awdurdod i'w cymryd i gyfathrebu â'r ceisydd wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon mewn ffordd sy'n hygyrch i'r ceisydd.<br>(6) Rhaid i'r awdurdod tai lleol—<br>(a) ceisio canfod pa ganlyniad y mae'r ceisydd yn dymuno ei gyflawni drwy gymorth yr awdurdod,<br>(b) cofnodi'r canlyniad yn ysgrifenedig, ac<br>(c) wrth baratoi ac adolygu cynllun, roi sylw i a allai arfer unrhyw swyddogaeth o dan y Bennod hon gyfrannu at gyflawni'r canlyniad.<br>(7) Mae'r cyfeiriadau at gamau sydd i'w cymryd yn yr is-adrannau canlynol yn gyfeiriadau at gamau a gymerir ar gyfer neu mewn cysylltiad â'r diben o sicrhau bod y ceisydd, ynghyd ag unrhyw aelod arall o aelwyd y ceisydd, â llety addas ac yn gallu cadw llety addas.<br>(8) Rhaid i'r awdurdod tai lleol geisio cytuno â'r ceisydd ar y canlynol—<br>(a) unrhyw gamau y mae'r ceisydd i'w cymryd, a<br>(b) y camau y mae'r awdurdod i'w cymryd wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod).<br>(9) Os yw'r awdurdod tai lleol a cheisydd yn dod i gytundeb, rhaid i'r awdurdod gofnodi'r cytundeb hwnnw yn ysgrifenedig.<br>(10) Os na all yr awdurdod tai lleol a cheisydd ddod i gytundeb, rhaid i'r awdurdod gofnodi yn ysgrifenedig—<br>(a) pam na allent gytuno,<br>(b) unrhyw gamau y mae'r awdurdod yn ystyried y byddai'n rhesymol i'r ceisydd eu cymryd, ac<br>(c) y camau mae'r awdurdod i'w cymryd wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau (gan gynnwys swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod). | |

| | |
|---|---|
| (11) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gofnodi yn ysgrifenedig unrhyw gamau eraill y mae'n ymwybodol ohonynt y mae awdurdod cyhoeddus arall wedi cytuno i'w cymryd mewn perthynas â'r ceisydd.<br><br>(12) Rhaid i'r awdurdod tai lleol—<br><br>(a) rhoi i'r ceisydd gopi o unrhyw ddogfen sy'n gynllun neu sy'n ffurfio rhan o gynllun;<br><br>(b) hysbysu'r ceisydd yn ysgrifenedig am y canlynol—<br><br>(i) yr hawl i ofyn am adolygiad o'r cynllun, a<br><br>(ii) y cyfnod amser y mae'n rhaid cyflwyno cais o'r fath ynddo (gweler adran 85).<br><br>(13) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gadw o dan adolygiad briodoldeb unrhyw gytundeb y deuir iddo o dan is-adran (8) neu unrhyw gamau a gofnodir o dan is-adran (10)(b) neu (c) yn ystod y cyfnod y mae'r awdurdod yn ystyried bod arno, neu y gall fod arno, ddyletswydd i'r ceisydd o dan ddarpariaethau canlynol y Bennod hon.<br><br>(14) Os yw'r awdurdod yn ystyried, o ran unrhyw gytundeb y deuir iddo o dan is-adran (8) neu unrhyw gam a gofnodir o dan is-adran (10)(b) neu (c), nad yw'n briodol bellach—<br><br>(a) rhaid i'r awdurdod hysbysu'r ceisydd, yn ysgrifenedig, ei fod yn ystyried nad yw'r cytundeb neu'r cam yn briodol bellach, a<br><br>(b) mae is-adrannau (8) i (12) yn gymwys eto.<br><br>(15) O ran hysbysiad o dan yr adran hon neu gopi o unrhyw ddogfen sy'n gynllun neu sy'n ffurfio rhan o gynllun, os nad yw'r hysbysiad neu'r copi hwnnw yn dod i law'r ceisydd, mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi i'r ceisydd os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd.<br><br>**63B Dyletswydd i adolygu asesiadau a chynlluniau o dan amgylchiadau penodol**<br><br>(1) Os yw awdurdod tai lleol o dan ddyletswydd i gynnal cynllun atal, cefnogaeth a llety ar gyfer ceisydd, rhaid i'r awdurdod adolygu ei asesiad o dan adran 62 a'r cynllun os yw unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2) yn gymwys. | |

| | |
|---|---|
| <u>(2) Yr amgylchiadau yw—</u><br><u>(a) bod cyfnod o 8 wythnos wedi mynd heibio heb adolygiad ers cwblhau’r cynllun cyntaf neu’r adolygiad diwethaf o’r cynllun;</u><br><u>(b) bod yr awdurdod tai lleol â rheswm i gredu bod amgylchiadau’r ceisydd, neu amgylchiadau unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd, wedi newid mewn ffordd a all effeithio ar y canlynol—</u><br><u>(i) anghenion llety,</u><br><u>(ii) cefnogaeth y mae ei hangen i gynorthwyo i gadw llety, neu</u><br><u>(iii) hawlogaeth i gymorth o dan y Bennod hon;</u><br><u>(c) ei bod yn ymddangos i’r awdurdod tai lleol fod dyletswydd i’r ceisydd o dan adran 66 neu 76A wedi dod i ben neu’n debygol o ddod i ben gan fod y ceisydd yn ddigartref.</u> | |
| **64 Sut i sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety ar gael**<br>(1) Mae’r canlynol yn enghreifftiau o’r modd y caiff awdurdod tai lleol sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw’n peidio â bod ar gael, i’r ceisydd ei feddiannu—<br>(a) drwy drefnu i berson ac eithrio’r awdurdod ddarparu rhywbeth;<br>(b) drwy ddarparu rhywbeth ei hun;<br>(c) drwy ddarparu rhywbeth, neu drefnu i rywbeth gael ei ddarparu, i berson ac eithrio’r ceisydd.<br>(2) Mae’r canlynol yn enghreifftiau o’r hyn y caniateir ei ddarparu neu ei drefnu er mwyn sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw’n peidio â bod ar gael, i’r ceisydd ei feddiannu—<br>(a) cyfryngu;<br>(b) taliadau ar ffurf grant neu fenthyciad;<br>(c) gwarantau y bydd taliadau yn cael eu gwneud;<br>(d) cefnogaeth i reoli dyled, ôl-ddyledion morgais neu ôl-ddyledion rhent;<br>(e) mesurau diogelwch i geiswyr sydd mewn perygl o wynebu camdriniaeth;<br>(f) eiriolaeth neu gynrychiolaeth arall; | Adran 2(2) a (3) |

(g) llety;

(h) gwybodaeth a chyngor;

(i) gwasanaethau, nwyddau neu gyfleusterau eraill.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau tai lleol mewn perthynas â sut y gallant hwy sicrhau neu helpu i sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i geisydd ei feddiannu.

~~**65 Ystyr cynorthwyo i sicrhau**~~

~~Pan fo'n ofynnol o dan y Bennod hon i awdurdod tai lleol gynorthwyo i sicrhau (yn hytrach na "sicrhau") bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i'r ceisydd ei feddiannu—~~

~~(a) mae'n ofynnol i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i gynorthwyo, gan roi sylw (ymysg pethau eraill) i'r angen i wneud y defnydd gorau o adnoddau'r awdurdod;~~

~~(b) nid yw'n ofynnol i'r awdurdod sicrhau cynnig o lety o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (dyrannu tai);~~

~~(c) nid yw'n ofynnol i'r awdurdod ddarparu llety fel arall.~~

**66 Dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref**

~~(1) Rhaid i awdurdod tai lleol gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i geisydd ei feddiannu os yw'r awdurdod yn fodlon bod y ceisydd—~~

~~(a) o dan fygythiad o ddigartrefedd, a~~

~~(b) yn gymwys i gael cymorth.~~

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bod ceisydd o dan fygythiad o ddigartrefedd a'i fod yn gymwys i gael cymorth.

(1A) Rhaid i'r awdurdod gynorthwyo i sicrhau nad yw llety addas yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw.

(1B) Nid yw is-adran (1A) yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sicrhau cynnig o lety o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (p.52) (dyrannu tai) neu ddarparu llety fel arall.

(2) Nid yw is-adran (1A) yn effeithio ar unrhyw un neu ragor o hawliau'r awdurdod, pa un ai yn rhinwedd

| | |
|---|---|
| contract, deddfiad neu reolaeth cyfraith, i sicrhau meddiant gwag o unrhyw lety. | |
| **67 Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 66 yn dod i ben**<br><br>(1)Mae'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 66 yn dod i ben o dan unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), (3) neu (4), os yw'r ceisydd wedi cael ei hysbysu yn unol ag adran 84.<br><br>(2)Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref.<br><br>(3)Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon (pa un ai o ganlyniad i'r camau y mae wedi eu cymryd ai peidio)—<br><br>(a) nad yw'r ceisydd bellach o dan fygythiad o ddigartrefedd, a<br><br>(b) bod llety addas yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf.<br><br>(4) Yr amgylchiadau yw—<br><br>(a) bod y ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am ganlyniadau posibl gwrthod neu dderbyn y cynnig, yn gwrthod cynnig o lety gan unrhyw berson y mae'r awdurdod yn fodlon ei fod yn addas ar gyfer y ceisydd, a<br><br>(b) bod yr awdurdod yn fodlon bod y llety a gynigir yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf.<br><br>(5) Mae'r cyfnod o 6 mis a grybwyllir yn is-adrannau (3)(b) a (4)(b) yn dechrau ar y diwrnod yr anfonir yr hysbysiad o dan adran 84 neu'n dod ar gael i'w gasglu gyntaf.<br><br>(6) Gweler adran 79 am amgylchiadau pellach pan fo'r ddyletswydd yn adran 66 yn dod i ben.<br><br>**68 Dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref ~~mewn angen blaenoriaethol~~**<br><br>(1) Rhaid i'r awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas interim ar gael i'w feddiannu gan geisydd y mae is-adran (2) neu ~~(3)~~ (2A) yn gymwys iddo hyd nes y daw'r ddyletswydd i ben yn unol ag adran 69. | Adran 8(2) a (3) |

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys i geisydd os oes gan yr awdurdod reswm i gredu bod y ceisydd yn ddigartref a'i fod yn gymwys i gael cymorth ond nad yw'r awdurdod yn fodlon hyd yma o ran y materion hynny.

(2~~) Mae'r is-adran hon yn gymwys i geisydd y mae gan yr awdurdod reswm i gredu y gallai fod—~~

~~(a) yn ddigartref,~~

~~(b) yn gymwys i gael cymorth,~~

~~o dan amgylchiadau pan nad yw'r awdurdod yn fodlon hyd yma bod y ceisydd yn ddigartref, yn gymwys i gael cymorth ac ag angen blaenoriaethol am lety.~~

(2A) Mae'r is-adran hon yn gymwys i geisydd—

(a) pan fo'r awdurdod yn fodlon nad oes gan y ceisydd ddim cysylltiad lleol ag ardal unrhyw awdurdod tai lleol yng Nghymru, a

(b) naill ai—

(i) pan fo is-adran (2) yn gymwys i'r ceisydd, neu

(ii) pan fo'r awdurdod yn fodlon bod y ceisydd yn ddigartref a'i fod yn gymwys i gael cymorth.

~~(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys i geisydd—~~

~~(a) y mae'r awdurdod â rheswm i gredu neu yn fodlon bod ganddo angen blaenoriaethol neu y mae ei achos wedi cael ei atgyfeirio gan awdurdod tai lleol yn Lloegr o dan adran 198(1) o Ddeddf Tai 1996, a~~

~~(b) y mae'r ddyletswydd yn adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i ddod â digartrefedd i ben) yn gymwys iddo.~~

(4) Mae'r ddyletswydd o dan yr adran hon yn codi pa un a oes unrhyw bosibilrwydd o atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall ai peidio (gweler adrannau 80 i 82).

**69 Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben**

(1) Mae'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 68 yn dod i ben o dan unrhyw un o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn

is-adran ~~(2), (3) (yn ddarostyngedig i is-adran (4) a (5)), (7), (8)~~ (1A), (1B), (7) neu (9) os yw’r ceisydd wedi ei hysbysu yn unol ag adran 84.

(1A) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod yr awdurdod tai lleol wedi penderfynu bod, neu nad oes, dyletswydd i’r ceisydd o dan adran 75,

(b) os yw’r awdurdod wedi penderfynu

nad oes dyletswydd o dan adran 75, nad yw wedi gwneud hynny dim ond ar y sail bod adran 75(4) yn gymwys, ac

(c) bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu am benderfyniad yr awdurdod.

(1B) Yr amgylchiadau yw—

(a) bod yr awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd i’r ceisydd o dan adran 75,

(b) bod yr awdurdod wedi gwneud hynny dim ond ar y sail bod adran 75(4) yn gymwys,

(c) bod y ceisydd wedi cael ei hysbysu am benderfyniad yr awdurdod, a

(d) bod yr awdurdod yn fodlon bod y llety y mae wedi ei sicrhau o dan adran 68 wedi bod ar gael i’r ceisydd am gyfnod digonol er mwyn caniatáu cyfle rhesymol i’r ceisydd i sicrhau llety i’r ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd ei feddiannu.

(1C) Mae’r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (1B) yn gyfnod sy’n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd nad yw adran 75 yn gymwys.

~~(2) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd i’r ceisydd o dan adran 73 a bod y ceisydd wedi ei hysbysu am y penderfyniad hwnnw.~~

~~(3) Yn achos ceisydd y mae adran 68(3) yn gymwys iddo, yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol—~~

~~(a) wedi penderfynu bod y ddyletswydd i’r ceisydd o dan adran 73 wedi dod i ben a bod dyletswydd yn ddyledus neu nad yw’n ddyledus i’r ceisydd o dan adran 75, a~~

| | |
|---|---|
| ~~(b) wedi hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad hwnnw;~~<br>~~ond mae hyn yn ddarostyngedig i is-adrannau (4) a (5).~~<br>~~(4) (Mae is-adran (5) yn gymwys pan fo awdurdod tai lleol wedi penderfynu nad oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 75 ar y sail bod yr awdurdod—~~<br>~~(a) yn fodlon y daeth y ceisydd yn ddigartref yn fwriadol o dan yr amgylchiadau a arweiniodd at y cais, neu~~<br>~~(b) wedi sicrhau cynnig o lety o'r math a ddisgrifir yn adran 75(3)(f) yn flaenorol.~~<br>~~(5) Nid yw'r ddyletswydd o dan adran 68 yn dod i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (3) hyd nes y bo'r awdurdod yn fodlon hefyd bod y llety a sicrhawyd ganddo o dan adran 68 wedi bod ar gael i'r ceisydd am gyfnod digonol, gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysir ef nad yw adran 75 yn gymwys, er mwyn caniatáu cyfle rhesymol i'r ceisydd sicrhau llety iddo ei feddiannu.~~<br>~~(6) Nid yw'r cyfnod a grybwyllir yn is-adran (5) yn ddigonol at ddibenion yr is-adran honno os yw'n dod i ben ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod o 56 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod yr hysbyswyd y ceisydd bod y ddyletswydd yn adran 73 yn gymwys.~~<br>(7) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu am ganlyniadau posibl gwrthod, yn gwrthod cynnig o lety a sicrhawyd o dan adran 68 y mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon ei fod yn addas ar gyfer y ceisydd.<br>~~(8) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety interim addas y sicrhawyd o dan adran 68 ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu.~~<br>(9) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi rhoi'r gorau yn wirfoddol i feddiannu, fel ei unig neu ei brif gartref llety interim addas y sicrhawyd o dan adran 68 ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu. | |

| | |
|---|---|
| (10) Daw'r ddyletswydd i ben yn unol â'r adran hon neu ag adran 79 hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad sydd wedi arwain at ddod â'r ddyletswydd i ben (gweler adran 85).<br>(11) Caiff yr awdurdod sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch adolygiad.<br>(12) Gweler adran 79 am amgylchiadau pellach pan fo'r ddyletswydd yn adran 68 yn dod i ben | |
| ~~70 **Angen blaenoriaethol am lety**~~<br>~~(1) Mae gan y personau canlynol angen blaenoriaethol am lety at ddibenion y Bennod hon—~~<br>~~(a) menyw feichiog neu berson y mae'n preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi breswylio gydag ef;~~<br>~~(b) person y mae plentyn dibynnol yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;~~<br>~~(c) person—~~<br>~~(i) sy'n hyglwyf o ganlyniad i reswm arbennig (er enghraifft: henaint, salwch corfforol neu feddyliol neu anabledd corfforol neu feddyliol), neu~~<br>~~(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;~~<br>~~(d) person—~~<br>~~(i) sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tân neu drychineb arall, neu~~<br>~~(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;~~<br>~~(e) person—~~ | Adran 9(2) |

| | |
|---|---|
| (i) sy'n ddigartref o ganlyniad i wynebu camdriniaeth ddomestig, neu<br>(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef (ac eithrio'r sawl sy'n cam-drin) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;<br>(f) person—<br>(i) sy'n 16 neu'n 17 oed pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, neu<br>(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;<br>(g) person—<br>(i) sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, sy'n wynebu perygl arbennig o gamfanteisio rhywiol neu ariannol, neu<br>(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef (ac eithrio camfanteisiwr neu gamfanteisiwr posibl) neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;<br>(h) person—<br>(i) (i)sydd wedi cyrraedd 18 oed, pan fo'r person yn gwneud cais i awdurdod tai lleol am lety neu gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, ond nid 21 oed, a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed, neu<br>(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y | |

| | |
|---|---|
| gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;<br>(i) person—<br>(i) sydd wedi gwasanaethu yn lluoedd arfog rheolaidd y Goron sydd wedi bod yn ddigartref ers gadael y lluoedd hynny, neu<br>(ii) y mae person sy'n dod o fewn is-baragraff (i) yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef;<br>(j) person sydd â chysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod tai lleol ac sy'n hyglwyf o ganlyniad i un o'r rhesymau canlynol—<br>(i) bod wedi bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 **[F1** neu adran 222 o'r Cod Dedfrydu**]** ,<br>(ii) bod wedi ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i garchar gan orchymyn llys, neu<br>(iii) bod wedi ei remandio i lety cadw ieuenctid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, and Punishment of Offenders Act 2012,<br>**[F2**(k) person—<br>• sy'n ddigartref ac ar y stryd (o fewn ystyr adran 71(2)), neu<br>• y gellid disgwyl yn rhesymol i berson sy'n dod o fewn is-baragraff (i) breswylio gydag ef.**]**<br>neu berson y mae person o'r fath yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef.<br>• Yn y Bennod hon—<br>ystyr "yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu" ("*looked after, accommodated or fostered*") yw— | |

| | |
|---|---|
| (a) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (o fewn ystyr adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu adran 22 o Ddeddf Plant 1989),<br><br>(b) yn cael ei letya gan gorff gwirfoddol, neu ar ran corff gwirfoddol,<br><br>(c) yn cael ei letya mewn cartref plant preifat,<br><br>(d) yn cael ei letya am gyfnod di-dor o dri mis o leiaf—<br><br>(i) gan unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol neu Awdurdod Iechyd Arbennig,<br><br>(ii) gan **[**F3fwrdd gofal integredig**]** l neu **[**F4GIG Lloegr**]** , neu ar eu rhan,<br><br>(iii) gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru wrth arfer swyddogaethau addysg, neu ar ran y cyngor,<br><br>(iv) gan awdurdod lleol yn Lloegr wrth arfer swyddogaethau addysg, neu ar ei ran,<br><br>(v) mewn unrhyw gartref gofal neu ysbyty annibynnol, neu<br><br>(vi) mewn unrhyw lety a ddarperir gan un neu ragor o Ymddiriedolaethau'r GIG, neu ar eu rhan, neu gan un neu ragor o Ymddiriedolaethau Sefydledig y GIG, neu ar eu rhan, neu<br><br>(e) yn cael ei faethu yn breifat (o fewn ystyr adran 66 o Ddeddf Plant 1989).<br><br>(3) Yn is-adran (2)—<br><br>• O ran "cartref gofal" ("*care home*") mae iddo'r un ystyr ag a roddir i "care home" yn Neddf Safonau Gofal 2000 mewn cysylltiad â chartref gofal yn Lloegr,<br><br>• F7..<br><br>• mae i "swyddogaethau addysg" ("*education functions*") yr ystyr a roddir gan adran 597(1) o Ddeddf Addysg 1996<br><br>• ystyr "ysbyty annibynnol" ("*independent hospital*")—<br><br>(a)<br><br>mewn perthynas â Chymru, yw ysbyty annibynnol o fewnystyr adran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac<br><br>(b) | |

mewn perthynas â Lloegr, yw ysbyty, fel y'i diffinnir gan adran 275 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006, nad yw'n ysbyty'r gwasanaeth iechyd ("health service hospital") o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadrodd gan yr adran honno.

- [F5"ystyr "bwrdd gofal integredig" ("integrated care board") yw corff a sefydlir o dan adran 14Z25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;]
- ystyr "awdurdod lleol yn Lloegr" ("*local authority in England*") yw—

(a)

cyngor sir yn Lloegr,

(b)

cyngor dosbarth ar gyfer ardal yn Lloegr lle nad oes cyngor sir,

(c)

cyngor bwrdeistref yn Llundain, neu

(d)

Cyngor Cyffredin Dinas Llundain;

- ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

**71 Ystyr hyglwyf yn adran 70**

(1) Mae person yn hyglwyf o ganlyniad i reswm a grybwyllir ym mharagraff (c) neu (j) o adran 70(1) os, ar ôl rhoi sylw i holl amgylchiadau achos y person—

(a) y byddai'r person yn llai abl i ofalu amdano ei hun (o ganlyniad i'r rheswm hwnnw), pe bai'r person yn dod yn ddigartref ac ar y stryd, na pherson digartref arferol sy'n dod yn ddigartref ac ar y stryd, a

(b) y byddai'r person hwnnw, o ganlyniad, yn dioddef mwy o niwed nag y byddai person digartref arferol yn ei ddioddef;

mae'r is-adran hon yn gymwys pa un a yw'r person y mae ei gais o dan ystyriaeth yn ddigartref ac ar y stryd, neu'n debygol o ddod yn ddigartref ac ar y stryd, ai peidio.

((2) Yn is-adran (1), ystyr "digartref ac ar y stryd" ("street homeless"), mewn perthynas â pherson, yw nad oes llety

| | |
|---|---|
| ~~ar gael i'r person ei feddiannu yn y Deyrnas Unedig neu yn rhywle arall, y mae'r person—~~<br>~~(a) â'r hawl i'w feddiannu yn rhinwedd buddiant ynddo neu yn rhinwedd gorchymyn llys,~~<br>~~(b) â thrwydded ddatganedig neu oblygedig i'w feddiannu, neu~~<br>~~(c) yn ei feddiannu fel preswylfa yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol sy'n rhoi i'r person yr hawl i barhau i feddiannu neu'n cyfyngu ar hawl person arall i adennill meddiant;~~<br>~~ac nid yw adrannau 55 a 56 yn gymwys i'r diffiniad hwn.~~<br><br>~~72 Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu darpariaethau ynghylch angen blaenoriaethol am lety~~<br>~~(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud y canlynol drwy orchymyn—~~<br>~~(a) gwneud darpariaeth ar gyfer cael gwared ar unrhyw amod bod yn rhaid i awdurdod tai lleol fod â rheswm i gredu neu fod yn fodlon bod gan geisydd angen blaenoriaethol am lety cyn i unrhyw bŵer neu ddyletswydd i sicrhau llety o dan y Bennod hon fod yn gymwys, ac mewn cysylltiad â hynny;~~<br>~~(b) diwygio neu hepgor y disgrifiadau o bersonau fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol am lety at ddibenion y Bennod hon;~~<br>~~(c) pennu disgrifiadau pellach o bersonau fel rhai sydd ag angen blaenoriaethol am lety at ddibenion y Bennod hon.~~<br>~~(2) Caiff gorchymyn o dan is-adran (1) ddiwygio neu ddiddymu unrhyw un neu ragor o ddarpariaethau y Rhan hon..~~<br>~~(3) Cyn gwneud gorchymyn o dan yr adran hon rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw gymdeithasau ag sy'n cynrychioli cynghorau siroedd a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru, a'r cyfryw bersonau eraill, sy'n briodol yn eu barn hwy.~~ | |

| | |
|---|---|
| **73 Dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref**<br>(1) Rhaid i awdurdod tai lleol gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, os yw'r awdurdod yn fodlon bod y ceisydd—<br>(a) yn ddigartref, a<br>(b) yn gymwys i gael cymorth.<br>(2) Ond nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys os yw'r awdurdod yn atgyfeirio'r cais at awdurdod tai lleol arall (gweler adran 80).<br><br>74 Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben<br><br>(1) Mae'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 73 yn dod i ben o dan unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adrannau (2), (3), (4), neu (5), os yw'r ceisydd wedi cael ei hysbysu yn unol ag adran 84.<br>(2) Yr amgylchiadau yw diwedd cyfnod o 56 o ddiwrnodau.<br>(3) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol, cyn diwedd cyfnod o 56 o ddiwrnodau, yn fodlon bod camau rhesymol wedi eu cymryd i gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu.<br>(4) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon (pa un ai o ganlyniad i'r camau y mae wedi eu cymryd neu beidio)—<br>(a) bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, a<br>(b) bod y llety yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf.<br>(5) Yr amgylchiadau yw—<br>(a) bod y ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu am ganlyniad posibl gwrthod neu dderbyn y cynnig, yn gwrthod cynnig o lety gan unrhyw | Adran 6(2) |

| | |
|---|---|
| berson y mae'r awdurdod yn fodlon ei fod yn addas ar gyfer y ceisydd, a<br>(b) bod yr awdurdod yn fodlon bod y llety a gynigir yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf.<br>(6) Mae'r cyfnod o 56 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-adrannau (2) a (3) yn dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd o dan adran 63 ac at y diben hwn mae'r ceisydd i gael ei drin fel pe bai wedi ei hysbysu ar y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei anfon neu'n dod ar gael i'w gasglu gyntaf.<br>(7) Mae'r cyfnod o 6 mis a grybwyllir yn is-adran (4)(b) a (5)(b) yn dechrau ar y diwrnod y mae'r hysbysiad o dan adran 84 yn cael ei anfon neu'n dod ar gael i'w gasglu gyntaf.<br>(8) Gweler adran 79 am amgylchiadau pellach pan fydd y ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben. | |
| 75 Dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben<br>(1) Pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref) yn dod i ben mewn perthynas â cheisydd o dan yr amgylchiadau a grybwyllir yn is-adran (2) neu (3) o adran 74, rhaid i'r awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu os yw is-adran (2) neu (3) (o'r adran hon) yn gymwys.<br>(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r awdurdod tai lleol—<br>(a) yn fodlon—<br>(i) nad oes llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, neu<br>(ii) bod gan y ceisydd lety addas, ond nad yw'n debygol y bydd y llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd yn unol ag adran 84 nad yw adran 73 yn gymwys, | Adran 6(3) |

~~(b) yn fodlon bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth,~~

~~(c) is satisfied that the applicant has a priority need for (c) yn fodlon bod gan y ceisydd angen blaenoriaethol am lety, ac~~

~~(d) os yw'r awdurdod yn rhoi sylw i ba un a yw ceisydd yn ddigartref yn fwriadol ai peidio (gweler adran 77), nad yw'n fodlon y daeth y ceisydd yn ddigartref yn fwriadol o dan yr amgylchiadau a arweiniodd at y cais;~~

~~(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r awdurdod tai lleol yn rhoi sylw i ba un a yw'r ceisydd yn ddigartref yn fwriadol ai peidio ac yn fodlon—~~

~~(a) y daeth y ceisydd yn ddigartref yn fwriadol o dan yr amgylchiadau a arweiniodd at y cais,~~

~~(b) mewn perthynas â'r ceisydd—~~

~~(i) nad oes llety addas ar gael iddo i'w feddiannu, neu~~

~~(ii) bod llety addas gan geisydd, ond nad yw'n debygol y bydd y llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 6 mis o leiaf gan ddechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd yn unol ag adran 84 nad yw adran 73 yn gymwys,~~

~~(c) bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth,~~

~~(d) bod gan y ceisydd angen blaenoriaethol am lety,~~

~~(e) bod y ceisydd—~~

~~(i) yn fenyw feichiog neu'n berson y mae'n preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddi breswylio gydag ef,~~

~~(ii) yn berson y mae plentyn dibynnol yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef,~~

~~(iii) yn berson nad oedd wedi cyrraedd 21 oed pan wnaed y cais am gymorth neu'n berson y mae'r cyfryw berson yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl~~

| | |
|---|---|
| yn rhesymol iddo breswylio gydag ef, neu<br><br>(iv) yn berson a oedd wedi cyrraedd 21 oed, ond nid 25 oed, pan wnaed y cais am gymorth ac a oedd yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu'n cael ei faethu ar unrhyw bryd pan oedd o dan 18 oed, neu'n berson y mae'r cyfryw berson yn preswylio gydag ef neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef, a<br><br>(f) nad yw'r awdurdod wedi sicrhau cynnig o lety i'r ceisydd o dan yr adran hon yn flaenorol yn dilyn cais blaenorol am gymorth o dan y Bennod hon, pan wnaed y cynnig hwnnw—<br><br>(i) ar unrhyw bryd o fewn y cyfnod o 5 mlynedd cyn y diwrnod yr hysbyswyd y ceisydd o dan adran 63 bod dyletswydd iddo o dan yr adran hon, a<br><br>(ii) ar y sail bod y ceisydd yn dod o fewn yr is-adran hon<br><br>(4) At ddibenion is-adrannau (2)(a)(ii) a (3)(b)(ii), mae'r ceisydd i'w drin fel pe bai wedi ei hysbysu ar y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei anfon neu'n dod ar gael i'w gasglu gyntaf.<br><br>**75 Dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr**<br><br>(1) Rhaid i awdurdod tai lleol sicrhau bod llety addas ar gael i geisydd ei feddiannu—<br><br>(a) os yw is-adran (2) yn gymwys,<br><br>(b) os nad yw is-adran (4) yn gymwys, ac<br><br>(c) os nad yw is-adran (6) yn gymwys.<br><br>(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon—<br><br>(a) o ran y ceisydd—<br><br>(i) ei fod yn ddigartref, neu<br><br>(ii) bod ganddo lety interim addas y sicrhawyd ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu (pa un ai oherwydd camau y mae'r awdurdod wedi eu cymryd ai peidio) ar adeg pan oedd | |

| | |
|---|---|
| y ceisydd yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, a<br><br>(b) bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth.<br><br>(3) At ddiben is-adran (2)(a)(ii), mae llety yn llety interim—<br><br>(a) os yw wedi ei sicrhau o dan adran 68,<br><br>(b) os yw'r ceisydd pan fydd yn dechrau meddiannu'r llety, yn bwriadu ei feddiannu—<br><br>(i) hyd nes y cwblheir y cais am gymorth o dan y Bennod hon, neu<br><br>(ii) am gyfnod o lai na 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod cyntaf y mae'r llety ar gael i'w feddiannu, neu<br><br>(c) os yw'r person sy'n sicrhau bod y llety ar gael i'w feddiannu, pan fydd yn dechrau gwneud hynny, yn bwriadu i'r llety fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu—<br><br>(i) hyd nes y cwblheir y cais am gymorth o dan y Bennod hon, neu<br><br>(ii) am gyfnod o lai na 12 mis sy'n dechrau â'r diwrnod cyntaf y mae'r llety ar gael i'w feddiannu.<br><br>(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon—<br><br>(a) nad oes gan y ceisydd nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd gysylltiad lleol ag ardal unrhyw awdurdod tai lleol yngh Nghymru, a<br><br>(b) nad yw unrhyw un o'r amgylchiadau yn is-adran (5) yn gymwys.<br><br>(5) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd neu unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd—<br><br>(a) mewn perygl o ddioddef camdriniaeth mewn ardal y tu allan i Gymru—<br><br>(i) y mae'r ceisydd neu'r aelod arall o aelwyd y ceisydd â chysylltiad lleol â hi,<br><br>(ii) y mae, neu yr oedd, y ceisydd neu'r aelod arall o aelwyd y ceisydd yn byw ynddi, a<br><br>(iii) yng Nghymru mewn amgylchiadau perthnasol, yn byw yn yr ardal y tu allan i Gymru lle y mae perygl o gamdriniaeth neu'n byw mewn ardal | |

| | |
|---|---|
| arall y tu allan i Gymru at ddiben ceisio lloches rhag camdriniaeth, neu<br>(b) yn dod o fewn categori rhagnodedig o berson.<br>(6) Yn is-adran (5)(a)(iii), yr amgylchiadau perthnasol yw bod y ceisydd neu'r aelod arall o aelwyd y ceisydd, yn union cyn dod i Gymru—<br>(a) yn byw yn yr ardal y tu allan i Gymru lle y mae perygl o gamdriniaeth, neu<br>(b) yn byw mewn ardal arall y tu allan i Gymru at ddiben ceisio lloches rhag camdriniaeth.<br>(7) Mae'r is-adran hon yn gymwys—<br>(a) os yw'r ceisydd yn garcharor sy'n bwrw dedfryd o garchar, a<br>(b) os yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon nad yw'n rhesymol debygol y bydd y ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r canlynol—<br>(i) y diwrnod y gwneir y cais am gymorth o dan y Bennod hon, neu<br>(ii) os oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66 ar unrhyw adeg ar ôl i'r cais gael ei wneud, y diwrnod y daw'r ddyletswydd o dan adran 66 i ben.<br>(8) Mae is-adran (9) yn gymwys os yw'r ceisydd—<br>(a) yn garcharor, neu<br>(b) yn preswylio mewn mangre a gymeradwywyd.<br>(9) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (1) i'w dehongli fel dyletswydd i sicrhau bod llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu pan fydd y ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth neu pan nad yw'n ofynnol bellach iddo breswylio mewn mangre a gymeradwywyd (yn ôl y digwydd). | |

<table>
<tr><td>

**76 Amgylchiadau pan fo’r ddyletswydd yn adran 75 yn dod i ben**

(1) Mae’r ddyletswydd i geisydd o dan adran 75(1) yn dod i ben o dan unrhyw un o’r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adrannau (2), (3), (6) ~~neu (7)~~, <u>(7), (7A) neu (7D)</u> os yw’r ceisydd wedi ei hysbysu yn unol ag adran 84.

(2) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd yn derbyn—

(a) cynnig o lety addas o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996 (dyrannu tai), ...

(aa) cynnig o lety addas yng Nghymru o dan denantiaeth sy’n gontract meddiannaeth, neu

(b) cynnig o lety addas (yn Lloegr) o dan denantiaeth sicr (gan gynnwys tenantiaeth fyrddaliol sicr).

(3) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd, ar ôl derbyn hysbysiad ysgrifenedig am ganlyniadau posibl gwrthod neu dderbyn y cynnig, yn gwrthod—

(a) cynnig o lety interim addas o dan adran 75,

(b) cynnig sector rhentu preifat, neu

(c) cynnig o lety o dan Ran 6 o Ddeddf Tai 1996,

y mae’r awdurdod yn fodlon ei fod yn addas ar gyfer y ceisydd.

(4) At ddibenion yr adran hon mae cynnig yn gynnig sector rhentu preifat—

(a) os yw’n gynnig o—

(i) tenantiaeth sy’n gontract meddiannaeth a wneir gan landlord preifat i’r ceisydd mewn perthynas â llety yng Nghymru sydd ar gael i’r ceisydd ei feddiannu, neu

(ii) <u>tenantiaeth</u> ~~fyrddaliol~~ <u>sicr (gan gynnwys tenantiaeth fyrddaliol sicr</u>) a wneir gan landlord preifat i’r ceisydd mewn perthynas ag unrhyw lety yn Lloegr sydd ar gael i’r ceisydd ei feddiannu,

(b) os yw’n cael ei wneud, gyda chymeradwyaeth yr awdurdod, yn unol â threfniadau a wneir rhwng yr awdurdod a’r landlord gyda’r nod o

</td><td>Adran 7(2) a (3) ac Atodlen 1, paragraff 3(7)</td></tr>
</table>

ddod â dyletswydd yr awdurdod o dan adran 75 i ben, ac

(c) mewn perthynas â llety yn Lloegr, mae'r denantiaeth sy'n cael ei chynnig yn denantiaeth cyfnod penodedig am gyfnod o 6 mis o leiaf.

(5) Mewn achos cyfyngedig, rhaid i'r awdurdod tai lleol, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, ddwyn ei ddyletswydd i ben drwy sicrhau cynnig sector rhentu preifat; at y diben hwn, ystyr "achos cyfyngedig" yw achos pan na fyddai awdurdod tai lleol yn fodlon fel a grybwyllir yn adran 75(1) heb roi sylw i berson cyfyngedig (gweler adran 63(5)).

~~(6) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol o lety interim addas y sicrhawyd ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu—~~

~~(a) o dan adran 68 ac y parheir i sicrhau ei fod ar gael o dan adran 75, neu~~

~~(b) o dan adran 75.~~

(7) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi rhoi'r gorau yn wirfoddol i feddiannu, fel ei brif neu ei unig gartref, llety interim addas y sicrhawyd ei fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu—

(a) o dan adran 68 ac y parheir i sicrhau ei fod ar gael o dan adran 75, neu

(b) o dan adran 75.

(7A) ) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon (pa un ai oherwydd camau y mae wedi eu cymryd ai peidio)—

(a) nad yw'r ceisydd bellach yn ddigartref,

(b) bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu heblaw yn rhinwedd cynnig a grybwyllir yn is-adrannau (2) neu (3),

(c) bod y llety yn debygol o fod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu am gyfnod o 12 mis o leiaf, a

(d) bod y ceisydd, ar ôl cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am ganlyniad posibl cytuno i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben, yn cytuno i'r ddyletswydd yn adran 75 ddod i ben.

(7B) Mae'r cyfnod o 12 mis a grybwyllir yn is-adran (7A) yn dechrau ar y diwrnod y mae hysbysiad yn unol ag adran 84

| | |
|---|---|
| nad yw'r awdurdod bellach yn ystyried ei fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 75 yn cael ei anfon neu'n dod ar gael i'w gasglu gyntaf.<br><br>(7C) Ond pan fo ceisydd yn garcharor neu'n preswylio mewn mangre a gymeradwywyd, mae'r cyfnod o 12 mis a grybwyllir yn is-adran (7A) yn dechrau ar y diwrnod y mae'r ceisydd i'w ryddhau o gael ei gadw'n gaeth neu nad yw'n ofynnol bellach iddo breswylio mewn mangre a gymeradwywyd (yn ôl y digwydd).<br><br>(7D) Yr amgylchiadau yw—<br><br>(a) bod y ceisydd yn garcharor sy'n bwrw dedfryd o garchar, a<br><br>(b) bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon nad yw'n rhesymol debygol y bydd y ceisydd yn cael ei ryddhau o gael ei gadw'n gaeth cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r canlynol—<br><br>(i) y diwrnod y gwneir y cais am gymorth o dan y Bennod hon, neu<br><br>(ii) os oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66 ar unrhyw adeg ar ôl i'r cais gael ei wneud, y diwrnod y daw'r ddyletswydd o dan adran 66 i ben.<br><br>(7E) Daw'r ddyletswydd i ben yn unol â'r adran hon neu ag adran 79 hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o unrhyw benderfyniad sydd wedi arwain at ddod â'r ddyletswydd i ben (gweler adran 85).<br><br>(7F) Caiff yr awdurdod sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch adolygiad.<br><br>(8) Gweler adran 79 am amgylchiadau pellach pan fo'r ddyletswydd yn adran 75(1) yn dod i ben.<br><br>(9) Yn yr adran hon—<br><br>• mae i "tenantiaeth cyfnod penodedig" ("*fixed term tenancy*") mewn perthynas â llety yn Lloegr yr ystyr a roddir i "fixed term tenancy" yn Rhan 1 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50); | |

| | |
|---|---|
| • mae i "contract meddiannaeth" ("*occupation contract*") yr un ystyr ag yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) (gweler adran 7 o'r Ddeddf honno); | |
| **76A Dyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas**<br>(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—<br>(a) ceisydd—<br>(i) and yw'n ddigartref nac o dan fygythiad o ddigartrefedd,<br>(ii) y mae llety addas ar gael iddo ei feddiannu a oedd, i unrhyw raddau, wedi ei gadw neu wedi ei sicrhau drwy awdurdod tai lleol yn arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon (pa un ai drwy ddarparu llety neu fathau eraill o gymorth), a<br>(iii) y mae'r awdurdod tai lleol yn ystyried ei fod mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd oni bai bod cymorth pellach yn cael ei ddarparu;<br>(b) yr awdurdod tai lleol sy'n arfer y swyddogaethau a ddisgrifir ym mharagraff (a)(ii) mewn perthynas â'r ceisydd.<br>(2) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gynorthwyo i sicrhau nad yw llety'r ceisydd yn peidio â bod ar gael i'r ceisydd ei feddiannu drwy gymryd camau rhesymol sy'n debygol o gyflawni'r diben hwnnw.<br><br>**76B Amgylchiadau pan fo'r ddyletswydd yn adran 76A yn dod i ben**<br>(1) Daw'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 76A i ben yn unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), (3), (4), (6) neu (9) os yw'r ceisydd wedi cael ei hysbysu yn unol ag adran 84.<br>(2) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi dod yn ddigartref.<br>(3) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon (pa un ai o ganlyniad i'r camau y mae wedi eu cymryd ai peidio) nad yw'r ceisydd bellach mewn perygl o ddod yn | Adran 18(2) |

| | |
|---|---|
| ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd oni bai bod cymorth yn cael ei ddarparu.<br><br>(4) Yr amgylchiadau yw—<br><br>(a) bod y ceisydd yn meddiannu llety sydd wedi ei ddarparu neu wedi ei drefnu wrth arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon, a<br><br>(b) bod y cyfnod yn is-adran (5) sy'n dechrau ar y diwrnod diweddarach wedi dod i ben.<br><br>(5) Y cyfnodau yw—<br><br>(a) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod y daeth y llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu;<br>(b) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd o dan adran 63 fod dyletswydd o dan adran 76A yn ddyledus i'r ceisydd.<br><br>(6) Yr amgylchiadau yw—<br><br>(a) bod y ceisydd yn meddiannu llety a sicrhawyd wrth arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon, ond nas darparwyd ac nas trefnwyd wrth arfer y swyddogaethau hynny, a<br>(b) bod y cyfnod yn is-adran (7) sy'n dechrau ar y dyddiad diweddarach wedi dod i ben.<br><br>(7) Y cyfnodau yw—<br><br>(a) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd o dan adran 84 fod y ddyletswydd o dan adran 66 wedi dod i ben;<br>(b) y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd o dan adran 63 fod dyletswydd o dan adran 76A yn ddyledus i'r ceisydd.<br><br>(8) At ddiben is-adrannau (5) a (7) mae'r ceisydd i'w drin fel pe bai wedi ei hysbysu ar y diwrnod y mae'r hysbysiad yn cael ei anfon neu'n dod ar gael i'w gasglu gyntaf.<br><br>(9) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd wedi gofyn nad yw cymorth o'r math sy'n ofynnol gan adran 76A(2) yn cael ei ddarparu gan yr awdurdod tai lleol.<br><br>(10) Gweler adran 79 am amgylchiadau pellach pan fo'r ddyletswydd yn adran 76A yn dod i ben. | |

| | |
|---|---|
| **76C Dyletswydd i gadw mewn cysylltiad â cheiswyr penodol**<br><br>(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (3) yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—<br><br>(a) ceisydd—<br><br>(i) yr oedd dyletswydd iddo o dan adran 75 a ddaeth i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 76(7A), a<br>(ii) nad yw o fewn is-adran (2);<br><br>(b) yr awdurdod tai lleol a arferodd y swyddogaeth a ddisgrifir ym mharagraff (a)(i) mewn perthynas â'r ceisydd.<br><br>(2) Mae ceisydd o fewn yr is-adran hon—<br><br>(a) os oes dyletswydd ar yr awdurdod tai lleol i'r ceisydd o dan adran 76A ar ddechrau'r cyfnod perthnasol, neu<br>(b) os yw'n ofynnol i'r awdurdod tai lleol, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod perthnasol, gynnal asesiad o dan adran 62 mewn cysylltiad â'r ceisydd neu os yw wedi cynnal asesiad o'r fath cyn dechrau'r cyfnod perthnasol.<br><br>(3) Rhaid i'r awdurdod tai lleol gymryd camau rhesymol i gysylltu â'r ceisydd (pa un a yw'r person o fewn ei ardal ai peidio) o fewn y cyfnod perthnasol gyda'r nod o ganfod, o ran y ceisydd, a yw neu a all fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu a yw mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd.<br><br>(4) Os yw'r awdurdod tai lleol yn ystyried, o ran y ceisydd, ei fod neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu ei fod mewn perygl o ddod yn ddigartref neu o ddod o dan fygythiad o ddigartrefedd, rhaid i'r awdurdod tai lleol roi i'r ceisydd y gyfryw wybodaeth a'r cyfryw gyngor y mae'r awdurdod yn ystyried ei bod neu ei fod yn briodol.<br><br>(5) At ddiben yr adran hon, y "cyfnod perthnasol" yw'r cyfnod o 2 fis ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mis sy'n dechrau ar y diwrnod yr hysbysir y ceisydd yn unol ag adran 84 fod y ddyletswydd o dan adran 75 wedi dod i ben. | Adran 19 |
| ~~77 **Ystyr bod yn ddigartref yn fwriadol**~~<br><br>~~(1) Mae person yn ddigartref yn fwriadol at ddibenion y Bennod hon os yw is-adran (2) neu (4) yn gymwys.~~ | Adran 10(2) |

~~(2) Mae’r is-adran hon yn gymwys os yw’r person yn gwneud unrhyw beth neu’n methu â gwneud unrhyw beth yn fwriadol ac o ganlyniad i hynny mae’r person yn rhoi’r gorau i feddiannu llety sydd ar gael i’r person ei feddiannu ac y byddai wedi bod yn rhesymol i’r person barhau i’w feddiannu.~~

~~(3) At ddibenion is-adran (2) ni chaniateir trin gweithred ddidwyll neu anwaith didwyll ar ran person nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ffaith berthnasol fel gweithred fwriadol neu anwaith bwriadol.~~

~~(4) Mae’r is-adran hon yn gymwys—~~

~~(a) os yw’r person yn ymrwymo i gytundeb sy’n ei gwneud yn ofynnol i’r person roi’r gorau i feddiannu llety y byddai wedi bod yn rhesymol i’r person barhau i’w feddiannu, a~~

~~(b) diben y cytundeb yw galluogi’r person i gymhwyso ar gyfer yr hawl i gymorth o dan y Bennod hon,~~

~~ac nad oes rheswm da arall pam y mae’r person yn ddigartref.~~

~~78 Penderfynu rhoi sylw i fwriadoldeb~~

~~(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu categori neu gategorïau o geiswyr at ddibenion yr adran hon.~~

~~(2) Ni chaiff awdurdod tai lleol roi sylw i ba un a yw ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio at ddibenion adrannau 68 a 75 oni bai bod—~~

~~(a) y ceisydd yn dod o fewn categori a bennir o dan is-adran (1) y mae’r awdurdod wedi penderfynu, mewn perthynas â'r categori hwnnw, rhoi sylw i ba un a yw ceiswyr o fewn y categori hwnnw wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio, a~~

~~(b) yr awdurdod wedi cyhoeddi hysbysiad am ei benderfyniad o dan baragraff (a) sy’n pennu’r categori hwnnw.~~

~~(3) Mae is-adran (4) yn gymwys pan fo awdurdod tai lleol wedi cyhoeddi hysbysiad o dan is-adran (2) oni bai bod yr awdurdod wedi—~~

| | |
|---|---|
| ~~(a) penderfynu rhoi'r gorau i roi sylw i ba un a yw ceiswyr sy'n dod o fewn y categori a bennir yn yr hysbysiad wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio, a~~<br>~~(b) wedi cyhoeddi hysbysiad am ei benderfyniad sy'n pennu'r categori.~~<br>~~(4) At ddibenion adran 68 a 75, rhaid i awdurdod tai lleol roi sylw i ba un a yw ceisydd wedi dod yn ddigartref yn fwriadol ai peidio os yw'r ceisydd yn dod o fewn categori a bennir yn yr hysbysiad a gyhoeddwyd gan yr awdurdod o dan is-adran (2).~~ | |

| | |
|---|---|
| **79 Amgylchiadau pellach pan fo'r dyletswyddau i gynorthwyo ceiswyr yn dod i ben**<br><br>(1) Mae'r dyletswyddau yn adrannau 66, 68, ~~73 a 75~~ 75 a 76A yn dod i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), (3), (4) ~~neu (5)~~ (5), (6) neu (7), os yw'r ceisydd yn cael ei hysbysu yn unol ag adran 84.<br><br>(2) Yr amgylchiadau yw nad yw'r awdurdod tai lleol yn fodlon bellach bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth.<br><br>(3)Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon bod camgymeriad ffeithiol wedi arwain at hysbysu'r ceisydd o dan adran 63 bod y ddyletswydd yn ddyledus i'r ceisydd.<br><br>(4)Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod lleol yn fodlon bod y ceisydd wedi tynnu ei gais yn ôl.<br><br>(5) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon—<br><br>(a) bod y ceisydd wedi ymddwyn yn dreisgar neu'n fygythiol tuag at unigolyn a oedd yn cyflawni gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r canlynol—<br><br>(i) arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon, neu<br><br>(ii) darparu llety neu wasanaethau eraill a sicrhawyd i unrhyw raddau drwy arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon,<br><br>(b) bod yr ymddygiad wedi digwydd yn ystod y cyfnod pan fo cais ceisydd yn cael ei ystyried a bo unrhyw ddyletswydd o dan adran 66, 68, 75 neu 76A yn gymwys, ac<br><br>(c) nad oes dim amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd berthnasol barhau i fod yn gymwys.<br><br>(6) Yr amgylchiadau yw bod yr awdurdod tai lleol yn fodlon—<br><br>(a) bod eiddo a oedd yn llety a sicrhawyd i unrhyw raddau drwy arfer swyddogaethau o dan y Bennod hon, neu eiddo a ddarparwyd i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â llety o'r fath, wedi ei ddinistrio neu wedi ei ddifrodi'n ddifrifol yn ystod y cyfnod pan fo cais ceisydd yn cael ei ystyried a bo unrhyw ddyletswydd o dan adran 66, 68 neu 75 yn gymwys,<br><br>(b) bod y ceisydd, neu berson sy'n preswylio gyda'r ceisydd, wedi dinistrio'r eiddo neu wedi ei ddifrodi'n | Adran 18(3) a 20(2) a (3) |

| | |
|---|---|
| ddifrifol, neu wedi ysgogi neu annog ei ddinistrio neu ei ddifrodi gan berson arall,<br><br>(c) bod y ceisydd neu berson sy'n preswylio gyda'r ceisydd wedi bwriadu dinistrio'r eiddo neu ei ddifrodi'n ddifrifol, neu wedi bod yn ddi-hid o ran a fyddai'r eiddo yn cael ei ddinistrio neu ei ddifrodi'n ddifrifol,<br>(d) nad oes dim esgus rhesymol dros weithredoedd y ceisydd neu'r person sy'n preswylio gyda'r ceisydd, ac<br>(e) nad oes dim amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd berthnasol barhau i fod yn gymwys.<br><br>(7) Yr amgylchiadau yw—<br><br>(a) nad yw'r ceisydd wedi ymateb i geisiadau mynych gan yr awdurdod tai lleol i gysylltu â'r ceisydd mewn cysylltiad â'r cais,<br>(b) nad yw'r awdurdod yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau arbennig a fyddai'n ei gwneud yn briodol i'r ddyletswydd berthnasol barhau i fod yn gymwys,<br>(c) bod yr awdurdod wedi rhoi hysbysiad rhybuddio i'r ceisydd yn esbonio—<br>(i) bod yr awdurdod, oherwydd y ffeithiau a ddisgrifir ym mharagraff (a), yn bwriadu rhoi hysbysiad i'r ceisydd o dan adran 84, a<br>(ii) canlyniadau rhoi hysbysiad o dan adran 84 i'r ceisydd, a<br>(d) bod cyfnod rhesymol wedi mynd heibio ers i'r hysbysiad rhybuddio gael ei roi, a hynny heb unrhyw gyswllt gan y ceisydd mewn cysylltiad â'r cais.<br>(8)Rhaid i hysbysiad rhybuddio o dan is-adran (7) gael ei roi yn ysgrifenedig ac, os nad yw'n dod i law'r ceisydd, gael ei drin fel pe bai wedi ei roi i'r ceisydd os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd. | |
| **Atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall**<br><br>80 Atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall<br><br>~~(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan fo—~~ | Adran 11(2) – (6) ac Atodlen 1, paragraff 3(8) |

| | |
|---|---|
| ~~(a) awdurdod tai lleol yn ystyried bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio at awdurdod tai lleol arall (pa un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) wedi eu bodloni (gweler is-adran (3)), ac~~<br><br>~~(b) y byddai'r awdurdod tai lleol, os nad yw'r achos yn cael ei atgyfeirio, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 73 mewn perthynas â cheisydd sydd mewn angen blaenoriaethol am lety ac yn ddigartref yn anfwriadol (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref).~~<br><br>~~(2) Caiff yr awdurdod tai lleol hysbysu'r awdurdod arall am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni mewn perthynas â'r ceisydd.~~<br><br><u>(2) Os yw awdurdod tai lleol yn ystyried —</u><br><br><u>(a) ei fod, neu y gall fod, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 66 (dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref) mewn cysylltiad â cheisydd sy'n garcharor, a</u><br><br><u>(b) bod yr amodau wedi eu bodloni ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod tai lleol arall (pa un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) o dan is-adran (3) neu mewn unrhyw amgylchiadau rhagnodedig,</u><br><br><u>caiff hysbysu'r awdurdod hwnnw am ei farn.</u><br><br><u>(2A) Os yw awdurdod tai lleol yn ystyried—</u><br><br><u>(a) ei fod, neu y gall fod, yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety) mewn cysylltiad â cheisydd neu y byddai'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd oni bai am adran 75(4), a</u><br><u>(b) bod yr amodau wedi eu bodloni ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod tai lleol arall (pa un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) o dan is-adran (3) neu mewn unrhyw amgylchiadau rhagnodedig,</u><br><br><u>caiff hysbysu'r awdurdod hwnnw am ei farn.</u><br><br><u>(2B) Ond ni chaiff awdurdod tai lleol hysbysu o dan is-adran (2A) ar ôl i'r ceisydd gael ei hysbysu o dan adran 63 fod dyletswydd ar yr awdurdod o dan adran 75, oni bai bod y ceisydd yn garcharor.</u><br><br>(3) Mae'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos i awdurdod tai lleol arall yng Nghymru wedi eu bodloni— | |

(a) nad yw'r ceisydd nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd ~~berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r ceisydd~~ gysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod y gwneir y cais iddo,

(b) os oes gan y ceisydd neu aelod o aelwyd y ceisydd ~~berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r ceisydd~~ gysylltiad lleol ag ardal yr awdurdod arall hwnnw, a

(c) nad yw'r ceisydd nac unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd ~~yn wynebu'r perygl o camdriniaeth ddomestig yn yr ardal arall honno~~ wedi ei esemptio rhag atgyfeirio (gweler adran 81A).

~~(4) Ond nid yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio a grybwyllir yn is-adran (3) yn cael eu bodloni —~~

~~(a) os yw'r ceisydd neu unrhyw berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r ceisydd wedi dioddef camdriniaeth (ac eithrio camdriniaeth domestig) yn ardal yr awdurdod arall, a~~

~~(b) mae'n debygol y bydd dychweliad y dioddefwr i'r ardal honno yn arwain at ragor o gamdriniaeth o natur debyg yn ei erbyn.~~

(5) Mae'r cwestiwn o pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio achos wedi eu bodloni i'w penderfynu—

(a) drwy gytundeb rhwng yr awdurdod sy'n hysbysu a'r awdurdod sy'n cael ei hysbysu, neu

(b) yn niffyg cytundeb, yn unol â'r cyfryw drefniadau—

(i) ag y caiff Gweinidogion Cymru eu cyfarwyddo drwy orchymyn, pan fo'r ddau awdurdod yng Nghymru, neu

(ii) ag y caiff Gweinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol eu cyfarwyddo ar y cyd drwy orchymyn, pan fo'r awdurdod

| | |
|---|---|
| sy’n hysbysu yng Nhgymru a’r awdurdod sy’n cael ei hysbysu yn Lloegr.<br><br>(6) Caiff gorchymyn o dan is-adran (5) gyfarwyddo mai’r trefniadau fydd—<br><br>(a) y trefniadau hynny y cytunwyd arnynt gan unrhyw awdurdodau perthnasol neu gymdeithasau o awdurdodau perthnasol, neu<br><br>(b) yn niffyg cytundeb o’r fath, y cyfryw drefniadau ag yr ymddengys i Weinidogion Cymru neu, yn achos gorchymyn dan is-adran (5)(b)(ii), i Weinidogion Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol eu bod yn addas, ar ôl ymgynghori â’r cyfryw gymdeithasau sy’n cynrychioli awdurdodau perthnasol, a’r cyfryw bersonau eraill, sy’n briodol yn eu barn hwy.<br><br>(7) Yn is-adran (6), ystyr “awdurdod perthnasol” yw awdurdod tai lleol neu awdurdod gwasanaethau cymdeithasol; ac mae’n cynnwys, i’r graddau fod yr is-adran honno yn gymwys i drefniadau dan is-adran (5)(b)(ii), awdurdodau o’r fath yng Nghymru a Lloegr.<br><br>(8) Caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn yr amgylchiadau eraill hynny pan fo’r amodau ar gyfer atgyfeirio’r achos at awdurdod lleol arall wedi eu bodloni a phan nad ydynt wedi eu bodloni. | |
| **81 Cysylltiad lleol**<br><br>(1) Mae’r adran hon yn gymwys at ddibenion y Bennod hon.<br><br>(2) Mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr neu <u>unrhyw ardal arall</u> os oes gan y person gysylltiad â hi—<br><br>(a) gan fod y person yn preswylio yno fel arfer, neu wedi gwneud hynny yn y gorffennol, a bod y preswyliad hwnnw o ddewis y person ei hun,<br><br>(b) gan fod y person yn cael ei gyflogi yno, | Adran 12(2) ac Atodlen 1, paragraff 3(9) |

(c) o ganlyniad i gysylltiadau teuluol, neu

(d) o ganlyniad i amgylchiadau neilltuol.

(3) Nid yw preswyliad mewn ardal o ddewis person ei hun os yw'r person, neu berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r person hwnnw, yn dod yn breswyliwr yno gan fod y person yn cael ei gadw o dan awdurdod deddfiad.

~~(4)Caiff Gweinidogion Cymru bennu drwy orchymyn yr amgylchiadau hynny—~~

~~(a)pan nad yw person i gael ei drin fel person a gyflogir mewn ardal, neu~~

~~(b)pan nad yw preswyliad mewn ardal i gael ei drin fel preswyliad o ddewis person ei hun.~~

4) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau bennu amgylchiadau—

(a) pan fo person i'w drin fel person sy'n preswylio fel arfer mewn ardal, neu pan nad yw i'w drin felly;

(b) pan fo preswyliad mewn ardal i'w drin fel preswyliad o ddewis y person ei hun, neu pan nad yw i'w drin felly;

(c) pan fo person i'w drin fel person a gyflogir mewn ardal, neu pan nad yw i'w drin felly;

(d) pan fo person i'w drin fel person sydd â chysylltiad teuluol ag ardal, neu pan nad yw i'w drin felly;

(e) sydd i'w trin fel amgylchiadau arbennig sy'n cysylltu person ag ardal, neu nad ydynt i'w trin felly.

(5) Mae gan berson gysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr os darparwyd llety i'r person yn yr ardal honno (ar unrhyw adeg) o dan adran 95 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (cefnogaeth i geiswyr lloches).

(6) Ond nid yw is-adran (5) yn gymwys—

(a) i ddarparu llety i berson yn ardal awdurdod tai lleol os darparwyd llety i'r person yn ardal awdurdod tai

| | |
|---|---|
| lleol arall wedi hynny o dan adran 95 o'r Ddeddf honno, neu<br>(b) i ddarparu llety mewn canolfan letya yn rhinwedd adran 22 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002 (defnyddio canolfannau lletya ar gyfer cefnogaeth adran 95). | |
| | |
| **81A Ceiswyr sydd wedi eu hesemptio rhag atgyfeirio o dan adran 80**<br>(1) Ni chaiff awdurdod tai lleol atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall (pa un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) o dan adran 80 os yw unrhyw un neu ragor o'r amgylchiadau a ddisgrifir yn is-adran (2), (3) neu (4) yn gymwys mewn perthynas â'r ceisydd.<br>(2) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd neu unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd—<br>(a) mewn mwy o berygl o ddioddef camdriniaeth yn ardal yr awdurdod y byddai'r atgyfeiriad yn cael ei wneud ato nag yn yr ardal y gwneir y cais iddo, neu<br>(b)yn dod o fewn categori rhagnodedig o bersonau.<br>(3) Yr amgylchiadau yw bod y ceisydd yn garcharor sydd wedi cael ei hysbysu o dan adran 63 fod dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66 neu 75 a bod cyfnod o 2 wythnos wedi dod i ben, gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad.<br>(4) Yr amgylchiadau yw bod atgyfeiriad wedi ei wneud yn flaenorol o dan adran 80 mewn perthynas â'r un cais. | Adran 13(2) |
| **82 Dyletswyddau i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer ei atgyfeirio neu'n cael ei atgyfeirio**<br>~~(1) Pan fo awdurdod tai lleol yn hysbysu ceisydd yn unol ag adran 84 ei fod yn bwriadu hysbysu awdurdod tai lleol arall yng Nghymru neu Loegr ei fod o'r farn bod yr amodau wedi eu diwallu ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd at yr awdurdod arall hwnnw, neu ei fod wedi gwneud hynny—~~ | Adran 14(2)-(6) ac adran 16(2) |

| | |
|---|---|
| ~~(a) mae'n peidio â bod yn ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd o dan adran 68 (dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol), aa~~<br>~~(b) nid yw'n ddarostyngedig i unrhyw ddyletswydd o dan adran 73 ( dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref),~~<br>~~ond rhaid iddo sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu hyd nes i'r ceisydd gael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni~~<br>(1) Mae is-adrannau (1A) ac (1B) yn gymwys—<br>(a) os yw awdurdod tai lleol ("awdurdod A") wedi hysbysu awdurdod tai lleol arall ("awdurdod B") am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd o dan adran 80 wedi eu bodloni, a<br>(b) os yw'r ceisydd wedi cael ei hysbysu o dan adran 84(1B) fod awdurdod B wedi cael ei hysbysu am farn awdurdod A;<br>ac mae is-adran (1A) yn gymwys pa un a yw'r awdurdod sy'n cael ei hysbysu yng Nghymru neu yn Lloegr.<br>(1A) Os yw awdurdod A yn hysbysu awdurdod B o dan adran 80(2A)—<br>(a) nid yw awdurdod A yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 68 (dyletswydd interim i sicrhau llety) mewn perthynas â'r ceisydd, a<br>(b) nid yw awdurdod A yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety) mewn perthynas â'r ceisydd,<br>ond rhaid i awdurdod A sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd letya ynddo hyd nes i'r ceisydd gael ei hysbysu am y penderfyniad ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni.<br>(1B) Os yw awdurdod A yn hysbysu awdurdod B o dan adran 80(2) neu (2A) a phenderfynir yn unol ag adran 80(5) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni— | |

(a) mae'r ceisydd i'w drin, at ddibenion y Bennod hon, fel pe bai wedi gwneud cais i awdurdod B ar y dyddiad y rhoddir hysbysiad o dan adran 84(1B),

(b) nid oes ar awdurdod A ddim dyletswyddau i'r ceisydd o dan y Bennod hon o'r dyddiad hwnnw,

(c) pan fo awdurdod A wedi penderfynu bod y ceisydd yn gymwys i gael cymorth, ei fod yn ddigartref neu ei fod o dan fygythiad o ddigartrefedd, mae'r ceisydd i'w drin felly at ddibenion y Bennod hon oni bai bod awdurdod B yn dod i gasgliad gwahanol yn unol ag is-adran (1C), a

(d) rhaid i awdurdod A roi i awdurdod B gopïau o unrhyw hysbysiadau neu unrhyw ddogfennau y mae awdurdod A wedi eu rhoi i'r ceisydd o dan adran 63 (hysbysu am ganlyniad asesiad) neu 63A (cynlluniau atal, cefnogaeth a llety).

(1C) At ddibenion is-adran (1B), ni chaiff awdurdod B ond dod i gasgliad gwahanol os yw'n fodlon—

(a) bod amgylchiadau'r ceisydd wedi newid, neu fod gwybodaeth bellach wedi dod i'r amlwg, ers i awdurdod A wneud ei benderfyniad, a

(b) bod y newid mewn amgylchiadau, neu'r wybodaeth bellach, yn cyfiawnhau bod awdurdod B yn dod i gasgliad gwahanol i awdurdod A.

(1D) O ran y ddarpariaeth ynghylch achosion pan fo awdurdod A yn hysbysu awdurdod B o dan adran 80(2) neu (2A), bo awdurdod B yn Lloegr a phenderfynir yn unol ag adran 80(5) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni, gweler adran 201A o Ddeddf Tai 1996 (p.52) (achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yng Nghymru).

~~(2) Pan fydd penderfyniad wedi ei wneud ynghylch pa un a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni, rhaid i'r awdurdod sy'n hysbysu roi gwybod i'r ceisydd yn unol ag adran 84.~~

~~(3) Os penderfynir nad yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio yn cael eu bodloni, mae'r awdurdod sy'n hysbysu yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref).~~

(3) Os yw awdurdod A yn hysbysu awdurdod B o dan adran 80(2A) a phenderfynir nad yw'r amodau ar gyfer

| | |
|---|---|
| atgyfeirio'r achos wedi eu bodloni, mae awdurdod A yn ddarostyngedig i'r canlynol—<br>(a) y ddyletswydd o dan adran 68 mewn perthynas â'r ceisydd, os yw'r ddyletswydd yn gymwys, a<br>(b) y ddyletswydd o dan adran 75 mewn perthynas â'r ceisydd, os yw'r ddyletswydd yn gymwys.<br>(4) Os penderfynir bod yr amodau hynny wedi eu bodloni a bod yr awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn awdurdod yng Nghymru, mae'r awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref); o ran y ddarpariaeth ar gyfer achosion pan benderfynir bod yr amodau hynny yn cael eu bodloni a bod yr awdurdod sy'n cael ei hysbysu yn awdurdod yn Lloegr, gweler adran 201A o Ddeddf Tai 1996 (achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yng Nghymru).<br>(5) Mae'r ddyletswydd o dan is-adran (1) yn dod i ben fel y darperir ar ei gyfer yn yr is-adran honno Daw dyletswydd i ben fel y darperir ar ei gyfer yn is-adrannau (1A) ac (1B) hyd yn oed os yw'r ceisydd yn gofyn am adolygiad o benderfyniad yr awdurdod (gweler adran 85).<br>(6) Caiff yr awdurdod sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu tra bo'r penderfyniad ar adolygiad yn yr arfaeth, os oedd yn ofynnol i'r awdurdod wneud hynny cyn i ddyletswydd beidio â chael effaith yn rhinwedd yr adran hon.<br>(7) Os nad yw'r hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i geisydd o dan yr adran hon yn dod i law'r ceisydd, mae i'w drin fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd. | |
| **83 Achosion a atgyfeirir gan awdurdod tai lleol yn Lloegr**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod tai lleol yn Lloegr wedi atgyfeirio cais at awdurdod tai lleol | Adran 15 |

<table>
<tr>
<td>
yng Nghymru o dan adran 198(1) o Ddeddf Tai 1996 (atgyfeirio achos at awdurdod tai lleol arall).<br><br>
(2) Os penderfynir bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio’r achos yn yr adran honno yn cael eu bodloni mae’r awdurdod sy’n cael ei hysbysu yn ddarostyngedig i’r dyletswyddau canlynol mewn perthynas â’r person y mae ei achos yn cael ei atgyfeirio—<br><br>
(a) adran 68 ( dyletswydd interim i sicrhau llety ~~ar gyfer ceiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol);~~<br><br>
(b) ~~adran 73 (dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref)~~; <u>adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety</u>).<br><br>
ar gyfer darpariaeth ynghylch achosion pan benderfynir nad yw’r amodau ar gyfer atgyfeirio yn cael eu bodloni, gweler adran 200 o Ddeddf Tai 1996 (dyletswyddau i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer ei atgyfeirio neu’n cael ei atgyfeirio).<br><br>
(3) O ganlyniad, mae’r cyfeiriadau yn y Bennod hon at geisydd yn cynnwys cyfeiriad at berson y mae’r dyletswyddau a grybwyllir yn is-adran (2) yn ddyledus iddo yn rhinwedd yr adran hon.
</td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>
*Hawl i ofyn am adolygiad*<br><br>
**84 Hysbysiad bod dyletswyddau wedi dod i ben <u>ac am atgyfeiriadau cysylltiadau lleol</u>**<br><br>
(1) Pan fo awdurdod tai lleol yn penderfynu bod ei ddyletswydd i geisydd o dan adran 66, 68, ~~73 neu 75~~ <u>75 neu 76A</u> wedi dod i ben ~~(gan gynnwys pan fo’r awdurdod wedi atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio yn cael eu bodloni),~~ rhaid iddo hysbysu’r ceisydd—<br><br>
(a)nad yw bellach yn ystyried ei fod yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd berthnasol,<br><br>
(b)y rhesymau pam ei fod yn ystyried bod y ddyletswydd wedi dod i ben,
</td>
<td>Adran 15(2) ac adran 16(3)</td>
</tr>
</table>

(c)am yr hawl i ofyn am adolygiad, a

(d)am y cyfnod amser y mae'n rhaid cyflwyno cais o'r fath ynddo.

(1A) Pan fo awdurdod tai lleol yn cynnig llety wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd o dan y Bennod hon, rhaid iddo hysbysu'r ceisydd am yr hawl i ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety pa un a dderbynnir y cynnig ai peidio.

(1B) Pan fo awdurdod tai lleol ("awdurdod A") yn hysbysu awdurdod tai lleol arall (pa un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) ("awdurdod B") am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos ceisydd o dan adran 80 wedi eu bodloni, rhaid iddo, ar yr un pryd, hysbysu'r ceisydd bod awdurdod B wedi cael ei hysbysu am farn awdurdod A.

(1C) Rhaid i awdurdod A hefyd hysbysu'r ceisydd am benderfyniad o dan adran 80(5) ynghylch a yw'r amodau ar gyfer atgyfeirio achos y ceisydd wedi eu bodloni.

(1D) Rhaid i hysbysiad a roddir gan awdurdod A i geisydd o dan is-adran (1B) neu (1C)—

(a) nodi'r rhesymau dros y farn neu'r penderfyniad,

(b) esbonio effaith yr awdurdod tai lleol yn hysbysu awdurdod tai lleol arall, neu effaith y penderfyniad o dan adran 80(5) (yn ôl y digwydd), ar hawlogaethau'r ceisydd o dan y Bennod hon,

(c) rhoi gwybod i'r ceisydd am yr hawl i ofyn am adolygiad, a

(d) pennu'r cyfnod amser y mae'n rhaid cyflwyno cais o'r fath ynddo.

~~(2) Pan fo hysbysiad o dan is-adran (1) yn ymwneud â'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 74(2) neu (3), rhaid iddo gynnwys hysbysiad am y camau a gymerwyd gan yr awdurdod tai lleol i gynorthwyo i sicrhau y byddai llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu.~~

(3) Rhaid i hysbysiad o dan yr adran hon fod ar ffurf ysgrifenedig.

| | |
|---|---|
| (4) Pan nad yw ceisydd yn derbyn hysbysiad, caniateir trin ceisydd fel pe bai wedi ei hysbysu o dan yr adran hon os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y ceisydd neu ar ran y ceisydd. | |
| *Hawl i ofyn am adolygiad*<br>**85 Hawl i ofyn am adolygiad**<br>(1) Mae gan geisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o'r ~~penderfyniadau~~ canlynol—<br>(a) penderfyniad awdurdod tai lleol ynghylch chymhwystra'r ceisydd ar gyfer cymorth;<br>(aa) penderfyniad yr awdurdod tai lleol i beidio â chynnal asesiad o achos person o dan adran 62;<br>(ab) asesiad gan awdurdod tai lleol o anghenion tai y ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd;<br>(ac) asesiad gan awdurdod tai lleol o'r gefnogaeth y mae ei hangen ar y ceisydd ynghyd ag unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd —<br>(i) i gadw llety sydd ar gael neu a allai ddod ar gael;<br>(ii) i oresgyn unrhyw rwystr rhag byw'n annibynnol;<br>(ad) cynllun atal, cefnogaeth a llety;<br>(b) penderfyniad awdurdod tai lleol nad oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66, 68, ~~73,~~ neu 75 (dyletswyddau i geiswyr sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd);<br>(ba) penderfyniad awdurdod tai lleol nad oes dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 76A (dyletswydd i ddarparu cymorth i gadw llety addas);<br>(c) penderfyniad awdurdod tai lleol bod dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 66, 68, ~~73,~~ neu 75 wedi dod i ben (~~gan gynnwys pan fo'r awdurdod wedi atgyfeirio achos y ceisydd at awdurdod arall neu wedi penderfynu bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni~~). | Adran 5(3), 17(2), 18(5) ac Atodlen 1, paragraff 3(12) |

(d) penderfyniad awdurdod tai lleol bod dyletswydd i'r ceisydd o dan adran 76A wedi dod i ben.

(e) penderfyniad awdurdod tai lleol o dan adran 80 i hysbysu awdurdod tai lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr am ei farn bod yr amodau ar gyfer atgyfeirio wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r ceisydd;

(f) penderfyniad o dan adran 80(5) fod yr amodau ar gyfer atgyfeirio achos wedi eu bodloni.

~~(2) Pan fo'r ddyletswydd i geisydd o dan adran 73 wedi dod i ben o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir yn adran 74(2) neu (3), mae gan geisydd yr hawl i ofyn am adolygiad o pa un a gafodd camau rhesymol eu cymryd yn ystod y cyfnod yr oedd y ddyletswydd o dan adran 73 yn ddyledus i gynorthwyo i sicrhau y byddai llety addas ar gael iddo ei feddiannu ai peidio.~~

(3) Caiff ceisydd y cynigir llety iddo wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd o dan y Bennod hon, neu mewn perthynas â hi, ofyn am adolygiad o addasrwydd y llety a gynigir i'r ceisydd (pa un a yw wedi derbyn y cynnig ai peidio).

(4) Nid oes hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad a wnaed mewn adolygiad cynharach.

(4A) Caniateir gwneud cais am adolygiad o gynllun atal, cefnogaeth a llety ar unrhyw adeg pan fo'n ofynnol i'r awdurdod gynnal y cynllun.

(4B) Caniateir gwneud cais am adolygiad o addasrwydd llety a gynigir i'r ceisydd wrth gyflawni unrhyw ddyletswydd o dan y Bennod hon, neu mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw ddyletswydd o'r fath, ar unrhyw adeg—

(a) cyn i'r cynnig gael ei dderbyn gan y ceisydd a thra bo'r cynnig yn parhau ar agor, a

(b) os yw'r ceisydd wedi derbyn y cynnig—

(i) ar unrhyw adeg pan fydd dyletswydd o dan adran 66, 68 neu 75 yn gymwys i'r ceisydd, neu

(ii) cyn diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau â'r diwrnod cyntaf y mae'r llety ar gael i'w feddiannu gan y ceisydd.

(5) Rhaid gwneud cais am adolygiad nad yw is-adrannau (4A) na (4B) yn gymwys iddo cyn diwedd y cyfnod o 21 o ddiwrnodau (neu'r cyfryw gyfnod hirach ag y caiff yr awdurdod ei ganiatáu yn ysgrifenedig) gan

| | |
|---|---|
| ddechrau gyda'r diwrnod yr hysbysir y ceisydd am asesiad neu benderfyniad yr awdurdod.<br>(6) Pan gyflwynir cais iddynt, rhaid i'r awdurdod neu'r awdurdodau o dan sylw adolygu eu ~~penderfyniad~~ hasesiad, eu penderfyniad neu eu cynllun. | |
| **86 Gweithdrefn ar gyfer adolygiad**<br>(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch y weithdrefn i'w dilyn mewn perthynas ag adolygiad o dan adran 85.<br>(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud y canlynol, er enghraifft,—<br>~~(a) ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniad ar adolygiad gael ei wneud gan berson ar y lefel briodol nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol, a~~<br>(a) ei gwneud yn ofynnol i'r adolygiad gael ei gynnal gan berson ar y lefel briodol nad oedd yn ymwneud â'r asesiad, y penderfyniad neu'r cynllun sy'n destun adolygiad,<br>(b) darparu ar gyfer yr amgylchiadau lle bydd y ceisydd â'r hawl i wrandawiad llafar, ac a ganiateir yr hawl i'r ceisydd gael ei gynrychioli mewn gwrandawiad o'r fath, a chan bwy, a<br>(c) darparu ar gyfer y cyfnod y mae'n rhaid cynnal yr adolygiad a rhoi hysbysiad ynghylch y penderfyniad ynddo.<br>(3) Rhaid i'r awdurdod perthnasol, neu yn ôl y digwydd y naill neu'r llall o'r awdurdodau perthnasol, hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad ynghylch yr adolygiad.<br>(4) Rhaid i'r awdurdod hefyd hysbysu'r ceisydd am y rhesymau dros y penderfyniad, os yw'r penderfyniad—<br>(a) yn cadarnhau'r ~~penderfyniad~~ asesiad, y penderfyniad neu'r cynllun gwreiddiol ar unrhyw fater yn groes i fuddiannau'r ceisydd, ~~neu~~ | Adran 5(4) ac Atodlen 1, paragraff 3(13) |

| | |
|---|---|
| ~~(b) yn cadarnhau y cafodd camau rhesymol eu cymryd.~~<br><br>(5) Pa fodd bynnag, rhaid iddynt hysbysu'r ceisydd am ei hawl i apelio i'r llys sirol ar bwynt cyfreithiol, ac am y cyfnod y mae'n rhaid cyflwyno apêl o'r fath ynddo (gweler adran 88).<br><br>(6) Ni chaniateir trin hysbysiad am y penderfyniad fel un sydd wedi ei roi oni chydymffurfir ag is-adran (5), a phan fo hynny'n gymwys is-adran (4), a hyd nes y gwneir hynny.<br><br>(7) Rhaid i hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi i berson o dan yr adran hon gael ei roi yn ysgrifenedig ac, os nad yw'n dod i law'r person hwnnw, gael ei drin fel pe bai wedi ei roi os yw ar gael yn swyddfa'r awdurdod am gyfnod rhesymol i'w gasglu gan y person neu ar ran y person. | |
| ~~**87 Effaith penderfyniad mewn adolygiad neu apêl na chafodd camau rhesymol eu cymryd**~~<br><br>~~(1) Mae is-adran (2) yn gymwys pan benderfynir mewn adolygiad o dan adran 85(2) neu mewn apêl yn erbyn penderfyniad o dan yr adran honno na chafodd camau rhesymol eu cymryd.~~<br><br>~~(2) Mae'r ddyletswydd yn adran 73 yn gymwys i'r ceisydd eto, gyda'r addasiad bod y cyfnod o 56 o ddiwrnodau a grybwyllir yn is-adran (2) o adran 74 i'w ddehongli fel bod y cyfnod hwnnw'n dechrau ar y dyddiad y mae'r awdurdod yn hysbysu'r ceisydd am ei benderfyniad mewn adolygiad o dan adran 85(2) neu, mewn apêl, y cyfryw ddyddiad ag y caiff y llys ei orchymyn.~~ | Atodlen 1, paragraff 3(14) |
| **88 Hawl i apelio i lys sirol ar bwynt cyfreithiol**<br><br>(1) Caiff ceisydd sydd wedi gofyn am adolygiad o dan adran 85 apelio i'r llys sirol ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n codi o'r penderfyniad ~~neu, yn ôl y digwydd, y penderfyniad gwreiddiol neu gwestiwn ynghylch a gymerwyd pob cam rhesymol~~ mewn | Adran 5(5) |

| | |
|---|---|
| adolygiad neu, yn ôl y digwydd, yr asesiad, y penderfyniad neu'r cynllun gwreiddiol—<br>(a) os yw'r ceisydd yn anfodlon â'r penderfyniad yn yr adolygiad, neu<br>(b)os nad yw'r ceisydd yn cael ei hysbysu am y penderfyniad yn yr adolygiad o fewn y cyfnod a ragnodir o dan adran 86.<br>(2) Rhaid cyflwyno apêl o fewn 21 o ddiwrnodau i hysbysu'r ceisydd am y penderfyniad neu, yn ôl y digwydd, i'r diwrnod y dylai'r ceisydd fod wedi cael ei hysbysu am benderfyniad mewn adolygiad.<br>(3) Caiff y llys ganiatáu cyflwyno apêl ar ôl diwedd y cyfnod a ganiateir gan is-adran (2), ond dim ond os yw'n fodlon—<br>(a) pan ofynnir am ganiatâd cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bod rheswm da pam nad yw'r ceisydd yn gallu cyflwyno'r apêl mewn pryd, neu<br>(b) pan ofynnir am ganiatâd ar ôl y cyfnod hwnnw, bod rheswm da dros fethiant y ceisydd i gyflwyno'r apêl mewn pryd ac am unrhyw oedi cyn gwneud cais am ganiatâd.<br>(4) Mewn apêl caiff y llys wneud y cyfryw orchymyn i gadarnhau, i ddiddymu neu i amrywio'r penderfyniad mewn adolygiad neu'r asesiad, y penderfyniad neu'r cynllun gwreiddiol ag y gwêl yn dda.<br>(5) Pan oedd yr awdurdod o dan ddyletswydd o dan adran 68, 75 neu 82 i sicrhau bod llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu, caiff sicrhau bod llety addas ar gael yn y fath fodd—<br>(a) yn ystod y cyfnod ar gyfer apelio o dan yr adran hon ~~yn erbyn penderfyniad yr awdurdod~~, a<br>(b) os cyflwynir apêl, hyd nes y penderfynir yn derfynol ar yr apêl (ac unrhyw apêl bellach). | |
| **91 Lleoli y tu allan i'r ardal**<br>(1) Rhaid i awdurdod tai lleol wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod | Atodlen 1, paragraff 3(15) |

| | |
|---|---|
| llety addas ar gael i'r ceisydd ei feddiannu yn ei ardal, i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol.<br><br>(2) Os yw'r awdurdod yn sicrhau bod llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu y tu allan i'w ardal yng Nghymru neu yn Lloegr, rhaid iddo roi hysbysiad i'r awdurdod tai lleol (pa un ai yng Nghymru neu yn Lloegr) y mae'r llety wedi ei leoli yn ei ardal.<br><br>(3) Rhaid i'r hysbysiad nodi—<br><br>(a)enw'r ceisydd,<br><br>(b)nifer yr aelodau eraill o aelwyd y ceisydd, a disgrifiad o'r aelodau hynny ~~personau eraill sy'n preswylio fel arfer gyda'r ceisydd fel aelod o'i deulu neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt breswylio gyda'r ceisydd, a disgrifiad o'r personau hynny~~,<br><br>(c)cyfeiriad y llety,<br><br>(d)y dyddiad y daeth y llety ar gael i'r ceisydd, ac<br><br>(e)pa swyddogaeth o dan y Bennod hon yr oedd yr awdurdod yn ei chyflawni wrth sicrhau bod y llety ar gael i'r ceisydd ei feddiannu.<br><br>(4) Rhaid i'r hysbysiad fod ar ffurf ysgrifenedig, a rhaid ei roi cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod y daeth y llety ar gael i'r ceisydd. | |
| **93 Gwarchod eiddo**<br><br>(1) Pan fo awdurdod tai lleol wedi dod yn ddarostyngedig i ddyletswydd mewn perthynas â cheisydd fel a ddisgrifir yn is-adran (2), neu pan fyddai wedi dod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn adran 75 mewn perthynas â cheisydd oni bai am gymhwysiad adran 75(7), rhaid iddo gymryd camau rhesymol i atal colli eiddo personol y ceisydd neu i atal neu liniaru niwed iddo os oes gan yr awdurdod reswm i gredu—<br><br>(a) bod perygl y gallai'r eiddo gael ei golli neu ei niweidio o ganlyniad i anallu'r ceisydd i'w warchod neu i ymdrin ag ef, a<br><br>(b) nad oes unrhyw drefniadau addas eraill wedi eu gwneud neu'n cael eu gwneud. | Adran 26 ac Atodlen 1, paragraff 3(16) |

(2) Y dyletswyddau mewn perthynas â cheisydd yw—

- adran 66 (dyletswydd i gynorthwyo i atal ceisydd rhag dod yn ddigartref) yn achos ceisydd mewn angen blaenoriaethol);
- adran 68 (dyletswydd interim i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr digartref mewn angen blaenoriaethol);
- adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fo'r ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben);
- adran 82 (dyletswyddau i geisydd y mae ei achos yn cael ei ystyried ar gyfer ei atgyfeirio neu'n cael ei atgyfeirio) yn achos ceisydd mewn angen blaenoriaethol.

(3) Pan fo awdurdod tai lleol wedi dod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd yn is-adran (1), mae'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd honno hyd yn oed os yw'r ddyletswydd mewn perthynas â'r ceisydd fel a ddisgrifir yn is-adran (2) yn dod i ben.

(4) Mae dyletswydd awdurdod tai lleol o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y mae'n eu hystyried yn briodol yn yr achos neilltuol, a gaiff gynnwys amodau ynghylch—

(a)yr awdurdod yn codi ac yn adennill ffioedd rhesymol am y camau a gymerir, neu

(b)yr awdurdod yn gwaredu, o dan y cyfryw amgylchiadau y gellir eu pennu, eiddo y cymerir camau mewn perthynas ag ef.

(5) Caiff awdurdod tai lleol gymryd unrhyw gamau y mae'n eu hystyried yn rhesymol at ddiben gwarchod eiddo personol ceisydd sy'n gymwys i gael cymorth neu i atal neu liniaru niwed iddo os oes gan yr awdurdod reswm i gredu—

(a) bod perygl o golli'r eiddo, neu niwed i'r eiddo, o ganlyniad i anallu'r ceisydd i'w warchod neu i ymdrin ag ef, a

(b) nad oes unrhyw drefniadau addas eraill wedi eu gwneud neu'n cael eu gwneud.

(6) Mae'r cyfeiriadau yn yr adran hon at eiddo personol y ceisydd yn cynnwys eiddo personol unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r ceisydd.

| | |
|---|---|
| **94 Gwarchod eiddo: darpariaethau atodol**<br><br>(1) At ddibenion adran 93 caiff yr awdurdod—<br><br>(a)mynd, ar bob adeg resymol, i unrhyw fangre sy’n breswylfa arferol i’r ceisydd neu a oedd yn breswylfa arferol i’r ceisydd ddiwethaf, a<br><br>(b)ymdrin ag unrhyw eiddo personol gan y ceisydd mewn unrhyw fodd sy’n rhesymol angenrheidiol, yn arbennig drwy ei storio neu drefnu iddo gael ei storio.<br><br>(2) Pan fo awdurdod lleol yn bwriadu arfer y pŵer o dan is-adran (1)(a), rhaid i’r swyddog y mae’n ei awdurdodi i wneud hynny ddarparu, os gofynnir iddo wneud hynny, ddogfennaeth ddilys yn nodi’r awdurdodiad i wneud hynny.<br><br>(3) Mae person sydd, heb esgus rhesymol, yn rhwystro arfer y pŵer o dan is-adran (1)(a) yn cyflawni trosedd a yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.<br><br>(4) Pan fo’r ceisydd yn gofyn i’r awdurdod symud ei eiddo i leoliad penodol a enwebir gan y ceisydd—<br><br>(a) caiff yr awdurdod, os ymddengys iddo bod y cais yn un rhesymol, gyflawni ei gyfrifoldebau o dan adran 93 drwy wneud yr hyn y mae’r ceisydd yn gofyn amdano, a<br><br>(b) ar ôl gwneud hynny, nid oes ganddo unrhyw ddyletswydd bellach na phŵer pellach i gymryd camau o dan yr adran honno mewn perthynas â’r eiddo hwnnw.<br><br>(5) Os gwneir cais o’r fath, rhaid i’r awdurdod hysbysu’r ceisydd cyn cydymffurfio â’r cais am ganlyniadau gwneud hynny.<br><br>(6) Os na wneir unrhyw gais o’r fath (neu, os caiff ei wneud, nas gweithredir arno) mae unrhyw ddyletswydd neu bŵer ar ran yr awdurdod i gymryd camau o dan adran 93 yn dod i ben pan fydd o’r farn nad oes unrhyw reswm i gredu bellach bod yna berygl o golli neu niweidio eiddo personol person o ganlyniad i’w anallu i’w warchod neu i ymdrin ag ef.<br><br>(7) Ond caniateir cadw mewn storfa unrhyw eiddo sy’n cael ei storio yn rhinwedd y ffaith bod yr awdurdod wedi cymryd y | Atodlen 1, paragraff 3(17) |

| | |
|---|---|
| cyfryw gamau ac mae unrhyw amodau y'i cymerwyd i storfa ar eu sail yn parhau i gael effaith, gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol.<br>(8) Pan fo'r awdurdod—<br>(a) yn peidio â bod yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gymryd camau o dan adran 93 mewn perthynas ag eiddo ceisydd, neu<br>(b) yn peidio â bod â'r pwerau i gymryd y cyfryw gamau, ar ôl cymryd y cyfryw gamau yn flaenorol,<br>rhaid iddo hysbysu'r ceisydd am y ffaith honno a'r rheswm dros hynny.<br>(9) Rhaid rhoi'r hysbysiad i'r ceisydd—<br>(a) drwy ei drosglwyddo i'r ceisydd, neu<br>(b) ei adael yng nghyfeiriad hysbys diwethaf y ceisydd, neu ei anfon yno.<br>(10)Mae'r cyfeiriadau yn yr adran hon at eiddo personol y ceisydd yn cynnwys eiddo personol unrhyw aelod o aelwyd y ceisydd ~~berson y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r ceisydd~~. | |
| **94A Dyletswydd awdurdod cyhoeddus i ofyn a gweithredu**<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw awdurdod cyhoeddus penodedig (gweler adran 94B) yn ystyried bod person yng Nghymru y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ef yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, neu y gall fod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd, yn ddarostyngedig i is-adran (7).<br>(2) Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus penodedig ofyn i'r person—<br>a) cytuno i'r awdurdod hysbysu awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr am y canlynol—<br>(i) y farn a grybwyllir yn is-adran (1), a<br>(ii) sut y gall yr awdurdod tai lleol gysylltu â'r person;<br>(b) enwi awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr yr hoffai'r person i'r hysbysiad gael ei wneud iddo. | Adran 21(2) |

| | |
|---|---|
| (3) Os yw'r person yn cytuno i'r awdurdod cyhoeddus penodedig wneud yr hysbysiad, rhaid i'r awdurdod cyhoeddus penodedig hysbysu—<br>(a) yr awdurdod tai lleol a enwyd gan y person, neu<br>(b) os nad yw'r person wedi enwi awdurdod, yr awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr y mae'r awdurdod cyhoeddus penodedig yn ystyried ei fod yn briodol.<br><br>(4) Os yw'r hysbysiad sy'n ofynnol gan is-adran (3) yn cael ei wneud i awdurdod tai lleol yng Nghymru, mae'r hysbysiad i'w drin fel pe bai'n gais gan y person i'r awdurdod tai lleol o dan adran 62(1)(a).<br><br>(5) Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus penodedig—<br>(a) darparu gwybodaeth i'r person am y cymorth sydd ar gael gan awdurdodau cyhoeddus eraill (neu unrhyw berson arall) ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref;<br>(b) ystyried a oes unrhyw gamau eraill y gallai, yn rhesymol, eu cymryd wrth arfer ei swyddogaethau i gynorthwyo'r person i sicrhau neu i gadw llety addas ac, os yw'r awdurdod yn ystyried bod unrhyw gamau o'r fath, rhaid iddo gymryd y camau hynny;<br>(c) ystyried a yw'r farn a grybwyllir yn is-adran (1) yn effeithio ar arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r person ynghylch unrhyw fater.<br><br>(6) Nid yw is-adran (5)(b) yn effeithio ar unrhyw un neu ragor o hawliau'r awdurdod cyhoeddus penodedig, pa un ai yn rhinwedd contract, deddfiad neu reolaeth cyfraith, i sicrhau meddiant gwag o unrhyw lety.<br>(7) Nid yw'r dyletswyddau yn is-adrannau (2) a (3) yn gymwys os yw'r awdurdod cyhoeddus penodedig yn fodlon—<br>(a) bod cais i awdurdod tai lleol yng Nghymru o dan adran 62(1)(a) o'r Ddeddf hon, neu i awdurdod lleol yn Lloegr o dan adran 183 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ("Deddf 1996"), wedi ei wneud mewn cysylltiad â'r person, a<br>(b) naill ai—<br>(i) bod y cais yn cael ei ystyried, neu<br>(ii) bod dyletswydd yn gymwys o dan y Ddeddf hon, neu Ddeddf 1996, i sicrhau llety neu i ddarparu cymorth arall mewn cysylltiad â'r cais.<br><br>**94B Awdurdodau cyhoeddus penodedig** | |

| | |
|---|---|
| (1) At ddibenion adran 94A, yr "awdurdodau cyhoeddus penodedig" yw —<br>(a) awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol;<br>(b) Bwrdd Iechyd Lleol, ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu trefnu gwasanaethau gofal iechyd iddynt nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol;<br>(c) Ymddiriedolaeth Brifysgol Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;<br>(d) landlord cymdeithasol cofrestredig;<br>(e) corfforaeth tref newydd ar gyfer ardal yng Nghymru;<br>(f) darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig sy'n darparu tai yng Nghymru;<br>(g) ymddiriedolaeth gweithredu tai ar gyfer ardal yng Nghymru;<br>(h) llywodraethwr carchar yng Nghymru;<br>(i) cyfarwyddwr carchar ar gontract yng Nghymru;<br>(j) llywodraethwr sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru;<br>(k) llywodraethwr canolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru;<br>(l) cyfarwyddwr canolfan hyfforddi ddiogel ar gontract yng Nghymru;<br>(m) pennaeth coleg diogel yng Nghymru;<br>(n) tîm troseddwyr ifanc sydd wedi ei sefydlu o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p.37) ar gyfer ardal yng Nghymru;<br>(o) rheolwr cartref diogel i blant yng Nghymru;<br>(p) darparwr gwasanaethau prawf yng Nghymru;<br>(q) swyddog sydd wedi ei gyflogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn swyddfa yng Nghymru a elwir yn swyddfa Canolfan Byd Gwaith;<br>(r) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ond dim ond mewn perthynas ag aelodau o luoedd arfog rheolaidd y Goron. | |

| | |
|---|---|
| (2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (1)-<br>(a) er mwyn hepgor neu ychwanegu cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson;<br>(b) er mwyn newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o berson.<br>(3) Caiff y rheoliadau —<br>(a) cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Gweinidog priodol o dan baragraff 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru;<br>(b) cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. | |
| **95 Cydweithredu**<br>(1) Rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhwng swyddogion yr awdurdod sy'n arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a'r rhai hynny sy'n arfer ei swyddogaethau fel yr awdurdod tai lleol gyda'r nod o gyflawni'r amcanion canlynol yn ei ardal—<br>(a) atal digartrefedd,<br>(b) bod llety addas ar gael neu y bydd ar gael ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref,<br>(c) bod cefnogaeth foddhaol ar gael i bobl sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref, a<br>(d) arfer ei swyddogaethau yn effeithiol o dan y Rhan hon ac, mewn perthynas â phersonau sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).<br>(1A) Rhaid i'r trefniadau o dan is-adran (1) gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â'r canlynol —<br>(a) personau 16 neu 17 oed sy'n ddigartref neu sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd; | Adrannau 24(2) a (3), 25(2) a 32(2) |

| | |
|---|---|
| (b) anghenion llety a chefnogaeth personau sy'n gadael gofal;<br><br>(c) anghenion llety a chefnogaeth personau sy'n gadael gofal a phersonau 16 neu 17 oed sy'n gadael llety cadw ieuenctid, y carchar neu fangre a gymeradwywyd.<br><br>(1B) Yn is-adran (1A), o ran "personau sy'n gadael gofal—<br><br>(a) ei ystyr yw personau sy'n dod o fewn unrhyw un o'r categorïau o berson ifanc sydd â hawl i gefnogaeth o dam unrhyw un neu ragor o adrannau 105 i 115 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") (gweler adran 104 o Ddeddf 2014), a<br><br>(b) ym mharagraff (c), mae'n cynnwys personau a fyddai â hawl o'r fath oni bai am adrannau 185 a 186 o Ddeddf 2014.<br><br>(1C) Rhaid i awdurdod tai lleol yng Nghymru wneud trefniadau i hybu cydweithredu rhyngddo ef ei hun a'r personau hynny y mae'n ystyried eu bod yn briodol a grybwyllir yn is-adran (1D) sy'n arfer swyddogaethau yn ardal yr awdurdod, gyda'r nod o gyflawni'r amcanion canlynol yn ei ardal—<br><br>(a) atal digartrefedd,<br><br>(b) bod llety addas ar gael i bersonau sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref,<br><br>(c) bod cefnogaeth foddhaol ar gael ar gyfer personau sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref,<br><br>(d) cydgysylltu achosion yn effeithiol, a hynny gan bersonau a grybwyllir yn is-adran (1D), ynghylch personau sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref ac y mae'n bosibl bod angen cefnogaeth arall arnynt yn benodol hefyd, ac<br><br>(e) cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol o dan y Rhan hon.<br><br>(1D) Y personau yw—<br><br>(a) y personau a grybwyllir yn is-adran (5);<br><br>(b) unrhyw awdurdod cyhoeddus arall sydd â swyddogaethau sy'n gallu cyfrannu at gyflawni | |

unrhyw un neu ragor o'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (1C);

(c) unrhyw gorff gwirfoddol neu berson arall y mae ei weithgareddau'n gallu cyfrannu at gyflawni unrhyw un neu ragor o'r amcanion hynny.

(1E) Rhaid i'r trefniadau o dan is-adran (1C) gynnwys protocol ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â phersonau sy'n ddigartref neu y gallent ddod yn ddigartref ac y mae'n bosibl bod angen cefnogaeth arall neu wasanaethau eraill arnynt yn benodol hefyd, gan gynnwys yn benodol gefnogaeth neu wasanaethau sy'n ofynnol mewn cysylltiad â'r canlynol—

(a) gadael y carchar neu lety cadw ieuenctid;

(b) gadael lluoedd arfog rheolaidd y Goron;

(c) camddefnyddio cyffuriau a sylweddau eraill;

(d) iechyd meddwl.

(2) Os yw awdurdod tai lleol yn gofyn am gydweithrediad person a grybwyllir yn is-adran (5) wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu

(b)yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r person.

(3) Os yw awdurdod tai lleol yn gofyn i berson a grybwyllir yn is-adran (5) ddarparu gwybodaeth iddo sy'n ofynnol ganddo er mwyn arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y Rhan hon, rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a)yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu

(b)yn cael effaith andwyol fel arall ar arfer swyddogaethau'r person.

(4) Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (2) neu (3) roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod tai lleol a wnaeth y cais.

~~(5) Y personau (pa un a ydynt yng Nghymru neu yn Lloegr) yw—~~

~~(a)awdurdod tai lleol;~~

~~(b)awdurdod gwasanaethau cymdeithasol;~~

~~(c)landlord cymdeithasol cofrestredig;~~

~~(d)corfforaeth tref newydd;~~

~~(e)darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig;~~

~~(f)ymddiriedolaeth gweithredu tai.~~

~~(6) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio is-adran (5) drwy orchymyn er mwyn hepgor neu ychwanegu person, neu ddisgrifiad o berson.~~

~~(7) Ni chaiff gorchymyn o dan is-adran (6) ychwanegu un neu ragor o Weinidogion y Goron.~~

~~(8) Yn yr adran hon—~~

- ~~ystyr "ymddiriedolaeth gweithredu tai" ("*housing action trust*") yw ymddiriedolaeth gweithredu tai a sefydlwyd dan Rhan 3 o Ddeddf Tai 1988.~~
- ~~mae i "corfforaeth tref newydd" yr un ystyr a roddir i "new town corporation" gan Rhan 1 o Ddeddf Tai 1985;~~
- ~~mae i "darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig" yr un ystyr a roddir i "private registered provider of social housing" gan Rhan 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008;~~
- ~~mae i "landlord cymdeithasol cofrestredig" yr un ystyr a roddir i "registered social landlord" gan Rhan 1 o Ddeddf Tai 1996;~~

"(5) Y personau yw—

(a) awdurdod tai lleol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(b) awdurdod gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(c); Bwrdd Iechyd Lleol, ond dim ond mewn perthynas ag unigolion y mae'n darparu neu'n trefnu gwasanaethau gofal iechyd iddynt nad ydynt yn wasanaethau gofal sylfaenol;

(d) landlord cymdeithasol cofrestredig, pa un ai mewn perthynas â thai a ddarperir yng Nghymru neu yn Lloegr;

(e) corfforaeth tref newydd ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;

(f) darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig, pa un ai mewn perthynas â thai a ddarperir yng Nghymru neu yn Lloegr;

(g) ymddiriedolaeth gweithredu tai ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;

| | |
|---|---|
| (h) llywodraethwr carchar yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(i) cyfarwyddwr carchar ar gontract yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(j) llywodraethwr sefydliad troseddwyr ifanc yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(k) llywodraethwr canolfan hyfforddi ddiogel yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(l) cyfarwyddwr canolfan hyfforddi ddiogel ar gontract yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(m) pennaeth coleg diogel yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(n) rheolwr cartref diogel i blant yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(o) tîm troseddwyr ifanc sydd wedi ei sefydlu o dan adran 39(1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37) ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(p) darparwr gwasanaethau prawf yng Nghymru neu yn Lloegr;<br>(q) swyddog sydd wedi ei gyflogi gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn swyddfa yng Nghymru neu yn Lloegr a elwir yn swyddfa Canolfan Byd Gwaith;<br>(r) yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn, ond dim ond mewn perthynas ag aelodau o luoedd arfog rheolaidd y Goron.<br>(6) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio is-adran (5) –<br>(a) er mwyn hepgor neu ychwanegu cyfeiriad at berson, neu ddisgrifiad o berson;<br>(b) er mwyn newid cyfeiriad at berson neu ddisgrifiad o berson.<br>(7) Caiff y rheoliadau —<br>(a) cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol cael cydsyniad y Gweinidog priodol o dan baragraff 8(1)(a) neu (c), 10 neu 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru;<br>(b) cynnwys darpariaeth a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â'r Gweinidog priodol o dan baragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai'r ddarpariaeth yn cael ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru. | |

| | |
|---|---|
| **96 Cydweithredu mewn achosion penodol yn ymwneud â phlant**<br><br>(1)Mae'r adran hon yn gymwys pan fo gan awdurdod tai lleol reswm i gredu y bod aelod o aelwyd ceisydd o dan 18 oed ac y gallai'r ceisydd ~~gallai ceisydd y mae person o dan 18 oed yn preswylio gydag ef fel arfer, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gydag ef—~~<br><br>(a)bod yn anghymwys i gael cymorth,<br><br>(b)bod yn ddigartref ac nad yw dyletswydd o dan adran 68, ~~73~~ neu 75 yn debygol o fod yn gymwys i'r ceisydd, neu<br><br>(c)bod o dan fygythiad o ddigartrefedd ac nad yw dyletswydd o dan adran 66 yn debygol o fod yn gymwys i'r ceisydd.<br><br>(2)ARhaid i awdurdod tai lleol wneud trefniadau i sicrhau—<br><br>(a) bod y ceisydd yn cael ei wahodd i gydsynio i atgyfeirio'r ffeithiau hanfodol am ei achos i'r adran gwasanaethau cymdeithasol, a<br><br>(b)os yw'r ceisydd wedi rhoi'r cydsyniad hwnnw, bod yr adran gwasanaethau cymdeithasol yn cael ei hysbysu am y ffeithiau hynny ynghyd â phenderfyniad dilynol yr awdurdod mewn perthynas â'i gais.<br><br>(3) Nid oes unrhyw beth yn is-adran (2) yn effeithio ar unrhyw bŵer ar wahân i'r adran hon i ddatgelu gwybodaeth sy'n ymdrin ag achos y ceisydd i'r adran gwasanaethau cymdeithasol heb gydsyniad y ceisydd.<br><br>(4)Rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol wneud trefniadau i sicrhau, pan fo'n penderfynu fel awdurdod tai lleol bod ceisydd yn anghymwys i gael cymorth, ~~wedi dod yn ddigartref yn fwriadol neu wedi dod o dan fygythiad o ddigartrefedd yn fwriadol~~, fod ei adran dai yn rhoi'r cyfryw gyngor a chynhorthwy i'r adran gwasanaethau cymdeithasol ag y caiff yr adran gwasanaethau cymdeithasol ofyn yn rhesymol amdanynt.<br><br>(5) Yn yr adran hon, mewn perthynas â chyngor sir neu fwrdeistref sirol—<br><br>• "ystyr "yr adran dai" ("*the housing department*") yw'r personau hynny sy'n gyfrifol am arfer ei swyddogaethau fel awdurdod tai lleol;<br><br>• ystyr "yr adran gwasanaethau cymdeithasol" ("*the social services department*") yw'r personau hynny sy'n gyfrifol am arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Atodlen 1, paragraff 3 (18) |

| | |
|---|---|
| **96A Cydweithredu rhwng landlordiaid cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol:**<br>(1) Pan fo dyletswydd ar awdurdod tai lleol i geisydd o dan adran 75, caiff yr awdurdod wneud cais i landlord cymdeithasol sy'n darparu llety yn ardal yr awdurdod i gynnig i'r ceisydd lety addas yn yr ardal honno.<br>(2) At ddibenion yr adran hon ac adran 96B, ystyr "landlord cymdeithasol" yw—<br>(a) landlord cymdeithasol cofrestredig, neu<br>(b) darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig.<br>(3) Wrth benderfynu a ddylid gwneud cais, rhaid i'r awdurdod tai lleol roi sylw i argaeledd llety addas a ddelir ganddo yn ei ardal.<br>(4) Pan fo awdurdod tai lleol yn gwneud cais o dan is-adran (1), rhaid i landlord cymdeithasol, o fewn cyfnod rhesymol, gydymffurfio â'r cais oni bai bod gan y landlord resymau da dros beidio â gwneud hynny.<br>(5) Rhaid i landlord cymdeithasol sy'n darparu llety yn ardal awdurdod tai lleol gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth mewn perthynas â'r llety hwnnw a wneir iddo gan yr awdurdod mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r awdurdod o dan yr adran hon.<br>(6) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau ynghylch yr hyn sydd—<br>(a) yn rheswm da at ddibenion is-adran (4)<br>(b) yn gyfnod rhesymol at ddibenion is-adran (4);<br>(c) yn gais rhesymol at ddibenion is-adran (5).<br>(7) Cyn rhoi unrhyw ganllawiau o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r canlynol——<br>(a) y cyfryw gymdeithasau sy'n cynrychioli awdurdodau<br>lleol yng Nghymru,<br>(b) y cyfryw gymdeithasau sy'n cynrychioli landlordiaid cymdeithasol, ac<br>(c) y cyfryw bersonau eraill,<br>ag y maent yn meddwl eu bod yn briodol. | Adrannau 33 a 34 |

| | |
|---|---|
| (8) Rhaid i landlord cymdeithasol roi sylw i ganllawiau a roddir o dan yr adran hon.<br><br>**96B Cyfarwyddiadau i'w gwneud yn ofynnol cydymffurfio â cheisiadau o dan adran 96A**<br><br>(1) Mae is-adran (3) yn gymwys—<br>(a) os nad yw landlord cymdeithasol, o fewn cyfnod rhesymol, yn cydymffurfio â chais a wnaed gan awdurdod tai lleol o dan adran 96A(1), a<br>(b) os yw'r awdurdod tai lleol, gan roi sylw i unrhyw esboniad a roddwyd i'r awdurdod gan y landlord cymdeithasol, yn ystyried nad oes gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r cais.<br><br>(2) Mae is-adran (3) hefyd yn gymwys os nad yw'r landlord cymdeithasol yn ymateb, o fewn cyfnod rhesymol, i gais a wnaed gan awdurdod tai lleol o dan adran 96A(1).<br><br>(3) Caiff yr awdurdod tai lleol atgyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru.<br><br>(4) Ar ôl cael atgyfeiriad o dan is-adran (3), rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r landlord cymdeithasol am y canlynol—<br>(a) yr atgyfeiriad, a<br>(b) y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru am yr atgyfeiriad.<br><br>(5) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried yr atgyfeiriad ac unrhyw sylwadau a gyflwynwyd gan y landlord cymdeithasol, yn ystyried nad oes gan y landlord cymdeithasol reswm da dros beidio â chydymffurfio â'r cais a wnaed gan yr awdurdod tai lleol neu nad ymatebodd i gais o'r fath, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r landlord cymdeithasol i gydymffurfio â'r cais o fewn y cyfryw gyfnod ag a bennir yn y cyfarwyddyd.<br><br>(6) Rhaid i landlord cymdeithasol gydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir iddo o dan is-adran (5).<br><br>(7) O ran cyfarwyddyd o dan is-adran (5)—<br>(a) rhaid iddo fod yn ysgrifenedig;<br>(b) caniateir ei amrywio neu ei ddirymu gan gyfarwyddyd pellach;<br>(c) gellir ei orfodi gan orchymyn gorfodi ar gais gan neu ar ran Gweinidogion Cymru neu'r awdurdod tai lleol a wnaeth yr atgyfeiriad y gwneir y cyfarwyddyd mewn cysylltiad ag ef. | |

| | |
|---|---|
| **<u>96C Gweld llety</u>**<br><u>Os yw awdurdod tai lleol yn sicrhau cynnig o lety ar gyfer ceisydd gyda'r nod o ddod â dyletswydd yr awdurdod o dan adran 66 neu 75 i ben, rhaid iddo gymryd camau rhesymol i ddarparu i'r ceisydd gyfle i weld y llety (pa un ai'n bersonol neu fel arall) cyn i'r ceisydd benderfynu derbyn y cynnig neu ei wrthod.</u> | |
| ***<u>Cyffredinol</u>***<br>**97 Datganiadau anwir, celu gwybodaeth a methiant i ddatgelu newid mewn amgylchiadau**<br>(1)Mae'n drosedd i berson, gyda'r bwriad o gymell awdurdod tai lleol i gredu mewn cysylltiad ag arfer ei swyddogaethau o dan y Bennod hon bod y person neu berson arall â'r hawl i lety neu gynhorthwy yn unol â darpariaethau'r Bennod hon, neu â'r hawl i lety neu gynhorthwy o ddisgrifiad penodol—<br>(a) gwneud datganiad sy'n anwir mewn unrhyw fanylyn perthnasol, yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu<br>(b) celu yn fwriadol wybodaeth y mae'r awdurdod wedi ei gwneud yn rhesymol ofynnol iddo ei rhoi mewn cysylltiad ag arfer y swyddogaethau hynny.<br>(2)Os oes unrhyw newid yn y ffeithiau sy'n berthnasol i'r achos, a hynny cyn i geisydd dderbyn hysbysiad am benderfyniad yr awdurdod tai lleol am y cais, rhaid i'r ceisydd hysbysu'r awdurdod cyn gynted â phosibl.<br>(3)Rhaid i'r awdurdod egluro i bob ceisydd, mewn iaith arferol, y ddyletswydd a osodir gan is-adran (2) ac effaith is-adran (4).<br>(4)Mae person sy'n methu â chydymffurfio ag is-adran (2) ar ôl derbyn yr esboniad sy'n ofynnol gan is-adran (3) yn cyflawni trosedd.<br>(5)Mewn achos yn erbyn person am drosedd a gyflawnwyd o dan is-adran (4) mae'r ffaith bod gan y person esgus rhesymol am fethu â chydymffurfio yn amddiffyniad. | Adran 31 |

| | |
|---|---|
| (6)Mae person sy'n euog o drosedd o dan yr adran hon yn agored, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.<br><br>**<u>97A Adroddiadau ar ddefnydd a chyflwr llety interim</u>**<br><u>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron Senedd Cymru adroddiad ar ddefnydd a chyflwr llety interim a sicrheir o dan adran 68 ac adran 75 gan awdurdodau tai lleol yng Nghymru.</u><br><u>(2) At y diben hwnnw, rhaid i awdurdodau tai lleol yng Nghymru gyflenwi i Weinidogion Cymru y gyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol ganddynt.</u><br><u>(3) Rhaid i'r adroddiad cyntaf o dan yr adran hon gael ei osod, a'i gyhoeddi, ar 31 Rhagfyr 2030 neu cyn hynny.</u><br><u>(4) Rhaid gosod adroddiad, a'i gyhoeddi, ar ddiwedd pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd gan ddechrau â'r dyddiad y cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf.</u> | |
| **98 Canllawiau**<br>(1) Wrth arfer ei swyddogaethau yn ymwneud â digartrefedd rhaid i gyngor sir neu fwrdeistref sirol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.<br>(2) Mae is-adran (1) yn gymwys mewn perthynas â swyddogaethau o dan y Rhan hon ac unrhyw ddeddfiad arall.<br><u>(2A) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 94A, rhaid i awdurdod cyhoeddus penodedig roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.</u><br>(3) Caiff Gweinidogion Cymru— —<br>(a) rhoi canllawiau naill ai yn gyffredinol neu i awdurdodau o ddisgrifiadau penodedig;<br>(b) diwygio'r canllawiau drwy roi canllawiau pellach o dan y Rhan hon;<br>(c) tynnu'r canllawiau yn ôl drwy roi canllawiau pellach o dan y Rhan hon neu drwy hysbysiad.<br>(4) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi unrhyw ganllawiau neu hysbysiad o dan y Rhan hon. | Adrannau 21(3) a 29(4) |

| | |
|---|---|
| (5) Cyn rhoi, diwygio neu dynnu'n ôl ganllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cyfryw awdurdodau cyhoeddus neu leol, y cyfryw sefydliadau gwirfoddol, y cyfryw bersonau sydd, neu sydd wedi bod, yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd yng Nghymru, neu'r cyfryw bersonau eraill, y maent yn ystyried eu bod yn briodol. | |
| 99 Dehongli'r Bennod hon a mynegai o ymadroddion wedi eu diffinio<br>(1) Yn y Bennod hon—<br>mae i "camdriniaeth" ("*abuse*") yr ystyr a roddir gan adran 58;<br>mae i "llety sydd ar gael i'w feddiannu" ("*accommodation available for occupation*") yr ystyr a roddir gan adran 56;<br>"mae i "ceisydd" ("*applicant*") yr ystyr a roddir gan adran 62(3) ac adran 83(3;<br>"mae i "Gweinidog priodol" yr ystyr a roddir i "appropriate Minister" gan baragraff 8(5) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32);<br>mae i "mangre a gymeradwywyd" yr ystyr a roddir i "approved premises" gan adran 13 o Ddeddf Rheoli Troseddwyr 2007 (p. 21);"<br>~~mae i "cysylltiedig" ("*associated*"), mewn perthynas â pherson, yr ystyr a roddir gan adran 58;~~<br>mae i "tenantiaeth sicr" ("*assured tenancy*") a "tenantiaeth fyrddaliol sicr" ("*assured shorthold tenancy*") yr ystyr a roddir gan Ran 1 o Ddeddf Tai 1988;<br>"mae i "carchar ar gontract" yr ystyr a roddir i "contracted out prison" gan adran 84(4) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53);<br>mae i "canolfan hyfforddi ddiogel ar gontract" yr ystyr a roddir i "contracted out secure training centre" gan adran 15 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (p. 33); | Atodlen 1,<br>paragraff 3(19) |

~~mae i "camdriniaeth ddomestig" ("*domestic abuse*") yr ystyr a roddir gan adran 58;~~

ystyr "yn gymwys i gael cymorth" ("*eligible for help*") yw nad yw cymorth o dan y Bennod hon wedi ei wahardd gan Atodlen 2;

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw deddfiad (pryd bynnag y'i deddfwyd neu y'i gwnaed) a gynhwysir yn y canlynol, neu mewn offeryn a wnaed o dan y canlynol—

(a) Deddf Seneddol,

(b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

~~mae i "cynorthwyo i sicrhau" ("*help to secure*"), mewn perthynas â sicrhau bod llety addas ar gael, neu nad yw'n peidio â bod ar gael, i'w feddiannu, yr ystyr a roddir gan adran 65;~~

ystyr "cymorth o dan y Bennod hon" ("*help under this Chapter*") yw budd unrhyw swyddogaeth o dan adrannau 66, 68, ~~73~~, neu 75;

mae i "digartref" ("*homeless*") yr ystyr a roddir gan adran 55 ac mae "digartrefedd" ("*homelessness*") i'w ddehongli yn unol â hynny;

"ystyr "ymddiriedolaeth gweithredu tai" ("*housing action trust*") yw ymddiriedolaeth gweithredu tai sydd wedi ei sefydlu o dan Ran 3 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50);

~~mae i "digartref yn fwriadol" ("*intentionally homeless*") yr ystyr a roddir gan adran 77;~~

mae i "cysylltiad lleol" ("*local connection*") yr ystyr a roddir gan adran 81;

"ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42);

ystyr "awdurdod tai lleol" ("*local housing authority*")—

(a) mewn perthynas â Chymru, yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol, a

(b) mewn perthynas â Lloegr, yw cyngor dosbarth, cyngor bwrdeistref yn Llundain,

| | |
|---|---|
| Cyngor Cyffredin Dinas Llundain neu Gyngor Ynysoedd Scilly,<br><br>ond mae cyfeiriad at “awdurdod tai lleol” i’w ddehongli fel cyfeiriad at awdurdod tai lleol ar gyfer ardal yng Nghymru yn unig, oni bai bod y Bennod hon yn darparu yn benodol fel arall;<br><br>mae i “yn derbyn gofal, yn cael ei letya neu’n cael ei faethu (“*looked after, accommodated or fostered*”) yr ystyr a roddir gan adran 70(2) yw<br><br>(a) yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (o fewn ystyr adran 74 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) neu adran 22 o Ddeddf Plant 1989 (p. 41)),<br><br>(b) yn cael ei letya gan neu ar ran sefydliad gwirfoddol,<br><br>(c) yn cael ei letya mewn cartref plant preifat,<br><br>(d) yn cael ei letya am gyfnod di-dor o dri mis o leiaf—<br><br>(i) gan unrhyw Fwrdd Iechyd Lleol neu Awdurdod Iechyd Arbennig,<br><br>(ii) gan neu ar ran bwrdd gofal integredig neu GIG Lloegr,<br><br>(iii) gan neu ar ran cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru wrth arfer swyddogaethau addysg,<br><br>(iv) gan neu ar ran awdurdod lleol yn Lloegr wrth arfer swyddogaethau addysg,<br><br>(v) mewn unrhyw gartref gofal neu unrhyw ysbyty annibynnol, neu<br><br>(vi) mewn unrhyw lety a ddarperir gan neu ar ran Ymddiriedolaeth GIG, neu gan neu ar ran Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu | |

(e) yn cael ei faethu yn breifat (o fewn ystyr adran 66 o Ddeddf Plant 1989 (p. 41)).

“mae “aelod o aelwyd y ceisydd” (“member of the applicant’s household”) (ac unrhyw gyfeiriad tebyg at aelod o aelwyd person) i’w ddehongli yn unol ag adran 56;”

“mae i “corfforaeth tref newydd” yr ystyr a roddir i “new town corporation” gan Ran 1 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68);

[F1mae i “contract meddiannaeth” (“*occupation contract*”) yr un ystyr ag yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) (gweler adran 7 o’r Ddeddf honno);]

ystyr “rhagnodedig” (“*prescribed*”) yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru;

“ystyr ”gwasanaethau gofal sylfaenol” (“*primary care services*”) yw gwasanaethau a ddarperir o dan neu yn rhinwedd Rhannau 4 i 7 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);

“ystyr “cynllun atal, cefnogaeth a llety” (“*prevention, support and accommodation plan*”) yw cynllun sy’n ofynnol gan adran 63A;

~~mae i “angen blaenoriaethol am lety” (“*priority need for accommodation*”) yr ystyr a roddir gan adran 70;~~

mae i “carchar” (“*prison*”) yr un ystyr ag yn Neddf Carchardai 1952 (gweler adran 53(1) o’r Ddeddf honno);

ystyr “carcharor” (“*prisoner*”) yw person—

(a) sy’n bwrw dedfryd o garchar o fewn ystyr “custodial sentence” yn adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 neu adran 222 (p.6) neu adran 222 o’r Cod Dedfrydu,

(b) sydd ar remánd yn y ddalfa neu wedi ei draddodi i’r ddalfa gan orchymyn llys, neu

(c) sydd ar remánd mewn llety cadw ieuenctid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 (p.10);

ystyr “landlord preifat” (“*private landlord*”) yw landlord—

| | |
|---|---|
| (a) annedd yng Nghymru, sydd o fewn adran 10 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (dccc 1) (landlordiaid preifat);<br><br>(b) annedd yn Lloegr, nad yw o fewn adran 80(1) o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) (yr amod landlord ar gyfer tenantiaethau diogel);**]**<br><br>mae i "darparwr tai cymdeithasol preifat cofrestredig" yr ystyr a roddir i "private registered provider of social housing" gan Ran 2 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17);<br><br>mae i "rhesymol parhau i feddiannu llety" ("*reasonable to continue to occupy accommodation*") yr ystyr a roddir gan adran 57;<br><br>"mae i "landlord cymdeithasol cofrestredig" yr ystyr a roddir i "registered social landlord" gan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52);<br><br>ystyr "lluoedd arfog rheolaidd y Goron" ("*regular armed forces of the Crown*") yw'r lluoedd arfog rheolaidd fel y'u diffinnir gan adran 374 o Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006;<br><br>mae i "person cyfyngedig" ("*restricted person*") yr ystyr a roddir gan adran 63(5);<br><br>"ystyr "cartref diogel i blant" ("secure children's home") yw—<br><br>(a) llety yng Nghymru y mae person yn gofrestredig mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) i ddarparu gwasanaeth llety diogel o fewn ystyr Rhan 1 o'r Ddeddf honno;<br><br>(b) llety a ddarperir mewn cartref plant yn Lloegr, o fewn ystyr Deddf Safonau Gofal 2000 (p. 14)— (i) sy'n darparu llety at ddibenion cyfyngu ar ryddid, a (ii) y mae person yn gofrestredig mewn cysylltiad ag ef o dan Ran 2 o'r Ddeddf honno;<br><br>ystyr "awdurdod gwasanaethau cymdeithasol"("*social services authority*")—<br><br>(a) mewn perthynas â Chymru, yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol wrth arfer ei swyddogaethau | |

| | |
|---|---|
| gwasanaethau cymdeithasol, o fewn ystyr adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a<br><br>(b) mewn perthynas â Lloegr, yw awdurdod lleol at ddibenion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, fel y’i diffinnir yn adran 1 o’r Ddeddf honno,<br><br>ond mae cyfeiriad at “awdurdod gwasanaethau cymdeithasol” i’w ddehongli fel cyfeiriad at awdurdod gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer ardal yng Nghymru yn unig, oni bai bod y Rhan hon yn darparu’n benodol fel arall;<br><br>“ystyr “awdurdod cyhoeddus penodedig” (“*specified public authority*”) yw’r personau a nodir yn adran 94B(1);<br><br>mae i “o dan fygythiad o ddigartrefedd” (“*threatened with homelessness*”) yr ystyr a roddir gan adran 55(4);<br><br>ystyr “corff gwirfoddol” (“*voluntary organisation*”) yw corff (ac eithrio awdurdod cyhoeddus neu awdurdod lleol) nad yw ei weithgareddau yn cael eu cynnal er mwyn gwneud elw;<br><br>ystyr “llety cadw ieuenctid” (“*youth detention accommodation*”) yw—<br><br>(a) cartref plant diogel;<br>(b) canolfan hyfforddi ddiogel;<br>(c) sefydliad troseddwyr ifanc;<br>(d) llety a ddarperir, a gyflenwir ac a gynhelir gan Weinidogion Cymru o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989 at ddiben cyfyngu ar ryddid plant;<br>(e) llety, neu lety o ddisgrifiad, a bennir am y tro [F3drwy reoliadau o dan adran 248(1)(f) o'r Cod Dedfrydu] (llety cadw ieuenctid at ddibenion gorchmynion cadw a hyfforddi); | |
| **142 Gorchmynion a rheoliadau**<br><br>(1) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon i’w arfer drwy offeryn statudol. | Adrannau 6)4), 11(7), 12(3), 13(3), 21(4) a 32(3) |

(2) Mae pŵer i wneud gorchymyn neu reoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer—

(a) i wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol achosion neu ddosbarthiadau o achosion, gwahanol ardaloedd neu at wahanol ddibenion;

(b) wneud darpariaeth wahanol yn gyffredinol neu yn ddarostyngedig i esemptiadau neu eithriadau penodedig neu mewn perthynas ag achosion penodol neu ddosbarthiadau o achosion yn unig;

(c) i wneud y gyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed ag y gwêl y person sy'n gwneud y gorchymyn neu'r rheoliadau yn dda.

(3) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'i gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) yn Rhan 1—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 2(1)(c), 3, 5(f), 6(3), 7(4), 8(f), 10(4)(d), 12(3)(d), 14(3), 20(7) neu 29(5);

(ii) rheoliadau a wneir o dan adran 19(2);

(b) yn Rhan 2—

(i) gorchymyn a wneir o dan adran 57(4), 59(3), 72, 80(5)(b)(i), 80(8) neu ~~81(4)~~;

(ii) rheoliadau a wneir o dan adran 75(5)b, 78(1), 80(2)(b), 80(2A)(b), 81(4), 81A(2)(b) ~~neu 86(1),~~ 86(1), 94B(2) neu 95(6). a rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 1 o Atodlen 2;

(c) yn Rhan 3, gorchymyn a wneir o dan adran 101 neu 109;

(d) yn y Rhan hon, rheoliadau a wneir o dan adran 144 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur

| | |
|---|---|
| neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys gorchymyn neu reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon ac eithrio gorchymyn a wneir o dan adran 40(7) yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>(5) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn a wneir o dan adran 80(5)(b)(ii) oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad—<br>(a) dau Dŷ'r Senedd, a<br>(b) Cynulliad Cenedlaethol Cymru.<br>(6) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 1 o Atodlen 2 oni bai bod drafft o'r offeryn statudol wedi ei osod gerbron dau Dŷ'r Senedd, a'i gymeradwyo ganddynt drwy benderfyniad.<br>(7) Nid yw'r adran hon yn gymwys i orchymyn a wneir o dan adran 145 (cychwyn). | |
| ATODLEN 2CYMHWYSTRA I DDERBYN CYMORTH O DAN BENNOD 2 O RAN 2<br>Personau nad ydynt yn gymwys i dderbyn cymorth<br>1(1)Nid yw person yn gymwys i dderbyn cymorth o dan adran 66, 68, ~~73~~ neu 75 os yw'n berson o dramor sydd yn anghymwys am gynhorthwy tai.<br>(2)Nid yw person sy'n ddarostyngedig i reolaeth fewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 yn gymwys am gynhorthwy tai oni bai bod y person hwnnw yn dod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru neu gan yr Ysgrifennydd Gwladol.<br>(3)Ni chaiff unrhyw berson a eithrir rhag hawlogaeth i gredyd cynhwysol neu fudd-dal tai gan adran 115 o Ddeddf | Atodlen 1, paragraff 3(20) |

| | |
|---|---|
| Mewnfudo a Lloches 1999 (eithrio rhag budd-daliadau) ei gynnwys mewn unrhyw ddosbarth a ragnodir o dan is-baragraff (2).<br><br>(4)Caiff Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu, drwy reoliadau, ar gyfer disgrifiadau eraill o bersonau sydd i'w trin fel personau o dramor sydd yn anghymwys i dderbyn cynhorthwy tai at ddiben Pennod 2 o Ran 2.<br><br>(5) Caiff person sy'n anghymwys i dderbyn cynhorthwy tai ei ddiystyru wrth benderfynu at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 a yw person sy'n dod o dan is-baragraff (6)—<br><br>(a)yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd~~, neu~~<br><br>~~(b) ag angen blaenoriaethol am lety.~~<br><br>(6) Mae person yn dod o fewn yr is-adran hon—<br><br>(a) os yw'r person yn dod o fewn dosbarth a ragnodir gan reoliadau a wneir o dan is-baragraff (2), a<br><br>**[F1**(b)os nad yw'r person yn berson a oedd, yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfned gweithredu—<br><br>(i)yn wladolyn un o wladwriaethau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, a<br><br>(ii)o fewn dosbarth a ragnodwyd gan reoliadau a wnaed o dan is-baragraff (2) a oedd yn effeithiol y pryd hwnnw.**]**<br><br>Ceiswyr lloches a'u dibynyddion: darpariaeth drosiannol<br><br>2(1)Hyd gychwyn diddymiad adran 186 o Ddeddf Tai 1996 (ceiswyr lloches a'u dibynyddion), mae'r adran honno yn gymwys i Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf hon fel y bo'n gymwys i Ran 7 o'r Ddeddf honno.<br><br>(2)At y diben hwn, yn adran 186 o Ddeddf Tai 1996—<br><br>(a) dehonglir y cyfeiriad at adran 185 o'r Ddeddf honno fel cyfeiriad at baragraff 1, a<br><br>(b) dehonglir y cyfeiriad at "this Part" fel cyfeiriad at Bennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf hon ac nid Rhan 7 o'r Deddf honno.<br><br>*Yr Ysgrifennydd Gwladol yn darparu gwybodaeth*<br><br>3(1)Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, ar gais awdurdod tai lleol, ddarparu'r gyfryw wybodaeth ag sy'n ofynnol gan yr awdurdod— | |

| | |
|---|---|
| (a) o ran a yw person yn berson y mae adran 115 o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999 (eithrio rhag budd-daliadau) yn gymwys iddo, a<br><br>(b)i alluogi'r awdurdod i benderfynu a yw'r cyfryw berson yn gymwys i dderbyn cymorth o dan Bennod 2 o Ran 2.<br><br>(2) Pan roddir yr wybodaeth honno ar unrhyw ffurf ac eithrio ffurf ysgrifenedig, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau'r wybodaeth honno yn ysgrifenedig os gwneir cais ysgrifenedig i'r Ysgrifennydd Gwladol gan yr awdurdod.<br><br>(3) Os yr ymddengys i'r Ysgrifennydd Gwladol bod unrhyw gais, penderfyniad neu newid arall mewn amgylchiadau wedi effeithio ar statws person y rhoddwyd gwybodaeth amdano yn flaenorol i awdurdod tai lleol o dan y paragraff hwn, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r awdurdod yn ysgrifenedig am y ffaith honno, y rheswm dros y ffaith a'r dyddiad y daeth yr wybodaeth flaenorol yn anghywir. | |

## Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) Act 2014

| Adran | Diwygiwyd gan |
|---|---|
| **108 Asesiadau a chynlluniau llwybr: trefniadau byw ôl-18**<br><br>(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 1 sydd wedi ei leoli gyda rhiant maeth awdurdod lleol gydymffurfio ag is-adran (2) wrth—<br><br>(a) cynnal asesiad mewn perthynas â'r person ifanc o dan adran 107(1),<br><br>(b) llunio a chynnal cynllun llwybr ar gyfer y person ifanc o dan adran 107(3), neu | Adran 23(2) |

(c) adolygu cynllun llwybr y person ifanc o dan adran 107(10).

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol ganfod a yw'r person ifanc a'i riant maeth awdurdod lleol yn dymuno gwneud trefniant byw ôl-18.

(3) Mae "trefniant byw ôl-18" yn drefniant—

(a) pan fo person ifanc categori 3—

(i) sydd o dan 21 oed, a

(ii) a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol pan gyrhaeddodd 18 oed ac a oedd, yn union cyn i'r gofal a ddarparwyd iddo ddod i ben, yn berson ifanc categori 1, a

(b) pan fo person ("cyn-riant maeth") a oedd yn rhiant maeth awdurdod lleol i'r person ifanc yn union cyn i'r gofal a ddarparwyd iddo ddod i ben, yn parhau i fyw gyda'i gilydd ar ôl i'r gofal a ddarparwyd i'r person ifanc ddod i ben.

(4) Pan fo'r person ifanc a'i riant maeth awdurdod lleol yn dymuno gwneud trefniant byw ôl-18, rhaid i'r awdurdod lleol cyfrifol ddarparu cyngor a chymorth arall er mwyn hwyluso'r trefniant.

(5) Nid yw is-adran (4) yn gymwys os yw'r awdurdod lleol cyfrifol o'r farn y byddai gwneud trefniant byw ôl-18 rhwng y person ifanc a'i riant maeth awdurdod lleol yn anghyson â llesiant y person ifanc.

(6) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) y personau y mae'n rhaid darparu gwybodaeth iddynt ynghylch trefniadau byw ôl-18;

(b) y modd y mae'n rhaid i'r wybodaeth honno gael ei darparu.

**108A Dyletswydd i sicrhau bod llety addas ar gael i bersonau sy'n gadael gofal**

(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys i—

(a) person ifanc categori 1;

(b) person ifanc categori 2;

(c) person ifanc categori 5;

| | |
|---|---|
| (d) person ifanc categori 6;<br><br>ac, yn achos person ifanc categori 1 neu berson ifanc categori 2, mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys i'r person ifanc (i'r graddau y mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol) ar ôl i'r person ifanc ddod yn berson ifanc categori 3.<br><br>(2) Os yw'n ofynnol i lesiant y person ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y person ifanc gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r person ifanc ei feddiannu—<br><br>(a) yn ystod y cyfnod o 3 blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod y mae'r person ifanc yn cyrraedd 18 oed, a<br><br>(b) mewn perthynas â pherson ifanc categori 3, yn ystod cyfnod dilynol pan fydd dyletswydd i'r person ifanc o dan adran 110.<br><br>(3) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (4) yn gymwys i—<br><br>(a) person ifanc categori 3;<br><br>(b) person ifanc categori 4;<br><br>(c) person ifanc categori 5 sy'n cael addysg bellach neu uwch lawn amser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 114(3);<br><br>(d) person ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 5 sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 114(5)<br><br>(e) person ifanc categori 6 yn rhinwedd adran 104(3)(a) sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 115(4);<br><br>(f) person ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 6 yn rhinwedd adran 104(3)(a) sy'n cael addysg bellach neu uwch lawnamser ac y caiff yr awdurdod cyfrifol roi cymorth iddo o dan adran 115(6);<br><br>ac mae'r ddyletswydd yn parhau i fod yn gymwys i'r person ifanc (i'r graddau y mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol) ar ôl i'r person ifanc beidio â dod o fewn unrhyw un o baragraffau (a) i (f).<br><br>(4) Os yw'n ofynnol i lesiant y person ifanc, rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y person ifanc gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i'r person ifanc ei feddiannu yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r canlynol — | |

| | |
|---|---|
| a) mewn perthynas â pherson ifanc categori 3, y diwrnod y mae dyletswydd yr awdurdod i'r person ifanc o dan adran 110 yn dod i ben;<br><br>(b) mewn perthynas â pherson ifanc categori 4, y diwrnod y mae dyletswydd yr awdurdod i'r person ifanc o dan adran 112 yn dod i ben;<br><br>(c) mewn perthynas â pherson ifanc categori 5, y diwrnod y mae'r addysg bellach neu uwch, y mae'n bosibl bod cymorth o dan adran 114(3) ei roi mewn cysylltiad â hi, yn dod i ben;<br><br>(d) mewn perthynas â pherson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 5, y diwrnod y mae'r addysg bellach neu uwch, y mae'n bosibl bod cymorth o dan adran 114(5) wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yn dod i ben;<br><br>(e) mewn perthynas â pherson ifanc categori 6, y diwrnod y mae'r addysg bellach neu uwch, y mae'n bosibl bod cymorth o dan adran 115(4) wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yn dod i ben;<br><br>(f) mewn perthynas â pherson ifanc a fu gynt yn berson ifanc categori 6, y diwrnod y mae'r addysg bellach neu uwch, y mae'n bosibl bod cymorth o dan adran 115(6) wedi ei roi mewn cysylltiad â hi, yn dod i ben.<br><br>(5) Ni chaniateir ystyried bod llety ar gael i berson ifanc ei feddiannu at ddiben yr adran hon ond os yw ar gael i'r person ifanc hwnnw ei feddiannu ynghyd ag unrhyw berson arall y gellid disgwyl yn rhesymol iddo breswylio gyda'r person ifanc<br><br>6) Mae unrhyw amhariad ar raglen addysg neu hyfforddiant y mae person ifanc yn ei dilyn i'w ddiystyru at ddiben is-adrannau (3) a (4) os yw'r awdurdod lleol cyfrifol wedi ei fodloni y bydd y person ifanc yn ailgydio yn y rhaglen cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. | |
| **109 Cymorth ar gyfer pobl ifanc categori 2**<br><br>(1) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am berson ifanc categori 2 ddiogelu a hyrwyddo llesiant y person hwnnw ac, oni chaiff ei fodloni nad yw'n ofynnol i lesiant y person, cynorthwyo'r person drwy—<br><br>(a) cynnal y person,<br><br>(b) darparu llety addas i'r person, neu ei gynnal mewn llety o'r fath, ac<br><br>(c) darparu cymorth o unrhyw ddisgrifiadau eraill a bennir mewn rheoliadau. | Adran 23(3) |

| | |
|---|---|
| (2) Caiff cymorth o dan is-adran (1) fod ar ffurf da neu mewn arian parod.<br>~~(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ystyr "llety addas" ac yn benodol ynghylch addasrwydd landlordiaid neu ddarparwyr llety eraill.~~<br>(4) Mae adran 78(3) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw benderfyniad gan awdurdod lleol at ddibenion yr adran hon fel y bo'n gymwys mewn perthynas â phenderfyniadau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran honno. | |
| **109A Ystyr llety addas**<br>(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch ystyr "llety addas" at ddibenion adrannau 108A a 109.<br>(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) wneud darpariaeth drwy gyfeirio at—<br>(a) unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'r llety, gan gynnwys (ymysg pethau eraill)—<br>(i) addasrwydd darparwyr llety;<br>(ii) yr amodau meddiannu;<br>(iii)natur neu safon llety;<br>(iv) lleoliad llety;<br>(b) nodweddion neu amgylchiadau personol person ifanc y mae adran 108A neu 109 yn gymwys iddo neu unrhyw berson y gellid disgwyl yn rhesymol i'r person ifanc breswylio gydag ef. | Adran 23(4) |
| **Yn Atodlen 2,—**<br>~~Deddf Tai (Cymru) Housing (Wales) 2014~~ — ~~Cydweithredu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phersonau digartref a phersonau sydd o dan fygythiad o gael eu gwneud yn ddigartref.~~<br>~~Adran 95(2),(3) a (4); ond dim ond pan fo'r swyddogaethau hynny'n gymwys yn rhinwedd is-adran (5)(b) o'r adran honno.~~<br>TABL 1 Deddf Tai (Cymru) 2014 — Dyletswydd i ofyn a yw person yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd a dyletswydd i weithredu<br>Adran 94A, i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau | Atodlen 1 paragraff 2(2) |

| | | |
|---|---|---|
| awdurdod cyhoeddus penodedig yn rhinwedd adran 94B(1)(a);<br><br>Adran 95 i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eraill. | pan fo person yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd<br><br>Cydweithredu a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â phersonau digartref â phersonau sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. | |